PANTHEOLOGIA,

Henry NEU Robert

Hanes holl Grefyddau'r Byd;

Tuwch law Sef y Grefydd 'r Coed

BAGANAIDD y FAHOMETANAIDD,

Yr

IDDEWIG a'r GRIST'NOGOL;

Yr hon ſydd yn cynnwys y tair Canghen, Eglwys *Rufain*, Eglwys *Groeg*, yr Eglwys *Brotеſtanaidd*, ynghyd ac amryw Sectau ymhob un o'r rhain.

At ba un y chwanegwyd

Nodau yn rhoi Haneſion am amrywiol jawn o Wledydd yn *Europe*, *Aſia*, *Africa*, ac *America*; eu Sefyllfa, eu Marſiandaeth, eu Ehangder, ynghyd a Moeſau, Dyſgc, Arferion, Ymborth, a dull Gwiſgoedd, a threſn Bywyd, eu Trigolion;

Wedi eu dynnu allan o'r Awdwyr diweddaraf, Gorau, a Chyweiriaf.

Gan W. WILLIAMS.
Gweinidog o Eglwys Lorgr.

CAERFYRDDIN:
Argraphwyd gan Ev. a Dav. Powell, yn *Heol-y-Prior*, yn y Flwyddyn 1762. Lle gellir cael Argraphu pob math o Lyfrau *Cymraeg* a *Saeſnaeg*, at Lythyren Newydd am brys Gweddaidd.


BRITISH MUSEUM

Y

RHAGYMADRODD.

DIſgwylir gennyf ar ol yr erſer Gyffredin i Ragymadroddi rhyw ychydig am Burpas y Gwaith canlynol; yn enwedig am ei fod o Natur anghyffredin a dieithr jawn ymhlith y Llyfrau a gyfanſoddwyd i'r Gymro-aeg hyd Heddyw.---Mae anwybodaeth y Cymru nid yn unig yn ddigon abl i amddiffyn, ond hefyd i annog y fath Waith a hyn, os gellir gwneuthur yn oleu nad yw Anwybodaeth yn Fam Crefydd. Ond pwy bynna yſtyrio nad oes Ardal o fewn Europe (os guyr Cymru un-jaith pa beth yw Europe) a chyn lleied Llyfrau Hamſion Gwlad ac Eglwys ynddi, yn eu Jaith eu hunain ag ſydd yng Nghymru, nis gall lai na gweld yr eiſiau o hwn. O'r holl Gelfyddudau ag y mae Gwledydd eraill yn ei aſtudio, ac wedi dyfod i Berffeithrwydd mawr ynddynt, nid oes brin Lyfr yn Gymraeg ac ſydd yn dangos pa beth yw un o'r Celfyddudau hyn. A phan y b'o Dyn un-jaith yn clywaid ſon am y Geiriau, Philoſophy, y Mathematics, Geography a'r cyfryw, prin y tybia nad Geiriau o Ddewiniaeth ydynt. Hefyd pa ryw anfawntais fawr mewn pethau Crefyddol yw, bod Dynion heb weld na dárllain am un Drefn, Arfer, Moeſau, Opiniwn, Barn, Egwyddor, na Ceremoniau Addoliad, ond yn unig yr hyn ſydd ganthynt yn Nhre; pa'm ymau y mae cymmaint o Ragfarn, Sêl bartiol, a Bigottry, mewn Dynion anwybodus ynghylch y Dull allanol o Addoliad, ond am na

welſont ac na ddarllenaſant am un ffurf arall ond yr hon a welſant yng Nghyn'lleidfaoedd eu Teidau; yr hen a gymeraſant i fynu yn unig ar eu Gair huynt, heb chwilio pa un a'i hi oedd yr orau neu yntau nad'e.

Yr oedd miloedd o Broffeſwyr cyn y diwigiad diweddaf *mor anwybodus, fel nas gwyddent fod un Grefydd yn y Byd ond y* Cwhwrdd *a'r* Eglwys, *ſef* Preſbiteriaid, *ac* Eglwys Loegr. *Ac er nad oes ond o ddautu dau cant o Flynyddau er pan dioddefodd ein Teidau tan orthrymder* y Jau Babaidd, *etto nid oes gan lawer Dyn unjaith y nawr wybodaeth pa beth yn y Byd yw* Papiſt, *ond yn unig ei fod yn tybiaid mae Dyn yw efe; ond pa un a'i yn lliw ei Wyneb, ei faith, ei Ddugiad i fynu, neu ei Grefydd y mae ef yn gwahanu oddi wrth Ddynion eraill nis gwyr efe. Tyb y* Cymro *anwybodus am* Iddew, *mae Dyn mwy melldigedig ac ofnadwy na Dynion eraill yw, ond nid yw yn Meddwl llai, nad yw efe yn eredu yng* NGHRIST *cyflaf ac ynef, ac yn credu y ddau* Deſtament *y naill fel y llall. Y farn gyffredin am* Dwrc, *neu* Fahometan, *mae Dyn yw, yn ei Wlad ei hun ag ſydd yn rhoi'r Criſtnogion yn y Gweddau i aredig eu Tir, a'u porthi eilwaith, ac yna eu bwytta fel Bara beunyddiol; heb ddeall fod y gwahaniaeth rhyngom ni a hwynt yn unig yn gynhwyſedig mewn Egyddorion Crefydd. Pe baed yn adrodd am* y Dywigiad yn Lloegr *oddi wrth* y Grefydd Babaidd *i lawer Dyn, nis gwyr lai nad oedd hyn o gyfnewid mor hen ag oedd amſer* Moſes, *miloedd o Bobl ſydd wedi dyfgu darllain* Cymraeg, *ac nas gwyddant lai nad* yn Gymraeg *lan loew* y *'Scryſennwyd* y Bibl *gynta erioed. Mor anwybodus eilwaith mewn Haneſion* Gwledydd *ac* Ardaloedd y Byd *mae Dynion un-jaith, ag nas gwyddant o ba Wlad* y *mae'r Buyd a fwyttant* y *Ddiod a ufant a'r Dillad a wiſgant* yn *dyfod; pa un a'i ar Goed, ar Grwyn Anifeiliaid, neu o Gr en* y *Ddaear* y *tyfaſit, neu eſgyn i lawr o'r Awyr a wnaethant mewn rhyw Wlad neu gilydd. Pe d'wedyd wrthynt am* y Grand Seignior, y Mogul *neu ryw rai eraill o* Ymerawdwyr y Byd, *nis gwyddant lai nad rhung yma a* Llundain *mae'r cyfryw rai* yn *Teyrnaſſu; beth os ffeindir anrhyw o Bobl o Oedran ar hyd* Gymru *nas gwyddant*

pwy

pwy yw *Brenhin* Scotland *ac* Iwerddon, *neu pa un neſſa yma* yw Ffra ngc *neu* America.

Yr anwybodaeth hyn ſydd nid yn unig yn anfawnteiſiol jawn mewn pethau Gwladaidd, ond hefyd yn *foddion cryf i oſod* yr *anllythrennog i lynu wrth* Ffurf, Opiniwn, Diſgybliaeth, *a* Sect, *gan dybiaid nad oes o'i chyffelib hi* yn y *Byd mawr o ddaiutu.*

Mae Juſtinus *Ymneullduwr diſgl o farn;* yn *oxedu na ddyleu neb i fyned i* Eglwys Loegr *ar un achos ond i'w Briodi ac hefyd i'w Gladdu; os gfyr neb i* Juſtinus *pam y mae ef mor greulon* yn *erbyn* yr *Addoliad yno? Ie ettyb am fod ei Dad felly, ac am fod* yr Offeiriad yn *gwiſgo Lliain gwyn tros ei Ddillad, ac* yn *darllain ei Weddiau: ac 'fe feddyliodd* Juſtinus, *nad oes neb* yn *gweddio trwy 'r Bŷd o'i Llyfrau ond Gwyr* Eglwys Loegr; *ond ni aſtudiodd ef ericed pa wahaniaeth ſydd rhwng ffurf mewn Llyfr a ffurf allan o Lyfr, rhwng Plentyn* yn *dweud ei Wers* yn y *Llyfr, ac arall wedi ei dyſgu i maes: ac* y *mae* Juſtinus *mor Galon gyfan, mor hunan gyfiawn, ac mor jach, fel os darfu iddo gadw rhag beiau cyhsedd, a gallu dal ffurf Gweddi deuluaidd, nid oes arno ofal mwy am ei Gyffuwr; er eito nas credodd* yng NGHRIST, *nas cod dd ei Groes, ac nad ymwadodd ac ef ei hun. Mae* Ignorandus *o hono yntef, Gwr gwneſt o* Eglwys Loegr, *(medd ef) er nas gwyr pa beth yw* Eglwys Loegr, *ei Heguydd rien, na'i Dyſgybliaeth na pha un a'i cyn y Dwr Dilyw neu awrdyn y ſylfaenwyd hi; mor ffiaidd gantho ymneullduwr a Diafol, nid cymmaint medd ef am un achos ac am ei fod* yn *ymneullduwr, er nas gwyr ef oddi wrth ba beth yr ymneullduedd efe, ac am ei Henafiaid ef fod* yn *achlyſur o* dorri pen rhyw Frenhin, mewn rhyw Wlâd neu gilydd, ryw amſeroedd aeth heibio; ac am hynny yn haeru na ddyleu un Enwfod arno byth mwy ond *Pengrwn,* Gair mae ef yn dybied ſydd yn arwyddocau Cythraul pared, Mae *Cæcus* o hono yntef *Papiſt* defoſionol yn gwneud llawer jawn o Eluſenni, ac hefyd wedi adeuliadu rhai Eglwyſydd, a phorthi llawer o Offeiriaid, wedi rhoi Swmmau mawrion i *Fenachlogydd,* a *Gwyryſ-dai,* wedi dweud llawer

mil o *Fedau*, *Ave Marias*, a *Litanis* yn ei oes; ac nid yw yn cweſtiwno llai nad â i'r Nêf, os yn unigy gall ef adel o'i ôl ſwm fawr o Arian i ddweud maſſau i'w dynnu ef allan o'r Purdan; ond y mae ef yn meddwl o'i holl Weithredoedd da, nad oes yr un o honynt mor haeddiannol i bwrcaſſu Bywyd Tragywyddol a llâdd *Proteſtant*, neu *Heretic*; os gofynnir iddo pa beth yw *Heretic*, 'ſe ettyb mae un ſy'n darllain y Bibl yn *Gymr'aeg* neu yn *Saeſnaeg* yw; Mae *Cæcus* yn credu yr un peth a'r Eglwys Sanctaidd, er na feddyliodd ef ymholi pwy yw yr Eglwys Sanctaidd honno, na pha Egwyddorion y mae hi yn ei gredu. Mae *Moderatus* o hono yntef o'r tu arall mor ganolig am bob rhyw *Sectau* fel y mae gantho Farn dda am bawb, ac yn rhyfeddu pam y mae cymmaint o ymdynnu yn ei chylch hi; ei Air eyffredin ef yw, os gallwn ni gadw'r Gorchymynion gobeithio y gallwn wneud o'r gorau, er mae'r peth lleia y mae ef yn ei aſtudio yw hynny; nis gwyr efe wahaniaethu rhwng Arhrawiaeth ac Athrawiaeth, ond bod y waetha yn well nag y mae neb yn ei wneuthur ar ei hôl hi; yr hyn feddyliau tywyll yn *Juſtinus*, *Ignorandus*, *Cæcus*, a *Moderatus* ſydd yn gwneud yn eglur, fod diffyg Gwybodaeth o'r Yſgrythurau, o Egwyddorion Crefydd, o Hanefion Eglwyſig, o Ddiwigiadau, o Gyfeiliornadau, o Hereſiau, Opiniwnau, Sectau, Diſgybliaethau ymhob oes, yn atteg gref i ddal i fynu, nid yn unig Deyrnas Anghriſt yn y Bŷd, ond heſyd Sêl bartiol, Rhagfarn, Anghariad, Hunan-dŷb, Hunan-ymorphwyſiad, mewn gwir eglwyfi.

Mirandus ſydd Eſampl hynod o'r Daioni i Greda-dyn i gael ei drafod trwy amryw gyflyrau, trafaelio ymhell, a gweld aneiryf Opiniwnau, a thymherau Eglwyſydd, yr hwn oedd Ddyn bywiog i bechu yn y Dyddiau gynt, ac yn agos o fod yn Feiſtr a'r holl ddichellion anwiredd; fe i hargyhoeddwyd ef yn ddwfn jawn fel mae prin y cadwodd ef ei holl Ddealltwriaethau mewn trefn, ond ar ôl bod dro tan anobaith, diſgleiriodd a:no Lewyrch Goleu:,

y Gair, a'r Diddanwch ſydd trwy gredu, daeth ei Ffŷdd, ei Gyſſur, a'i Lawenydd gymmaint a'i ofn a'i anobaith o'r blaen; Flynyddau y bu ef yn mwynhau Cariad, Heddwch, a Gorfoledd, nes o'r diwedd i'r Hâf-Ddydd yma i fagu o'i fewn ef amryw Bryfed gwenwynig a dinyſtriol, a chariad at rai pleſſerau Anghyfraithlon, nes halogi ei gydwybod a themptio Duw i roi ef ynu i Dywyllwch, Anghrediniaeth, a Sychdwr: nid oedd gan *Firandus* y nawr ond arferyd pob moddion Grâs, a gadel yr ARGLWYDD i gyfrannu'r Fendith yn ei bryd ei hun, 'fe lynodd wrth ddârllain yr Yſgrythurau, gan ddaroſtwng yn fynych ar ei Liniau am Fendith arnynt; 'fe ddârllenodd amryw jawn o Lyfrau Difeinyddiaeth, yr Awdwyr goraŭ a mwya bywiol, 'fe deithiodd ymhell o Dre, i ymddiddan a'r Saint o bob Enw, i glywed y Gweinidogion mwya hynod a glywfai ſôn am danynt, i weled llwyddiant y Gair, ac i gael gwell adnabyddiaeth o dymherau a doniau'r Eglwyſi; ac wrth ymofyn am y pethau hyn, digwyddodd iddo gwrddyd ac amryw Egwyddorion, ffurfjau, a Ceremoniau addoliad, Dynion o amryw brofedigaethau a ſefyllfeidd yn y Byd; ond trwy bob moddion fel hyn, 'ſe dewynodd yr ARGLWYDD drachefn ar Enaid *Mirandus* a'r mwynhâd olâf hyn oedd yn rhagori ar ddim ar a gafodd ef yn y Dyddjau o'r blaen. Mae ef y nawr [wedi ei bwnnian gan Brofedigaethau, ei arwain trwy bob Tymherau, teimlo amryw Raglyniaethau, clywed anneirif Athrawiaethau. Cwrddyd ac Eglwyſydd a Seintiau o wahanol Oleuni, pwyſo amryw Gyfeiliornadau,] mae *Mirandus* y nawr meddaf, yn Seren yn y Wlad lle mae ef, yn *Lamp* yn yr Eglwys, yn *Ben* addas a chymmwys i'w Deulu, yn *Gyfarwyddwr* i'r Dâll, yn *Nerth* i'r Gwan, yn *Gymmorth* i'r Lleſg, ac yn *Oleuni* i'r Anwybodus; nid yw ef byth yn ddadleugar am *Byngciau'r Ffydd*, ei awydd ef yw profi pob Gwirioned yn ei Enaid, ei gyfeillion pennaf ef bob amſer yw y rhai ſy'n profi Egwyddorion Crefydd yn eu Calonnau; Mae ef o Farn

gariadus jawn at y rhai nad yw yn dal yr un *Pwngciau Ffŷdd* ac ef ei hun, os caiff ond lle i gredu eu bod yn caru, ac am dderchafu *Jachawdwr* y *Bŷd* trwy holl Gorph eu Crefydd; nid oes gantho *Sel bartiel* o lynu wrth un mâth o *Dreſn Eglwyſig*, nag un Weinidogaeth mewn ffordd o ddiyſtyru arall; mae yn tynnu Mêl o bob Llyſeuyn, ac yn 'mofyn ei Ymborth mewn llawer o Farch'nadoedd, mae ef yn rhydd i gymuno gyda Dynion Duwiol mewn amryw fannau, er na b'ont o'r un ffurf Eglwyſig ag ef ei hun. Yn fyrr mae ef yn dyner, yn aeddfwyn, yn gymmwynnaſgar, yn faddeugar, yn hawdd ei ddrin, yn haelionus, yn gymhedrol, yn oſtyngedig, ac yn waſtad a rhyw Law gantho i wthio Gwaith yr Efengyl dragywyddol yn y blaen. Y profedigaethau a'r amryw droeadau ddaeth i gyfarfod *Mirandus* wnaeth iddo olrhain i wraidd *Athrawiaethau*, *Cyfeiliornadau*, a *Thymherau* Dynjon, a hyn fy ſel moddion gan yr ARGLWYDD i ennyn ei ail ddawn ynddo, ac i roi ef i ddiſgleirio yn y grafuſau rhagddywededig. Ac os nas caiff y Llyfr hwn ddim o'r Effeithiau gafodd darllain a thrafaelio a'r Yfpryd *Mirandus*, etto os caiff neb yma wrth ddarllain am yr amryw Grefyddau a Sectau trwy'r Bŷd, a hynny ymhlith myrddiwnau o Ddynion deallus, doeth, a dyſgedig, yr adeiliadaeth hyn mawr yw. ſef 1. I weld nad oes ond Grâs rhâd Duw yn unig ddaw a Dynion o gyfeiliorni eu ffyrdd, pe buaſai Goleuni, Natur, Dyſg, a Dûgiad da yn gwneud y tro, ni buaſai amryw o Ardaloedd *Europe* ddim c'yd dan dywyllwch y *Grefydd Babaidd*, a'r *Fahometanaidd*; ac ni buaſau brif Yſgolion y Bŷd ddim c'yd heb ddyfod i adnabod un Duw yn unig. Mae'r fath Haneſion ag ſydd yma dybygid yn ddigon i roi'r darllenydd i weld nad oes ond gallu Duw, ac amſer Duw, a ddaw a Dŷn neu Genedl i gredu YNGHRIST, ac yn 2. I weld nad oes ond prawf o Wirionedd Crefydd yn y Dŷn o mewn, a wna'r tro i ddal allan yn y Dŵr, a'r Tân, aneirif wrthnebiadau y Bŷd, a'r Cnawd, a'r Diafol; nad yw holl reſymmau ag y mae Yſgol-

heigion

heigion y Bŷd yn ei gaſglu ynghyd i broſi mae *Criſt* yw y gwir *Feſſiah*, ddim digon i ddal yr Enaid i ſynu yn Nŷdd Profedigaeth, nag i lynu wrtho yng nghanol y ffiammiau. 3*d*. F'alle gall y fâth Haneſion ſydd yma fod yn fuddiol i rai i ſychedu am Yſpryd Crefydd, ac i bwyſo llai ar yr ymarferiadau, allanol o honi, yr hyn nad yw mewn cydmariaeth yn fuddiol ond i ychydig; ac os nas gwna un o'r gorchwylion hyn, 'fe wna fwy na gwerth a dalwyd am dano, i roi rhai i ymarferyd mwy a darllain Cymraeg, wrth chwennych clywaid rhyw newyddion bethau, ac o boſſibl i ddyfod a hwynt i'r rhwyd i ddarllain Llyfrau fyddo yn taro yn nes at gyflwr eu Heneidiau ar ôl Llaw. Bellach anghenrhaid i mi ddweud ychydig am yr Hanes galynol, ſef i'm wneud fy ngorau am ei bod hi oll yn wîr, pa faint ſydd o honi yn anghywir (os oes dim) Duw a'i gwyr nis gwn ni, ond mae peth anodd jawn, ac anarferol jawn yw, cael Haneſion am Oeſoedd mor bell eu gyd yn ddi wrthadl; yma wrth olrhain y *Grefydd Baganaidd*, Mi dynnais allan o amryw jawn o'r Awdwyr gorau ag allais I gael gafel ynddynt, y pethau mwya buddiol a mwya rhyfedd i'r anyſgedig, os oes Awdwyr mwy diweddar wedi 'ſcrifennu; naill a'i fy Annwybodaeth o honynt, neu anghyfleuſtra i'w cael, oedd yr achos y buais mewn diffyg o honynt. Eilwaith wrth ddeſcreifio 'r *Grefydd Fahometanaidd*, mi wnes fy ngorau na wnawn ddim cam a *Mahometaniaeth* ei hunan, yr hon ſydd yn cael ei goſod allan gan rai yſgrifenwyr yn anghywir ac yn anoneſt, yn fwy digryf diſylwedd ac anrhefnus pe bae boſſibl nag yw hi, yn fwy creulon ac erledigaethus i grift'nogion nag mewn gwirionedd y mae hi. Ac o'r tu arall nis cyddiais ddim o'r holl dwyll a'r cyfeiliornad ſydd ynddi o'r pen bw'i gilydd, mewn Egwyddorion ac arferiadau o'i dechreuad hyd at ei Pherffeithrwydd.

Ac am y Grefydd *Iddewig* mi tynnais allan o'r Haneſwyr gorau ag ellais gael; Hyſtori Dr. *Prideux*, a *Byrhad* y Dr. *Watts* arno, roddod i mi gyn-

gynhorthwy mawr i ofod allan Hanes yr *Iddewon* tros 500, o Flynyddau. Rhwng yr hen *Deſtament* a'r *Newydd* gorfu arnai ddilyn rhan fawr o *Joſephus* wrth olrhain Dinyſtr *Jeruſalem*, a gwnes fy ngorau yno hefyd am dynu allan o hono yr hyn oedd fwya tybygol o fod yn wir, a gadel yn ôl y Cwbl ag y fae yn ddianghenraid wrtho neu fae lle i wrthadlu am ei wirionedd. Ond am y Grefydd *Babaidd* a'r *Diwigiad o honi*, nid oedd fawr le i mi gael fy nhwyllo am eu bod nid yn unig yn Gartrefu yn agos attaf, ond bod cynnifer o gannoedd o Lyfrau pe bai amſer i'w darllain yn rhoi Hanes cywyr o Egwyddorion y naill a'r llall----Am Ddechreuad cyntaf y *Dywigiad* a'r *Diwigwyr* cyntaf o ddantu 300 *neu* 400 aeth heibio, yr oedd genni amryw Awdwyr goneſt a Duwiol i'm cyfarwyddo yn yr Hanes megis *Clark. Fox, Millar, Bonnet Knox*, ac erailli

Pwy bynnag ſo yn ammau nad yw Dynion mor annwybodus ac mor llawn bartiol mewn Sêl ag y dwedpwyd uchod, nis ceiſiaf gan y cyfryw i dreulio Blynyddau lawer i deithio Mynydd-dir Gwynedd a Deheudir lle mae'r Trigolion mewn rhai mannau 6 neu 7 Milldir oddi wrth Eglwyfydd eu Plwyfau, ac mor bell hefyd oddi wrth bob cyfleuſdra i gymdeithiaſu a Gwyr llyth'rennog; nis ceiſiaf ganddo meddaf i chwilio holl Ardaloedd *Plinlimon*, Creigydd yr *Erruri*, Trefydd *Mon*, *Dimbych*, a *Charnarfon*, i gael prawf o'r faeth annwybodaeth, nag y chwaith i gael prawf o'r Zêl bartiol i chwilio Cynlleidfaodd ac y mae eu Haulodeu wedi cael eu magu a'u dyſgu i fynu o Dad i Fab er oeſoedd pell fel Gwr mewn Creft, yn Egwyddorion a Dyſgubliaeth y Sect hono, heb gael y fawntais o chwilio Egwyddorion un arall; ond yn unig chwilied a holed y cyfryw un ei Gymydogion anllyth'rennog, a'i Deulu ei hun yn fanol, ac falle yn ei Wlâd neu Ddinas ei hun, wrth gymmeryd ychydig Boen y daw ef o'i anfodd i fod yr un farn a'r Awdwr.

Bellach

Bellach byddwch wych os oes yma rai pethau yn yn rhy fyrr, rhai perhau rhy hir, neu rai pethau yn eiſiau ac ydych yn ddiſgwyl Gyſarfod a hwynt dyſgwch faddeu, ac yno byddwch yn nes o gael Daioni oddi wrth yr hyn ſydd yma.

Eich ufudd Waſanaethwr

W. WILLIAMS.

PANTHEOLOGIA,

NEU

Hanes holl Grefyddau'r Byd.

Y Rhan a'r Bennod I.

Dyſg, Doniau, ac ymdaith Apodemus *mewn Gwledydd pell yn cael ei ddeſgreifio*----Euſebius *a'i auydd i wybod, yn cael ei oſod allan yntef*---*Eu cyfarfod ymhen Amſer mawr, a'i hymddiddan am Raglyniaeth, am y mawnteiſion o Haneſion Crefyddol, am Baganiaeth yn* Caffraria, *yn* Negroeland, Guinea, *ac amryw Ardaloedd eraill o* Africa.

APodemus ac Eusebius oeddent Gyfeillion anwyl yn Nyddjau eu Jeuengctyd, yn rhodio yn nghyd, ac yn cadw Dyddiau a Noſweithiau hirion i ymddiddan am achoſion Crefydd, yr Athrawjaethau mawrion o anfarwoldeb yr Enaid, cwymp Dyn a'i Drueni, y Jachawdwriaeth ogoneddus yng Nghrist, a'r Farn a fydd; a rhai prydiau troent eu Meddyliau hefyd i chwedleua am yr amrywiol farnau ac opiniwnau ag

oeſ

oedd Crefyddwyr wedi eu Cenhedlu o Lythyren yr Yſgrythurau, ac am yr achos o amryw Hereſiau i godi yn y Bŷd.

APODEMUS oedd Wr o lawer o ddyſg, wedi aſtudio nid yn unig y Jaethoedd, ond hefyd wedi myn'd tros Syſtem o Ddifnyddiaeth ac wedi rhoi amſer mawr mewn Haneſion Eglwyſig a Phaganaidd; ac ef yn Wr Cyfoethog, chwant a enynodd ynddo i drafaelio i barthau pell y Bŷd, nid i gaſglu Cyfoeth, ac i ennill anrhydedd trancedig iddo ei hun, ond er ymhelaethu ei Synhwyrau, a ſefydlu ei Yſpryd yn wêll yn achoſion Crefydd; am hynny nis bodlonodd ei hun a chymmaint ag a glywodd ac a ddarllenodd Gartref, ond dechreuodd ei Daith trwy'r holl Wledydd tramor; gwnaeth ei hunan yn gydnabyddus a Phroteſtaniaid o bob Enw, mynnodd weled eithaf dirgelwch y goel Grefydd Babaidd, Eglwys Groeg, a'r ffŷdd Fahometanaidd; 'ſe groeſodd y Gyhydedd rai gweithiau, ac a deithiodd ran fawr o Dîr y Dwyrain, nes cael golwg ar Grefydd y *Perſiaid*, y *Bramiaid*, y *Sabiaid*, ac a ganlynodd DRAKE, ANSON, a CHOLUMBUS i'r Gorllewin, i gael golwg ar y Bŷd newydd, yr Eilyn addoliaeth a'r Tywyllwch ſydd tan oſtyngiad yr Haul, y Gwledydd na thywynodd yr Eſengyl ynthynt hyd yr hwyr; 'ſe deithiodd ran fawr o *Affric* boeth, ac ni orphwyſodd nes cael gweled eu Dyſg a'u Heilyn-addoliaeth, 'ſe drafaeliodd trwy holl ymdaith yr Apoſtolion, yr Ardaloedd ehang y planwyd yr Eſengyl gyntaf ynddynt, nes gwneud ei hun yn hollol gyfarwydd o gyfeiliornadau y rhan hono o'r Bŷd; 'ſe gyfarfu ac *Iddewon* ymhob ardal trwy ba rai y gwnaeth eu hun yn gyfan hyddyſg yn eu Arhoelion hwy.

Ond EUSEBIUS oedd o dymmer arall, nid aeth eſe erioed yn heppell o'i Ddinas ei hun, ond eito yn defnyddio ei amſer yn fanol am Wybodaeth, trwy ddarllen amryw Lyfrau yn enwedig yr Yſgrythur lân gan weddïo am deimlo eu gwirioneddau hi o'i fewn, ond yn waſtadol byddai fawr flŷs ganddo i bob Haneſion cywir ac fae yn rhoi Golemi

gweld

gwell i Lythyren y Bibl, yn agor Cyffelibiaethau yr hên Destament a'r newydd, neu yntau a roi iddo ddeall gwell i wraidd yr aneirif gyfeiliornadau tuwy'r holl Fŷd.

APODEMUS fu Flynyddau hirion o Gartref, nes i'r rhan fwyaf o'i Gymmydogion i'w anghofio ef, tan dybied erbyn hyn, ei fod naill a'i wedi ei lyngcu gan y Môr, neu gwympo yn yſglyfaeth i Angau mewn rhyw fan arall, a'i fod yn awr yn pydru yn y Llŵch; ond EUSEBIUS oedd Gartref yn Jach, ond heb chwilio allan y fâth gyfaill ag APODEMUS, un o'r fâth Oleuni i agor iddo rannau tywyll yr Yſgrythur, nag un o ddyfais mor fuan i ffeindio allan Lythyren ac Yſpryd y Bibl. ond fel yr oedd efe ar Ddiwrnod yn hiraethu am, ac yn dymuno gweled APODEMUS, 'fe ochneidiodd allan yn chwerder ei Enaid, O! na bae fy hên gyfaill APODEMUS yn nawr yn fyw, a chael mwynhâu ei Gymdeithias ef etto unwaith, i ſiarad am yr amrywiol bethau ſydd yn gwaſgu ar fy Yſpryd, ni feddaf un o'r cyffelib feddwl iddo, 'fe ddattodai fil o'm Llyffetheiriau, ac a wnai y Pethau tywyll yn oleu fel cynt; ond y mae ef yr awrhon yn gwir fwynhau yr hyn nad wyf fi ond ei weled o bêll, ac mi af atto ef, ond ni ddaw ef attaf fi.

Ac EUSEBIUS yn myfyrio fel hyn, rhedodd newydd i'w Gluſtiau ef, fod APODEMUS wedi dyfod adref, i wirio'r hên ddihareb wedi treiglo pob lle, gwych yw edrych tu ag adre; ond mor anhebygol y newydd gan EUSEBIUS ag oedd gan yr Apoſtolion gredu fod PEDER o'r carchar yn curo wrth y Drŵs; ond ar ôl cael eu ficcrhau fe redodd i'w reſſo ef adre, gan ei annerch fel hyn.

APODEMUS anwylaf un! a welai dy Wyneb etto un waith tu yma i Angau, dyma'r funud gyntaf er's deng-mlynedd y credais dy fod yn fyw, os APODEMUS ei hun wyt ti,-----byw etto wedi teithio'r Bŷd yn grwn! Mi glywais dy fod ar Foroedd pell yr *India*, a Thiroedd y Gorllewin, a chyn hyn o boſſibl yn eithaf y Ddaear; etto myfi yma yn clywed dy

Lais a gweled dy Wêdd (er nad yw dy Lais na dy Wêdd fel cynt) peth rhyfedd yw.

APO. Mi fues ymhell, ond grŷm Rhaglyniaeth a'm cadwodd; an un peth i Raglyniaeth gadw yn fyw a'r Fôr ac ar Dîr, Gartref, ac oddi Cartref, yn y Cyfyngder mwyaf, ac yn yr Ehangder mwyaf, nid oedd ond ei Air yn cadw *Jonah* ar y Môr, *Daniel* yn y Ffau, y *Llangciau* yn y Ffwrn, a'i Air ef yn unig all dy gadw dithau pan b'oft yn rhodio yn dy Rodfeidd, cyfgu yn dy Welu, eiftedd wrth dy Fwrdd.

EUS. 'Rwyf yn addef hynny, er bod lleoedd, cyflyrau, a galwedigaethau yn y Byd, fydd yn ymddangos megis pe baent yn llai tan ofal Rhaglyniaeth, a chyflyrau eraill megis pe baent yn pwyfo arni bob munud.

APO. Ymddangos yn unig y maent, ac hefyd i dyb yr anwybodus bobl, tydi fydd yn rhyfeddu pa fodd na buafau'r *Atlantick* mawr yn fy Llyncu, Mynyddau oerion y Gogledd yn fy fythu, gwrês anghynefin y Gyhydedd, neu rew *Arcturus* wedi fy ngyrru i'r man yr aeth miloedd o'm blaen;---heb yftyried fod yr Awyr wyt ti yn ei anadlu bob munudyn mor enbytted i ddwyn dy Fywyd oddi arnat: Mi brofais amryw gyfluddiau a gwaredigaethau, helaethrwydd a chaledi, mi gefais barch ac amharch, er pan ymadawais a thi ond yr wyf yn Enillwr yn y cwbl, ac nis rhoddais dro tu yma na thu draw i'r Môr [er fy mod yn rhy barod i redeg o flaen fy arweinydd, ac yn berchen gormod o chwant gweled a chlywed] na chafodd ei droi er bendith i mi; yn enwedig y Cyfyngderau caletta buais ynddynt yr ennillais fwya oddi wrthynt, nis daethwn i weled Rhaglyniaeth fyth yn ei holl rannau, ei thegwch, a'i throiadau anherfynol ddyrus oni buafai 'm bod yn Nyfnder caledi, Ymmol y Morfil dyfgais gynta Weddio, oni buafai'm bod yn fafn Angau rai prydiau ni fedrafwn fyth ddiolch; fe'm gyrrwyd o Dre o flŷs cael gwybod mwy o dybiau Dynion am DDUW, a'i haneirif arferion yn achofion Crefydd,

ac

ac yr awrhon mi ſlinais wybod, digon yw i mi wybod bod Duw yn Drugarog a graſlawn, ac yn dda i mi, ac i bawb a gredo yn ei Fab ef; yr wyf trwy brofiad yn deall bod mor hawdd fod yn gadwedig yn fy Ngwlad fy hun, a phe bawn yn ymofyn am ymheuthyn trwy holl ardaloedd y Byd; oni thyccia Athrawiaeth *Moſes* a'r Prophwydi Gartref ni thyccia ei chlywed o Enau dieithraid mewn dull a gwiſgoedd newydd; yr unig ffordd yw canlyn yr Athrawiaeth ſydd ar ôl geiriau jachus, ac yn cael ei harddel fwya gan Yſpryd y Duw byw,----mi ddyſgais hyn wedi crwydro yr holl Fyd, mae oddi mewn y mae Creſydd fwya yn gynhwyſedig, ac nad yw ymarfer corphorol yn fuddiol ond i ychydig.

Eu. Minnau nis gwelais gymmaint o'ch eiſiau nes eich colli; trwy hydol yr holl amſer y bu'm yn ymddifad o'ch Cymdeithias, bum yn ymddifad o lawer o Gyfarwyddyd yn nehongliad yr Yſgrythurau; am eu bod wedi ei ſcrifennu nid yn unig mewn Cyſoedd pell, ond hefyd gan Awdwyr ag oedd o arferion neullduol oddi wrth Wledydd y Gogledd: Mae eu cyffelybiaethau, eu Troell ymadroddion, a'u Hediadau yn uwch ac yn eonach nag y gwnaf fi yſtur o amryw o honynt: Pan fwyf yn darllen Llyfrau *Moſes*, Croniclau, Barnwyr, a Brenhinoedd yr Eglwys Iddewig, 'rwyf yn fyrr, nid yn unig o ddeall amryw o'r cyſgodau, ond hefyd o eglurdeb a chydſeinjad amryw Haneſion a Rhaglyniaethau hynod ac anghynhefin, a ddigwddaſant o ddychweliad *Iſrael* o Dir yr *Aipht* hyd eu caethiwed i *Fabilon*; a hyn o ran arferion ag oedd yn Nhir *Ham* a Gwledydd y Deheu, ac o Dduwiau yr *Aipht*, *Philiſtin*, a *Moab*, ynghyd a'i haneirif ffurfiau o addoli, o ryfela, o hwſmonni, o wiſgo, o gymmeryd Llyniaeth a'r cyffelyb.

Yn Llyfrau Caniadau, a Salmau'r Bibl, caf gwrdd ag amryw ymadroddion nas gwn ymha yſtur yr ydys yn ceiſio genmyf gredu y Llythyren o honynt.

Y Prophwydi eilwaith nis gallaf gyrrhaedd i fynu at eu Meddyliau, heb wybod rhyw faint am Droell-

jadau eu jaith, amryw ddefodau'r Gwledydd neu'r Dinaſoedd at ba rai, a'r amſerau ymha rai yr oeddent yn 'Sryfennu.

Ac am y Teſtament newydd fe fyddai yn gymmorth im' ddeall rhai pethau ynddo, pe bawn yn hyddyſg o haneſion yr amryw ganoedd o flynyddau aeth heibio rhwng yr hên a'r newydd; Egwyddorion y *Phariſeaid*, y *Saduceaid*, yr *Herodinaid*, ac amryw fath o *Hereticiaid* a ſonier am danynt ar hyd Epiſtolau Paul ac eraill. Wrth wrando rhai Pregethwyr, a darllain rhai Llyfrau yn jaith fy Ngwlâd, yr wyf yn cwrdd a rhai Darniau o Haneſion Crefyddau, ac opiniwnau dieithr a phellenig ag y byddai yn bleſſer mawr gennyf fod yn fwy hyddyſg yn Haneſion Crefydd y Dyddiau gynt, a'r hon ſydd yr awrhon yn amryw o Ardaloedd y Bŷd. Ac APODEMUS, fy hên Gyfaill, ſydd hyddyſg mewn amrywiol jawn o'r pethau hyn, nid yn unig am i chwi dreulio'ch Bywyd mewn aſtudio ynddynt, a darllain llawer am danynt yn nhrê, ond hefyd am eich bod wedi trafaelio amryw o Ardaloedd y Bŷd, ac wedi gwneud eich hun yn gyfarwydd o'r Dyddiau preſennol a'r Dyddiau gynt; yn awr yn adnabod Egwyddorion a Ceremoniau Gwledydd y Dwyrain, lle yr oedd y Prophwydi yn byw; a rhwng y cwbl nid wyf yn cweſtiwno llai na fydd eich Cymdeithias imi yn fwy melus, ac wyf yn gobeithio nid yn llai adeiliadol nag o'r blaen.

APO. Nid yw bod yn Feiſtr ar yr holl Gelfyddudau, yn Haneſiwr da, nag y chwaith yn hyddyſg o bob arferion ac Egwyddorion Crefydd Dynion wrth drafaelio'r Bŷd, o hono ei hun, nemawr jawn o gymmorth i agoryd yr Yſgrythurau, na llawer fwy adeiliadol i eraill; can's Yſpryd y Duw mawr ei hun ac nid dim arall a egyr ei Air ef, ac a'i cymhwyſa at y Galon; neu yn unig all gwneud cymdeithias ac ymddiddanion yn adeiliadol; ond pob Moddion yn llaw yr Yſpryd bendigedig hwn ſydd fendigedig, ac fel y mae Cyfoeth wedi ei wir ddefnyddio yn derbyn ei Perchennog i mewn i Deyrnas Nêf,

Nêf, felly mae Gwybodaeth, yr un ffunud pan y b'o hi wedi eu Sancteiddio gan Air Duw a Gweddi, yn foddion i roi Goleuni gwell yn y Gair, ac yn gwnend y Dŷn goſtyngedig yn fwy defnyddiol yn yr Eglwys.

Eu. Ond pa fodd bynnag y mae, nis cewch lonydd gennif, os gallaf fod mor ëon arnoch ag o'r blaen, nes adrodd i mi o bryd i bryd amryw o'r pethau rhyfeddaf a welſoch o gwrr i'r llall i'r Bŷd, mewn pethau crefyddol yn unig; am y llaill cymmerwch eich rhydd-did: a hyn yn ddiau gennyf, wna i mi ryfeddu Duw yn fwy, a dweud mae efe, ac nid arall ſydd yn creu Goleuni a Thywyllwch. Os adroddwch am Gyfeiliornadau Eglwys *Rufain*, gwn bydd hyn fel moddion i'm rhoi i ddiolch am anfeidrol râd Râs a'm tynnodd I o'r Tywyllwch dudew hwnnw. Os am gyndynrwydd, anghrediniaeth, a Dall neb yr Iddewon caf glywed, gobeithio caf gan fy Nghalon i ofni rhag i minnau fod yn ôl, fel hwynt hwy; neu eu plannu hwy i mewn a'm caead innau allan trwy anghrediniaeth. Os caf gennych adrodd y Ffŷdd Fahometanaidd, a ryfeddai ddim na buaſai'r twyllwr hwnnw yng Ngwlâd fy Ngenedigaeth, a minnan wedi ymdroddi yn Athrawiaeth y *Twrciaid*. O râd Râs! Os dwedwch yntau am Eulynaddoliaeth y Paganiaid, ni fydd ond fy adgofio I, o ba le y daethym I allan; a pha Enwau bynnag a ddwedwch am Farnau, a Sectau ymhob Eglwys, gweddiaf ar fy Nuw am i'r cwbl gael ei Fendithio i mi.

Ap. Nid wyf yn ammau llai na fydd felly i ti, ac i bawb ag ſydd am dynnu allan ddaioni o welant ac a glywant; fel y mae pob peth yn bur i'r rhai pur, ond i'r digrêd pob peth ſydd aflan, hyd nôd eu cydwybod hwynt. Ond o pa le y dechreuaf adrodd, pe dechreuwn lefaru wrthyt ar godiad Haul hir-ddŷdd Hâf, a phara hyd eu fachlydiad, yr amſer a ballai i mi dd'wedyd wrthyt y ganfed ran o ymarferion Dynion yn addoliad Duw, neu eu Duwiau, neu adrodd holl Byngciau eu Ffŷdd, pe gallwn eu galw i'm côf.

Gwelais amrywiol Bethau dieithr i mi yn y Bŷd, ond nis deliais ſylw ar Drefydd a Dinaſoedd, Ceſtyll a Thurau, Palaſau têg a Rhodfeidd, na dim rhyſeddodau eraill o waith Dwylo Dynion yr oes hon, na rhyfeddodau mawrion a wnaethpwyd, yn y Dyddiau gynt gan eu Henafiaid hwynt; nag un peth ag fae yn rhoi blŷs ar Gluſt i glywed na Llygad i weled, gynmaint ag arferion Dynion yn achoſion Crefydd. Chwilio wnes yn gyntaf,, ac yn bennaf am y Grefydd Griſtnogol, i weled gwahaniaeth eu Hegwyddorion, ymarweddiad ei Phrofeſſwyr, ei Defodau, ei Diſgybliaethau, ffyrf eu Gweddiau, eu Rhydd-did, eu Cariad, ac wrth chwilio hyn allan, rhaid oedd i mi deithio ymhell am fod rhai Eglwyſydd Criſtnogol yn eithaf y Ddaear yn profeſu'r Ffydd hon ynghanol Paganiaeth; ac felly fe'm harweinwyd at filiwnau o bobl nas clywſant ſôn erioed am GRIST. A chymmaint a glywais o drwſt a ſwn cynmyſgedd fel ſwn Dyfroedd lawer am Grefyddau a'i Harhoelion hi, hyd onis credais yn fwy crŷf nag erioed, nad oedd ond unig râd Râs, Grâs neulldüol ag oedd yn abal i oleuo Dŷn o'i Dywyllwch a'i godi i'r lan i'r ffordd union tu a'r Bywyd; a'i gadw rhag y myrdd o Ddych'mygion gwael ſydd gan Ddynion wedi ei dwyn i mewn, i gyflawnu lle y rhan yſprydol o honi.

Ev. Ond i fyned bellach at y gwaith mewn llaw, mi gaf ofyn yn gyntaf a ôes un atdal o'r Bŷd heb na Chrefydd nag Addoliad? Neu a oes ymhob man ryw Beledr gwan o Oleuni, wedi ei adel yn y Cwymp, i wneud Dynion yn ddi eſgus, pa un bynnag a wnelont a'i ddefnyddio i un diben neu peidio?

AP. Rhai Trafaelwyr * a 'Scryfennaſant [gwir yw] iddynt yn rhai o barthau pellaf y Bŷd, i gael Cenhedloedd heb un Grefydd; a dïau i'r 'Scryfennwr hyn

* Marſiardwyr Portugal y rhai oedd y cyntaf erioed o Europe a ymwelodd a CHAFFRARIA y wlad lle mae'r Hottentots yn byw.

hyn dybied felly; o ran nas gallent ddal ſylw a'r un Drefn allanol o Addoliad wedi ei ſefydlu, neu yn cael eu harferyd yn y fath Wledydd. O ran ein Pobl ni yn *Europe* ſydd yn barod i ddychmygu fod y cyfan o Grefydd yn gynnhwyſedig yn y Dull allanol o Addoliad.

Ond oddi wrth Drafaeliwyr diweddar, † y rhai ſu yn dal ſylw mwy manol y rhai oedd hefyd yn berchen deall mwy helaeth o'r peth elwir yn Grefydd; mae yn ymddangos nad oes un rhan o'r Bŷd, nag un Genedl tan Haul y rhai na feddant ryw fath o Grefydd, neu ryw Goel Grefydd wedi ei ſefydlu, neu yn cael ei harferyd yn eu plith.

Yr *Hottentots* § y rhai ſydd yn tynnu agoſaf at Natur yr anifeliaid direſwn, heb feddu na Themlau, na

† Offeiriaid y Dutch, y rhai ddanfonwyd troſoedd i ddiwigio'r Hottentots; Can's y mae gan wyr Holand yn y rhan o Gaffraria elwir Cape of Good Hope lle maent wedi eſtyn eu Llywodraeth 200. o Filltiroedd i'r Gogledd, a chymaint arall i'r Gorllewin, nid yn unig Llywodraethwyr, Milwyr, Ceſtyll, gwaithdai Llongau, Maeſydd mawrion a helaeth, yn dwyn y gwîn goreu, a Gerddi a ffrwythau gwerthfawr nad oeddent yno o'r blaen, un o ba rai ſydd 19 Erw o hŷd; ond hefyd Offeiriaid wedi eu hanfon troſoedd i Winidogaethu'r Gair a'r Ordinhadau i'w Pobl eu hunan, ac i gymeryd arnynt i ddiwigio'r Gwladwyr.

§ Yr Hottentots yw trigolion Gîwad fawr yn Afric, tu draw i'r haul y man pella mae'r Tîr wedi ei ffindio yn y deheu, tros 1100 Filltiroedd o hŷd, a 700 o lêd, ei henw yw Caffraria, yr hon a gyfaneddir gan Bobl mwya Anifeilaidd ac anwybodus tan haul, yn un genedl ar bymtheg e'i rhifedi, os nid rhagor, a phob cenedl yn berchen rhyw fath o Dywyſog neu Frenin; pawb yn meddiannu o fewn terfyn ei wlad ei hun yn gyffredin, pob rhai yn adeiliadu, yn byw ac yn bod yn y man y mynnont, a phob un yn berchen ar bob ardal cyſtal a'r llall; yn trigo ynghyd mewn rhyw Drefydd bychain, y rhai alwant Crail arnynt, oddautu 30 neu 40 o fwthod, wedi ei gwneid o wriſg, a phlygu eu pennau i lawr yn y ddaiar, un ar ol y llall, a'. toi a matt neu grwyn; Y Bwthod byn ſydd gylch o gwmpas, ac Ehangder mawr yn y Canol, i gadw eu hanifeiliaid mân o fewn y Crail y nôs rhag Bwſtfilod gwyllion, tra fo y llaill oddi allan y Dref neu'r Crail: hwn a ſymudant pan bo eiſiau porfa, neu un o honynt i farw.

Y

na Delwau, na ffurfiau pwrpasol o addoliad, etto amlwg yw eu bod yn credu bod un Duw gwneuthurwr Nêf a Daiar, Llywodraethwr y Byd, trwy ba un y mae Pob peth yn byw; a bod y Byd hwn wedi ei gynnysgaeddu a Phriodoliaethau anolrheinadwy, gan ei alw ef *Gcunga Gcunga*, neu *Gcunga Tiqua*, sef Duw y Duwiau, ei fod ef oll yn dda, ac nad yw yn gwneud niwed i neb, a'i fod yn cyfaneddu ymhell uwch y Lloer.

EU: Pa fath addoliad maent yn ei wnaid iddo.

AP. Nid ynt yn rhoi un addolaid i'r Duw pennaf hwn, ond i amrywiol o rag dduwiau.

EU. Pam?

AP. Eu Hatteb yw, am i'w rhieni cyntaf i droseddu yn erchyll yn erbyn y Duw hwn; ac iddo yntau ar hynny, i'w melldithio hwynt, a'i holl hiliogaeth i galedwch Calon, fel nas gwyddent ond ychydig am dano yn awr, a chanthynt lai o Duedd i'w wasanaethu ef. Ond pa fodd bynnag y maent yn credu yngylch hyn, darfu iddynt daflu heibio yn holloll addoliad y gwir Dduw; ac mae yn argoel eglur mae'r Lleuad yr awrhon yw un o'i rhag dduwiau hwynt, can's ar ymddangosiad y Lleuad, ymgasglant yn Dorfeidd mawrion, gan ddawnsio gylch gwmpas, curo eu dwylo

---

Y Trigolion sydd o liw rhûdd neu wineu wrth natur, ond eu bod yn cenfio duo eu hunain a hyddigl, ac ymenyn, mêr, neu Floneg ar liw'r Negroes, a'r hyn beth y maent yn iro ei Plant pan gynta genir hwynt, gan eu gosod yn yr Haul, neu o flaen y Tân, ac yn para i wneid yr arfer hyn byth mwy tra font ar y Ddaiar.

Y Gwyr sydd yn gorchguddio eu pennau a dyrneidiau o dom Eidion, ymenyn, a hyddigl wedi eu cymusgu, ac heb ddim arall ar eu pennau yn amser Hâf, y llwch sydd yn glynu wrtho ac yn gwneid iddynt Gappiau ffiaidd a drewllyd; ond yn y Gaiaf sef pan byddo Hâf gyda ni, gwisgant Gappiau o grwyn Cathod, neu Wyn; gwisgant hefyd fentyll o grwyn i lawr hyd eu gwregis a rhai i lawr bron y ddaiar wedi eu rhwymo am eu Gyddfau i charreion yn agor o'r blaen, ac os Gaiaf a sydd, fe dry Gwr wyneb y gwlân i mewn, ond os Hâf try wyneb y Croen at ei Groen ei hun, hwn fydd iddo yn fantell y Dydd, yn wrthban y Nos, ac yn amdo yn y Bêdd, os bydd y Gwr yn Gapten Tref neu yn Ben-cendl, ei

lo ynghyd, crïo a gweiddi trwy hydol faith y Nôs. Gwnant hefyd amryw Ddarluniau arfwydus arnynt eu hynain, gan edrych yn hull tua'r Nef ac anffurfio ei hunain a phob Lluniau, a chroefi eu Talcennau a Charreg goch; a hyn oll er anrhydedd i'r Lleaud, *Gounga*, fef Duw meddant hwy ag fydd yn repreſentio'r Duw mawr, *Gounga Gounga*, neu *Gonga Tiquca*. Gweddiant arni hefyd pan y b'o'r tywydd yn anhymerus, ac ni fethant fyth ymgynnill i'w haddoli pan y b'o hi yn llawn, neu yn Lloer newydd, bydded y tywydd mor yſtormus ag y b'o.

Eu. A oes un ffurf o Weddi ganthynt i ddweud wrthi.

Ap. Oes amryw Eiriau byrron o annerch, megis —" Yr wyf yn dy annerch. Mae groeſo it'. Mae groeſo it'. Caniatta borfa i'n Hanifeiliaid, a llawnder o Laeth." Y Geiriau hyn a ddwedant dracheſn a thracheſn, gan guro eu dwylo ynghyd a dawnfio, ac ar ddiwedd pob Dawns, gwaeddant *ho, ho, ho, ho*; gan godi a goſtwng eu Lleiſiau, ac arferyd aneirif o ymddygiadau dieithr, ag fydd yn ymddangos yn ddigrif i Wŷr *Europe*.

Eu. Pa cy'd y parhant yn y fath Addoliad?

Ap. Nid oes ond rhai o honynt a addef mae addoliad, er nad oes dim fydd wirach nad addoli'r Lleuad y maent, a mynych darfu iddynt wadu mae addoli yr oeddent rhag i Wŷr *Europe* i'w Gwawdio.

Eu.

---

ei fantell fydd o Groen Tyger, Cath *wyllt, neu ryw Groen g ſodir pris arno yn y wlad honno;—maent yn cyddio eu n ethni a darn o Groen* Câth *pedwar onglog yn hongian wrth eu gwregis ac wyneb y blew i maes;—maent hefyd yn Crogi am eu Gyddfau fath o God Saemlyd yn ha un y bydd eu Cyllill, eu Tobacco, eu Pibau, a'u Tacha, yr hun ſydd yn g neid yr un effaith a'r Tobacco, yn cael eu cadw; mae ganddynt hefyd ynddo ddarn o bren bychan wedi ll ſgi ei dnau pen, er mwyn cadw ymaith bob wiithath o'i wrthyn, yr hyn maent yn dibied fod yn amal jawn yn ei pith.*

Mae'n

Ond pa faint o amser maent yn ei gynnal ef ofynfoch?

Cynhaliant ef trwy'r Nôs, a rhan o'r Dydd dranoeth, yn unig pan y b'ont wedi blino neidio, crio, gweiddi, ymgrinad, dawnsio, canu, a gwneud pob darluniau ynfyd, eisteddant i lawr ronyn, a'u Sodlau ar y Ddaear, gan ddal eu Pennau rhwng eu Dwylo, a gorphwys eu Pen-elinau ar ben eu Gliniau; ac ar ôl ychydig ymorphwyfiad, neidiant i fynu yn ddisymmwyth, gan chwareu yr un Gampiau ag o'r blaen.

Eu. A dymma yr unig rag dduw sydd ganthynt?

Ap. Nage; mae ganthynt hefyd Blufyn hedegog o faint *Hornet* ae y maent yn ei addoli, a pha bryd bynnag y bo'r Pryfyn hwn yn nessau at eu *Crail* hwynt; ymgasglant ynghyd atto. gan ganu a dawnsio, o gylch gwnipas iddo tra yr arhoffo yno; taflant hefed trosto Lwch Buchu, a'r hwn y maent hefyd yn llwchio eu hunain mewn Gwleddodd; maent yn tannu yr un Lwch hefyd ar Bennau eu Pebyll, ac ar hyd holl Heolydd eu Tref, megis Tyffiolaeth o'i Hanrhydedd i'r pryfyn a addolant.

Aberthant

Maent yn gwisgo tair medruy o Ivory *neu ddant* yr Elephant *ar eu braich assuy, mae ef yn duyn ffon yn ei Law ddeheu, a darn o bren troedfedd o hyd, y naill ben iddo yn llym, a hwn sydd yn cael ei arferyd fel saeth i daro at Elyn neu Fwsifil gwyllt, yr hwn prin syth a fetha ef wneuthur hyd at y fodfedd i'r man y mae ef yn amcanu: yn ei Law assuy y mae ef yn duyn darn o bren troedfedd o hyd, a chynffon* Cadno *neu* Gâth *wyllt wedi ei ruymo yn Sicr wrtho, tu ag at sychu y chwys: gwisgant Sandalau o groen Ych neu ryw Fwsifil pan y b'ont yn teithio Lleodd geirwon.*

Mae eu Benwed yn gwisgo Cappiau o gruyn, ac nid ynt syth yn eu tynnu ymaith nos na dydd: maent yn gwisgo duy fantell o gruyn un ar yllall, a'u rhuyno a charn ior

am

Aberthant hefyd ddwy ddafad o ddïolchgarwch am ei ymddangofiad ef i'r Drêf honno, gan gredu byddant Sicr o lwyddo a'r ol y fath ymweliad, ac os y Pryfyn hwn a ddigwydd ddefgyn a'r Babell rhyw un, edrychant a'r ei Pherchen fyth bellach fel Saint; ac a roddant iddo anrhydedd mwy nag arferol. Can's yr Ych pennaf o'r Drêf a aberthyr yn unjon i diftiolaethu eu dïolchgarwch i'r Duw bach hedogog, ac i anrhydeddu y Saint a welodd ef fôd yn dda i ymneillduo fel hyn iddo ei hun, ac i'r Saint hwn hefyd anrhegir ymyfgarodd yr anifail y rhan benna yn ei barn hwy o hono; ynghyd a'r Gwêr a'r holl Berfedd, y rhai wedi eu nyddu a'i troi fel rhâff a wifg ef bellach fel cadwyn am ei Wddf Nôs a Dŷdd, hyd oni's pydront a darfod am danynt; ac nid yw y Sant hwnnw yn gwledda a'r ddim ond ymyfgarodd yr anifail, tra fo y lleill o'r Drêf yn ymborthi yn unig a'r y Cig, yr hwn nid yw gymmaint o barch yn ei plith hwynt, Gwêr yr aberth hwn hefyd fydd gan y Saint hwnnw yn eneinio ei Gorph o bryd i bryd, nes byddo iddo ddarfod. Ac os a'r Babell Gwraig y defgyn y Duw-bryfyn hwn, nid yw hi llai ei Anrhydedd na phe ba'i Gwr.

Ac

---

am eu Gyddfau; maent yn noeth'on o'u tu blaen i lawr, hyd eu hanner, ond y mae ganthynt arffedogau oddi yno i warcd fydd hwy na rhai'r Gwyr, un o'u blaen ac un o'u hol: maent yn troi carreion o gruyn oddeutu eu Coefau nes bont cyfredd a Gwr mewn Llorpiau Rhyfel, ac yn cerdded fel truper yn hytrach na Benyw; mae y rhain hefyd i wahaniaethu Benwcd oddi wrth y Gwrwcd, ac er harddwch o'r fath yw.

Mae ganthynt hwythau Godau am eu Gyddfau i gadw rhyw beth i fwytta, a phib Tobacco ac ychydig dacha ynddo fel y gwyr.

Y Peth pennaf fydd gan y Gwyr a'r Gwragedd mawrion i'w harddu eu hunain yw darnau crynion o Bres, neu

Ac chwi ryfeddech y fath ddychryn ac arfwyd a ddeil y Bobl hyn pan y bo un o *Europe* yn gwneud cynnig i ddal, neu ladd un o'r Creaduriaid hyn, cwympant ar y Ddaiar, ymbiliant, a gweddiant a'r i'r Creadur bach hyn i gael ei rydd-did. —Hwy ddychmygant os bydd y Duw bach hwn i gael eu ladd, bydd eu holl Anifeiliaid farw o ryw Blâ, neu gael eu difa gan Fwstfiloed gwylltion; a hwynt eu hunain yn ddynion mwya truenus, a'r Drêf honno hefyd edrychant arni megis wedi ei gadel i ryw afiwyddiant Disymmwyth; yr hon nad yw pryfyn hwn ond anfynych yn ymweled a hi.

Eu. O! bellter cwymp Dyn! nid yw y Goleuni sydd ganthynt i gredu bod un Goruchel DDUW, yr hwn sydd yn cynnal bywyd pob peth, ddim arall mae'n debig, ond eu gwneud yn ddiesgus, pan maent yn addoli y Creadur yn ei le ef.

AP. Gwir, ond nid hyn yn unig maent yn ei addoli; can's addolant hefyd Eneidau eu Seintiau, a'u gwyr gwrol a ymadawsant a'r Bŷd; can's cyssegrant Faesydd, Mynyddau, Coedydd, ac Afonydd, er coffadwriaeth iddynt. A pha bryd bena y byddont yn myned hei-

---

Wydr, yngllyd a Dalenau teneuen o Bres disglair, y rhai maent yn gael gan y Dutch *am eu hanifeiliaid, a pherlau y rhai y maent yn wisgo yn eu gwalit, neu o ddautu eu Clystiau, ar fath hyn wedi eu rhoi ar garreion, gwnant gadwyni a braichledau i osod am ei Breichiau, eu Gyddfau a'i Canolau, han ar ol han o honynt, maent yn edrych ar lawer o rhain yn fwy Arddercheg, ac weithiau fe sydd y Fraich oben yr elin i'r arddwrn yn llawn o honynt: mae hefyd addurnau eraill sy'n perthyn i Wyr wnaeth rhyw wroldeb, sef gwisgo pledren y Bwstfil gwylltt hwnnw a laddasant wedi ei chwythu i fynu yn dynn, a'i rhoi i hongian wrth ei wallt.*

Pobl hefyd yn't ag sydd yn anifeilaidd jawn yn eu llyniaeth, dewisant ymysgaredd yr Anifail neu'r Bwstfil o flaen y rhan arall o'r Cig, gan ei gymeryd hb hanner ei

tenhau

hëibio i'r llëoedd cyſſegredig hyn, rhont Weddi ferr a'r Dduw y lle hwnnw, ac weithiau dawnſiant gylch gwmpas, gan guro dwylo fel wrth addoli'r Lleuad: ac os gofynir rheſwm iddynt am hyn, attebant weithiau yn bryſur, mae o anrhydedd i ryw Wŷr ymyſg eu Hynafiaid, y rhai tra fuant a'r y Ddaiar oedd hynod am ei Gwroldeb eu Daioni a'i Rhinweddau ond am fod Gwyr *Europe* yn chwerthin am ben y fath arferion digrif, nid ond anfynych yr attebant yn bryſur, ond gan gellwair a ddwedant mae arfer yr *Hottentots* yw hyn. Ac oddi wrth y gwahanol gyfrif a ront o'r arfer hyn a rhai eraill yw yr achos fod y fath Ymrafel newyddion yn dyfod i ni oddiwrth y genedl hon, rhai yn dweud fod yr holl bethau enwais uchod yn rhan o'i Haddoliad; ac eraill nad oedd, ac hefyd nad oedd un grefydd yn eu plith.

Ymhlith Pethau eraill, yr Hanes ganlynol ſydd yn Cadarnhau eu bod yn addoli Seintiau, a Gwrolwyr, y rhai a fuant feirw. Ar ddiwrnod gwelais un o'r Genedl hon yn neidio, yn chwareu, ac yn llammu oddautu Twmpath bychan, a phan y gofynais iddo Hanes y Saint hwnnw, gladdwyd yno, (canys dëallaſs mae Bedd ydoedd) fe'm hattebodd, nas gwydde pwy Saint oedd wedi ei oſod yno, ond nid oedd efe yn anmau llai nad oedd yno ryw Sant neu Wrolddyn, Can's ebe fe, "Mi orphwyſais yma un noſwaith, fel yr oeddwn a'r fy Siwrnau, a phan dyhunais y boreu dran-

lanheu, a'i fwytta wrth hanner ei ferwi neu froelio;—— ond eu bwyd pennaf yw Gwreiddiau, Llyſiau, Ffrwythau Coed, neu Laeth, o ba un y gwnant eu Ymenyn, wrth ei roi mewn Cwd lledr fel cod Milwr, ac wyneb y bleu i mewn, ac yna y cymer dau o honynt y Cwd, ac ymaſiant un ymhob pen, yſgwydant a throant ef oddiamgylch, nes cael o'r llaeth i gyſnewid i fodyn Emenyn, a hwn ſyddyn cael ei gadw at eneinio eu Cappiau, a'i Mentyll, can's nid yn't yn bwytta dim o hono, nid yn't fyth yn lladd eu haniſeiliaid, ond y ſo raid at wledda, aberthu, neu ryw beth o'r fath,

drannoeth, er mawr ſyndod mi welais Lew yn ſefyll wrth fy ochor; a'r Creadur am gadewedd I fyned ymaith heb wneuthur dim niwed imi; yr hyn a wnaethai yn ddiau pe buaſai'r Sant oedd yma yn gorwedd yn caniatau iddo. Ac yr oedd ef yn awr yn talu diolch iddo am ei Gadwraeth.

Eu. Nid yw Goleuni Natur yr hon y mae amryw yn ymffroſtio cymmaint ynddi yn rhoi ond llewyrch tywyll jawn mewn gwîr addoliad.

Ap. Nid dim rhagor nâ gwneuthur Dynion yn ddïeſgus yn Nydd y Farn. Ond i ddychwelyd yn ôl at yr *Hottentots*, maent heblaw y pethau enwais uchod yn addoli yr Yſpryd drwg, yr hwn maent yn ddychmygu i fod yn awdwr o'r holl ddrygau fydd yn y Bŷd; yr hwn nad oes dim daioni na graſlondeb yn ei natur; ond yn hytrach yn ymbleſeru yn nhrieni Dynion: i'r yſpryd drwg hwn maent yn offrymmu Defaid ac Ychain fel nas gwnelo iddynt ddim niwed. Ond nid hyn yn unig, mae ganthynt amryw arferion a Seremoniau eraill, yr rhai mae Traefaelwyr düallus yn dybied i fod yn perthyn i'w Crefydd hwynt; Sef tynnu ymaith yn naill Eirin i bob gwryw, yr hyn ſydd yn caelei wneuthur gan bob cenedl o'r *Hottentots*, yn gyffredin am wyth neu naw mlwydd oed; os bydd y rhieni yn dlawd ac yn anabl i wneud gwledd a'r y fath achos, ſe oedir hyd onis b'ont 18 neu 19 oed, yr Offeiriaid ſydd yn cyflawnu y fath Waith; yr Eirin aſſwy yn waſtad a gymerant ymaith, a Dafad

---

can's bwyttant y cyfan a fo marw o henaint, neu gleſyd, neu yr hyn allant ddal wrth hela: --- ond maent mor ſegur ac y bwyttant garreion ſydd cddautu Coeſau eu gwragedd, neu eu Sandalau crwyn eu hynain cyn yr elent allan at heluriaeth, ond pan yr elent maent yn rhyfeddol gyflym.

Nid yw eu jaith ond ſwn anghydſein yr hon nis gellir yn hir jawn o amſer ddeall nemawr o honi, ac yn amhoſib i'w goſod allan mewn yſcrifen, yr hon gelfydd y maent yn berffaith anwybodus o honi.

Daſad neu Lo ſydd cyſog yr Offeiriad am ei Orchwyl.

Eu. Ond pa fo'd yr ydys yn tybied fod hyn yn rhan o'i Crefydd hwnt.

Ap. Er dywed rhai mae i'w gwneud yn fwy buan mae hyn, ac i fod yn well helwyr; ond mwya tebygol yw, mae trwy gamſyniaid y daeth yr arfer yma gynta; a'i chymeryd yn lle yr enweidiad yr hwn Seremoni oddi wrth *Abraham* mae'n debygol a redodd i dair rhan y Byd. Ond pa fodd bynag mae hyn yn bod, nis caniataer i un Gwr briodi nes dwyn tyſtiolaeth ei fod wedi myned trwy'r ſath Ceremoni.

Mae ganthynt hefyd Wyliau ac maent yn aberthu ar amryw achoſion eraill; megis a'r ol ennill buddugoliaeth ar Fwſtfil gwyllt, neu Ddynion, neu Jachad o Glefyd a'r Cyfryw.

Rhaid yw bod y rhan fwyaf o honynt yn credu anfarwoldeb yr Enaid; pan y maent yn gweddio ar, ac yn talu Diolch i'r rhai y maent yn gredu i fod yn Saint; ac y maent yn meddwl y gall y meirw ddychwelyd a gwneud rhyw faint o aflonyddwch iddynt; am hynny ar farwolaeth un o'r Drêf neu'r Gymdeithias ſymydant eu gwerſyll i le arall; gan dybied nad yw y meirw yn ymweled ac un lle ond hwnnw lle buant feirw; ac y maent yn dychmygu megis pe bae raid i'r meirw wrth yr un rhyw bethau ag oeddent yn arferyd yn fyw; ac am hynny, gadewant y Gwerſyll lle bu un farw, ei Ddillad, ei Arfau, ei Ddodrefn Tŷ, heb gyffwrdd a dim ag ſydd yn perthyn i Ddŷn marw.

Eu. Mae hyn yn arwydd eu bod yn credu rhyw beth am Nêf ac Uffern, cyflwr o wobrwy, neu o Goſpedigaeth yr ochr draw i'r Bêdd.

Ap. Yr ydych yn camſyniaid, nis gwyddant ddim am y fath beth---can's pan y b'o un o honynt marw nid yw ef ei hun na rhai ſo o'i gwmpas, yn galw ar un Duw, am ddim hawddfyd i'w Enaid; na chwant bod yn ddedwydd, nag oſn bod yn druenus ar ôl marw; p'odd bynnag, maent yn gwaeddi ac yn ſerechain mor oſnadwy pan b'o un â'r Drancedigaeth ag

y gellir eu clywed hwynt ymhell jawn o ffordd; ac etto'r Bobl hyn ſydd yn cuog o fwrddro eu hên Rïeni yn gyſtal a rhai o'i Babanod.

Eu. Manegwch etto cyn gadel y Genedl hon am hyn o Drefn arſwydus, yr hyn a'm cadarnha I o'r peth a feddyliais lawer gwaith am dano; ſef bod rhyw greulondeb yn perthyn i bob gau Grefydd; megis aberthu eu Plant trwy'r Tân i *Moloc*; ac hefyd bod yr un Yſpryd creulon annhrugarog i'w weld ymhob Hereticiaid megis Eglwys *Ryſain* at bawb a ymneullduant o'i cyfeillach hwynt, fel pe bae'r Awdurdod Gwladaidd yn eu Dwylo ag a wnai yr un gwaith etto ac a wnaeth yr Yſpryd hwnnw yn y Dyddiau gynt. Ond manegwch am yr *Hottentots* yn lladd eu Rhïeni.

AP. Pan b'o Tâd un Teulu wedi myned dros oedran, ſef i fod yn berffaith ddi ddefnydd, mae ef yn rhwym i roi'r cwbl o'i Gattel a phob peth arall a fedd ef yn y Byd i'w Fab hynaf; ac os na bydd Mâb, yr Etifedd neſſaf o Waed. Yna yr Etifedd a adeiliada Babell neu Fwth mewn rhyw Le anial yn gryn bell oddi wrth y *Crail* neu'r Drêf yr oedd ef yn byw; ac ar ôl gwneud y peth yn gydnabyddus i benneithiaid y Drêf, am ei Dâd neu Ewthr di ddefnydd o ran oedran; a dymuno ei cynnhorthwy hwynt i'w ſymmyd ef i'r Bwth a adeiliadodd, i'r fâth gais nid yw y Drêf prin fyth yn gwrth'nebu cydſeinio a'i ddymuniad; ar hynny pennodir Diwrnod i ddwyn yr hên Ddŷn i'r Bwth anial; yr Etifedd a lâdd Ych, a dwy neu dair Dafad, ac a wahodd yr holl Bentref i wledda ac i fod yn llawen; ac ar ddiwedd y Wlêdd yr holl Gymmydogion a ddeuant, ac a gymmerant eu cennad oddi wrth yr hên Ddŷn truenus, wedi ei gondemnio fel hyn i drengu o newyn neu i'w ddifa gan Fwyſilod rheipus: yna cymmerant ef, a goſodant ef ar un o'i Hychain Llwyth, ac a'i dygant i'w hîr artref; a'i holl Gymmydogion yn dwyn ei Gwmpeini ef i'r man lle cleddir ef yn fyw. Yna tynnir ef i lawr ac a'i goſodir ynghanol y Bwth a adeiliadwyd iddo; a'i holl Gyfeillion a ddychwelant i dre; ac nis gwel ef Wyneb Dŷn byth mwy. Ac nid oes

ymorol

ymorol yn ei gylch bellach, na phe buafai heb fod, ---ac felly gwnair hefyd a Mam f'o wedi myned tros oedran, a bod yn anddefnyddiol yn y Byd.

Eu. A oes neb o *Europe* yn ceifio tynnu ymaith y fath arferion o'i plith? Trwy ddangos mor annaturiol iddynt.

Ap. Nid oes neb a'i perfwada hwynt eu bod yn annaturiol, ond ei fod yn fwy o Drugaredd i'w cymmeryd hwynt ymaith fel hyn, nag iddynt nychu yn hir, a bod yn marw lawer o Flynyddau gyd a'i gilydd. Ac heb law hynny, nis gall yr holl refymmau trwy'r Byd i'w tynnu hwynt oddi wrth eu hen arferjon, ac nis gallodd y *Dutch* ac fu yn cyfaneddu yno i dorri dim o honynt oddi wrth gymmaint ag un o'i hen arferion; na'i hennill i gyfnewid un rhan o'i Hymarweddiad, pa mor greulion neu ddi drugaredd bynnag y byddai; ac nid yw Pen neu Gapten y Dref ei hunan pan elo yn hen, ac yn ddi ddefnydd, a dim lle gantho i gadw ei hunan rhag y fath Gladdedigaeth afwydus ac annaturiol.

Eu. Yn ydwyf wrth eich clywed yn rhyfeddu ac yn caru yr Yfpryd ag oedd Jachawdwr y Byd yn annog ei wir ganlynwyr fod yn feddiannol o hono; fef gwneuthur i bawb fel y dymynem ni i eraill wneuthur i ni. Ni fu un Llyfr yn y Byd ag fydd yn derchafu toffuri cyd ymdeimlad cymmwyhafgarwch a thiriondeb at holl ddynol-ryw fel y Teftament newydd. Ac yr wyf yn meddwl hefyd nad oedd y gwardd tynnu nyth Aderyn tan yr hen Deftament, neu ferwi y Myn yn Llaeth ei Fam, ond addyfgo i'r Eglwys iddewig nad oedd eu Duw hwynt yn ymfodloni dim mewn Yfpryd o greulondeb. Ond manegwch ychydig am y rhai mae'r *Dutch* yn anfon trofodd.

Ap. Mae Gwyr *Holland*, neu'r *Dutch* wedi anfon amryw Ddifeinyddion i gynnig diwigio'r cenhedloedd hyn, a darfu iddynt arferyd pob moddion a diwidrwydd i'w dychwelyd hwynt o'i Heilyn-addoliaeth at Griftnogrwydd darfu iddynt arferyd pob fcil, dyfais, a gwobrwyau am iddynt ddyfgu Egwyddorion y Grefydd Griftnogol; ond eu gyd yn ofer, can's nis gall-

odd dim annogaethau o bethau oedd yn perthyn i'r Byd hwn, na'r Byd arall fod yn abal i gael yr argraph leiaf arnynt, ni fynnant glywed fon am un Grefydd nag arfer, ond yr hyn oedd ganthynt o'r blaen.

Eu. Ond pa ymarweddiad oedd y rhain yn ei ddwyn yn y Wlâd honno? Rhag ofn eu bod yn eu Bywydau yn gofod Crefydd CRIST yn ffiaidd o flaen y Paganiaid tywyll hynny.

Ap. Mae yn ddïau bod Bywyd anfoefol Gwŷr *Europe* yn y Wlâd honno yn un atteg grêf i gadw i fynu ragfarn yr *Hottentots* yn erbyn Crift'nogrwydd, yr anghyfondeb rhwng proffes ac ymarweddiad Gwyr *Holland* fydd wedi bod yn niwidiol jawn i'r ffŷdd ag y mae eu Hofferiaid hwynt yno yn geifio dannu ymhlith y Bobl, nid yw'r Bobl hyn ddim mor fach o ddeall nas gwelant, (fel Dynion eraill) fod eu Hegwyddorion a'i Hymarweddiad hwynt yn anghyfattebol yw gilydd ac y mae yn rhaid cyfaddef mae hyn yw yr achos ymhob Gwlâd baganaidd ag y mae Trigolion *Europe* yn danfon cenhadon i ddychwelyd y *Paganiaid*, mae gwyr y Môr gan mwyaf yn Bobl anfoefol halogedig jawn yn eu gwlâd eu hunain, ond pan elont un waith tros y cefnfor maent yn tybied nad oes rhwym arnynt mwy i ddal at ddim Crefydd, moefau, na chydwybod, megis pe bae trafeilio'r Byd yn rhoi rhydd-did i wneud pob drygau mae Crefydd yn wahardd: maent yn myned i ragor o afradlondeb a phob drygioni nag y mae'r *Paganiaid* mwya tywyll eu hunain yn myned iddo; ac yn rhoi y fath gafineb attynt hwy, a'i Crefydd, yr hon mae Dieithreid yn feddwl i fod yn annog y fath ormodedd fel nas gallant mewn un modd i feddwl yn dda am dani; can's y *Paganiaid* fydd yn gyffredin yn rhyfeddu rhinwedd ac yn ffieiddio Beiau anafus; ac maent yn barod i gredu mae honno yw'r Grefydd oreu ag fydd yn gwneuthur y Dynion goreu.

Eu. Hyd oni's elo amrywiol o Ddynion Duwiol, Dynion yn mwynhau y fath fywyd yn eu Crefydd ag a wnelo eu Bywydau hwynt i ddifgleirio oddi-

allan,

allan, i'r Gwledydd hynny, ofer jawn i ni ddiſgwyl am un Llwyddiant a'r Air y Bywyd, na gweld terfynau yr Efengil yn ymhalaethu un gronyn ymlaen i barthau pell y Byd.

AP. Gwir yw; ac nid oes dim argoel y daw hyn i ben, nes delo Erledigaethau a'r Grefydd CRIST, a gwaſgaru y wîr Eglwys fel yn Nyddiau yr apoſtolion neu yn Nyddiau'r Gorthrymder fu yn *Lloegr*, pan aeth llawer jawn o Bobl wîr dduwiol troſodd i *Loegr* newydd *Penſylſania* a gwledydd eraill o *America*: neu yntau o'r tu arall i lawer o eiſiau Milwyr wneud anghenrhaid i gymmeryd Dynion o bob math at ddwyn Rhyfeloedd ymlaen ymhlith *Paganiaid*; ac yn ganlynol i Dorfeidd o rai gwyr dduwiol i gael eu dwyn i faes y Gwaed, a thrwy weled ymarweddiad a deall Yſpryd y cyfryw, bydd o boſſibl i'r Efengil i gael ei dwyn i'r gwledydd na fu hi erioed o'r blaen.----Ond Duw ei hun yn unig ſy'n gwybod pa ffordd, trefn, a moddion, a gymer ef i ddwyn hyn o waith i ben.

Eu. Manegwch ychydig am foeſau y Genedl hon, pa un a'i yw goleuni Natur yn dyſgu iddynt ychydig am bethau ſydd yn ddrwg neu'n dda mewn ffordd foeſol; ac onid os ganthynt ryw oleuni am hyn, nid os un gronyn gwahaniaeth rhyngthynt a'r Anfeiljaid a ddifethir; A oes dim coſbedigaeth am un Troſſedd, pa mor ofnadwy bynnag y bo? na dim gwobr am un weithred dda, pa mor gamoladwy bynnag y bo.

AP. Mae'r Pwngc * hwnnw o oleuni natur ag ſydd

---

* Trefen ei priodas ſydd ddigrif ac ynfyd, ac oni bai y chwant ſydd arnaf i roi diſgrifiad bur o honynt mewn amryw o'i harferion ni ynganaſwn am dano:----nid yn't yn edrych nemawr a'r feddiannau yn yr achos hyn, Tad y priod-fab ſydd yn arferol o addo iddo Fuwch ac ychydig Ddefaid, a Thad y Briod ferch yr un gwaddol, yna cyfeillion a pherthnaſau y rhai fo i briodi a'u cynorthwyant i wneid Caban, ac i ladd Ych, gwêr pa un pan gynta lleddir a ymirant eu hunain ac ef, c'i traed hyd eu pennau ac yna llwchiant eu hunain a Buchu, a'r Benwod yn gwneid ſpotiau côch-

jon,

ſydd trwy'r holl Fŷd gyda hwythau heſyd; ſef Priodas; ond y maent mor ynfyd ac aniſcilaid yn y ffyrf o honi, nad oes un Genedl tan Haul o'r un arfer; ac fel mewn amryw eraill o ardaloedd y Bŷd caniatant amryw Wragedd, a Llythyr yſgar gan un o'r ddau ochor a'r yr achos lleiaf; yn unig ei oſiod o flaen Barnwr y *Crail*.

Eu. Pa ryw Swyddog ſydd hwn atolwg?

Ap. Pob cenedl o honyntſydd a'i Frenhin, yr hwn ſydd ag Audurdod gantho i wreid Rhyfel a Heddwch, ac yn breſenol yn waſtad ymhob Llys Cyfiawnder, ond bod ei awdurdod yn waſtad wedi cael ei derfynu nas gall wneud dim heb gydſeiniad Capteniaid pob *Crail* neu Drêf, y rhai ſydd fel Senedd iddynt hwy. Y Capten hwn hefyd yw eu Harweinydd mewn Rhyfel, eu Hychel ſwyddog mewn amſer Heddwch, yr hwn ynghyd a phob pen Teulu ſydd yn terfynu pob achoſion gwledig yn ei *Grail* ef. Mwrddrad, Godineb, a Lledrad, ſydd yn waſtad yn cael ei goſpi a marwolaeth,----Os y rhan fwyaf o'r Llŷs fydd yn condemnio yr Euog, 'fe ddihenyddir yn y ſan; y Capten a'i Baſtwn a'i teru ef yn gyntaf, ac yna'r lleill o'r Barnwyr a gwympant arno, ac a'i pwnniant ef i Farwolaeth.

Eu.

---

ien arnynt eu hunain a nôd coch. Yna par'toant wledd, briodas addas i amgylchiadau'r Dynion ifaingc, y Gwyr wnant gylch cwmpaſog ynghanol y Crail, a'r Gwragedd yr un ffunud gylch arall: y priod-fab a eiſtedd ynghanol y Gwyr yn ei gylch ef, ar ferch ynghanol y Gwragedd yn ei chylch hithau; a'i dull o Eiſtedd ymhob crynhoad yw, goſod eu Sodlau ar y ddaiar, fel y gallont bwyſo a'r ben eu glyniau; yna yr Offeiriad a ddaw ac a biſſa ar y priod-fab, yr hwn a rwbian ef i mewn yn llawen; ac oddi yno â i gylch y Gwragedd, ac a wna yr un ffunud ar y Ferch; a hithau a wna fel gwnaeth y Mab; yr hyn ſydd yn cael ei gyfri yr anrhydedd pennaf a ellir i wneuthur iddynt: yna y Bobl ifaingc a dderbyniant gyfarchiad eu Cyfeillion, gan ddymuno iddynt fyw yn hîr, ac yn happus, a chenhedlu Mab cyn dyweed y ſwyddyn ag y fyddo Heliwr gwrol â chalonog a'r Cyfeillb.

Y

Eu. Mi rofi'ch bellach lonydd am Grefydd a moesau y Bobl dywyll ac annwybodus hyn, ac nid oedd ond y rhyfeddod mwyaf na buaſwn inne yn un o honynt er bod miloedd (mawr yw'r trueni) a'r hyd *Gymru* nad yn't well na hwynthau o ran adnabod Egwyddorion gwir Grefydd, ac nid llawer gwell yn eu trefn deuluaidd, ond llawer gwaeth yn eu Bywyd a'i Moesau. Ond ewch rhagoch at fanegu am Grefydd rhai eraill o barthau'r Byd.

Ap. Y Wlâd Baganaidd neſſa a gaf fi ſôn am ei haddoliad yw *Guinea*, yr hon nad yw well na hithau am adnabyddiaeth o'r gwîr DDUW, er ei bod yn eu harferion gwladaidd o boſſib ryw beth yn llai anifeilaidd a didrefn.

Eu. Ewch rhagoch.

Ap. ‡ GUINEA, ſydd Wlâd ehang ond i gyd yn anwybodus o'r gwir addoliad na dim yn un Goron

---

Y Bwyd ſydd wedi oſod o'i blaen hwynt mewn Pedyll pridd, o rhai y bwyttant ef heb un arf ond eu gwinedd a'i dannedd; ac heb ddiſgil ond cwr eu mentyll; Cregyn y mor ſydd ganthynt yn gynefyn yn lle Llwyau. Ymhen ychydig Ddyddiau a'r ol priodi, rhaid i'r wraig weithio i mewn ac i maes fel caeth-was, a pha fwya o wragedd ſo gan neb mwya Cyfoethog a ſydd ef.

Y Ffordd y maent yn rhoſtio eu bwyd yw, goſod Carreg lydan yn y ddaiar, ac ennyn tân arni nes byddo hi yn boeth; yna goſodant y bwyd arni, a charreg lydan eilwaith arno, a thân a loſgant a'r hynny, a thân eilwaith gylch gwmpas iddo, nes iddo hanner froelio, ac yna bwyttant efe.

Pan bo ganthynt un wledd wrth wneid Brenin, neu ryw achos arall, nid yw y Gwragedd yn cael profi dim o'r Cig trwy'r dydd hwnnw, ond y Cawl; a'r un ffunud drannoeth nid yw y Gwyr ddim, gymaint a'r Brenin ei human yn cael profi o'r Cig yngwledd y Gwragedd; ond efe a'i holl Gwmpeini ſy'n gorfod ufed y Cawl yn unig.

‡ GUINEA ſydd wlâd fawr y tu Gorllewin i AFRIC, yn ddau naw cant o Filltiroedd ei hyd a thros dri chant a hanner o led, yn wlad boeth jawn am ei bod dan yr Haul, lliw ei thrigolion yn't yn berffaith dduon, eu gwallt yn ddu yn fyrr yn gwrl ac yn gyffelib i wlan; eu gwiſgodd yw darn o frethyn gylch eu canolau

eddauiu

Goron o honi ond Paganiaeth, maent yn credu un goruchel Dâd a Hollalluog Dduw yr hwn a grëodd y Byd, etto nid yn't yn talu dim addoliad iddo na gweddio arno na thalu un math o ddïolchgarwch iddo, maent yn credu ei fod wedi ei ddurchafu uwch law cymeryd dim fylw a'r Ddynion gwael a'r y Ddaiar, ac am hynny y gweddiant ac yr aberthant i Lu o rag-dduwiau rhai o ba rai fydd gan genhedloedd eyfain, ac hefyd mae gan bob un dduw neullduol o'i ddewifiad ei hun.

Eu,

---

oddautu dwy droedfedd o led, end y rhai ardderchog fydd a brethyn arall wedi ei droi oddautu iddynt, a'i daflu dros ei yfguydd, felly fel y bydd ei freichiau a'i gefau a rhan fawr o'i gorph yn noeth, yr un wedd Gwrwod a'r Benwod;---yr addurnnau fydd ganthynt yw harddu eu hunain yw llawer o Fedruyau, Braichledau, o Aur, Ivory, *a* Chopor, *y rhain yn cael eu gwifgo a'r eu braichiau a'i coefau, a chadwyni a gwregifau o goral un a'r y llall;---y bobl hyn y rhai fydd yn berchen fyn-wyr ddigon pe meddent ddyfg, fydd lawer fwy llygredig nag eddent, wrth farchnatta a thrigolion* Europe, *y rhai fydd wedi dyfgu llawer o dwyll, dichell, ac arferion llygredig jawn iddynt, wedi duyn atynt Frandi ac amryw fath o Liquors, ac wedi rhoi Efampl o feddwi, godinebu ac amryw jawn o feiau anafys eraill ac mae y trigolion yn dibied fydd yn rhai o Eguyddorion y Grefydd Grift nogol: Yn y wlad hyn mae rhifedi mawr jawn o* Elephantiaid, *fel yr ydys yn duyn mwy o* Ivori *oddiyma nag un wlad yn y Byd; y rhain yw'r Creaduriaid cryfa a'r y ddaiar; fe ddywed* Kolben *i gaduyno un o honynt wrth Long cedd yn gorwedd a'r y traeth yn* Caffraria *ac iddo ei llyfgo hi yn deg a'r hyd y Tywod; maent o* 10 *i* 15 *troedfedd o uwchder, mae'r un fenyw yn llai na'r un gwryw, ac y mae eu Thethau hi rhwng ei dwy troed flaen, eu hymborth yw Glafwellt, Llyfiau, Gwreiddau, a changau Coed; dwedir nad oes arnynt ofn Tan na Saethau,*

Eu. Mae'n debig nad yw y grêd o un Goruchel DDUW, un erthigl filweddol o'i Crefydd, pan nad ynt yn talu dim Addoliad iddo.

---

thau, ac nad a bwlet yn hawdd trwy eu crwyn huynt a dwed Boſman *i un o rhain ddyfod i lawr i Gaſtell* Elmina *pan oedd ef yno, ac iddo dderbyn 300 o fwletti cyn cwympo, mae yn y wlad hon lawer o* Fwnheuod *ŷ rhai meddant ſydd cywch a Dŷn; ond y rhai Cyffredin eddautu dwy droedfedd o uwchder. Yn y wlad hon yr ydys yn cael graian Aur yn eu hafonydd, ac weithiau dalpiau mawrion, canis yn y miſoedd gwlyb yr afonydd ſydd yn lliſo i wared o'r Mynyddau a'r Creigiau yn dwyn rhan o'r Ddaiar, ac weithiau ddarnau mawriou o'r Creigydd gyda'r llif, mae talpiau o Aur cuddiedig yn dyfod i'r amlwg, ac felly yn cael ei dynnu allan gan y Trigolion a'r ol llaeſu'r Dwr, ond llawer rhagor ſy'n cael i olchi lawr yn ddarnau bychain dim mwy na thywod gyda'r afon; y cyntaf elwyr Aur y graig, a'r olaf llwch Aur;----gan hynny pan bo'r Glawogydd wedi llaeſu, a'r tywydd ſych wedi dyfod, y trigolion Gwrwod a Benwod ant a'r hyd yr afonydd bychain, ac a gaſglant y tywod yn dyrrau, ac a'i goſodant mewn Cafnau a Thwbau, ac a'i golchant nes i'r holl Laid a'r graian i fyned ymaith, a'r Aur o ran ei bwyſau ſefyll a'r waelod y Cafan, hyn a wnant bob Dydd, o'r Boreu hyd hanner Dydd, rhai o bliſib gaſglant lawer, rhai ychydig, ac f'alle rhai ddim, rhan fawr o'r grian Aur hyn ſydd yn dyfod i wared ddau neu dri chant o filltiroedd,* gan y Negroes, *i lan y Mor i werthu i Farſiandwyr* Europe *pan bo eu Llongau i mewn.*

Ac yn awr wedi dyſgu gan yr Europiaid i fod yn fanawl, yn dwyllodrus, ac yn fynych i gymmyſgu Coppor ag ef, yr hyn nis gwyddent nes i Wŷr Europe ddyſgu iddynt, ond y nawr yn twyllo eu Meiſtri. Yr ydys yn tybied bod holl Farſiandwyr Europe yn dwyn cymmaint o Aur yn flynyddol o Guinea, a thri chant o filoedd o Bynnau, a rhagor; can's y mae y Saeſon, y Dutch, Ffrancod, y Diniald, a'r Portugeſe, yn marſiando yn y Wlâd hon;----yma hefyd y mae Marſiandwyr Europe yn prynu Dynion duon,

i'w

Ap. Rhaid i chwi ddeall i fod y rhan fwyaf o Wledydd Paganaidd y Byd y rhai fydd yn gyffredin yn dal bod un Goruchel Duw, etto ei fod yn rhy

---

i'w trofglwyddo i America, y Gwladwyr fydd yn dyfod i wared at y Llongau a'i caeth-weifion gyda hwynt, ac yno yn cyttuno am danynt hwy, a phris y moddion y maent yn gael am danynt; weithiau mae Marchnatwyr y Negroes yn cael y moddion yn gyntaf, ac yno yn myned r hyd y Wlâd i brynu Dynion, ac yn dyfod a hwynt at y Llongau, a rhai o honynt fydd mor anoneft nas deuant a'r moddion na Dynion yn ôl byth. Y modd yr ydys yn dyfod i'r Dynion hyn yw, fel y canlyn; mae yn Guinea lawer o Frenhinoedd bychain y rhai fydd yn fynych mewn Rhyfel y naill yn erbyn y llall, y Caeth-weſion hyn yn gyffredin yw y rhai gymmerir yn y Rhyfeloedd hyn; nid yn unig Gwŷr, ond hefyd Gwragedd a Phlant; can's pan yr ennillo un o'r Brenhinoedd hyn Wlâd, dygant ymaith eu holl Drigolion hi i gaethiwed; Mae amrywiol eraill ag fydd yn cael eu gwneud yn gaeth-weifion am ddyled, neu amryw drofedd, ac yn fynych, nid yn unig y dyledwr ei hunan fydd yn mynd yn gaeth-was, yn yr achos hyn ond yr holl Deulu a llawer ag fydd yn perthyn iddo; ac fe ddwedir fod pob rhai yn gwerthu ei Gwragedd a'i Plant lle maent yn trofeddu yn ei herbyn hwynt: rhai hefyd fydd am leihau eu Teulu rhag ofn iddo fyned yn rhy drwm i'w faintaimio, ac os digwydd Newyn mawr, hwy werthant weithiau eu hunain y naill i'r llâl am Fara, ac mewn Amſer o Heddwch nid oes dim yn fwy cyffredin nag i Negroes un Wlâd i ladratta Negroes Gwlâd arall, a'i gwerthu hwynt i'r Europiaid.

Y peth cyntaf a wna ein Marſiandwyr ni ar ôl taro i mewn i un o abaroedd Guinea yw talu Teyrnged a rhoi anrheg i Lywodraethwr y rhan honno o'r Wlâd am gennad i Farchnatta, yna rhaid iddo brynu Caeth-weifion y Brenhin o flaen gwneud un Fargen *ag un o'i ddeiliaid ef, a hynny bron am y pris a fynno y Brenhin ei hun; ar ol cyttuno am y pris mae Meddig o* Europe *yn cymmeryd golwg ar y Caeth-weifion hyn, yn noeth, Gwŷr, Gwragedd, Plant; ond pawb a dybygir eu bod tros* 35 *oed a adewir yn ol, a phob un a fo yn gloff neu a rhyw anaf arall arno; mae hyd yn nod ddi dant weithiau yn wrthadl i'w herbyn, ac yna y Marſiandwr a roda bob un ag y fo yn ei feddio a Haiarn poeth; ac yna a'i Clo hwy i fynu mewn Carchar hyd onis rhoir hwynt i'r Llong; pris Dyn cryf corphorol fydd o ddauddu* 51. *Gwraig o ddauddu* 41. *a Phlant ar ol eu hoedran.*

I n

rhy Ardderchog a Gogoneddus i agoſhau atto, nag i geiſio dim ganddo gan Ddynion, ac yn ganlynol ei fod wedi rhoi llywodraeth y Byd i amryw o rag-

D 2 *dduw.*

Pan rhoddir huyrt yn y Llong, eu hen Feiſtr a'u dihatrant o bob cadechyn, fel y mae'r Marſiandwyr yn ei derbyn hwynt yn berffaith noeth; ac fel hyn yn gyffredin y c'ant fod nes dyfod i America *yr hyn fydd weithiau amſer hir jawn; ac fe fydd y Decc wedi ei rannu felly fel y byddant yn gorwedd neu yn eiſtedd han ar han o honynt 700 neu 800 yn y Llong; a phob Gwrryw fydd mewn Heirn, can's llawer gwaith y cynnigodd y* Negroes *or y Decc, i ladd Gwyr y Llong, ac i ddwyn y Llong i Dir; ac weithiau dygaſant eu hunican i ben: eraill a neidiaſant i lawr i'r Mor gan ymddiried yn hytrach i drugaredd y Tonnau, nag iddiw Meiſtri gwynion.*

Diau yw nas gallir ſyth amddiffyn na chyfiawnhau y fath Draffic a hwn. Pe bae y trueniaid hyn yn cael eu dwyn i Europe, *a chael ymddwyn attynt fel Dynion; neu yntau eu gwerthu i Wyr* America, *ac ymddygai attynt fel y dylyd ymddwyn at rai o'r un rywogaeth a hwyut eu hunain, ni fyddai yn ddim gorthrymder mawr i gyfnewid Meiſtri gwynion yn lle rhai duon: ond eu gwerthu hwynt drachefn i'r* Spaniaid *creulon, i weithio yn eu Mwyn-Gloddiau og i gael eu trin yn waeth nag Aniferiliaid, ſydd raid gael ei farnu gan bob Dyn ag yſtyrio y fath arferiad: Ac fel y dwedir, mae llawer o'n Planwyr ni yn* America *heb roi fawr triniaeth well iddynt, gan wneud cyngrair a'i gilydd i beidio gwneud Criſtnogion o honynt, rhag ofn iddynt ddeall bod y Grefydd Griſtnogol yn gorchymmyn i bawb i wneuthur fel y dymunent i eraill wneuthur iddynt hwy; ac yn ganlynol y diſgwylient gael triniaeth fel Dynion, ag ſydd ar un* DUW *ac ar un* CRIST *wedi marw troſtynt. Ac y mae o ddautu dau cant o Filoedd o Ddynion bob Blwyddyn yn cael eu dwyn i* America *or Wlad fawr hon a Gwledydd o ddautu; can mil gan y* Portugeſe, *a chymmaint arall gan*

y llaill

dduwiau y rhai sydd barod i wrando ac atteb Gweddiau.

Eu.

---

y *llaill o Farsiandwyr* Europe, *nid llai gan* Loegr *ei hunan o honynt na* 50 *o Filoedd*; *ac o hyn hwy fuont* yn *gwerthu* 30 *o Filoedd i'r* Spaniards, *y blynyddau aeth heibio, trwy gyfammod wnaethpwyd a hwynt.*

O'r Wlad fawr hon hefyd y *mae'r* Ivory yn *dyfod i* Europe, *gyda Gwledydd eraill o* Africa, *mae Maesydd helaeth yma meddant, ag* y *maent* yn *cedi rhyw lawer jawn o* Ivory, *sef dant yr* Elephant, *yr hyn sydd naill ag oddi wrth* Elephantiaid *a fu farw yno ryw amser o honynt eu hunain, neu a laddwyd gan ryw Bobl gynt cyn gwybod eu gwerthfawrogrydd*; *er fod rhai* yn *meddwl gall'sai yr* Elephantiaid *hyn golli eu Dannedd a chael rhai newyddion*; *yr hyn os oeddent rhaid yw mae* yn *hen jawn oedd hyn*: *can's Dant cyflawn oedran (o be rai nid oes gan bob un ond dau yn tyfu allan o asgwrn yr ên, ac yn troi i fynu fel corn) sydd yn pwyso weithjau tros gant pwys, ac yn gyffredin o hanner cant i drugain*; *ond pa un bynnag a'u bod yn colli eu Dannedd neu beidio, ac i bwy oedran y mae'r anifeiliaid mawrion hyn yn cyrrhaedd sydd anficr jawn*; *y cyfan a wyddom ni am eu Hoedran yw, eu bod yn yr* India, *lle y maent yn dofi yr Elephantiaid, ac yn eu harferyd i drafaelu, ac i'r Rhyfel, yn byw i amser mawr jawn*; *yn byw mewn rhai Teuluoedd tros amryw Genedlaethau, ac nis gwyr eu perch'nogion ddim am danynt ond eu bod gan eu Teidau a'u hen Deidau o'i blaen hwynt.*

Y pethau mae Gwyr Europe *yn ddwyn tros ddi* Guinea *i gyfnewid am y* Negroes, *Aur, ac* Ivory, *a phethau eraill, yw* Callicoe, Cotten, Lliain, Brethynau. *a phob gwaith* Gwlân, Haiarn, Powter Pres; *megis* Cleyddau, Gyllill, Bwyill, Hoelion, Mwrthwlau, disglau, Crochenau, a Chwppanau,

Eu. Ond manegwch pa dduwiau sydd gan y rhain.

D 3 Ap.

---

panau, *a phob pethau o waith* Prês, Haiarn, Powter, *ac* Eſydd, *ag sydd at wasanaeth Ty; pob arfau Rhyfel hefyd* Drulliau, Powdwr, *a* Saethau; *pob math o Degane, megis beugles a'r cyffelib ynghyd a* Thobacco, Brandi, Rum, *a'r cyffelib. Yna y mae'r Benwod yn gwneud yr holl waith i maes ag y mewn tra fo'r Gwyr yn segur; y Gwragedd sydd yn palu i fynu y Ddaear, plannu* Rice, Millet, Maize, *gwneud eu dillad, a mattau, trin hwyd a dartlaw eu diod, tra fo'r Gwyr ond edrych arnynt; ac yn ganlynol pa fwya o Wragedd fo gan un yma, fel yn* Caffraria, *mwya Cyfoethog y fydd ef; ond nid oes dim gwahaniaeth rhwng eu Gwragedd a'i Caeth weision.*

Mae yn y Wlad hyn ddau Gynhauaf yn yr un Flwyddyn, un Fis Awst, a'r llall Fis Rhagfyr, yr olaf yn fwy na'r cyntaf, ond pan b'o gantbynt gynhauaf llawn, hwy gwerthant ef i Wyr Europe *nes b'o newyn arnynt cyn dyfod yr ail, can's nid yn't fyth yn trusori i fynu ddim at amser a ddaw, ond mewn dyfnder newyn yn gorfod gwerthu eu hunain yn fynych am Fara. Mae yma gyfannedd-leoedd gan* Loegr, Ffraiagc, *y* Dutch, *ac yn enwedig y* Portugese *y rhai aeth gyntaf trosoedd o'r* Europiaid, *ac a gawsant y goror or llewinol-ddebeu i* Africa, *ers rhagor na* 200 *Mlynedd aeth heibio; lle mae gantbynt yr awr hon amryw ardaloedd ebang tan eu Llywodraeth, a thorf fawr o* Dywysogion *bychain tan eu Hawdurdod; ac wedi gwneud Proselitiaid o lawer o'u Deiliaid a'i dysgu bwynt i wisgo eu hunain fel yr* Europiaid, *a'u cyfoethogi bwynt a gwaith* Gwlân ynys Brydain, *yr hyn sy'n gwneud*

ein

AP, Y duw pennaf fydd gan y *Ffidaiaid* Pobl * Teyrnas fawr jawn o *Guinea*, yw Sarph o rywogaeth anghynefin, bràth pa un nid yw fawr wol, yr hon fydd yn cael ymddwyn atti cyſtal gan ei Haddolwyr fel prin fyth y mae yn cynnig eu drygu hwynt, ac y mae ganthynt Deml Arddercheg yn *Ffida* neu *Whida* wedi ei chyſegru i'r Sarph hon, ac un fydd lai bron ymhob pentref ynghyd ag Offeiriaid ac Offeiriaideſſau i waſnaethu iddynt. Yn y Deml hon y cadwant Sarph o faint Aruthrol gan addoli'r Creadur mewn perſon, ac nid mewn llûn, a chynt arferai y Brenin ei hunan fynd a'r bererindod ynghyd a'i holl Lŷs yn Flynyddol i addoli'r Sarph hon, ond yn ddiweddar mae ef yn dewis nifer o'i Wragedd i gyflawnu y weithred hon o addoliad yn ei le ef,—mae'r Brenin yn rhoi anrhegion ac offrymau blynyddawl i'r Deml fawr hon; megis Aur, Anifeiliaid, darnau o Sidan, a phob màth o Fwydydd, Diodydd, Ffrwythau, a marſiandaeth *Europe*, er mwyn cael Cynhauaf cyſoethog a Llwyddiant i'w Deyrnas; ac os gwelant argoel o ddim drygfyd i ddigwydd iddynt

---

ein Trade ni a Portugal *mor fawnteiſiol; ac am fod gwyr* Portugal *o'r fath Lywodraeth helaeth yn* Guinea, *maent yn cwyn mwy o gaeth weiſion oddi yno nag un Deyrnas arall, nid oes gan* Spain *ym un lle perchennog, er boa mwy o eiſiau dynion oddiyma arnynt na neb am eu bod yn berchen cymmaint o dir yn* America.

* *Mae yn* Guinea *amrywiol jawn o Frenhiniaethau maith ag ehang, Cyfoethog a gallueg jawn, ond y benna o bawyt yw* Whida neu Fidah, *Brenhin pa un ſydd n cael ei oſni a'i anrhydeddu fel rhagddaw, gan ei holl ddeiliaid, nid oes neb yn ymddangos o'i flaen ef, ond naill a'i a'r ei Liniau neu yn ei ormedd, gan y bont yn ciſgwyl wrtho y bran*

lwy

iddynt, yr anrhegion hyn fydd yn fynych yn cael eu dyblu;---cymmaint hefyd yw'r parch ſydd ganthynt i r Seirph-dduwiau hyn, fel pe bai un Dyn yn neidio a'r un o honynt neu Gyffwrdd a hi a phren ſe'i condemnid ef i farw; dwedir i'r Saeſon [pan dechreuaſant farchnatta a'r wlâd hon, a hwythau yn annwybodus fod y Seirph hyn yn cael eu haddoli gan y Trigolion,] i ladd un o honynt ag a ddarfu iddynt ffindio yn ei Ty, ac i'r holl wlad ar hynny godi i fynu mewn Arfau, a thynnu eu Tŷ lawr yn ddarnau, a llofgi eu Marſiandaeth a'i holl Feddianau; ond hyn nis gallaf wirio, ond diau yw, ei fod yn beruglus jawn i gymaint a chyffwrdd ar duw-ddreigiau hyn, a'i wneid yn y dull eſmwytha ag y fynnoch; a chymaint yw parch y Bobl hyn i'r Seirph yma, fel nas goddefant i ddweid un gair o ddiyſturwch iddynt, gan y ſtopio eu Clyſtiau os bydd i un o *Europe* gymeryd arno chwerthyn am ben eu parch coel-grefyddol iddynt. Dwedant fod y Seirph hyn yn ymlyſgo i maes o'u tyllau ar amſer poeth ac yn myned i'w Teiau wrth yr hanner dwſen-

---

bwy or weddant a'i Hwyneb i'r llaw: wth berth ei Balas gan gyſanu'r ddaear dair gwaith, a churo ei dwy o ynghyd, gan arferyd rhai yn odroddi n ag ſydd fwy perthynol i Dduw nag ymddaroſtyngia i dywyſ g daiarol, macnt yn crynu ar yr olwg arno, mae gantbo ei Lywodraethwyr, ei Gapteiniaid, ei Swyddogion, o ba rai nid yw fyth yn cynnal nag yn llwyda llai na 4 neu 5 mil o bowynt: nid oes un Dyn pwy benna yn cael gwcld ei freinio fawredd yn bwytta, neu wybod ymhwy ran o'i Balas y mae ef yn cyſgu ond rhai o'i Wragedd, o ba rai nid oes ganddo fyth lai na mil: Y rhain yn waſtad ſydd oddautu iddo ac yn amddiffynwyr bywyd, ac ſydd yn fynych yn cael ei danfon ar genadwri ac yn cael eu goſod i ddwyn

ni, ac yn gorwedd ac yn ymdorchi a'r hyd eu lloriau, eu Byrddau, a'u Gwelau, ac nid oes ganthynt le i gael ymwared o honynt ond trwy alw y trigolion i'w cynorthwyo, y rhai a'u cymerant hwy yn dyner yn eu dwylo ac a'u dygant ymaith i'r drws.--- Mae *Bosman* yr hwn fu yn aros ei hunan yn y wlâd honno yn dweid, os gwir y mae ef yn ei ddweid, i Fochyn i ddigwydd difetha un o'r Seirph hyn, a chyhoeddiad a ddaeth allan yn uniongyrch oddiwrth y Brenin i ddifetha yr holl Fôch trwy'r wlâd honno, a llawer jawn o honynt a laddwyd ar yr achos hyn, ond a'r ddeisyfiad rhai o'i Perchenogion Cyfoethog, ac amryw anrhegion yn cael eu hanfon i'r Brenin y galwid yn ôl yr arfaeth ddidrugaredd.---Ac i gymaint o Fôch i gael ei llâdd medd ef nes i'w Cîg hwynt fyned yn ddryd jawn tra fu ef yno---maent hefyd yn *Whidah* yn rhoi addoliad i Goedydd uchel a Gelltydd; maent yn cyfeirio eu haddoliad at y rhain mewn Clefyd neu ryw aflwyddiant neillduol.---Y Mör hefyd yw un o'i duwiau pennaf hwynt, i ba un y maent yn aberthu pan y bo'r gwyntodd a'r tonnau mor dymestlog nas gallo un Marsiandwr pellenig i ymweled

---

i ddwyn i ben y fath orchymmynion a chyfreithiau ag sydd fwy addas o lawer i Wyr, megis cospi drwg weithredwyr tynnu i lawr eu Teiau a'r fath: Pan elo'r Brenin o dre nid llai na phymp neu chwech cant o'i Wragedd sydd yn rhedeg o'i flaen ac nid oes pantho un Gŵr yn ei holl gyfeillach. Ond y Benwod hyn eilw gwyr Europe *yn Wragedd nid y'nt ond Caeth forwynion iddo i gyflawnu pob math o wasanaeth wrth ei Ewyllys.*

A phan y b'o'r Brenhin marw, llawer jawn o'i gaeth weision ef sydd yn gorfod marw, tu ag ot ei wasnaethu ef yn y Byd arall, ac felly befyd ei Wragedd a gweision ef i'w dduwiau.

led a'i goror hwynt; y pryd hynny y taflant i'r Môr bob mâth o Feddiannau, Bwyd, Dîod, a Dillad, i ddofi yr elfen gyndeiriog. Ond heb law y Gwrthrychiau hyn o addoliad, mae gan bob un dorf luoſog o dduwiau o'i ddewiſiad ei hun yn *Fidah*. Pob peth a gyfarfyddont wedi myned allan a bywyd ynddo neu heb fywyd, maent yn ddwyn i mewn at rifedi eu duwiau, a'r ôl iddo fyned i tan brawf.

EU. Pa brawf attolwg?

AP. Gweddiant arno am ryw beth ſydd arnynt eiſiau; ac os cant eu dymuniad trwy ryw foddion, maent yn cyfrif ei holl Lwyddiant i awdurdod y duw newydd hwn; ond os cant eu ſiomni, yna meddyliant nas gall, neu nas myn ef eu cynorthwyo hwynt, gan ymddwyn atto gyda diyſturwch heb gyfeirio eu gweddi atto byth mwy.

EU. Mae gradde (fel mae mwyaf trïeni) or un Baganiaeth a'r hyd ein gwlâd ninnau, pan mae amrywiol yn rhoi coel, fod da neu ddrwg i'w cyfarfod, fel y bont hwy i gyfarfod a chreaduriaid direſwm ag y maent yn i feddwl fod golwg arnynt yn arwyddoccau daioni neu ddrygioni.

AP. Er fod Paganiaeth wedi myned allan o'r Ynys-hon er's rhagor na Mîl o Flynyddau, etto mae yma lawer o'i gweihilion hyd heddyw; er nad yw'r Derwyddon ynawr yma yn aberthu, etto amrywiol jawn o'i coel Grefydd adawſant o'i hôl; mae'r Lloer, y Sêr, yr Haul, a'r Planedau i dŷb y Cyffredin bobl yn Llywodraethu'r byd fel rhag dduwiau tan DDUW'R NEF; ac y mae Lwc ac Anlwc Llwyddiant ac Aflwyddiant yr holl bobl yn ſefyll a'r Droiadau rhyw rannau o waith y Greadigaith; er fod yr Yſgrythur lân yn cael ei darllain bob Sabbath yn y Synagogau, mae *Aſtrology* heb fyned allan yn lân o Galonau'r gwrandawyr; ac y mae yn hawſach i chwy ddodi'r werinos i gredu nad oes un wyneb ond un i'r Eŷd, na chredu nas gwyr yr Almanac ryw ſtremp fawr jawn am y Tywydd---- Yr hyn fyth nad yw ddim llai o Baganiaeth a'i chwi-

lio

lio i dre, na thaflu halen i'r tân pan y bo ſtorom fawr, neu ſod trigolion *Guinea* yn taflu i'r Môr bethau ag ſydd yn fwy gwerth-fawr.

EU. Ond gofynnaf a oes gan drigolion *Whidah* ddim gwybodaeth am Uffern a'r NEF, nag un cyflwr o Ddedwyddwch neu Anedwyddwch yn y Bŷd a'r ol hwn.

AP. Mae gyda hwynt ryw wybodaeth dywyll amherfaith am y peth hyn, ac mae rhai o honynt yn enwi rhyw le neillduol o boenedigaeth i'r annuwiol ond nid y'nt yn gwneuthur mwy o gyfryf o hono nag yw y Criſt'nogion o'n gwledydd ninnau ag ſydd yn myned yno i brynu Dynion.

EU. O drueni! Criſt'nogaeth ym mhenau Dynion yw yr un peth a phaganiaeth. Ond a'r un fâth yw y Baganiaeth ag ſydd trwy holl *Guinea* a hyn?

AP. Oddiamgylch yr un peth; maent yn y rhan honno o *Guinea* elwir *gold Conſt* arno, yn credu bod un goruchel DDUW ſel y lleill, a'i fod cymaint uwch-law edrych a'r Ddynion gwael fel nad yw addas i roi un addoliad idda, ond i lawer o rag-dduwiau tano fel yr oedd y *Groegiaid* yn gwneid gynt: rhai ſydd yn credu i'r dynion düon a'r dynion gwynion i gael eu creu gan y goruchel DDUW ar yr un prŷd, tra mae eraill yn cyfryf y greadigaeth i ryw bryfcopyn ag elwyr *Ananſio* arno. Ac y mae gan bob un yno ei ddelw dduw-neillduol, yr hwn ſydd yn perthyn iddo fe ei hun, ac nid arall; hwn alwant *Boſſam* arno, ac i'r duw hwn y cyffegrant wragedd eu mynwes, neu yr anwylaf o'i Gwragedd yn waſtad. Mae gan bob Offeiriad hefyd dduw neillduol iddo ei hun, at ba un y mae'r Bobl ſydd tan ei ofal ef yn ymoſod mewn un caledi neu anghenoctyd; — megis pan y bont yn ymreſymu ynghylch Rhyfel a Heddwch, dygant eu haberthau ac ymgyngorant a'r duw hwnnw trwy eu Hoffeiriaid, yr hwn ſydd weithiau yn cyflawnu y cwbl ei hun, yn dwyn atteb yn ôl i'r gofynwyr, ond bryd arall y mae ef yn ymgyngori a'r Eilun yn eu gwydd [illegible]ynt; oddiwrth ba un nid

nid yn't yn diſgwyl atteb mewn llais, ond yr Offeiriad a daſl i'r lan ychydig Gnau, neu ddarnau bychain o Ledr, ac ſel y cwympont yn agoſach neu ymhellach un oddiwrth y llall, y mae ef yn rhag ddwedid llwyddiant neu aflwyddiddiant a'r eu hamcan. Maent hefyd yn cymeryd llw parchedig o flaen y ddelw gan yfed Tracht a'r ei ol, a gweddio am i'w duw eu taro hwynt yn farw, neu i'r ddiod i'w gwahanu hwynt oddiwrth eu gilydd os nas cyflawnant eu hamodau, neu os nid gwir yr hyn y maent yn ei haeru; ac y mae'r *Negroes* yn credu y bydd i bwy bynnag a dorro'r fâth Lŵ ac adduned, wedi yfed y cwppan ofnadwy, a haeru gyda'r fâth bryſurdeb, y bydd iddo yn anffailedig ymdorri neb farw ryw ffordd neu gilydd yn fuan a'r ol hyn:--- ond y mae'n debig y gall yr Offeiriad eu rhyddhau hwynt oddiwrth dorriad y Llw hwn a thu ag at ofnedd hynny, yr Offeiriad a'r archoſion mawrion fydd yn gorfod tyngu nas dyru ef ollyngdod i'r neb a dorro'r fâth Lŵon, ac yntau fydd yn gorfod gwneid Llŵon a rhegfeidd ofnadwy i gadarnhau hyn.

Eu. Pa bryd y maent yn addoli y duw hwn o eidde'r Offeiriad?

Ap. Pan bo'r Tywydd yn anhymerus naill ag yn rhy wlŷb neu yn rhy ſych, yr holl Wlâd a'r Dref a ymgyngorant a'r Offeiriad pa fodd y mae iddynt ſymmyd y fâth Farn oddiwrthynt; ac yn gyffredin fel cyngora hwynt i roi rhyw offrymmau neillduol at yr achos, a'r hyn y cyttynant yn union: ac y mae gan bob pentref ei choedwig ſanctaidd wedi ei neilldno, ymha le y mae'r aberth yn cael ei ladd, a'r gwaſanaeth dwyfol yn cael ei gyflawnu, a'r Goedwig hon nis goddefant mewn un modd i gael ei Halogi neu ei thorri lawr a'r un achos.

Eu. Ond pa bryd y maent yn addoli'r ddelw anwyl ſydd gan bob un ac anwaſoch (*oſſam*, i ba un) maent yn cyſſegru yr anwylaf o'u Gwragedd?

Ap.

AP. Hon yw eu delw deuluaidd, ac y mae pob un yn addoli hon y dŷdd o'r wythnos y ganwyd hwynt, ac nid yfant wîn na dim diod gadarn y dydd hwnnw hyd oſtyngiad yr Haul; maent y dŷdd hwnnw hefyd yn gwiſgo yn wynn, neu liwio eu Crwyn a Daiar wen neu Baint:---ac y mae ganthynt ddydd arall o'r wythnos ymha un y mae'r tlodion yn aberthu Adar dofion, a'r cyfoethogion ddefaid i'r duw hwn neb gynorthwy'r offeiriad, pob aberth ſy'n cael ei fwytta gan eu pherchenog a'i gyfeillion, ond y perfedd a'r ymyſgaroedd wedi ei ferwi yn eu waed ſydd yn cael eu cyfrin rhan fwy danteithiol yma fel yn *Caffraria*; ond un peth rhyfedd ſydd i ddal ſulw arno, nad oes un ardal o *Guinea*, na phrin un llwyth o ddynion, nad yn't trwy ryw hen arfer oddiwrth eu Teidau, yr hyn y maent yn gredu y dylyd fyth i gadw, yn ymneilldno oddiwrth ryw fâth o fwydydd, rhai oddi wrth gig Geifr, rhai oddiwrth gîg môch, rhai oddiwrth gig Adar gwynion, a'r cyffelib, ac nid yw eu Plant a'u Hiliogaeth yn ymadel a rheolau oſodwyd iddynt gan eu Hynafiaid: ymhlith pa arfer hefyd y mae yr enwaediad wedi dyfod i mewn yn un, i ran o'r wlâd elwir *Ancra* a'r y gold *Coaſt*, ond pa fodd y daeth hwn, a pha bryd y daeth, nid oes neb a'i gwyr, ond nid oes un rhan o *Guinea* ond hon a'r un arfer ganthynt.

EU. Mae cymmaint a ddwedaſoch euſiws yn fy nodi weled fod paganiaeth yn goſod mwy o ofn a'r eu haddolwyr i gadw eu rheolau tywyll hi, nag y mae Proffes wâg o'r grefydd Griſtnogol yn ei roi o ofn duwiol a'r rith Broffeſwyr.

AP. Mi deithiais rannau pell y Bŷd, ac yr wyf yn gwybod bod trigolion *Guinea*, *Negroland*, a *Pheru*, yn rhagori yn eu honeſtrwydd ac amryw foeſau eraill a'r filiwnau o bobl a'r hyd *Europe* ſydd yn myned tan Enw Criſtnogion, ond Duw a wyr nas gwyddant am ddim o honi ond yr Enw; ond cyn rhoi heibio am *Guinea*, rhaid i mi ddweid wrthych y Parch mawr ſydd i'w Hoffeiriaid a'i Hoffeiriadeſau hwynt, mae eu Perſonau a'r cwbl ag Sydd yn perthyn iddynt yn

Sanct-

Sanctaidd; ac er bod gwragedd gwyr eraill ddim well na ſlafiaid i'w gwyr, gwyr Offeiriaideſſau ſydd rwymedig i fod eu gyd yn ufydd-dod, tan berigl mawr: llywodraeth gwlad ac Eglwys a godai i fynu yn erbyn un a gymerai ddim awdurdod ar y fath wraig; yr hyn ſy'n gnweud y trigolion yn ofnog jawn fyth i Briodi Offeiriades, ac nis caniataen i'w gwragedd i gymeryd arnynt ſwydd Offeiradol pe gallent i omedd.

Eu. Nid yw'r cwbl a ddwedaſoch yn rhoi ond ychydig le i mi feddwl fod ganthynt ddim gwybodaeth am drueni'r annuwiol a gwynfyd y rhai da, dydd Barn ac Anfarwoldeb yr Enaid; o ran athrawiaethau hyfryd yr Yſgrythur yw y rhain, na chafodd y gweledydd hynny erioed wybodaeth am danynt.

Ap. Maent yn meddwl am y duwiau hyn eu bod yn dal ſylw manawl a'r eu ffyrdd hwynt, ac yn eu coſpi neu yn eu gwobrwyo yn y byd hwn a'r ol y da neu 'r drwg a wnelont, ar wobr maent yn ei ddiſgwyl meddant, yw llawer o wragedd a chaethweiſion, Jechyd a Chyſoeth; a'r goſbedigaeth maent yn ei ofni yw pethau yngwrth-hwyneb i rhain. Y Pechodau mwya yn eu tyb hwy yw, bwytta Bwydydd gwawharddedig neu yfed Diod waharddedig, ac efceiluſo Dyddiau gwylion, y rhai hyn ynghyd ac Anydoniaeth maent yn meddwl nas maddeuir iddynt fyth, ond a ddialeddir arnynt a Marwolaeth.

Eu. Nid oes yma Air am bethau a'r ol marw.

Ap. Y rhan fwya o honynt fel y dwedais eiſiws ſydd yn credu ond ychydig am wobr a choſb a'r ol marw; er eu bod gan mwyaf yn cytuno gyda eu gilydd fod dynion dà yn byw a'r ol marw; a rhai o honynt ſydd yn ſôn am Baradwys o ryw hyfrydwch daiarol, i ba le y mae y rhai da yn cael eu hanfon ar ol marw, ſef y rhai ſydd wedi cadw eu Dyddiau gwyliau, ac wedi gwrthod a phob Bwydydd a Diodydd gwaharddedig, à chadw wrth eu Llwon; ond y rhai ag ſydd wedi bod yn ddiffygiol yn un o rhain, ſydd yn cael eu boddi mewn rhyw afon,

acnid y'nt bellach mewn bod; ond prin y mae gan neb o honynt ddim amcan am Ddŷn drwg yn cael eu boeni tros byth, ac os yw, oddiwrth y Criſt'nogion y dyſgaſant hynny y rhai ſydd yn awr yn ei plith er's dau cant o flynyddau.

Eu. Chwi a ddwedaſoch gymmaint wrthyf ag yr wyf yn gweled o ba le y daethym, a pha fath oedd fy henafiaid;---dïau un gronyn mwy golau with natur na rhain, os nid gwaeth; o na bawn ni yn medru diolch am oleuni yr Efengyl yr hon ſydd yn gwneud cymmaint gwahaniaeth rhwng Gwlâd a Gwlâd o ran braint Yſprydol ag y mae'r Haul fawr yn ei wneuthur pan y b'o hi yn tywynnu ar un ac peidio ar y llall.

Ap. Fel y mae yn Nôs waſtadol yn y Gogledd, pan ſo'r Haul yn eitha'r Dehau, ac o'r tu arall yn Nôs yn y Dehau, pan ſo'r Haul yn eitha'r Gogledd, yr un wedd Eusebius y bu hi yn Nôs yma, pan cedd Dydd yn *Jeruſalem*, mai'n Nôs'n awr yn *Jeruſalem* a Dydd yma, ond y dyddiau a ddaw pan y gwawrio'r Efengyl ar y Gwledydd tywyll hynny, ac y cyfyd Haul y Cyfiawnder a Meddiginiaeth yn eu heſgyll ar yr Ardaloedd lle mae y *Llew*, yr *Elephant*, a'r *Tyger*.-----Ond Duw a wnel nad elo hi fyth yn Nôs ar *Frydain* fawr, er nad oes prin Wlâd tan yr Wybr ag ſydd fwy yn haeddu tynnu ymaith yr Efengyl nag Ynys *Brydain*.

Eu. Chwi fanegafoch am Grefydd dwy Wlâd ehang o *Affrica*, ond pa fath Grefydd ſydd yn y llaill o honi os Crefydd Baganaidd yw? Onid e chwi gewch fyned at rai o barthau eraill y Bŷd.

Ap. Y Wlâd neſſaf yw † *Negroland*, yr hon ſydd oll o'i bron yn baganiaeth hollol yr un wedd a a *Guinea*, ac ſelly ei dull o addoliad, eu ceremoniau

† NEGROELAND ſydd Wlâd fawr o AFRICA cddauta tair mil o filltiroedd o hŷd a chwech cant o led os gallir ynajawn i wybod ei hyd hi, mae rhan fwya o honi i Wŷr EUROPE yn an-

moniau, a'i harferion heb fod yn gwahanu llawr oddiwrthynt: mae amrwyiol jawn o ardaloedd a'r hyd *Afric* hefyd nad oes un grefydd iddynt ond Paganiaeth, ond nid yw trafaelwyr wedi dyfod i'r wybodaeth eglur o'u harferion, ac falle nad oes cymmaint o wahaniaeth rhyngthynt a'r rhai o'r blaen ac y talai fon am danynt pe gallwn roi cyflawn hanes o honynt.

Eu. Rwyf yn teimlo rhyw ragor o chwant arnaf glywed fôn am Wledydd codiad yr Haul nag un rhan arall o'r Byd; tebygwn am mae yno y bu ein Jachawdwr mawr yn gwneud eu holl wrthiau, ac yno bu'r Ddinas Sanctaidd, yno y gwnawd Gweithredoedd yr Apoſtolion, ac mae'n debig mae yno y bu Gardd *Eden*, ag falle mae dyna'r ffordd y daw'r Jechawdwr i farnu'r Byd.

Ap. Hawdd genni i'ch credu, a hyn a wnawn hyd ag yr wyf yn gwybod am Hanefion y Gwledydd hynny, ond deallwch fel yr y'm ni yr awrhon yn olrhain Paganiaeth, ag nad Paganiaeth ond Mahometaniaeth fy'n y Gwledydd hynny mae e maes o'n ffordd, ond am *Perfia*, *China*, *Media*, a'r *India* lle mae Paganaeth, cawn hwynt ar ein ffordd wrth fon am yr amryw Sectau fu yn y Dyddiau gynt ar hyd *Afia*, a'r aneirif dduwiau yn *Aſyria*, *Paleſtine*, a Gwledydd eraill.

annwybodus, ac nis gwyddys lai nad oes ynddi o ddautu deugain o Deyrnafoedd. Yma y mae'r Afon fawr Niger yr hon fydd yn rhannu ei hunan yn amryw afonydd cyn mynd i'r Môr, ac nid llai na thri chant o filltiroedd ſydd rhwng y ddwy Fraich bella iddi yn mynd i'r Môr; a'r holl Wlâd rhyngthynt ſydd yn cael eu ddwfrhau trofto (ond yn unig y mannau uchel) megis Gwlâd yr Aipht gan yr afon Nilus, ac o ddautu yr un pryd, o ran mae yr afon Nile a'r afon Niger yn tarddu, nid ymhell jawn oddi wrth eu gilydd, a'r Glaw ag ſydd yn eu llifo hwynt ſydd yn diſgyn yr un amſer.

Mae gan y Portugeſe, y Ffrancod, y Saeſon, a'r Dutch, drigfannau yn y Wlâd hon, y rhai fu gynt eu gyd yn perthyn i'r Portugeſe, mae'r Trigolion yma i gyd yn ddu fel y frân, yr un a'r Negroes yn Guinea, ond fel y maent yn delio llai mewn Marſiandaeth

a Gwŷr

Eu. Ewch rhagoch yn y ffordd y mynnoch ond na adewch yr amſer i fynd heibio heb i mi glywed amryw newyddion bethau ag fo er adeiliadaeth i mi.

---

a Gwŷr Europe, y maent yn oneſtach Pobl. Marſiandwyr Europe ſyfid yn dwyn oddi yma Gaeth weiſion fel o Guinea, ac weithiau yn cael yma ychydig o Aur, Dant yr Elephant, a Drugs Meddygon.

Diwedd y Rhan gyntaf.



Yr

AIL RAN.

Ar

Ail Bennod.

Am y Gresydd Baganaidd yn America, *megis* Mexico, Peru, Virginia, *a Gwledydd eraill pan cafwyd hwy gynta.*

Apodemus.

YR ydych am i'n beidio treulio amser ymhellach, am hynny y peth nessaf sydd sôn am Gresydd hên Drigolion * America, Miliwnau o filiwnau o ba rai sydd yn awr yn y llwch, a rhannau mawr-

---

* AMERICA sydd Wlâd fawr yng ngosteyngiad yr Haul, ag ydys yn synnych yn ei alw y Byd Newydd; y mae hi bron cymmaint a dau han arall o'r Byd, o ddautu wyth nen naw mil o filltiroedd o'r Dê i'r Gogledd o hyd, end nid yn y man lletta ddim yn rhagor na thair mil o filltiroedd o lêd: mae'n cael ei hamgylchu gan y Moroedd, ac nid oedd dim gwybod am dani gan neb o Africa, Europe, ac Asia, hyd amser Crisstopher Columbus; Gwr o Enedigaeth o Genoa, (wedi meddwl ynddo ei hun fod gwahan mawr rhwng maintioli y Môr a'r Tîr, a thybied y gallai naill a thiroedd fod yn rhyw le tua gosteyngiad yr Haul heb ffeindio, neu fod tiroedd yr India yn y Dwyrain yn rhedeg trwy'r Môr Attlantic, yn

on ac ehang o'r Lleoedd ag fuont yn berchnogi yn meddiant amryw o Frenhinoedd EUROPE; ond mwyaf oll tan Awdurdod Brenhin *Spain*, yr hwn oedd y cyntaf a berch'nogodd *Dir y Gorllewyn*.

EU. Yna dechreuwch am ddull addoliad [os oedd addoliad gan] y rhai oedd yn y rhan o'r Byd newydd a ddaeth i'w ran ef.

AP.

---

yn agoſach attom ni nag y gallwyd deall hyd hyn) a wnaeth gyfnig gyd ag amryw o Frenhinoedd Europe, i gael Gwŷr a Llongau i forio tu a'r Gorllewin i 'mofyn am Wledydd Newyddion ac anadnabyddus, ond wedi ſfeulu tyccio gyda neb o honynt, o'r diwedd darfu i Frenhin Spain yn y Flwyddyn 1492 roddi iddo dair Llong fechan, o Borth Palos, yn Andaluſia, ac yntau i fod yn Admiral o *Foroedd y Gorllewin, ac i drefnu pob Llywodraeth ac achuſim yn y Byd Newydd ag oedd ef yn ddiſgwyl i ffeindio, ac heb law y gyflog oedd yn dyfed iddo oddiwrth y ſath ſwydd a bod yn Admiral, ac yn llywodraethwr tan y Brenhin, yr oedd iddo y ddegfed o'r Elw a ennillai ef yn y Gwledydd ag oedd yn ei obeitbio i ffeindio allan, ond ei Wyr ei hun, cyn pen* 14 *o ddiwarnodau ar ol ymadel ag Ynyſoedd* Canary, *i'r hyn le y daeth ef meun naw diwrnod o* Palos *(wrth ei weled yn morio ymhell i'r Gorllewin) a anucbeithiaſant gael Tir Newydd, ac a gyttuneſant yn erbyn ei Fywyd ef, er mwyn cael troi yn ol i hen* Spain; *ond ef erfyniodd arnynt i gael morio Mis yn rhager, ac yn yr amſer yr oeddent ar fedr ei daflu ef i lawr trws y Llong y gwelaſant Oleuni a'r Dir am* 10 *o'r gloch o Nos, a thranneeth y gwnaethant Dir yno, a* CHOLUMBUS *a alwodd yr Ynys* St. Salvador, *am y waredigaeth a gafodd, ſef achub ei Fywyd trwy weled Goleuni.*

Ac wedi hynny y ffeindiodd ef Cuba, Hiſpaniola, *ac amryw Leoedd ereill, ac a ddaeth yn ol i* Spain *ymhen ſaith Mis, ac un arwrned ar ddeg lle y derbyniwyd ef gan Frenhinllys* Spain, *gyda'r holl barch ac anrhydedd ag oedd ddyledus i Wr a ffeindiodd allan Wledydd re-*

wydd

AP. Nid oedd Trigolion *Mexico* pan gafodd Gwŷr *Spain* hi, Ond Dynion dyfod, rhai yn unig a goreſgynnaſant hi er's rhai cannoedd o flynyddau o'r blaen, yr hên Drigolion oedd yn cael eu galw *Chichimeras*, ond pa fath addoliad oedd ganthynt nis gallir fod yn ſicer jawn o hono, ond yn unig eu bod yn addoli yr Haul a'r Lleuad; ac fe ddywed Hiſtorwyr *Spain*, eu bod yn abérthu Ehediaid a Chreadurjaid eraill iddynt, a rhai Tyrrau o bridd mewn un man hyd y Dydd heddyw, un i'r Lleuad yn 525 o Latheidiau o gwmpas, a 50 o uwchder, a bod delw y Lleuad ar ei Ben ef, yn awr wedi cael ei thorri

---

wydd. 'Fe wnaeth eilwaith ail ſiwrnau a phymtheg Lleng; gwnaeth hefyd drydydd, a phedwarydd cyn ei farw.

Amryw ar ei ol ef megis Americus Veſputius, Sebaſtian Cabot, Vaſco Nunez de bilboa, Hernando Cortes, *ag eraill; wnaethant ſiwrneion treſodd nes ffeindio'r hôll Fyd mawr* AMERICA, *yr hon elwir felly oddi wrth* Americus Veſputius *yr hwn a ffeindiodd* y Goror Gorllewinol *i ddechreu* America, *ac a gafodd yr anrhydedd gyntaf o gael ei Enw ar yr hôll-fyd hwnnw.*

Mae y rhan fwya o'r Wlad fawr hon yr awrhon tan Lywodraeth pedwar o Frenhineedd Europe, *ſef Brenhinoedd* Spain, Portugal, Brydain, *a* Ffraingc; *er bod rhyw ychydig drigfannau gan y* Daniaid, *y* Dutch, *ac eraill o Frenhinoedd* Europe *yma mewn rhai mannau; a llawer o Leoedd helaeth ar hyd gancl y Wlad heb neb yn berchennog o honynt ond yr Indiaid, ſef yr hen drigolion.*

Y lleoedd mwyaf ſydd gan Spain *yma yw hen* Mexico, *a* Mexico *newydd, a* Florida, *yn Gogledd* America; Terra-Firma, Peru, Chili, Patagonia, Paragua, *neu* Laptata, *a Gwlad yr* Amazoniaid; *ar Ynyſoedd yn perthyn i* Spain, *yn y Deheu a Gogledd* America, *yr hyn i gyd ſydd o ddeutu ſaith mil o filltiroedd o hyd, ond y lled yn amrywiol, mewn rhai mannau yn bymtheg cant, rhai mannau nid tres gant milltir.*

gan Eſgob cyntaf *Mexico*. A'r Twr arall i'r Haul, oedd medd yr Haneſiwr hyn 750 o Latheidiau oddi amgylch, a delw yr Haul ar eu Ben yntef, yn âwr wedi torri, ond y darnau yn rhy fawr i'w ſymmyd oddiyno ei gyd wedi ei gorchguddio ac Aur, ond yn unig twll cau yn ei mynwes ar ba un yr oedd Llûn yr Haul, megis yr oedd delw y Lleuad hefyd hithau.

Ev. Ond pa fath dduwiau oedd gan Drigolion *Mexico*, pan tiriodd Gwŷr *Spain* yno.

Ar. Os ydoedd ganthynt un uw ag oeddent yn ddych'mygu fod o war y llaill, yr Haul ydoedd; Mae yn eglur fod ganthynt barch mawr i'r Crëadur gogoneddus hwn, gan eu bod yn cyfri y cwbl ag oedd

---

Gan Bortugal *y mae y Wlad fawr* Brazil *yr hon ſydd mewn union feſſur yn ddwy fil a phedwar cant milltir ei hyd, ond wrth ddilyn y Mor nid llai na phedair mil; ond nid rhagor ei lled mewn llawer man na dau cant milltir.*

Yr hyn eilwaith ſydd gan Frenhin Lloegr *yn y Wlad hon, yw* Carolina, Georgia, Virginia, Maryland, Penſylvania, New Jerſey, New York, New England, New Scotland, *a* New Brittain, *ac yn olaf* Hutſon's Bay, *y rhai ſydd oll tros bymtheg cant o filltiroedd o hyd, ond prin dau cant o led mewn llawer o fannau, heb law ennillwyd yn y rhyfel preſennol ar* Ffraingc.

Ar Ffrancod *huythau ſydd yn ymffrſlio bod ganthynt yma Wledydd amryw a helaeth megis rhan o* Canada, *nes ei cholli* yn y *Rhyfel hyn*, Caen, Carribiana, *ac amryw Ynyſoedd, a dynied eu Mappau hwy yd y gyntaf o'r rhain* yn 1800 *milltir o hyd, a* 1260 *o led, ond gormod rhoi ffydd iddynt* yn y *cwbl a ddywed nt.*

Ac am Mexico, yr *hon ſydd* yn *eiddo'r* Spaniards, *Gwlad o ddautu dwy fil o filltiroedd o hyd, a un cant ar bymtheg o led. Yma* y *mae* y *Farſiandaeth fwya cyfoethog ac ehang trwy'r holl Fŷd. can's* y *maent* yn *trido ag Ynyſoedd* y Philipine, *a'r Gorer* China, *trwy For*

y

oedd fawr a rhyfeddol idd i'w gyfarwyddiad, a'i rinwedd; ond nid oedd ganthynt un ddelw o'r Haul na'r Lleuad yn Nhemlau *Mexico*, fel y Trigoljon o'r blaen, elwid *Chichimeras* arnynt, fe alle, naill a'i am eu bod yn tybied nad oedd achos gwneud delw o dduwiau ag oedd yn eu golwg hwynt bob Dydd, neu bod rhag-dduwiau tanynt, i ba rai yr oedd ganthynt Ddelwau a Themlau.

Eu. Enwch rai o rhain.

Ap. Yr oedd ganthynt Ddelw *Vitziliputztli* fef Duw rhyfel, yr hon oedd ar Lun Dŷn yn eiſtedd ar orſedd, yr hon orſedd oedd yn ſefyll ar bêl gron fel y Bŷd, o liw yr Awyr, o yſtlyſau pa un, yr oedd yn tarddu allan bedair Gwialen, a phen pob un fel Sarph:

---

y *Dehau*; *ag a* Pheru, *a* Chili, *trwy'r un Mor, ac a hen* Spain *a'r Ynyſoedd ſydd yn perthyn iddi trwy For y Gogledd, llwyth* y *Llong Manila*, yw *Diamondi, Rubiet, Saphires, a meini gwerthfawr eraill o'r* Eaſt Indies, *Cinnamon, Cloves, Mace, Nutmegs, a Phubur*; *Carpedau gwerthfawr* Perſia; *Camphir o* Barneo; *Benjamin ac Ivory o* Pegu, *a Chambodia*; *Sidanau, Muſlin, a Chalicoes o'r* Eaſt India; *Llwch Aur, Tea, China-ware, a Sidan, o* China *a* Japan; yr *hyn bethau ſydd* yn *myned i bris mawr jawn, ac* yn y *Llong hyn ei hunan mae mwy o Dryſor nag mewn Fleets o Longau Marſiandwyr. Dwedir fod* y *Marſiandwyr* yn *ennill cant a hanner o bynnau ar bob cant* yn y *ſiwrnau hon.*

Nid oes ond 30 *neu* 40 *o Longau* yn *marſiando rhwng hen* Spain *ag* America y *rhai elwir gallŵns arnynt, y rhain ſydd yn goſod allan o* Cadiz yn *Fleets gyda ei gilydd bob blwyddyn, wedi ei llwytho ymron a meddiannau o bob Gwlad* yr *ochor hyn i'r Mor* Atlantic *a'r Llwythau hyn ſydd* yn *perthyn i amryw o Dywyſogion* Europe, yn *enwedig* y Saeſon, y Dutch, yr Italiaid, y French; *a'r* Spaniards yn *dwyn troſcedd, ac* yn *Merchnatta iddynt yno, ac* yn *dwyn* yn *ol* y *Gwerth, ac* yn *ei rhannu rhwng Marſiandwyr* Europe, y *rhai a*

anfonodd

Sarph: ar ben y ddelw yr oedd helm, wedi ei addurno a phlŷf o bob llywiau; ei dull oedd hull ac ofnadwy, ac yn fwy hagar o lawer am fod dau wregis laefion yn rhwymo ei thrwyn a'i thalcen; yn y Llaw ddeheu yr oedd hi yn dal Sarph blygiedig yn lle ffon; ac yn y Llaw aſſwy, pedair Saeth o roddjad y Nefoedd: Yr ydoedd y Ddelw yn dal hefyd Darian wedi ei haddurno a phob mâth o blŷf gwynion, yn y dull o groes. Yn agos hefyd i'r ddelw hon yr oedd mewn Cappel arall yr hwn oedd fel hwn, ddelw arall a'i Henw *Tlalock*, fel y llall ymhob yſtur; y rhain oeddent gyfeillion ddauwiau, a'r bobl yn rhoi iddynt yr un fâth addoliad: ac nid llai nag wyth o Demlau mawrion jawn ac ardderchog i'r duw hwn oedd yn Ninas *Mexico*, heb law dwy fil meddant o rai oedd lai, wedi eu cyſſegru i gynnifer o

---

anfonodd eu meddinnau treſodd at gael cyfnewid yn y *Wlad hon, mae amryw ogfeidd hull mewn Mynyddau ag ſydd* yn *taflu Mwg a Than allan* yn *waſtadol, ac* yn *achos o Ddaear-grynfau* yn *fynych jawn.*

Lliw y *Dynion ſydd ar liw'r Oliwydden, eu gwallt ſydd* yn *ddu, ac nid y'nt fyth* yn *gadel blewyn i dyfu ar un man o'u Cyrph ond eu pennau a'u haelau, y lleill a dynnant ymmaith pryd cynta* yr *ymddangoſant, ei Cyrph ſydd wedi ei baintio, a phob rhyw Liwiau, y Benwod ſydd* yn *cneinio, ac* yn *paintio eu plant* yn *Ifaingc jawn, y lliwieu y'nt benna* yn *ei garu yw, Coch, Glas, a Melyn; ac rai prydiau hwy wnant lyniau Dynion, Anifeiliaid, Adar, a Choed ar bob rhan o'i Cyrph, yn enwedig eu hwynebau, macnt* yn *gwneud* y *llyniau hyn a phren bychan, wedi cnoi un pen iddo a'u Dannedd nes y b'o* yn *feddal, ac yna irant* y *lliw ag ef, drachefn a thrachefn nes byddo wedi ſefydlu: ond* yn *fynych tu ag at ddodi* y *lliwiau hyn* yn *barhaus, pigant* y *Croen a drain, nes llifo allan Waed, ac yna gyrrant* y *lliw i mewn fel* y *ſafo felly byth mwy.*

Gwiſgoedd

o dduwiau neullduol; pob heol a'u duw neullduol, tan Enw neullduol; pob cyſtudd a gwaſgfa ag allor neullduol, at ba un y byddent yn ymoſod tan y gofyd hwnnw am feddiginiaeth:---A delw arall oedd ganthynt enwid *Teſcalicup* ſef Duw edifeirwch; at ba un yr oeddent yn cyfeirio eu Haddoliad mewn cyfyngderau, ac yn eu hymprydiau y ddelw hon oedd ar ddull Dŷn, wedi ei naddu allan o Garreg ddiſglair ddu, ac yn eiſtedd ar gadair ar ganol yr allor: ei Wallt wedi ei glymmu i fynu a Gwregis Aur, yn dal pedair o ſaethau yn ei Law ddeheu, ac yn ei Law aſſwy Ddrych Aur, ac yn dal Ffan yn yr

---

Gwiſgedd y rhan fwya o Genhedlaethau Mexico, *maent yn gwiſgo rhyw beth am danynt, end mae yno* Indiaid *rai ac ſydd yn myned yn berffaith noeth.* Gumelli *ſyad yn rhoi hanes iddo fe weled y* Chichimeras, *ſef cenedl o* Indiaid *heb un rhan o'i cyrph wedi ei orchguddi ond yn unig eu noethni; y lleill o'u cyrph yn noeth, ag wedi ei liwio ac amryw liwiau: bod eu bwynebau wedi eu britbio yn lleiniau, duon, trwy bigo ei crwyn a gyrru i mewn y lliwiau: fod rhai o rhain yn gwiſgo pennau Ceirw, y cyrn ar cwbl ar ei pennau eu hunain; eraill a phennau Llewod, Tyger, neu bennau Bleiddiaid ar eu pennau eu hun, wedi cu rhwymo bwynt yn ſicr am eu Gyddfau a charreion o grwyn y Bwyſtfil hwnnw: Y rhain oedd yn cael eu gwiſgo medd ef fel arwydd o'r Buddugoliaethau a gawſant ar y bwſtfilod hynny. Ond nid y'nt gymmaint awyddus i ddim ag i ladd y* Spaniard, *fel y gallent rwymo ei ben ef ar eu Ben ei hun, a gorfoleddu yn Niſtryw eu Gelynion mwaf ei brydus.*

Ond pa mor brin bynnag y mae y rhain o ddillad nid y'nt ddim heb ca haddurnau ar ei bwynebau eu cluſtiau a'u gyddfau heblaw y britbau enwais eiſtu

Y

yr un Llaw, wedi ei gwneud o blŷf o bob Lliwiau. Ond ymhlith amryw jawn o dduwiau eraill, yr oedd ganthynt Enlyn wedi eu llynio o Dôs, yr hwn a wnawd o amryw fath o flawd, wedi ei gymmysg a Mêl; i'r hon yr oeddent yn gwneud i'w carcharoion y rhai oedd wedi eu rhoi i fod yn aberth i wneud Addoliad.

Eu. Pa beth a ddywedasoch? a oeddent yn aberthu Dynion!

Ap. Mae'n debig eu bod ar ryw achosion mawrion ond hyn oedd anfynych ac anaml jawn, ond nid oedd yr hanesion ag a roddodd y *Spaniards* allan am danynt, ond lliw î daflu tros yr holl greulondeb a arferasant

---

Y Gwyr sydd ganthynt yn wastad ddalen deneu o Aur, neu Arian yn crogi i lawr tros ei gwefysau, ar lun wy, wedi ei sicrhau wrth y trwyn a darn o'i ochor uchaf wedi ei gymmeryd ymmaith ar lun lleuad newydd —— y Benwod bwythau yn lle dalen aur, a wisgant fodrwy o'r un faintioli yr hon sydd yn caued am fwydyn y Trwyn, ac wrth ei phwys sydd weithiau yn ei estyn ef i lawr yn agos i'r wefus uchaf, y Gwrrwod a'Benwod a dynnant y rhain ymaith yr amser y b'ont yn bwytta, ond y mae ganthynt rai sydd lai nas traid tynny 'mo honynt. Y Pendefigion hefyd sydd ganthynt ddwy ddalen Aur, o lun calon Dyn, yn rhychwhaut o hyd, wrth bob Clust wedi eu Sicrhau a chadwyn Aur, yr hyn sydd yn estyn y Clust i hyd anzhyffredin; mae ganthynt hefyd ffilet Aur neu Arian o ddautu eu pennau wrth neu naw modfedd o led, wedi ei thorri ar lun dannedd llif yr ochor uchaf; Eraill ffilet o Gaenen wedi ei lliwio yn goch, a gosod yndai blyf o bob llywiau, o gylch gwmpas yn sefyll yn union: ac y mae yn agos yr holl Indiaid *Gwrrwod a Benwod yn gwisgo carreion neu gadwyni o fedeu, dannedd crogennau a rhyw Dŷs*

eraill

rafant hwy yn *America*: haerent fod Dynion ag oedd yn aberthu eu gilydd i'w duwiau fel y rhan beunaf o'i Crefydd yn deilwng o'i dihenyddu. Ond y mae Escob *Chiapa*, ag oedd yn cyfaneddu yn *Mexico* yn amfer y Fyddugoliaeth, wedi ei ddanfon trofodd o *Spain* i chwilio ynghylch yr achofion hyn, ac i amddiffyn yr *Indiaid* yn erbyn y gorthrymder creulion oeddent yn ei gael gan *Gortes*, || a'i Wŷr yn ein cadarnhau i ni fod y rhan fwya o'r achwyniad hyn yn anwireddus; mae yn llc bod trigolion *Mexico* yn aberthu (hanner can mil medd rhai) bob Blwyddyn, nas darfu iddynt erioed offrwm hanner cant mewn un Flwyddyn; ac yr wyf fi'n deall nas darfu iddynt offrymmu nag anifail na dŷn yn gyffredin ond yn unig a'r ryw wyliau mawrion, neu mewn amfer o Farn gyffredin, megis new yn, neu aflwyddiant mewn rhyfel, i ddofi llidawgrwydd eu duwiau; megis yr oedd y *Phenefiaid* a'r *Carthaginiaid* gynt, oddiwrth ba rai mae yn bur debig iddynt gael eu dechreuad.

---

ernill yn crogi i lawr o'i gyddfau i'w mynwefau: ymron pob un fydd a thri neu bedwar cant o'r cadwyni hyn am dano, a pha fwya a thryma y bont, mwya arddercheg; y fenyw waela pan y bo hi wedi ei chyflawn wisgo fydd a phymtheg neu ugain punys, a rhai a deg ar hugain, a r Gwyr ddau cymmaint; ond nis gwisgant y rhain ond mewn Gwleddoedd neu mewn achefion mawrion. Y Benwed fydd yn dwyn addurnau y Gwyr mewn Basgedau i'r Gwleddoedd, lle byddant yn eu gwisgo ac yn dawnfio a'r holl bwyfau hyn oddiatu iddynt.

|| Hernando Cortes, *yr hwn a fortodd i Ynys* Hifpaniola, *yn y Flwyddyn* 1504, *ac odd yno i Ynys* Cuba, *ac yno y gwnawd ef yn flaenor ar Fyddin o Wyr a Llongau, ar fedr cymmeryd gorefgyn ar y Wlad fawr* Mexico, *Ac ar ol ennill Trefydd lychain daeth a'i Wyr o'r diwedd ar gyfer Dinas* Mexico, *yr hon yw pryf Ddinas Ymerodraeth* Mexico *ac yn beduir onglog, ac o ddautu naw Milltir o gwmpas, lle y cafodd ef gennadwri oddi wrth*

yn

Ac fe ddywed yr un rhyw *Escob* fod y mwrddwyr hyn, ſef *Cortes* a'i fyddyn wedi deſeiſio i gyfiawnhau eu creulondeb, gan chwanegu gallid cadarnhau i'r *Spaniards* er pan tiriaſant yn yr *Indies*, i aberthu yn flynyddawl i'w duwies fawr AWYDD GOLUD, fwy o Bobl mewn blwyddyn, nag a ddarfu i'r *Indiaid* tros gan mlynedd o'r blaen.

Eu. Mae arnaf chwant clywed ychydig ragor am ddull eu haddoliad i'r duwiau enwaſoch eiſiws.

Ap. Mae'n rhaid i chwi gredu Haneſwyr *Spain* yn y peth hyn neu fod heb un Hanes yr un a fynnoch, y pennaf a'r goreu o honynt oedd yr hwn alwent y *Tad Accoſta* oddi wrth ba un darfu i'r lleill i gael fwya o'u Haneſion; ac mor belled ac y gwelodd ef ei hun bethau, mor belled y gellir ei gredu ef, ond yr oedd ef fel y lleill o'r Papiſtiaid yn rhy barod i gredu hen chwedlau, a gwrthiau, ac yn ganlynol am y pethau na's gwelodd nid oes rhoi cymmaint yn hollol o ffydd iddynt.

Eu.

---

yr Ymerawdwr mawr Montezuma, *ac ar ol lleſgi ei Longau a ddechreuodd gychuyn at y Ddinas ac a warchaedd arni, ac er cael cennadwri arall oddi wrth yr Ymerawdwr, 'ſe gwympodd arni, ac a laddodd lawer mil o'r Dinaſyddion, ac yna yr Ymerawdwr wedi ei ſarnychu gan ofn, wrth weled eu Ddeiliaid wedi eu darnio, a gynnigodd rhoddi eu hun i drugaredd ac at Euyllys* Cortes, *ac yn ganlynol agorodd byrth y Dinas iddo yn y Flwyddyn* 1519: *ymhen ychydig wedyn* Cortes *a wnaeth yr Ymerawdwr yngarcharor, a'i Swyddogion ef aeth ymlaen i'ſpelio'r dref, ar ba achos y gwrthryfeloedd y dinaſyddion ac a yrraſant y* Spaniards *allan o'r Ddinas; ac mae'n debig mwrddro* Montezuma *gan y* Spaniards *y pryd hynny, can's nis clywyd am yr Ymerawdwr byth mwy.*

Ond Cortes *wedi cael rhagor o Fyddin o* Spain *a ymchwelodd ac a warchaodd arni cyſtal o'r Tir ac o'r Dwr, nes gwneid ei hun yn feiſtr o honi yn y flwyddyn* 1521, *ymha ſyddug lladdfa yſcelerus y lladdodd ef gant o filoedd o'r* Indiaid.

Eu. Ond pan na's gwelsoch eich hun y pethau hyn nag un Awdwr Proteſtanaidd genych, ewch rhagoch i ddangos pa beth a ddywaid gwyr *Spain* am ddull Addoliad hen Drigolion *Mexico*.

Ap. Fe ddywed *Acoſta* ſod y Diaſol wedi dyſcu'r *Indiaid* tywyll hynny, i ganlyn yr Iddewon a'r Criſtnogion yn addoliad a gwaſanaeth eu Heulunod; bod ganthynt eu Temlau, eu Hoffeiriaid, eu Haberthau, eu Sacramentau, eu Proffwydi, au Gweinidogion, fel yr oedd gan Bobl DDUW.

Eu. Pa ddull ydoedd eu Temlau meddant.

Ap. Y bennaf oedd i *Vitziliputzli* duw rhyfel, yr hon oedd yn ſefyll ar Darren pedair onglog, wedi ei hamgylchu a mur o gerrig nadd, wedi eu cerfio o'u tu faes ag amryw glymmau Seirph-plethedig; ychydig oddiwrth y porth pennaf yr oedd y lle addoliad, wedi ei adeiliadu o feini, a'i eſgyniad yn 30, o riſiau, a'r ben pa un yr oedd cronglwyd hir oleddog, a'r tu blaen iddi wedi eu gorchguddio ag Eſgyrn pennau Dynion a aberthwyd, wedi eu goſodyn rheſau un oddiar y llall, nes hanner gorchguddio'r adeiliad; a'r bob ochor y mur mawr, pedwar onglod yr oedd porth ardderchog, ac uwch ben pob porth yr oedd pedair delw o ryw rag-ddarluniau; can's pob un ag ae i mewn i'r porth a ymgrymmai iddynt. Tan y mur o tu mewn yr oedd ſtaferlledd yr Offeiriaid, a'u Swyddogion, a'u Gweiſion, ac er hynny yr oedd y cyntedd mor ehelaeth ac y gallei wyth neu ddeng mil o ddynion i ddawnſio a'r en Gwleddodd hwynt; ynghanol y cyntedd pedwar onglog hyn yr oedd adeiliad pedwar onglog, a'r ddull piramid, ei odrau yn gwmpaſog a'i goppa yn gul; tair ochor iddo yn llyfn, a'r llall yn cynnwys chwech ugain o riſiau cerrig, a'r hyd ba rai yr oeddent yn eſgyn i'w ben ef, yr hwn oedd yn llawr gwaſtad o 40 troedfedd, wedi ei balmentu a *Jaſper* o bob lliwiau. Y railau ag oedd yn amgylchiadu hwn oedd a'r lun Saiph, wedi eu gorchguddio a charreg ddu fel Jett, a'u cyſylltu hwynt a'u gilydd a mâth o ſortar du a gwyn yn hardd jawn, ac ar

bob cchor, o fewn i'r railiau hyn, yr oedd llun dyn o Farble, yn dal canwyllbren mawr yn ei law, a rhwng y rhain yr oedd carreg wyrdd 5 rhychwant o uwchder oddiwrth y llawr, yr hon oedd yn terfunu yn bigfain; ac a'r hon yr oeddent yn aberthu Dynion, gan eu gosod a'r eu cefnau, a'u rhwygo hwynt yn agored a chareg o fflint; ac yno tynnent allan eu Calonau ac offrymment hwynt i'w duwiau. Can's yr ochor ar gyfer y grisiau, yr oedd yn sefyll Gappel o ddefnyddiau ac o wneuthuriad tra rhagorol, lle yr oedd yr Eulun wedi cael ei osod a'r allor fel y dwedais eusiws.

Ev. Cymmaint a hynny am eu Temlau, ond gair am eu Offeiriaid.

Ar. Yr oedd ganthynt Archoffeiriad (medd ef) ag awdurdod hollawl yn ei law, ac oedd yn berchen a'r ei swydd wrth Etefeddiaeth, ond y lleill o'r Offeiriaid oedd yn cael eu dewis i'r alwad a hynny yn eu Jeungctyd; a'r Offeiriaid hyn oedd yn offrymmu arogl darth beunyddiol i'w duwiau: a hyn bedair gwaith mewn pedair awr a'r hugain, sef a'r dorriad y Dydd, ganol Dydd, a'r ostyngiad yr Haul, a chanol Nôs; a'r ba amser y byddent yn canu eu Drummau a'u Hytgyrn, yr Archoffeiriad ag fyddau yn disgwyl arnynt, (wedi ei wisgo mewn mâth o wisg,) a gymerai Dân oddiar yr allor ganol Nôs, ac wedi enyn, yr Eulun oedd yn cael ei ganlyn i'r Cappel gan y lleill o'r Offeiriaid a Swyddogion y Deml; ymha le yr oeddent yn cyflawnu mâth o benyd creulion jawn, trwy guro a thorri eu hunain hyd onis rhedau allan eu gwaed; ac yna lliwio eu Hwynebau yn eu gwaed eu hunain. Yr Offeiriad, ac amryw o rai crefyddol oedd yn ymprydio o bymp i ddeg Niwrnod o flaen eu Gwyliau arbenig; a rhai o honynt fyddai yn briwio, ac yn torri eu hunain mewn modd ofnadwy; nid oeddent chwaith yn yfed Diod gadarn, na rhoddi cwsg i'w hamrantau am fod y rhan fwya o'u penyd yn cael ei wneuthur, yn y Nôs.

Eu. Ond pa fath oedd eu haberthau, yn enwedig, pa ddull yr oeddent yn aberthu Dynion? y creulondeb pennaf fydd yn perthyn i'r Grefydd Baganaidd!

Ap. Os gellir credu *Acofta* a'r y pwngc hwn, fe ddywed fod y caeth-weifion ag oedd wedi eu pwrpafu at aberth, yn cael eu dwyn at droed grifiau'r Deml, ac yn cael eu cyfarfod yno gan un o'r Arch-Offeiriaid, yr hwn a fyddau yn cyflwyno iddynt y ddewisaf wnaethid ô dôs can Gwenith, Maize, a Mêl, gan gyhoeddi iddynt mae hwn oedd eu duw hwynt; ac a'i ol rhai Seremoniau eraill, un o'r Dynion hyn fyddai yn cael ei ofod a'r ben y garreg wyrdd, lle yr oedd chwech Offeiriad yn barod i w ddihenyddio ef; dau yn mafiyd yn ei Freichiau, dau yn ei Draed, a'r llall yn rhoi cadwyn-bren am ei Wddf ef; ac wedi ei ofod a'r ei gefn a'r ben y garreg, y chweched yr hwn a fyddau Archoffeiriad, a rwygau ei ddwyfron ef yn agor a chyllell o fflint, a chan dynny allan ei Galon ef, a'i cyflwynau hi yn gynta i'r Haul, ac yna a'i taflau hi i'r ddelw *Vuzil puztli*, neu ryw eulun arall! Yn y cyfamfer dwylo ac wynebau'r Offeiriid fyddau wedi eu-lliwio yn ddu tra yr oeddent wrth yr aberth; a chan yr Archoffeiriad yr oedd mantell goch, a choron o blyf o' amryw liwiau, a thlyfau yn hongian wrth ei Glyftiau a'i Wefyfau. Mewn rhai gwyliau hefyd medd yr un awdwr, y byddent yn blingo caeth-was! ac yn gwifgo arall yn ei groen ef yr hwn a fyddau yn cael ei anfon oddiamgylch yr Heolydd i fegian Eulufen gan y bobl, y rhai oedd yn rhoi yn haelionus a'r yr achofion hyn; a'r Eulufen fyddau yn cael eu gofod at wafanaeth y Deml.

Fe ddywed hefyd fod caeth was yn cael ei roddi bob Blwyddyn i'r Offeiriad, fel y bai yn repreſentio eu duw hwynt. Y Dyn hwn fyddent yn wifgo a gwifgoedd ac addurnau yr Eulun ag oedd ef yn repreſentio, ac yn rhoi iddo yr un enw; a hwn fyddau yn cael ei anrhydeddu a'i addoli y flwyddyn hynny fel yr Eulun ei hun, ac yn cael ei ofod yn y fan goreu o'r Deml, cael ei wledda a'i fwydo gan

gan y goreuon, a phan byddai yn mynd trwy'r Heol, Tywyſogion ac Arglwyddi fyddau yn dwyn ei gwmpni; ſe fyddai yn canu pib a'r Bobl fyddau yn ei addoli ef fel y bai yn myned heibio iddynt: ac ar ddiwedd y ſwyddyn y byddai yn cael ei aberthu, ac yn gwneid un yn rhagor yn rhoddi eu duwiau mewn gwyl oeddent yn gadw i'r duw *Vitzilipuztli*, yr oedd y gwyryfon (can's yr oedd ganthynt Feibion a Merched gweddwon yn cael eu cadw at waſanaeth y Deml) yn gwneid llun eu duw o Dôs o ſlawd, Maize, a Mêl; yr hon ddelw wedi ei gwiſgo hi i ſynu, a'i goſod mewn cadair o liw'r awyr, y gwyryfon y rhai yn yr wyl honno alwent eu hunain yn chwiorydd *Vitzilipuztli* a'i dygent hi a'r eu hyſgwyddau i'r cyntedd o ſlaen y Deml, lle yr oedd y Gwyr gweddwon hwythau yn ei derbyn hi, gan ei dwyn a'r eu hyſgwyddau i'r gryſiau o ſlaen yr allor, i ba le y byddau y Bobl yn dyſod a'i haddoli hi, gan daflu llwch a'r eu pennau. Yna llwy a aent mewn proſeſiwn a'r Eulun i Fynydd, dair milltir oddiwrth *Mexico*, gan ei dwyn trwy amryw o bentrefi cymdogaethol; ac yna hwy ddychwelant i'r Deml mewn modd tra gogoneddus, gan ganu y Drummau a'r Utgyrn, gorchguddio y Ddelw a Rhoſes, a gwaſarnu y Ddaiar a phob math o ſidan. Yna y gwyryfon a gymerent Dôs, ac a'i tylinent ef a'r lun Eſgyrn Dynion, gan ei roi fel hyn oſlaen traed yr Eulun, ac wedi eu cyſſegru gan yr Offeiriaid, hwn oedd yn cael ei alw Cnawd ac Eſgyrn *Vitzilipuztli*: ac oddautu hwn y canent, y dawnſent, gan roi anrhydedd ddwyfol iddynt, fel i'r Eulun ei hunan. Ac a'r ol hyn yr Offeiriaid a ddihattrent yr Eulun o'r Tôs a'r holl addurnau eraill, gan dorri hwn a'r Eſgyrn yn ddarnau, yr hwn a gyfrannent i'r Bobl, gan erchi iddynt "bwyttewch Gig eich Duw; " ac yna diweddid y cwbl a rhyw ſâth o Bregeth, neu Ymadrodd gan yr Offeiriaid.

Eu. Os yw'r Haneſion hyn yn wir gan Hiſtorwyr *Spain* mae'r Diafol wedi dwyn llawer o Seremoniau Crefydd y *Spainiardi* trofodd cyn iddynt hwy fyned yno eu hunan.

Ar.

Ap. Gwir yw, maent yn adrodd amrywiol bethau yng Nghrefydd yr *Indiaid*, ag fydd yn bur gyffelib idd i'w harferion a'i Seremoniau hwynt eu hunain, pe bawn ond yn adrodd y cwbl o arferion y Dynion tywyll hyn.

Eu. Ewch rhagoch ychydig.

Ap. Mae ganthynt Wyl fawr hefyd i'r duw *Teſcalipuca*, yn yr hon y mae'r Offeiriaid yn rhyddhau'r Bobl oddi wrth eu Pechodau,

Eu. Tebycca gyd i Eglwys *Rufain* fyth.

Ap. Pyrth y Deml a agorir, ac un o'r Offeiriaid a ymddengis, gan chwythu mewn corn, a throi ei Wyneb at y pedwar Gwynt: ac yna y cymmer ef i fynu lwch y Ddaear, gan ei ddodi yn ei Enau, gan edrych tua'r Nêf; a'r holl Bobl yn gwneud yr un modd, gan ochneidio, gryddfan, ac wylo, am eu Pechodau; a chan ymgrynimu eu hunain i'r Ddaear yn erfyn trugaredd y duw.

Y Corn a genir fel hyn tros faith niwrnod, y naill ar ôl y llall, ſef o'r nawfed hyd y ddau nawfed o *Fai*; a'r holl amſer hyn fydd yn cael ei dreulio mewn galar ac wylofain; ac ar y Dydd olaf o'r Wyl bydd delw y *Teſcalipuca* yn cael eu dwyn mewn proſſeſiwn, gan Offeiriaid yn cerdded o'i blaen hi a thuſurau yn ei Dwylo; ac, bob pryd y byddent yn arogldarthu'r Bobl, derchafent eu dwylo i fynu tua'r Nêf, gan addoli yr Haul a'i delw: ac yn yr cyfamſer byddai'r rhai edifeiriol yn flangellu eu hunan a chwippau ac a charreion a chlymmau arnynt: ac yna y Bobl ar ôl y proſſeſion hwn a roddent eu rhoddion Aur, Arian, a Ffrwythau'r Ddaear neu rywbeth arall o lafur eu dwylo. Y pryd hefyd y gosodant amrywiol jawn o Fwydydd danteithiol o flaen y ddelw, yr hyn fyddai wedyn yn cael ei ddwyn gan weiſion y Deml i Stafelloedd yr Offeiriaid; yr holl Seremoni hyn a ddibenyd ag aberthjad y Dŷn ag oedd wedi bod trwy'r Flwyddyn aeth heibio yn ddelw ſaw o'r duw Edifeirwch, a'r caniadau a'r dawnſiau arferol ar y fath achoſion.

Dyma yr Eulyn-addoliaeth oedd yn *Mexico* pan y cafwyd hi gyntaf gan y *Spaniardi*, ac y mae yn bur

debig eu bod ar Ddyddiau Gwylion, neu ryw achoſion mawrion eraill fel y dywedpwyd eiſiws yn aberthu Dynion, ond nid y'nt eu hunain yn ſôn dim yn thagor nag un Dyn ar yr un Wŷl, yr hyn oedd yn gwneud y weithred ofnadwy ddim ond anaml jawn, ac nid cynnifer o ſiloedd yn y Flwyddyn ag y maent eu hunain yn ei ddweud mewn mannau eraill. Ac yma ni's gallaf lai na ſſieiddio eu Storiau, fod Dynion yma yn bwytta eu gilydd, pan na chain yr awrhon un ran o'r Byd ag y mae Dynion yn ymborthi ar eu gilydd, ond mewn eitha newyn a chaledi.

Eu. A ydynt wedi dweud y ſath beth?

Ar. Ydynt, ac ſe ddywed *Acoſta* ei hunan ar ôl aberthu'r Caeth was yng Ngwledd *Vitzilipuzli* fod y Corph ar ôl cael ei daſlu lawr i'r gryſiau, yn cael ei gymmeryd i fynu gan y neb a'i cymmerodd ef yn garchanor, ac yn cael ei ddwyn ymaith, ei ferwi, ei freulio, neu ei trin ryw ffordd arall, ac i w gyfeillion wledda arno; y pethau hyn oedd i gadarnhau cyfreithlondeb creulondeb y *Spaniards* yn difetha'r trigolion, ac y mae hefyd gynnifer o withiau meddant wedi i'r Spaniards wneud trwy rinwedd y groes a phethau eraill, ag fydd yn peri i ddarllenydd yſtyriol i ffieiddio y ſath chwedlau; ond mi wnes fy ngorau am fanegu i chwi y pethau ag oedd fwyaf tebygol o fod yn wir.

Yn unig goddefwch i mi adrodd etto am un Wŷl arbenig oedd ganthynt, i *Quidzalcoalt*, Duw Marſiandaeth, lle byddai'i Marſiandwyr yn prynu caethwâs jeuangc teg yr olwg, heb un rhyw anaf arno; i fod yn ddelw fywiol o'r Duw hwn; ac ar ôl ei olchi, a'i lanhau, hwy gwiſgent ef yn yr un gwiſgoedd ag addurnau ag oedd y ddelw oedd ef yn ei ddal allan yn wiſgo: yna hwy ddawnſient, ac a ganent, ac a'i haddolent ef; gan roi iddo bob peth dymunol i fywyd: ond, naw niwrnod cyn ei farwolaeth, hwy ddodent ef mewn côf o'i Angau yn agoſhau; ac, os ymddangoſai o fod yn wan, yn llwfr, ac yn athriſt, hwy codent ef i fynu a Diod gadarn, nes doe yn llawen, ac yn anheimladwy o'i ddioddefaint: ac ar Nôs yr Wŷl, oddautu hanner Nôs, hwy offrymmient ef yn

y

y ffordd gyffredin, gan rwygo ei ddwyfron, cymmeryd allan ei Galon yr hon yn gyntaf offrymment i'r Lleuad, ac yna a daflent yn Wyneb yr Eulyn, a thaflu'r Corph i lawr i gryfiau'r Deml, ond pa beth a wnaent iddo wedyn nid wyf yn deall, ond diau nid eu drin a'i fwytta gan Marfiandwyr fel y dywedant hwy.

Eu. Gwir yw'r Gair mae Duw wedi rhoi amryfyfedd cadarn iddynt fel y credent gelwydd.

Ap. Chwi ryfeddech y fath liaws o chwedlau gweigion ac o Hanefion cyfeiliornus, o wrthiau, ac o ryfeddodau celwyddog fydd wedi ei gafglu i mewn gan Eglwys *Rysain* i dwyllo'r cyffredin Bobl; y rhai fydd wedi eu rhoi i fynu i gredu y cwbl, er nad os rhefwm na thyftiolaeth un Dyn geirwir yn ei gadarnhau, ac o'r fath hyn y rhoefant amrywiol allan o wrthiau am y groes a gwehilion eraill o'i Crefydd, wrth orchfugu *Indiaid.* Ond y mae yn beth rhyfedd os gwir yw, fod Crefydd yr *Indiaid* mor agos i'r Grefydd Babaidd a'r Iddewaidd ag y maent hwy eu hunain yn dweid, pan yn ddiau yr oedd Dynion wedi myned trofoedd i *America* cyn erioed fod y Grefydd Griftnogol mewn bod, yn enwedig Eglwys *Rysain*, canis dywedant fod yno Fonacheſau a Monachod a Stafellodd neillduol iddynt, yn eu Temlau fod y Monacheſau mewn gwifgoedd gwynion, ac yn cael eu galw Merched Edifeirwch, ac yn cael eu rhoi yn eu Stafellodd yn 12 neu 13 oed, ag y byddau eu pennau hwynt yn cael eu eillio pryd hynny; eu gwaith fyddai cadw'r Deml yn lân, a thrin y bwyd Sanctaidd, yr hwn a fyddai yn cael ei gyflwyno i'r Eulynod, ac yna ei fwytta gan yr Offeiriaid; hwynt hwy oedd yn gwneuthur yr addurnau i'r Deml, a'r Ddelw oedd ynddi: hwy godent ganol Nôs at wafanaeth y Deml, ac yr oedd yn berigl bywyd i dorri adduned eu gwedd-dod tra fuont yn y Fonachlog; ond nid oeddent i aros yma ond tros ychydig flynyddau; ond caent rydd-did i adel y celloedd hyn a phriodi. Y Monachod hefyd oeddid yn dderbyn am 8 neu 9 mlwydd oed, gan eillio ei coryn au gofod at wafânaeth y Deml: rhaid

oedd

oedd i'r rhain fyw wrth ychydig Ymborth, ac arferyd caled' mawr; ond oddeutu 20 oed yr oeddent yn cael cennad i fyned i'r byd a phriodi.

Eu. Cyffelib jawn i Eglwys *Rysain* yn wir,

Ar. Dwedant hwy hefyd fod gan yr *Indiaid* yn *Mexico* Fedydd ac Enweidiad yn eu plith; fiwy barai y derbynient Fabanod, yn enwedig Plant rhai Ardderchog i mewn i'w Crefydd ie a chyfaddefiad Pechodau a phenid ddwedant hefyd fod ganthynt.

Eu. Os gwir yw hyn, nid cymmaint gorchwyl i ddo'd a'r *Indiaid* i fod yn *Babiftiaid*, pan oedd y Seremoniau agos yr un peth, nid oedd raid i'r *Saniards* ond rhoi iddynt fef Eulunod newydd; ond a oes dim fon eu bod hwynt yn ymgynghori dim a'r Eulunod hyn?

Ar Fe ddywedir eu bod yn cael Attebion ganthynt fel yr oedd yr Oraclau gynt am bethau i ddyfod, ond yr Offeiriad oedd yma yn rhoi yr holl Attebion mewn rhyw le o tu Cefn i'r Eulun i dwyllo'r ymofynwr annwybodus; ac y mae 'n bur debig mae yr un oedd y Confherwr, yr Offeiriad, a'r Meddig, ond ei fod yn gweithredu amrywiol waith: yr oeddent oll yn cymmeryd arnynt i fwyno ymaith Glefydion, a gwneid amryw o bethau mawrion eraill tu hwnt i nerth natur.

Eu. Pa fath lwyddiant gafodd y *Spaniards* yma i blannu eu Crefydd eu hunain.

Ar. Am y Grefydd Grift'nogol y mae gwyr *Spain* yn ymfroftio iddynt i ddwyn i'r Byd newydd, *America*, mae yn eglur nas darfu i'r Gwyr aeth trofoedd i mofyn Cyfoeth a Daiar, fef *Cortes* a'i Gyfellion i aftudio dim yn llai na dychweliad yr *Indiaid*, pa beth bynnag oeddent yn gymmeryd arnynt, ni wnaent yn unig ond gwfio yr *Indiaid* i ymddarofdwng i'r Pab, a *Charls* y bymmed Brenin *Spain*, ac os gwrthnebent droi yn Grift'nogion cyn iddynt erioed gael eu dyfgu yn Egwyddorion y Crefydd Griftnogol, hwy feddianent eu Gwlad, gan

fwrddro-

fwrddro llawer miliwn o honynt, § a gwneid caethweisio i o'r lleill; a phan anfonwyd cenhadon trosoedd o *Spain* i adgyweiro mewn rhan yr ormes hyn, darfu iddynt lysgo'r *Indiaid* adewid yn fyw, i Gristnogaeth [os Cristnogaeth ydoedd hi] gan eu gyrru yn ganoedd ac yn siloedd, i'r afon i'w bedyddio, dan boen o gael eu lladd os pallent. Un o'r cenhadon hyn a ymsfrostiodd wrth *Charls* y bymmed, iddo fe fedyddio deng mil a'r hugain o *Indiaid* ei hunan.

Eu.

---

§ Maith a di-ddiwedd fyddai sôn am holl greulondeb gwŷr Spain i'r Indiaid, trwy'r holl Wledydd mawrion a ennillasant.

Y mae Bartholomew de Casas, Esbob Chiapa, eilwaith yn rhoi Hanes alarus, am lanaitra anghynhesin, a chreulondeb un Pedrarius, yr hwn a enillioedd yr ardal fawr Terra Firma, Gwlad sydd od lautu 1400 o filltiroedd o hŷd, a 700, o lêd, i fod tan Awdurdod coron Spain. 'Fe diriodd yn Terra Firma yn y Flwyddyn 1514 Lywodraethwr drugionus yr hwn nid yn unig a ddistrywiodd ac a ddi blantodd lan y Môr, ond a yspeiliodd, ac anrheithiodd ardaloedd a gwledydd ehelaeth, gan lâdd rhifedi anfeidrol o bobl, o Darien i Nicharagua, tros bymtheg cant o filtiroedd, llawn o bobl yn cael eu llywodraethu gan amryw Dywysogion ac Arglwyddi mawrion yn eu hamryw ardaloedd neu lduoedd, y rhai oedd yn berchen mwy o Aur nag un Brenhin ar y Ddaear y pryd hynny. Y Llywodraethwr hwn a'i Swyddogion bob dydd a ddyfeisient boenau newyddion tu ag at wneud i'r Indiaid gyfaddef pa le yr oedd eu Haur hwynt. Rhai a ddirdynnasant, eraill a losgasant, bob yn fodfedd nes iddynt eu dienyddu mewn poenau, ac nis darfu'i Bedrarius a'i ganlynwyr i ddestrywio llai yn y Llywodraeth hynny yn unig nag wyth gant o filoedd o bobl, ac yspeiliasant y Wlâd o lawer o filiwnau o Aur; a rheini hefyd o Spain a ennillant Sancta Martha, ser rhan o Terra Firma, a hollol ddi blantodd y Wlad ac oedd o'r blaen yn llawn o Ddynion tros 1200 o filtiroedd, ac nid oeddent yn ymfodloni yn unig fwrddro'r bobl druenus hyn, ond dirdynnu a gorthrymmu felly y rhai a adewant yn fyw, fel yr oe'nt yn dewis angau yn hytrach na byw dan orthrymder y Spaniards.

Darfu iddynt ddwyn yn gaeth ddwy fil o filoedd o bobl o goror Guinea, neu Andalusia newydd, amryw rai drengodd ar y Môr o eisiau lluniaeth, a'r neill yn y mwyn Gloddiau, ac wrth bysgotta *am berlau; ar y goror hyn darfu iddynt ddistrywio amryw filoedd, trwy ei cymmell hwynt i suddo i lawr i'r dwfr am berlau tu hwnt i'w gallu.*

Yr

Eu. Mae yn debig nad yw'r cenhadon ſef Offeiriaid, ag ydys yn eu hanfon o hen *Spain* fel Cenhadon i ddychwelyd yr *Indiaid* yn gwneud fawr leſhâd er eu Jechydwriaeth, ond o boſſibl yn rhoi eſampl ddrwg o ariangarwch, llîd, creulondeb, balchder, a phob nwydau afrëolus eraill iddynt.

Ap. Mae achos i gredu mai'r Egwyddorion pennaf ſydd yn tynnu Offeiriaid *Spain* troſodd i *America* yw golwg o ennill llawer o Gyfoeth ac i ryddhau o gaethiwed y Monachlogydd, ac i fwynhau rhyddid dirwyſtr fel y mae *Goge* yn cadarnhâu, yr hyn a ddywed hefyd mae peth cyffredin yw i Offeiriad a ſo a chiwr bychan yn *Mexico* i droi heibio ddeg neu ddeuddeg

---

Yn ardal Venezuela, *diſtrywiaſant bedair mil o filoedd o Eneidiau, a rhagor, a rhan fwyaf o'i mawrion huynt a boenwyd, ac a ddirdynnwyd nes trengu, tu ag at eu cymmell i ddangos iddynt yr Aur oedd y Criſtnogion di drugaredd hyn yn dybied i ſod ganthynt ynghydd.*

Y Tywyſ g muyaf o'r Wlad hon a boenwyd gan Dywyſogion y Llu amryw o Fiſoedd, tu ag at iddo gyfaddef y lle yr oedd ei Aur ef, a'i Emeralds, yr hun o ran gobaith y rhyddhaid ef o'i boenau, addawodd i'w Boenydwyr Dŷ yn llawn o Aur, a chan anfon i bob Gorer o'i Frenhiniaeth a ddygedd i mewn gyflawnder anrheithawl, ond am nas llanwyd y Tŷ yn gwbl fe'i poenwyd ac a'i dirdynnwyd ef ymlaen tu ag at ddwyn rhagor, yr hyn oedd amhoſſibl iddo; ſe drengodd mewn poenau tan law ei Boenydwyr di drugaredd.

Peth cyffredin oedd torri dwylo a thrwynau Gwyr a Gwragedd mewn cellwair a'i rhoi i'w Cwn. Hwy gadwent bacc o Waedgwn i'r diben i hela ac i dorri yn ddrylliau yr Indiaid, *peth cyffredin oedd lladd* Indiad *heb iddo roi un tramcwydd iddynt, ac i roi benthig i frawd o Spaniard ddarn o ddyn, megis pe buaſent yn rhoi benthig darn o fochyn neu fyharen i Gymmydog i borthi ei Gwn, gan addo talu yn ol yr rhyw pan y lladdai yntef un.*

Eraill

ddauddeg mil o Goranau mewn deng mlynedd, a byw yn llawen, ac yn foethus yr holl amſer, a chael hefyd mewn dull ei addoli yno gan y Bobl. Fe ddywed hefyd ei fod yn rhyfeddu i weled Monachod yn Monachlogydd *Mexico* ac Offeiriaid plwyfol hefyd, gogyfuwch a'r Boneddigion, yn eu gwyſgoedd a'u ffordd foethus o fyw, gan ufed, hela, tyngu, mynwetta, a gwneid gwawd o'u llwon, o Dlodi, gan ennill Arian ddigon, amryw o honynt i ddychwelyd i hen *Spain* a phrynu Eſcobiaethau. Ac fe ddywed yr un *Gage*, nad oes un genedl o Bobl tan y NEF ag ſydd fwy halogedig na gwyr *Spain*, ſydd ynawr yn trigo yn *Mexico*; rhodd i'r Eglwys ſydd yn golchi ymaith y beiau mwya creulon; ac mae'r ffordd y mae'r Bobl yno yn cael eu haddyſgu yn y Grefydd Griſtnogol yw chwareu pob rhan o'r Teſtament newydd yn yr Eglwyſydd fel mewn chwareiddle. Prin y mae un rhan o Haneſion y Teſtament newydd nad yw wedi dyfod yn ddefnydd o chwaryddaeth, ar Bobl wael a yn perſonoli un neu'r llall o'r peſonau fo ynddo; un cin Jachawdwr, ac arall Pilate, trydydd *Herod*, a ſelly ymlaen.

Eu. Gormod yw hyn o glywed am Eglwys ſydd ac enw Mâb Duw ynthi, ond mae'n dibig ei fod yn rhy wîr, ond diolch i'm Duw nad yw'r tywyllwch hyn heddyw tros Ynys *Brydain* fel yn y Dyddiau gynt; ond ewch rhagoch i glwed peth yn rhagor am Eulun-addoliaeth rhannau eraill o'r Byd mawr *America*, pan y cafwyd hi gynta.

Eraill a a'i allan i hela Indiaid *a'u Cwn, megis pe buaſent yn hela Gwyllt filed, gan ymffroſtio iddynt ladd ugain neu ddeg ar hugain yn y Dydd, yr hyn beth, er mor echrydus yw, etto a ymddangoſodd ei fod yn wir, trwy Dyſtiolaeth amryw o Dyſtion a'r Deials Cauſes yn Mrenhinllys* Spain, *rhwng yr amryw Dywyſogion Lluoedd ag aeth tr ſodd i ennill y Wlad, y rhai oedd yn anghyttuno am gyffyniau eu hardaloedd eu hunain a'r yſpail, ac felly y gwir yn dyfod yn fynych i'r Golau*

AP. Rhy faith yw adrodd am yr amryw dduwiau a rhag-dduwiau, ffurfiau addoliad tywyll difilwedd oedd gan gynifer o genhedloedd ag oedd *America* fawr, a'r holl Ynyſoedd o'i hamgylch yn eu cynwys.

Ond *Peru* * yw y Wlâd neſſaf, cewch ryw ronyn o Hanes o'i Heulun-addoliaeth, Yr hên Drigolion yma oedd yn addef, un Bod hollalluog, yr hwn oeddent yn ei alw *Pacha, Camac-pacha* yn eu jaith hwy ſydd yn arwyddoccau'r Bŷd, a *Camac* yr Enaid; ac am hynny *Pacha Camac* oedd yn arwyddo Enaid y greadigaeth; nis gwelſant ac nis gallent ei adnabod ef, am hynny nid oeddent ond anfynych yn aberthu iddo, ond ei addoli ef yn eu Calonau, fel Duw nid adwaenir.

EU. A oedd un Deml wedi ei adeiliadu i'r Duw hwn, ac os ydoedd, pa faith addoliad oedd iddo.

AP.

---

* PERU ſydd Wlâd fawr jawn yn y dehau o AMERICA tu draw i'r Gyhydedd o ddautu 2000 o filltiroedd o hyd, a 500 o lêd, tan Lywodraeth Brenhin Spain, yr hon a gafwyd gyntaf gan Vozgo Nunez de Bilboa, yn y Flwyddyn 1514, ond nis cyfanneddwyd hi gan Wyr Europe amryw Flynyddau ar ôl hyn; ei phrŷf Ddinaſoedd hi yr awrhon yw Cyſco, Lima, Quitto, Payta, Potoſi, Porco; Mae yn y Wlâd hon Lynnoedd mawrion, un o'ba rai ſydd 240 milltir ei gwmpas; ac y mae Afon yn y rhan hyn o'r Bŷd ag ſydd yn gôch fel Gwaed, a rhai Dyfroedd eraill ag ſydd wrth redeg yn troi yn Graig, a Ffynnonau hefyd o ryw beth maent yn alw Coppey arno, fel pŷg, neu darr, ac yn cael ei arfer yd gan y morwyr i'r un diben.

Yma mae lleinau o Fynyddau mawrion elwyr Siarias, y rhai yng nghyd a Mynyddau mawrion eraill elwir Audes arnynt, ac eira yn eu gorchguddio trwy'r Flwyddyn, (end bod 80 milltir rhwng y naill a'r llall) ſydd yn rhedeg o un pen i ddeheu America i'r pen arall, ſef dros dair mil o filltiroedd.

Yr Awyr ſydd mor oer, mor denau, ac yn trywanu i mewn gymmaint ar ben y rhain, nas gall un Creadur na gwyllt na dof yma i fyw. Yr oedd y Spaniards gynt yn gorfod mynd tros y Mynyddau hyn yn eu ffordd i Chili, nawr naill a'i maent yn mynel tros y Môr neu gyd ag ochor y Mynyddau hyn, can's llawer jawn fuant felly wrth geiſio mynel trotyno; a rhai achubodd eu bywyd, ymryw o honynt a gollodd rylead eu dwylo a'i traed,

Mae

AP. Duellwch mae oddautu 400 neu ychydig ragor o flynyddau; cyn i'r *Spaniards* dirio yn *Peru*, i Wr a'i enw *Manea Capua* a'i Wraig *Coya Mama*, i ofod ei hun i fynum yn Ymerawdwr a'r ran fawr o'r Wlâd honno, nid trwy gleddyf a rhyfel, ond trwy addfwynder, tiriondeb a chyfrwyfdra, gan roi allan ei fod ef a'i Wraig wedi dyfod oddiwrth yr Haul, ac mae hilogaeth yr Haul oeddent, nes iddo trwy ei addfwynder, ei drefn newydd, a'i wybodaeth mewn pethau gwladaidd dynny rhan fawr o *Peru* i fod yn ddeiliaid iddo: hwn maddant a adgyweiriodd eu moefau, ac a ofododd amryw drefn newydd a difciblaethau yn ei plith; fe newidiodd eu crefydd mewn rhan fawr gan ddyfgu iddynt gyfeirio eu haddoliad at yr Haul fel eu duw pennaf, a'i gymmeryd yntef fel Mâb iddi, fe adeiliadodd hefyd Deml i'r Haul, ac a ddyfgodd y Bobl i offrymmu a gwneid amryw ddefofiwnau eraill iddi. adeiliadodd gelloedd i rifedi o Forwy-

---

Mae rhan fawr jawn o'r Wlâd hyn nad yw hi fyth yn glawio arni, ond y trigolion fydd yn troi yr Afonydd i'r Gwinllanoedd, y Gerddi, a'r Maefydd, ac yn cael Cynhauaf y pryd y mynnont,---- yr unig Anifail baich oedd gynt gan drigolion PERU oedd Defaid, y rhai fydd o faint Bŵch-daeas, a'u Gwlân yn bur arw, Cig pa rai fydd dda a jachus; amryw filoedd o rhain mewn un carafan fyddau yn dwyn gynt feddiannau o un Wlâd i'r llall; can's dygent bob un o ddautu 60 neu 70 o bwyfi ar eu Cefnau tros y Mynyddau mwya ferth.

Mae yno nawr gyflawnder o Yd, a Gwîn Europe; hwy allant hau a phlannu un amfer o'r Flwyddyn wrth droi'r Neutydd i'w Maefydd fel y mynnont, etto gwnant Fara gan mwyaf o Wraidd Caffafi, fel rhyw amryw o leoedd yn America. Yn Peru yr ydys yn cael y rhyfglyn hwnnw fydd yn cael ei arferyd mor fynych gan y Meddygon, elwir Perufian Bark arno, y mae ef yn tyfu ar bren elwir Kincuenna, o ddautu maint pren Caeros yn ardal Quito ar y Mynyddau yn agos i ddinas Loxa, a rhai mannau eraill.

Mae Aur i gael ymhob ardal o Beru *yn cael ei olchi lawr o'r Mynyddau gyda'r Afonydd fel graian, a rhai darnau o gryn bŵyfi; mwyn-gleddiau Arian fydd yn aml jawn yn y Wlad hyn hefyd, ond y rhai Cyfoethoccaf yw*

mwyn-

nion dewiſedig y rhai oedd o'r gwaed breiniol, gan eu neillduo at ei haddoliad; ond ymhen amſer mawr wedyn, pan teyrnaſodd amryw *Incas* neu Ymerawdwyr y naill a'r ol y llall, darfu iddynt trwy rym arfau geiſio ennill y rhan hynny o *Beru* lle mae *Lima* yn ſefyll, y ddinas benna yn y wlâd honno; ond am ſod y gwrth'nebiad yn gryf gorfu arnynt ddïoddef Pobl y wlâd honno i broffeſſu eu hên Grefydd, ſef addoli un hollalluog ac anweledig Dduw, gan addo peidio diniſtrio eu Teml, cyn iddynt addo uſudd-dod iddynt. A'r Deml hon, oedd mewn Dyffryn têg ychydig oddiwrth *Lima*, wedi eu chyſſegru i *Pacha Camac*, Duw anweledig ac anadnabyddus, yr hwn a grëodd ac ſydd yn cynnal pob peth: a'r Deml hon oedd yn ſefyll pan daeth y *Spaniardi* gynta i *Peru*, ac yma darfu iddynt ffeindio Tryſorau nas gellir eu dirnad, o Aur, Arian, Meini, gwerthfawr, ag oedd wedi eu ceſſegru i'r duw *Pacha Camac*;

---

gloddiau Potoſi, *y rhai gafwyd yn y Flwyddyn* 1545, *Craig galed yw, a'r mwyn mor galed, fel y maent yn ei dorri ef a mwrthwlion, ac y mae ef yn hollti megis flint. Yma hefyd y mae mwyngloddiau Arian byw, yr hwn ſydd meun Carreg elwid* Sinabar, *yr hon hefyd ſydd yn gwneud Vermilion.*

Pan cafwyd y Wlad hyn gyntaf nid oedd yma un Swydd neulltuol gan neb, ond pawb yn Daeliwr, yn Saer, yn Grydd, yn Waidd, ac yn Foſſiwn iddo ei hun; ac nid oedd neb i wiſgo un lliw ond un yn unig, ond y rhai o'r Gwaed Brenhinol. Nid oedd un math o dwls pwrpaſol at un gorchwyl, na Llif, na Tharad, na Phlane, na Bwyill, ond o Gopper neu Fflint, ac yn lle Hoelion hwy ficcrhaent eu Coed ynghyd a chordennau, Fflint oedd rhan fawr o dwls y Saer Cerrig, a pha rai yr oeddent yn treulio'r Garreg wrth ei rhubbio, nid oedd ganthynt ddim Pwlies nag Engines i'w helpu hwynt at y beichiau mwyaf, ond grym corph a digon o Ddynion.

Ac

Camac; a'r enw yma gafodd y Dyffryn byth mwy, ſef Dyffryn *Pacha Camac*; ac fe ddwed rhai i'r *Inca* neu yr Ymerawdwr, nid yn unig ganiatau iddynt eu hên ffyrdd ond i wafnaethu'r Duw anweledig, ond hefyd a'r ol y fyddugoliaeth hon, iddo ddyfod i gredu bod un goruchel anweledig Dduw, a grëodd Nef a Daiar; a bod yr Haul yn unig fel arglwydd neu rag-dduw tano: ac fe ddywedir i un o'r Ymerawdwyr i edrych a'r yr Haul fel creadur yn unig yn cael cyfarwyddo a llywodraethu ei holl yſgogiadau gan un Duw goruchel; can's ('be, fe) pe buaſau gantho un ewyllys o'i eiddo ei hun, ac heb fod tan angenrheidrwydd o gyflawnu ei gylch blynyddawl, fe fuaſau rai prydiau yn gorphwys neu yn amrywio ei dro, ac nid bob amſer ſymmyd yn yr un cwmpas, pe buaſau hynny'n a i ddim ond dangos rhydd-did gweithred. Ond pa fodd bynnag-fe gas addoliad i'r Haul ſefyll, a Themlau i hadeliadu iddo.

Ac etto yr oedd ganthynt adeiliadau uchel jawn: pin o Ddrainen neu Aſgurn main cedd ei Nadwydd, a'r Edafedd oedd Gewyn Anifeiliaid neu Lyſeuyn neu ryſglyn Pren. Cyllill ni feddent, eu Cribau oedd drain hirion wedi ei goſod o ddautu darn o Gaenen, a'u Hellynod oedd Fflint denau. Nid oedd dim fwy gwerthfawr ganthynt brynu gan y Spaniards *na Siſurnau, ac Ellynod; darn o Bres gloew oedd ei drychau, fel pebl yr* Eaſt Ind a. *Y trigolion ydynt gan muyaf o liw Oliwydden, ond yn agos i'r Gyhydedd yr un lliw a'r Copper; eu Gwalltau bawb ſydd ddu; maent yn ellio eu pennau bawb gan muyaf; end eu barfau, a phob blew arall a dyfo ar eu Cyrph maent yn ei dynnu ymaith o'r gwraidd ag offeryn pwrpaſol i hynny, yn unig ond blew eu haelau a'u Hamrantau. Y gwahaniaeth oedd rhwng Cenedl a Cenedl rhwng Gwryw a Benyw oeddyng ngwiſgoedd eu pennau: addurnau pennaf trigolion* Peru *cedd modrwyau clyſtdluſau a chadwyni o Gregyn y Mor, a meini gwerthfawr o ddautu eu Gyddfau.*

Eu. Ond pa fath addoliad ydoedd.

Ap Offeiriaid yr Haul y rhai oedd yn ninas *Cuſco* yn gwaſnaethu iddo oedd o'r gwaed breiniol, ac yn aberthu yn bennaf iddo Wyn; ond yn offrymmu iddo yn fynych bob mâth o Anifeiliaid, Ehediaid, Yd, ac hyd yn nod eu dillad goreu a thecaf eu hunain, yr hyn bethau oll oeddent yn eu lloſgi yn lle'r arogl-darth, gan roddi diolch a chlôd i'r Haul am gynnal a meithryn yr holl bethau hynny at waſanaeth a chynaliaeth dynol-ryw. Yr ydoedd ganthynt hyfyd eu diod offrwm wedi ei gwneid o Yd yr *India*, wedi ei wlychu mewn Dwfr, a pha bryd bynnag y byddent yn yfed ar ol eu Bwyd gwlychent ben eu bŷs yn y Cwppan, a chan godi eu Golygon i fynu gyda'r pryfurdeb mwya, rhoddent Ddiolch i'r Haul am eu Diod cyn profi dafan o honi.

Eu. A oedd un rhag-dduw ganthynt ond yr Haul i'w addoli, os rhag dduw ydoedd ef.

Ap. Ydoedd, can's hwy wnaent ryw fath o addoliad ddelwau o amryw anifeiliaid a choedydd y rhai oedd a lle ganthynt yn eu temlau; y rhain oedd y delwau a ddugaſant o'r gwledydd a orchfygaſant; lle yr oedd y Bobl yn addoli pob math o greaduriaid a bywyd neu heb fywyd; can's pa bryd bynnag y byddai gwlad yn cael ei gorchfygu, eu duwiau yn union-gyrch fyddai yn cael eu fymmyd i Deml yr Haul yn *Cuſco*.

Eu. Ond odid nad oedd gan y rhain ryw ddiwrnodau neu wyliau perthnaſol at addoliad yr Haul, fel amryw eraill o genedlaethau'r Bŷd.

Ap, Nid oedd ganthynt ddim llai na phedwar gwyl flynyddawl heb law y rhai a gadwent a'r bob lleuad newydd y gyntaf o rhain, yr hon alwent *Rhagmi*, oedd yn cael ei chynnal fis Mehefin, yr hon nad oeddent yn gadw yn unig i'r Haul ag oedd yn bendithio pob creadur a'i gwres ac a'i goleuni, ond mewn coffadwriaeth o'u Hymerawdwr cyntaf *Manea Capua*, a *Coya*, *Mama*, *Occla*, ei Wraig a'i chwaer: y rhai oedd yr Ymerawdwyr canlynol yn edrych arnynt

nynt fel eu Rhïeni cyntaf, wedi esgyn yn ddigyfrwng oddiwrth yr Haul, ac wedi eu danfon gantho ef i'r Byd i ddiwigio, i foesoli, ac i ddysgu dynolryw.

Eu. A ydoedd amryw yn dysod i'r wyl hon.

Ap. Yr holl Arglwyddi, y Capteniaid, y Llywiawdwyr; y Pendefigion syddent yn crynhoi i brif Ddinas *Cusco*, ac os un o rhain syddai absenol, trwy Glefyd, Henaint, neu ryw ddamwain arall, fe fyddai sicr o anfon ei Fabneu Frawd, neu ryw un arall o'i geraint yno yn ei le. Ac yn yr wyl hon y byddai yr *Inca* neu'r Ymerawdwr yn gwasanaethu swydd Archoffeiriad, er bod un arall ag oedd yn perthyn iddo o waed yn gwasnaethu bryd arall; ond yma nid oedd neb yn anturio cymmeryd y gwaith mewn llaw ond ef ei hun, am mai hon oedd yr wyl bennaf oll.

Eu Ond manegwch pa wêdd yr oedd ef yn dwyn ei waith ymlaen.

Ap Pan ddeuai'r borau yr Ymerawdwr a'i Frodyr a'i Geraint gydag ef, wedi gosod eu hunain mewn trefn a'r ol eu hunaſiaeth, a aent mewn gorymdaith neu proſeſſiwn a'r doriad y Dydd yn droednoeth i ganol y farchnad, lle yr arosent, gan edrych yn ysſyriol tu a'r Dwyren mewn diſgwyliad o godiad yr Haul; yr hon mor gynted yr ymddangosai, cwympent i lawr ac addolent y creadur diſglair a gogoneddus gyda'r astudrwydd a'r difriſwch mwya; gan ei addef ef yn Dduw iddynt ac yn dad.

Eu. Pa le yr oedd y lleill o'r Arglwyddi a'r Tywyſogion yr amſer hyn, pa un a'i edrych arnynt? neu yntau addoli yn rhyw le eu hunain.

Ap. Y Bondddigion oll, o ba enwau bynnag yr o'ent ag nad oedd o'r gwaed Brenhinol wnaent yr un peth mewn man arall o'r Drêf. Ac yna mintau mawrion o ddefaid ac wŷn a ddygid ymlaen, o ba rai yr Offeiriaid a ddewisai Oen du, ac wedi ei ladd a'i agor, hwy a wnaent arno eu dewiniaeth a'i harwyddion mewn perthynas i ryfel, a heddwch, a phethau eraill i ddysod, oddiwrth ymysgaroedd yr

anifail: ond yn wastad cadw pen yr anifail tu a'r dwyren pan fyddent yn ei ladd ef.

Eu. A oes dim cyfnewid yngwisgoedd y Dynion yma y pryd hyn.

Ap. Y Pendefigion ar y cyfryw wyl, fyddent wedi eu coroni a Choranau Aur, wedi eu haddurno a blodau a phlŷf o'r hardda, a'u gwisgoedd gan mwyaf wedi eu gorchguddio a dalenau Aur. Rhai fyddai yno yn ymddangos mewn crwyn Llewod, eraill yn gorchguddio eu hwynebau mewn gwisgoedd digrif, gan chwareu eu music gwladaidd; rhai fyddai yn gwneid eu hunain yn ynfydion er mwyn diſyrru eraill, a rhai fyddai am ddangos eu buanrwydd a'u hyſtwythdra. Llwodraethwr pob ardal fyddai yn dwyn arwydd a lliwiau ei wlad ei hun ac yn eerdded o flaen ei Bobl neillduol ei hunan. Yr oeddent yn ymprydio dri diwrnod. fel rhag-batoad i'r wyl hon, yn bwytta dim ond Maize heb ei bobi, a Llyſiau, ac yfed dwfr, ond a'r ddiwedd yr ympryd, yr Offeiriaid a bartoent y Defa d a'r Wyn a'r ddiod offrwm, y rhai oedd drannoeth yw offrymmu i'r Haul; tra fyddai'r gwyryfon neu wragedd yr Haul hwynthau yn tylino Tôs, ac yn gwneid bara o Maize neu Yd yr *India* i dylwyth yr Emprwr; a benwed eraill yn gwneid bara ac yn trin ciginiaeth i'r holl werin.---Ac yna hwy aent yn y boreu i addoli'r Haul fel y dwedais.

Eu. Ond a oedd dim Seremoniau yn rhagor? pan gwelent yr Haul na chwympo lawr a'i haddoli.

Ap. Pan gynta yr ymddangosai yr Haul, a phawb ymddarostwng iddi, y cynta un a godai ar ei draed fyddai yr Ymerawdwr, yr hwn gymmerai ddau Gwppan fawrion yn ei ddwylaw yn llawn o Ddiod o Yd yr *India*, a chan wahodd ei holl geraint ymlaen i'w berchi ef yn y Liccwr hon, 'se dywalltai'r cwppan yn ei ddeheulaw, i bibell fechan ag oedd yn ei ddwyn ef i'r Deml; a'r Cwppan yn ei law asſwy yr yfai o hono ei hun, ac a'i cyfiannau rhwng ei dylwyth,

lwyth, y rhai oedd bob un a Chwppan Aur neu Arian yn difgwyl i dderbyn y ddïod.

Eu. Ond a ydoedd y pendefigion nad oedd o'r Gwaed breiniol yn cael dim o'r ddïod hyn.

Ap. Y Tywfogion a'r Pendefigion nad oedd o'r breiniol Waed, oedd yn yfed o'r un ddïod wedi ei pharatoi gan Wyryfon yr Haul; ond nid oedd hon yn cael ei chyfri mor Sanctaidd ar hon a gyffegrafid gan yr Ymerawdwr.

Eu. A oeddent yn diweddu'r Wŷl a'r hyn?

Ap. Nag oeddent, can's yr holl gwmni a nefaent yn droednoeth i borth y Deml yr hon oedd oddautu dau cant o Latheidiau oddi wrth y fan yr oeddent yn fefyll; yr Ymerawdwr a'i geraint a aent i mewn, ac addolent ddelw yr Haul y tu dwyrain i'r Deml, tra fyddai yr holl Foneddigion eraill yn addoli yn y cyntedd tu faes o flaen y Deml, yr Ymerawdwr a'i dylwyth a roddent y Cwppanau Aur o ba rai y buont yn yfed y nawr i'r Offeiriad; acyna yr Offeiriad a a'i allan ac a dderbyniau roddion gan bawb o'r lleill o'r Arglwyddi a'r Tywyfogion nad oedd o'r Gwaed breiniol, y rhai fyddai a lleftri Aur, Arian, a llyniau pob rhyw o Greaduriaid o'r un fettel.

Eu. Nis gofynnaf ragor am yr addoliad hyn, ond yn unig pa beth oeddent yn ei wneud i'r holl anifeiliaid eraill ddywedafoch eu bod yn eu dwyn ymlaen pan nad oedd ond Oen dû yn unig yn cael ei lâdd?

Ap. Y lleill oll o honynt oedd yn cael eu lâdd, gan Offrwm eu Calonnau hwynt i'r Haul; a chyrph amryw o honynt a lofgid yn ylw yn y Tân, fef Tân wedi ei ennyn oddi wrth beledr yr Haul a darn o griftal, can's nid y'nt fyth yn gwneuthur defnydd o Dân cyffredin ar yr achos hyn oni fydd yr Haul yn llîr yn guddiedig-----ond y rhan o'r anifeiliad na lofgid a drinied yn lle'r farchnad, ae a fwyttaid gan yr holl werin; yr Offeiriad yn cyfrannu'r Bwyd yn gyntaf i'r Emprwr, ac yna i'r lleill mewn trefn. Yna yr Emerawdwr wedi eiftedd ar deyrngadair

Aur,

Aur, a yſai at ei Arglwyddi, a'i Arglwyddi atto yntef gydag amrywiol jawn o Seremoniau, rhy faith eu henwi: a'r wledd neu'r wyl hon a barhau tros 9 diwrnod, ac am y lleill o'u gwyliau, mi wn y blynedh imi ſon am danynt.

Eu. Mi ofynaf etto pa ddull oeddent yn wneuthur a'r eu Cyrph pan byddent yn addoli.

Ap. Cwympent i lawr ar ben eu gluniau gan oſod pen eu helinau hefyd ar y ddaiar, a chuddio eu hwynebau a'u dwylo; ac y mae yn beth i ddal ſylw arno, fod y *Peruiaid* yn manegu eu parch i'r Deml a llëodd Sanctaidd eraill, trwy dynnu ymaith eu Eſcydiau, fel trigolion *China* ac amryw genedlaethau eraill ar hyd *Aſia*, er pelled y ffordd rhyngthynt.

Eu. Ond pa fath oedd Gwragedd neu Forwynion yr Haul a ddywedaſoch.

Ap. Y rhai o honynt ac oedd yn Ninas *Cuſco* oedd o'r gwaed Brenhinol; yr oedd yn cael eu derbyn i mewn i'r Fonachlog yn 8 mlwydd oed, wedi eu dyſgu at y nydwydd, a nyddu, a gweu gwiſgoedd ag oeddid yn offrymmu i'r Haul, Bwyd hefyd a Dïod i'r Ymerawdwr; hwynthau hefyd oedd yn gweu yr holl wiſgoedd i'r Ymerawdwr a'r Ymerawdres i wiſgo yn y gwylau goſodedig. Nid oeddid yn godde i'r Morwynoion hyn i gadw dim cyfeillach a Gwrwod na benwod, ar ol iddynt ymneillduo yma: ac nid oedd ond gwraig yr *Inca* yn unig, ſef yr *Empres* yn ymweled a hwynt; os byddent i fod mewn cariad at un Mâb, yr oedd yn boen marwolaeth; ac os byddai un Gŵr ddwyn diwirdeb neb o honynt yr oedd raid iddo fe a'i holl deulu Tâd, Mam, Gwraig, Plant, hyd y nod ei Aniſeiliaid, ei Deiau, a'i Diroedd yn gyfan gael eu diniſtrio ac nid oedd y rhain yn cael eu dioddef i fyned i Deml yr Haul a chyflawnu dim addoliad i'r Blaned hon, nag i un arall; can's eu perthynas hwynt i'r Haul oedd yn eu rhyddhau hwynt oddiwrth hyn.

Eu.

Eu. Yr wyf yn barod i feddwl eu bod yn credu am fywyd mewn Bŷd a'r ol hwn.

Ap Yr oedd rhaid ei bod yn credu bod yr Enaid yn byw ar ol marw, can's yr *Inca* yn wastad oedd yn eu cadarnhau y byddent i gael mynd i orphwyssi gyflwr o ddedwyddwch wedi ei baratoi iddynt gan eu Duw a'i Dâd yr Haul, pan ymadewent a'r Bŷd hwn.

Eu Yr wyf bron a rhoi heibio i'ch holi am Eu lunaddoliaeth y Bŷd newydd, ond gofyn; a'i oddeutu yr un fâth Eulunaddoliaeth oedd yn gwledyddmawrion fydd tan Frenhinoedd eraill a rhai enwafoch eufiws, ac os ydoedd ryw beth yn gyffelib, gorau treulio amfer i olrhain yr un peth trofto dracnefn a thachefn; o'r tu arall os oes rhyw beth newydd gennych yn enwenig am y rhân honno o'r byd fydd tan lywodraeth *Lloegr* manegwch.

Ap. Mae llywodraeth *Lloegr* wedi gofod i fynu y Grefydd Griff'nogol trwy yr holl ardaloedd hynny fydd ar enw *Lloegr*, ond y mae yno luoedd o gaeth-weifion o *Guinea*, nad oes fawr o ddim goleuni ganthynt am DDUW, ac yn y mannau hynny o'r gwledydd hyn ag oedd a thrigolion ynddynt, naill a i maent wedi eu dwyn i mewn i Griff'nogrwydd, neu mewn tywyllwch paganiaeth; mae Cenedl o'r *Indiaid* elwir *Irequois*, yn rhan o new *Jerfey* fy'n addef un goruchel Dâd, yr hwn alwant yn gynhaliwr y Grëadigaeth; ac y maent yn credu Bywyd mewn Bŷd arall i Wobr a Dïal, ond nid oes ganthynt ond Barn dywyll jawn am dano, ac yn tebig nad yw gwobrwy'r Dynion da ond mwynhau'r pleferau maent yma yn hyfrydu ynddynt.

Eu A oes dim ymegniad i ddyfgu y rhain gan Bobl *Lloegr*.

Ap Am yw gymmigiadau wna'd i ddychwelyd y rhain o'u cyfeiliornadau a'u hennill i'r Grefydd Griff'nogol yn enwedigol gan yr Offeiriaid Pabaidd, y rhai trwy eufcelufdra ein pobl ni, a u Zêl eu hunain i wneid *Proffeitiaid*, a gwarfuont a gormod o lwyddiant, ac a dynnafant ymarfh tan fawr o geneel

y

y *Mohauk* o'u cyngrair a'r *Saeſon*, ac a'u perſwadaſant hwy i ymadel a'u gwlad eu hun ac i drigo yn *Canada*, lle yr adeiliadaſant iddynt Eglwys arderchog. Y rhai ſydd yn ffyddlon i'r *Saeſon*, ſydd yn cael eu dyſgu nawr a phryd arall gan weinidogion y *Dutch* a ninnau fel y bo'm yn cwrddyd a hwynt wrth fargenna.

Eu. Ond gofyn yr ydwyf am Eulunaddoliaeth oedd yn y gwledydd hyn pan diriodd *Saeſon* iddynt gyntaf.

Ap. *Virginia* ‡ yw y Wlâd gynta berchnogodd y *Saeſon* yn *America*, ac a'r y cyntaf ſe gafodd yr holl wledydd hynny ſydd gennim ni y nawr eu galw a'r yr enw hynny, ac amryw haneſion ydys yn ei roddi am Grefydd yr hên Drygolion, na's gellir yn jawn fyth eu cydſynio a'u gilydd, ond trwy ſeddwl fod amryw genhedloedd o *Indiaid* yno o amryw ffyrf o addoliad, ac amryw dduwiau ganthynt.

Eu. Ewch rhagoch

Ap. Fe ddywed un Mr. *Hariot* fod yr *Indiaid* yn credu bod amryw Dduwiau o amryw raddau, er nad oes ond un garuchel Dduw yr hwn ſydd er tragwyddoldeb, a thrwy ba un y mae pob peth wedi cael ei fod, iddo yn gynta greu duwiau i fod yn weiſion iddo

‡ Virginia *yw un o'r Gwledydd ſydd gan Frenin* Lloegr *yn* America *oddautu* 250 *o Filltiroedd o hyd, a* 200 *o led; ei gyd yn* 24 *o Siroedd; y Wlad hon oedd anial jawn pan diriod y Saeſon ynthi gyntaf; yr* Indiaid *oedd yn byw mewn pentrefydd bychain oddautu* 10 *o Gabandu ymhob Tref, a rhai Milltiroedd o ffordd rhwng y naill Bentref a'r llall, ond yn waſtad yn adeiliadu eu Trefydd lle byddai Yd, Gwreiddau, a Dwfr; yr oeddent yn toi eu Teiau a matt neu riſg Coed, ac yn gorwedd a'r Fattiau neu Gruyn; Palaſau Gwyr mawr ydoedd ſel Yſguboriau, wedi eu rhannu yn gelloedd a Mattiau; yn y pella o rhain y byddai eu Delw huynt, yr hon oent yn*

ddwyn

iddo, ac yna yr haul, y Hoer, a'r ser y rhai yw duwiau sydd lai, ac i fod yn weision i'r Duwiau oedd uwch: mae y pryd hynny y crëwyd y dwfr o ba un y gwnaeth y Duwiau bob peth ac sydd mewn bod. Ac yn ola Benyw wedi ei beichiogi gan un o'r Duwiau, cafodd blant oddiwrth ba rai y daeth holl ddynol ryw; ond pa amser y bu hyn nid ydynt yn cymeryd arnynt ddeall. Maent yn credu pan gynta yr ymadewo'r Enaid a'r Corph, a rol ei ymarweddiad yma i fod naill a'i yn cael ei ddwyn i'r Nêf trigfan y Duwiau i fwynhau trag'wyddol hapysrwydd, neu i bwll mawr o Dân yr hwn maent megis eu paradwys hefyd, yn seddwl fod yn eithaf y gorllewin, yno i losgi ac i boeni tros byth. Mae Mr. *White* eilwaith yr hwn fu yn llywodraethwr a'r ran o *Virginia* yn dweud eu bod yn addoli yr Haul gyda pharch mawr jawn: a'u bod ar doriad y dydd cyn bwytta nag yfed, gwyr, gwragedd, plant, tros ddeng mlwydd oed, yn myned i lan y dwfr ac yn golchi ei hunain hyd godiad yr haul, ac yna yn offrymmu tobacco i'r blaned; a'i bod yn gwneud yr un peth a'r ostyngiad yr haul: ond yr olaf gaf fi enwi yw hanes Colonel *Beverley* ebe 'fe, mi

fuais

---

ddwyn gyda hwynt ar bob achosion mawrion, eu dadre in Ty oedd Crwyn, Pedyll pridd, Cleaion wedi ei hollti oedd yn gwasanaethu iddynt yn lle Ffiolau, Disglau, a Stenau; ac nid oedd y Wlad hyn pryd hynny ond tmau jawn o Ddynion, ond yn awr meddylier fod yn Virginia *tros gan mil o Eneidiau, heb law gweision a chaeth-weision y rhai y'nt tros ben dau cymmaint y rhifedi hynny.*

Mae yn y Wlad hon Afonydd mawrion jawn, un yn ddwy filltir o led, ac yn dwyn Llongau bedwar ugain milltir, ac un arall sef Potowmac *yr hon sydd yn dwyn Llongau ddau cant o filltiroedd, ac yn naw militir o led mewn rhai mannau, yn saith yn gyffredin; yr holl Wlad oedd gynt naill a'i yn Goed mawrion jawn trosti, neu Gorsydd ac fe ellir trafaelio ganol-ddydd Haf y nawr trwy'r gelleydd hynny ymhell jawn heb eisiau cysgod rhag y gwres.*

mewn amryw o drefydd yr *Indiaid* ac a chwedleuais a rhai o rhai mwya deallus yn *Virginia*; ond ni ddyfgais i ond ychydig oddiwrthynt yr oedd ef ganthynt yn gyſſegr ledrad i gyhoeddi Egwyddorion eu Crefydd; p'odd bynag y daith hon a wnaethym un tro, a ddatguddiodd beth o honi: fel yr oeddwn yn tramwyo trwy'r coed, myfi am cyfeillion, ni a ddaethom at eu *Quiccoſan*, ſef eu Tŷ addoliad hwynt, ac am i ni gael cyſtal odfa, fe ddarfu i ni reſolfo gwneid denfydd o honi, ac i chwylio'r *Quicc ſan* trwyddo; yr ochr o mewn i ba un nid oddefent i un *Sais* i weled; ac ar ol in' ſymmyd 14 o goed oddiar bwys y Drws a pha rai yr oedd ef yn cael ei gadarnhau, ni a aethom i mewn, ac ni's gwelaſom ar y cyntaf ond yn unig gwelydd noethion, ac aelwyd a'r ganol y Tŷ: yr oedd y Tŷ hwn oddeutu 30 troedfedd o hyd, a 18 o led, wedi ei adeiliadu yr un wêdd a'i Cabannau, ond ei fod yn fwy, a thwll ynghanol y gronglwŷd i'r mwg i fyned allan, a'i ddrws y naill dalcen, ac nid oedd lle goleuni ond y Drws, a thwll y mwg; ond gylch ogylch y Tŷ yr oedd pyſt o goed, a llûn Wynebau Dynion arnynt, wedi eu paintio.

Y Wlad hon ſydd yn dwyn Tobacco *lawer iawn, ac o'r rhyw orau trwy'r Byd; amryw Goedydd hefyd ſydd yma yn dwyn amrywiol Berarogiau, a Gwm peraidd, yr hwn ſy'n diferu o'r Coed*

Ymborth mwya cyffredin yr Indiaid *yw Yd yr* India, *wedi ei ferwi yn Botten, ond maent pan darfyddo'r Yd yn bwyta cig Pyſgod, Anifeiliaid, ac Ehediaid, a rhan fawr o'i hamſer ſydd i hela yr rhain.*

Nid oes un Fyddin gan Frenhin Lloegr *yn* Virginia, *ond Militia o Wyr y Wlad, o gyſri ugain mil, mae pob Gwryw ag ſydd yn Wr rhyda o* 16 *cad i* 60 *yn gorfod bod yn y Militia hyn; mae math o Lywodraeth gan yr* Indiaid *yno, ac y mae'r Goron ſreiniol yn diſgyn i Frawd y Brenhin, ac nid i w Fab.*

Mae'r

sio. Ond o'r diwedd darfu in' gael y pen pellaf i'r Tŷ, gell oddautu 10 troedfedd o led, wedi ei chau i fynu a matt oddiwrth y rhan arall o'r Tŷ ac oddiscwn i-hon yr ydoedd hi dywyll iawn. Ni fuom amheuus a'r y cyntaf, pa un a wnaem a myn'd i'r lle tywyll hwn; ond darfu i ni anturio ac wrth ymofyn oddautu a'n dwylo darfu i ni gael rhai pyst yn y canol; a chan estyn ein dwylo i'r lan darfu i ni gael Shelffydd niawrion chelaeth, ac a'r y Shelffydd yma dri matt, pob un wedi eu droi i fynu a'i winio yn ficr: ni dynsom y rhain i lawr i'r goleuni, ac a'u hagoraſom hwynt heb wneid dim niwed iddynt, yn unig torri'r gwniad a'n cyllyll yn lle cymmeryd y pwyll i'w dattod hwynt. Yn un o rhain cawsom Esgurn mawrion, y rhai ceddem ni yn sarnu mae esgyrn Dynion oeddent; yn enwedig asgwrn Borddwyd ag oedd yn 2 droedfedd a 9 modfedd ei hŷd. Mewn matt arall darfu i ni gael rhyw fâth o Gleddyfau prennau mawrion ag oeddent hwy yn alw arnynt *Tomohauks* wedi eu grafo a'i paintio, yr oeddent wedi eu gwneid o Goed trymion geirwon un o ba rai oedd y mwyaf erioed a welais. Yr oedd barf Twrci gwylit

---

Mae'r Indiaid *yn* Virginia *yn ganolig Wynion, ond eu bod yn ceisio dua eu hunain trwy ymeneinio a bleneg a gorwedd yn yr Haul; maent hefyd yn paintio eu Hwynebau, eu Bronnau, a'u Hysgwyddau, ag amryw Liwjau, yn enwedig yn goch.*

Eu Pendefigion sydd yn gwisgo Cappiau wedi eu haddurno a phlyf Adar, ac weithiau Aderyn cyfan wedi ei stwffio a'i sychu ar eu pennau.

Eu haddurnau eraill yw clustlysau o Geppor, ceduyni cregyn a'r fath am ei Gyddfau, a breichledau o'r un am ei breichiau.

Eu gwisgoedd yw darn o Groen oddautu eu Canclau yn hongian i lawr i'w garrau, ond y rhai pennaf sydd a darn o Groen yn Fantell, a darn arall o ryw Groen, sydd yn lle Esgydiau.

gwyllt wedi ei baintio yn gôch a'i roi yn ficr wrtho, a dau o esgyll hwyaf o'i adenydd yn hongian wrth garneu o 6 modfedd ei hyd wedi glymmu wrth ben y cleddyf. Yn y trydydd matt yr oedd rhyw beth ag oeddem ni yn ei gymmeryd yn lle ei Delw hwynt, er fod arni eusiau ei dodi ynghyd. Y darnau oedd y rhain, yn gynta astyllen tair troedfedd a hanner ei hyd, a bwlch yn ei phen ychaf fel fforch i ficrhau'r pen arno; oddi yno i wared yr oedd hanner cylchau wedi eu hoelio wrth ystlysau yr astyllen, oddautu 4 modfedd o'r naill i'r llall; y rhain oedd yn repreſentio yr assenau a'r Bol: ar y rhan issaf o'r astyllen, yr oedd astyllen arall o hanner hyd y gyntaf, wedi ei rhoi'n ficr wrthi a darnau o Goed, roedd wedi i roi i gadw yma hefyd ddarnau o gottwn coch a glâs, a rhwymynau, at y Breichiau, Borddwydydd, a'r Coesau: ni ddodasom y Dillad a'r y cylchau ynghylch y Corph ac a ddodasom i fynu y Breichiau.

Eu difyrrwch, a'u chwaryddiaeth ar eu dyddiau gwleddoedd, yw canu a dawnsio gylch o gwmpas law yn llaw wedi paintio eu hunain, fel y mae yn anodd adnabod un o honynt oddiwrth y llall. Mae un o'r Capteniaid aeth yno gyntaf yn dweud, wedi iddo gael ei wahodd unwaith i un o'r gwleddoedd hyn, hwy a'i dygasant ef i ymyl Coed, ac wedi ei roi ef a'i Gwmpeini wrth Dan da, nid llai na deg ar hugain o Ferched Ifainc a ddaethant allan o'r Coed yn nceth cyfan gwbl, yn unig cwppwl o ddail irion i gyddio eu ncethni, a'u Cyrph wedi eu paintio yn Goch, yn Wyn, yn Ddu, ac o bob lliwiau, ar eu phen yr oedd gan bob un bâr o gyrn Bwch, Biva a Saethau yn eu dwylo, a chawell Saethau o tu ol eu Cefnau; Cymmerasant afel yn Nwylo eu gilydd, ac a ganasant, ac a chwariasant, o gylch y dieithraid a'r Ten, ac wedi iddynt bara yn y Llawenydd hyn tros Awr, hwy ymchwelasant i'r Coed, ymha ls yr ceddent wedi paratoi gwledd o Bysgod, Cig, Ehediaid, a Ffrurythau, i ba wledd y gwahoddwyd y dieithraid, lle hefyd y cawsent eu llawenhau a chaniadau gwladaidd tra fuont yn Cinnawa.

iau a'r Coesau, er mwyn cael gwel'd y Ddelw yn ei llawn Gorpholaeth; ond nid oedd gennym o'r Pen a'r Braichledau gwerthfawr, a pha rai y mae yn wastad yn cael eu haddurno, a rhag ofn gwneid anfodlonrwydd i'r *Indiaid* nis arosasom yn hwy, ond ni a droesom yr holl bethau yma yn y matt drachefn ac à'u gosodasom a'r y Skelffydd sel yr oeddent o'r blaen. Ond i roi disgrifiad rhagor i chwi mewn ychydig eiriau, o gyflwr, ymarweddiad, a threfn bywoliaeth yr *Indiaid*, cyn i wyr *Lloegr* i ennill y Gwledydd hyn; cewch yr hanes mae Mr. *Cotten Mather* yn i roi o honynt, yn ei waith yn adrodd bywyd Mr. *Eliot*, yr hwn a ddysgodd jaith yr *Indiaid* yn *Lloegr* newydd, a Gwledydd eraill; ac a bregethodd yr Efengil iddynt ac sefydlodd amryw gynlleidfaodd yn ei plith, ac a gyfiaethodd iddynt y Bibl. Gwybyddwch gan hynny, medd ef, fod y Creaduriaid tosturus hyn, sel yr adfeiliad mwya cywir o ddynol-ryw ag ellir ffeindio a'r wyneb yr holl ddaiar. Maent yn byw mewn Gwlâd, lle yr ydym ni nawr yn cael holl anghenrheidiau bywyd: ond am danynt hwy nid yw eu Tai ddim arall ond ychydig fattiau wedi eu rhwymo oddautu polion, a'i fierhau yn y ddaiar, lle mai tân da yw eu gwelu gorau yn y tymmhorau mwya oer; nid yw eu gwisgoedd ond croen anifail, yn gorchguddio eu tu ol, ac nid oes ond arffedog fychan ganthynt o'u tu blaen, lle mae natur yn galw am ddirgelwch; nid oes rhagor o ddanteithion yn eu hymborth, na'r peth alwant *Nokehick* arno, sef llwyeid o flawd rhudd, a llwyeid o ddwfr, yr hyn a'i nertha hwy i drafaelio amryw o ddyddiau ynghyd; oni ddwedwn am eu cîg *Ceirw, Eirth* † *Maos* § *Rakoons* a'r cyfryw sydd ganthynt

† Y MAOS ydynt fâth o Geirw neu Hyddod sydd i'w cael yn unig yn AMERICA, ac y'nt rai o'r Creaduriaid pennaf o helwraeth; ac y mae dau fâth o honynt yno,—un bychan elwir Wampoose, yr hwn nad yw fwy na'r Hydd cyffredin; ond y llall sydd lawer fwy, a'r pennaf yw o rhywogaeth, mae hwn hefyd yn gyffelib i Hydd, yn cnoi ei Gîl, ac yn hoilti'r Ewin, heb un bystl

thynt pan y gallont eu dal hwynt; ac ychydig byſgod hefyd, y rhai os byddant am eu cadw, gwnant hynny trwy eu ſychu, ac nid trwy eu halltu; can's nid oedd ganthynt fymryn o halen yr wyf yn meddwl hyn onis darfu ini ei roi iddynt. Nid yw eu Phifigwriaeth nemawr ragor na'r poethdy, neu'r *Powaw*: eu poethdy yw gogof fychan, oddautu 8 troedfedd o led; ymha le, ar ol iddynt ei thwymo hi yn ofnadwy a thân: yr eiſtedd amryw o honynt i lawr i chwyſu, ac i ſmocio hanner awr ynghyd; yna rhedant yn union i ryw nant neu afon agoſaf, gan ymdrochi a ſyddo ynthi heb y niwed leia iddynt hwy: y ſordd hon y maent yn gwella eu hunain o amryw glefydau yn y rhan fwya o'u clefydion peryglus, ymofynant yn union am y *Powaw*; hynny yw offeiriad ac ſydd a mwy o gyfeillgarwch gantho a ſatan na'i gymmydogion; yr hwn ſydd yn dyfod ac yn rhuo, ac

---

iddo, a'i Gluſtiau yn fawrion, ac yn ſefyll i fynu: a'r hyd ei gefn mae rhes o flew ſydd oddautu troedfedd o hŷd, a pha un mae yr Indiaid yn gnweid gwregiſau.

Mae rhai o rhyw Gwrrwod tros 3 llathed o uwchder, ac un cwarter o'u cîg hwynt yn pwyſo agos i 200 o bwyſi; maent oddautu 10 neu 12 troedfedd o hyd o'u trwyn i'w cynffon; mae eu cyrn hwynt pan yn eu cyflawn oedran rhwng pedair a phymp troedfedd eu hyd, a changhenau i bob corn yn tannu oddautu chwech troedfedd o led. Y mae'r Cyrn hyn yn tannu fel y b'ont yn myn'd tu a'r blaen, ac y mae'r Indiaid yn gwneud lledwedi o honynt, y rhai a ddeil o ddautu Peint bob un: Maent yn rhoi eu Cyrn i orwedd ar eu cefnau pan b'ont yn mynd trwy ddryſni, neu tan bren, nid yn unig i fyned yn hawſach, ond hefyd i amddiffyn eu cefnau rhag niwed.

Maent yn neidio yn uchel, ac wrth eu hela, nis cair tro arnynt gan mwyaf nes rhedeg ugain neu ddeg ar hugain o Filltiroedd; ac pan y bont wedi eu hela yn galed, maent yn dilyn glan y Dŵr.

Mae Bwyd da a blaſus yn y Creaduriaid hyn, er nad yw mor ddanteithiol a'n Hyrddod neu'n Ceirw cyffredin ni, etto mae yn fwy fyfweddol a pharhaus, ac a oddef ei halltu; mae crwyn y Ceirw hyn yn gwneud Bwff rhagorol, wedi ei tannu, ac y mae yr Indiaid yn gwneud Eſgydiau Eira o honynt.

§ Racoons ydynt ryw fath o Fwnciod, ychydig lai eu maintioli na Llwynog; o liw dulas, a'u Traed fel Dwylo Dŷn a'u hwyneb yn gyffelib i Fwnci.

ac yn udain, ac yn arseryd pob Seremoniau dewiniaeth tros y clâf. Maent yn byw mewn gwlâd sydd a'r Coed goreu at wneid Llongau; ond ni's gwelsant Long erioed nes i rai i ddyfod o *Europe* yma; ac yna yr aethant o'u pwyll: i weled y fâth anghynfil yn hwylio i mewn gan boeri tân gyda thwrf uchel allan o'i hochreu: maent yn croesi'r aberoedd mewn *Canoes*, wedi eu gwneid o goed, y rhai y maent yn ei losgi, ac yn ei grafu hyd onis gwnelont hwynt yn gou, ac weithiau mewn Pasgedi neu Goryglau o risgl, y rhai a wnant ynghyd fel y gallont eu dwyn hwy a'r hyd y tîr: mae y Gwrwod yn erchyll segur a diffrwyth, gan wneid ei *Squaws* gwirion, sef ei gwragedd, i blanu, i sedi, i ddwyn i'w Hysgyboriau, ac i ddyrnu yr Yd, ac adeiliadu *Wigaws* nen eu Bwthod iddynt.

Ac yn y cyfamser hyn, eu gwaith mwyaf hwynt ydyw, pan y b'ont yn ymddarostwng i un gwaith, yw hela; lle yr ant allan Ugainau, os nid Canoedd o honynt yn yr un Cwmpni, gan urru'r cwbwl o'u blaen. Maent yn aros yn yr un Drêf hyd onis b'ont wedi llosgi yr holl goed o gwmpas; ac y maent yn tibied mae yr unig achos daeth y *Saeson* trosoedd yw, i gael Tanwydd ddigon. Maent yn rhannu yr Amserau wrth y Lleuadau, a Gaufau, a Chwsgau; nid os ganthynt nemawr neu ddim traddodiadau yn eu plith ag y dâl dal sulw arnynt; ac y maent yn anhyddysg hollol o Scryfennu a darllain, er bod Craig neu ddwy o fewn y Wlad hon a rhyw fâth o Lythrenau arnynt, wedi eu hengrafo. Yr holl Gresydd sydd ganthynt yw hon; maent yn credu bod amryw Dduwiau, y rhai sydd wedi gwneid yr amrywiol Genhedloedd sydd yn y Byd; ymlith pa rai y mae Duw mawr yn ardaloedd y deheu-orllewin o'r Nêf yn dwyn y rhwysg swyaf. Maent yn credu bod pob Creadur hynod a rhyw Dduw neilduol oddautu iddo, neu o mewn iddo. Mae ganthynt Haulddduw, Lloer-dduw, a'r cyfryw; ac ni's gallant ddirnad llai nad yw Tan yn rhyw fâth o dduw, am y bydd gwrychionen o hono i wneid Eneithiau mor

rhyfedd mewn cyn lleied amſer. Maent yn credu pan y bo un da neu ddrwg yn digwydd iddynt, fod naill a'i llid neu gariad rhyw dduw yn cael ei diaethu ynddo; ac am hynny, megis mewn amſer o adfyd, y cadwant ddawns, neu ddydd o ryw addoliad digrif i'w duw; felly mewn amſer o hawddfyd y cadwant hefyd ddydd, ymha un y gwnant roddion y naill i'r llall. Yn ola, maent yn credu i'w duw pennaf hwnny, *Kautantowit*, i wneid Gwrryw a Benyw o garreg; y rhai wedi ei anfodloni ef a dorrodd ef yn ddarniau; ac wnaeth wrryw a Benyw arall o ben, y rhai yw gwraidd holl ddynol-ryw, a bod gennim oll ynom Eneidiau anfarwol; y rhai, os ydym yn dduwiol, a ant i wlêdd rhagorol gyda *Kautantowit*; onite 'fydd rhaid i gyrwydro oddiamgylch mewn dychrynfau tros byth. Ond os dwedwch air wrthynt am Adgyfodiad, attebant, *nis credwn hynny byth*, a phan y bo gyda hwynt un achos o bwys o'u blaen, peth arferol yw fod ganthynt Gynlleidfaodd ymha le y maent yn arferyd llawer o Swynion dieflig, ac rai prydiau mae Arwyddion eglir yn Canlyn eu bod yn gosod eu Hachoſion o flaen yr Yſpryd drwg.

Eu. Chwi gewch lonydd genni am yr amrywiol Grefyddau fu a'r hyd *America* fawr pan y cafwyd hi gyntaf, neu ſydd gan yr *Indiaid* yno hyd heddyw, yr rhai na's gallwyd ei dychwelyd gan neb o deirnaſodd *Europe*, ond chwant ſydd arnaf ofyn cyn ymadel a rhan hyn o'r Bŷd, pa fodd y daeth y Paganiaid tywyll hyn i fod ag amrywiol bethau yn eu Crefydd yn gyffelyb i'r *Juddewon*, cyfeillach pa rai ni chawſant erioed, na chael y mawnteiſion o glywed am danynt etto, mae yn debig fod ganthynt amrywiol jawn o Seremoniau yn gyffelib i'r *Juddewon*, megis aberthu, adeiliadu temlau, cadw Gwyliau, newydd Loerau, treſn Offeiriadau, a'u Gwiſgoedd, a'u Llwythau, a'u Graddau, eu Hymborth a'u Cyflogau, ac amrywiol jawn o bethau eraill enwaſoch ynghrefydd Pobl *America*, ag oedd rhyw beth yn

tybygu

tybygu i Seremoniau ag oedd gan *Moſes*; ond pa fodd y daeth y Bobl hynny iddynt ni's gwn i.

AP. Gwir yw, pe buaſau amryw ragor o'r fâth Seremoniau addoliad a'r hyd *Aſia*, *Europe*, ac *Africa*, ni fuaſai agos cymmaint rhyfeddod, can's ſe allaſai'r *Juddewon* waſgaru i bob goror yma; a dyſgu rhyw faint o'u traddodiadau, a'u harferion eu hunain ymhob Gwlâd: ond meddyliwch hyn fod aberthu yn athrawiaeth mor foreu a gârdd Eden, a bod ſwydd Offeiriadol mewn bod cyn dewis *Aaron* yn Offeiriad, ac y gallaſau y lleill o arferion yr *Indiaid* ag oedd yn agos at drefn yr *Juddewon* i gael eu tynnu oddiwrth y pwngciau hyn fel canlyniad, ond fel tybia rhai, o *Carthage* || yn *Tunis* yn *Aſrica* y Poblwyd *America* gyntaf,

|| Amrywiol jawn o farnau eraill ſydd, pa fodd y poblwyd America gyntaf, ac nis darfu braint i ddim i ddyryſu cymmaint ar feddyliau'r dyſgedigion a hyn. Er bod amrywiol jawn o'r farn enwais uchod, ſef mae o Carthage yn Africa, y poblwyd hi gyntaf, etto eraill a wrthadla yn erbyn hynny, gan ddweud pe buaſai Long yn cael ei gyrru oflaen Temeſtl, o Ynyſoedd Canaries i America, ac ynddi Wŷr a Gwragedd a Phlant, a digon o bob rhyw liniaeth iddynt, nes aent i ben eu ſiwrnau; etto oni buaſai ei bod fel Llong Noah yn llawn o bob rhyw Greaduriaid eraill, Ehediaid, Anifeiliaid, a Bwyſtfilod, ac ymborth hefyd iddynt hwythau; pa fodd y daethai America i gael ei llanw o bob rhyw Greaduriaid fel y cafwyd hi gynta gan Wŷr Europe.

Eraill a dybiant fod America *ac* Aſia *yn un, a bod ffordd o un i'r llall ar hyd Tir, er nas gallwyd ei chael hi allan; ac i gadarnhau eu tybiau yn hyn dwedant fod y bobl ag ſydd yn nhir* Jeſſo, *y Wlad bellaf a ffeindiwyd yn y Dwyrain ogledd, yn gyffelib i'r bobl ac oedd yn Gogledd* America. *Ond eilwaith mae lle i groes ddweud yn erbyn hyn, canys pe buaſai'r peth felly, buaſai yr un Bwyſtfilod, Anifeiliaid, ac Adar yn y ddau, ſef yn y rhan hynny o* Aſia *ac* America; *lle y mae yn eglur o'r tu arall, fod gyd a ni amrywiol nad oes yn* America, *ac yno amrywiol nad oes gyd a ni; mae yn eglur hefyd fod amryw Greaduriaid yn* Aſia *ac yn Gogledd* Amerika;

gyntaf, ac yna peth naturiol i Bobl aeth eddiyno trofcedd, i ddwyn eu holl arferion Grefyddol yno gyda hwynt, dïau fod llawer o arferion yr *Iuddewon* yn Eulynaddoliaeth y *Carthaginiaid*; nid yn unig am eu bod yn agos i'r Wlâd lle bu yr *Iuddewon* yn gartrefu yn hîr, ond hefyd eu bod wedi dwyn eu Rhyfeloedd, eu Marfiandaeth, i barthau pell jawn o'r Bŷd, ac yn ganlynol yn hyddyfg yn holl arhoelion yr *Iuddewon*.

Eu Etto un waith, a ydych yn tibied rhaid i'r Efengil fyned yn ei Phurdeb i beb goror i'r Wlâd ehang hon, cyn dyfod Mâb y Dyn yn ei Ogoniant.

Ar.

---

ca, *ag nas gallant* fyw *fyth yn y fath Wlad oer ac yw Tir* Jeffo, *os yw yn un ac* America; *ac yn ganlynol nis gallent fyned y ffordd honno. Nis tal dueud yntau i* Duw *greu ymhob Gwlad Greaduriaid addas i'w thymmer, bued oer neu wreffog, o ran fe ddyued gair* Duw *ei hun i bob Creadur byw gan y Dilyw i gael ei ddinyftrio ar Wyneb y Ddaear; ac eilwaith oso* Afia *ar lyd y Tir y pobluyd* America, *pa ham na buefid yn cael Dynion duon rai yn* America *pan ffeindiwyd hi gynta; o ran mae peth rhyfedd na buefai rhai o'r rhain yn treiglo yno gyd a Dynion eraill; lle nas cafwyd yno yr un. Ond i ddibennu, mae yn fwy tebygol os nid o* Carthage *fel y dwedpwyd eifiws, y pobluyd gynta y Bŷd mawr hwn* America, *eu fod ef ryw amfercedd yn un a rhyw ran arall o'r Bŷd ag eeda nefa atto, a phobl yno do, neu yntau yn un a'r continent mawr* Europe, Afia, *ac* Affrica; *a bod fel y meddylia rhai, rhyw derfysgjad angbyffredin yn y Dwr a'r Tir, ac i'r Dyfroedd ac oedd o'r blaen wedi ymgafglu ynghyd i'r un lle, y mawr i rannu a myned yn ganghennau mawrion ac yn freichiau yma a thraw, rhwng Teyrnafoedd ac Ynerodraethau, er mwyn pan amlhaeda Dynion dwyn marfiandaeth o'r naill Wlad i'r llall, ac i'r trugaredïau*

AP. Nid adwaenir congl o honi, pe ba' tri chymmaint ag ydyw hi, na chaiff goleuni 'r gair dywynu i mewn iddo gyda disgleirdeb anrhaethadwy a gogoneddus, ac falle nad yw'r *Presbitaid* y mae Eglwys *Rysain* ac Eglwysi eraill yn ei wneid yno, ond paratoi yr ffordd o flaen Haul fawr y Cysiawnder, gwir oleuni yr Efengil, yr hon sydd raid iddi godi a meddeginiaeth yn ei hesgyll, ac nid llawer o le syddai i feio a'r un a dybiai daw amseroedd y bydd yr Efengil i gwmpassu'r Ddaiar fel y mae yr Haul fawr yn gwneid yr awrhon: ac na's gwelodd yr Haul naturiol yma Wlâd, nag ynys, na's caiff Goleuni yr Efengil ei gweled hi hefyd, os oes Trigolion ynddi. Fe wnaeth y naill ei ymdaith fel y llall o'r dwyrain i'r gorllewin hyd yma; pwy a wyr na's daw Haul y Cysiawnder a'i thro i ben gylch y ddaiar, nes trwynnu etto a'r dir y dwyrain, a'r hên *Jeruselem?* ac fel hynny i gysiawnder y cenhedloedd i ddysod i mewn, ac yna i holl *Israel*, wedi i air y Deirnas ymddangos a'r eu Gwlâd yr ail waith, i fod yn gadwedig.

Fe

---

ddau fae mewn un rhan o'r Ddaear i gael eu dwyn trwy lai o boen i ran arall o'r Byd, ac i bawb i weled a phrofi bysryd amrywiol ddaioni Duw.

Os felly y bu dyna'r pryd y rhannwyd y ddaear ag oedd o'r blaen yn un, yn awr yn amryw Rnysoedd, ond pa bryd y bu y sath gysnewidiad a hyn, etto sydd yn ansicr jawn i wybod; falle galle rai dybied mae yn amser Peleg, *pan dywed y Gair sanctaidd i rannu'r ddaear, ac anodd sseindio pa ranniad mae'r yspryd glân yn ei feddwl yno, os nid y sath ranniad a hyn; neu falle galle eraill i feddwl mae ychydig yn awr ac ychydig bryd arall, daeth y Môr sel hyn i gymmeryd goresgyn o'r Ddaear, ac Rnysoedd o'r tu arall i ddangos eu pennau mas o'r Môr; pa un yntau trwy ddaear-grynsau rhyseddol y bu hyn o gysnew,*

Fe farchogodd yr Esengil a'r Farch gwyn o *Jerusalem* lle torrodd hi allan gyntaf gan mwyaf a'i hwyneb tu a'r gorllewin; can's gwedi iddi gwmpasu *Palestine*, o *Syria*, hi drodd ychydig i'r gogledd i gylchu'r môr Canoldir, ac a berchnogodd *Asia* leiaf; *Pontus*, *Galasia*, *Capadocia*, *Armenia*, *Bithinia*, *Mysia*, *Phrygia*, *Lidia*, *Pamphilia*, ac amryw ardalodd eraill yn y Wlâd fawr hon, lle yr oedd 7 Eglwys *Asia* yr hon a berchnogir yn hollol yr awr hon gan y *Turc* ac er i swn hi fyned i rai gwledydd eraill o *Asia*, sef *Persia*, *Tartary*, *China*, *India*, fel y tybir, fel peledr yr Haul yn disgleirio o bell; etto nis bu yn hir yno, ond hi dynnodd ei gyrfa ymlaen yn bennaf tu a'r gorllewin gan groesi yr *Archipelago*, neu Môr *Egea*, ac a ymwelodd ac amryw Ynysoedd yno, ac a gymerodd feddiant a'r dir *Groeg*; yn *Europ*, *Dalmacia Dacia*, *Macedonia*

---

newid, neu yntau heb un ail achos anodd gwybod, mae yn wirioned diambeuol i'r Môr redeg i mewn i'r Tîr mewn amryw fannau o'r Byd, *ac o'r tu arall i'r Tîr ag oedd y Môr yn orchguddio ddyfod yn sych. Mae rhai gwledydd wedi syddo gantho, ac se aatwodd rai gwledydd o'i ol. Mae amryw o'r dysgedigion yn meddwl mae yr un oedd* Ffrainge *a* Lloegr, *yn y dyddiau gynt*, Sicily *ac* Italy, *ac mae yr un oedd* Lloegr *ac* Iwerddon, *ac falle* Europe *ac* America; *anodd jawn heb gredu hyn roi cyfrif am Ynysoedd ydys yn ei gael ar hyd y Moroedd mawrion; rhai o ba rai sydd a thrigolion, ond gan mwyaf a rhyw fath o Greaduriaid ynthynt, y rhai nas gallant fyth fyned yno naill a'i onis creodd* Duw *hwynt yno wedi'r dilyw, neu nad aeth y dilyw tros y ddaear, yr hyn sy'n wrthwyneb i air* Duw; *neu fod yr Ynysoedd hyn ryw bryd yn un a'r continent, hynny yw tîr* Europe, Asia *&c. dewisied y darllenydd ei farn ei hun nid yw yr awdwr yn ei gymmell i un o rhain.*

cedonia, Thrasia. Achaia, Creta; a lleoedd eraill ag fydd ynawr oll tan awdurdod y *Twrc* gan adel yr rhan fwya o *Asia* o'i hol, heb ymweled a hi; gwledydd mawrion ehang heb rifedi rhyngthi a chodiad yr Haul tan dywyllwch ac anwybodaeth; megis y rhan fwyaf o *China. India, Siam, Tartary*, nad oes neb wyr eu maint, a theyrnasoedd o ryfeddol hellaethrwydd; hebllaw ynyfoedd mawrion megis *Borneo*, Ynyfoedd *Funda*, a'r *Philipino*, tiriodd *Jeffo* nad oes wybod pa le maent yn cyrrhaedd, ac ar ol dyfod yma i mewn i *Europe* gan yr Apoftolion ac eraill a llanw tir *Groeg* fel y d'wedais, hi enillodd ymlaen i *Hungary, Bohemia, Itali, Poland*, a *Germany*, ac ni's gorphwyfodd nes tannu ar lled i *Venice, Switzerland, Efrainc, Spain, Portugal*, ac Ynyfnoedd y mor *Brittain, Iwerddon*; ac o'r tu arall ymhen oefodd wedin hi ymdannodd i *Denmark, Norway*, a *Sweden*, a *Ruffia* anfeffuredig, heblaw *Cicily, Sardinia, Corfica*, ac Ynyfoedd eraill. Hi redodd ryw faint i'r deheu; i'r *Aipht, Nubia, Abifinia*, amryw Deyrnafodd *Barbary*, megis *Morocco, Fes, Algiers, Tunis, Tripoli*, a'r cyfryw; ond mae fwya oll o *Africa* etto heb glywed fon am dani: *Biledulgerid* fydd rai miloedd o filltiroedd o hyd gan mwyaf heb weled ei llewyrch, anialwch *Zaara, Negroeland, Guinea, Ethiopia, Congo, Angola, Monoemugi, Monopotapa, Caffraria, Zanquebar, Anian, Abex*; ac amryw Ynyfoedd megis *Madagaffar*, a'r fath nad aeth nemawr erioed o'i fŵn hi iddynt. Ond yn awr er's cant neu ddau o Flynyddau hi roddodd naid tros y Môr *Atlantic*, dair neu bedair mil o filltiroedd i'r Gorllewin, i blith yr *Indiaid*; a hi a wifgoedd rai o rhain a Lliain main gwŷn a glân; mae Enw CRIST wedi tarnu yno ar lled, mae Athrawiaeth union grêd yr Efengil wedi goreſgyn yno amryw Ardaloedd, pe bae ond fydd tan Awdurdod Brenhin *Lloegr*, ac y mae'r Grefydd Babaidd wedi goreſgyn mwy, yr hon nad yw yn gwneud dim ond dadrus Yfprydoedd yr *Indiaid* oddiwrth Baganiaeth, a'i haddfedu i dderbyn gwîr Grefydd CRIST; ac falleu y rhoddir eu Tîr hwynt yn yfclyfaeth i Fren-

hinoedd Proteſtanaidd, nes dyfod Goleuni'r Gair i gyrrhaedd o'r naill ran o *America* i'r llall tros ſaith mil o filltiroedd, ac yna os gwir yw yr amgylcha hi'r Bŷd, pwy wyr lai nas cymmer hi yntau ei thro ymlaen yr ochor arall i'r Ddaear, i oleuo Ynyſoedd a Theyrnaſoedd yn *Aſia* ag ſydd erioed yn gorwedd tan dywyllwch; nid oes ganthi lawer o filoedd o filltiroedd i ddyfod o *America* i gwrdd a Thiroedd *Aſia*, can's rhai dybiant fod Tîr y Dwyrain yn cwhowrdd a thîr y Gorllewin, neu gellir ryw bryd i gael allan ffordd yn y rhan leiaf, ar hyd Môr neu Dîr, i fyned o *Mexico* yn *America* i Diroedd *Jeſſo* y rhai ſydd ymhell tu hwnt i *Japan* yn cerdded na wyddus pa faint i'r Dwyrain, ac etto megis yn an adnabyddus; ac os gall Marſiandwyr ffeindio y ffordd hon pwy all ddweud nas gall yr Efengil hynny hefyd; ac yno dyfod i Ynyſoedd *Latrones* Ynyſoedd y *Philipine*, *Japan*, *Borneo*, *China*, yr *India*, *Tartary*, *Siam*, ac ymlaen i'r holl Wledydd y ſydd ar hyd *Aſia* heb glywed fawr ſôn am dani hyd heddyw, a gwneud ei thro drachefn i'r hên *Jeruſalem*; ac yna i gymmeryd ail oreſgyn ar y Wlâd ddymunol ac i ddadrus holl adeiliaeth *Mahomet* a'i ganlynwyr, ac i ddyfod a'r *Twrc* ei hun yn wir Griſtion ac i'r *Juddewon* ſydd yn awr ymhob congl i'r Bŷd yn waſgaredig wrth weled y fath ryfeddodau a hyn gael eu addfedu i dderbyn yr Athrawiaeth hon fod y MESSIAH wedi dyfod, ac yno i'r Yſgrythurau gael eu cyflawnu ſonir am danynt yn *Eſau*, xi. 11, 12, 13. ac yn *Ezek.* xxxvii. 21, 22, 23. ac yn *Hoſia* iii. 4, 5. ac yn *Zech.* x. 6, 7, 8.

PENNOD y DRYDYDD.

YN

Rhoi hanes o'r Grefydd Baganaidd ar hyd Aſia, *megis* China, India, Tartary, Siam, Japan, a lleoedd eraill na chawſant erioed o Oleuni'r Gair, Paganjaeth heſyd yn Nyddiau'r *Juddewon* ar hyd *Paleſtina*, *Syria*, ac yſtur y Đuwiau ar Duwieſau a enwa'r Yſgrythur; Hanes o Grefydd y Bromjaid, yn *Malabar*,, a'i hamrywiol *Sectau*; hên Grefydd y Magiaid yn y Dwyrain a'r diwigiad o honi gan *Zoroaſtres*; eu Temlau, Tân, a'r Llyfr *Zendever*, eu Gwaſanaeth Cyhoedd, a'u Ceremoniau, eu Gorchymmynion, a'i Traddodiadau, ac arwyddion mae y rhain a ddaeth i breſentio ar eu Gliniau, Aur, Thus, a Myrrh, i Jachawdwr y Bŷd.

EUSEBIUS.

MAE yr hyn olaf a ddywedaſoch yn fwy hyfryd na'r cwbl, a phwy a all ammau nad ſel hynny, neu ryw fodd o'r cyffelyb hynny y daw yr Efengyl a'i thro i ben, can's diau na ddaw ein HARGLWYDD ni nes i'r Efengil hon i gael ei phregethu trwy yr holl Fŷd, ac nis gwaeth lawer pa Deyrnas a gymmero Duw yn olaf neu yn gyntaf, ond hyfryd yw meddwl, daw Dyddiau mwy llwyddiannus ar Air y Deyrnas, pan delo cyflawnder y cenhedloedd i mewn a holl *Iſrael* i fod yn gadwedig. Ond rhag ofn mynd yn rhy bêll oddi wrth y peth mewn llaw, y peth neſſa yw ſôn ychydig am y Grefydd Baganaidd ar hyd gonglau tywyll *Aſia*, can's deall yr wyf wrth a ddwedaſoch fod amrywiol Deyrnaſoedd

chelaeth yn y rhan hynny o'r Bŷd, na fu fawr neu ddim o Lewyrch y Gair ynddynt erioed.

AP. Chwi ddylech yn hytrach na thyfeddu hynny, ryfeddu pa fodd y trodd yr Efengyl tu ag *Europe*, ag y gadawodd hi rannau maith o *Africa*, ac *Afia*, ac ymweled ar ardal yr oeddech chwi ynddo, a'ch galw chwi? ond ni omeddaf i roi hanes i chwi hyd y gallwyf pa fath addoliad, ac i ba fath Dduwjau y maent yn ei roi, ac hyd y rhannau hynny o'r Bŷd.

Yn yr *India* ‡ tu draw i'r Afon *Ganges* yr hon fy'n Wlâd o ddwy fil o filltiroedd o hyd a mil o lêd, a than Deyrnafiad amryw o Frenhinoedd a Llywodraethwyr, nid oes ond tywyllwch dudew ac Eulynaddoliaeth, ac yn un o'r Teyrnafoedd hyn elwir *Tonquin*, mae ganthynt barch mawr i *Confucis*, Duw mae trigolion *China* yn ei addoli; ond mae ganthynt amryw ddelwau yfgrybliaid, ymhlith pa rai yn benaaf mae'r Elephant a'r March. Maent yn cymmeryd arnynt adnabod llawer wrth drefn a jaith y Sêr, a'r Planedau, a Chonfieraeth ar bob achos: Maent yn dal fylw mawr a'r dymhorau ac amferau, diwornodau dedwydd, ac anedwydd; fel y rhoddant Enw i bob rhan o'r Dŷdd, gan alw un yn Llew, y llâll Tiger, y drydydd March; a'r Anifail ag y fo yn claimio yr awr y digwyddodd i un Dŷn gael ei Eni ynddi, fydd bob amfer yn cael ci gochelyd gan y Dŷn

‡ Yr INDIA tu draw i'r Afon Ganges fydd Wlâd fawr jawn o ddwy fil o Filltiroedd ei hyd a mil o lêd, yn cynnwys amryw Deyrnafoedd mawrion, megis Torquin, China, Siam, Malacca, Ava, a'r cyfryw. Mewn rhan fawr o'r Wlâd hon maent yn adeiliadu eu Teiau ar Bileraü uchel i'w cad'w hwynt rhag y Llîf, can's un tymmor mae rhan o'r Wlâd tan Ddŵr, a thrwy y tymmor hyn o ddyfroedd nid oes lle i gyfeilliachu y naill a'r llâll ond wrth Fadau; a'r fath dymheftloedd o Wynt, Taranau, a Mellt, fydd yn digwydd oddautu'r amfer y b'o'r Haul ar y Gyhydedd, ar droad y Gwyntoedd o un cwr i'r Nêf i'r llâll, nad ydys yn eu gweled braint fyth yn y rhan hyn o'r Bŷd. Nid yw y ffwyddyn

Dŷn hwnnw mewn ofn y gall yr anifail hwnnw ryw bryd fod yn angau iddo. Cyfarfod Benyw ar ei gwaith yn gofod gynta i maes y Boreu ydynt yn ei ddal i fod yn ddrwg: hwy ymddychwelant ynol yn fynych a'r y cyfryw achos ac nid aent o'u tai amryw oriau,

EU. Ni foniafoch am un math o Demlau gan y rhain nag un trefn o addoliad.

AP. Mae ganthynt Demlau, a Marfiandwyr *Europe* fydd yn eu galw hwynt *Paga dzu* ar hyd y Wlad nid yn't ond adeiliad gwael o Goed a'i gorchguddio a thô, ac yn gyffredin ddim ond digon i ddal y delwau gynhwyfir ynddynt, ond yn eu Trefydd mawrjon maent ychydig yn fwy ardderchog.

EU. Mae rhyw fath o Offeiriaid ganthynt ond odid.

AP. Oes, ac y maent yn arwain Bŷd caled jawn, yr hyn y mae eu t'lodi mewn rhyw feffur yn eu cymmell hwynt i wneuthur; heb ganthynt nemawr i fyw arno ond offrymmau'r bobl dlodion, yr hyn nad yw yn fynych ddim rhagor na llwyeid neu ddwy o Rife, ychydig o Betel neu ryw rodd wael o'r gyffelyb. Y maent yn byw mewn Tai tlodion yn agos i'r Temlau, ymha le y maent yn difgwyl offrymmu Gweddiau tros y Bobl, y rhai fydd yn dwyn eu Gweddiau iddynt

---

ddyn yno yn cael eu rhannu yn Aiaf ac yn Hâf megis gŷda ni, ond i'r tymor gwlŷb ar tymor fych, neu wyntoedd y Dwyrain a Gwyntoedd y Gorllewyn, y rhai elwir Moonfoons arnynt.

Yn y Deyrnas hon elwir Tonquin, mae llawer o Sidan megis Gawfe, Pelongs, Soofees, Hawkins, y rhai a werthant i'r Saefon a'r Dutch; Ond nid yw'r Trigolion yn gweithio fawr jawn ar y Sidan nes delo y Llongau i mewn o Europe; am fod y Gwŷr mawrion yn cadw y cyffredin Bobl yn dlawd, fel nad oes ganthynt fodd i brynu nes cael benthig yn gyntaf gan wŷr Europe, ly rhai fydd yn gofod aros yn hîr yn fynych cyn b'o'r Gwaith yn barod.

Trigolion Tonquin, a Chochin China, fydd yn gwifgo Gynau hirion wedi eu rhwymo am eu canolau a gwregis, ac nid oes ond ychydig o wahaniaeth rhwng dillad y Gwrwod a'r Benwod; Dyn-

ynt yn 'ſcriſennedig: y mae'r Offeiriad yn darllen y rhai hyn yn uchel o flaen yr Eulyn, ac yn eu lloſgi hwynt yng Ngrochan yr arogl darth, ar ymofynnwr fydd trwy'r holl amſer yn gorwedd o hyd ar y Ddaear.

EU. Beth ſydd yn gynnwyſedig yn y ſath Bapur?

AP. Cyfrif o'r holl fendithion a dderbynniodd y Dŷn hwnnw, megis Cyfoeth, Jechyd, Anrhydedd, Ffafr y Brenhin, hir Einioes a'r ſath; ac yn diweddu am barhâd a chynnydd o'r un rhyw; a'r modd y llyſg ef yw, fei teiſl i'r crochan arogl darth ſel y dwedais at frwyn fydd yn lloſgi yno eiſiws, ac yna ſe deifl dri neu bedwar o bapuran bychain wedi ei guildo yno gyd ag ef i'r Tân.

Y Boneddigion ſydd yn gwneud hyn oll yn ei Tai gartref, heb yr Offeiriad, ond rhai o'u cyfeillion i offrymmû i fynu ei Gweddiau, ac yn waſtad ar y cyfryw achos mae cyfran fawr o fwydydd da yn cael ei drin, a phawb a fo yn breſennol yn gwledda arno, a rhan fawr yn cael ei roi i'r tlodion, can's bob tro y b'o y mawrion, yn addoli, maent yn gwneud Eluſengarwch.

EU. Ewch rhagoch.

AP. Mewn rhan arall o'r *India* tu draw i'r Afon *Ganges* ag elwir *Siam* arno, maent fel mewn Teirnaſoedd

---

jon tlodion ſydd yn myned yno yn bennoeth, end yn unig yn y tymmor gwlŷb, pan y gwiſgant Hattiau o beſg y Môr, neu ddail Palmwydd; maent yma fel yn Siam yn eiſtedd a'u Coeſau yn groes i'w gilydd, ac mae gyda hwynt feinciau wedi ei goſod o gylch y ſtafell, wedi gorchguddio a mattiau i ddieithraid i eiſtedd arnynt.

Yn Nheyrnas Siam maent oll o liw yr Oliwydden, maent yn lliwa eu dannedd yn dduon; maent yn gadel eu gwinedd i dyfu ſodfedd neu ddwy yn hwy na'i byſedd; a hyn ſydd iddynt yn addurn; eu gwalltau ſydd dew a llaes, yr hwn mae Gwrwod a Benwod yn ei dorri yn fyrr, fel nas cyrrhaeddo yn îs i lawr na'u Cluſtiau, a'r Benwod ſydd yn gwneud iddo i ſefyll ar eu talcennau.

Y

naſoedd eraill o'r *India* bella, yn addef un gwir a goruchel Duw ond yr unig wahaniaeth yw, yn natur a rhifedi eu rhag-dduwiau maent yma fel yn *Tonquin* yn addoli March a'r Elephant Lelwau parai ſydd benna a blaenaf yn eu temlau ac hefyd maent yn addoli bron peb peth ſydd a bywyd neu heb fywyd ynddo, Aniſeiliaid, Adar, Pyſgod, Coedydd, Mynyddau, Afonydd, *&c.* Ond y mae ganthynt amryw Athrawiaethau angynefin yn eu plith.

Eu. Enwch rai o'r rhain-

Ap. Pan y bo un Dŷn wedi haeddu'r Nêf, ronin bach cyn yr elo yno (canys ni's meddylier nad oes boſſibl iddo farw mwy) cyfrifir iddo nerth anorchfygol o gorph, gwybodaeth berffaith o'r holl gelfyddydau, gan gredu ei ſod ef yn Bregethwr awdyrdodol o gyfiawnder i ddynol ryw: ar ol hyn mae fe yn diſlannu neu yn cael ei gymmeryd allan o'i golwg hwy fel y dwedant megis gwrychionen yn daſod yn yr Wybr: ac i goffadwriaeth i ryw rai o rhain y cyſſagrant eu temlau. Ond yr hwn maent hwy yn ei dibied fyned tu hwnt i bawb mewn bywyd a Sancteiddrwydd a'r y Ddaear hon ac am hynny y maent yn ei addoli gyda'r parch mwyaf oedd *Somona Codom*, *Somona* ſydd yn arwyddoccau math o fonach y Coed, gradd o fonachod ag ſydd fwy Sanctaidd na neb o rhyw fel y caf adrodd i chwi yn y man wrth ſon

---

Y Gwyr ſydd yn plwccio ymaith eu barfau o'r gwraidd heb ado bleuyn yn lle ei heillio hi. Guiſgoeda y Gwyr mawrion yw darn o Galicoe *wedi eu ruymo oddautu ei Luynau, yr hun ſydd yn cyrrhaedd i lawr i'w ben ei lin; mae gantho hefyd Grys o Fuſlin heb un collar na wriſband; yn y Gauaf mae darn o bainted Linen tros eu hyſgwyddau huyst fel mantell: y Benwod eilwaith ſydd yn trei darn o ryw Frethyn oddautu eu canolau, yr hw ſy'n cyrrhoeddlawr i groth eu coeſau; a darn arall o Frethyn i guddio ei bron-*

ſon am eu *Talapeiniaid* hwy, ſef Dynion ſydd wedi ymneillduo at waſanaith mwy manawl o'u duwiau hwynt; rhinwedd ſel y maent hwy yn dal ſulw nid oes yn neb ond y *Talapeiniaid* ac yn bennaf yn *Nhalapeiniaid* y coed.

EU. Adroddwch ymhellach am y *Somona* hwn ac mi gaf etto ofyn am y rhain.

AP. Mae rhyw le i feddwl o'r dechreu mae hanes cnawdoliaeth mâb Duw ei hunan yw hanes y *Somona Codom* wedi ei wiſgo ei gymyſg a'i ddieithro ag amrywiol jawn o chwedlau gwneuthur megis mae wedi digwydd i lawer o bethau eraill yn ddiau yn yr Yſgrythur-lân. Can's yr wyf yn meddwl nad oes wrthadl na's Pregethodd St. *Thomas* yr Apoſtol yr Efengil yn yr *India* fawr tu yma i'r Afon *Ganges* lle y mae'r *Mogul* yn teirnaſu, can's yr oedd Criſtnogion yno pan daeth y *Portugeeſe* gyntaf i'r Wlâd hono; ac mae gan y Criſtnogion draddodiad fyth o'i fod ef yno, ac yn dangos lle merthurwyd ef, y nawr nid yw *Siam* ond yr ochor arall i'r Aber heb ddim yn gwahanu rhwng y ddwy *India* ond Môr neu Bay *Pengal*; nid yw anodd i feddwl os merthurwyd St. *Thomas* yno. y gallſai rai o'i Ddiſgublion i ddwyn enw CRIST i rai o'r Gwledydd cymdogaethol. A pheth a all yw i fod Llyfrau'r *Talapeiniaid* yn gwneid *Maha Maria*, (hynny yw yn eu jaith hwy *Mary*) Arddeachog yn Fam i *Somona Codom*, ac

ha's

Bronnau, a thrwi ei gyrrau yn cl tros ei hyſgwyddau; y llaiſl o'i cyrph maent yn ei adel yn noeth heb un cryſ am danynt ſel gan y Gwyr, na dim gorchgudd ar eu Pennau ond eu gwallt.

Y Bobl gyffredin yn y Wlad hon ſydd bron yn noethion, prynu Gwragedd maent yma, a phob Gwr ſydd yn cadw gymmaint ag y b'o plſſer gantho. Mae rhai Gwyr yma meddant mor belled ddi wrth eiddigedd fel y cynnigant eu Gwragedd a'i Merched i ddieithraid Europe.

Mar-

na's cenhedlwyd ef erioed yr un ffordd a Dynion eraill; ond i'w Fam ei genhedlu ef trwy aroglu llyfeuyn, ond nid oes i ni i roi'r gred fwyaf iddo, am mae trwy enauau cenhadon Eglwys *Ryfain* fydd yn ceisio gwneid *Proselitiaid* yn y Wlâd honno y daeth hyn, y rhai fydd yn wastad yn rhy barod i roi y rhan fwyaf o'u haddoliad i *Fair*, ac yn breuddwydo am dani lle na byddus yn meddwl.

Ev. Ond adroddwch ragor pa bethau mae Llyfrau y *Talapeiniaid* hyn yn ddweid am *Somona Codom*.

Ap. Mae Brenhin *Ceylon* oedd ei dad ef, (yn yr ynys honno mae'r gwir *Cinamon* yn tyfu.) Ac iddo roi ei holl Etifedeiaeth yn Eulusen, iddo dynnu allan ei Lygaid a llâdd ei Wraig a'i Blant a'u rhoddi hwynt i'r *Talapeiniaid* i Ymborthu arnynt. Hwy dd'wedant bydd i *Somona Codom* arall i godi etto ar ol hyn; yr hwn hefyd a lâdd ei Blant i'r *Talapeiniaid*; trwy ba Eulusengarwch y derchafa efe ei hun i'r râdd eitha o rinwedd: a phan bo un Dyn yn ymddangos yn y Byd ac ynddo râdd angynefyn o feddaldod, na bo un groes nag adfyd i gyffroi dim arno, maent yn barod i dibied mae hwn yw *Somona Codom* addewedig. Ond ddychwelyd, maent yn credu cyn-

---

Marsiandwyr y Dutch *sydd yn rhoddi eu hunain mewn rhyw fath o Briodas dymherol yn* Tonquin, *a'r Gwragedd hyn maent yn ddodi i brynu Sidan a meddiannau eraill yn eu habsennoldeb, ac i roi gwaith i maes i'r gweithwyr sidan pan y b'o fwya newid arnynt. amryw o'r* Dutch *sydd wedi ennill iddynt eu hunain Gyfoeth mawr trwy draffic eu Gwragedd amserol hyn, y rhai ydys yn ei ffeindio fod yn ffyddlon jawn iddynt, i'r rhai caniattaer cymmaint o ennill, fel y maent yn cyfoethogi eu hunain, ac yn dyfod i fod yn Wragedd i'r Arglwyddi mwyaf yn y Wlad pan y b'o eu Gwyr o* Holand *wedi darfod trado yno.*

Mae

cyn *Somona Codom* i fyned i gyflwr o ddedwyddwch i gyrraedd i ryw rym Corph rhyfedd, a bod gantho allu i wneuthur Gwrthiau y gallai i ymhelaethu allan o'i Gorph i faintioli a fynnei ac yn union os ewyllyfiau y gallai ei grynhoi ef i mewn mor lleied na's gellid ei weled ef: fod gantho ddau brif ddifgibl un ar ei law ddeheu, ar llall ar ei aſſwy; delwau pa rai maent yn oſod ar allorau, ar ei ôl ef; yr hwn fydd ar y llaw ddeheu elwir *Pra Mogla*, a'r hwn fydd ar y llaw aſſwy elwir *Pra Scarabont*; ac o du ôl y rhain ar yr un allor goſodant Eulunod eraill, y rhai fydd yn repreſentio Swyddogion Tŷ *Somona Codom*, ac oddautu Galeries y Celloedd ag fydd yn perthyn i'r Deml mae ganthynt amrywiol jawn o ddelwau. Hwy dd'wedant i *Pra Mogla* a'r ddeifyfiad un o'r Yſbrydion drwg, i droi'r ddaiar a chymmeryd tân ufern i gledr ei law, gan wneid cynnig i'w ddifodd ef; ond pan ffaelodd ef, fe weddïoedd ar *Somona Codom* i'w ddiffodd ef; ond ef a omeddodd, gan ddeall y byddai i Ddynion i chwanegu mwy mewn drygioni os byddai ofn y goſp hyn wedi ei fymmyd. Ond hyn fydd i ddal fulw arno, pa awdurdod bennaf y ſont yn ei gyfrif i'r duw *Smona Codom*, maent yn credu mae tros *Siam*, yn unig, y mae ef yn arferyd y fâth awdurdod ac nad yw yn blino ei hun ag achoſion Teyrnaſoedd eraill; ac nid y'nt chwaith yn edrych

---

Mae y Swyddogion gwladaidd a Swyddogion rhyfel yn Tonquin *yn gyffredin yn Efmychiaid, y rhai fydd yn cadwer hynny nifer fawr o Ferched Ifainge i chwareu a hwy ac yn fynych y dangoſant ac y cynnigant hwynt i'r* Europjaid, *y rhai fydd yn trafo yno mewn gobaith o gael Plant oddi wrthynt.*

Y peth mwya rhyfedd yn yr India *yma tu draw i'r Afon* Ganges *yw, yr Elephantiaid, o ba rai mae ganthynt fwy o rifedi nag un rhan arall o'r Byd; llawer cant o honynt fydd yn cael eu dyfgu i fynu i ryfel. Nid yw y Creaduriaid hyn yn dyfod i'w llawn faintioli hyd onis b'ont*

yn

edrych a'r eu *Somena Codom* fel y perſon a ſilfaenodd eu Crefydd gyntaf; ond yn unig iddi ei diwigio a'u adgyweirio, ar ol i ddynol ryw i wyro oddiwrth y rheolau roddwyd iddynt o'r dechreuad.

Eu. Pa dderbyniad ſydd gan y rhain i grefydd Dynion o wledydd eraill.

Ap. Maent yn bur rhŷdd i ddïeithred, o bob Gwlâd i arfer eu crefydd eu hunain, am fod eu barn, fod gan bob Gwlâd Dduwiau neillduol, a ffordd neillduol o addoli, ac yn ganlynol ni's gwrthadleuant yn erbyn crefydd dïeithréd, ond nid oes neb a'i perſwada hwynt i madel a'u hopiniwnau eu hunain nag a'u gwna i gredu eu bod yn gyfeiſiornus. Mae athrawiaeth o droſglwyddiad Eneidiau o un i'r Hall o greaduriaid trwy yr holl *India*, yr hon fydd i mi i lefaru am dani yn fwy helaeth wrth ddeſgreifio athrawiaethau eu *Talapeiniaid*, ond d'wedir er mae Cyfeiliornad ydyw hi ynddi ei hunan, etto ei bod yn goſod ofn ar lawer o'r *Indiaid* i wneid llawer o bethau, megis rhoi ofn arnynt dywallt gwaed: ac nid y'nt fyth yn peidio a ffeiddio gwyr *Europe* am ddiniſtrio cymmaint o fywydau mewn cynifer o ryfeloedd a'r bob gwael achoſion mor fynych ag y bo Miſſonaries *Ffraingc* yn boſtio Byddugoliaethau ei Brenhin. Ac fe ddwedir fod

---

yn gant oed; ac yn byw lawer cant eilwaith; ac yn ddiau y'nt y creaduriaid mwya, a hawdd eu trin ac i gymmeryd dyſg o fewn i holl natur. Maent yn arferyd yr un fenyw at ddwyn beichiau, ond yr un wryw at y rhyfel. Mae ganthynt lawer o ddifyrrwch i hela y rhain, ond y ffordd maent yn dal yr Wryw yw, trwy arwain un Fenyw i'r coed, yr hon a'i llais a'i twylla ef i le cyfyng rhwng dau grug uchel o ddaiar, a choedydd mawr wedi ei wneid yn ddiogel; a'r lle yn myn'd o cadd i radd gylach gylach nes y bo'r Elephant gwyllt, o'r diwedd wedi ei gau i mewn na bo lle gantho i drei'nol yna'r Helwyr a ddyfeiſiant faglu ei draed ef a rhaffau mawrion a dyfod a dau neu

dri

fod yr athrawiaeth hyn o drofglwyddiad Eueidian hefyd yn atteg gref i ddal Yfprydodd yr *Indiaidi* fynu mewn cyfyngderau, ac yn lleihau ofn marw; gan fod yn ficr y cant feddianu ar ol marw gyflwr mwy happus. Ac yr ydys yn dal fulw bod yr Efrychiaid, y rhai fydd yn edrych arnynt eu hunain y Bobl mwya anedwydd yma yn caru yr athrawiaeth hon fwya ô neb.

Eu. Ond rhowch ryw ychydig o ddifgrifiad o'u *Talapeiniaid.*

Ap. Mi ddyfcrifiais ddull eu temlau o'r blaen, ynghyd a'r Celloedd fydd o gylch iddynt eu gyd wedi haddeiliadu a'r Bilerau o Bombau ychydig un oddiwrth y llall ac oll wedi cau oddeutu iddynt a phalau o bren Bombau. A'r *Talapeiniaid* a'r *Talapeinafau* ydynt Feibion a Merched gweddwon y rhai fydd ynghyd yn byw yn y Celloedd hyn, ac fel nad y'nt yn cael dyfod yma nes byddont yn hen: nid oes agos cymmaint o berigl ofni cyfeillach gnawdol; ac mewn llawer yftur, mae monachlog baganaidd yn ymddangos i ragori a'r un babaidd.

Yn 1. nid ydys yn cymmell na Gwrryw na Benyw i ddyfod i mewn iddi yn erbyn ei Ewyllys. Yn

---

dri o Elephantiaid dofion y rhai a'i cymmell ef i gychwyn rhyngddynt a thrwy deg neu hagar ynhen ychydig ddyddiau fe fydd bodlon ddaroftwng i ddyfcublaeth; mae ganthynt ffordd arall i ddal yr Elephantiaid fef eu amgylchu a then ac felly eu gyrru hwynt i rwyd.

Mae Elephant gwyn yn Siam *yr hwn yr ydys bron yn ei addoli, nid oes un anall o'r lliw trwy'r Wlad: maent yn meddwl bod* yr *Elephant wedi ei berchnogi gan Enaid rhyw Dyuyfog mawr, ac am hynny nid yw y Brenhin fyth yn Marchogaeth arno; ac y mae yn ecel ei fwyda mewn Lleftri Arian, ac yn cael ei berchu fel Brenhin, ac yn neffa at yr Elephant gwyn, yr un du fydd fwya parcheidig. Maent yn Marchogaeth yr Ych, yr Elephant, a'r Buffaloe; end nid fyth yr Affennod, a'r*

Mulod

Yn 2. Nid ydys yn caniatau neb Merched ufaingc i ddyfod iddynt a'r un telerau.

Yn 3. Yr ydys yn rhoi rhydd-did i bob rhyw berſon i ddychwelyd i'r byd, pan elo'r cyflwr hwnnw ofywyd yn aneſmwyth iddo.

Y *Talaponiaid* yma ſydd yn dyſgu yr holl Jengctyd,---a phob *Talaponiad* a chanddo ddau neu dri o'r rhain tan ei ofal; mae un ſtafell fel Yſgol i ddyſgu'r Jengctyd i gyd, ac un arall o'r gyffelib at dderbyn Euluſenau'r bobl pan fo'r Deml ynghau.

Mae'r *Talaponiaid* yn rhwym wrth hên Drefn, i arwain Bywyd caled a hunan ymwadol, os gellir ei alw ef felly, trwy ba ffordd yr ydys yn credu ei bod hwy yn eiriol tros Bechodau'r cyffredin Bobl; rhyw fâth o Fegeriaid ydynt yn byw a'r Euluſen; ac nis gallant fwytta gyda eu gilydd, ond pob un fwytta yr hyn a fegianodd ef ei hun: maent yn lleteuydd jawn i Ddieithriaid, hyd y nod y Criſt'nogion eu hunain, y rhai fo yn dyfod i'w Monachlog hwynt; a chanthynt Letteioedd a'r bob ochor i'r porth i roeſo ymdeithyddion.

Ac

Mulod, nag chwaith cyffylau ond an aml. Mae Mynydd o Loadſtone yn y Wlad hon, a Mynydd arall mewn Tŷs elwid Jonſalem, *yr hon ſy'n gorwedd a'r goror* Malacca, *yn agos i bay* Bengal; *yr ydys hefyd yn cael meini gwerthfawr, Diamonds, a Gold, a Saphire, yn eu Mynyddau. Mae dwy faith yn cael eu ſiarad yn* Siam, *ſef y Siamefe, a'r Balie; mae 37 o Lythrennau yn y gyntaf, ac yn yllall 33, heb law Bogeiliau, a Diphthongs ſef Bogeiliau dwyſain; nid oedd dim Cloccian na Watches yn* Siam *nes i Wyr* Europe *i ddyfod a hwy; a'r ffordd oedd ganthynt i feſſur yr Oriau oedd bwl crwn cau o Gopper, a thwll bychan yndd, ac wedi ei roi ar wyneb twbaid o ddwfr, a ſyddai i'r gwaelod bob yn ronyn mewn un awr, ac yna hwy ront amneid o'r awr trwy daro ar Badell o bres a Mwrthwl.*

Ac y mae dau fâth o *Dalaponiaid*, un o'r Coed a'r llall o'r Ddinas: *Talapoiniaid* y Coed fydd yn dwyn o lawer y Bywyd calettaf: p'odd bynag mae'r ddau yn rhwym i Fyw yn Weddw tra f'ont yno, dan berigl o gael eu lloſgi, yr hyn mae'r Brenhin yn cymmeryd gofal mawr am wel'd ei fod yn cael ei ddwyn i ben; can's fel y mae ganthynt ragorfreintiau mawrion, ſef i gael eu rhyddhau chwech mis o waſanaeth eu Brenhin, mae yntau yn mynnu edrych a ydynt hwythau yn cadw eu Rheolau, a'u proffes, ac na b'ont yn treulio eu Bywydau heb ddim caledi, rhag ofn i rhan fwya o'r lleill o'u ddeiliaid ef i droi yn *Dalaponiaid*, ac yn ganlynol i ddyfod yn ddiddefnydd yn y llywodraeth.

Eu. Ond pwy ddaioni y mae rhain yn ei wneud i'r Bobl gyda dyſgu eu Plant.

Ap. Maent yn Pregethu, ac yn Eſponio Egwyddorion eu Crefydd iddynt, yn eu Teml a'r bob llawn Lloer, a Lloer newydd: ac yn amſer y llaſ ne's bo'r dyfroedd wedi llaeſu; maent yn pregethu bob Dydd o chwech y Boreu hyd hanner Dydd, ac o un bryd'nawn i bump. Y Pregethwr fydd yn eiſtedd a'i Goeſau yn groes i'w gilydd a'r Faingc uchel, a phan y bo un yn blino lleſaru y llall a gymmer ei

---

Nid yw'r Brenhin yn ymddangos nawr ond dwy waith yn y flwyddyn yn ei bryf Ddinas, yr amſer y mae ef yn cyfranu Euluſen i'r Talaponiaid: *pan bo yn myned allan mae yn cael ei ddwyn naill ar ei Elephant neu yn ei Gadair, a phrin fyth gwelir ef ar ei Farch, er bod ganddo ddwy fil o honynt yn ei Stablau: gofal mawr ydys yn ei gymmeryd rhag ei weled ef fyth ar ei draed, ac am hynny y mae ef yn dyfod yn union o'i yſtafell, naill a i o ryw galari neu ffeneſtr add s o uuchder i eſod ei hun ar yr Elephant, fel na bo rhaid ei godi ef i fynu arno; nid oes un gorchgudd tros ei ben ef ar yr Elephant, ond ei uas fydd yn dwyn rhyw fath o orchgudda o i flaen ef, i'w gadw rhag yr Haul; y gwas fydd yn eiſtedd ar wdaf yr*

Aniſ-

ei Swydd ef; a'r Bobl sydd yn dangos eu cyttundeb a'r Bregeth, trwy dd'wedyd,---gwyr yw,---ac yna y presentiant eu rhoddion i'r Pregethwyr amryw o barai sydd yn myn'd yn gyfoethog trwy haelionu'r Bobl. Amser y llifeiriaint hyn, eilw Gwyr *Europe*, Grawys y *Talaponiaid*, o ran nad y'nt yn bwytta dim o hanner Dydd i mâs.

Talaponiaid y Dref, ar ol cynhauaf y *Rise*, sydd yn myn'd dair wythnos gyda ei gilydd bob Nôs i wilio yn y maesydd, mewn Tai bychain wedi eu hadeiliadu o wrysg a dail Coed, ac yn ymchwel y Dydd yn ol i'w Celloedd: maent yn gwersyllu yn bedwar onglog fel y mae eu Celloedd yn y Dref, a Chêll y Penaeth yn y canol: nid y'nt yn gwneud dim Tân y Nôs fel mae Trefailwyr, i gadw Bwystfilod gwyllion ymaith, a'r Bobl sydd yn meddwl bod eu Sancteiddrwydd yn eu cadw hwynt; ond mewn gwirionedd cymmeryd gofal y maent i osod ei pebyll ymhell oddiwrth y coed y bydd Bwystfilod pennaf yn eu hela; can's *Talaponiaid* y Coed eu hunain,

---

Anifail, ac er nad yw y Brenhin yn ymddangos yn y Ddinas yn fynychach, etto mae ef yn hela yn fynych o ddautu Louvotres *lle mae'r Brenhin yn aros yn amser helwriaeth, ac ar yr achos hyn fe dd'wedir fod ei Orddercbwragedd yn rhedeg gyd ag ef: mae Guard hefyd o ddau neu dri chant o wyr yn rhedeg o'i flaen ef, ac yn gyrru pob rhyw Bobl o'r ffordd; ac os bydd i'r Brenhin stoppio mewn un man, mae'r holl Gwmpeini yn union i guympo a'u hwynebau ar y Ddaear.*

Mae'r holl Wrywod trwy ei Deyrnas, end y Talaponiaid *eu hunain, yn rhoddi iddo chwech Mis o wasanaeth, ac ar yr holl amser hyn yn byw ar eu trail eu hunain, yr hyn sy'n rhoi holl ddeiliaid y Brenhin mewn mawr Gasthiwed; ac hefyd os bydd neb o'u Deyrnas yn cyfoethogi, mae gantho awdurdod i dduyn meddianau y sawl a fynno; ac y maes yn fynych yn gwneud felly; yr hyn sy'n rhoi yr*

ain, y rhai yw y rhai mwya Sanctaidd o honynt, pe Sanctaidd un, fydd yn cadw Tân oddautu iddynt megis Pobl eraill i gadw'r Gwyllt-filod y maes; y Bobl fydd yn credu cymmaint am Sancteiddrwydd y *Talaponiaid*, fel y meddyliant os bydd i *Deiget* i gael *Talaponiad* yn cyfgu na wna ef ddim iddo ond arogli ei ddwylo a'i draed.

Ev. Pa fath Wifgoedd fydd gan yr Offeiriaid hyn? can's yr ydwyf yn deall mae rhyw fath o fwyddogion Eglwyfig ydynt.

Ar. Maent yn ben-noethion ac yn draed-noethion, ond mae ganhynt Liain gylch eu Canolau, wedi ei lliwio yn felyn, can's lliw breinol yw hwn yma, megis yn *China*: nid oes ganthynt un Crŷs Mwflin fel y Bobl eraill, ond darn o Liain melyn wedi ei daflu tros yr Yfgwydd aflwy, fel gwregis Yfgwydd, ac yna tros y cwbl Frethyn melyn mawr yr hwn fydd yn cael ei enw oddiwrth yr amryw ddarnau a chadachau y mae ef wedi cael ei wneuthur o honynt; a hwn fydd yn hongian i lawr ymlaen ac yn ol, ac wedi ei glymmu a gwregis 4 modfedd neu 5 o led,

---

holl drigolion yn llai diwid i dyfuri i fynu feddiannau lawer: pan b'o neb o'r pendefigion marw yn Siam, trefnu eu claddedigaeth fydd fel y canlyn, Y Corph wedi eu roi mewn Coffin adderchog a'i farneifio, a'i roi ar fwrdd mewn yftafell neullduol adewir yno hyd onis bo parod bob peth at y Claddedigaeth, ar neffef o Waed i fod yn brenfennol; yn y cyfamfer y llofgant berorcglau cflaen y Corph, ac ennyn amryw Ganhwyllau. Y Talaponiaid *hefyd fydd yn rhodio gylch cwmpas y ftafell bob Nos, gan ddifyrru'r holl Deulu a* Hymnau *ac ymadroddion purpafol i'r achos; yn y cyfamfer y bydd darn o dir pedwar onglog yn agos i ryw Deml wedi ei gaued oddi amgylch a railiau o bren bembau, oddautu pa un y bydd yn hongian bapurau wedi ei paintio a'i guildio yn repreſentio Teiau, Meddiannau, ac Anifeiliaid yr hun a-*

fu

o lêd, am eu canolau; maent yn eillio eu Gwallt, eu Barfau, a'u Haelau; mae ganthynt ddeilen fawr lydan yr hon y maent yn ddal wrth ei choes; yn hon ſydd yn gwaſanaethu iddynt yn lle Tân. Y Pennaeth o honynt ſydd raid iddo eillio ei hun, o ran nad oes neb yn deilwng i gyffwrdd a'i Ben ef; ac am yr un rheſwm ni's gall *Talaponiad* uſangc eillio un hên, ond ſe all yr Hynaf eillio'r Jangaf, ond os bydd *Talaponiad* yn rhy hên i ddal yr Ellyn yn ei law, ſe all arall ei eillio ef; ond mae yn rhaid i'r Perſon y ſo yn ei eillio ef ofyn maddeuant amryw weithiau yn gyntaf. gan gyhoeddi mor anheilwng yw efe o'r fath anrhydedd.

Eu, Enwch etto rai o Seremoniau eu haddoljad.

Ap. Y *Talaponiaid* ſydd yn golchi ei hunain yn foreu, mor gynted ac y gallont ganfod Gwthienau eu dwylo, ond nid yn gynt, rhag ofon iddynt foddi rhyw Bryfyn lieb ei weled. Yna a'nt i'r Deml, lle treuliant ddwy awr i ganu trofoedd eu haddoliad.

Yr

ſu-farw: ac ynghanol y cyntedd pedwar onglog hyn, bydd pil y Gladdedigaeth, ſef coed ſychion lawer wedi ei goſod ar eu gilydd i loſgi y Corph marw, ynghlith pa rai y bydd pren Sunders melyn, pren Aloes, a Chocd arogledd eraill.

Y Corph a ddugir yno yn y Borau gyda llawer o offer Gerdd, a holl dylwyth yr hwn a ſu farw yn Wyr ac yn Wragedd wedi eu gwiſgo oll mewn dillad gwynion, a gorchudd gwyn ar Wyneb pob un yn galaru ar hyd y ffordd yn ol yr arfer; pan y delont i'r fan, nis llſgant y coffin, ond cymmerant y corph allan o honi, ac a'i goſodant ar y Tan: yna Talaponiaid y *Deml honno a ganant* Hymnau *galarus gwarter awr, ac yna yr ymneullduant, canys pechod yw iddynt fod yn breſennol pan y bo'r dawrſiau a'r chwareuddiaethau yn tael eu cyflawnu, can's mae fel rhyw fath o Wledd bob amſer*

Yr Hymnau neu'r Darlleniad hyn (galwn ef fel y mynnom,) ſydd wedi eu hengrafo a phin Haiarn a'r y dail hirion hynny enwais eiſiws, yn nhafodiaith *Balie*, ac amryw o'r dail hyn wedi eu rhwymo yng-hyd wrth un pen ſydd yn gwneud Llyfr; ond nid oes gan y Bobl ddim o'r Lyfrau hyn i ddarllen eu Gweddiau, a'u Hymnau, ynddynt: y *Talaponiaid* ſydd yn eiſtedd a'u Coeſau yn groes tra ſont yn canu: y Bobl hwythau ſy'n Ymgrymmu dair gwaith eu pennau hyd lawr i'r ddelw fawr wrth fyned i'r Deml, ac wrth fyned allan; ac a'r ol gwaſanaeth Boreu, amryw o'r *Talaponiaid* hyn a'nt a'r hyd y ddinas i fegian Euluſen gan y Bobl; mae ganthynt phïol haiarn mewn cŵd llïain, 'r hon maent yn ei hongion tros ei hyſgwyddau wrth raff; hwy ſafant wrth borth y Tŷ, heb ddwedyd un gair: ac nid yw y bobl ond anfynych yn eu gadel hwynt i fyned ymaith yn wâg-law. Y *Talaponeſau* oll ſy'n gwiſgo dillad gwynion.

Eu. Ychydig ragor am eu Hathrawiaethau yn enwe-

---

ganthynt ar yr achos hyn: yna un o weiſion y Talaponiaid *a eſyd Dan wrth Bil* y *Gladdedigaeth am hanner Dydd, yr hwn a lyſg tros ddu* y *aur*; y *corph fydd yn hytrach yn cael ei graſſu i fynu yn geſſyn du nai loſgi yn ulw, fel* y *dywed rhai*; *a'r papurau paintiedig ag oedd yn hongian i fynu a gymmerir yn fynych i lawr gan* y Talaponiaid, *ac* yn *lle eu lloſgi* yn *ulw* gy*da'r marw fel* y *dylid, a gedwir* yn *gyffredin gan* y Talaponiaid *i'w gwerthu mewn angladd arall, heb yſturied* yr *achos fydd i'r* Dŷn *marw wrthynt mewn Byd arall. Yr holl bobl fydd* yn *gwledda dri diwrnod a'r drail achau'r* Dyn *fu farw, ac* yn *rhoi llawer o Eulyſenni i'r* Talaponiaid *fo* yn *perthyn i'r Deml honno ag* y *bo'r Gladdedigaeth* yn *bod.*

Yna fe roer y Corph wedi ei hanner loſgi yn y Coffin drachefn, ac a Gleddir mewn un o'r Piramids fo yn perthyn i'r Deml honno; ac maent weithiau yn claddu gyd ag ef feini gwerthfawr, a thruſorau eraill: ond nid oes nemawr o ffydd i roi nad yw y Talaponjaid yn eu cymmeryd hwynt ymaith yn eu amſerau eu hunain.

enwedig Athrawiaeth trosglwyddiad Eneidiau fel y dwedasoch, ac addewsoch ymhalaethu arno.

AP. Offeiriaid yr *India* er eu bod oll yn dal *Transmigration*, neu Drosglwyddiad Eneidiau o un Corph i Gorph arall, etto mewn llawer o bethau eraill ni's cyttunant; rhai sydd o blaid Priodas, eraill yn eu gwahardd hi; rhai yn edrych arno yn bechod i ddihenyddu un Creadur o'i Fywyd, eraill nid amheuant; rhai eraill a laddant yn ansynych, ac yn unig er mwyn aberth: rhai eilwaith a fwttant un anifail a fo farw o hono ei hun, neu roir yn farw iddi'w Dwylo er na roddent un Anifail ei hunain i farwolaeth, mwy nag y mwrddrent Ddŷn. Nid oes dim mewn Natur a Bywyd, neu heb Fywyd ynddo, nad yw yr *Indiaid* yn credu bod ynddo Enaid rheswmmol: y Nêf, y Ddaer, y Tân, y Dŵr, Afonydd, Coedydd, Mynyddau, Dinasoedd, Teiau, yn eu Barn hwy sydd oll yn cael eu perch'nogi gan ryw Yspryd; ac hefyd y maent yn credu blaen greadigaeth yr Enaid, neu yn hytrach fod pob Dŷn wedi myned trwy aneirif gyflyrau; a bod Enaid ag sydd yn trigo mewn Corph dynol, wedi cael ei rwymo yno mewn trefn i'w gospi ef am ryw feiau a wnaeth ef mewn rhyw Fywyd o'r blaen. Hyn maent yn dybied ellir ei dynnu yn ddigon eglur oddiwrth hyn, sef nad yw'r Dynion mwya dedwydd ddim heb eu Croesau, a bod y Bywyd hwn gan hynny yn wir Uffern; ac mae'r Dedwyddwch mwya sydd i'w gael yw, yngwahaniad yr Enaid a'r Corph, ac y mae rhai o'r *Talaponiaid* er mwyn cadarnhau eu Barn yn well o flaen Greadigaeth yr Enaid, yn cymmeryd arnynt eu bod yn cofio ei holl drosglwyddiadau o un Creadur i Greadur arall.

EU. Maent yn credu bod yr Enaid yn anfarwol yntau?

AP. Ydynt, ond nid y'nt yn dal mae Yspryd pur yw'r Enaid, ond ei fod o ddefnydd mor denau, ag na's gellir ei deimlo, ei fod ar ôl marwolaeth ar ddull neu shape y Dŷn byw, ac o'r un defnydd ond ei fod yn fwy pur ac ysprydol nag yr oedd y Corph

o'r blaen; ac os bydd Dŷn marw o Glwŷf a roddir iddo, y gellir ei weled ef yn y Corph yſprydol hwn, neu yr Enaid hwn ag ſydd yr awrhon o filwedd denau megis Awyr, ar Farn hon oedd gan y Grogiaid a Rhufeiniaid gynt. Ond ni's gall yr Enaid yma farw mwy meddant, ond ar ol myned i mâs o'r Corph fe fydd yn cael ei droſglwyddo o Greadur i Greadur; weithiau mewn Creadur a Bywyd, megis Ych, Elephant, neu Wybedyn, neu weithiau mewn Llyſeuyn, ac felly yn mwynhau pleſſer neu boen; nes o'i diwedd ar ol llawer o droſglwyddiadau y b'o iddo berch'nogi Corph Dŷn drachefn, yr hwn y ſo gyfattebol iddi'w ymddigyiad ef yn ei amryw droſglwyddiadau o'r blaen.

Eu. Beth ſydd yn dyfod o hono wedyn?

Ap. dwedant fod amryw o raddau o Ehangder tu hwnt i'r Bŷd gweledig, ymha le y cant naill a'u poeni neu eu gwobrwyo; cain y dedwydd i eſgyn ymhell o war y Sêr, tra fo y rhai truenus yn cael eu barnu i'r dyfnder; ac maent yn arferol o gyfri naw grâdd o wahanol drigfannau o Ddedwyddwch ac o Druenu. Ac fel nad y'nt yn dychmygu fod yr Eneidiau yn paſſo yn union o un Cyflwr i'r llall, ond eu bod yn cael rhyw fâth o adenedigaeth a'r eu mynediad i gyflwr newydd; ac am hynny tybiant y rhaid iddynt wrth yr holl bethau oeddent yn ei fwynhau yma: ac am hynny fel yr hên Bagan iaſd gynt, mewn rhai lleoedd, maent yn lloſgi eu holl Ddodrefn Tŷ, eu Gwyſgoedd, a'u Hanifeiliaid a'u Caeth-weiſion rai; a'r Gwragedd hefyd yn yr *India* neſſa yma ſydd yn arferol o gynnig eu hunain i'w lloſgi gyda eu Gwyr, er mwyn eu mwynhau hwy yn y Bŷd neſſa; ond ni's goddefir yn *China*, na *Siam*, na chan un genedl yr ochor draw i'r Afon *Ganges*, gan Wraig gymmeryd ei lloſgi a'r gladdedigaeth ei Gŵr; ac y maent yn fynych mor gall fel yn lle lloſgi'r holl bethau gwerthfawr adewo'r Gŵr yn ol, lloſgant yn unig bapur wedi ei guildo, a'i baintio, a'i wneud a'r lun y truſorau hynny a adewodd y Gŵr a'r ei ol;

gan

gan roi allan bod y rhain yn cael eu troi yn bethau ſilweddol yn y Bŷd neſſa, ac er bod trugolion *China* yn lloſgi rhai meddiannau, etto maent yn lloſgi llawer mwy o bapur. Ac fel y maent yn credu y gallant hwy i gyfrannu cynorthwy i'r meirw, felly maent yn credu gall y meirw wneud da neu ddrwg iddynt hwy; am hynny gweddïantar eu cafeillion fydd wedi ymadel ar Bŷd gan roi pob anrhydedd ag allont iddynt ar eu hangladdion, felly fel Eglwys *Rufain* yn gweddio ar, ac yn gweddio tros y marw.

Eu. Yr Athrawiaeth hon o droſglwyddiad Eneidiau (mae'n debig) fydd fam i amrywiol o fân athrawiaethau eraill.

Ap. Gwir yw; ac oddiwrth hon maent yn gwahardd lladd un rhyw beth, nid yn unig Dynion ac Anifeiliaid, ond hefyd torri lawr Goed a Llyſiau; ac am hynny ni's diſtriwiant hâd un rhyw Blanhigin; am y ffrwyth, maent yn meddwl nad yw yn perthyn cymmaint i enaid y Pren neu'r Llyſenyn; am hynny mae eu llawn ryddyd ganthynt i'w ſwytta ef; ond yna hwy a gadwant y cniwllyn, yr hwn yw'r hedyn; ac ni's bwyttant ffrwyth cyn yr addfedo, can's yna yr Hâd a ddoi i ddim. Ni's mynnent ddiſtriwio un peth ag alwn ni yn ddi fywyd, o ran maent hwy yn meddwl bod Enaid rhyw Ddŷn ynddo, ac wrth ddiſtriwio hwn bydd rhyw Enaid yn cael ei daflu allan e'i drigfod; ----- am hynny ni's torrant i lawr bren a'r un achos, neu dorri ymaith gangen; ond torrir ef i lawr gan eraill, neu lâdd yr Anifail gan arall, hwy a ddefnyddiant y naill, ac ni omeddant ſwytta'r llâll. Maent yn meddwl nad yw gyfrethlon i agor gwthien ar un cyfri i'r gwaed ddyfod allan, gan edrych i fod yn Enaid yn trigo yn y gwaed; ac y mae rhai *Indiaid* yn dwyn hyn mor bell fel na's clwyfant blanhigin rhag ofn i'w ſûdd redeg allan.

Eu. Pe baent, neu os y'nt yn cadw'r fâth reolau; anodd iddynt i wneuthur gwaith cyffredin nag ymborthi a'r drugareddau Duw, yn enwedig amhoſibl fyddau yddynt ryfela, &c.

Ap.

AP Na feddyliwch lai nad oes gathynt ffordd o fyned heibio i rhan fwya o'r Gorchmynion, ag y mae eu Cyfraith hwy yn ei oſod iddynt.

EU. Pa fodd.

AP. Fel hyn; mewn rhyfel meddant, nid yn't hwy achluſur o farwolaeth eu Gelynion, ond y Gelynion eu hunain, am ei bod yn dyfod ymlaen at eu ſaethau; can's y ſaethau yn waſtad fydd ryw beth yn fyrr o honynt.

EU. O gyfrwyſdra! ond nid yw fwy nag ſydd ymlhith gau Broffefwyr yr Efengil; ond pa fodd y deuant i ben am fwytta amryw o Frwythau, Hadau a Llyſiau.

AP. Pan y bo'r *Talaponiaid* yn bwytta *Riſe* yr hwn yw'r had, nid yn't yn ei ferwi ef eu hanain, canys byddai hyn yn laddiad o hono, yr hyn fyddai yn bechod ynddynt hwy; ond maent yn dodi eu gweſion i'w ferwi ef, a lladd yr hâd, ac yna yr edrychant ar ei fwytta ef yn ddi niwed. Maent hefyd yn dal ei fod yn bechod i biſſo ar y ddaiar, ar tân, neu ar y dŵfr; am ei bod yn meddwl bod Enaid ymhob un o rhain, ac iddynt trwy hynny halogi un o'r Elfenau, ond eu gwelſion allant daflu eu Dŵfr hwy ar Ddaiar, neu yr Tân, a'r ol y gwnelont ef mewn rhyw Leſtr.

EU. Ewch rhagoch

AP. Maent yn gwahardd lledratta, dywedyd celwydd, maent yn ei coſpi cymmaint ag Anydoniaeth, afiendid hefyd ac yfed Dïod gadarn ſydd waharddedig: nid oes chwaith i'r *Talaponiaid* wrando *Muſic*, neu edrych a'r chwareyddiaeth, neu ddawnſio, does le iddynt arferyd peraroglau, neu gyffwrdd ac Aur ac Arian (er i fod yn amlwg eu bod yn coſoethogi) neu gymmeryd yn llaw un achos nad yw yn union gyrch yn perthyn i grefydd. Nid os le i *Dalaponiad* geiſio menthig dim gan Wr llŷg neu wneud un cyngair o gyfeillgarwch ag ef mewn gobaith o Euluſenau neu roddion; ac nid oes iddo roi Arian allan ar uſuriaeth: nid oes iddo gadw Arfau, bwytta neu gyſgu yn ormodedd, canu *Caniadau* o ddyfyrwch, chwiban

ban neu chwareu ar un Offeryn cerdd, neu arferyd un dyfyrrwch neu chwaryeddiaeth beth bynnag: mae yn waharddedig hefyd i farnu neu redeg i lawr eu Cymdogion; neu ddringo i fynu i un Pren rhag iddynt ei ddrygu, ac hefyd i loſgi Pren: nid oes le ganthynt i edrych ar un Fenyw gyd a phleſer, na chwedleua a neb yn ddirgel, na phrynu na gwerthu un peth; nid oes le iddynt oſod heibio yr hyn a fegianant heddyw erbyn y foru, ond i roddi yr hyn ni's gallont fwytta i ryw Anifail: nid oes yddynt lafurio'r ddaiar, cadw Adar dofion, Elephantiaid, Cyffylau, Buffaloes, Môch, a Chŵn: nid oes iddynt eiſtedd yn ochor Benyw, chwedleua yn wrthwyneb i'r hyn y ſont yn ei feddwl, na chwnychu etifeddiaeth un arall: hwy droſeddant os marchogant Geffyl, Elephant neu mewn *Palequin*, neu wiſgo Dillad neu Eſgidiau arderchog, neu orchguddio eu pennau, neu os derbyniant un peth o law Benyw, ac am hynny'y Benwod ſydd yn goſod eu Eulufenau i lawr ar y ddaiar, a'r *Talaponiad* ſydd yn eu cymmeryd hwynt i fynu: *Talaponiad* ſydd yn troſeddu os câr efe un dŷn yn well na'r llall, os bwytta ef mewn lleſtri Aur, Arian, neu wiſgo un lliw ond melyn; os derchafant ei llais wrth chwerthyn neu ymfroſtio eu hachau neu dyſgeidiaeth, neu os ymwelant a neb ond eu Teidau, eu Mammau, eu Brodyr, eu Chwïorydd: hwy droſeddant os rhedeg un o honynt yn yr hëol, neu godi eu gwiſgoedd oddautu eu canolau; os edrychant yn ddigwilydd yn wyneb neb neu roi geiriau drwg am eiriau drwg; os bygwthiant un dŷn, neu ymſennu, neu fod yn ddigllon, neu os ant i'r Deml gyd ag un *Talaponiad* ag y maent yn ei wybod i fod yn ddyledwr i un arall, maent yn pechu: nid oes le iddynt wneuthur tân nag i'w ddiffodd; nid oes le iddynt fegian beunydd wrth yr un tŷ, nid oes iddynt gyſgu yn yr un gwely a'u diſgyblion neu neb arall: llawer o harddwch hefyd a lledneiſrwydd ydys yn ei ofyn ganthynt: pan elont i angladd, ſertenrwydd angau, cyfnewidioldeb pethau tymhorol, a'r fath, ſydd i fod yn filwedd eu Hymnau a'u pregethau.

Eu.

Eu. Pan y maent yn dal yr athrawiaeth o drofglwyddiad eneidiau o un creadur i'r llall nid wyf yn deall pa'm nad yw mwrddrad yn dda, pan mae'r enaid mewn creadur dirmygedig, neu mewn anifail baich, am fod mwrddrad yn rhyddhau'r enaid o tan y fâth orthrymder ac o fywyd ag yr oedd efe wedi gondemnio iddo mewn ffordd o gofbedigaeth.

Ap. Eu hatteb i hyn yw bod Enaid yn wâstad yn cael eu ddrygu pan y bo yn anamferol yn cael eu daflu allan o'r Corph y mae ef yn trigo; can's nid yw yn cael ei ryddhau meddant y pryd hynny, ond i gael ei gondemnio i ryw Gorph arall, yn yr un amgylchiadau, i gyflawnu i fynu yr amfer pwyntiedig y derfynwyd iddo i'r bywyd hwn.

Eu. Aml jawn yw y Dyledfwyddau, yr Arferion, a'r Seremoniau fydd ganthynt, ond a oes rhyw ychydig o'r rhain yn cael eu cadw gan y gwŷr llŷg, fef y bobl nad yw tan yr enw *Talaponiaid*.

Ap. Yn wîr mae eu Crefydd hwynt yn gofyn y fâth râdd uchel o burdeb ac o fobrwydd fel nad ydys ddim yn meddwl y gall y cyffredin bobl na neb gwyr llŷg halogedig i gyrhaedd at y perffaithrwydd ydys yn ei ofyn: yr Offeiriaid eu hunain fef y *Talaponiaid* ydys yn ei feddwl i fyw i fynu i'r rheolau hyn, y rhai trwy eu Sanctteiddrwydd anarferol, fel y maent eu hunain yn rhoi allan, fydd yn gwneud jawn am bechodau'r Bobl; Cyfiawnder yr Offeiriaid (fel y dwedir) fydd yn jawn tros eu beiau hwynt, os ni fyddant yn fyrr yn eu hoffrymmau a'u helyfennau i'r Teidau hyn: ond am fod y peth olaf hyn yn dyfod o Eneuau *Miffionaries* Pabaidd, ac hefyd yn wrthwyneb i'r Athrawiaeth o addef cyflwr o wobr ac o gofp yn y Bŷd arall ag y maent yn ei gredu, nid oes le i roi gormod coel iddo.

Eu. Gair ymhellach am eu barn am Fŷd arall ac yna rhof lonydd i chwi.

Ap. Mi ddwedais eifiws eu bod yn credu naw grâdd o happufrwydd, neu drueni ar ôl eu Marwolaeth; ac ymhob un o'r cyflyrau hyn, meddyliant eu bod yn marw, ac yn cael eu geni, heb etto fyned i'w llawenydd

eithaf, ond ar ol yr amryw droſglwyddiadau hyn, ym mha un y bydd yr Enaid wedi cyflawnu torf o weithredoedd da, maent yn credu bydd iddo yn y diwedd haeddu cymmaint, a chael ei dderchafu uwchlaw cyflwr marwol, ac wedi ei ryddhau oddiwrth bob troſglwyddiad ymheſlach, caiff fwynhau gorphwyſfa dragwyddol heb fod byth mwy tan boen, galar, nag un cyſtudd pa beth benna. A hon yw Nefoedd yr *Indiaid* yn *Siam*, a Theyrnaſoedd ehang eraill.

Eu. Pa wledydd ſydd etto agoſaf i'r *India* fawr yma ag eulunaddoliaeth ynddynt oes gwyddoch?

Ap. Mae aneirif o ynyſoedd o bob maintioli, rhwng ymma a'r *Dwyrain* ag ſydd a thrigolion lawer iawn ynddynt, heb wybod dim ſertenrwydd pa grefydd ſydd ganthynt; ac amryw ynyſoedd eraill nad oes fawr neu ddim gwahaniaeth rhyngthynt a'r hyn ſydd yn yr *India* yma enwais uchod. Ond y mae gan y *Portugueſe*, a ninnau, a theyrnaſoedd eraill, yn enweddig y *Dutſh*, gymmaint o farſiandaeth i amryw o'r ynyſoedd hyn, a chymmaint o leoedd cyfanneddol, gweith-dai, ceſtyll, tyrrau, a dynion o bob rhan o'r byd yn cyfanneddu ynthunt; fel y mae yno ran o'r grefydd *Griſt'nogol*, a'r *Fahometanaidd* mewn mannau.

Eu. Cyd ddygwch gennyf i geiſio gennych i roi ychydig haneſion ragor am enwau, trefn, ac eulunaddoliad yr ynyſoedd hyn.

Ap. Ynyſoedd § *Ladrone* yw rhai o'r rhai'n: Ynyſ-

Nodau.

§ Ynyſoedd *Ladrone*, y rhai ydynt 12 o riſedi, a'r fwyaf o honynt yw *Guam* ym mha le y mae gan wyr *Spain* gaſtell, drulliau, ac ychydig wŷr mewn arfau, mae hi o ddautu 36 o filldiroedd o hyd, ac o ddautu

12

☞ *Boed hyſbys ir Wlâd argraphu'r oddiyma allan gan* J. Roſs, yn Nghaerfyrddin, 1763.

oedd y *Philipine* *: er ſod rhan fawr iawn o honynt yn *Fahometanaidd*, o ran traffic *Mahometanaidd* i'r gwledydd

---

NODAU.

12 o lêd; yma y dwedir ſod y *Pren Bara*; ſef pren yn dwyn ffrwyth fel afalau, o faint pêl droed gyffredin; y mae 'r afal hwn yn grwn, a rhiſglyn tew garw o ddautu iddo; pan yr addſedo y mae yn ſelyn, yn ſeddal, ac o flâs melus; y mae y trigolion yn ei ſwyta yn lle bara; maent yn ei gaſclu tra ſo yn lâs, ac yn galed, ac yn ei graſſu nes bo ei riſglyn wedi ei oloſgi yn ddu; ac ar ol crafu ymaith y rhiſglyn, mae ef o mewn yn wynn, yn dyner, ac yn gyffelyb i ſŷwyn bara; ac nid oes na chniwllŷn na charreg ynddo, ond ſylwedd bur fel bara; ond o's cedwir ef tros 24 o oriau, mae yn bwyta yn galed ac yn dagedig; mae ef yn ei dymmor 8 mîs yn y flŵyddyn, tros ba amſer nid yw y trigolion yn bwyta dim bara arall: ac fe ddwed traſaelwyr nad yw y pren hwn yn tyfu mewn un man ond ynyſoedd *Ladrone*. Mae yn tyfu yn yr ynyſoedd hyn hefyd *Rice*, *Afal Pine*, *Melons*, *Oranges*, *Limes*, *Cnau Cocoa*, o ba rai y gwneir y *Chocolate*, *&c.*

* Ynyſoedd *Philipine*, y rhai ddwedir gan rai eu bod yn fil o riſedi, y rhai ſydd o ddautu 12 Cant o filldiroedd yn nes i'r *Gorllewin* na'r *Ladrones*; y rhai mwyaf o'r rhai'n yw *Manila* a *Mandanario*, yr hon ſydd agos i 200 o filldiroedd cu hŷd, a 120 o lêd; ac yma o ran bod un rhan o'r wlâd tan ddwfr un rhan o'r flwŷddyn maent yn adeiladu eu teiau ar bŷſt uchel, o ddautu 14, neu 20 troedfedd oddiwrth y ddaear, ac yſcolion neu riſiau i ddringo iddynt fel yn *Siam*; nid yw eu hadeilad ond gwan ac yſgafn; y llawr a'r muriau o goed *Caen*, neu *Bombau* wedi ei hollti; a'r gronglwyd wedi ei gorchguddio a dail pren *Palmeto*; ond palas y *Sultan*, neu'r brenin ſŷdd ehang iawn, yn ſefyll ar 180 o bŷſt mawrion o goed, a llawer uwch na 'r teiau eraill, ac ugain o ddrulliau heirn wedi eu goſod ar eu holwynion yn y ſtafel bennaf o'r adeiliad. Mae'r llawriau yno oll wedi eu gorchguddio a mattau, o ran ſod pawb

yn

ledydd hynny, megis gylch gwmpas glan y mor, etto canol y gwledydd, ynt naill ai yr un grefydd a *China*,

NODAU.

yn eiſtedd yn waſtadol a'u traed yn groes i'w gilydd ar y llawr, ac nid fyth ar gadeiriau. — Ymma y mae'r pren *Sago*, yr hwn a eilw'r trigolion *Bibby*, o galon pa un y gwnant fara i'w fwyta tros bedwar neu bump o fiſoedd yn y flwyddyn; nid yw ef anhebig i'r *Balmwydden*, y rhiſglyn a'r pren ſydd galed a theneu, ond yn berchen calon fawr wen fel yſgawen; pan torront y pren hwy a'i holldant gan dynnu 'r galon a'i churo hi a pheſtl pren mewn mortar, ac ar ol tywallt dŵfr arni a ſtraeniant trwy liain, ac ar ol iddo loiwi ac arllwys yr wyneb heibio, yr hyn erys yn y gwaelod fydd fel llaid, o ba un y gwnant deiſennau, ac a'u craſant ef yn fara.——Ymma hefyd y mae'r pren *Plantain*, ffrwyth pa un ſydd yn gwaſanaethu yn fara, yn unig ei roſtio neu ei ferwi ef cyn y b'o yn llawn addfed, — y *Saeſon* yn fynych a gymmerant ffrwyth 4. neu 5. o honynt ac a'i berwant yn botten :—y ffrwyth ymma pan y b'o yn addfed ac wedi ei ſychu yn yr haul a'i gadw, a wna fwyd melus iawn y ffrwythau hyn ſy'n gwaſanaethu i amryw filoedd yn yr *India* yn lle bwyd a diod; pan y bont yn gwneud diod o hono cymmerant fywyn 5. neu 6. ac au pwnniant, ac yna rhoddant ddŵfr arnynt, ac ym mhen ychydig oriau ſe weithia ſel diod newydd. — Mae'r bobl dlodion hefyd yn cael eu gwiſgoedd oddiwrth y pren hwn, can's ar ol ei dorri ef i lawr (o ran na's dwg ef ffrwyth un waith ond un) holltant ef yn bedwar, gan dynnu ymmaith y galon a'r rhiſglyn, cymmerant gorph y pren, yr hwn ſydd yn deneu iawn, ac a'i ſychant rai diwrnodau yn yr Hâul ac yna y benywaid a'u tynnant yn edafedd oddiwrth ei gilydd, o ba edafedd y gwnant eu gwiſgoedd; y brethyn hyn fydd yn anyſtwyth pan y bo yn newydd, ac y mae ef yn treulio yn fuan gwnant y darniau o hono o ddautu 7 lathen o hyd. *Luconia* eilwaith, neu *Manila* yw un fawr

neu yr *India* enwais uchod; ac fel y mae 'r grefyddd *Fahometanaidd* yn gwahardd bwyta cîg môch, yn ganlynol

NODAU.

fawr arall o ynŷſoedd y *Philipine*, yr hon ſydd 400 milldir ei hŷd, a 200 ei llêd; rhan fawr o ba un ſydd tan awdurdod *Spain*; a'r ddinas fwya ynthi yw *Manila*, ymha un y mae gan *Spain* Gathedral, neu Fam-eglwys, ac iddi 12 capel, a chynnifer allor, heblaw yr allor fawr; mae ganthynt fonachlogydd, teiau crefydd eraill Eglwyſi, Capeli a Hoſpitals. Yn miſoedd *Mehefin*, *Gorphenhaf* ac *Awſt*, a rhan fawr o fis *Medi*, gwyntoedd y Deheu a'r Gorllewin ſydd yn dwyn gyda hwynt y fath lawogydd ag ſydd yn llifo tros, ac yn gorchguddio yr holl dir, fel y mae 'r trigolion yn gorfod ſymmud o un man i'r llall mewn badau, a thrwy gydol yr amſer hyn, mae amryw ſtormydd a themeſtloedd, mellt a tharanau ofnadwy; ond o fis *Hydref* i fis *Rhagfyr* mae gwynt y Gogledd yn ennill, ac o hynny hyd *Fai* mae gwynt y Deheu a'r Dwyrain yn cario yr dŷdd, yr hwn yw 'r amſer ſychaf yno. Mae 'r ynyſoedd hyn yn ſynych yn dioddef daear-grynfau ofnadwy, y rhai yr ydys yn gyffredin yn tybied eu bod yn dyfod oddiwrth y tân gwyllt tan y ddaear, yr hwn ſy yn ei cael ennyn gan y brwmſtan yn y mŵyn greigydd, ac heb ſe gantho i yrru ei hunan allan, ond ymwthio gyda 'r grym eithaf yn erbyn y creigydd caled ſydd yn ei amgylchu, nes eu ſiglo a'u chwareu felly, fel y mae cwbl ſydd yn agos attynt hyd yn oed wyneb y ddaear yn cael ei chwareu. A thyna pam y mae 'r mannau hynny o'r bŷd ac ſydd fwy aml eu mŵyn-gloddiau yn fwya yn cael eu blino gan ddaear-grynfau, megis *Calabria*, *Campania*, a *Sicily*, y rhai ſydd mor hynod am fynyddau tanllyd, fel yn y flwyddyn 1627 bu 'r fath ddaear grynfau ofnadwy yn *Manila*, fel y darfu iddi waſtadhau un o'r mynyddau elwid *Carvillos*. Ac yn y flwyddyn 1645 y drydedd ran o ddinas *Manila* a ſyrthiodd; ac nid llai na thair mil o eneidiau a gollwyd yn y diniſtr. Mae 'r mynyddau tanllyd yn yr ynŷs

lynol mae 'r moch gwyllion yn cynhyddu yn rhyfeddol yn y wlad hon, ac yn dyfod i lawr o'r gelltydd

NODAU.

ynŷs hon yr un fath a'r rhai sydd yn yr *Eidal*; sef yn taflu allan flammau tân, yn crynu 'r ddaear, yn gyrru oddiwrthynt yr afonydd cymdogâethol, a'r môr, ac yn taflu lludw gylch o gylch y wlâd, rhwygo'r creigydd y rhai weithiau sydd yn gwneud trwst dis ymwŷth fel swn canon: ac oddiwrth y tân gwyllt hwn tan y ddaear mae amryw o ffynhonnau poethion yn tarddu allan; ac mae rhai o'u nentŷdd a'u hafonŷdd mor boeth, fel o's cwymp un creadur ynddunt y bŷdd ef marw yn union. Ond y dyfroedd hyn sŷdd yn dyfod tros y mŵyngloddiau ydynt mor loyw, ac mor flasus ag un dyfroedd; ac maent yn iachus i'w hyfed, yn unig gadael iddunt oeri. Trigolion yr ynŷsoedd hyn ydynt, 1. yn bobl o *China*. Yn 2 *Ethiopiaid*, sef pobl dduon fel y frân, y rhai mae 'n debig oedd yn cysanneddu yma gyntaf, ac maent yn awr yn aros yn y mynŷddau, y gelltŷdd, a lleoedd eraill mwya anhawdd i'w gorchfygu. Yn 3 y *Mwriaid mahometanaidd*, y rhai ddaeth o *Borneo*, *Molucca*, *Sumetra*, a *Macassar*, ynghyd ag ynysoedd cymydogaethol eraill. Yn 4. *Spaniards*, *Portugueſe*, a chenhedloedd eraill o *Europ*. Yn 5. *Muſtees*; sef magwriaeth rhyngddynt eu gid, cymysedd o bob rhyw. Mae 'r ynŷsoedd hyn yn gyfoethog mewn perlau, *Ambergreaſe*, *Cotton* a *Sivet*; ac yn llawn iawn o fŵyn-gloddiau aur, a chŷflawnder mawr iawn o raian aur sŷdd yn cael ei olchi gŷda 'r glawogŷdd o'r creigŷdd a'r mŵyn-gloddiau, a'r trigolion yn ei ffeindio ym mhlith graian yr afonŷdd. Mae yma amrŷw fath o fŵyn arall, a *Loadſtone* ragorol. Amryw iawn o *Buffaloes* gwŷllion sŷdd yn y wlâd hon fel y gall heliwr da wedi ei arfogi a gwaywffon ladd 10 neu 20 o honunt yn y dŷdd: y *Spaniards* sŷdd yn eu dal hwynt er mŵyn eu crŵyn, y rhai maent yn eu gwerthu i'r *Chineſe*, a thrigolion y mŷnŷddau sydd yn byw ar eu cîg hwynt. Mae yn yr ynŷsoedd yma *Faunciod* o

faintioli

i'r trefydd, ac yn fynych tan eu teiau i ymofyn bwyd; ac ni fynn y bobl eu lladd, rhag ofn iddunt ymhalogi wrth

---

Nodau-

faintioli aruthr, ac a amddeffinnant eu hunain pan gofodir arnunt gan ddŷn; pan na's caffont ffrwyth yn y mynŷddau hwy ant i wared i lan y môr i ddal *Crancod* ac *Wyſtrwys*, ac fel na bo'r *Wyſtrwys* i gaead am eu palfau, hwy ofodant i mewn garreg fel na chaeo hi ynghŷd; maent yn dal y *Cranced* trwy yrru eu cynffonau i mewn i'r tyllau bont yn llechu, a phan ymaflo'r Cranc ynghynffon y *Mwnci* fe a'i tynn allan wrth ei gynffon. Yn fyrr, mae'r ynŷſoedd hyn, yn enwedig *Manila* am eu bod yn gorwedd rhwng tir y Dwyrain a thir y Gorllewin wedi bod unwaith yn feſŷllfa oreu yn y bŷd am drading. Yma 'r oedd arian yn cael eu dwyn o *Mexico* a *Pheru* cyſtal a ffrwythau o *Europ*, *Diamonds* a meini gwerthfawr eraill o *Golconda*, *Sinamon* o *Cheylon*, pubur o *Symetra* a *Java*, *Cloves* a *Nutmegs* o ynŷſoedd *Molucca's*, a'r *Banda's*, *Camphire* o *Borneo*, *Benjamin* ac *Iſori* o *Cambodia*, *Tea* a *China* ware o *China*. Ac yn yr amſer aeth heibio, yr oedd yn dyfod bob blwyddyn o *Japan* ddwy neu dair o longau wedi eu llwytho ag *Amber*, *Sidan*, *Cabinettau*, ac amrywiol waran eraill wedi eu marneiſio, mewn cyfnewid a ffrwythau, a meddiannau ynŷſoedd y *Philipine*; a dŵy long ſydd yn awr yn gofod allan bob blwyddyn i *Acapulco* yn *Mexico*; wedi eu llŵytho a thryſorau 'r Dwyrain: ac yn dŵyn adref arian oddiyno, ac yn gwneud yn gyffredin 400 o bob cant punt o elw; ac nid oes daear yn y bŷd ag ſydd yn dŵyn mŵy cyflawner o bob peth angenrheidiol i gynhaliaeth dyn, fel yr ymddengys oddiwrth y torfeydd o drigolion ag ſydd yn cyfanneddu yn y creigydd a'r mŷnŷdddau, y rhai ſŷdd yn unig yn bŷw ar ffrŵythau 'r ddaear, a chig geifir maent yn eu hela, ac ni's gall un rhan o'r bŷd i ymddangos yn fwy hyfryd, y tir ſydd yn wŷrdd lâs trwy 'r flwŷddŷn, blodau, nopau a ffrwŷthau ſydd i'w cael ar y coed bob amſer, cyſtal ar y mŷnŷddau ac yn y gerddi ag ydys yn eu trin.

wrth gyffwrdd a hwynt; ond y mae yn dda ganthunt i wyr *Europ* wneuthur iddunt y fath gymmwynas, ac am y grefydd *Baganaidd* oedd ymma, y mae yn debig eu bod yn credu un goruchel Dduw; ond fel y lleill o'r *Paganiaid* yn addoli amryw eraill, o Rag-Dduwiau; megis adar, ac anifeiliaid, fel yr *Aiphtiaid*; a'r haul a'r lloer fel yr *Aſſyriaid*; ac yn wir nid oes craig, maen, afon, na mor-graig, nad ynt yn aberthu iddunt; na hen bren nad ynt yn talu addoliad dwyfol iddo; fel yr edrychir arno yn fath o gyſſegr-ledrad i'w torri hwynt i lawr ar un achos pa bynnag; a'r goel-grefydd hon ſydd yn rhedeg mor belled ym mlith y bobl mwya gwybodus, fel nad oes un rheſwm a'u hennill hwynt i dorri lawr ryw hen bren mawr elwir *Balettee* arno; rhiſglyn pa un ſydd yn dda at glwyfau: a rhai hen *Gaenau* uchel mawrion hefyd, gan gredu fod eneidiau eu hên deidau hwynt yn aros yn y fath; a bod torri 'r coed hyn, neu'r *Caenau* hyn i lawr yn clwyfo eu hynafiaid. Maent hefyd fel yn *China* yn addoli eu teidau, a'u hen deidau; yr hyn ſy'n dangos mae o *China* a'r *India* y deſcynaſant. Nid oedd temlau gynt yn eu plith; ond yr oedd ganthunt ryw ogfeydd, ym mha rai goſodent y delwau, i ba rai yr oeddent yn aberthu, yr hyn oedd yn cael ei wneuthur trwy gyfryngdod eu hoffeiriaid i ryw forwyn weddus ifangc a gwaywffon ſyddai yn rhoi yr ergid cyntaf i'r anifail ag oedd i'w aberthu, yr hwn ar ol ei ladd, a dorrid yn ddarniau, a drinnid, ac a fwtteid mewn dull barchedig. Yr oeddent mor goel grefyddol, oes gellid credu Miſſionaries *Spain*, fel oes Sarph a ganfyddid ar eu dillad, na wiſgent o honunt byth mwy.

Eu. Pa fath oedd y rhai'n yn eu moeſau ac arferion eraill?

Ap. Nid oes dim yn hynod ag ellir ſon am dano, ond

ond o ddautu yr unwedd a chenhedloedd eraill. Trefn eu priodaſau oedd, i fod y mab yn talu ſwm o arian i dad y ferch, neu eu chyfneſaf; a'r briodas ſydd yn cael ei gweinidogaethu gan offeiriades. Maent eich dau yn rhwym i fwytta o'r un ddiſgl, yn arwydd occad eu bod i redeg yr un ryſg o ragluniaeth, ac i fwynhau yr un llawenydd, ac i ddiodde yr un cyſtudd; ac ar ol aberthu rhyw anifail, mae gwledd yn cael ei gwneuthur megis mewn gwledydd eraill. Maent yn priodi yn waſtad un o'u llwyth eu hunain; ac yn caniatau priodi yn yr ail gradd o berthynas: yſgariad ſydd yn cael ei ganiatau hefyd o bob ochr; ond ni chaniatair mwy nag un wraig yn eu plith, oni fyddir heb blant, ac yna gall gwr gymmeryd ei gaeth-forwyn i'w welu. Ond rhai cenhedloedd eraill o'r *India* ſydd yn caniatau dwy neu dair gwraig, a'r plant a enir o'r gyntaf ſydd yn cael gwaddol dau ddyblyg. Rhai hefyd o'r *Indiaid* yn yr ynyſoedd hyn, nid oes ganthunt un Seremoni arall ragor na chyſylltu dwylo o flaen eu perthynaſau, a'u ffryns. Ond am y rhan hynny o'r ynyſoedd hyn ſydd yn *Fahometanaidd*, maent yn caniatau amryw wragedd, fel y lleill o'r gwledydd *Mahometanaidd*; a'r fam fydd ymma yn enwi 'r plant; ar enwau hyn a gymmerir gan mwyaf oddiwrth ryw amgylchiad ar eu genedigaeth; megis *Malivac*, yr hyn ſydd yn arwyddoccau *anhawdd*, o ran bod yn anhawdd eſgor ar y cyfryw, neu *Malacca*'s, hynny yw, cryf, o ran fod y plentyn yn ymddangos felly ar ei enedigaeth: ac wrth yr enw hwn y gelwir hwynt nes priodont, ac yna 'r mab neu 'r ferch gyntaf a nydd enw i'w rieni; megis *amani Malivag*, neu *immani Malacca*'s; ſel tâd *Malivag*, neu mam *Malaccas*. Ond i ddiweddu, yr holl ynŷſoedd ſydd yn perthyn i'r *Philipine*, ſydd a'u hên drigolion fyth yn *Baganaidd*, megis hefyd yn-

ŷſoedd

ŷſoedd *Cebeles* neu *Macaſſar* (a), *Moluccas* (b), *Amboya*,

NODAU.

(a) Ynŷs *Cebeles*, yr hon ſydd tan Linin y Cyhŷdedd, yn 500 o filldiroedd ei hŷd, ac yn 200 ei llêd; nid yw hon yn dŵyn dim *Spice*, ond pubur; ond y mae hi yn dwyn *Opium* gyflawnder mawr, ac nid oes un man yn y byd a mwy o wenwyn ynddo: Mae'r gwaſtadedd wedi ei lanw gid a choed *Cotton*, ac oddiymma yr ydys yn cael y *Cotton* gorau yn y byd; ond o bob planhigion, y gorau maent hwy yn ei garu yw *Opium*; pren o gangen pa un y rhed allan *Sûdd* cyffelyb i wîn y *Balmwydden*, yr hwn wedi ei gae i ſynu yn glos mewn crochan, ſydd yn tewychu ſel y gallent ei wneud yn *Bills*; ac yn fynych y rhont un o'r pills ymma mewn dwfr, ac wedi iddo doddi yno o hono ei hun, tywalltant ef ar eu *Tobacco*, a rhai ſydd arferol o'i gymmeryd ef ni's gallant ond prin fyth ei adael; maent yn cael eu lwlan ganddo megis i ryw freuddwyd melus, ac y mae ef yn eu dottio ſel diod gadarn: ond y mae ef yn ddiarwybod yn diſa eu hyſbrydoedd, ac yn byrrhau eu heinios. Maent yn cymmeryd cymmaint a dau gloppa pinn mewn pibaid o *Ddobacco* cyn mynd i frwydr, yr hyn bron a'u gwna hwynt yn anheimladwy o bob clwyfau a pherigl hyd oni's bo yr effaith o hono wedi darfod. Mae trigolion yr ynŷs hon yn hynod iawn am y gwenwyn cymyſgedig, a wnant o'r llyſiau ar Gwmau gwenwynig, y mae 'r wlad yn ei ddwyn; cyffwrdd neu aroglu pa un ſydd yn angau preſenol: maent yn trochi blaen eu gwaywffyn a'u picellau yn y gwenwyn marwol hyn, ſel y gwnant hefyd a'u ſaethau, y rhai y maent yn chwythu trwy brennau ceu; ac er ſod y ſaethau wedi cael eu gwenwyno er 's ugain mlynedd meddant, nid yw grym y gwenwyn wedi darfod, ond y clwyf lleiaf a wnelont ſydd yn farwol, ac mor ddiſymmwyth y mae'r gwenwyn hyn yn gweithio, ac yn gafaelu yn mywyd y dyn, ſel y dwedir wrthym am un wedi ſwrw i farw, yr hwn er mwyn cael prawf o rym y gwenwyn, a

glwy-

NODAU.

glwyfŵyd yn mŷs bawd ei droed, ag un o'r saethau hyn, ac iddo farw er fod dau feddig o *Europ* yn barod wrth ei glŷn i dorri ymmaith yn union yr aelod a glwyfwyd; ac y mae rhai o'r planhigion hyn mor gyffelyb i blanhigion *Opium*, ag na's gellir yn hawdd i wahaniaethu y naill oddiwrth y llall; er fod gan yr anifeiliaid y fath inſtinct naturiol na's cwrddant fyth a llyseuyn gwenwynig, ac oes digwydd iddynt sengu ar un meddant, ffoant yn union fel pe baent yn gwybod yn well na dŷn y perigl o agosau atto. Mae yn yr ynŷs hon y fath liaws aneirif o *Fwnciod* mawrion, fel dwedir fod yn beryglus i drafaelwr i ymdeithio ar hyd ddi; ac y mae'n rhaid i ddyn fod yn arfog iawn i amddeffyn ei hun yn eu herbyn: Rhai o honunt sydd heb un gynffon, rhai a chynffonau hirion iawn ganthunt, rhai sydd yn cerdded ar bedair troed, a rhai ar ddwy yn unionn i'r lan fel dyn, heb arferyd eu traed blaen fyth ond fel dwylo. Y rhai gwynion sydd gymmaint a gwaedci, ac lawer yn fwy peryglus na rhai duon, neu'r melynon; ond eu llidawgrwydd mwyaf meddant sydd yn erbyn menywaid, ac oes cwrddant ag un wrthi ei hunan, hwy alwant ynghyd ar eu cyfeillion ac oes na rwyftrir hwynt, tynnant hi oddiwrth ei gilydd yn fil o ddarnau. Y *Mwnciod* hyn ydynt yn byw ar y gelltydd a'r creigydd, a thrwy gadw gyda eu gilydd yn dorfeydd, sydd ry galed i un bwyftfil gwyllt, Seirph yn unig sydd arnont eu hofn, ac sydd yn wastad yn rhysela i'w herbyn, ac yn eu canlyn weithiau i bennau coed i'w difetha. — Mae y rhieni ymma yn gwneud priodas eu plant yn ei babandod, weithiau mor gynted ag y genir hwynt i'r bŷd; a phan y bo'r mab ifangc wedi cyrraedd i un neu ddwy ar bymtheg oed, ac wedi dysgu yr hyn sŷdd arferol i'w ddysgu; sef marchogaeth, tynnu bwa, saethu 'r *Ffusee*, sef math o fwsget, chwareu 'r cleddyf crwcca, saethu trwy geudod y pren *Ebony*, neu ryw bren o'i fath, pan y dysgo'r pethau hyn meddaf, yr ydŷs yn caniatau iddo gadw cyfeillach a'i gariad, ac i briodi yn fuan ar ol hyn. Mae'r saethau enwais uchod trwy 'r pren

Ebony,

boya (c), *Banda* (d), *Gilalo* (e), ac aneirif o rai eraill rhy ſath i'w henwi.

Eu.

NODAU.

Ebony, a dant pyſgodyn ar eu blaenion, yr hwn ſydd yn cael ei drochi mewn gwenwyn, ac a hwn meddant yr hittiant nod bychan 80 llathen oddiwrthynt.

(b) Ynŷſoedd y *Banda*, *y Moluccas*, ac *Amboya*, elwir ynŷſoedd y peraroglau. — Y *Moluccas* ydynt amryw o ynŷſoedd, oll naill a than, neu yn agos at Linin y Cyhydedd; nid oes ymma yn tyfu nag ŷd na *Rice*, ond y bara maent yn ei wneud o *Sago*, bywyn pren wedi ei wneud yn fara, ac er bod *Cloves* yno yn tyfu gynt, ſe diwreiddiwyd hwynt gan y *Dutſh* yn awr, rhag i genhedloedd eraill i'w meddiannu hwynt, mae'r pren *Clove* yn gyffelyb i bren *Bays*, mae'r ffrwythau yn tyfu fel ſwppiau grawn ar flaenion y canghenau, mae'r noppyn yn wynn, yna troi yn wŷrdd, yna yn goch; a phan y bont yn addfed yn llŵyd, yna craſant hwynt yn yr haul nes bont yn ddû.

(c) *Amboya* ynŷs rhwng y *Banda* ar *Moluccas* ydyw, mae yn hon gan y *Dutſh* geſtyll, yn cael eu hamddiffyn a 700 neu 800 o wyr, er mwyn cadw plantaſiwnau'r *Cloves*; mae'r ynŷs hon yn 70 milldir ei chwmpas; y cyſoeth mwyaf ymma yw 'r *Cloves*, yr rhai ni chaniatair iddunt dyfu nawr yn un ynŷs arall, am i'r *Dutſh* eu diwreiddio hwynt yn y *Moluccas*; ond y mae ymma *Oranges*, *Lemons*, *Sugar*, *Canes*, *Cnau Cocoas*, a'r cyſryw, ſe edrychir ar ynŷs hon fel y llywodraeth bennaf gan y *Dutſh*, yn yr *India* yn neſſa at *Batavia*.

(d) Y *Banda* ynt amrywiol iawn o ynŷſoedd, oll o ddautu 120 milldir i Linin y Cyhydedd, megis *Banda*, *Pooloway*, *Pooloroon*, *Nero*, *Roſining*, *Gonapi*, ac amrywiol iawn eraill, rhai o ba rai ydynt *Baradwys ddaearol*; lle mae Nutmegs, a ffrwythau peraidd eraill yn tyfu, ond yr amrywiol ogfeydd tanllyd ſydd yn gwneud daear-grynfau yn fynych iawn yn yr ynŷſoedd yma yn ofnadwy; nid oes braint flwyddyn nad oes rhyw

ddrygau

Eu. Nid wyf fi ddigon o haneſiwr i ofyn pa Wlad ſydd neſſaf mewn eulunaddoliaeth; ond mi gaf ddeiſyf arnoch

NODAU.

ddrygau yn cael eu gwneud ganthunt ymma, yr hyn ſy'n lleihau llawer ar y pleſerau gai'r *Dutſh* yn y *Baradwys ddaearol* hon.

(c) *Gilalo, Ceram, Bonro, Bonten*, y rhai ydynt fwy o hyd nag ynŷſoedd y Peraroglau, ond nid oes ymma ddim hynod i ſon am dano, ond holl ynŷſoedd y Peraroglau fel y dwedais ynt amrywiol iawn, y trigolion cynta mae'n debig oedd y *Chineſe*, ac mae gan yr hên drigolion hyn lawer o'u harferion a'u moeſau hyd heddyw. Mae *Europ* er's rhagor na dwyfil o flynyddau wedi mwynhau eu Peraroglau mwya hyfryd oddiyno, er nad oes dim dau cant a hanner o flynyddau er pan daethant i wybod pa le yr oedd yr ynŷſoedd lle yr oeddent yn tyfu. Y *Perſiaid*, yr *Arabiaid*, ar *Aipht-iaid*, oedd yn arferu eu dwyn hwynt i aberoedd y *Mor Canoldir*, ac yno yr oedd trigolion *Venice*, *Genoa*, a *Catala*, yn dyfod i brynu Peraroglau, a ſidanau yr *India*, y rhai yr oeddent yn eu tannu tros holl *Europ* gyda'r elw mwya direſwm. Y *Mwriaid* ſef *Mahometaniaid Arabia* a'r gwledydd oddiamgylch tuag at gael yr holl drading hyn iddunt ei hunain, a lledanu eu crefydd yn y Dwyrain, a anfonaſant amryw bobl i'r ynŷſoedd hyn, ac a yrraſant yr hên drigolion i'r mynyddau, a'r creigydd anorchfygol, gan gyfaneddu ei hunain ar hyd lan y mor; ac mewn amſer daethant fel hyn i fod yn grŷf ddigon i ymlid ymmaith yr hên drigolion, gan eu cymmell hwynt i gofleidio eu crefydd hwy, a daroſtwng i'w llywodraeth. Tan llywodraeth y *Mwriaid*, yr *Arabiaid*, a'r *Mahometaniaid*, hyn yr oedd y rhan fwya o ynŷſoedd y Dwyrain pan y darfu i'r *Portugueſe* gyntaf gael ffordd i'r *India* heibio 'r *Cape of Good Hope:* Ac nid heb drafferth anfeidrol, ac amyneddy cafwyd y ffordd hon allan; yr annogaeth fwya i hyn oedd y gobaith i fod yn Arglwyddi ar Beraroglau a thryſorau cyfoethog eraill y Dwyrain; nid oedd na gwaith

arnoch i fyned rhagoch, od oes gennych ryw beth etto am y *Greſydd Baganaidd*, gwahanol oddiwrth yr hyn a glywais o'r blaen?

Ap. Holl *China** yr hon ſydd neſaf o du'r Dwyrain i *Siam* ſydd yn gyfan *Baganaidd*; ond mewn un peth y maent yn rhagori ar Genhedloedd eraill.

Nodau.

gwaith na pherigl yn cael ei gyfrif yn rhŷ fawr at feddu y fath dryſorau a rhai'n, wrth feddwl y fath gyfoeth mawr a gaſglodd rhai ynŷſoedd o'r *Mor Canoldir* yn unig wrth eu dwyn o *Cairo* ac *Alexandria*.

* Ymerodraeth *China* ſydd yn awr yn un a *Thartary Fawr*, ac yn gwneud un ymerodraeth ehang i'w rhyfeddu, yn cynnwys holl du'r Dwyrain i *Aſia*; o ddautu dwy fil o filltiroedd un ffordd, ac un cant ar bymtheg y ffordd arall; ei gid yn 16 o ardaloedd, a phôb un o rhai'n cymmaint a Theyrnas helaeth yn *Europ*, oll tan lywodraeth yr un ymerawdwr. Mae yno amryw o afonydd mawrion iawn yn dwyn badau a llongau yn aneirif; ac er mwyn dwyn meddiannau yn fwy cyfleus o un wlad i'r llall, mae'r hên drigolion wedi gwneud ymma amryw iawn o ganeli o un afon i'r llall, i ddwyn lleſtri mawrion iawn; ac wedi torri y rhai'n yn ddwfn, yn llydan, ac yn helaeth, trwy'r tir ſŷch, rai o honynt fil o filltiroedd eu hŷd, ac wedi adeiliadu muriau o gerrig nâd o bobtu iddunt, ac pan na bo gwynt i'r badau i hwylio, bŷdd nifer fawr o ddynion ar hyd y muriau cerrig hyn yn eu lluſgô: a'r badau hyn ſydd amryw o honunt gymmaint a llongau, etto luſgir gan ychydig ddwylo; ac nid llai na deng mîl o'r lleſtri hyn ſydd yn ardaloedd Deheu *China*; eu gid at waſanaeth y llywodraeth: Ac nid oes braidd ddinas, na phentref, trwy'r holl ymerodraeth, yn enwedig ardaloedd y Deheu, nad yw yn meddu naill ag afon, llyn, canal, neu fraich o'r Môr i ddwyn llongau i mewn, fel y mae cymmaint agos o bobl ar y dwſr ac ſydd ar y tir. Pa le benna byddo tref ar lan y mor, mae un arall o fadau ar y dwſr, ac y mae llawer o bobl yn cael eu geni, yn byw ac yn marw ar y dwſr,

Eu. Pa fath yw eu Duwiau?

Ap. Maent yn credu mewn goruchel Dduw Creawdwr Nêf a Daear; ond y mae ganthunt amryw Rag-Dduwiau,

---

Nodau.

ac yn magu moch pwltris, cwn, a chreaduriaid dofion eraill ar y llongau, heb fyth ddyfod i dir; ar hyd yr afonydd ar caneli hyn yr ydys hefyd yn dwyn rhifedi aneirif o floatau, neu nofiadau o goed, yn waſtad yn myned i fynu ac yn dyfod i wared, ac yn dwyn arnunt Luoedd mawrion o bobl: mae Ffleet o rhai'n rai prydiau gymmaint ag ſydd yn cyrrhaedd filltir o ffordd, ac ar ba rai y maent yn adeiliadu bythod, ac yn byw ynddynt nes bont wedi gwerthu'r coed y rhai maent yn eu dwyn weithiau fil o filltiroedd gyda'r dwfr; ac fel hyn mae pob rhan o'r ymerodraeth hon, a chymyndeb rhyngddi a'i gilydd, yr hyn ſydd yn fawnteiſiol iawn i drading: tros y caneli hyn mae pontydd arddderchog, o dri, pymp, ac weithiau ſaith o fwaau, a'r bwa canol cuwch ag y gall badau fyned tano, heb dynnu lawr eu maſtiau. Yr arches neu'r bwaau hyn ſydd oll wedi eu hadeiliadu o marble, neu gerrig o'r cyffelyb, a phrin y gall golwg fod yn fwy hyfryd na chynnifer o ganeli ffein wedi eu haddurno a phontydd ardderchog, a rhifedi aneirif o dreſydd, a phentrefydd, ar hyd ei glan, a lliaws o leſtri yn hwylio ol ac wrthol ar eu hŷd, trwy'r dyffrynoedd mwya hyfryd: ni fedd *Europ* ddim i ymffroſtio yn gymmar i hyn. Lle bo'r dwfr yn fwy rhedegog yn y caneli hyn, mae mwy o ddwylo yno yn barod i dynnu'r badau yn erbyn y ffrŵd: un rhyfeddod mawr yn y wlad hon yw y mur mawr rhwng *China* a *Thartary* yr hon wrth ei meſur yn ei holl droiadau ſydd meddant yn bymtheg cant o filltiroedd ei hŷd, mae hi gan mwyaf wedi ei hadeiliadu o *Bricks* a *Mortar* wedi ei dymeru cyſtal, fel mae hi nawr wedi ſefyll daunaw cant mlynedd heb fod nemawr iawn waeth; fe a'i hadeiliadwyd ar y cyntaf i gadw allan y *Tartarioid* rhag dyfod tros y wlad; fe ddwedir ei bod hi 30 troedfedd o uwchder, ac yn

ddigon

Dduwiau, y rhai ſydd yn ymddangos eu bod yn ddynion hynod iawn yn eu hamrywiol oeſoedd; megis de-

NODAU.

ddigon llydan i bump gŵr un yn ochr y llall i farchogaeth ar hyd ei phen hi, ſef yw hynny o ddautu 15 troedfed ei thrŵch, mae amryw dyrrau ar hyd y mûr hwn o ddautu milltir un oddiwrth y llall, a chynt nid llai na mil o filoedd o ſawdwyr fu fel guard yn gwilio arni, rhag y *Tartariaid* ddyfod troſodd; ond yn awr nid oes ond gwylfa o filwyr ar y mannau gwanna arni. Y ddinas fwyaf yn *China* yw *Pecin*, yr hon hefyd yw y fwyaf yn y Bŷd: — Can's er pan daeth y *Tartariaid* i mewn, a goſod ymerawdwr o'u heiddo eu hunain, adeiliadwyd dinas newydd yn ochr yr hên, fel y mae'r *Tartariaid* yn un, a'r *Chineſe* yn y llall, ar ddwy ſydd yn awr o ddautu ugain milltir o gwmpas: o ddautu pedwar cymmaint a *Paris* yn *Ffrainc*; mae'r heolydd mwyaf o ddautu chwech ugain troedfedd o led, a thros dair milltir o hŷd; mae murriau'r ddinas yn bump llath ar hugain o uwchder, ac yn cuddio'r holl ddinas; ac o'r trwch y gall amryw farchogaeth ochr yn ochr ar hyd ei phen; mae Palas yr ymerawdwr yn ddwy filldir ei hyd, ac yn un o led; a mûr mawr o ddautu iddo; ond o fewn y fath le ehang, deallwch fod gerddi, ac amryw deiau, a ſafelloedd y ſwyddogion, ac aneirif o greftwyr ag ſydd yn gweithio i'r ymerawdwr. Mae yn *China* aneirif o ddinaſoedd, trefydd, a phentrefydd, fel pan air allan o un, buan y cyfarfyddir a'r llall. Ac fe ddywed y *Iſuits* fod yn *China*, 155 o brif ddinaſoedd, 1312 o ail radd o ddinaſoedd, a 2357 o drefydd muriog, deng mil o filoedd o deuluoedd, a hanner can mil o filoedd o bobl. Sef yw hynny wyth dyn o leiaf am bob un ſydd yn *Ngbymru* a *Lloegr*. Mae yn yr ymerodraeth hon o ddautu pump mil o filoedd o wyr tan arfau, megis *Militia* yn barod wrth alw pan y ſo achos am danynt. Yn y wlad hon y mae'r pren *Tea* (hanner bywyd myrdd o fenywaid yn *Ngbymru* a *Lloegr*) ac ym mha

un

feiſwyr celfyddydau a'r cyffelyb: maent heſyd yn addoli pethau heb fywyd, megis mynŷddau, coedydd, afonydd,

---

NODAU.

un y mae digon i ddigoni yr holl fyd, onid a anifeiliaid i maes i moſyn am *Dea* heſyd, ac oes dugir ef, a'i blannu mewn un gwlad arall, fe dderfydd am dano; ac fe ddywed rhai mae ar yr un pren y tyf y *Green* a'r *Bohea*, ond eu bod yn cael eu caſglu mewn amrywiol amſerau, ac mewn amrywiol ffŷrdd yn cael eu ſychu; ſef un wrth wres yr haul, a'r llall wrth y tân, y cyntaf yw'r *Bohea*, yr hwn ſydd yn cael yr enw oddiwrth rai mynŷddau yn ardal *Focien* yn *China*, yr hwn yw y dail cyntaf a dynnir oddiarno, yn mîs *Mawrth*; ac a ſychir yn nghyſgod yr haul: y *Bing Tea* yw yr ail grop a dynnir oddiarno yn mîs *Ebrill*; a'r *Green Tea* yw yr olaf, a dynnir oddiarno yn mîs *Mai* a *Mihefin*; ar ddau olaf hyn ydys yn ei graſu mewn pedyll uwch ben tân. Ond am fod cymmaint o arferyd ar y llyſeuyn rhyfedd hwn yn ein gwlad ein hunain ſel na's gall nemawr fod hebddo, mi rof i'r *Cymru* hanes mwy neillduol o'i ddyfodiad i'r ynŷs hon, a'r elw mawr ſydd i'r llywodraeth oddiwrtho, o ran na's gŵyr amryw rai ag ſydd yn ei yfed lai nad yn Sîr *Henffordd*, neu Sîr *Fflint* mae yn tyfu. Ond deallwch, mae Arglwydd *Arlington* ac Arglwydd ———*ry* oedd y rhai ddaeth a *Thea* gynta ymma o *Holand* yn y flwŷddyn 1666; eu Harglwyddeſi hwynt, y prŷd hynny a gwympodd mewn anrhaethawl gariad iddo, ſel peth newydd; y prîs oeddid yn ei brynu ef y prŷd hynny yn *Holand* oedd tair punt y pŵys, neu bound, er fod y *Dutſh* yn ei brynu ef yn *Bataſia*, yn *China*, am bump Swllt y pŵys; a'r prîs hyn y parhawd ei werthu ef ddeugain mlynedd eilwaith: ond nid oedd ond y rhai mawrion yn unig yn yfed o hono yr amſer hyn, a phe buaſai y pleſer hwn yn unig yn perthyn i'r pendefigeſau uchaf radd a'r Arglwyddeſau nid coiled mawr a fuaſai i ni'r dydd hwn, ond o ddautu trigain mlynedd i nawr, neu beth ragor, ſe ddaeth i fod yn fwy cyffredin;

afonydd, a'r fath; ond y mae tair Sect o bobl yn *China* y dyddiau hyn.

NODAU.

redin; ond ni ddaeth o'r *Green Tea* trofodd hyd y flwŷddyn 1715; y *Bohea* yn unig oedd ymma o'r blaen; o ddautu flwŷddyn 1720 daeth y *Ffrenſh* a llawer iawn o *Dea* i *Ffrainc* o *China*; a thrwy oſod i fynu y drading o'i redeg ef i'r ynys hon, a ddaethant i ennill elw mawr trwy ein ynfŷdrwydd ni. O'r flwŷddyn 1717, i'r flwŷddyn 1726 yr oedd yn dyfod ymma trwy dalu *Exciſe* faith gan mîl o bwyſau, a'r hyn oeddid yn ei redeg oedd lawer iawn, o boſſibl bron cymmaint arall; can's dwedir yn y flwŷddyn 1728 fod yn dyfod i *Europ* o *China*, bump mîl o filoedd o bwyſi, o ba fwm *Lloegr* oedd yn difa fwya; ſe gynyddodd fwy fwy i ddyfod i mewn ymma, nes yn y flwŷddyn 1732 a 1742 i ddeuddêg cant o filoedd o bwyſau o hono i ddyfod i *Lundain* ei hun, heb law aberoedd eraill, ac yna ſe gynŷddodd, nes i dair mîl o filoedd ddyfod yno yn y flwŷddyn 1750 ac yn y flwŷddyn 1755 ſe dalwyd *Duties* ar agos i bedair mîl o filoedd o bwyſau heb yr hyn a ddaeth o *Ffrainc* trwy redeg; ac yn awr y rhifedi ſydd lawr iawn fwy, fel y mae'n dyfod ragor yn flynŷddawl i ynŷs *Britain* o werth arian na'r dreth fawr pan y bo hi am 2 s. y bunt ynghŷd ag *Exciſe y Brâg*, a'r *Cwrw*, pa le y faif hyn, nid oes neb a ŵyr — Yn yr ymerodraeth ehang hon hefyd, mae y *Pren gwêr*, cniwllyn pa un ſydd a holl rinweddau Gwêr, mewn arogl, lliw, a ſylwedd; ac y maent yn gwneud eu canhwyllau o hono. Y wlad hon ſydd yn gyfoethog iawn o raian aur, fwy nag un wlad arall, yr hwn y maent yn gaſglu o'r afonydd. Eu marſiandaeth yw *Sidan*, *Cotton*, *China Ware*, *Cabinettau*, a phob ryw bethau wedi marneiſio. Mae rhenti 'r ymerawdwr ymma yn myned i ugain mîl o filoedd o bynnau yn y flwŷddyn. Fel y mae *China* ran o honi yn agos i'r Haul, rhan ymhellach mae peth o honi yn wreſog iawn, a pheth yn oer; ac felly

lliw'r

Eu. Ewch rhagoch, yr wyf yn meddwl eich bod yn mynegu am bethau newyddion yn y *Grefydd Baganaidd.*

Ap.

Nodau

lliw'r bobl nefaf at yr Haul fydd rûdd, ond y bobl tua'r Gogledd ynt wynion, fel trigolion *Europ.* Cyn i'r *Tartariaid* oreſgyn y wlad, ac i'r Emerawdwr fod o'r genedl honno, yr oedd holl drigolion *China* yn gwiſgo eu gwalltau yn un bwndel mawr ar eu pennau, wedi ei rwymo i fynu ar y coryn; ond yn awr maent yn gorfod ei eillio, yn unig gadael un cydyn ar y coryn: nid ynt fyth yn aſtudio un iaith ond eu heiddo ei hunain; ei ſcrifen yw math o caracterau byrrion am bob Gair, neu Sentence; ni fedrant Lythrenau, ac y mae tros ugain mîl o'r caracterau hyn; ac nid yw eu gwyr mwya dyſgedig ond prin bod yn feiſtri arnunt oll; ond nid yw y rhai ſydd o ddefnydd cyffredin tros dair mil, y rhai ydŷs un ei deall ymhob rhan o'r ymerodraeth. Nid oes ymma ddim o'r fath beth a bod Confent, neu gyd ſyniad o bob ochr yn *China* fel yn *Europ* rhwng y rhai a fo i briodi: nid yw y partion fyth yn gwel'd eu gilydd ne's bo'r fargen wedi ei tharo ynghŷd gan y rhieni, a hynny yn gyffredin pan y bont yn berffaith blant; ac nid ydŷs fyth yn gofyn cŷdſyniad y ferch ar ol llaw. Gellir cyfrif y merched yn hawdd yn rhan o dryſorau neu feddiannau eu rhieni, am fod yn rhaid hŷd yn oed i'r dŷn tlotta i brynu ei wraig; ac nid oes diſgwyl dim gwaddol iw roi gyda hi. Yn nefa at fod yn amhlantadwy, gwradwydd mwyaf yw dwyn benywaid i'r bŷd; ac oes digwydd i wraig ddwyn tair neu bedair o ferched, un yn ol y llall, heb un bachgen, hi fydd barod o'u dihenyddu hwynt ryw ffordd neu gilydd; naill a'u llindagu, neu eu taflu allan i'w diſetha, a phrŷd bennaf y bo y rheini yn digwydd i fod yn dlawd, ac aflwyddianus, hwy edrychant arno meddant, fel gweithred o drugaredd i'w gwared allan o'r fath fywyd poenus. Nid ydŷs fyth yn claddu un corph marw o fewn mûriau eu dinaſoedd; ac ni's

goddefir

Ap. Y gyntaf yw canlynwyr *Lilaocum*; yr hwn oedd yn byw meddant hwy 500 o flynŷddau o flaen ein *Iachawdwr CRIST*. Fe ddyſgodd fod Duw yn gorphorol, a bod amryw o Rag-Dduwiau tan ei lywodraeth ef; mae ei ddyſcyblion ef yn dyſgu *Magic*, ſef y gelfyddydd o dweud pethau i ddyfod, trwy gyfeillachu a'r yſbryd drwg, ac yn cymmeryd arnunt wneud y ddiod ſydd yn rhoi anfarwoldeb. Yr ail yw Sect y dyſgedigion, y rhai yw diſcyblion y *Confſufius* hwnnw a fu mor hynod yn ei oes; yr hwn adewodd ar ei ol amrywiol o orch'mynion o foeſoldeb, ac a ddyſgodd y bobl mewn *Philoſophy*. Yr oedd ef yn llefaru am Dduw ſel yr Egwyddor mwya pûr, a pherffaith ffynnon a ſylwedd pob bod; ac er y dwedir i ni iddo wahardd eulunaddoliad, mae gantho demlau a delwau wedi eu hadeiliadu iddo, ag ſydd yn cael eu haddoli gyda'r parch pennaf.

Eu. Pa fath yw y drydedd Sect?

Ap. Y mae y drydedd Sect yn fwy lluoſog nag un o'r lleill; y rhai ſydd yn addoli y Ddelw fawr *Fo*; yr hon maent hwy yn ei galw yn unig Dduw'r Bŷd. Y Ddelw hon a ddygwyd o'r *India* o ddautu 32 o flynŷddau ar ol marwolaeth ein Iachawdwr CRIST. Y mae eu hoffeiriaid hi y rhai elwir *Bonſes* arnunt, yn dyſgu amryw orch'mynion moeſol; a bod cyflwr o wobr a choſbedigaeth ar ol y bywyd hwn, maent heſyd yn

---

Nodau.

goddefir i un corph marw i gael ei ddwyn i un dref, oes bydd y dyn byw yn y wlâd: Mynŷddau a lleoedd anial ymhell oddiwrth y dref fydd y pendefigion yn ddewis i adeiliadu eu beddau ynddo; a rhai o'r adeiliadau hyn meddir, fydd agos mor ardderchog a brenhinllys; oes bedd fydd wedi ei adeiliadu ar waſtadedd ſe godir crŷg o ddaear arno megis mynŷdd.

yn peri i'w canlynwyr i gredu nad yw gyfreithlon i ladd un creadur byw, nag i yfed gwin; ac nid ynt yn anghofio eu dyfgu hwynt pa faint yw eu dyledfwydd cyftal a'u mawntais i feithryn a gofalu am eu hoffeiriaid; ac adeiliadu iddunt demlau, a monachlogydd, ac i gyflawnu 'r penydau y maent yn ofod arnunt.

Eu. Ond pa ddial wneir iddunt o's na wnant y pethau hyn?

Ap. O's efceulufant yr un o rhai'n maent yn eu bygwth a'r poenau mwyaf ar ol marwolaeth; neu bydd eu heneidiau hwynt orfod myned i gyfaneddu i ryw bryf neu anifail baich; ac nid yw yr offeiriaid hyn yn gofod allan i'w dyfcŷblion yn unig pa fath ryw o gŷrph ag fydd yn eu bodloni ar ol marwolaeth, ond yn cymmeryd arnynt wybod eu perfon neilltuol, neu'r creadur hwnnw ag bydd enaid pob un yn myned iddo; ac fe ddywed un haneftwr am un o'r tywyfogion o'r gwaed breiniol, yr hwn a gollodd gyfaill, yr hwn oedd yn annwyl iawn gantho, enaid pa un meddant hwy a gyfaneddodd mewn corph bachgenyn o hiliogaeth *Tartary*; yr hwn am fwm o arian a fynnafant iddo, gan ei brefentio i'r tywyfog, yr hyn a roddodd iddo lawer o fodlonrwydd.

Eu. Pa fath fywyd mae'r offeiriaid hyn yn ei arwain?

Ap. Mae ganthynt lawer iawn o bethau elwir yn fanctteiddrwydd, megis gwneud rhyw boenau arnunt eu hunain, a'u diodde, ac fe ddwedir fod y penyd o eiddo 'r offeiriaid o'r fath werthfawrogrwydd, fel y tebygir eu bod hwy yn ddigonol i eiriol tros bechodau'r bobl; ac y mae pob offeiriad yn cymmeryd arno fod gantho awdurdod i gymhwyfo eu haeddiant i'r fawl a fynno; ond yn waftadol i rhei'ny ag y fo fwya haelionus iddo.

Eu. Ond enwch rai o'u penydau hwynt, neu y poenau

poenau hynny y maent yn roi arnunt eu hunain?

Ap. Weithiau hwy lyſgant gadwyni trymmion o haiarn ar eu hol trwy'r heolydd, wedi eu rhwymo wrth eu harddyrnau, a'u coeſau, gan guro eu pennau yn erbyn y cerrig nes bont yn waed, er mwyn beggian arian oddiwrth y bobl; ac ſe ddwedir wrthym, am un yr hwn a ſynnodd eu ddwyn oddiamgylch mewn cadair, a hoelion wedi ei goſod ynddi o bob ochr, fel na's gallaſai ſyflyd ffordd hyn na ffordd arall, heb glwyfo ei hun; a hyn oll er daioni i'w heneidiau hwynt; a'r bobl oedd yn fodlon i'w pwrcaſſu hwynt, am chwech ceiniog yr hoel, tuag at wared yr offeiriad ſanctaidd hwn o'i boenau, gan gredu byddai bob hoel o'r rhei'ny i ddyfod a bendith anrhaethol ar genedl yr hwn a'i pwrcaſau hi.

Eu. At ba beth yr oedd yr arian hyn yn myned?

Ap. Yr oeddent yn myned at adeiliadu Teml i'r Duw *Fo*; ac nid oedd yr offeiriad hwnnw yn cymmeryd ei fod ef ei hun yn mwynhau dim o'i ffrwythau.

Eu. O bwy nifer, ac o ba lun mae y delwau ſydd ganthynt yn eu temlau?

Ap. Mae ganthynt dair yn bennaf ſef yn 1. Delw anfarwoldeb, yr hon y maent yn ei haddoli mewn llûn anghenfil o ddyn tew mawr, yn eiſtedd a'i goeſau yn groes i'w gilydd; a bola mawr cwmpaſog. Y llall elwir Delw pleſer, o ddautu 20 troedfedd ei huwchder, a rhwng y ddwy hyn yn eu temlau, mae un arall 30 troedfedd ei huwchder, wedi goreuro troſti, a choron ar ei phen, ac wedi ei gwiſgo oll yn ardderchog, hon a alwant y brenhin mawr *Kang*, i ba un y maent yn rhoi rhyfeddol barch.

Eu. A dim rhagor o ddelwau na hyn ſydd ganthynt?

Ap.

Ap. Mân ddelwau ſydd ganthynt yn aneirif; ſe gair eu gweled yn eu teiau, ar hyd eu ſtrydoedd, ac yn eu llongau cyſtal ag yn eu temlau; can's nid oes un gŵr heb ei *Ios*, neu Dduw ei Deulu; y rhai maent rai prydiau yn arferyd cynddrwg a hwynt, ag y mae'r *Portugueſe* a *St. Anthony*; can's oes gweddiant yn daer arnunt hir amſer, heb weled effeithiau eu gweddiau, hwy wradwyddant y Duw pren ymma, am iddo eu heſgeuluſo hwynt, gan ei lyſgo ef trwy yr holl domheni drewllyd yn yr heolydd, i ddyſgu iddo well ymddugiad. Ond oes digwydd iddynt yn y cyfamſer i gael yr hyn oeddent yn ei ymoſyn hwy a'u dygant ef i'w le drachefn, gan ymddaroſtwng i lawr o'i flaen ef a'i addoli, a dymuno arno baſſo heibio i'r fath anfri gwradwyddus a gafodd ef ganthynt. Yna hwy a'u paintiant ef o newydd, gan olchi a gildio 'r ploccyn pren, fel y byddo iddo fed yn gymmwynaſgar ar ol llaw. Dymma i chwi ddelwau aneirif drigolion y wlâd fawr *China*. Ond deallwch hefyd eu bod hwy yn addoli'r haul, y lloer, y ſer, eneidiau eu hynafiaid, ac eneidiau y rhei'ny a fu awdwyr o un ddyfais hynod; mynŷddau hefyd ac afonydd maent yn eu haddoli, ond yr Emerawdwr ei hun yr hwn ſydd o hiliogaeth yn *Dartar*, ſydd yn dilyn eulunaddoliaeth ei genedl ei hun.

Eu. Pa fath yw honno attolwg?

Ap. Nid yw yn gwahaniaethu llawer cddiwrth Grefydd y *Chineſe*, yn unig eu bod yn addoli dyn byw, yr hwn alwant arno *Lama*, ac fe ddywed rhai mae yr un yw a'r ddelw *Fo*; ond ei fod yn cael ei addoli mewn dull bywiol, a theimladwy; maent yn rhoi iddo yr enw o Dâd tragwyddol; ac y mae holl *Dartary* ddwyreinol yn talu yr anrhydedd mwyaf iddo.

Eu. Ymhalaethwch ronyn pa ddull y mae'r dŷn byw ymma yn cael ei addoli?

Ap.

Ap. Mae ef yn cael ei ddangos o fewn ei balas, mewn lle tywyll, wedi cael eu oleuo yn unig a Lampau, mae ef yn eiſtedd a'i goeſau yn groes i'w gilydd, ar glyſtog wedi ei godi ryw ychydig oddiwrth y llawr, wedi ei wiſgo mewn gwiſgoedd ardderchoccaf; a phawb ſydd yn agoſau atto ſydd yn cwympo lawr ar eu hwynebau ar y ddaear, gan guſanu ei draed ef gydag eitha goſtyngeiddrwydd, ac fel y gellir meddwl ei fod ef yn anfarwol, fe ddewis ei offeiriaid ef un o'u rhifedi eu hunain, mor gyffelyb iddo ag ſydd boſibl, yr hwn ſydd i fod yn Dduw yn ei le ef pan y byddo ef marw, ac fe ddwedir nad oes un o'i addolwyr yn ammeu llai nad yw ef yn byw byth: Ac y mae y Duw hwn o'r fath awdurdod trwy holl *Dartary*, fel na's coronir un brenhin nes gwnelo'r cyfryw roddion mawrion a gwerthfawr iddo, a deiſyfu ei fendith.

Eu. Ym mha le y mae eiſteddfod y Duw hwn?

Ap. Yn *Barantola* yn *Tartary*, lle mae ganddo frenhin llŷs; ond nid yw yn cyffwrdd dim a llywodraeth wladaidd, enw offeiriaid y Duw hwn yw *Lamas*, oddiwrth ei enw ef ei hun, a'r offeiriaid hyn ſydd megis Chaplains i bendifigion a thywyſogion *Tartary*, y rhai ſydd yn cyfaneddu yn *Pecin* yn *China*.

Eu. Manegwch ychydig ynghylch amlder eu temlau, a threfn eu haddoliad.

Ap. Mae'r wlad hon yn llawn o demlau eulunod, y rhai ſydd o faes i byrth y ddinas, neu mewn lleoedd anial, lle mae ymdeithwyr yn cael eu greſawi, gan y rhai crefyddol, a lletty ac ymborth; ac wrth bob Teml yn gyffredin, mae tŵr wedi ei adeiliadu er coffadwriaeth i ryw Saint, neu ŵrol-ddyn. Y lleoedd hyn ſydd lawn o ddelwau, a lampau, ac ſydd yn lloſgi nos a dydd. Eu temlau ynt wedi eu hadeiliadu o goed,

goed, ac yn un ſtafell bedwar onglog, wedi ei thoi a theils diſclair, a'u llorio yn gyffredin a cherrig mawrion. Fe ddwedir fod yn ardal *Pecin* deml yn un cant a thri ugain a phump o droedfeddi o uwchder; ymha un mae delw yn gant a chwech a hanner o droedfeddi o uwchder, ar wedd morwyn: ac i bob teml y perthyn rhifedi mawr o offeiriaid, y rhai ſy yn offrymmu gwîn, *Riſe*, a lluniaeth arall i Dduw 'r lle hwnnw; gan ymgynghori a hwynt pan y delo neb rhyw un i ymholi am ei dynged, neu gyffelyb; ac yn ages i'r temlau hyn, mae celloedd yn fynych wedi eu hadeiliadu i rai mwy defoſionol; y rai ſydd yn cymmeryd arnunt eu bod wedi ymwadu a'r bŷd, a'i holl gyfoeth, a'i anrhydedd; ond wedi myned o'i gwirfodd trwy 'r fath boenau, neu benydau ag y maent yn dybied ſydd fwya cymmeradwy gan y Duwiau; ym mha beth y maent yn rhagori ar un Sect *Griſt'nogol.*

Eu. Yr wyf yn ddeall mae gan yr offeiriaid mae eu holl grefydd ynghadw, a rhoi i'w hoffeiriaid, yw rhoi i'w Duwiau, ac at yr offeiriaid yr ant ymhob cyfyngder mae'n debig.

Ap. Heblaw yr offeiriaid a'r Duwiau enwais, mae gan holl drigolion *China* ffŷdd fawr iawn, gymmaint, o's nid mwy, mewn *Dewinwyr*, *Sywedyddion*, a *Rhagddywedwyr* tynged, ac ſydd ganthunt yn eu duwiau; maent yn llywodraethu eu holl achoſion ar ol cyfarwyddiad y bobl hyn; ac nid ânt ar un daith, neu ûn neges o ſylwedd, heb yn gyntaf ymgynghori a'r bobl hyn; pa ddŷdd, neu pa awr o'r dŷdd fŷdd fwya dedwŷdd neu annedwydd i ddechreu 'r ſiwrneu. Mae y *Rhagddywedwyr* tynged hyn, yn cymmeryd hefyd arnunt i gyfrif i fynu ddyddiau genedigaeth, ac wrth wybod y dydd y ganwyd un a ddwedant wrtho yr holl bethau

bethau ddigwydd iddo tra fo fe yn y bŷd. Ac nid yw bri y bobl ymma ddim llai, er mor fynych y mae dynion yn cael eu twyllo ganthynt.

Eu. Y maent yn fwy cyffelyb i'w brodur yr ochr hyn i'r ddaear, hwy a ddilynant y twyllwr, ac nid oes a bair iddunt gredu eu bod yn cael eu twyllo; ac nid yw cymmaint ryfeddod, lle mae coelgrefydd a a thywyllwch dudew yn cario'r dydd: ond i weled pwy mor gyffredin mae trigolion *Europ* yn rhoi coel i'r fath, lle mae goleuni 'r gair wedi rhoi cymmaint yn eu herbyn, fydd i'w ryfeddu.

Ap. Nid yn unig y bobl gyffredin, ond hefyd rhai o rai mawrion a dyfgedig (wedi cael eu llygru a thybiau fod gan Ddewinwyr, Confierwyr, Brudwyr, Rhagddwedwyr tynged, a'r fath wybodaeth fawr) fydd a chymmaint o goel iddunt, meddaf ag y fydd gan langces ifangc ag y fo yn myned at y Diawl i gael gwybod pwy yw ei chariad.

Eu. Oes, mae dyddiau, oriau ac amferau dedwydd i brynu, i werthu, i eni, i ddechreu gwaith, ac i farw, er mawr alar yn rhŷ gynnefin yn ynŷs *Britain*. Ond ewch rhagoch at y gwledydd nefaf y mae *Paganiaeth* ynddunt.

Ap. Ni's gellir rhifo'r holl wledydd mae *Paganiaeth* ynddunt ond nid gwahanol iawn oddiwrth yr hyn a glywfoch o'r blaen a rhy faith yw olrhain holl wledydd ac ynŷfoedd *Afia*, megis *Tartary Fawr* ac eraill; ond yn unig bydd immi fon am eulunaddoliaeth fydd yn *Japan* †, a Chrefydd y *Bromiaid* yn *Malabar*, a rhai

 fectau

Nodau.

† Teyrnas *Japan* fydd yn cynnwys llawer o ynŷfoedd o du 'r Dwyrain i *China*; ond y fwyaf o honunt yw *Japan*, yr hon fydd o ddautu 600 milltir o hŷd, o gant

ſectau eraill yn nheyrnas y *Mogul*; ac yna ni's cewch gennyf rhagor am y Grefydd *Baganaidd* yn y dyddiau hyn;

NODAU.

o gant i gant a hanner o lêd, yn cynnwys 55 o ardaloedd a'r trefydd mwyaf yw *Meaco*, *Saccai*, a *Jedo*, a dwedir fod *Meaco* yn cynnwys cant mil o deiau, ac o ddautu 20 milltir o gwmpas; ond Palas y brenhin ſydd yn *Jedo*, yr hwn ſydd o ddautu 5 milltir ei gwmpas, ac yn ſefyll ynghanol y ddinas, ac wedi ei amgylchu a thri mûr; ond bod gerddi, caneli, a chynteddau o fewn yr ehangder, nid ynt yn y wlad hon yn arferyd gweliau, cadeiriau, na byrddau, ond eiſtedd ar fattiau pan y bont yn bwyta, a gorwedd arnunt pan y bont yn cyſgu. Mae'r holl ynŷſoedd hyn yn dîr da a dymunol, ac yn dwyn pob rhyw ffrwythau ag y mae *China* yn ei ddwyn; maent yn enwog iawn am gyflawnder o raian aur, a chabinettau *Japan*, a phob wâr arall wedi ei farneiſio. Nid ynt fyth yn trado a neb ond y *Chineſe* a'r *Dutſh*: Pob Cris'nogion eraill ſydd yn awr wedi eu taflu allan ond y *Dutſh* eu hunain o gyfran yn y drading hyn, er y flwyddyn 1630: Y *Portugueſe* hyd y prŷd hynny oedd ar drading fwyaf i *Japan*, ac oeddent fel dwedent eu hunain wedi troi rhan fawr o'r genedl hon at Griſt'nogrwydd; ond am eu bod wedi cael eu cyhuddo o fradwriaeth yn erbyn y llywodraeth, trwy bregethu pennaeth y *Pab*, hwythau a holl liaws eu *Proſelitiaid* Criſt'nogol a ddihenyddwyd, neu yrrwyd allan o'r wlâd, a dwedir am i'r Cris'nogion Pabaidd hyn i ſefyll yn erbyn yr Emerawdwr ac ennill, yna i'r Emerawdwr ddyfod allan yn eu herbyn hwythau yn berſonol, a lliaws mawr iawn o wyr, ac ymoſod a hwynt mewn câd gyffredin, yr hon barhaodd dri diwrnod, ond yn y diwedd yr Emerawdwr yn hollol a ennillodd y dydd. Cyndynrwydd y Criſt'nogion hyn, wnaeth i bob creulondeb gael ei arferyd tuag attynt: Ac nid llai na thri ugain mil o honynt a ddihenyddwyd, naill ai yn y gâd neu trwy ddioddefiadau creulon eraill, mewn ychydig ddyddiau; ac ni's darfu i'r llywodraeth wed'yn

hyn; yn unig bydd immi olrhain rhyw ychydig i chwi am y Baganiaeth y fu yn y dyddiau gynt, ar hyd *Asia*, *Palestina*, *Syria*, *Assyria*, ac ymhlith y *Persiaid*,

NODAU.

wed'yn i arbed benyw, gwrryw, na phlentyn ag oedd yn perthyn mewn un dull i'r Crist'nogion. Oes offeiriad Crist'nogol a gaid mewn un ty, nid yn unig pobl y tŷ, ond yr holl bobl oedd yn gorfod diodde am beidio cyhuddo arno, pob un hefyd ag oeddid yn llêd-dybied ei fod yn tueddu at Crist'nogrwydd oedd raid selu a'i law fath o ddîd, neu weithred, i gadarnhau nad Cristion ydoedd. Ond ei fod yn casau'r fath Grefydd sel un beryglus i lywodraeth. — Mae gan frenhin *Japan* o ddautu 28 o *Brifi Counsil*, o ba rai mae pedwar yn rhag-frenhinoedd, a rhag-frenhinoedd hyn sydd yn gorfod disgwyl yn y llŷs brenhinol tros hanner blwyddyn; ac y mae gan bob un o honynt dŷ ym mhalas y brenhin yn *Jedo*; pan y bo'r brenhin yn myned allan, nid llai sydd yn ei gyscillach neu yn attendo arno, na phump, neu chwech mil o filwyr bywyd, ac se ddwed i'r fod ei filwyr yn amser heddwch yn ugain mil o wyr meirch a chan mil o wyr traed; ac yn amser rhyfel y mae pob rhag-Dywysog, a brenhin yn gorfod rhoddi iddo wyr nes bo ei fyddyn yn ddeunaw ar hugain c filoedd o wyr meirch, a 368 o filoedd o wyr traed, ac mae'n rhaid bod trysorau mawrion yn dyfod iddo yn flynyddawl; medd rhai y brenhin mwya ei Refenue yn yr holl fŷd ydyw. Y gosbedigaeth ar y rhai sydd yn gwneud yn erbyn y cyfreithiau yn y wlad hon yw eu llosgi, eu croeshoelio a'u pennau i lawr, eu tynnu hwynt yn ddarniau oddiwrth eu gilydd rhwng ceffylau, eu berwi mewn olew, a lle bo drwg weithredwr a methu ei ddal ef, yr ydŷs yn gorchymyn ei rwygo ef oddiwrth eu gilydd pa le bennag y cair gafel yndo; o's pendefig neu ryw filwr fydd euog o ddrwg, se gaiff y ffafar o farw trwy ei law ei hunan, ac se gyfrifir yn wradwydd mawr iddo aros y dihenyddwr i'w ddihenyddu ef.

yr hyn fydd yn fwy buddiol i chwi tuag at agor amryw werſi o'r Hên Deſtament, na dim a glywſach etto.

Eu. Adroddwch yntau yn gyntaf am drigolion *Japan.*

Ap. Maent oll yn eulunaddolgar, ac ni oddefir Criſt'nogaeth trwy yr holl ynŷſoedd: Maent yn addoli holl lu'r Nêf, ſer, a phlanedau, ac amrywiol ddelwau anghynfil, ond y Duwiau maent fwya yn ei addoli ynt *Xaca*, ac *Amida*, at ba rai maent yn cyfeirio eu haddoliad pennaf yn eu cyfyngderau, nid ynt yn rhoi dim hanes am greadigaeth y bŷd, onid y maent yn credu gan mwyaf fod yr Enaid a chyfliwr o wobr ac o goſp ar ol hyn; a rhan fwyaf o honynt ſydd yn credu troſglwyddiad yr Enaid; ſef, y bydd iddunt gyfaneddu mewn rhyw greadur ar ol eu marwolaeth. Mae ganthynt laweroedd o ſonachlogydd a gwyryf-dai, ym mha rai y mae eu hoffeiriaid a'u rhai crefyddol yn byw heb briodi, ac yn cyflawnu y fath benydau ag y mae eu crefydd hwynt yn ofyn. Fe ddwedir bod cyfaddefiad pechodau yn eu plith, ym mha un y mae eu hoffeiriaid hwynt mor ſanol, fel oes deallant fod dim yn cael ei gadw oddiwrthynt, mae yn gymmaint a gwerth bywyd y pechadur; can's taflant ef i lawr o ben y creigydd, lle y mae'r gadair gyſaddefiad wedi ei goſod; er mwyn dodi rhagor o fraw, ac i gymmell eu dyſcyblion i fod yn wirioneddol.

Eu. A oes Temlau addoliad ganthynt?

Ap. Y mae Teml ardderchog iawn yn *Meaco*, y dref fwyaf yn *Japan*, wedi ei hadeiladu o gerrig nadd, yr hon ddwedir ei bod cymmaint a St. *Paul* cyn iddi loſgi a chyfuwch; ai chronglwyd 'o arch neu fwa cerrig, yn cael ei ddal i fynu gan bilerau mawrion, ac ymha un y mae yn ſefyll Ddelw o goppor, yr hon ſydd yn cyrraedd cuwch a'r gronglwyd; ac fe ddwedir fod y gadair

gadair yn mha un y mae'r ddelw hon yn eiſtedd yn dri ugain, troedfedd a deg o uwchder, ac yn bedwar ugain o lêd; a bod pen y Ddelw hon yn ddigon i ddal pumtheg gŵr, a'i fawd fŷs yn ddeugain modfedd ei gwmpas; oddiwrth ba beth y gallwn ddeall maint y cwbl. Y Deml hon ſydd yn ſefyll ar fryn uchel, ac ar bob ochr i'r eſcyniad, mae hanner cant o bilerau cerrig nadd, a deg pâs o'r naill i'r llall; ac ar ben pob piler lantern yn goleuo, yr hyn ſydd yn ymddangos yn hyfryd liw nos, nid llai na thri ugain o Demlau eraill ſydd yn *Meaco*, a rhwng tair a phedair mil o ddelwau, oll wedi eu gildio ynthynt. Y ffordd fawr rhwng *Surungo* a *Jedo*, mae yn ſefyll y Ddelw fawr *Dabis*, wedi ei gwneud o goppor, ar ddull dŷn yn ei eiſtedd ar ei goeſau, ac yn eſtyn ei freichiau allan, ac y mae hi yn ddwy droedfedd ar hugain ei huwchder. Yn *Trencheda* tref arall o *Japan*, mae'r *Bonzes* neu yr offeiriaid *Paganaidd* yn cymmeryd arnunt fod eu Duw hwynt wedi ymddangos i langces ifangc o forwyn, yr hon y maent yn ei ddwyn bob newydd loer i'r Deml yno, ac ar ol ei goſod hi o flaen y Ddelw fawr, maent yn goleuo yr holl le a lampau aur, ac yn lloſgi peraroglau; ond yn ddiſymmwyth y canhwyllau ſydd yn cael eu diffodd, megis yn wrthiol; ac mae rhyw beth mewn dull dŷn yn dyfod allan, ac yn cofleidio'r llangces, ac weithiau meddant yn ei beichiogi; ond pa un a'r drycholiaeth y maent yn ei addoli, neu un o'r offeiriaid ſy'n gwneud y cwmhwynas i'r llangces, mi 'ch gadewa chwi i ddeſeifio: ond pa fodd benna y mae hynny yn bod, y forwyn gwmmwynaſgar hon fŷdd o hynny allan yn cael ei hanrhydeddu yn ardderchog, ac ar ei gwaith hi yn dyfod allan o'r Deml, mae hi yn cael ei difyrru a chaniadau ac a Miwſic; a hwy ddwedant bŷdd y llangces bendreigil wedi ei hyſbrydoli cymmaint, fel y

mae yn cymmeryd arni i agor y Cweſtiwnau mwya dyrus ag ofynir iddi.

Eu. Mae'r offeiriaid Paganaidd fel yr offeiriaid Pabaidd yn twyllo'r werinos er mwyn eu bywioliaeth.

Ap. Gwir yw, ond y mae gan Emerawdwr *Japan* gymmaint o barch ag enw i rhai'n, fel y cyfyd ef o'i gadair i gyfarch iddunt, gan ddioddef iddunt eiſtedd yn ei ŵydd ef.

Eu. Pa fath yw pregethau y rhai'n, oes ynt yn dyſgu rhyw beth i'r bobl?

Ap. Ydynt, a ſŵm eu pregethau yw ymwadu a'r bŷd, ac amryw werſi da o foeſoldeb; ac amryw byngciau hefyd o hunan-leiddiad ar gnawd, megis myned tan amryw o benydau gwirfodd, a llawer o galedi o'r cyffelyb. Y *Bonzes* hyn hefyd ſydd a'r llaw ſwyaf yn eu priodaſau, a'u anghladdion, a phob peth eglwyſig arall; nid yw y brenhin yn ymhyrred a dim ond achoſion gwladaidd.

Eu. Pa fath yw eu priodaſau attolwg?

Ap. Y *Bonzes* ſŷdd yn eu priodi hwynt o flaen rhai o'r eulunod yn eu temlau; ſe fydd gan y priod-fab a'r briod-ferch dorches, ſef canhwyllau mawrion o gŵyr neu pitch wedi eu hennyn yn eu dwylo, tra fyddo 'r offeiriad yn adrodd y cyfammod priodas; yna eu cyfeillion a ddymunant iddunt bob happuſrwydd, ac a roddant roddion i'r briodas-ferch yr hon a daſi yn union ei holl hen deganau plentynaidd eu gid i'r tân; yna yr aberthant ychen a phethau eraill i'r eulun hwnnw. Caniataer i'r gwyr i gael cynnifer o ordderchwragedd ag allont gadw, a bod ganthunt awdurdod hollol ar eu benywaid naill ai ei lladd, neu roi iddynt Lythyr yſgar yr un o fynnont. Ond nid ynt yn cael dim, gwaddol gyda eu gwragedd ac nid ydŷs ymma yn ei gyſrif

gyfrif yn un pechod wneud i'w benywaid erthylu, neu i bobl dlodion, neu rhei'ny fo heb briodi i ddeſtriwio eu plant benywaid; ond y plant gwrywaid ydŷs yn cymmeryd gofal am danunt gan y llywodraeth, ac yn cael eu magu i fynu yngwaſanaeth eu gwlâd, lle y bo y rhiëni yn analluog i ofalu am danunt.

Eu. Ychydig ymhellach am eu claddedigaeth, ac ni's blinaf chwi am y rhai'n mwyach.

Ap. Maent yn lloſgi'r cyrph meirwon ymma fel yn *China*. Yn y dydd y bo'r arwyl neu angladd, bŷdd pil o goed wedi ei oſod yn bedwar onglog, tu faes i'r dref; ac ar ol i berth'naſau'r marw i ymgynnill ynghyd, y benywaid yn gyntaf a gerddant ymlaen mewn dillad gwynnion; can's dymma'r lliw o alaru ymma cyſtal ag yn *China*; yna canlyn y gwyr ar ol, gyda eu gilydd, wedi eu gwiſgo yn ardderchog: yn olaf y *Bonzes* hefyd, wedi eu gwiſgo mewn lliain, ac un a honunt a thorch, neu ganwyll gŵyr wedi ei hennyn yn canu gyda eu frodur yr holl ffordd byddont yn myned; rhai yn dwyn crochanau prês, ar ba rai byddant yn curo, ac eraill baſcedi o flodau y rhai y maent yn waſgaru ar hyd y ffordd, yn arwyddoccau meddant fod yr Enaid wedi myned i *Baradwys*; amryw o fanerau ag enw yr eulunod arnunt, a lanternau yn goleuo fŷdd hefyd o flaen y corph, yr hwn fŷdd wedi ei oſod yn ei ſefyll, ar fath o welu wedi ei wiſgo ei gid yn wyn, a'i ddwylo wedi eu cyſylltu yn eu gilydd, mewn dull o weddio; a'i blant oes byddant yn cerdded o'i ol, yr hŷnaf yn dwyn y ganwyll gŵyr i ennyn tan y pil; ac ar ol amgylchu y pil coed dair gwaith (o ddautu pa un y bydd byrddau wedi eu goſod yn llawn bwyd a diod) y *Bonze* pennaf y fydd yn dechreu 'r Hymn; ac ar ol troi o gylch ei ben dair gwaith y ganwyll wedi ei hennyn, i arwyddoccau bod yr Enaid

heb

heb ddechreu na diwedd, ſe daſl y ganwyll ymmaith yn ddiſymmwyth, yr hon a gyſyd plant y marw i ſynu, ac ennynant bil y gladdedigaeth a hi; gan daflu i mewn i'r pil olew, ac amryw goed peraroglaidd, hyd oni's bo'r corph wedi ei loſgi yn ulw. Ar ol y peth hyn, y plant a offrwm arogldarth, oes byddant, ac addolant eu tâd megis un o drigolion y nêf; y dydd neſaf y dychwelant i'r lle, ac a gaſglant y lludw a'r eſgyrn i giſt neu goffyn wedi ei gildio yr hon ſydd yn cael ei hongian i ſynu yn y tŷ; ac yna ei chladdu gyda llawer o rialtwch, a phob ſeithfed dŷdd, ſeithfed mîs, ſeithfed flwŷddyn, y plant neu gyfneſafiaid, oes na bŷdd plant, fŷdd yn aberthu arogldarth, ac yn rhoi addoliad i'w rhiëni a ymadawodd a'r bŷd.

Eu. Y peth neſaf addawſoch yw ſon am Grefydd yr *Indiaid* yn nheyrnas y *Mogul*, a'r *Bramiaid* a'r cyfryw.

Ap. Mi ſoniais eiſioes am Grefydd yr *India Fawr* tu draw i'r afon *Ganges*, ond yr hyn wyf wedi addo i chwi yw, am y Baganiaeth yn yr *India* tu ymma i'r afon *Ganges*, ſef yn Emerodraeth ehang y *Mogul**. I ba

---

Nodau.

* Ymerodraeth fawr iawn yw yr *India* o ddautu 2000 o filltiroedd o hŷd, a phumtheg cant o lêd; Emerawdwr pa un elwir y Mogul mawr, yr hwn nad oes ond llai na chant mlynedd er pan daeth i lywodraethu fel Emerawdwr ar y wlâd ehang hon, yr hon oedd o'r blaen tan lywodraeth amrywiol iawn o dywyſogion bychain; ac etto ynghanol y wlâd, ſef y rhan hynny o honi ſŷdd yn fynŷddau, a choedydd, mae amryw o dywyſogion hyd y dydd heddyw, ag elwir *Rajas* yn berchen ar frenhiniaethau helaeth, heb ddyfod erioed tan lywodraeth y *Mogul*. Yr Emerawdwr mawr hwn ſydd yn rhannu yn fynych wrth farw ei Emerodraeth

ba un y mae'r *Dutsh*, *y Portugueſe*, *y Ffrancod*, *y Daniaid*, a ninnau yn trado.

Eu.

NODAU.

raeth rhwng eu feibion; ond ei fod yn gadael y rhan fwyaf i'w Fab hynaf; ond yn fuan ar ol ei ddydd ef, y mynn pob un o'r meibion hyn naill ai bod heb ddim, neu fod yn Emerawdwr, gan ymladd a'u gilydd hyd oni's bo ond un i'w gael o honunt. Pob mab i'r Emerawdwr elwir *Sultan*, pob merch *Sultanas*, pob rhagdeyrn, neu lywodraethwr ardal elwir *Nabob*. Ymma mae er's cant a hanner o flynŷddau drading fawr iawn yn cael ei dwyn ym mlaen gan amryw o frenhinoedd *Europ*, a chwmpniaethau mawrion cyfoethog o farſiandwyr o amryw deyrnaſoedd, yn berchen ar drefydd, pentrefydd, ceſtyll, gweithdai, a lleoedd perchennogol yn nheyrnas y *Mogul*; a chanddynt hefyd yno eglwyſi, monachlogydd, offeiriaid, milwyr, ſwyddogion, gwladaidd ac eglwyſig, a *Miſionaries*, i ledanu eu crefydd eu hunain trwy'r wlad; mae gan y *Daniaid*, *y Dutsh*, *y Ffrancod*, *y Portugueſe*, leoedd o'r fath hynny o honynt hwythau. Mae gan *Loegr* yno hefyd amryw-iol, megis Caſtell *St. David*'s, Caſtell *St. George*, a thref *Madras*, tref *Maſſatapatan* ſydd rhwng y *Dutsh* a'r *Saeſon*; *Vizacapatan* gan *Loegr*, *Balaſore*, *Augengo*, *Callicut*, *Tilligery*, *Carwar*, *Dabal*, y rhai oll ydynt ryw drefydd ar hyd Glan y Môr elwir *Coſt Coromandel*; ynŷs *Bombay* a'r dref gan y *Saeſon*, *Burak* gan y *Saeſon* a'r *Dutsh*, *Ffort Wiliam*, *Huegly*, *Dacca*, gan y *Saeſon*, *Malda* gan y *Saeſon* a'r *Dutsh*; a chynnifer eraill o drefydd fel y dwedais gan drigolion *Ffraingc*, *Portugueſe*, *Denmark*, a'r *Dutsh*; ac y mae'r trefydd hyn, naill ai wedi prynu gan frenhinoedd yn yr *India*, ag oedd heb ddaroſtwng i'r *Mogul*, neu hwythau ſydd yn cael eu perchennogi i farſiando, trwy dalu i'r *Mogul* hyn a hyn am bob cant punt a farchnattaont, fel teyrnged neu dreth. Y pethau ydŷs yn eu dwyn allan oddiyno, o eiddo'r wlad eu hunain yw *Callico*, *Muſlin*, a *Sidan*, *Diamonds*, ac amryw fath o feini gwerthfawr eraill;

Eu. Ewch rhagoch.

Ap. Mae yn yr Emerodraeth hon amryw o Gresyddau. Mae ymma Grist'nogion er amser *St. Thomas* yr

---

Nodau.

eraill; llawer iawn o *Bubur* hefyd o dyfiant goror *Malabar*, *Saltpetre*, *Lliw Glas*, *Cardamum*, *Opium*, *Assafœtida*, ac amrywiol iawn o ddrugs. Y pethau ydŷs yn eu dwyn o *Europ* trosodd yw, brethynau llydan, plwm, drychau, cleddyfau, cyllill, pob Haberdashery Ware, laesau aur, ac arian, llestri tin o bob math, Gwin, Brandy, Cwrw, a phethau o'r fath; fflints hefyd, y rhai sydd mor werthfawr ag arian yn rhai rhannau o'r *India*, am nad oes dim argoel bod un i'w gael o honynt trwy yr holl *India* yn enwedig hyd ac y mae gwyr *Europ* yn adnabod; ond y peth mwya sydd gyda ni yn myned yno i brynu meddiannau yw arian, ac nid oes nemawr o long yn myned o *Loegr* yno, nad oes ynddi o dri ugain i bedwar ugain mil o bunnau o arian; ac yno y mae yn myned y rhan fwya o'r arian a ddygir o *America* bob blwyddyn gan farsiandwyr *Europ*. Yn y wlad fawr hon y mae'r afon *Ganges*, a'r afon *Indus*, y rhai sŷdd, y naill un ochr, a'r llall yr ochr arall, yn rhedeg bob un o ddautu 1500, medd rhai bron tair mil o filltiroedd; ac ar hyd yr afon *Indus* hon y bu *Alexander Fawr*, dri mis yn morio gyda llu mawr o wyr, ac yn hwylio 30 o filltiroedd bob dŷdd. Am yr afon *Ganges* yr hon sydd yn rhedeg i fôr *Bengal*, yn ddeg neu ddeuddeg o ganghennau, ac nid rhagor, ac yn gwneuthur cynnifer o aberoedd; yr ydys yn dychmygu rhyw sanctteiddrwydd rhŷfedd i'w dŷfroedd gan y trigolion, fel yr ydŷs yn ei haddoli gan eulunaddolwyr yr *India* fel Duw; a dedwŷdd yw 'r dŷn fel y tybiant a ymadewo a'i enaid ar ei glan hi; ac unwaith yn y flwyddyn y *Banianiaid* o ddautu pedwar can mîl o honunt sŷdd yn myned i'r afon hon i ymolchi, ac i eillio eu hunain ynddi, ac i offrymmu bŷd o aur i'r un rhyw afôn, arian weithiau wedi eu stampio, weithiau yn dalpau mawrion, neu eingion, a'u

yr Apoſtol, ac a lynodd wrth eu hên athrawiaethau er holl ddyfais, twyll, erlid, a gorthrymderau Eglwys *Rufain*

NODAU.

a'u taflu i lawr fel aberth, gan wneuthur amryw o ſeremoniau dieithr eraill rhyfedd i'w gweled. Ac y mae rhai yn dyfod yno o ben mil o filltiroedd o ffordd, gan anrhydeddu 'r afon fel eu Duw, eu cre-wr, a'u iachawdwr. Bŷddyn y *Mogul* a gyfrifir yn dri chan mîl o wŷr o'r *Monguls*, ſef dynion gwynnion o'r Grefŷdd Fahometanaidd; y rhai'n oll yn wŷr meirch, a thri chant o filoedd eilwaith a roddir gan y *Rajas*, ſef y tywyſogion duon ſŷdd yn talu teyrnged iddo, a rhai'n hefyd ſŷdd yn rhoi iddo ugain mîl o wŷr traed bob yn ail yn amddeffynwŷr bywŷd. Mae elw, neu refenue 'r *Mogul* yn y flwyddyn fel yr ydŷs yn cŷfrif yn ddeugain mîl o filoedd o bunnau o arian, yr hyn ſwm ſydd yn dyfod iddo oddiwrth *Ddiwtis* ar farſiandaeth, trading a gorchwylion y bobl; ond yn bennaf oddiwrth roddion y gwŷr mawrion, a refenues yr amryw ardaloedd: can's pob rhag-deyrn, neu *Nabob*, a llywodraethwr ſydd yn rhwym i anfon i lŷs yr Emerawdwr fath o drêth, neu deyrnged oddiwrth yr ardal y mae ef yn ben arni. Y *Rajas*, neu 'r tywywſogion duon, y rhai ſydd tan lywodraeth y *Mogul*, ſŷdd yn gorfod talu iddo deyrnged bob blwyddyn; ond y *Rajas*, neu y tywyſogion ſydd yn y mynyddau, etto heb ei gorchfygu gan y *Mogul*, nid ynt yn talu trêth i neb. Y *Monguls*, neu 'r *Moors* ſydd yn Fahometanaidd, ynt y bobl wynnion yma; ond o ddautu canol yr *India*, maent mor ddued a'r *Iet*, am mae pobl ynt ddeſcynnodd yma ryw amſer o *Ethiopia*. Mae yma hefyd bobl felynnion o liw 'r *Oliwydden*: y rhai mwya rhyfelgar, y rhai ſydd hefyd yn gwneud crefŷdd yn broffes iddunt yw, y *Rajaputes*, ſef byddinoedd y *Rajas*, y tywyſogion duon, y rhai cyn i'r *Mogul* ennill y wlâd, y tywyſogion hyn oedd yn teyrnaſu yma; am y lleill, y bobl mwya diniwaid ydynt yn y bŷd, ac ni fyddant yn euog o ymgyrch, neu gynhen

Rufain a'i chenhadon. Mae ymma nifer fawr iawn o'r Grefydd Babaidd, wedi eu gwneud felly gan *Fifionaries Rhufain*

NODAU.

gynhen ag un arall, neu o un camymddugiad ar un achos beth bennaf. Yn y wlâd hon y mae 'r mŵyngloddiau *Diamonds* yn nheyrnas *Golconda*, a *Vifiapour*, nid oes mŵyn-gloddiau yn y bŷd fydd gyffelyb iddunt o ran maint y *Diamonds*, neu eu daioni; ond y rhai gafwyd yn ddiweddar yn *Brafil*; ac nid llai na 23 o fŵyn-gloddiau *Diamonds* yn nheyrnas *Golconda* ei hun. a phe bait on cloddio ym mhob man y gellir tebig eu bod hwy yno, ac yn *Vifiapour*, mae yno ddigon i gyflawnu diffyg yr holl fŷd; ond am fod brenhinoedd ag ofn dwyn gormod o'r gwaith ymlaen rhag ofn i'r *Mogul* i'w gymmeryd allan o'u dwylo hwynt, maent gan hynny yn rhwyftro cloddio lle mae 'r cerrig *Diamonds* mwya, neu gadw gweithwyr ynthunt er eu defnŷdd neilltuol eu hunain. Y brenhinoedd tan lywodraeth pa rai y mae 'r cloddiau *Diamonds*, y llywodraethwyr fŷdd arnunt, y gweithwyr eu hunain yng-hyd hefyd a'r marfiandwyr fydd yn prynu ganthunt ynt Baganaidd, ac nid Mahometanaidd, rhaid yw i'r marfiandwŷr a'r mŵynwŷr yn gyffredin fyned yn noeth, yn unig rhyw glwtyn tlawd o ddautu eu canolau, a gwregys o ddautu eu pennau, nid oes le iddunt i wifco cochl rhag i'r llywodraethwyr ddweud eu bod yn cynhŷddu yn y bŷd, ac i ofyn mwy oddiwrthunt. Am y rhai call o honunt, (o's callineb yw) pan caffont garreg fawr fydd yn ei chuddio hi hyd oni's caffont le addas, ac yna ffoant wraig a phlant, a chyfan i ardal *Vifiapour*, ym mha le y byddant ddiogel, ac a gant well triniaeth. Y marfiandwyr yw y *Banianiaid* ardal o'r *India* elwir *Guzarate*, y rhai fydd er rhai cenhedlaethau wedi gadael eu gwlâd eu hunain, ac wedi cymmeryd i fynu y farfiandaeth hon; ym mha un y mae cymmaint iddunt o lwyddiant, fel y mae yn awr yn hollol wedi ei thynnu attunt eu hunain. Mae amryw bethau rhyfedd iawn yn y wlâd ehang hon i wŷr

Europ

Rhufain, y *Mwriaid*, a'r *Moguliaid*, rhai fy a'r llywodraeth yn eu dwylo ynt *Fahometanaidd*, y *Perfiaid* hefyd

N y

NODAU.

Europ glywed, ag fydd rŷ faith i'w hadrodd; ûn o ba rai yw gwerfyll y *Mogul*, can's y mae efe yn byw yn y maes tros y tymmor fych, yr hwn fy 'n parhau bedwar neu bump o fioedd; ym mha amfer y mae yn cael ei attendo, heblaw gan Gan mîl o'i filwŷr, eu gwragedd a'u plant, ond hefyd gan y rhan fwyaf o wyr mawrion yr Emerodraeth: ac yn cael ei ganlyn gan bob rhyw o Farfiandwŷr, a chrefftwŷr o'r prif ddinafoedd; eu gid tros fil o filoedd o bobl, a chyda yr rhai'n oll y mae yn rhoi tro o fil o filltiroedd bob blwyddyn trwy ryw rannau o'i Lywodrath gan wrando achwynion y gwaelaf o'i ddeiliaid, o's digwydd iddynt gael eu gorthrymmu gan y *Nabob*, y feifroes, neu 'r llywodraethwyr. Ac y mae *Carafan* o ddeng mîl o gamelod ac ychen yn waftadol yn attendo 'r gwerfyll, ac yn dwyn i mewn luniaeth o bob rhan o'r wlâd; goruwchwiliwr y *Carafan* hyn fe roddir iddo y titl o dywyfog, ac fydd a'r fath awdurdod wedi ei rhoddi iddo, o fod fel y mae ef i ddigoni yr holl werfyll a lluniaeth. Mae 'r gwerfyll hyn o leiaf yn 20 milltir o gwmpas. Maent yn gwerfyllu mewn dull gwmpafog, Pabell y Mogul a'i fenywaid fydd ar le uchel yn y canol, ac wedi ei neilltuo oddi wrth y lleill a llenn uchel, neu ryw gaead arall. Tu faes i hon y mae 'r holl bendefigion, y pen capteniaid, a'r holl rai ardderchog mewn cylch arall, a'r holl bobl eilwaith ar ol eu graddau o gylch o gylch yn nes i maes; a'r holl bobl waelaf a thlottaf yn nefaf i maes oll. Ond er mwyn rhoi hanes ragor am Emerodraeth y Mogul a'i Lŷs, mi rof i chwi ddarllain rhyw rannau o lythyrau Mr. *Caryat* o Lŷs y Mogul, yr hwn a deithiodd yno ar ei draed, " Mi arhofais medd ef, ddau fis yn *Hifpaan* yr hon yw prif ddinas *Perfia*; ac oddiyno teithiais gyda 'r Carafan i'r *India*, gan fod bedwar mîs a rhyw ddiwrnodau ar fy nhaith, rhwng *Hifpahan* a *Labor*, dinas

y rhai sydd yn addoli 'r tân, ynt ymma yn aml. Ond am y bydd i mi ddescrifio i chwi Gresydd y *Persiaid* ar ol

---

NODAU.

dinas ragorol iawn o'r *India*, un o'r dinasoedd mwyaf yn yr holl fŷd; can's y mae hi yn y rhan leiaf yn 160 filltiroedd ei chwmpas, y mae yn rhagori ar *Constantinopl* ei hunan o ran maint. Ond ddeuddeg niwrnod cyn i mi ddyfod i *Lahor*, mi ddes tros yr afon fawr hynod *Indus*, yr hon sydd ddau lêd yr afon *Thames* yn *Llundain*; ac sydd a'i dechreuad o fynyddau *Caucasus*, a chymmaint o sôn am dani gan brydyddion a haneswyr cenhedlig yn *Groeg* cystal ag yn *Lladin*; ac oddi wrth y ddinas hynod *Lahor*, mi gefais daith ugain diwrnod i ddinas ragorol arall elwir *Agra*, trwy 'r fath ardal o dir gwir wastad hyfryd ag na's gwelais erioed o'r blaen: yr wyf yn ammeu Pa un ai bod y fath i'w weled mewn un man ar wyneb y ddaear. Ac un peth arall hefyd oedd yn y ffordd hon, nad oedd ddim llai i'w gofia am dano na gwastadrwydd y tir, sef rhès o goed ar bob ochr i'r ffordd hon y mae pobl yn trafaelu, yn cyrhaedd o ben tref *Lahor* i bentref *Agra*, sef o ddautu pedwar neu bump can milltir o hŷd, yr olwg fwya anghydmarol o'r natur hynny a welodd fy llygaid erioed. *Agra* sydd ddinas fawr, a'r lle yr oedd y Mogul yn cadw ei Lŷs hyd yn ddiweddar iawn, ond ymhob ystyr yn llawer llai godidog na *Lahor*. Oddiyno i lŷs y Mogul yr oedd gennyf siwrneu dêg diwrnod i dref elwid *Asmere*, lle cyfarfum a marsiandwr o *Loegr*, ag oedd wedi dyfod i ffordd y *Cape of good Hope*, a naw yn rhagor o'm cydwladwyr yn aros yno ar gyfrif negeseuon tros marsiandwyr *Llundain* y rhai sydd yn trado i'r *India*: mi spendiais ar fy nhaith rhwng *Jerusalem* a llŷs y Mogul 15 mîs a rhyw ddiwrnodau; a'r holl ffordd hon a drafaeliais ar draed, ond ac amryw bâr o escidiau, can's darfu i mi drafaelio cymmaint ar draed fel y mae yn anhawdd i chwi glywed am y fath erioed; o ran y ffordd rhwng *Jerusalem* a Llŷs y Mogul sydd yn cynnwys dwy fil a saith gant o filltiroedd. Fy holl gylch gerddediad

ol llaw, mi af at y Grefydd Baganaidd yn unig ag ſydd yn yr *India Fawr* hon; yr hon Grefydd ſydd ben-

N 2 naf

NODAU.

gerddediad i o'r *Aſia* fwyaf hon ſydd yn debig i fod yn chwe mîl o filltiroedd o gwmpas, erbyn y teithiwyf yn ol trwy *Perſia*, yna heibio i *Babilon* a *Ninife*, y delwyf i *Cairo* yn yr *Aipht*, ac oddiyno lawr ar hŷd yr afon *Nilus* i *Alecſandria*, ac yno ûn diwrnod trwy nerth Duw i gymmeryd llong i ddyfod i fy ngwlád fy hun. Yr wyf yn awr yn Llŷs y Mogul, mi wn byddai da gennych glywed rhyw beth gennyf ag ſydd ryfedd oddiyma. Y tywyſog preſennol ſydd ddŷn rhagorol; ei enw yw *Selim*; y mae ef yn dair ar ddeg a deugain oed; a dŷdd ei enedigaeth ef a gynhaliwyd gydag ardderchawgrwydd rhyfeddol er pan deuthum yma; can's y dŷdd hwnnw y mae efe yn pwyſo ei hun mewn pâr o gloriannau. (am mae cwſtwm yw ag y mae yn ei wneud yn ddidor unwaith bob blwyddyn) gan oſod cymmaint o aur y pen arall i'r clorian ag a bwyſo ei gorph, ac yna cyfrannu hynny eilwaith rhwng y tlodi. Nid yw ei liw na du na gwyn; ond o liw canol rhwng y ddau, megis lliw'r *Oliwydden:* ei Emerodraeth ef ſydd helaeth, nid llawer llai na phedair mîl o filltiroedd o gwmpas, yr hyn ſydd yn agos iawn yn atteb cŵmpas gwledydd y *Twrc*, ond yn berchen llawer iawn gwell tîr, fel nad o's un man o'r bŷd yn meddiannu gwell a mwy ffrwythlon gwythien o ddaear, na'r holl dîr ſydd yn gorwedd yn yr Emerodraeth hon; yn unig rhyw ran o *Fabilon*, lle bu yr hen *Baradwys* ddaearol yn gorwedd. Ac y mae'r Mogul hefyd yn ei elw blynyddawl, neu ei refenue yn blaenori ar y *Twrc*, ac Emerawdwr *Perſia*, o'r hanner, can's ei elw blynyddawl ef ſydd ddeugain mîl o filoedd o goronau, a phob un yn 6 Swllt, lle nad yw y *Twrc* ddim rhagor na 15 miliwn, fel y ceſais wybodaeth ſicr yn *Conſtantinopl*; na brenhîn *Perſia* ddim mwy, na phump miliwn, megis hefyd y ceſais wybodaeth eilwaith yn *Spahan*. Mae'r Mogul yn chwedleua yn barchedig

naf o'r lleill oll, am fod yr hen drigolion ſef yr *Indiaid* yn fwy aml na neb o'r lleill; ac y mae yn y Grefydd *Baganaidd*

NODAU.

barchedig iawn am ein IACHAWDWR, gan ei alw ef yn nhafod-iaith yr *India Ifazarat Eeſa*, hynny yw, y Prophwyd mawr *IESU*; ac y mae ef yn ymddwyn at yr holl Griſt'nogion, yn enwedig ni y *Saeſon* mor garedigol, fel nad oes un tywyſog *Mahometanaidd* o'i fath. Mae ef yn cadw llîaws o fwyſtfilod gwyllion, ac o amrywiol fath, megis *Llewod*, *Elephantiaid*, *Llewpartiaid*, *Eirth*, *Antelopiaid*, *Unicorniaid*, dau o ba rai a welais wrth ei Lŷs; y bwyſtfilod mwya dieithr yn y bŷd: hwy a ddugwyd ymma o wlad *Bengala*, yr hon yw un o'r Teyrnaſoedd mwya ffrwythlon o fewn ei holl lywodraeth ef, o ddautu taith pedwar mîs oddiymma, canol pa un ſydd yn cael ei dwſrhau gan gangen or afon hynod *Ganges*, yr hon na's gwelais i etto, ond trwy Dduw ydwyf yn meddwl ei gweled ar frys; am nad oes ond taith 12 diwrnod o Lŷs preſennol yr Emerawdwr atti. — Mae'r Mogul heb fethu, yn ymddangos ei hun dair gwaith bob dydd i'w bendefigion; ar godiad yr haul, yr hon y mae ef yn ei addoli trwy godi eu ddwylo i fynu; ganol dydd; ac am bump ar gloch brydnhawn: ond y mae ef yn ſefyll mewn yſtafell uchel wrtho ei hun, ac yn edrych arnunt hwy trwy ffeneſtr, ſydd a llenni ardderchog o waith Edau nodwydd, yn cael ei hongian i fynu wrth ddau biler arian i'w gyſgodi ef. Ddwy waith bob dŷdd mae *Elephantiaid* yn ymladd o'i flaen ef, yr olwg ffeinia yn yr holl fŷd; amryw o honunt ſydd dair troedfed ar ddêg a hanner o uwchder, ac y maent yn gwthio eu gilydd fel dau fynydd fychain, ac oni b'ai eu bod yn cael ei gwaſgaru oddiwrth eu gilydd yn hanner eu hymgyrch, trwy ryw offer dân pwrpaſol, ſe fyddai iddunt gornio a chlwyfo un y llall yn aruthur. Mae'r brenhin yn cadw tros fil o *Elephantiaid* trwy goſt anrhaethawl, ac wrth borthi y rhai'n, ei *Lewod*, ynghyd a bwyſtfilod eraill y mae ef yn ſpendio ſwm angh-

G. C. Griffith Jones

Baganaidd ymma, liaws mawr iawn o lwythau ag na's bwyttaant, nag yfant, ac na's priodant ag un llwyth ond eu llwyth eu hunain, er fod eu heulunaddoliaeth agos yr un peth; yr hyn na chlwyfoch am dano etto yn y Grefydd *Baganaidd* yn un rhan o'r bŷd. Mae tri ugain neu bedwar ugain o lwythau neu fectau ymhlith y *Paganiaid* hyn; ond y tair fect bennaf yn eu plith yw y rhai'n, yn gyntaf y *Bramiaid*, yn ail yr *Rajaputiaid*, yn drydydd y *Banianaid*.

Eu. Adroddwch am Grefydd y *Bramiaid*.

Ap. Rhaid i chwi ddeall fod amryw lwythau, neu fectau o rhai'n; a rhai fectau o honunt fydd yn bwyta cîg o ryw fath, eraill ni fwytant gîg o un fath fyth; rhai fectau o rhai'n fydd yn priodi, eraill fydd yn condemnio eu hunain i ftâd o wedd'dod, ac ni fynnant gymmaint ag edrych ar fenyw; y rhan fwyaf o honunt fydd yn ymolchi, ac yn ymdrochi amryw weithiau yn y dydd, ond y mae eraill ni ymolchant oll, rhag iddunt ddiniftrio rhyw greadur byw wrth hynny; ac fel y maent yn meddwl y gallant fod yn achos o farwolaeth rhyw greadur byw anweledig wrth fugno i mewn i'w

Nodau.

anghredadwy o arian, yn y lleiaf ddeng mîl o bynnau bob dydd; mae'r brenhin yn cadw mîl o wragedd, y bennaf o ba un yw y frenhines, gyfenwir *Nor Mahal*, ni fpendiais i ragor yn fy fiwrnau ddeng mîs rhwng *Aleppo* a Theyrnas y Mogul, na hanner cant o fylltau; ac yn byw o'r gorau bob dydd, gan fod cymmaint o newid ar ymborth mewn rhai gwledydd yr e's trwyddynt fel yr oeddwn yn byw, wrth geiniog y dydd. Mi fum mewn dinas yn y wlad hon elwir *Delly*, lle bu *Alecfander* fawr mewn ymladdfa fawr a *Phorus* Brenhin yr *India*; ac a'i gorchfygodd ef, ac mewn arwydd o'r oruwchafiaeth, adeiladodd bilar o Brês, yr hwn fydd ymma i'w weled hyd y dydd heddyw.

ffroenau yr anadl, gwiſgant ddarn o ſidan neu ffwſtian ar eu geneuau. Nid ynt fyth yn lloſgi tân coed, o'r achos hynny; ac y maent yn dwyn brwſh yn eu dwylo i eſcubo y lle bont yn eiſtedd i lawr arno, rhag iddunt yrru enaid un creadur allan o'i gorph. Y llwyth hyn o *Framiaid* ſydd nid yn unig wedi cymmeryd yr offeiriadaeth, ond hefyd dyſg o radd uwchaf o foneddigrwydd iddunt eu hunain.

Eu. Pa ddyſgeidiaeth yw hon.

Ap. Eu dyſg ſydd gan mwyaf yn gynnwyſedig mewn bod yn abl i ddarllen hen lyfrau elwir *Fedam*, ym mha rai y mae eu cyfraith neu reol o fywyd yn gynhwyſedig, wedi ei roddi gan *Brama*, eu rhoddwr cyfraith pennaf hwynt. Y llyfrau hyn y maent yn eu dyſgu ar eu tafodau, er na ddeallir y rhan fwyaf o honunt ganthunt eu hunain.

Eu. Henwch rai o'u hathrawiaethau hwynt.

Ap. Mae'r *Bramiaid* yn dyſgu nad oes un Duw, ond un anfeidroldeb berffaith, yr hwn ſydd er tragwyddoldeb; ond iddo greu tri Duw, ſef *Brama*, *Wiſtnow*, a *Routeren*, ac iddo roi i *Brama* y gallu o greu, i *Wiſtnow* o gadw yr hyn greuid, ac i *Routeren* o ddiſtriwio. Ond fe ddwedir fod yr *Indiaid* mwya ſynhwyrol yn gwrthod y ffabl, ac yn cyfrif y cwbl i un Bod goruchel, yr hwn trwy yr amrywiol ffyrdd hyn ſydd wedi datguddio ei hunan i'r byd. Mae'r *Bramiaid* hefyd yn dal i *Brama*, trwy y gallu a roddwyd iddo gan *Mahaden* ſef y goruchel Dduw i greu nid yn unig un ond amrywiol fŷdoedd, hyd at rifedi pedwar ar ddêg; ac i'r bŷd hwn y maent yn cyfrif pedwar amrywiol oes, a pharhâd pob un o ba rai maent yn ddal ſydd yn amrywiol gantoedd o filoedd o flynyddau. A bod o'r oes olaf hyn ym mha yn yr ydym ni yn byw, dros bedwar can mîl o flynŷddau heb baſſo. Mae'r

Fedam,

Fedam, neu lyfr eu haddoliad hwynt yn dangos am ddêg math o ddull yr ymddangoſodd eu Duw *Mahadeu* yn y bŷd ar amrywiol amſerau, er daioni i ddynolryw; a'r dêg dull hyn ym mha rai yr ymddangoſodd ef, ſydd yn ddêg Delw, ac yn wrthddrychiau o'u haddoliad: ond y lluniau ſydd mor hyll, mor annaturiol, ac anghynefyn ag y maent yn creu aeth a ſyndod ar ddŷn i edrych ar eu lluniau hwynt mewn llyfr, llawer mwy annaturiol i edrych arnynt yno yn eu dull gorphorol yn eu temlau, i ddŷn ag ſydd yn nabod rhyw beth am Dduw.

Eu. Ar ba lun yw rhai o honunt o's gellwch gofio?

Ap. Yn y gyntaf mae ef yn cael ei repreſentio a phedwar pen, a chynifer braich eilwaith, brŷd arall a phen fel mochyn, a dau ddant bâdd, a chorph fel dŷn, a phedair braich, a phedair llaw.

Eu. Ofnadwy y dull.

Ap. Mae 'r ddelw hon yn gynefin yn yr *India*, a chan fod arni y fath olwg ofnadwy, mae 'r *Europiaid* yn dychymmygu ei bod hi yn dal allan yr yſbryd drŵg. Mae ganthunt amrywiol eraill o luniau yr ymddangoſodd ef nad ynt fawr iawn lai hyll yr olwg arnunt; megis un a'i hanner yn byſcodyn, a'i hanner yn ddyn, neu fel pyſcodyn yn llyngcu dŷn hyd ei hanner; un arall a deg pen a chynnifer llaw, a'r cyffelyb; ond am fod yr haneſion o honunt mor fabanaidd a diſylwedd, ac nad yw eu hadrodd ond treulio amſer, mae yn well gennyf ddweud rhyw beth am athrawiaeth, dyledſwyddau, a gorchymmynnion moeſol eu crefŷdd, eu temlau, a ſeremoniau eu haddoliadau.

Eu. Ewch rhagoch, yr ydych yn adrodd am Baganiaeth na's clywais o'i chyffelyb hi erioed.

Ap. Mae'r *Bramiaid* yn credu blaen-greadigaeth, ſef bod yr eneidiau wedi eu creu ryw oeſoedd o flaen y cyrph;

cyrph; a bod llwyddiant, neu aflwyddiant, y da neu 'r drŵg a fo ni yn ei gyfarfod yn y bŷd hwn, yn goſb neu yn wobr o'r hyn a wnaethont yn y bŷd arall; a bydd y rhai a wnant dda yn y bŷd hwn i gael eu gwobwyo yn y bŷd arall. Rhai ſydd yn gwneud eu goreu ar wneud rhagor nac y mae eu *Bedam*, neu eu llyfr cyfraith hwynt yn ofyn gan obeithio meddiannu lle mwy ardderchog yn y nef. Mewn trefn i gael maddeuant pechod y *Bramiaid* ſydd yn cyfarwyddo eu dyſcyblion i wneud pererindodau i ryw leoedd neilltuol, yn enwedig i ryw bagodau, neu ryw demlau yn agos i aberoedd yr afon fawr *Ganges*. Golchi yn unig ym mha un fel y maent hwy yn dodi 'r werinos i gredu ſydd ag effaith ryfeddol i lanhau oddi wrth eu holl bechodau.

Eu. Pa beth yw 'r dyledſwyddau moeſol a'r gorchymmynnion mae 'r llyfr *Fedam* yn ei oſod iddunt.

Ap. Y *Bramiaid* a ddywed fod Cŷfraith ddwyfol wedi ei rhoi o'r Nef yn ſcrifennedig yn y llyfr hwn, mewn iaith na's gall y bobl gyffredin ei deall, ac ni's goddefir iddunt ei aſtudio hi, ond rhaid iddunt gredu ar eu gair hwy y cwbl a font hwy yn oſod iddunt fel Articlau eu ffŷdd; a gorchymmynnion eu llyfr yw 'r ŵyth hyn ſy 'n canlyn. Yn 1. Na ladd un creadur byw, beth bynnag ſy a bŷwyd yn yr unrhŷw; can's creadur wyt ti o'm heiddo i, ac felly y mae yntef hefyd am hynny ni's tywellti waed un peth ſŷdd eiddo i mi. Yn 2. Ti wnai gy fammod a'th holl bum ſynwyr, yn gyntaf a'th lygaid, na edrychi ar bethau ſy ddrŵg; yn ail a'th gluſtiau, na's clywont un peth ſy ddrŵg; yn drydydd a'th dafod, na's llefarech ddim ag ſŷ ddŵg, yn bedwarydd a'th archwaeth, na archwaithech ddim ag ſŷ ddrŵg; megis gwîn, neu gîg un creadur byw. Yn bummed a'th ddwylo, na theimlech un pêth ag ſy ddrŵg.

ddrŵg. Yn 3. Ti a gedwi yn fanwl amſer dy olchiadau, dy addoliadau, dy ddefoſiŷnau, a'th weddiau at yr Arglwydd dy Dduw, gyda chalon bur ac union. Yn 4. Na ddywed haneſion celwyddog, neu ſynegu un peth anwireddus, trwy ba un y gelli dwyllo dy frawd mewn margennion, neu gyfammodau, a thrwy y twyll hyn gweithio allan dy fantais dy hun. Yn 5. Bŷdd euluſengar i'r tlawd, a chyfranna at ei raid fwyd a diod, ac arian fel y bo ei angen yn gofyn, a'th gyflawnder dithau yn dy alluogi di i roi. Yn 6. Na orthrymma, ac na faedda 'r tlawd gan arferyd dy awdurdod yn anghyfiawn er diniſtrio dy frawd. Yn 7. Ti gedwi ŵyliau neilltuol, etto nid i lanw dy gorph hyd ormodedd o un peth, ond ti a gedwi amſerau noddedig at ympryd, a throi heibio rai oriau at wilio, fel y gallech fod yn fwy addas at addoliad a ſanctaiddrwydd. Yn 8fed na ladratta oddiwrth dy frawd un peth, bydded mor lleied ag y bo, o'r pethau hynny roddir tan dŷ gadwraeth; yn dy broffes neu yn dy alwad; ond bŷdd fodlon i'r pethau hynny a roddo efe i ti fel hûr, gan yſtyried nad o's gennyt ti iawn i'r hyn a fo arall yn alw yn eiddo ef ei hun.

Eu. Adroddwch ychydig ragor am eu temlau, eu haddoliadau, eu gwyliau, ac eraill o'u defoſiynau; am fod y Grefydd *Baganaidd* hon ryw beth yn wahanol oddiwrth y lleill oll.

Ap. Rhai o'u Temlau y rhai elwir Pagodau, ynt ardderchog iawn, wedi eu haddurno a Galeries, a Chappeli, ym mha rai y mae lluniau amryw o wyr a gwragedd y rhai meddant hwy oedd wedi arwain bywyd ſanctaidd; y rhai hyn ſydd wedi eu haddurnu a dillad aur, ac arian, a lampau, a chanhwyllau cŵyr yn lloſgi o'u blaen hwynt nôs a dŷdd.

Eu.

Eu. Ond pa beth yw gwaſanaeth y Pagodau hyn.

Ap. Mae yn gynhwyſedig mewn aberthau, lloſgi arogldarth, ymgrymiadau, daroſtyngiadau'r offeiriaid, merched ifaingc yn canu, ac yn dawnſio wrth lais offer gerdd o flaen y delwau, golygiaeth ar ba rai ſydd tan ofal y *Bramiaid*, ſef offeiriaid ag ſydd yn llwyth o bobl fel y *Leſiaid* ymhlith yr *Iuddewon*.

Eu. Diſgrifiwch ychydig ragor o'r offeiriaid hyn.

Ap. Llŵyth o bobl ynt, nad yw fyth yn priodi ond yn eu llŵyth eu hunain, ag ſydd hefyd yn faich mawr i'r cyffredin; can's yr holl lwyth ſydd yn cael eu cynnal a rhoddion, a thrwy haelioni'r bobl y rhai ſydd mor ddall a chredu bod y *Bramiaid* hyn yn dyſod oddiwrth y Duw *Brama*; ac am hynny eu bod yn ddynion ſanctaidd iawn. Ac y maent yn falch ac yn gyfrwys ddigon i feithrin yr anwybodaeth hon yn y bobl, trwy beidio cadw dim cymdeithias a'r rhyw waelaf o bobl, rhag ofn meddant iddunt gael eu halogi. A rhai o honunt ſydd yn ymneilltuo eu hunain oddiwrth y lleill o'u cymdogion: can's y mae monachod a Hermits yn eu plith, y rhai ſydd yn treulio eu hamſer mewn anialwch ac ogfeydd y ddaear; ac etto prin o boſibl mae hil o *Baganiaid* waeth ar wyneb y ddaear; can's y maent yn credu yn ddiau fod pob peth bydded mor ffiaidd ag y bo yn gyfreithlon pan y fo yn cael ei arferyd ganthunt hwy eu hunain. Ac y mae'r bobl yn cael eu twyllo felly ganthunt fel y maent yn credu y dont i fod yn ſanctaidd wrth fod yn gyfrannog o'u pechodau; neu trwy ddiodde un gorthrymder ar eu dwylo. Maent yn twyllo'r bobl yn druenus, am mae eu talentau mwyaf yw dychmygu celwyddau a Ffablau newyddion bob dydd, a gwneud y rhai'n i baſſo megis dirgeledigaethau rhyfedd o'u crefydd ymhlith y cyffredin bobl.

Eu.

Eu. Henweh rai o honunt.

Ap. Un o honunt yw perſwadio 'r bobl fod eu heulunod yw bwytta fel dynion; ac er mwyn iddunt gael digon o wleddoedd da, maent yn eu gwneud hwynt o faintioli anferthol, ac yn ddiau a ſafnau mawrion. Ac oes bŷdd yr offrymmau a pha rai y byddant yn maentumio eu teuluoedd yn llaeſu dyfod, hwy gyhoeddant ddigofaint y Duwiau newynllyd yn erbyn y bobl. Maent yn credu bod buwch a rhyw beth ynddi yn ddwyfol ac yn ſanctaidd, a dedwydd yw'r dŷn a gaffo ludw buwch i daenellu arno wedi ei lloſgi trwy law *Braman*; pan fo un marw oes gall eſ gael gafael ynghynffon buwch pan y bo yn darfod am dano, bydd yn gweld ei hun mor happus a *Phapiſt* fo yn marw a gwiſg *Capuchin* am dano: can's wrth gael y fath fraint a hon, mae yn ymadael a'r corph wedi ei buro, ac rai prydiau yn dychwelyd i gorph buwch, yr hyn edrychir arno yn fendith fawr; ac nid fyth yn cael ei ganiatau ond i eneidiau gwrol, y rhai ſydd yn diyſtyru bywyd, ac yn marw yn galonnog, naill ai trwy daflu eu hunain i lawr bendramwnwgl tros greigydd, neu neidio i gynneu o dân, neu daflu eu hunain tan olwynion y cerbyd ſanctaidd, i gael eu briwio i farwolaeth gan yr eulun tra fo hi yn cael ei dwyn mewn gorfoledd gylch y dre. Can's eneidiau dynion drŵg yn eu genedigaeth neſa fydd meddant yn trigo mewn cyrph cŵn a môch, neu ryw greaduriaid mwy afluniaidd.

Eu. Ai dyma 'r achos pa ham y maent yn gwahardd bwyta cîg un creadur byw?

Ap. Ie; na phyſcodyn, nag ehediad, nag un pedwar carnol, rhag iddunt ar ſiawns wrth wneud hynny ymborthi ar gorph ag y bu enaid tâd, neu ſam, neu gyfneſafiad yn trigo ynddo.

Eu. Chwi ſoniaſoch am gerbyd y ddelw yn cael ei ddwyn

ddwyn oddautu 'r ddinas, mynegweh ryw beth yn rhagor am hyn.

Ap. Mi ddywedais bod ganthunt ŵyliau, ar ba rai y maent yn dwyn yr eulun mewn profeſiwn gyda ſŵn cyrn ac utgyrn, a thorf fawr o bobl, yn bur gyffelyb i lûn *Mair* y forwyn ſydd yn cael ei ddwyn o ddautu mewn amryw o wledydd *Europ*; yn unig y gwahaniaeth hyn, fod delw duwies *Malabar* o'r fath faintioli anrhaethawl, fel y mae amryw gantoedd o wyr yn tynnu yn galed i ſymmud y wagen fawr ar ba un y mae hi yn cael ei goſod.

Eu. O's byddwch mor fŵyn ag adrodd rhyw ychydig am rai o'r ſectau eraill.

Ap. Gwnaf, ond yn gyntaf mae arnaf chwant dweud y dull maent yn ymweled a'r clâf, a chladdedigaeth eu marw.

Eu. Ewch rhagoch.

Ap. Pan y bo un yn gláf iawn a phob gobaith o wellhâd wedi myned heibio, hwy a'u dodant ef i ddywedud *Nauranne*, yr hwn yw un o enwau eu Duw, yn cynnwys trugaredd i bechaduriaid, o ba drugaredd y pryd hynny y mae ef yn ſefyll mewn eithaf angenrheidrwydd. Pan y bo ei yſbrydoedd ef yn darfod yr eſtynnant allan ei ddwylo ef, gan dywallt dwfr glân ynthunt, fel offrwm ei fywyd, gan weddio ar *Ciſtner-uppon* Duw 'r dwfr, i'w breſentio ef yn bur i Dduw, a'r offrwm hyn o'i law; ac ar ol ei farw, golchant ei gorph yn lân mewn dwfr, yn dyſtiolaeth o'i lendid a'i burdeb.

Eu. Ond pa ddull y mae 'r gladdedigaeth?

Ap. Yn gyntaf dygant y corph i lan dwfr ag a ſo cymmwys at yr achos, ac wedi ei oſod i lawr ar y ddaear y *Braman* a ddywed y geiriau hyn; O ddaear yr ym ni yn gorchymmyn i ti ein brawd hwn, tra fu byw,

byw, yr oedd gennyt ti hawl ynddo, o'r ddaear y gwnaethpwyd ef, trwy fendith y ddaear y porthwyd ef, ac am hynny y mae ef yn farw yr ym ni yn ei roi ef i ti. Ac ar ol hyn ennynant dân, ac olew peraidd, a phêraroglau wedi eu tywallt arno; y *Braman* a ddywed, O dân, tra fu ef byw, yr oedd gennyt ti hawl ynddo, trwy wres pa un yr oedd efe yn ymgynnal, yr ym ni gan hynny yn dychwelyd y corph hwn i tydi, fel y b'ech ti i'w buro ef. Yna y corph wedi ei lofgi yn ulw taflant y lludw gylch gwmpas yr awyr, a'r *Braman* a ddywed y geiriau hyn, O awyr, tra fy byw trwyddo ti yr oedd yn anadlu, ac yn awr wedi rhoi allan ei anadl diweddaf, yr ydym ni yn ei roi ef i tydi, a phan y bo'r lludw yn cwympo ar y dwfr, y *Braman* a ddyweed O ddwfr, tra fu byw dy leithdra di a'i cynhaliodd ef, ac yn awr pan y mae ei gorph ef yn cael ei rannu, cymmer di ran o hono. Fel hyn y claddant ef, gan roi rhan o hono i bob un o'r Elfennau, am eu bod yn credu bod bywyd dyn yn cael ei gynnal trwy'r pedair elfen hyn.

Eu. Ni's dwedafoch am eu addoliad cyhoedd ar ddiwrnodau neilltuol yn y Pagodau hyn.

Ap. Na ddo, ac nid o's ganthunt yr un ond anfynych iawn, can's pob un fydd yn cyflawnu ei ddefofiwn yn y pryd y mynno ef ei hun; ac i'r Ddelw a fo fe yn ei garu orau; a rhan fawr o'u haddoliad yw canu, dawnfio, a chwareu ar offer gerdd, gan offrwm Rife, a bwydydd eraill; maent hefyd yn golchi, yn harddu, yn addurnu, ac yn peraroglu eu delwau, hyd ag y gallant.

Eu. Ewch at fect arall o honunt.

Ap. Sect y *Rajaputes* ynt yn cyflawnu yr un dyledfwyddau moefol a'r *Bramiaid*, ond nid ynt yn ymgadw rhag un math o fwydydd ond y fuwch, a chîg rhai

creaduriaid eraill maent yn ei ddal ei fod yn ſanctaidd, o ba achos y drydedd ſect er eu bod yn cael eu cyfri yn îs etto ni's bwyttant gyda hwynt.

Eu. Pa fath yw y ſect hon?

Ap. Y ſect hon yw y fwya cyfoethog, a'r fwya lluoſog o'r holl *Baganiaidd* Lwythau; a rhai'n ſydd wedi cael eu rhannu yn bedwar llwyth ar hugain, o phob un o honunt a rhyw addoliadau yn eu crefydd nad yw gan y ſectau arall, er eu bod o'r un enw; ac ni's prioda, ac nis cŷd fwytta un o'r ſect hyn ag un o'r ſect arall ar un telerau; ond un peth mae'r holl lwythau yn cyttuno yn ei gylch, ſef tynerwch at bob creaduriaid, y rhai nid ynt yn unig yn arbed eu lladd, ond eu hamddeffyn, gan wneuthur rhag-ddarbod troſtunt; a hyn fyth ſydd yn tarddu oddiwrth eu tyb, fod pob creadur gwych neu wael, hyd yn oed y gwyfyn lleia ag enaid rhyw ddynion wedi marw ynddunt, ar ol eu hymar weddiad hwy yn y bywyd hwn; ond y fuwch maent fwya yn ei berchu, fel y *Bramiaid*, i ba un y maent yn rhoi addoliad bob borau; nid yn unig am eu bod yn meddwl, bod y creaduriaid mwya happus yn cymmeryd ei fynu eu trigfan yn y creaduriaid hyn, ond hefyd am ar ol marw, fel y mae'r *Bramiaid* yn dyſcu, fod y creadur hyn yn eu harwain hwynt tros afon fawr, trwy ba un y byddai yn amhoſibl myned, oni b'ai cael gafael ynghynffon y fuwch. Ac fe ddwedir fod cymmaint o anrhydedd i fuwchod hefyd, am eu bod yn dychmygu fod ſeilfeini'r byd yn gorphwys ar eu cyrn hwy.

Eu. Mi wela mae yr un peth yw dŷn yno ac ymma, mae'r cariad ar ol ſect, ac enw yr un peth ym *Mrittain* ym mhlith Criſt'nogion, can's fe edrych yr holl rai opiniwngar arno ymma yn anyſgrythurol i briodi neb

ond

ond o'u llwyth, eu ſect, a'u opiniwn eu hunain, a phwy ryfeddod yw eilwaith fod y *Bramiaid* yn credu fod y byd yn gorphwys ar gyrn gwartheg, pan y mae hyn yn ffydd myrdd gyda ni er nad ydŷs yn ei haddef fel athrawiaeth, can's pan collo dŷn anifail, mae yn ymddangos fel pe na b'ai un Duw i'w gynorthwyo, ac fod pob daioni wedi ei golli gyda hwynt, am yn ei farn ef fod y byd yn gorphwys ar eu cyrn hwynt.

Ap. Gwir yw, mae holl *Europ* nad yw yn gwir gredu, yn wir *Baganiaid* yn eu calonnau; ac nid yw yr athrawiaethau a ddyſgaſant yn eu dealltwriaethau yn gwneud dim gwahaniaeth rhyngthunt a'r *Paganiaid.*

Eu. Ond ewch rhagoch am y *Banianiaid.*

Ap. Maent mor gryf yn eu cred fod eneidiau wedi ymadael a'r cyrph yn myned i gyrph anifeiliaid, ehediaid, a phryfed, fel pa bryd bennaf y gwelont un rhyw greadur yn ymweled yn fynych a'u teiau, maent yn union yn tynnu canlyniad, mae rhai o'u cyfeillion a fuant feirw fydd yn dyfod i ymweled a hwynt. Ac mor dyner maent at bob creaduriaid, fel oes bydd iddynt ddeſtriwio chwannen, neu wyfyn, mae yn gofyn iddynt wneud rhyw iawn anarferol i eiriol am y fath fai. Ac nid yw y *Banianiaid* nid yn unig yn ymwrthod a lladd un creadur byw fel y dywedpwyd eiſioes, ond yn adeiladu Hoſpitals iddunt, yn enwedig mewn un man o fewn i filltir i dref *Surat*, lle mae geifr, cyffylau, cŵn a buwchod, y rhai fydd yn digwydd i fod yn gloff neu dros ben oedran wedi paratoi iddunt yn gyflawn, hwy a bŵrcaſant ŷch cloff gan ei berchennog i'w oſod yn yr Hoſpital, yn hytrach na diodde i'w feiſtr i'w ladd ef. Fe ddwedir fod y *Banianiaid* un waith yn y flwyddyn yn gwneuthur gwledd i'r cilion, gan oſod o'u blaen hwynt ddiſgleidiau llawn-

ion o laeth a Siwgr; bryd arall fe gymmer *Banian* gwedaid o *Rife*, a chan rodio allan ddwy neu dair milltir, a'i tafl ef ar bob crug morgrug ag byddo ef gyfarfod yn ei ffordd.

Eu. Er bod hyn y radd eitha o ynfydrwydd, etto nid llawer llai pechod yw, ymbleferu cymmeryd ymmaith fywydau rhai creaduriaid yn ddiachos, neu eu harfer yn greulon heb un math o angenrheidrwydd; y creaduriaid dof y rhai ydym ni wedi ei wneud yn gyfeillgar a ni, ac o bofibl wedi cael llawer o wafanaeth oddiwrthunt, y cam arferiad o honunt fydd a rhyw ymddangofiad o anghyfiawnder, ac anniolchgarwch.

Ap. Mawr iawn yw'r camymarfer o greaduriaid fydd, yn gyftal wrth ddwyn eu bywydau yn ddiachos, a'u poeni yn ddidrugaredd wrth eu dihenyddu: lleddir hwynt weithiau trwy angau hîr a phoenus, lle gellid gwneud diwedd arnunt mewn munudun; weithiau rhoddir un creadur i ladd y llall (y peth mwya creulon ac annaturiol) er difyrrwch i'r dynion didrugaredd; weithiau fe eu helir hwynt amryw oriau, lle gellid eu lladd yn llai poenus; yn fyrr ni edrychir arno i ddwyn bywyd creadur un pechod pa ffordd benna, er bod hyn yn cael ei wahardd yn yr Hên Deftament, fel nad oedd tynnu nyth y *Wennol* na'r *Driw* heb ddangos trugaredd fef peidio lladd y fam ynghyd a'r Cywion. Ond i droi yn ol at Grefydd y *Banianiaid*, maent nid yn unig yn dyner o fywyd anifeiliaid, ond yn fynych yn eu haddurnu hwynt a breichledau, a modrwyau, ac yn ymeftyn eu gofal hyd yn oed at goed, a llyfiau, gan eu lliwio hwynt ag amryw liwiau; y pren *Banian* yn neilltuol, tan ba un y maent yn fynych yn gofod eu heulunod, fydd yn cael ei addurno a banerau ac a rhibanau.

Eu.

Eu. Chwi a ddywedasoch nad oedd un amser enwedigol ganthunt i gasclu ynghyd at wasanaeth eu Duwiau.

Ap. Do, ond y maent yn cadw y nawfed dŷdd o bob mîs, a'r pedwarydd ar hugain yn ympryd, yr hyn y mae eu plant yn orfod gadw yn fanwl gyda hwynt: y mae ganthunt amryw Hymnau, a Chaniadau ag y mae eu hoffeiriaid yn ddyscu iddunt, o weddiau, ac o glod i'w Duwiau, a pha rai maent yn dechreu 'r dŷdd, ac yn ei ddiweddu eilwaith; ac weithiau hwy fyddant yn adrodd yr Hymnau hynny bob yn ail; un yn adrodd un wers, a'r lleill eu gid mewn cŷdsain yn ei atteb ef a gwers arall, heb gymmaint ag awr o ddistawrwydd trwy 'r dŷdd pan y bont yn cŷd weithio; can's y mae 'r *Bramiaid* yn awr fel y *Derwyddon* gynt yn dyscu Egwyddorion eu crefydd i'w pobl mewn caniadau, y rhai am nad yw gyfreithlon i neb ond y *Bramiaid* eu hunain, sef yr offeiriaid i edrych i'r llyfr *Fedam*, y maent yn eu dyscu i'r bobl ar eu tafodau, ac yn wir y mae ef wedi ei sc[illegible]ennu mewn hên iaith nad yw neb yn ei deall ond hwynt eu hunain, a rhan o honi hefyd tu hwnt i'w deall hwy. Y mae rhan fawr o'u crefydd yn gynhwysedig mewn aml olchiadau, a chadw eu hunain yn ddihalog rhag cyffwrdd a Chrisstiannogion, a rhai asian eraill, fel y cyfrifant hwy bob dŷn dieithr; byth ni's yfant o'r un llestr a dŷn dieithr, nac un llestr y cyffyrddo ef ag ef; ac y maent yn yr afradlondeb hyn mor bell, na's yfant o'r ffynnon y bo un llestr asian wedi ei ollwng i lawr a halogi 'r dŵfr. Yn brawf o hyn, mae gennyf wir hanes am 6 neu 8 o *Saeson* a aethont allan ar dywydd gwresog i weled pentrefi rhai o'r *Indiaid* hyn, a hwy a geisiasant dynnu dwfr o un o'u pydewau, ond pàn gwelodd yr *Indiaid*, hwy a gasclasant ynghyd

mewn eitha ſynnedigaeth, gan ymbil ar y *Saeſon* beidio a gwneud iddunt ddrŵg mor fawr, can's o's gollyngent i lawr un lleſtr ag oeddent wedi cyffwrdd ag ef, nid oedd iddunt arferyd y dŵfr bŷth mwy. Hyn a gynhyrfodd ryw amrafael ar y cyntaf, am fod y *Saeſon* yn ſychedig, ac ni's mynnent fyned ymlaen heb yfed; ond o'r diwedd trefnwyd i'r *Indiaid* i dynnu allan y dŵfr yn eu lleſtri eu hunain, ac yna ei dywallt mewn cwppanau ag oeddent hwy yn eu rhoi i'r *Saeſon*, y rhai oedd raid eu torri yn union mor gynted ag y darfyddent yfed o honunt, fel na byddai i neb o'u holl lŵythau hwy fyth i gael eu halogi ganthunt.

Eu. Od oes un peth hynod etto mewn Sect arall yn yr *India* o Eulunaddolwyr rhowch ddeſcrifiad o honunt?

Ap. Y mae llwyth o bobl ym mhlith y *Paganiaid* hyn elwir *Ffacwiriaid* (megis y mae hefyd ymhlith *Mahometaniaid*) y rhai ſydd yn gwneuthur Addunedau gweddwdod, a Thlodi; a rhai o honunt ſydd yn rhoi arnunt eu hunain boenau na chlywyd am eu bâth, mewn trefn i haeddu ewyllys da eu Duwiau hyd yr eithaf: mae 'r bobl a pharch mawr iawn i'r rhai'n, ac yn edrych arno fel gweithred haeddiannol iawn i'w cynnorthwyo hwynt; mae 'r offeiriaid hyn yn llŵchio eu gwalltau a lludw, yr hwn y maent yn adael i crogi i lawr i hanner eu cefnau; maent yn goſod eu hunain i lawr yn noeth tan rai coedŷdd, heb un gwelu na gorchudd, na gobennydd i orphwys eu pennau arno, gan gaſclu 'r llŵch a'r baw ynghyd, a pha beth y maent yn llychwino eu cyrph; rhai o honunt ſydd yn gwneud addunedau i gadw eu cyrph yr un ddull holl ddyddiau eu bywyd, ac o'u gwir ſodd a ŵyrgammant ac a yrrant eu heſcyrn eu hunain o'u lle; rhai a eſtynnant eu dwylo i fynu tua 'r nêf, a thrwy eu dal i fynu yn hîr yn yr un ddull ni's gallant eu tynnu i lawr dra-

cheſn

chefn heb fawr orcheſt; ac ewinedd eu byſedd ſydd yn cael tyfu cyhŷd ac ewinedd erryrod; eraill a ſafant i fynu gan edrych yn hyll tua 'r nêf, a thaflu eu pennau yn ol cymmaint rhwng eu hyſgwyddau, fel na's gwelont ddim ag ſydd yn ſymmud ar y ddaear, megis pe b'ai 'r bŷd iſod hwn o ddim prîs i ddal ſylw arno; ond cyn y gallont ddwyn eu hunain i'r dull hyn maent yn gorfod myned trwy fŷd o boenau a chaledi; yr hyn ar ol iddunt mewn meſur ei faeddu, a dyfod yn hollol ddi ddefnydd a di waſanaeth iddunt eu hunain ac eraill, y mae ganthunt wâs neu ddau i attendo arnunt, ac i'w dwyn o un lle i'r llall. Y mae eraill a lwythant eu hunain a chadwyni trymmion o haiarn, y rhai y maent yn luſco ar eu hol tra fyddont byw; rhai o honunt fydd a'u llaw ddeheu tros eu hyſgwydd aſſwy, a'r aſſwy tros yr yſgwydd ddeheu, ac yn ymglymmu ynghyd ymlaen ar eu mynweſau, a chledr eu dwylo wedi eu troi allan, yr hyn ni's gellir wneud heb nyddu 'r breichiau yn gylch, a gyrru o'u lle eſgyrn yr yſgwydd: a rhaid yw i hyn eu rhoi hwynt mewn poen dirfawr cyn y gellir ei gyflawnu. Eraill o'r *Facwiriaid* ſydd yn addunedu na eiſteddant, ac na orweddant i lawr un amſer, ond naill ai o hyd rodio, neu ſefyll, neu bwyſo ac ryw beth; ac yna rhwymant râff o un canghen o bren i ganghen arall o bren arall, a goſodant gluſtog yn ſiccr ar y rhâff hon, ar ba un wed'yn y pwyſant; ac ar hon y byddant yn chwildroi yn ol ac ymlaen ddŷdd a nôs; ond y maent yn cyfnewid yr arfer hyn pan y bont yn gweddio, can's ſe'u tynnir hwynt i fynu wrth eu ſodlau i gangen y pren, a'u pennau i lawr tua'r ddaear, megis rhai anheilwng i edrych i fynu tu a'r nef: ac oddiwrth weddiau y rhai hyn bendithion lawer ydŷs yn ddiſgwil, ac amryw drallodau ydŷs yn ei droi heibio; mae'r

bobl

bobl yn cynnill gyda llawer iawn o dduwiolder i'r lleoedd y mae'r penydau hyn yn cael eu cyflawnu; ac y mae'r dynion ag ſydd yn diodde 'r poenau hyn yn cael gair mawr iawn am eu ſanctteiddrwydd, ac bron cael eu haddoli yn amſer eu bywyd, a diau o's yw ffafr y nef i gael am waith o benyd a diodde poen i farweiddio pechod, mae gan y bobl hyn ragor o liw neu rîth hawl am dani nag ſydd gan y dynion yn y rhan hyn o'r bŷd, ond deallwch *Euſebius* mae nid yr holl bobl ag ſydd tan yr enw *Facwiriaid* ſydd fel hyn, can's amryw o honunt ſydd yn mynd o ddautu yn gwmpniaethau o dref i dref, ac o dŷ i dŷ, ac yn cael bŷd da gan y bobl, am fod pawb yn credu yn dda am danunt.

Eu. Yr wyf am beidio 'ch blino chwi ymhellach am Grefydd yr *Indiaid*, am fy mod yn meddwl eich roi im' megis amnaid am bob rhyw o eulunaddoliad ſydd yno; dewch bellach yn nes i dref i roi gwybod ychydig am yr eulunaddoliad o ddautu gwlad *Canaan*, yr hyn oedd *Iſrael* Duw mor barod i'w goſleidio.

Ap. Mi wnaf, ond dweud i chwi fod yn yr *India* ymma, etto fath arall o *Baganiaid*, a ddaeth troſodd o *Perſia*, pan concwerwyd hi gan y *Mahometaniaid*; mae y rhai'n yn meddwl i'w rhoddwr cyfraith hwynt, yr hwn a alwant *Sertooſt* neu *Soroaſtres* arno, i gael ei gymmeryd i fynu i'r nêf, ac i Dân yno i gael ei roddf iddo, yr hwn a ddygodd ef ganddo i wared, ac orchmynnodd i'w ddyſcŷblion i addoli Duw trwy y ſymbol hyn o dân, ac y maent yn cadw tân i loſgi yn waſtadol mewn lampau yn eu Temlau, yr hwn y mae eu hoffeiriaid yn edrych atto nôs a dŷdd, ac yn ei borthi ag olew; ac fel y maent hwy yn meddwl, mae'r tân hyn yn lloſgi er llawer o oeſoedd ac o genhedlaethau;

ac

ac am mae hen *Baganiaeth* yw hon, cyn dyddiau ein IACHAWDWR, mi rof hanes o honi ar ol ſon ychydig am eulunaddoliaeth ag oedd yngwlad *Iſrael* a *Phaleſtina*, a'r *Baganiaeth* oedd yn *Rhufain* yn nyddiau ein IACHAWDWR: can's yn *Media*, a *Pherſia*, gwledydd cymdogaethol i'r *Iuddewon* yr oedd y Grefydd hon mewn bod, a rhan fawr iawn a dynnwyd oddiwrth Grefydd yr Hên Deſtament; ac hefyd Crefydd yw hi yn awr ſydd wedi colli ei grym a'i hawdurdod, a nifer fach yn ei phroffeſu yn *Media*, *Perſia*, a'r *India*, mewn cydmariaeth i'r Grefydd *Fahometanaidd* ſydd yno yn goreſcyn wyneb yr holl dir.

EU. Tueddiad cryf ſydd ynnof i glywed am yr eulunaddoliad, enwau 'r Duwiau, a phwy oeddent yn feddwl wrthynt, yn *Caldea*, *Babilon*, yr *Aipht*, *Syria*, *Aſſyria*, a'r holl wledydd cymdogaethol i wlâd *Canaan*; megis *Moab*, *Philiſtia*, ac eraill, am fod hanes gywir o'r rhai hyn yn rhoi im' oleuni mewn amryw fannau o'r Hên Deſtament: mae hynny yn fy mlino pan bwyf yn ddarllen am *Moloc*, *Milcom*, *Baal*, *Baal Berith*, *Bel* a'r *Ddraig*, *Balim*, *Remphan*, a'u *Seren*, Duwiau *Sepharfaim*, y Duwieſau *Aſtoreth*, *Diana*, *Brenhines y Nef*, a'r fath na's gallaf ddeall pwy oeddent, pa un ai Haul, Lloer, Sêr, neu ddynion, neu ryw greaduriaid eraill, nid oes gennyf ond dweud enwau heb yſtyr; am hynny roddwch im' hanes mor belled ag y gwyddoch am yr hên eulunaddoliaeth oedd o ddautu gwlad *Canaan*, i'r hon darfu plant yr *Iſrael* o brŷd i brŷd i fyrthio, am ba un y ceryddwyd hwynt yn chwerw iawn.

AP. Cyn dweud dim am y Duwiau na'r Duwieſau enwaſoch, angenrhaid yw i mi ddangos i chwi, pa brŷd,

brŷd, a pha fodd, ac ym mha le y dechreuodd eulunaddoliaeth yn ei grym, a'i phwer.

Eu. Nid yw hynny ond peth ag oeddwn yn ofyn i chwi er's tro.

Ap. Y wir Grefydd, a ddyfgodd *Noah* i'w hiliogaeth, oedd honno a ymarferodd *Abraham*; fef addoli un Duw, pen llywodraethwr, a chreawdwr pob peth, a gobaith yn ei drugaredd ef trwy gyfryngwr. Can's yr angenrheidrwydd o gyfryngwr rhwng Duw a dŷn oedd yn farn gyffredin, ag oedd wedi ennill ymlith dynol-ryw er y dechreuad. Dynion oedd yn cael ynddynt eu hunain eu bod yn wael, yn aflan, ac yn amhur, yn methu deall pa fodd y gall'fant o honunt eu hunain i gael un math o ddyfodfa at lywiawdwr perffaith fanctaidd a gogoneddus yr holl greadigaeth. Yr oeddent yn edrych arno ef yn rhŷ uchel, yn rhŷ bur, a'u hunain yn rhŷ iffel, a llygredig at y cyfryw gymdeithias: am hynny darfu iddunt derfynu, fod yn rhaid bod cyfryngwr. trwy gyfryngdod pa un yn unig gallent wneuthur un math o ddyfodfa atto, a thrwy eiriolaeth pa un yn unig y gallai eu gweddiau hwynt fod yn gymmeradwy. Ond nid oedd un datguddiad goleu etto wedi ei wneud o'r cyfryngwr, ag oedd Duw wedi ei appointio; ac o ran etto nad oedd wedi cael ei ddatguddio i'r bŷd, hwy a gymmerafant arnunt i neffau atto trwy gyfryngwyr o'u dewifiad eu hunain. Ac am eu bod yn tybied fod yr Haul, y Lloer, a'r ſêr yn bebyll, neu drigfannau rhyw yſbrydion, y rhai oedd yn goreſcyn, ac yn cyfaneddu yn y rhai'n, fel y mae enaid dyn yn ei gorph; ac oedd yn achoſion o'i holl yſgogiadau; a bod yr yſbrydion hyn o natur ganol rhwng Duw a hwynt. Hwy tybiafant y rhai'n yn rhai mwya addas rhwng Duw a hwynt eu hunain. Am hynny gan fod y Planedau yn agoſach attunt, nag un o'r

o'r lleill o'r cyrph nefol, ac yn gyffredin yn cael edrych arnunt a rhagor ganthunt o awdurdod yn y bŷd hwn, hwy a'u dewisasant hwynt yn gyntaf yn gyfryngwyr rhyngthynt a Duw, i eiriol trostunt ar yr Hollalluog, ac i gael ganddo y trugareddau a'r rhoddion ag oeddent yn weddio am danunt, ac yn ganlynol hwy roddasant addoliad dwyfol iddunt fel y cyfryw. Ac yma dechreuodd yr holl eulunaddoliad a arferwyd yn y bŷd. Hwy a'u haddolasant hwynt yn gyntaf, *Per Sacella*, hynny yw, trwy eu pebyll, ac yna trwy eu delwau eilwaith. Wrth y *Sacella* hyn, neu y pebyll, yr oeddent yn meddwl cyrph y planedau en hunain, y rhai oeddent yn edrych arnunt fel trigfannau sanctaidd, ym mha rai yr oedd ysbrydoedd neu eneidiau y creaduriaid godidog ag oedd i fod yn eiriolwyr yn cyfanneddu. Ac am hynny pan y byddent yn talu addoliad i un o rhai'n, byddent yn cyfeirio eu gwasanaeth at y blaned ymha un yr oeddent yn tybied ei fod yn cyfanneddu. Am fod cyrph y planedau hyn trwy ei codiad a'u machludiad, cyhyd o amser tan y ddaear ag ar y ddaear, yr oeddent yn methu deall pa fodd i gyfeirio eu haddoliad attunt yn amser eu habsennoldeb; a thuag at feddyginiaethu hyn, dêfeisiasant wneud delwau, ym mha rai ar ol eu cysegriad yr oeddent yn meddwl bod yr ysbrydoedd ardderchog hyn, neu y Rhag-dduwiau gymmaint yn bresennol yn eu heffeithiau ag yn y planedau eu hunain; a bod pob rhyw addoliadau ag oeddid yn ei wneuthur mor effeithiol at y naill a'r llall. I'r delwau hyn rhoddwyd enwau 'r planedau ag oeddent yn eu ddal allan, y rhai ydynt yr un ag yr enwir hwynt yr awr hon. Oddiyma y mae *Saturn*, *Jupiter*, *Mars*, *Apolo*, *Mercuri*, *Venus* a *Diana*, yn cael eu henwi yn flaenaf yn eulunaddoliaeth ein Hynafiaid: can's hwy ydoedd eu Duwiau cyntaf hwynt.

Ar

Ar ol hyn daeth tyb gref fod gan ddynion da wedi marw allu hefyd gyda Duw i gyfryngu ac eiriol troſtunt; darfu iddunt dduwio amryw o rhai hynny ag oeddent yn eu dybied felly; ac felly rhifedi eu Duwiau a gynhyddaſant yn nyddiau eulunaddolgar y bŷd. Fe ddechreuodd y grefydd hon yn gyntaf ym mhlith y *Caldeaid*, eu gwybodaeth mewn Aſtronomyddiaeth a'u cynnorthwyodd i'w harwain iddi. Ac oddi wrth hyn y darfu i *Abraham* i neilltuo ei hun, pan daeth ef allan o *Caldea*; oddi wrth y *Caldeaid* hi dannodd ei hun tros holl yr Ddŵyrain-dír, lle cafodd y Proffeſwyr o honi yr enw *Sabiaid*. Oddiyno hi aeth troſodd i'r *Aipht*, ac oddiyno at y *Groegiaid*, y rhai a'i tannodd hi at holl genhedlaethau gorllewinol y bŷd, Y mae gweddill o'r Sect hon fyth yn parhau yn y Dŵyrain tan yr enw *Sabiaid*; yr hyn y maent yn gymmeryd arnunt i'w dderbyn oddi wrth *Sabias* mab *Seth*. Ac ym mhlith y llyfrau ym mha rai y mae athrawiaethau eu Sect hwy yn gynnwyſedig, mae ganthunt un ac y maent yn ei alw Llyfr *Seth* arno, gan ddweud ei gyfanſoddi ef gan y Patriarch hwnnw.

Eu. Bellacd mi gaf glywed rhyw beth am yr hên eulunaddoliad o ddautu gwlâd *Canaan*; ac yn gyntaf, gofynnaf i chwi pwy oedd y *Moloc* hwnnw ſonier cymmaint am dano, fod plant yr *Iſrael* yn rhoddi eu plant iddo trwy 'r tân.

Ap- Anhawdd iawn ffeindio 'r gwirionedd i maes am bethau aeth heibio er's dwy fil o flynyddau; ni adroddais i chwi etto ond haneſion am y grefydd baganaidd ag ſydd yn y dyddiau hyn yn *Affrica*, yn *America*, ac yn *Aſia*, mae trading a marſiandaeth mor ehang yn awr trwy 'r bŷd, yn enwedig gan y *Dutſh*, y *Ffrancod*, y *Portugueſe*, a ninnau, fel nad oes nemawr o ardaloedd y bŷd ag mae pobl ynddunt nad oes rhai yn

yn myned i drado o *Europ* trofodd, ac yn cael gweled a'u llygaid y pethau a ddywedais wrthych; ac y mae mŷrdd o ddynion yn fyw ag fydd yn abl o dyftion o'r pethau hyn; a llawer wedi fcrifennu, a rhai o honunt yn bobl eirwir, gâll, fynhwyrol, ac anhawdd oedd iddunt gael eu twyllo; ond am roi i chwi ddefcrifiad o'r delwau, yr eulunod, a'u haddoliadau yn yr amfer gynt yn yr *Aipht*, *Affyria*, *Phenicia*, *Paleftina*, a holl ardaloedd o ddautu gwlâd *Canaan*; gyda pha eulunod y putteiniodd yr *Iuddewon*, ni's gallaf wneud y peth allan mor amlwg ac am y lleill, ond mi gymmeraf yr awdwyr goreu, ac a gewch yr hanes mwya cywir ag allaf ei ffeindio. Am *Moloc*, yr hwn yr adeiladodd *Salomon* deml iddo ar y bryn gyferbyn a *Jeruſalem*, yr hwn elwir weithiau *Molec*, weithiau *Milcom*, yr hwn oedd yn cael ei gyfrif nid yn unig yn Dduw meibion *Ammon*, ond hefyd yn Dduw y *Moabiaid*. Mae lle i fod yn gryn ficcr mae yr un oedd hwn a *Baal*; nid yn unig am fod eu henwau yr un yftyr, eich dau yn arwyddoccau Tywyfog, neu Arglwydd, ac am fod yr un ebyrth yn cael eu rhoi iddunt, fef llofci eu plant, ond bennaf am fod y gair yn *Jeremi*, 32. 35. Yn gofod eu lle o addoliad, a'u henwau yn ûn; gan ddweud fel hyn *Hwy adeiladufant uchelfeydd* Baal, *yr rhai fydd yn Nyffryn mab* Hinnom, *i wneuthur i'w meibion a'u merched i trwy fyned dân i* Folec: y mae *Baal* yn nechreu'r wers yn cael ei alw yn *Folec* yn y diwedd. Gwelwch yma y lle o addoliad yn ûn, a *Molec* yn niwedd y wers yn agoryd pwy oeddid yn ei feddwl wrth *Baal* yn y dechreu. A pheth cynnefin fod yr un Duw yn cael ei addoli gan amryw Genhedlaethau tan amrywiol enwau.

Eu. Ond bellach, pwy ydoedd y Duw hwn? pa un a rhyw ddŷn hynod, neu un o'r planedau. neu ryw greadur arall?

Ap. Diau mae un o'r 7 blaned: ac nid oes dim argoel llai nad yr haul ydoedd y *Moloc*,, neu y *Baal* hwn, o's chwiliwn, ni gawn y fath gymmyſcedd rhwng y planedau, fel yr oedd yr haul weithiau yn cael ei galw *Baal*, weithiau *Moloc*; felly y gelwid hi weithiau *Saturn*, weithiau *Jupiter*; ac y mae *Euſebius* yn cymeryd yr haul, *Jupiter*, a *Baalſamen*, hynny yw, Brenhin y Nêf yn un. Diau fod yr haul yn cael ei haddoli tan yr enw *Saturn*, ac wrth yr hanes ydym yn ei gael yr oedd delw *Saturn* a *Moloc*, yn agos yr un fath, a phlant yn cael eu haberthu i'r naill a'r llall; dywedir am *Saturn* ei fod wedi ei wneud o Brês, yn anfeidrol ei faint, yn eſtyn ei freichiau i lawr tua 'r ddaear, fel pe buaſai am freicheidio 'r plant aberthid iddo; yr oedd yn geu o mewn, a thân yn lloſci yntho, a'r plant oedd yn cael eu taflu i mewn, fel i glawdd mawr o dân. Fe ddywedir am *Foloc* eilwaith, fod ei dŷ addoliad ef tu faes i *Jeruſalem*, mewn lle neilltuol. Yr eulun oedd o brês, yr oedd gantho 7 capel, a'r ddelw o'u blaen hwynt oll, neu yr oedd ei deml ef yn cynnwys 7 rhan wahanol, (fel yr oedd y deml yn *Jeruſalem* yn cynnwys tair rhan,) a chanddo wyneb ŷch, a'i ddwylaw yn tannu ar lléd fel dŷn, a'u heſtyn allan i dderbyn rhyw beth gan un arall: yr oedd yn geu o mewn, ac wedi ei oſod ar dán, a phob un yn myned rhagddo fel y b'ai ei offrwm; yr hwn a offrymmai Ehediaid i'r capel cyntaf, neu 'r cyntedd cyntaf o'r deml; a'r hwn a offrymmai ddafad i'r ail, oen i'r drydŷdd, llô i'r bedwaredd, buſtach i'r bummed, ŷch i'r chweched, ond yr hwn a offrymmai ei fab i'r ſeithfed: felly delw *Moloc* a *Saturn* oedd yr un fath; a'r haul ar ol pob arwydd ydoedd y ddwy. Y faith gapel hyn yn nheml. *Moloc* oedd yn bur gyffelyb i'r 7 borth oedd gan y *Perſiaid* er anrhydedd i'r haul; ac fel yr oedd y 7 borth

gan

gan y *Persiaid* felly hefyd y 7 capel hyn oedd yn gyscod ol yn dal allan y 7 blaned ar ba rai yr oedd *Moloc*, neu yr haul yn dywysog.

Eu. Ond pa ddull yr oeddent yn rhoi eu plant iddo trwy dân.

Ap. Pan y byddai 'r offeiriad wedi derbyn y plentyn gan ei riëni, fe ei taflai ef i mewn i'r ddelw, naill ai trwy ei safn hi, neu ryw fan arall ynddi; ac fe ddywed rhai fod 7 dwll yn ei mynwes; ac nad oedd hi ar lûn dŷn ond hyd ei hanner; ac wedi ei dodi ar ffwrnais fawr yn llawn o dân; a'r 7 dwll oedd i dderbyn i mewn yr ebyrth; y cyntaf yr hwn oedd agos i'r gwregis oedd at dderbyn cann gwenith, yr ail at golommenod, y trydydd at ŵyn, y pedwarydd at hyrddod a geifr, y pummed at loi, y chweched at deirw, y seithfed at plant bychain. A phan y byddid yn eu taflu i mewn fe fyddai amrywiol iawn o leisiau, megis llais y drwm, ac offer gerdd eraill, tuag at foddi swn y plant f'ai 'n llefain, a syfrdanu ychydig ar ysbrydoedd y rhiëni; oddi wrth yr offer gerdd hyn y gelwid y lle *Tophet*, ac oddi wrth leisiau 'r plant y gelwid ef *Gehenna* *.

Eu. Ond a oeddid yn llosgi'r holl blant oeddid yn offrymmina iddo yn wastad yn y tân?

Nodau.

* Nid oedd yr hên scrifenwyr yn gwneud dim defnydd o'r gair hwn, ac yn yr Efengil arserwyd ef yn gyntaf gan ein Hiachawdwr am le 'r damnedigion, am fod dyffryn *Hinnom* gerllaw *Jerusalem* yn gyscod o honi, nid yn unig am waeddfau 'r plant oedd yno, yr hyn y mae 'r gair *Gehenna* yn arwyddoccau, ond hefyd am fod tân mawr yn lloschi yno yn wastad tuag at ddifa holl bethau drewllyd, ffiaidd, gwenwynllyd y drêf; yr hwn a ddechrewyd ei ennyn yn nyddiau *Josia*, y Brenhin hwnnw, 2 *Brenh.* 23. 10.

Ap. Nag oeddent can's yr oedd ynma ddau fath o aberthu plant, fef eu tynnu hwy rhwng dau dân, megis yn unig eu cyffegru hwynt i *Foloc*, yr hyn fyddai 'r offeiriaid yn ei wneuthur; ond eraill y rhai fyddent am fod yn fwy gwrefog yn eu Crefydd, ac yn fwy ffyddlon i *Foloc*, a'u rhoddent i'w lloſgi yn ulw; trwy i'r offeiriaid eu taflu mewn i gorph y ddelw, ac yna y tân a fyddai yn y ffwrnas fawr a'u lloſgai hwynt yn fuan. Amryw o aberthau eraill oeddid yn roddi i *Moloc*, *Baal*, *Sadwrn*, neu tan ba enw arall benna yr oedd yr Haul yn myned, megis yn nyddiau *Elias*, 1. *Brenh.* xviii. Ac nid oedd dim rhwym arnynt i roi eu plant, ond o ewyllys rhydd am ei fod yn waith mwy haeddianol a gogoneddus; onite buſtych, defaid, ŵyn, lloi, geifr, hyrddod teirw, a'r cyffelyb oedd fynychaf eu hebyrth; ond dŷn oedd yr aberth pennaf, a thyna yr achos y byddai'r addolwyr yn aml yn torri eu hunain a chyllill, ac ag ellynod, am fod yr eulun yn ymhyfrydu cymmaint mewn einioes dŷn.

Eu. Pa fodd y daeth yr arfer ofnadwy ac annaturiol o aberthu plant?

Ap. Pa ddynion bennaf fyddai yn aberthu eu plant i eulunod yn *Aſſyria*, *Paleſtina*, neu o ddautu *Jeruſalem*, mae'n bur debig mae ſŵn am *Abraham* yn gwneud y cyfryw weithred odidog, a'r enw, y gogoniant, a'r clod a gafodd ef gyda dynion, ynghyd a'r derbyniad a gafodd gyda Duw, wedi eu dannu ar llêd trwy'r bŷd, a annogodd y *Paganiaid* i roi eu plant trwy'r tân i'w Duwiau hwythau; ac i ſiccrhau hynny, mae *Jer.* vii. 31. ynghyd xxxii. 35. yn goſod allan fel pe b'ai Duw yn ymddeffyn ei hun, nad oedd ef yn meddwl wrth orchymmyn i *Abraham* i aberthu ei Fâb, i neb arall wneud hynny ar ei ol ef.

Eu. Oes oddiyno cafwyd y dechreuad, 'r rwyf yn rhyfeddu

rhyfeddu cymmaint pa fodd daeth yr arfer o aberthu dynion i *America*, pan na bu erioed gyfeillach rhyng thynt hwy ar Grefydd *Iuddewig*, ac yr wyf yn rhyfeddu bod dynion yno.

Ap. Nid oes neb ŵyr lai nad o ddinas *Carthage* yn yr *Aipht* ‡ y poblwyd *America* gyntaf, can's gwir yw

---

Nodau.

‡ Dinas grêf, gadarn yn y dyddiau gynt yn nheyrnas *Tiwnis* yn *Affrica*, yr hon adeiladwyd fel yr ydys yn tybied 883 o flynyddau cyn geni ein Iachawdwr, gan y *Tyriaid*; ac 135 o flaen *Rhufain*; y ddinas hon a ryfelodd a'r *Syreniaid*, ac a ddugasant eu harfau ym mlaen i'r Gorllewin o *Affrica*, a orchfygasant y *Mauritaniaid*, y *Numidiaid*, ac ostyngasant tan eu llywodraeth y Gorllewin o *Affrica* hyd y môr *Atlantic*, ac ni chymmerasant *Affrica* yn derfyn iddynt, a'r *Baleares*, ynghyd ag ynysoedd *Minorca*, *Majorca* ac *Isica*, ac wrth wahoddiad trigolion *Cadis* yn *Spaen*, y rhai oedd 'nawr yn rhyfela a rhai o'u cymdogion, hwy aethant trosodd ac a gawsant amryw Frenhinoedd bychain yn y wlâd hon ymhennau eu gilydd, lle cawsant gysleustra i wneud ysclysaeth o honynt, a llywodraethu ar holl ddeheu-dir *Spain*, a'r ddinas *Cadis* ei hun, yr hon a'u galwodd hwynt. Daethant hefyd i fod yn Arglwyddi ar ran o *Sisili*, ac yn y flwyddyn 484 o flaen ein Iachawdwr daethant i wneud cyngrair a *Ecsercses* fawr brenhin *Persia* yn erbyn y *Groegiaid*, yr hwn tra fu ef yn myned a llu mawr iawn, y mwyaf a fu erioed yn y bŷd, yn cynnwys pan daeth i *Thermophyleu* ddwy fil o filoedd, a dau cant a deugain o filoedd, chwech cant, a dêg gŵr; a'r gweision, y benywaid, yr esnuchiaid, a phawb yn gwneud cymmaint arall, eu gid o ddautu 5 miliwn o bobl; tra fu *Ecsercses* fawr a'r llu hyn yn myned yn erbyn y *Groegiaid*, yr aeth y *Carthaginiaid* a llu o dri chant o filoedd i ddaroslwng y lleill o ddinasoedd y *Groegiaid* yn *Sisili*; ond eu byddin a faeddwyd, ac a dorrwyd yn ddarniau,

bod y *Carthaginiaid* yn aberthu dynion ar ryw achoſion mawrion ac arbenig, ac mae yn ddiau fod y rhai'n yn gwybod yn ddigon da am *Abraham* yn aberthu ei fâb, pan

---

NODAU.

niau, gan *Gelo* brenhin *Siſili*, yr hwn a hanner can mîl o wyr traed, a phum mîl o wyr meirch ar ol lladd *Hamilcar* eu pen capten, a dodi eu llongau ar dân, a laddodd o honynt mewn Câd ſaith ugain a deg o filoedd, ac a gymmerodd y lleill yn garcharorion, y rhai oedd gymmaint arall ; ac a'u gwerthodd yn gaeth-weiſion, nes llanw *Siſili* o honynt. Y dref fawr hon *Carthage* a ſafodd flynyddau hirion yn erbyn *Rhufain* ; a'r rhyfeloedd hyn rhwng *Carthage* a *Rhufain* mae 'r hen Hiſtoriwyr paganaidd yn ſon cymmaint am danynt, ac yn eu galw y Rhyfeloedd *Piwnic* cyntaf a'r ail. Y cyntaf a ddechreuodd 266 o flynyddoedd cyn geni ein IACHAWDWR, ac a barhaodd 24 o flynyddau ; a'r ail a ddechreuodd 201 o flaen ein IACHAWDWR, pan daeth *Hanibal* yn ben Capten ar lu 'r *Carthaginiaid*, ac yr aeth a llu mawr o wyr trwy ganol *Ffraingc* i'r *Eidal* ; ac a groeſodd yr *Alps* a deugain mîl o wŷr mewn pumtheg diwrnod ; gwaith ac oeddid yn dybied o'r blaen gan bawb ond ef ei hun yn amhoſibl ; ond wedi goreſcyn amryw ddinaſoedd yn yr *Eidal*, a bod yn llwyddianus ymhob man, ac yn galed iawn i'r *Rhufeiniaid*, a faeddwyd o'r diwedd gan *Sipio* pen Capten llu 'r *Rhufeiniaid*, yr hwn a loſcodd 500. o longau yn *Carthage* yr un diwrnod : o'r diwedd ar ol oeſoedd o ryfela, a daroſtwng y *Carthaginiaid* y penderfynodd *Senat Rhufain* (am fod *Carthage* fyth yn cynhyddu bryd benna ca'i ond ychydig eſmwythder) i ddiniſtrio yr holl lywodraeth, a gwneud y ddinas yn gydwaſtad a'r llawr, ac ar ol eu twyllo trwy dêg i roi i ſynu iddynt hwy bob arfau ac offer rhyfel, mynegaſant o'r diwedd eu diben i ddiniſtrio 'r ddinas, a'i hadeiladu mewn man arall o'u llywodraeth ; yr hyn pan adnabu 'r *Carthaginiaid* (er eu bod heb arfau a hwythau mewn anobaith) a benderfynaſant i fentro eu bywydau a'r cwbl oedd anwyl

pan y bu *Israel* yn eu cymdogaeth hwynt 430 o flynyddau, a *Charthage* yr hon ſydd yn nheyrnas *Tiwnis* yn *Affrica* nid yw bell iawn o *America*; a diau fod y *Carthaginiaid* yn danfon llongau, a mîl o ddynion, gwyr, gwragedd, merched, a meibion i ynyſoedd y *Canary*

NODAU.

anwyl ganthynt, yn hytrach na goddef diniſtrio eu dinas, a ymroiſant i wneud arfau newydd, a phob offer rhyfel, ac i wrthſefyll hyd farw, yr hyn a wnaethant yn ŵrol er maint holl allu *Rhufain*, tros agos dair blynedd; ond yn y drydedd flwyddyn, y ddinas a gymmerwyd, ac a yſpeiliwyd gan y milwyr, a *Sipio* eu pen captain, a hi a'lloſgwyd a thân, a bu 17 diwrnod yn lloſci, yna arfaeth a wnaed gan Senate *Rhufain*, nad adeiladid hi byth mwy, a melldithion ofnadwy a gyhoeddwyd yn erbyn y ſawl a oſodai faen ar faen yn y fan honno byth. Yr oedd hi wedi eu hadeiladu ar dri mynydd, ac yn dair tref wedi eu huno yn un; ei gŷd 22 o filltiroedd o gwmpas; ym muriau'r ddinas yr oedd ſtafelloedd, a ſtablau, dwy lofft o uwchder; yn y ſtafelloedd iſaf, y rhai oedd wedi eu hadeiladu o fwyau cerrig, yr oedd 300. o *Elephantiaid* a gogr ynghyd a phob offer rhyfel pwrpaſol iddynt; y ſtafelloedd uwchaf oedd yn ſtor-dai ac yn ſtablau i bedair mîl o feirch; a lletuoedd i ugain mîl o wyr traed: yr oeddid yn tybied fod yr holl dref yn dal 7 gan mil o ddynion; ac fe gafodd y *Rhufeiniaid* ynddi o arian, dri-ugain a dêg a phedwar cant o filoedd o bwyſau, 16 wns yn y pŵys; heb law yr hyn a blyndrwyd gan y milwŷr, a'r hyn loſcodd yn y tân; y dref hon a ddiniſtriwyd 146. o flynyddau cyn geni ein IACHAWDWR CRIST; fe'i hadeiladwyd eilwaith gan *Auguſtus Ceſar* ychydig oddiwrth y man yr ydoedd hi o'r blaen; a hon a ddaeth yn ddinas boblog iawn, ac yn brif ddinas o holl *Affrica*, ac a ſafodd tros 700 o flynyddau, nes ei diniſtrio hi gan y *Saracuſiaid*; ond nid oedd yn gyffelyb mewn maint, grym, na thegwch i'r hên dref.

Canary * y rhai oedd ar y ffordd i *America*; ac os hwy a gollent y goror hwnnw, nid oedd ganthynt ond Siwrneu

---

NODAU.

* Ynyſoedd y *Canaries* y rhai oedd gynt yn cael eu galw yr *Ynyſoedd dedwydd*, ydynt 7. o ryfedi, yn y môr *Atlantic*, o ddautu cant o hanner o filltiroedd y Deheu-Orllewin i *Morrocco* yn *Affrica*: y fwya o rhai'n ſydd o ddautu cant a hanner o filltiroedd o gwmpas, mae'r ynyſoedd hyn yn gyflawn o bob ffrwythau danteithiol; yn enwedig grawn ſyppiau, y rhai ſydd yn dwyn y gwîn cyfoethog hynny a elwir *Canary*, o ba un nid oes dim llai na deng mîl o hogſhedi yn dyfod o hono bob blwyddyn i *Loegr* mewn amſer heddwch. *Teneriff* yw enw un o'r ynyſoedd hyn, o ddautu 120. o filltiroedd o gwmpas, gwlâd ffrwythlon mewn olew, ŷd, a gwin, ac ymma mae'r mynydd uchaf yn y bŷd, elwir *Pico*, yn gyffredin *Peac Teneriff*; yr un lun a thorth o Siwgr, yr hwn welir o ddautu 100 milltir ar y môr; mae'r mynydd hwn yn ſynych yn taflu tan fel *Etna*, a mynyddoedd eraill, ac yn ſynych yn creu daear-gryn. Yn y flwyddyn 1704 y digwyddodd iddo dorri allan yn ffrydiau o frwmſtan, a mwyn toddedig, yr hwn a redodd fel afonydd, ac a ddeſtriwiodd amryw o dreſydd mawrion, a nurddo 'r tîr yn yr ynŷs, gan ei droi yn anialwch diffrwyth. Fe ddywed rhai fod *Peac Teneriff* yn bumtheg milltir o uwchder, rhai eraill ddywed 5, ond y neſſaf at eu lle yw y rhai a ddywed dwy filldir yn union gyrch, yr hyn wna 4 neu 5 wrth ei gerdded ar oledd. Fe ddwedir fod ar ben y mynydd hwn lynn bychan o ddwfr, o ddautu 80 llath o lêd a 4 llath o ddyfnder, a'i fod yn wreſog bob amſer, a tharth yn codi o hono fel nad oes dim eira yn ſefyll ar ei ben ef, gan y gwres hyn; ond bod Eira ar hyd ei ochreu yn îs i wared. Mae'r ynyſoedd hyn yn breſenol tan lywodraeth y *Spaniards*: ſe caſwyd ac fe'u plannwyd hwynt gyntaf gan y *Carthaginiaid*, ond y *Rhufeiniaid* wedi diſtriwio'r llywodraeth hynny rwyſtraſant drading y môr i'r tu Gorllewinol i *Affric*,

ſiwrneu 3 wythnos i *Mecſico*, o ba le ni's gallent ſyth ddychwelyd i *Europ*, am ſod y Trâd-wynt * yn eu herbyn, ac nid oedd boſibl ddyſod oddiyno yn ol i dir-oedd y Dŵyrain nes cael allan y cwmpas: ac oes dyna yr ffordd y poblwyd *America*, nid rhyfedd ſod yno rai o arferion yr *Iuddewon* wedi eu dwyn o'r *Aipht* i *Carthage*, ac oddiyno i *America*. Ac heb law hynny, y mae crefydd y *Carthaginiaid* yn ymddangos ei bod yr un a chrefydd y *Canaaneaid* a'r *Phariſeaid*, o ba rai y mae yn bur debyg y deſcynnaſant: yr oeddent yn addoli llu o Dduwiau yn *Carthage*; ond y rhai oeddent yn alw arnunt fwya cynnefin oedd y Lleuad, yr hon oeddent yn ei alw *Celeſtis* ac *Urania*: a *Saturn* yr hwn elwir yn y Bibl *Moloc*; yr hwn mae'n debig ſyth oedd yr Haul i ba un yr oeddent yn aberthu eu plant, weithiau eu lloſci hwynt yn y tân, ac weithiau yn yr eulun yr hwn oedd a thân wedi ei ennyn ynddo i'r diben hynny. Gan guro ar y drwmau a chanu utgyrn ar

---

NODAU.

Affric, ac yna bu'r ynyſoedd hynny wed'yn yn guddiedig i'r llaill o'r bŷd tros oeſoedd lawer ond a ffeindwyd eilwaith gan y *Spaniards* yn y flwyddyn 1405, y rhai gafodd bobl yn yr ynyſoedd hyn iaith pa rai nid oedd neb o'r bobl yn y gwledydd cymdogaethol yn ei deall; a phan ddyſgaſant iaith *Spain*, ddigon yw deall, ni's gallaſent roi cyfrif am eu hynafiaid nag o bwy wlad y daethant, ni's gwyddent un o'r celfeddydau nag chwaith pa un ai bod un wlâd yn y byd ond eu gwlad hwynt eu hunain.

* Trâd-wynt ſydd yn chwythu o'r dŵyrain ogledd, ar y tu ogledd o Linyn y Cŷhŷdedd; ac eilwaith yn chwythu o'r tu deheu i'r Gŷhŷdedd; ac yn agos i'r Gŷhŷdedd, bron yn union o'r Dŵyrain; ond ar Gŷhŷdedd, ac o ddautu 200, neu 300 milltir bob ochr iddi y mae 'r gwyntoedd yn gyfnewidiol, ac weithiau mae 'n dawel ſiſoedd gyda eu gilydd.

ar yr un pryd rhag iddynt glywed llefain y plant; ac yr oeddid yn edrych arno megis darn o wroldeb yn y ſam, i ſod yn cynnorthwyo wrth y fath ebyrth a llygaid ſychion, heb gymmaint ag ocheineidio na grudd-fan, gan dybied nad oedd yr aberth yn bodloni *Moloc* cymmaint, oes c'ai ei hoffrymmu gyd ag un math o hiraeth neu alar; ond am na's gallaſai yr arferion hwyaf yn berffaith ddiwreiddio yr aeth a'r ſyndod ag oedd y ſeremoniau annaturiol hyn yn eu creu, yr oeddent yn bodloni yn gyffredin wrth adael eu plant i fyned trwy'r tân, lle y byddent weithiau yn colli eu bywyd: mewn cyfyngderau yr oeddent yn waſtadol yn eu lloſci hwynt yn ulw; gan ddewis y ieuengctid mwya glân ac ardderchog ag oedd y genedl honno yn ei fagu at achos hyn. A phan ar un tro yr oedd y *Carthaginiaid* mewn dwfn gyſtuddiau, am fod y *Groegiaid* yn erbyn pa rai yr oeddent yn rhyfela ar fedr gwarchae ar eu dinas hwynt, edrychaſant ar eu holl ofydiau, a'u haſlwyddiant yn deilliaw oddi wrth ddigoſaint y Nêf, am ryw eſceuluſdra yn eu haddoliad crefyddol, ac yn neilltuol am beidio aberthu rhyw nifer o blant o radd oreu bob blwyddyn i *Saturn* fel yr oedd eu crefydd hwy yn gofyn, a rhoi iddo blant caeth-weiſion, a phobl dlodion wedi eu pwrcaſu i'r diben hynny yn eu lle hwynt: am hynny, tuag at ddiffodd digoſaint y Duw hwn *Saturn*, hwy aberthaſant ddau Cant o blant o'r radd uchaf; a thri chant o ddynion yn rhagor (meddant) a gynnigaſant eu hunain o'u gwir fodd i'w haberthu tuag at eiriol tros yr eſceuluſdra ag oeddent yn feddwl eu bod yn euog; yr hyn ſydd yn dangos yn fwy eglur fod y *Carthaginiaid* wedi deſcyn oddi wrth y *Canaaneaid* a'r *Phenefiaid*, y rhai oedd yn aberthu eu plant i *Foloc*, yn enwedig mewn cyfyngder, am fod yr yr Scrythur ſanctaidd yn dal ſylw i Frenhin

hin aberthu ei fab hŷnaf ar y muriau pan oedd y ddinas ag oedd ef yn ben arni mewn perigl o gael ei chymeryd. A'r *Carthaginiaid* hwythau, mewn brwydr galed neu mewn diſgwiliad o ennill dinas, fyddent yn aberthu plant i'r Duw uffernol hwn o'r borau hyd yr hŵyr; ac fe allai mae dymma un o'r pechodau ofnadwy am ba rai taflwyd y *Cananiaid*, eu hyfnafiaid hwynt allan o'u gwlad eu hun, ac a ddaeth a'r diniſtr ofnadwy ar ben *Carthage* ei hunan.

Eu. Ond pa ddull waſanaeth ydys yn ei ſeddwl yn *Amos* v. pan dwedir, *Dugaſoch babell eich* Moloc, Ciwn, *eich delwau, Seren, eich Duw?* Ac yn llyfr yr *Actau* vii. *Seren eich Duw* Remphan. *Moloc* mae'n debig oedd yr Haul, ond pa beth a ſeddylier wrth ddwyn ei babell ef o ddautu.

Ap. Chwi glwyſoch ſon o'r blaen am Dduwies yn *Malabar* yn cael ei dwyn o ddautu mewn wagen, ſe allai eu bod yn dwyn oddiamgylch ddelw *Moloc* mewn rhyw fath o babell neu gerbyd mewn dull cyhoedd ac ardderchog; ac yr oedd y fath ddwyn delwau o ddautu a hyn gan y *Rhufeiniaid* yn cael ei alw *Pampa*, ar babell ym mha un y dugid hwynt elwid *Thenſa*; ar fath hyn o broſeſſiwn oedd y *Rhufeiniaid* yn ei wneud i'r Haul, yr hwn oedd *Ammon* ac *Iſrael* yn ei alw *Moloc* ac er mwyn gwneud y proſeſſiwn yn fwy ardderchog yr oedd gan y *Rhufeiniaid* ar *Iſraeliaid* feirch mawrion, a cherbydau pwrpaſol wedi eu cyſegru i'r Haul, a lleoedd pwrpaſol hefyd iddynt i gerdded; a'r fath arfer a hon ddododd y Brenhin duwiol *Joſia* i lawr, ſef meirch yr haul, a cherbydau 'r haul. 2 *Brenh.* 23. Ac y mae yn bur debyg mae oddi wrth grefydd y *Perſiaid* y daeth y fath eulunaddoliad a hyn, y rhai oedd yn cyfrif meirch yn ſanctaidd i'r haul, a Brenhin *Perſia* pan byddai am ymddangos yn ogoneddus

ogoneddus a wnai i farch mawr i gael ei arwain yn ol ac ym mlaen, yr hwn a gyfenwid March yr haul- Ac i fod yn fyrr, dyma 'r yſtyr ddyru rhai i arwain o ddautu dabernacl *Moloc*; er o'm rhan fy hun fod yn nes gennyf gredu am fod y pechod hwn yn cael ei oſod ar yr *Iſraeliaid* pan oeddent yn yr anialwch, y mae Tabernacl *Moloc* oedd y ddelw fawr honno elwid *Moloc* yn cael ei dwyn mewn blwch neu arch bychan, fel y gallai ei berchenog ei ddwyn gydag ef ar bob amſer, ac edrych arno y prŷd y mynnai; fel y byddai ei Dduw ganddo yn ei bocced, ac na fyddai bell oddiwrtho oes byddai achos galw arno; ac fe d'wed Dr. *Lightffoot* fod ganthynt lun yr holl ſêr wedi ei goſod yn fath o arch, a'r Haul neu *Foloc* yn Arglwydd, neu yn ben arnynt, a'u bod wedi ei goſod yn gwmpaſog megis maent ar yr wybr, neu yn gyffelyb i *Globe* yr wybr, felly fel y gallent eu haddoli eu gid ar un waith, yn enwedig yr Haul y bennaf o honynt.

Eu. Pwy feddylier wrth *Ciwn, a Seren eich Duw?*

Ap. Yr un yw'r *Ciwn* a'r hwn elwir yn yr *Actau* yn *Rhemphan*, am i *Stephan* gymmeryd yr enw o'r *Septuagint*, y cyfieithiad *Groeg* o'r Hên Deſtament†. Fe ddywed

---

Nodau.

† Cyfieithiad yw o'r Hén Deſtament, a wnaethpwyd yn nyddiau *Ptolomy Soter*, neu *Ptolomy Philadelphus* ei fâb Brenhin yr *Aipht*, yr hwn a wnaeth Lyfr-dŷ yn cynnwys Can mîl o lyfrau; a dywedir iddo fynnu yr Hên Deſtament hefyd i'w gyfieithu i'r *Groeg*; er mwyn ei chwanegu at y Library hyn, yr hon a gynhyddodd o bryd i bryd trwy ddwylo 'r Brenhinoedd hyn a gyfenwid *Ptolomys* o un i'r llall nes llenwid hi a ſaith Gan mîl o Lyfrau; ond ei hanner hi loſcwyd gan *Julius Ceſar*: ond y rhan arall o honi a gynhyddodd wed'yn

dwed Dr. *Goodwin* yn eon, mai *Hercules* ydoedd; ac mai'r haul oedd yr *Hercules* hwn fyth; ac mai *Porphorie* yn dehonglu 12 gorcheſt *Hercules*, ſef yr haul yn myned trwy'r deuddeg arwydd; er dywed eraill mai lleuad oedd *Ciwn*; ac eraill mai *Satwrn* ydoedd; am mai enw y blaned *Satwrn* yn y jaith *Syriaeg* cyſtal ac yn jaith y *Perſiaid* yw *Remphan*; ac i *Stephan* ddweud y gair *Remphan*, am ei fod yn cael ei ddeall yn well na *Chiwn*; ac am ſeren eich Duw, ei yſtyr yw hyn. Arfer yr hen Eulunaddolwyr gynt oedd, rhoi llun ſeren yn nhalcen y ddelw, yn arwyddoccau fod y Duw hwnnw yn bennaf yn trigo yn y ſeren o'r enw hynny ar yr wybr; felly goſododd *Aaron* ſeren yn nhalcen y Llo aur; ac felly mae'n debig yr oedd yn nhalcen *Moloc*, a *Satwrn*, os *Satwrn* a feddylier wrth *Ciwn*.

Eu. Fe ddywedir yn ail lyfr y *Maccabeaid*, i *Jaſon* yr Archoffeiriad ddanfon tri chant o ddragmau arian i aberth *Hercules* yn *Tyrus*, ai i'r haul yr ydych yn dybied oedd hyn?

---

wed'yn nes ydoedd yn fwy nag erioed o'r blaen; mae *Ariſteus*, ac ar ei ol ef *Joſephus* yn dweud, mae ar ol i *Ptolomy* gael ffafr yr *Iddewon* trwy ryddhau can mil o'u cydwladwyr ag oedd yn gaethweiſion yn yr *Aipht*, ſe fynnodd 6 henuriad o bob llwyth yn *Iſrael*, eu gid yn 72, i ddyfod iw lys ef; ac ar ol prawf o'u dyſgeidiaeth, ef a'u happwyntiodd i gyfieithu cyfraith *Moſes*; ac iddynt ymddiddan ynghylch yr yſtyr o honi yn ynys *Pharos*; yr hon pan ddarllenwyd gan y brenhin, ſe a roddodd iddynt wobr haelionus; ac am hynny gelwir y cyfieithiad hynny *Septuagint*; ſef cyfieithad y 72; ac yn nyddiau *Antiocus Epiphanes* amſer maith wedi cyfieithu llyfrau *Moſes*, y cyfieithwyd y Prophwydi i'r *Groeg*, a'r holl Hen Deſtament yn awr yn *Groeg* elwir *Septuagint*.

Ap. Nid oes dim i wybod lai mae'r gair yn yr *Hebreaeg*, ac yn y *Groeg* yn arwyddoccau goleuo pob peth, neu ogoniant yr awyr; ond pa un bynnag i *Saturn* neu haul ydoedd, nid oes fawr golled gwybod; pan yr oedd eu haddoliad agos yn un.

Eu. Ai nid oddiwrth yr *Iddewon* y cadd y Cenhedloedd y ffurf o arwain oddautu babell *Moloc?* ſef eu bod yn dwyn Arch Duw ddeugain mlynedd yn yr anialwch; ac onid oedd amryw bethau eraill yn eu haddoliadau fel y dywedpwyd eiſoes am aberthu dynion, wedi eu benthycca oddiwrth yr *Iddewon.*

Ap. Er fod rhai pethau yn ffurf addoliad, a Seremoniau yr *Iddewon* ag a rowd yn bennaf i fod yn groes i'r Cenhedloedd, etto amryw Seremoniau a ledrattodd y Cenhedloedd ar yr *Iddewon*; megis addurn y temlau, gwiſgoedd yr offeiriaid, trefn eu haberthau, eu gwyliau, ac amryw bethau eraill ag oedd ſatan am wneud yn hollol fel Duw ei hun; fel y darfu i baganiaid o'r diwedd watwar y Grefydd Iddewig i raddau pell, ac megis yr oedd gan Dduw ei babell, ei aberthau, ei offeiriaid, ei allor, felly yr oedd gan ſatan; ac fel yr oedd gan y gwir Dduw, dan yn waſtad i ennyn ar ei allor, felly yr oedd gan ſatan yntau, yr hwn gedwid yn ennyn bob amſer gan wyryfon elwyd gwyryfon *Veſta*; ac od oedd gan y gwir Dduw drugareddfa, o ba un yr oedd efe yn atteb trwy'r *Urim* a *Thumim*, felly ſatan yntau ei oraclau, trwy ba rai y byddai yn rhoi atteb iw waſnaethwyr ef.

Eu. Mynegwch ychydig ragor am natur yr oraclau hyn.

Ap. Cyn dyddiau ein Jachawdwr, Paganiaeth oedd wedi cyrraedd i'r fath uwchder, ag

oedd

oedd aneirif o demlau ardderchog iawn wedi cael eu hadeiliadu trwy'r byd, i ryw eulunod neu gilydd; ac nid oedd rhif ar y Duwiau ag oedd dynolryw wedi eu dychmygu iddynt eu hunain, nid llai nag amryw filoedd o honynt. oedd yn *Rhufain* ei hun; nid oedd o'r diwedd un cyſtudd o'r corph, nag un nwyd o'r enaid, nad oedd rhyw dduw yn llywodraethu arnynt; nid oedd na choedydd, nag afonydd, nag ydau, nag ymborth, bwyd, a diod, nad oedd yn cael ei adael tan lywodraeth rhyw dduw. Nid oedd na phriodi, na chladdu, gwreicca, na gwra, na dim negeſeuon, o ba ryw bynnag y baent, nad oedd rhyw dduw neu amryw dduwiau, a'r gofal o honynt arnynt; pan oedd ſatan wedi cael ei deyrnas cuwch a hyn, ſe ddyfeiſiodd atteb ei addolwyr ſel y gwir Dduw yn *Jeruſalem*, ar bob achoſion pwysfawr y deuid atto o'u plegid; ac yn awr yr oedd temlau eulunod yn llanw'r byd; megis teml *Belus* yn *Babilon*,* teml *Her-*

* Teml *Belus* yn *Babilon*, oedd adeiliad mawr iawn, a'r peth mwya rhyfeddol ynddi, oedd y twr ag oedd yn ſetyll yn ei chanol; yr hwn adeiladwyd oeſoedd maith o flaen y deml; yr oedd y twr hwn yn ei ſeilfaen yn bedwar onglog; yn ſtad bob ochr, ſef 200 o latheidiau; ac yn gwneud hanner milldir o gwmpas, neu 800 o latheidiau; ac yn cynnwys 8 cylch o riſiau, un o war.y llall; eu gid yn 200 o latheidiau o uwchder; ac yn ymddangos ſel pe buaſai 8 dwr un wedi ei adeiladu ar ben y llall, ac yn un o'r gweithiau rhyfedda yn yr holl fyd; mae'n debig, mai hwn oedd y twr a adeiladwyd yn nyffryn *Sinar*, pan deſcynnodd yr Arglwydd i gymmyſgu'r ieithoedd; yr oedd hwn wedi ei adeiladu o briddfeini a bittumen, neu fath o glai fel y dywed yr yſgrythur ſod hwnnw, ac o faintioli digon mawr i atteb y deſcriſiad a roi'r yno;

yno; yr oedd ynddo 8 o lawriau, 25 o latheidiau un o war y llall, ac yn y rhai'n yr oedd amryw o ſtafelloedd ehang, a'u cronglwydydd o fwaau cerrig, a'u dal i fynu gan bilerau, y rhai oll a wnawd yn rhan o'r deml, ar ol i'r twr gael ei gyſegru at ddefnydd eulun-addolgar, y llawr uchaf oll, oedd fwyaf ſanctaidd, a lle yr oedd eu defoſiynau pennaf hwynt yn cael eu cyflawnu, ac yn uwcha o'r cwbl ar ben y twr, yr oedd lle addas i ganfod, ac edrych ar y ſer, a'r planedau, o ran i'r *Babiloniaid* i dderchafu eu ſcil mewn aſtronomyddiaeth tu hwnt i bob cenedl arall y pryd hynny. Hyd amſer *Nebuchodonoſor*, nid oedd teml *Bel* yn cynnwys dim rhagor na'r twr hwn, a'r ſtafelloedd yn-ddo oedd yn gwaſnaethu at bob rhan o'r addoliad, ond efe a'i chwanegodd, ag adeiliadau mawrion gylch gwmpas, adeiliadau ag oedd ddwy ſtad bob ochr, nes iw wneud yn filldir o gwmpas; ac o tu faes i'r holl adeiliad hyn gwnawd mur o gylch, yn ddwy filltir a hanner; ac amryw byrth, a rhai'n i gid o bres i fyned i mewn i'r deml; ac mae'n debyg i'r mor pres, y pilerau pres, a'r holl leſtri pres eraill a ddygwyd o deml *Jeruſalem* gan *Nebuchodonoſor* fyned at y gwaſanaeth hyn. Fe ſafodd y deml hyn i fynu hyd amſer *Xerxes*; ond efe ar ei ddychweliad o ryfela a'r Groegiaid a ddeſtrywiodd y cyfan, gan ei hysbeilio hi yn gyntaf o'i holl werthfawr dryſorau; ymhlith pa rai yr oedd amryw o ddelwau aur pur; ac fe ddywedir, fod un o'r rhain yn 40 troedfedd ei huwchder, yr hon mae'n debyg oedd honno gyſegrodd *Nebuchodonoſor* yngwaſtadedd *Dura*, fe ddywed yr yſgrythur ei bod yn 60 cyfydd, ſef 90 o droedfeddi o uwchder, yr hyn ſydd raid ei ddeall am y faingc a hithau; o ran nid oedd y ddelw ond 6 cyfydd ei lled, ac wrth y lled neu'r trwch hynny, nid oedd fe ei bod hi tros 27 o gyfyddau o uwchder; ſef 40 troedfedd a hanner —— ac fe ddywedir fod yn gwneud y ddelw hon fil o dalentau *Babilonaidd* o aur, yr hyn oedd dair mil o filoedd a hanner o bynnau o'n harian ni, a phob mil o filoedd yn aur ſydd ddigon o lwyth 19 o wagennau a'r ddelw i gid oddautu trigain a ſaith o wagennau aur.

Amryw

cules yn *Tyrus*, † teml *Diana* yn *Epheſus*, ‡ a theml

Amryw o ddelwau eraill helyd a lleſtri cyſegredig oedd yn y deml honno, ei gid o aur pur; y rhai a enwir gan *Diodorus Siculus* oedd yn bum mil a deg ar hugain o dalentau aur, yr hyn ynghyd a'r mil o dalentau enwais ſydd yn gwneud tros un ar hugain o filiynau o'n harian ni; ac o boſibl gymmaint arall mewn lleſtri a thryſorau eraill ond hyn oll oedd gaſgliad o ddwy fil o flynyddau, cans cyhyd a hynny ſafodd y deml hyn cyn ei diniſtrio; a hyn oll gymmerodd *Xerxes* ymaith, pan y dinyſtriodd efe hi, *Alexander* pan ddychwelodd o gongcwero'r *India* a fwriadodd ei hadeiliadu, ac a oſododd 10000 o bobl ar waith i lanhau'r lle; ond ar ol gweithio ddau fis, *Alexander* fu farw, a hyn a roddodd ddiwedd ar yr amcan hwnnw.

† Teml *Hercules* yn *Tyrus* y dref fwyaf am drâding trwy'r holl fyd yn y dyddiau gynt oedd ar fin y mor canoldir yn brif ddinas *Phenicia*, ac yma yr oedd teml ardderchog a phan cymmerodd y *Carthaginiaid* ddinas *Gela* yn *Sicily* 405 o flynyddau cyn ein Jachawdwr hwy ddygaſant ymaith *Appolo*, yr hon oedd o faint aruthrol, ac oll o bres, ac a'i dodaſant yn theml *Hercules*, yn *Tyrus* eu mam ddinas hwynt, lle yr ydoedd ef yn cael ei addoli gan y *Tyriaid* fyth wed'yn; ac yn yr amſer yr oedd *Alexander* fawr yn rhyfela yn erbyn *Tyrus*, rhyw un a freuddwydodd fod *Appolo* am fyned trofodd at *Alexander*, a thuag at ei attal ef i wneuthur y ſath gyflafan, hwy a gadwynaſant y ddelw a chadwyni aur, wrth allor *Hercules*, gan dybied trwy hynny y gallent trwy orcheſt ei gadw rhag myned oddiwrthynt.

‡ Teml *Diana* oedd o ran ei maint, ei chywreinwydd, a'i haddurnau, yn cael ei chyfri yn un o ryfeddodau'r byd, dywedir fod ei hyd yn 425 troedfedd, a'i lled yn 220, ac yn cael ei dal i fyny gan 127 o bilerau marble 70 troedfedd o uwchder bob un, o ba rai yr oedd 27 wedi eu hengraſo yn gywraint, dywedir ei bod hi 200 flynyddau cyn ei pherfeithio; hi lof-

a theml *Jupiter Ammon* yn anialwch *Libia*, § heblaw y lliaws o demlau oedd yn *Rhufain*, i bob gradd o dduwiau; ac at yr eulun fyddai yn rhai o'r temlau hyn, byddid yn myned ar achos rhyfel, neu ryw galedi arall; a ſatan yn yr eulun hwnnw, a'u hattebai hwynt o'i gofyniad, pa beth bynnag fyddai, ond yn waſtad yn ddichellgar, yn gyfrwys, ac yn dywyll, fel na fyddai fyth yn ymddangos yn gelwyddog, pa fath bynnag fyddai'r canlyniad o'r attebion hyn, ag oedd y diafol yn ei roi yn yr eulun, oedd yr oraclau gynt a ſonier cymmaint am danynt.

Eu. Rhoddwch i mi glywed un o honynt.

Ap. Pan oedd *Cyrus* yn rhyfela yn erbyn *Creſus*; *Creſus* oedd dywyſog crefyddol iawn ar ol eulunaddoliaeth y dyddiau hynny; ni fynnai anturio

---

gwyd 7 waith, a'r tro diweddaf gan *Eraſtratus* er mwyn cael iddo ei hun yr enw, yr hyn a ddigwyddodd yr un noſwaith ag y bu farw *Alexander* fawr.

§ Teml *Jupiter Hammon* oedd yn anialwch *Libia*, 200 o filltiroedd o'r *Aipht*; canys *Ham* mab *Noah* fel yr oedd ef yn blannwr cyntaf o'r *Aipht*, a *Libia*, ar ol y dilyw, felly y daeth ef i fod yn yr oeſoedd eulunaddolgar a ganlynodd yn Dduw o'r gwledydd hynny; ac yr oedd ynys oddautu 5 milldir o led, o dir ſicr ynghanol yr anialwch hynny o dywod, ac yno yr adeiliaſant Deml iddo; *Alexander* fawr a gymmerodd daith i'r Deml hon, canys ſe gafodd yn *Homer*, a rhyw ffablau eraill o'r hen oeſoedd fod y rhan fwyaf o'u gwyr cedyrn yn ſeibion i ryw Dduw, neu gilydd, ac yntef yn chwennych bod yn wrol ddyn fel hwythau ſe fynnai iddynt feddwl ei fod yntef yn fab i Dduw hefyd, ac yna ſe ddewiſodd *Jupiter Hammon* i fod yn dad iddo, ac a ddanfonodd genhadon o'i flaen i lygru yr offeiriaid i beri iddo gael ei gyhoeddi yn fab i'r Duw hwnnw, trwy eu horacl hwy pan y deuai ef i ofyn iddi.

anturio i ryfel heb yn gyntaf ymgynghori a'i ddduwiau i gael gwybod pa un a wnai ai myned i ryfel, ai peidio, yna fe anfonodd at rai o'i oraclau, ag a gafodd y fath attebion ag a'i harweiniodd i waith mor aflwyddiannus, ag y gorfu arno golli ei deyrnas. Cans dywedafant yn gyntaf, *Mai y pryd hynny y byddai* Crefus *mewn perygl, pan y byddai Mwlfyn yn teyrnafu ar y* Mediaid; a'r llall oedd, *pan ai ef ei hun tros yr afon* Halys *i wneud rhyfel ar y* Mediaid, *y byddai iddo daflu lawr ymerodraeth fawr.* Yr atteb cyntaf am i fod yn amhofibl i Fwlfyn deyrnafu ar y *Mediaid*, wnaeth iddo dybied ei fod fyth yn ficr; ar ail wnaeth iddo dybied mai'r ymerodraeth a deflyd i lawr, wrth iddo fyned tros yr afon *Halys*, oedd ymerodraeth y *Mediaid.* Ond pan digwyddodd pob peth yn groes i hyn yr oedd yr oracl yn wneud iddo ddifgwil, ac iddo golli ei ymerodraeth, ei brif ddinas ei hun, *Sardis*; fe ga'dd gennad gan *Cyrus* (i ba un yr oedd efe yn awr yn garcharwr); anfon at yr oraclau hynny, i ofyn pa ham y twyllafant ef, eu hatteb ydoedd mai *Cyrus* oedd y Mwlfyn ag oedd yr oracl yn ei feddwl, am ei fod ef yn dyfod allan o ddwy genedl o bobl; o'r *Perfiaid* o ran ei dad, a'r *Mediaid* o ran ei fam; a'i fod fel Mwlfyn o rhywogaeth benna o ran ei fam, a'r ymerodraeth fyddai iddo daflu lawr, pan ai tros afon *Halys* fyddai ei ymerodraeth ei hun; a thrwy'r fath gau, a thwyllodrus attebion, y byddai'r diafol yn atteb ei addolwyr yn y dyddiau hynny, fel pa beth bynnag fyddai 'r canlyniad y gellid agor geiriau 'r oracl i gytuno a hynny.

Eu. Ond a oes un o'r oraclau hynny yn awr yn y byd.

Ap.

Ap. Nag oes. Cans ni lefarodd ſatan byth mwy, trwy un o ddelwau'r Cenhedloedd yn ol geni Jachawdwr y byd, ac mor belled a hyn y cadwynwyd ef yn y dyddiau hynny; o bofibl fel blaen ffrwyth o'r cadwynau fydd i roi arno, pan eſcynno angel cryf a chadarn i wared o'r Nef, ac agoriad y pydew diwaelod, i rwymo yr hen ddraig, y diafol, a ſatan, *&c.*

Eu. Ond oedd rhyw fath o oraclau heb law y rhai enwaſoch? pa beth a ddywedir am y *Sibiliaid* hynny a brophwydodd? pwy oeddynt? a pha fath brophwydoliaethau roddodd y rhai'n?

Ap. Yn nyddiau *Auguſtus Cæſar* yr oedd aneirif o lyfrau yn *Rhufain* oll yn rhyw fath o brophwydoliaethau am bethau i ddyfod; ond gan mwyaf am ryw bethau oedd i ddyfod i ben yn y llywodraeth, wedi eu tannu ar lled; ac am fod y cyfryw lyfrau yn creu llawer o aneſmwythder ym mhennau'r bobl; rhai yn eu dehonglu fel hyn, ac eraill fel arall, yn erbyn, neu gyda 'r hyn oedd uwcha yn y llywodraeth; *Auguſtus* a'u galwodd hwynt oll i mewn, ac a barodd lloſgi dwy fil o volumes o honynt, fel rhai baſtardiaidd; gan gadw'r lleill ag oedd ag enw *Sibils* arnynt yn awdwyr; a rhai'n hefyd a fynnodd efe iw chwilio yn fanol, ac ni chadwodd ddim o honynt, ond gafwyd yn ol y trial hyn yn cael eu barnu o'r rhyw union, a'r lleill a roddodd i'r fflammau, fel y rhai eraill; a rhai farnwyd yn union, a oſododd ef mewn dau flwch aur yn nheml *Appolo*, yr hon a adeiladodd ef yn y palas; ac a'i goſododd hwynt tan y fainge ar ba un yr oedd y duw cenhedlig hwnnw wedi cael ei oſod; a'r oraclau hyn oedd o barch mawr iawn yn y byd cenhedlig, ac yn cael eu henwi yn fynych gan hen ſeri-

fenwyr

ſenwyr yr eglwys griſtnogol, ac o ddefnydd mwy yn *Rhuſain* ei hun, ſef at waſtadhau pob terfyſg ymhlith y bobl, pan ddigwyddai ddim croes afiwyddiannus yn yr ymerodraeth. Ond ſymmaint o ſtoriau am danynt ſydd nad oes credu mo'r hanner.

Eu. Ond pa beth ſydd fwya tebygol o ſod yn wirionedd adroddwch.

Ap. Yr oedd oraclau'r *Sibiliaid* o barch mawr yn yr hen oeſoedd, ymhlith y *Groegiaid*, a'r *Lladinwyr*; mae *Plato*, *Ariſtotle*, *Varro*, *Dioniſius*, a *Livy*, yn gwneud coffa o honynt gyd ag anrhydedd mawr, ond pwy? a pha ſawl un oeddynt? neu pa bryd? neu pa le yr oeddynt yn byw? mae amryw awdwyr yn ſcrifennu yn amrywiol; ond y rhan fwya a ddywedant am danynt nid yw ond ffablau, na's tal eu hadrodd; a diau yw pa faint bynnag yr oeddynt yn cymmeryd arnynt i brophwydo, na's gallſent ddyfod i'r rhodd hon, trwy Yſbryd Duw. Canys y rhan fwya o'r oraclau a roddwyd allan ganthynt, oedd yn cyfarwyddo i'r fath Seremoniau eulunaddolgar, a ffiaidd, ac na's gellir heb y rhyfig mwya, i ddweud eu bod yn dyfod oddiwrth Dduw. Ond o'r tu arall os rhoddwyd iddynt allu i ddweud am bethau i ddyfod rhaid oedd mai oddiwrth yſbrydion dieflyg y derbyniaſant y fath rodd. 'Roedd gan ſatan ei oraclau fel y dywedais mewn amryw fannau, a rhan fwya o honynt oedd yn cael eu rhoddi gan fenywod, megis yn *Delphos*, yn *Dodona*, a mannau eraill byddai temlau cenhedlig. — Ac fel yr oedd y byd yn caru prophwydoliaethau, a rhagddweud pethau i ddyfod; hyn a roddodd ſantais yn fynych i draws gymmell rhith liwiau tan yr enw o oraclau'r *Sibiliaid*; ac nid oes braidd wyryfdy, tu draw i for ymha un nad

oes

oes un neu ragor o'r chwiorydd yn cymmeryd arni i fod wedi ei hyſbrydoli, ac yn traddodi oraclau, a phrophwydoliaethau i benderfynu cwymp gwledydd, a theyrnaſoedd. Rai prydiau yſbryd enthuſiaſtic, rai prydiau llewygfau'r fam, ond yn benna balchder, a hunan-glod ſydd yn eu harwain i ledrith, a chelwydd; ac mae'n debygol nad oedd gan y *Sibiliaid* un ſail arall am yr holl oraclau hyn o'u heiddo hwy: neu ynteu yr yſbryd drwg yn gweithio yn awdurdodol ynddynt; y dull oedd yr oraclau hyn yn cael eu rhoddi allan meddant, oedd mewn llewyg a chynddaredd goelgrefyddol, heb gymmaint a bod y brophwydes yn gwybod pa beth oedd ei hun yn ddywedyd.

Eu. Pwy oedd yn cael darllen y Llyfrau hyn?

Ap. Y rhai'n ar y cyntaf yn nyddiau brenhinoedd *Rhufain* rhoddwyd i gadw mewn coffr carreg yn nheml *Jupiter*, yn y Capitol; a dau o'r pendefigion pennaf i fod yn edrychwyr arnynt, fel nad oedd iddynt eu dangos, na dadcuddio pa beth oedd ynddynt, ar berigl o ddioddef y farwolaeth greulonaf, ond ar ol darfod i frenhinoedd lywodraethu yn *Rhufain*, y llywodraeth a barhaodd yr un barch i'r Llyfrau hyn, ac yn ddichellgar a'u gwnaethant yn offeryn i'r llywodraeth, i waſtadhau 'r Bobl ymhob Terfyſgau a ddigwyddai yn ol llaw yn eu myſg; canys pa bryd bynnag y digwyddai un Aflwyddiant mawr, neu un ddamwain i wneud anhrefn ac aflonyddwch, yr oeddyt yn ordeinio ymgynghori a'r Llyfrau hyn, a'r Ceidwaid o honynt fyddai bob pryd yn dwyn allan y fath attebion ag a fyddai yn gwaſanaethu 'r diben, ac nid oedd dim ymhlith y *Rhufeiniaid* ag oeddynt yn ei gadw gyda gofal mwy ſanctaidd,

na'r

na'r Llyfrau hyn; fel yr attebent yn well y diben yr arfaethwyd hwynt iddo. Yr oeddyt yn ſtofi ar y Ceidwaid o honynt y Swydd hon tros eu Bywyd, ac yn eu rhyddhau oddi wrth bob Baich arall yn y Llywodraeth, yn filwraidd, ac yn wladol. Ar y cyntaf nid oedd ond dau yn y Swydd hon, ac yn cael eu galw *Duum viri*, yna daeth deg i fod, ag elwid *Decem viri*, ond yn y flwyddyn 76 cyn geni ein Jachawdwr ar ol lloſgi 'r *Capitol* a holl Lyfrau 'r *Sibils*, goſodwyd i fynu Gaſgliad newydd, o 15 Gwr iw cadw, ag alwent *Quindecim viri*.— Canys pan loſgodd yr holl Lyfrau gyd a'r *Capitol*, y Senedd a fwriadodd iw cael os oedd boſibl; am hynny anfonaſant Chwil am danynt i *Erithra*, ac i *Ionia*, lle cafwyd o bapurau oddiwrth hwn ac arall o berſonau neillduol, oddautu mil o werſi, yn Jaith *Groeg*, oll yn cael eu cyfrif yn Brophwydoliaethau, ac yn Oraclau rhyw rai o'r *Sibils*; chwiliwyd am danynt hefyd yn *Samos*, *Ilium*, a dinaſoedd eraill yn *Groeg*, *Sicily*, *Affrica*, ac *Italy*: a rhifedi mawr ag oeddyt yn dybied i fod felly a grynhowyd, ac a oſodwyd i fynu yn y *Capitol*, i gyflawnu lle y rhai a loſgwyd; ond mawr oedd y gwahaniaeth rhwng y naill a'r llall, nid oedd neb yn cael gweled y rhai cyntaf ond eu Ceidwaid, ond yr oedd Copiau o'r rhai'n yn gyffredin yn nwylo amryw, ac er eu cadw yn ddirgel yn *Rhufain*, etto yr oeddynt yn cael eu gwybod yn gyhoedd; ac oddi wrth y rhai'n y cafodd *Virgil* y Brophwydoliaeth *Sibilaidd* hynny o ddyfodiad Criſt, ac adferiad Cyfiawnder a Gwynfydedigrwydd i mewn i'r Byd trwyddo ef.—— Ac fe wnaed Cyfraith y pryd hyn yn *Rhufain* nad oedd i neb gadw Copiau o'r Oraclau hyn, ond eu traddodi i fynu i Lywodraeth-

wr

wr y ddinas, tan boen marwolaeth. Ond er hyn ei gid llawer o'r rhai oedd yn meddu Scrifenlaw o honynt a'u cadwafant yn eu dwylo, a rhai a chwanegafant bethau newydd attynt o'u heiddo eu hun, yr hyn a barodd i *Auguftus Ceſar*, pan cymmerodd yr Offeiriadaeth arno ei hun i loſgi dwy fil o Volumes o honynt fel y dywedpwyd eiſoes, gan gadw 'r lleill at wafanaeth y Llywodraeth; a rhai'n eilwaith barodd *Tiberius Ceſar* i'w chwilio, ac a loſgodd lawer rhagor, gan gadw yn unig y rhai oedd yn deilwng o dderbyniad at wafanaeth y Llywodraeth.

Eu. Pa beth ddaeth o'r Llyfrau hyn yn y Diwedd?

Ap. Am nad oedd gan y Cenhedloedd wedi dyfodiad ein Jachawdwr ond yr Oraclau hyn (canys ni lefarodd Satan trwy un Eulun wed'yn) fe'i cadwyd hwynt hyd y flwyddyn 399, pan deſtriwyd hwynt yn hollol gan *Honorius* yr Ymmerawdwr, wedi iddo gael allan nad oedd ynthynt ond twyll a chelwydd, a barodd eu lloſgi hwynt a themi *Appolo* hefyd ymha un yr oeddynt yngadw.

Eu. Nid oes dim ynteu o Lyfrau 'r *Sibiliaid* hynny yn awr mewn bod.

Ap. Fe wnaed Caſgliad o Brophwydoliaethau ag oeddyt yn eu derbyn ymhlith y Cenhedloedd yn lle Oraclau 'r *Sibils*, a'u doſbarthu yn Llyfr *Groeg* o ddautu dyddiau ein Jachawdwr; a chan fod yr holl brophwydoiliaethau ag oedd yn perthyn iddo ef ynddo, hyn a weithiodd lawer o ochr y Grefydd griſtianogol yn yr amſeroedd cyntaf. Ac am hynny yr oedd Criſtianogion yn eu hymddadleu a'r cenhedloedd, yn fynych yn gwneud defnydd o'r Oraclau hyn, ac yn apelio attynt i brofi yr hyn oeddynt yn eu broffeſu;

ac

ac oddiyma y gelwid Cristnogion yn y dyddiau hynny *Sibiliaid.* Ond rhwng y flwyddyn 138, a 167, cyfansoddwyd o newydd y Llyfr hwn, gyd a llawer o chwanegiad, gan ryw Gristion, yr hwn oedd a mwy o wres ynddo, nag onestrwydd, a doethineb; canys trwy lygru'r Oraclau ag oedd yn cael eu derbyn yn gywir fel eiddo 'r *Sibiliaid*, a phethau o'i ddyfais ei hun, na's clywyd son am danynt o'r blaen, fe ddestrywiodd awdurdod y cwbl; ac achos Cristianogrwydd a gafodd niwaid mawr trwy hyn; a'r Llyfr a wnaed i synu o'r gymmysgedd hyn, yw'r hwn sy yn awr mewn bod; rhai sy yn ei wrthod ef, rhai sy yn ei dderbyn, ond amryw o deidau'r Eglwys sy yn ei addef fel Copi cywir o'r Oraclau ag oedd ynghadw gan y *Rhufeiniaid*; megis *Justin Martyr*, *Athenagoras*, *Antiochenus*, *Tertulian*, *Lactansius*, *Eusebius*, *Ierom*, *Austin*, a'r cyfryw.

Eu. Pa fodd y daeth Prophwydoliaethau am ein Jachawdwr yn hwn?

Ap. Duw oedd wedi ordeinio fod dyfodiad ei Fab ef trwy'r fath Brophwydoliaethau a rhai hyn i gael eu rhagddangos i'r Cenhedloedd; a hyn a ddaeth i ben trwy y ddwy ffordd hyn. 1. trwy wasgariad yr *Iddewon* yn eu plith hwynt; cans amryw flynyddau cyn dyfodiad ein Jachawdwr, nid yn unig *Simeon* ac *Anna*, ond hefyd holl genedl yr *Iddewon* oedd mewn disgwiliad o'i ddyfodiad ef; ac nid hanes yr Efengyl yn unig sy'n mynegu hyn, ond mae *Josephus* yn tystio yr un peth; cans fe a ddywed mai disgwiliad oedd gan yr *Iddewon* amryw flynyddau o flaen dinystr *Jerusalem* o godiad Brenhin mawr o'u plith eu hunain, yr hwn oedd i berchennogi ymerodraeth y byd oedd yr achos y pryd hynny a'u cynhyrfodd hwynt i'r rhyfel hynny yn erbyn y *Rhufeiniaid*, ymha un

y darfu i'r ddinas honno, a'r deml gael ei hollol ddeſtrywio; prophwydoliaethau *Daniel*, ac eraill o'r hen Deſtament wedi nid yn unig, dweud am gyfiawnder a gogoniant teyrnas y *Meſiah*, ond hefyd wedi penderfynu amſer ei ymddangoſiad ef, ac oddautu 80 mlynedd cyn geni ein Jachawdwr, holl du *Iſrael* oedd feichiog o hono, a hynny barodd i'r prophwydoliaethau hyn gael chwedleua llawer am danynt trwy holl *Iudea*, gyda golwg o gyflawniad buan o honynt, yn enwedig yn ol i *Pompey* ddaroſtwng *Iudea* tan y jau *Rufeinaidd* o ba le y daeth yr un ymddiddan, a'r un diſgwiliad o'u buan gyflawniad i gael ei dannu ymhlith yr *Iddewon* gwaſgaredig, trwy'r holl fyd, a chan fod rhifedi mawr o honynt y pryd hynny yn cyfaneddu yn *Rhufain*, yn ninaſoedd *Groeg*, ac *Aſia* leiaf, cyſtal ag mewn lleoedd eraill o'r byd, daeth coffa mynych gan y Cenhedloedd, am y prophwydoliaethau hyn, a'r diſgwyliad am gyflawniad buan o honynt, nes o'r diwedd iddo dyfu ganthynt yn chwedl gwir a chael ei dderbyn fel eu horaclau hwynt eu hunain; ac yno impiwyd i mewn ynddynt, fel pe buaſent wedi dyfod o eneuau'r *Sibiliaid* eu hunain. Ac yn 2. ffordd arall ca'dd prophwydoliaethau am Griſt eu tannu ymhlith y Cenhedloedd oedd, oddiwrth yr oraclau cenhedlig eu hunain, fel hyn y cymhellodd Duw Baalam i brophwydo dyfodiad ei fab o *Iacob*; fel hyn y gwnaeth ef i'r doethion ddyfod o'r dwyrain, i addef, a'i addoli ef, ac y cymhellodd ddiaflaid eu hunain, pan y taflwyd hwynt allan iw addef ef yn Fab Duw; ac felly y mae hefyd yn ſwya tebygol fod yr yſbrydion drwg ag oedd yn cyfaneddu yn oraclau'r Cenhedloedd cyn iddynt adael eu trigfannau hynny, yn gorfod o'u han-

fodd

ſodd addef fod tywyſog mawr iw eni i'r byd. ——— A thrwy y pethau hyn y daeth cymmaint o ſon am ddyfodiad Criſt yn Llyfrau 'r *Sibiliaid.*

Eu. Ond i ddychwelyd at enwau y duwiau ſydd yn waſgaredig ar hyd yr hen Deſtament, attolwg pwy oedd *Tammuz* ſonir am dano yn *Ezek.* 8. fod y gwragedd yn wylo am dano?

Ap. Mae *Milton* yn canu am dano fel hyn.

Yn neſa *Tammuz* a'i flynyddol glwyf,
Yn *Lebanon* drodd merched *Syria* gynt,
I ganu ei archoll, a'i anhappus gwymp,
Mewn triſt ganiadau gydol faith ddydd hâf;
Caniadau o gariad, tra f'ai'r afon ſawr
Adonis megis gwaed yn mynd i'r mor;
Fel pe buaſai hi'n cydymdeimlo a'i glwyf,
Un dydd yn oeſtad yn y flwyddyn faith;
A'r hanes hon a drodd eu calon hwy,
Sef merched *Iuda* i gadw'r flwyddol wyl.

Megis pe buaſai ef ryw ddyn hynod wedi dioddef marwolaeth tros ryw achos cyffredin, a bod ei ddelw ef wedi ei goſod yn *Syria*, ac i'r goel-grefydd hon ddyfod i *Iuda* hefyd, a'u bod yn cadw gwyl flynyddol iddo. Ond mae yn fwy tebygol mai 'r haul oedd ty *Iuda* yn ei addoli tan yr enw *Tammuz*, St. *Hierom* a ddywed mai yr un oedd *Tammuz* ac *Adonis*, (delw ag oedd gan y *Groegiaid*) yr hon ſydd gan mwyaf yn cael ei dehonglu mai 'r haul ydoedd, yr hyn hefyd ſydd yn arwyddoccau Arglwydd, yr un peth a Baal a Moloc, ſef Arglwydd y planedau. — Ac am *Adonis* mae dau beth i ddal ſylw arno, ſef ei farwolaeth, neu ei golli ef, a'i gyfodiad, neu ei gael ef drachefn, ac fel yr oedd llawer o drifftwch wrth golli'r haul, pan y byddai hi yn mynd yn yr hydref tu draw i'r

gyhydedd, felly llawer o orfoledd fyddai yn ei dyfodiad yn ol i wneud hâf drachefn; a phwy ragor fyddai yn triftau yn yr achos hyn na'r gwragedd llawenydd pa rai fyddai yn fawr weled argoel o gael eu teiau yn llawn o yd, gwin, llaeth, ac olew; a thriftwch o weled yr haul yn ymadael, ac yn gadel tywyllwch, oerni, prinder, a phob anffrwythlondeb ar ei hol yn y gaiaf.

Eu. Mae fon am amryw dduwiau eraill yn yr yfgrythurau, megis Baalpeor, Num. xxv. 3. Baalfephon, Exod. xiv. 2. Baalzebub, 2 Bren. i. 2. Baalberith, Barn. viii. 33. pwy ydoedd y rhai'n?

Ap. Deallwch, fod yr enw Baal, neu Bel yn cael ei roi i amryw dduwiau, o ran ei fod yn arwyddoccau Pen, neu Arglwydd, fel dywedais eifoes, ac nid oes dim arwydd lai nad yr un Duw oedd y Babiloniaid yn ei alw Bel, ag oedd yr *Iddewon* yn ei alw Baal; ond o'r diwedd, daeth yn enw cyffredin, ar amryw dduwiau ac fel yr oedd gan y ddelw fawr *Jupiter*, amryw enwau, oddiwrth yr amryw leoedd yr oedd hi yn cael ei haddoli, ac weithiau oddiwrth yr amryw drugareddau fyddent yn dybied ei bod yn gyfrannu arnynt; — felly yr oedd gan Baal ei ditlau neilltuol, a Seremoniau neilltuol o addoliad, ac ei fod yn cael ei alw Baalpeor oddiwrth mynydd *Peor*, Num. xxiii. a'i deml ef ar y mynydd hwnnw elwir Bethpeor, Deut. iii. 29. ac felly am y lleill —— Ond rhai fy'n tybied mai Baalpeor, oedd *Priapus*, y duw anllad hwnnw ag y mae prydyddion cenhedlig gymmaint yn fon am dano, a mynn rhai mae yr un oedd a Chemos, duw *Moab*; ac am Baalfephon tybir mai delw oedd, wnaed gan fwynwyr yr *Aipht*; a'i gofod yn yr anialwch i ddal fylw arni,

arni, ac i rwyſtro yr *Iſraeliaid* yn eu ymadawiad a thir yr *Aipht*; ac am *Faalzebub*, yſtyr pa un yw arglwydd y pryfed hedegog, ymha yſtyr hefyd y gelwir pennaeth y Cythreuliaid yn yr Efengyl, *Baalzebub*, y ddelw hon oedd yn cael ei haddoli gan y *Cereniaid* ond yn enwedigol gan yr *Ecroniaid* o ran pa bryd bynnag byddent yn aberthi iddi, byddent yn diſgwil ſod y pryfed hedegog, y pryd hynny ag a fyddai yn blino'r wlad i farw, ond diau eu bod yn arfer myned atto fel oracl, fel y gwelir yn 2 Bren. i. 2. ac yn ganlynol yr oedd ef yn dduw i *Ecron* ar bob achos, fel duwiau eraill. Baalberith oedd dduw'r *Sichemiaid*, Berith oedd yn arwyddoccau cyfammod; ond nid oes dim gwybodaeth ſicr ymhellach am dano; nac ychwaith am Bel a'r Ddraig, ragor nac a ddodir i lawr yn yr Apocrypha; ac yr oedd gan y cenhedloedd gymmaint o gymmyſg titlau, enwau, ſeremoniau iw duwiau ac amſer hefyd wedi mynd mor bell, a'r ſcrifenwyr Iddewig mor amrywiol yn eu haneſion, ac mor ddigoel yn amryw o bethau ddodaſant i lawr, fel na's gellir gwybod nemawr gyda llawn ſicrwydd am y duwiau hyn oll, na threfn eu haddoliad.

Eu. Ond pa fath Dduw oedd *Dagon* y *Philiſtiaid*?

Ap. Fe ddywed rhai ei fod o'i fogel i wared fel pyſcodyn, ac oddiyno i fynu fel dyn; ac felly efe oedd *Neptune* neu *Triton* y *Philiſtiaid*, er y dywed eraill i'r gwrthwyneb.

Eu. Y peth neſaf gaf i ofyn yw, pa fodd y daeth *Iſrael* i wneud llun Duw yn gyffelyb i Lo, yn rhagor nac i un llun arall, yn yr anialwch?

Ap. Mae y rhan fwyaf yn meddwl mai oddiwrth arfer a ddyfgaſant gan yr *Aiphtiaid* y rhai

oedd yn addoli eu duw *Apis*, yr hwn alwent hefyd *Serapis*, mewn Ych byw, ac rai prydiau llun. neu ddelw o hono — a Bwſhel ar ei ben, yr Ych hwn oedd hynod am nodau anghyffredin, trwy ba rai yr oedd efe yn gwahaniaethu oddiwrth yr holl Ychen eraill; — yr oedd ei gorph yn ddu, a'i dalcen yn wyn, a brycheuyn o'i du ol, a chwlwm tan ei dafod; a thuag at wneud y nodau hyn ar y llo aur, *Aaron* a gymmerodd gun, ſef Engraver. —— Yr *Aiphtiaid* oedd yn myned at yr eulun hwn i ymgynghori ynghylch un peth amheuus, megis at oracl, fel y canlyn; yr hwn a ai i ofyn am un achos pwyſawr atto, a gynigai iddo ſottel o wair, neu laſwellt, yr hwn os derbyniai yr Ych ef, yr oedd hyn yn arwyddo canlyniad da, a dedwydd; ond os gwrthodai hyn, o'r tu arall oedd, yn arwyddo rhyw ddrwg i ddyfod. — A diau i'r eulunaddoliaeth gael ei dwyn o'r *Aipht*; ond o ba le y ca's yr *Aiphtiaid* hi, ſy'n cael ei wrthddadlu; ond mi debygwn nad yw y rhei'ny yn gamſyniol, y rhai a dybiant mai er coffadwriaeth i *Ioſeph*, yr hwn trwy raglunaeth a gynhaliodd yr *Aipht*, a'r gwledydd cymmydogaethol, tros ſaith mlynedd o newyn. — Yr oedd heb law tyſtiolaeth awdwyr, mae natur y peth yn rhoi lle i ni gredu hyn: ſef am fod blynyddoedd y llawnder, a newyn, yn cael eu rhagddweud trwy weledigaeth Ychen, a bod y ſath greadur ag Ych, pe buaſai heb gael ei addoli, yn emblem gymwys i gadw coffadwriaeth *Ioſeph*; trwy ofal pa un yn unig y ca's yd, a lluniaeth ei gadw erbyn amſer newyn, — ac ſe debygid fod y bwſhel ar ei ben ef yn dal allan yr holl yd a feſurwyd yn yr amſer hynny.

Eu. Ni cheiſiaſ gennych ragor am hyn ond dweud gair am rai o'r Duwieſau mae 'r ſcry-

thur

thurau yn ſon am danynt, ſef *Aſtoreth*, *Amonia*, *Iuno* Brenhines y Nef, *Diana*'r *Epheſiaid*, ac eraill pa un ai oedd y rhai'n tan amryw enwau, neu yntau rhyw rai neilltuol.

Ap. Fel ag yr oedd yr haul yn cael ei haddoli tan amryw enwau, felly hefyd y lleuad. — Delw y *Sidoniaid* oedd *Aſtoreth*, gan ba un yr oedd teml a'i henw, tŷ *Aſtoreth*, ymha un y crogodd y *Philiſtiaid* arfau *Saul* ar ol ei farwolaeth, 1 Sam. xxxi. 10. a diddau mai y lleuad oedd yr *Aſtoreth* hyn, yr hon elwir mewn lleoedd eraill *Iuno*, ac weithiau eraill *Urania*; rhoant i'r lleuad yr enw *Urania*, o ran ei goleuni, a'r enw *Aſtoreth* o ran ei bod yn frenhines ar y lleill o'r planedau, a'r enw *Iuno* o ran ei bod yn frenhines y duwiau; ac nid oes lle i feddwl llai, nad hon oedd Brenhines y Nef ſonir am dani yn Jer. vii. 18. — Jer. xliv. 17. a'r lleuad hefyd gafodd yr enw yma *Diana*, yr hon nid oedd yn cael addoliad mor wreſog yn un man nag yn Epheſus; er ei bod yn cael ei haddoli trwy holl *Aſia*.

Eu. Yr ydych yn rhoi chwant arnaf i wybod pa beth oedd y temlau arian hynny oedd y crefftwyr yn wneud i *Ddiana?*

Ap. Am y temlau hynny nid oent ond math o rai bychain ag ellid ddwyn i ſynu ac i wared, wedi eu gwneud ar lun y deml fawr yn Epheſus; a hefyd llun y ddelw honno o'i mewn hi, y deml a hithau wedi eu gwneud o'r arian, a rhai'n yn cael eu prynu gan yr addolwyr, ac felly yn peri elw mawr iawn i'r crefftwyr; ond rhai ddywed mai bathu arian oedd y crefftwyr hyn, ar ba rai 'roedd llun *Diana*, a'r deml, ac fe ddywed Beza iddo ef weled dau o'r fath ac yn ſcrifennedig arnynt *Dian ephe.*

Eu. Mae'n debyg wrth hyn, mai'r haul, a'r lloer,

lloer oedd Duwiau pennaf y cenhedloedd, ond eu bod yn eymmeryd Symbols o bethau daearol, megis Lluniau o goed, pren, a maen, aur ac arian, tân hefyd a dwfr iw repreſentio hwy wrthynt.

Ap. Gwir yw, ond hwy addolaſant y planedau oll mewn mannau o'r Byd, a'r Sêr eraill, y rhai a eilw yr Yſgrythur *Llu 'r Nef* ac yn ganlynol enwir yn y Gair ſanctaidd Luoedd o Dduwiau, na roir dim o'u henwau, o'r natur hyn mae'r delw-geiloedd a welodd Ezec. viii.

Eu. Yr wyf finnau yn cofio pan darfu i Frenhin *Babel* gaethgludo *Samaria*, a dwyn i mewn amryw Genhedloedd yn eu lle hwynt; i fod pob un o honynt i waſanaethu Duw ei wlad ei hunan; ſef trigolion *Babel*, i waſanaethu *Succoth-benoth*, Gwyr *Cuth* a addolaſant *Nergal*; Gwyr *Hamath*, *Aſima*; Gwyr *Afim*, a waſanaethent *Nibhas*, a *Thartac* yn Dduwiau, a'r *Sepharfiaid*, a loſgaſant eu Meibion yn y tân i *Adrammelec*, ac i *Anammelec*, Duwiau *Sepharfaim*, 2 Bren. xvii. 30.

Ap. Ond pwy medd un Dyſgawdwr Juddewig oedd y rhai'n?

Eu. Ni's gwn.

Ap. Succoth-benoth oedd Lun Giar a Chywion; *Nergal* maent yn ei ddehonglu Ceiliog Coed; *Aſima*, Gafr; *Nibhas* Ci; *Tartac* Aſen; *Adrammelec* Mwlfyn; *Anammelec* March; ac er mor ynfyd yw hyn, Awdwyr cenedlig fydd yn tyſtio 'r Gwirionedd o hono yn aml jawn. Y Ceiliog Coed oedd yn cael ei addoli ymhlith y *Syriaid*; Gafr gan rai, Cwn gan rai; gwnaethant o'r diwedd at rifedi eu Duwiau, Ychen, Llewod, Eryrod, Bleiddiaid, Crocodiliaid, Cathod, Llygod, a'r cyfryw; ie hwy gloddiaſant eu Duwiau allan o'r Gerddi, Garlleg, Cennin,

nin, ac Wniws.—Am hynny y mae yn ofer ceiſio chwilio maes pwy ydoedd, neu beth ydoedd yr holl Dduwiau a ſonir am danynt yn yr Yſgrythur; na pha ſut oedd trefn eu haddoliad, a pha ddull oedd eu henwau, wedi eu cymmyſgu a'u gilydd; ond diau, fod y rhan fwyaf a'r rhai pennaf, yn rhyw rai o'r Sêr, a'r Planedau; fe ddywedir hefyd yn yr Yſgrythur am *Niſroc*, Duw *Aſyria*, teml yr hwn mae 'n debyg oedd yn Babilon. —— 2 Bren. xix. A *Rimmon*, ac eraill, na's gellir dweud dim am danynt ond eu henwi.

Eu. Chwi roiſoch i mi ryw ſodlonrwydd am amryw bethau ac nad oes lle i fod yn gwbl ſicr am beth mor bell, ond a oes dim gwybodaeth i gael pa ddull yr oedd y Seremoniau addoliad y *Rhufeiniaid*, y rhai a ddyrchafafant Baganiaeth fel y dywedaſoch o'r blaen i'r uwchder mwyaf, a rhifedi eu duwiau i fil a rhagor, yr wyf yn bennaf yn goſyn hyn, i wybod pa faint o honynt oedd wedi ei benthycca oddiwrth yr *Iddewon*?

Ap. Yn amſer yr aberth, yr Offeiriad ei hun, ond weithiau y ſawl fyddai yn dwyn yr aberth, a ymwiſgai mewn dillad gwynion, heb un Brycheuyn; yr anifail ag oedd i fod yn aberth, os byddai fe yn un o rhyw mwyaf, oedd arferol o gael ei nodi ar ei gyrn ag aur; ond os o rhyw leiaf, cai ei goroni a Dail y pren b'ai y Duw hwnnw gwneud yr aberth iddo yn ymbleſeru fwyaf ynddynt. — Hefyd byddent arferol o oſod Talaith wen oddautu eu pennau hwynt. —Ond cyn y fath Broſeſſion a hyn, y Criwr a waeddai, *hoc age*, wrth y bobl; ſef gwna hyn; megis nod iddynt beidio gweithio, a diſgwyl ar yr aberth; y pibyddion, a'r telynorion fyddai yn myned o'r blaen, a'r amſer a allent

allent ei droi heibio oddiwrth eu hoffer-gerdd, fyddai yn cael ei ofod at gynnorthwyo 'r criwr i rybuddio'r Bobl. — Pan y byddai yr aberth wedi ei dwyn at yr allor, yr offeiriad a gymmerai afael ar yr allor, ac un llaw, ac a ddechreuai 'r weinidogaeth; ſef gweddi at yr holl dduwiau, gan enwi *Janus* a *Veſta* yn waſtad yn gyntaf, ac yn olaf, megis pe buaſent trwy y rhai'n yn cael dyfodfa at y lleill. — Tra fyddid yn gweddio rhyw ſwyddog cyffredin a waeddai allan, *Favete Linguis*, a'r Pibydd a ganai yn waſtad trwy'r holl amſer, rhag clywed dim llais anedwydd; yna yr offeiriad ar ol gweddi ddechreuai'r aberth, gan daflu Yd, Thus, a Blawd wedi ei gymmyſgu a Halen, ar ben yr anifail; ac yna y tywalltai win rhwng ei gyrn, ond cyn tywallt y gwin, fe roi y ddiſgl wrth ei wefus ei hun; ond i gyffwrdd a dim ond a'i dafod, gan ei roi i rai o'r rhai f'ai 'n ſefyll wrth glŷn i wneud yr un peth. Yn y lle neſaf, fe dynnai rai o Flew mwyaf yr anifail, y rhai f'ai yn tyfu rhwng ei gyrn ac a'u taflai hwynt i'r tân; ac yna gan droi ei hun tua 'r *Dwyrain*, fe wnai fath o Lîn grwcca o dalcen i ben yr Eidion; ac yna fe'i rhoi iw weiſion iw ladd ef, y rhai ar ol hynny a'i blingent, a dynnent ei berfedd, ac a'i golchent yn lân mewn dwfr. — Ac yna gwaith y Dewin a ddeuai ymlaen i chwilio ei ymyſgaroedd am newyddion da, neu ddrwg. A phan byddai hyn wedi darfod; gwaith yr offeiriad yn unig fyddai gofod y rhannau hynny ag fyddai cymmwys i'r Duwiau ar yr allor, ac ymborthi ei hunan ar y lleill.

Eu. Ond chwi ſoniaſoch unwaith am Dân yn cael ei gadw ganthynt fel yr *Iuddewon* yn ennyn yn waſtad ar yr allor, ac amryw fath o forwynion wedi eu gofod i'r diben hyn, attolwg rhoddwch im' ragor o'r hanes. *Ap.*

Ap. Y tân hwn oeddyt yn ei gadw yn ennyn er mwyn y dduwies *Veſta*, i ba un yr adeiladwyd teml yn *Rhufain*, a morwynion wedi eu cyſegru i weini iddi, yu enwedig y rhan honno o'i gwaſanaeth, ſef cadw Tân yr allor heb ddiffoddid; ac os diffoddid wnai trwy ryw ddamwain neu eſgeuluſdra, hwy edrychent arno fel y troſedd mwya i ennyn ef drachefn ag un Tân cyffredin, am hynny gwnaent ddefnydd yn unig o belydr diſglair digymmyſg yr Haul; ond ar y dydd cyntaf o *Fawrth* hwy cynnent ef o newydd, pa un bynnag wnai a diffoddid neu beidio; — Pedair morwyn fyddai yn waſtadol yn cael eu cyſegru i'r gwaith hwn; — Yr oedd yn rhaid iddynt fod tros 30. o flynyddau yn weddwon, a byw yn y diweirdeb mwya manwl yn y cyfamſer. — Y 10 mlynedd cyntaf byddent yn newyddian yn dyſgu Sermoniau, ac yn perffeithio eu hunain yn nyledſwyddau eu crefydd. Y 10 neſaf byddent yn cyflawnu eu ſwyddau offeiriadol; ac yn treulio'r 10 olaf i ddyſgu eraill. Yn ol i'r Terem hyn gael ei gyflawnu, gallent adael eu ſwydd, a dewis pa gyflwr bynnag fyddai yn perthyn iw tueddiadau: ond ar y troſedd lleiaf, yr oeddent iw coſbi fel y gwelai yr Arch-offeiriad fod yn dda.—Ond os torrent Lw ei morwyndod yr oeddid iw claddu yn fyw, mewn lle tu faes i'r Murriau, ag oedd wedi ei oſod i'r diben hynny ac enwid *Campus Celeratus*.

Eu. Chwi roiſoch im' lawer o fodlonwydd am a ddywedaſoch, y peth neſaf gaf ofyn i chwi fydd am Grefydd y *Perſiaid* ag y dywedaſoch mae oddiwrthynt hwy y daeth Tân i fod yn Symbol o'r Haul, ni's gwn pa fath ydynt.

Ap. Yr ydych yn gofyn am Sect y *Magiaid* yn *Perſia* yr hon a fu gynt yn fawr iawn;

ac

ac heb ei diddyfnu etto; mae'r ſect hon o Baganiaeth mor hên, na's gellir rhoi hanes o'i dechreuad; — Ond fe'i hadferwyd, ac fe'i codwyd o'r newydd, ac fe'i taclwyd i'r radd fwyaf yn amſer *Darius Hyſtaſpes*.

Eu. Pwy oedd y Diwygiwr? ymha beth y diwygiwyd hi? a pha rai ydoedd ei hegwyddorion hi o'r blaen?

Ap. Ei enw oedd un *Zoroaſtres*, gwr tlawd o enedigaeth, ond fe ddyrchafodd ei hun trwy ddichell yn unig i ddwyn ymlaen ei Impoſture, trwy ba un y darfu iddo dwyllo 'r byd; efe oedd y twyllwr mwya, ond *Mahomet* ei hun a ymddangoſodd erioed ar y ddaear; yr hwn oedd nid yn unig yn berchen ar holl Gyfrwyſdra, Dichell, ac Eondra digywilydd yr *Arabiwr* hwnnw, ond hefyd yn berchen llawer mwy o ddyſg, cans yr oedd efe wedi ei ddyſgu yn holl ddoethineb y *Dwyrain*, lle nad oedd *Mahomet* yn medru darllain, na ſcrifennu, ac yn neillduol yr oedd efe yn gyfan adnabyddus o holl Grefydd yr *Iuddewon*, ac yn holl ſcrifenadau ſanctaidd yr hen Deſtament, ag oedd y pryd hynny mewn bod; yr hyn ſydd yn dodi'r peth yn debygol ei fod ef ei hun o'i ddechreuad yn *Iuddew*, ac fe ddywedir gan amryw am dano, ei fod ef yn was i un o Brophwydi *Iſrael*; ac wrth gyfrif amſerau, nid oedd un prophwyd ag y gallſai ef fod yn was iddo ond *Daniel*. Ac nid oedd un meiſtr arall yn y dyddiau hynny tan ba un y gallſai gyrraedd i gymaint o wybodaeth mewn pethau ſanctaidd, a chenhedlig, ag oedd efe wedi ei addurno a hwy. Ac y mae yn ddigon tebyg, mae am ei fod ef yn gweled y gwr doeth, ardderchog, a duwiol hwnnw, wedi ei godi i'r fath uwchder o ogoniant yn yr ymerodraeth, trwy ei fod yn wir Brophwyd i Dduw,

Dduw, oedd un peth a oſododd y dyn dichellgar hwn, a'i ddiben i geiſio bod yn gau un ei hunan; gan obeithio trwy weithredu ei ran yn dda, y deuai yntef i ſeddiannu yr unrhyw dderchafiad; ac y mae'n rhaid dweud hyn mai trwy ei dwyll a'i ddeheudra iddo lwyddo yn rhyfeddol yn y peth yr oedd yn ceiſio cyrraedd atto.

Eu. Ond y mae arnaf frys i glywed pa fath oedd y grefydd newydd a glyttiodd ef i fynu?

Ap. Ei darnio hi i fynu a wnaeth ef, cans nid oedd ond diwygiad o grefydd y *Magi*, yr hon oedd er's llawer iawn o oeſoedd yn *Media*, a *Pherſia*; ond y pryd hyn wedi dyfod tan gywilydd, a hynny oddiwrth farwolaeth rhai o'i Phenaethiaid, y rhai ddaethant trwy ormes i gymmeryd y llywodraeth iddynt eu hunain, ar ol *Cambyſes*, a'r lladdfa a wnaed o'r holl wŷr mawrion yn eu plith, hyn a wnaeth iddi bron diffodd; a chrefydd y *Sabiaid* a neidiodd i mewn yn ei lle hi.—A *Zoroaſtres* ynteu yn gweld mai diwygiad o grefydd y *Magi* oedd y ddyfais orau o dwyll ag allaſai efe chwareu y pryd hynny, am ei fod yn gwybod yr hen ſerch oedd gan y bobl at grefydd eu teidau, — yn yr hon y cawſant eu dwyn i fynu a bod bron yn amhoſibl ei diwreiddio hi allan o'u meddyliau — ac wrth ganfod y fath hen foncyff i himpio i mewn yn ei ddiwygiad newydd, hawſach oedd iddo wneud iw blanhigion ei hun dyfu.

Eu. Ond pa fath oedd y diwygiad?

Ap. Y diwygiad cyntaf a wnaeth efe oedd yn eu hegwyddorion; can's lle yr oeddynt yn dal o'r blaen, ddau Fod, neu Dduw, y naill oedd Goleuni, neu'r Duw da, yr hwn yw awdwr pob da; a'r llall Tywyllwch, neu 'r

Duw drwg, yr hwn oedd awdwr pob drwg; ac o gymmyſg o'r ddau hyn fel yr oeddynt mewn gwaſtadol ymgyrch, y naill yn erbyn y llall y gwnaed pob peth. — Ond yn y diwygiad hyn, fe ddygodd *Zoroaſtres* i mewn egwyddor uwchlaw'r ddau, ſef un Goruchel Dduw a greoedd oleuni a thywyllwch, ac o'r ddau hyn, ſef goleuni a thywyllwch ar ol pleſer ei ewyllys ei hun y gwnaeth bob peth arall, megis mae yn Eſay xlv. 5, 6, 7. *Myfi ydwyf yr Arglwydd ac nid neb arall, ac nid oes Duw ond myfi; gwregyſais di, er na'm hadwaenit: Fel y gwypont o godiad haul, ac o'r gorllewin, nad neb onid myfi: myfi yw'r Arglwydd, ac nid arall: Yn llunio goleuni, ac yn creu tywyllwch; yn gwneuthur llwyddiant, ac yn creu drygſyd: myfi'r Arglwydd ſydd yn gwneuthur hyn oll.* Pa Eiriau oedd cael eu hanfon at *Cyrus* Brenhin Perſia i ſynegu, nad oedd Duwiau o dywyllwch ag o oleuni ag oedd Crefydd y *Magiaid* yn ddal ond dim; ac mae Duw'r Duwiau ei hun oedd yr unig un ag oedd yn rhoi pob Buddugoliaeth i *Cyrus* er nad adwaenai ef mo hono.

E. A oedd ef ddim fel hyn yn gwneud y Duw Hollalluog yn awdwr drwg cyſtal a da?

A. Tu ag at ymwrthod a hyn *Zoroaſtres* oſoddodd allan, na chreodd Duw yn union gyrch, ac yn wreiddiol, ond goleuni, neu dda yn unig, ac i Dywyllwch neu ddrwg ddyfod ar ei ol ei trwy ganlyniad, fel y mai gogyſgod yn dilyn gwr; yn ſyr ei athrawiaeth ef yn hyn oedd, fod un Bod goruchel o hono ei hun, heb bwyſo ar neb o Dragwyddoldeb, a bod tano ddau Angel, un tan enw Angel y goleuni, yr hwn yw awdwr, a chyfarwyddwr pob Daioni, a'r llall Angel y tywyllwch yr hwn yw awdwr a chyfarwyddwr pob drwg; ag i'r ddau hyn o gymmyſg goleuni a thy-

a thywyllwch i wneud pob peth a wnaethpwyd, a'i bod mewn rhyfel gwaſtadol a'i gilydd, a pha le bynnag i bo Angel y goleuni yn ennill, yno mae y rhan ſwya yn dda, a pha le bynnag bo Angel y tywyllwch yn ennill, y rhan ſwya ſydd yno yn ddrwg; bydd yr ymdrech hyn i bara hyd ddiwedd y Byd, a'r pryd hynny bydd adgyſodiad cyffredin, a Dydd Barn, ymha un y bydd Taliad cywir i bod un yn cael ei wneud ar ol eu gweithredoedd; ac ar ol hyn bydd Angel y Tywyllwch a'i Ddyſgyblion ſyned i fyd o'i heiddo eu hunain ymha un y dioddefant Dywyllwch mewn tragwyddol Boenau am eu gweithredoedd drwg: ac Angel y goleuni yntef a'i eiddo a ant i Fyd o'i heiddo eu hunain, i ſwynhau mewn tragwyddol oleuni, y wobr ddyledus iddynt am eu gweithredoedd da; ac ar ol hyn y parhant yn wahanedig byth; a goleuni a thywyllwch ni's cymmyſgant mwy yn dragywydd: Ac y mae gweddill o'r Sect hon yn *Perſia* a'r *India* yn dal felly hyd y dydd hwn. Er rhwng *Mahometaniaid*, *Juddewon*, y *Sabiaid*, ac eraill o Enlun-addolwyr nid ynt nemawr mewn Cydmariaeth i fuont.

E. Ond pa ddiwygiad ragor wnaeth ef yn Nghrefydd y *Magiaid?*

Ap. Fe wnaeth Demlau Tan, i gael eu hadeilaau i ba le bynnag daeth ei grefydd ef, canys hyd hyn, nid oedd un Deml ganthynt; ond. Allorau ar ba rai yr oedd ei Tan ſanctaidd yn cael ei gadw, a rhai'n oedd yn ſefyll ar Bennau Glenydd a Lleoedd uchel yn yr awyr agored; ac yno yr oent yn cyflawnu pob Gwaſanaeth crefyddol, lle yn fynych byddai y Glaw, y Demeſtl, a'r Stormydd yn diffoddi eu Tan ſanctaidd; a gwaſanaeth eu Crefydd yn cael ei rwyſtro, a'i aflonyddu, am hynny gwnaeth *Zoroaſtres*

iddynt adeiladu Temlau ymhob man byddai allor wedi cael ei hadeiladu o'r blaen, fel nad ai'r Tan yn niffodd, na'r gwaſanaethu gael ei rwyſtro byth mwy; canys holl Rannau ei haddoliad cyhoedd oedd yn cael ei gyflawnu o flaen Tan ſanctaidd cyffredin, megis hefyd yr oedd eu holl Addoliad neillduol a dirgel hwynt o flaen Tan neillduol gartref yn ei Teiau eu hunain.

E. Nid oeddynt ddim yn addoli'r Tan?

Ap. Nag oeddynt ond Duw yn y Tan; canys hyn oeddent yn waſtad yn ſefyll yn ei erbyn.

E. Pa fodd daeth y Tan o gymmaint Barch yn eu holl addoliad?

Ap. Zoroaſtres ymhlith ei ddichellion eraill, a ddychymygodd iddo gael ei godi i'r Nef, ac yno iddo gael ei ddyſgu yn yr Athrawiaethau hynny ag oedd ef i draddodi i Ddynion; ni's cymmerodd arno (fel y gwnaeth *Mahomet* wedy'n) iddo weled Duw ond iddo ei glywed ef yn llefaru o ganol fflam o Dan mawr, a diſglair; ac am hyn a ddyſgodd eu ganlynwyr, mae Tan oedd y *Shekina* mwya cywir o'r preſenoldeb dwyfol; ac mae'r Haul oedd y Tan mwya perffaith, a fedd efe ei hun yn y Nef, gorſedd ei ogoniant, a phreſwylfod ei ddwyfol Fawrhydi; ac yn neſaf iddo y tân ſydd ar y ddaear, ac o'r achos hyn y perodd *Zoroaſtres* iddynt gyfeirio eu holl addoliad yn waſtad i Dduw a'i hwynebau at yr Haul, ac yn neſaf tuag at y Tan ſanctaidd, megis peth oedd Duw bennaf ynddynt yn preſwylio.

Eu. A oeddynt yn cadw eu hwynebau at y tân ac at yr haul ar unwaith?

Ap. Yr oeddynt yn waſtad yn neſau at y tân o du'r Gorllewin fel b'ai eu hwynebau hwynt ar yr un pryd at yr haul yn codi, ac at y tân ſanctaidd; ac yn y dull hyn o ymddygiad y cyflawnent bob math o addoliad, pa le bynnag y baent.

Eu.

Eu. Yr ydych yr awr hon yn agor fy llygaid i weled yſtyr *Ezec.* viii. 16. lle'r adroddir i'r prophwyd i gael ei ddwyn mewn gweledigaeth i *Jeruſalem* i weled ffieidd-dra 'r lle hwnnw; ac ymhlith llawer o ddrygau, ſe ganfu yno 25 o wyr yn ſefyll rhwng y porth a'r allor a'u cefnau at Deml yr Arglwydd, a'u hwynebau tua 'r Dwyrain yn addoli'r haul: mae'n debyg mai'r yſtyr yw, bod y rhai'n wedi 'madel ag addoliad y gwir Dduw a myned troſodd i grefydd y *Magiaid.*

Ap. Yr ydych yn dal ſylw union; canys wrth newid eu *Kebla* (ſef pwynt o'r awyr ag oeddynt yn troi eu hwynebau atto wrth addoli) yr oeddynt yn newid eu crefydd. Yr *Juddewon* oedd yn addōli a'u hwynebau tua *Jeruſalem*, y *Mahometaniaid* tua *Mecca*; y *Sabiaid* tua'r *Meridian*, a'r *Magiaid* tua chodiad yr haul.

Eu. Mynegwch ragor am y rhyw o dân, pa fath goed a'r dull yr oeddynt yn ei feithryn ef.

Ap. Rhaid i'ch ddeall i *Zoroaſtres* er rhoi rhagor o barch i'r tân ſanctaidd ar yr allor, gymmeryd arno pan oedd ef yn y nef, a chlywed Duw yn llefaru wrtho o ganol y tân, i ddwyn gydag ef ryw faint o'r tân hwnnw wrth ddychwelyd, ac iddo ei oſod ef ar allor y Deml dân gyntaf a adeiliadodd ef, yr hon oedd honno yn *Xiz* yn *Media*, o ba le meddant y tannwyd ef i'r lleill oll. — A thyma yr achos yr ydys mor wiliadwrus i gadw ef heb ddiffodd, cans eu hoffeiriaid a wiliant nos a dydd, ac fyth ni ddioddefant iddo ddiffodd, ac er dangos mwy fyth o anrhydedd iddo, meithrynant ef a choed wedi eu rhiſglo; y fath goed gyfrifyd yn lân; ac ni's chwythant ef

byth a begin, nag a'u hanadl, rhag ofn ei halogi ef; a phwy bynnag a wnai hyn, hwy gofbid wrth gyfraith y tir a marwolaeth. A'r holl amſer y bu y Sect hon yn teyrnaſu, ſef o *Zoroaſtres* i'r brenhin diweddaf o'r ſect, ſef 1150 o flynyddau yr oedd eu coel grefydd wedi rhedeg mor bell yn y pwngc hwn na neſau'r offeiriad ei hunan at y tân ſanctaidd heb liain tros ei wyneb rhag iddynt anadlu arno; a hyn nid yn unig pan y byddent yn agoſau atto i ddodi cynnyd arno, ond hefyd pan byddent yn agoſau atto i ddarllain y gwaſanaeth beunyddiol o'i flaen ef.

Eu. Nid oedd y darllain hwnnw ond ſael, pan oedd lliain yn gorchguddio eu geneuau?

Ap. Gwir yw, nid oeddynt ond mwmlan eu gweddiau troſdynt yn hytrach na'u dywedyd, yn gyffelyb i'r offeiriaid pabaidd yn dweud eu Maſs, heb adel y bobl yn eglur i glywed un gair; ac os buaſent yn clywed cynddrwg y buaſent yn ei ddeall; canys y mae eu holl weddiau cyffredin hwynt yn jaith y *Perſiaid*, ymha un y darfu i *Zoroaſtres* gynta eu cyfanſoddi hwynt, oddautu 2250 o flynyddau aeth heibio; yr hon jaith nid yw y bobl gyffredin yn awr yn deall un gair.

Eu. Mae yn hawdd gennyf gredu ei fod ef yn hyddyſg o'r grefydd Juddewig, diſgrifiad *Moſes* o gwymp dyn, a'r angylion; ac mi wela trwy bob rhan o'i grefydd ryw bethau wedi eu tynnu oddiwrth arfer yr *Juddewon*; ond ei fod wedi eu gwiſgo, a'u haddurno a'i ddyfais ei hun — nid oedd bod Duw yn y tan debygwn ond yr hyn a gafodd o i Dduw ymddangos i *Foſes* yn y berth, ac i holl *Iſrael* ar *Sinai*, — nid oedd cadw eu hwynebau at yr haul, a'r tân ſanctaidd, ond yr hyn a gafodd ef yn *Shekina*

yr

yr *Juddewon*, — mi wela os oedd gan *Iſrael* dân, ſanctaidd wedi dyfod o'r nef ar allor y poeth offrwm, yr hwn oedd yn cael ei gadw yn ennyn fyth wed'yn, yr hwn hefyd nad oedd lle i arferyd tân arall ond efe, nes diſtrywio *Caerſalem* gan y *Câldeaid*; felly *Zoroaſtres* hefyd, gymmerodd fod ei dân yntef wedi dyfod o'r nef; rhaid oedd ei gadw yn yr un wedd heb ddiffodd, — ac fel yr oedd gofal mawr am ddewis coed glân at waſanaeth yr allor yn *Jeruſalem*, a rhai'n wedi eu rhiſglo, a'u hedrych cyn eu rhoi ar yr allor; ac ar ol eu dodi ar y tân, nid oedd lle iw chwythu a begin, nag ag anadl; felly gorchymynodd *Zoroaſtres* yr un modd.

Ap. Ond wrth ddangos rhagor o'i goel grefydd ef, chwi welwch fyth yn fwy eglur iddo fenthycca ei feremoniau oddiwrth yr *Juddewon*, canys ei ffordd o gynnu 'r tân os ai yn wan, oedd tywallt olew arno yr hwn ynghyd a'r awyr a'i hennynai drachefn.

Eu. Pa drefn a gymmerodd ef gyntaf i ddechreu y fath ddiwygiad newydd a hwn ac yr ennillodd gymmaint ar ferchiadau 'r bobl?

Ap. Y peth cyntaf a wnaeth ef i ddwyn ei amcan i ben oedd, myned i ogof, a byw yno amſer hir, megis Mynach, wedi cymmeryd arno ei fod wedi ymneillduo oddiwrth bob yſtyriaethau bydol, ac wedi rhoi ei hun i fynu i weddi a myfyrdodau dwyfol, — ac er difyrru y bobl oedd yn cyrchu atto yn fwy, fe addurnodd i fynu ei ogof ac amryw luniau cyfgodol yn repreſentio 'r haul, a dirgeledigaethau eraill o'i grefydd newydd ei hun; a thra fu yn yr ogof hon y cyfanſoddodd ef y llyfr fydd yn cynnwys holl athrawiaethau, arferion, a dirgeledigaethau

crefydd

crefydd y *Magiaid*; ond ar ol ymddangos i'r byd, fe dannodd ei grefydd newydd trwy *Media*; ac ar ol dyfod i *Bactria* y wlad fwya dwyreiniol, fe arofodd yn ninas *Balch*, yr hon fydd ar lan afon *Nexus*, ar gyffiniau yr *India*, *Perfia*, a *Chowarefima* ymha le trwy gynnorthwy *Hyfdafpes*, tad *Darius*, darfu iddo dannu ei grefydd trwy'r holl wlad honno gyda llwyddiant; a thuag at gael gwybodaeth gwell; fe aeth drofodd i'r *India*, at y *Bramaniaid* lle y dyfgodd ef eu holl wybodaeth hwy yn y Mathematics, Aftronomy, a Philofophy; ac a ddyfgodd ei offeiriaid ei hun hefyd, ar un rhyw; a darfu iddynt bara oefoedd hirion wedi hyn uwch pawb eraill yn fedrus yn y celfyddydau. Ac ar ol iddynt gael eu dyfgu ynddynt ganddo ef yr hwn oedd y Philofopher mwya yn yr oes yr oedd yn byw, ac a gymmerodd ofal adeiladu ei fect, nid yn unig yn ei grefydd, ond hefyd ymhob gwybodaeth naturiol; yr hyn a dderchafodd eu clod hwy eymmaint yn y byd, fel y daeth Magian a dyn dyfgedig yr un peth, neu yr un enw, ag mor belled y derchafwyd hwynt i fynu i dyb y bobl gyffredin, i gredu fod eu gwybodaeth uwchlaw cyffredin, a naturiol, ac a dybiafant am danynt ei bod yn cael eu hyfbrydoli, gan alluoedd goruwch naturiol; yn yr un ffynud ag y mae gyda ninnau bobl anwybodus yn barod i roi yfcolheigion mawrion a rhai dyfgedig uwchlaw cyrraedd eu hamgyffred yn gonfierwyr, ac oddiyma daeth y rhai fydd yn arferu y celfyddydau dieflig i gael enw Magiaid, ac a dynnafant arno yr yftyr drwg hyn yr hwn yn awr mae'r gair Magician yn arwyddoccau gyda ni. Ond deallwch nad oedd ond yr offeiriaid yn unig, y rhai oedd un llwyth heb gymyfgu

myſgu, na phriodi, ond eu llwyth eu hunain yn cael eu dyſgu i fynu fel hyn, o dàd i fâb, yn waſtadol. — Ond hefyd y brenhinol deulu fyddai yn cael eu dwyn i fynu yn nyſgeidiaeth y Magiaid, a rhyw rai o lwyth yr offeiriaid fyddai yn waſtad yn Dutoriaid ac yn Gaptenïaid ym mhalas y brenhin.

Eu. A rhai o'r ſect hon oedd y doethion a ddaethant o'r Dwyrain a rhoddion aur, thus, a myrrh, i ein Harglwydd Jeſu yn faban yn *Bethlehem?*

Ap. Yn ddiau, y maent yn cael eu galw yn *Fagi* yn y lladin, ac yn dywedyd mai o'r dwyrain y daethant, — Mae un awdwr yn dywedyd i *Zoroaſtres* i ragfynegu iw *Fagiaid*, am ddyfodiad Criſt, ac amſer ei enedigaeth, ac y byddai ſeren i ymddangos yn y Dwyrain mor rhyfeddol fel y goleuai hi'r dydd fel nos: ac am hynny rhoddodd orchymmyn iddynt pan ymddangoſai hi, iddynt ddilyn ei chyfarwyddyd a myned i'r màn y byddai efe wedi cael ei eni, ac yna offrwm rhoddion, a gwneud addoliad iddo; ac mai wrth y gorchymmyn hwn y daeth y doethion neu y Magiaid hyn o'r Dwyrain i *Bethlehem* — er dywed eraill mai trwy brophwydoliaeth *Baalam* y daeth y gwyr hyn i *Bethlehem.*

Eu. Mynegwch ychydig am drefn eu hoffeiriaid?

Ap. Ymhlith eu hoffeiriaid hwynt yr oedd tair gradd, yn 1taf. offeriaid cyffredin; 2. Superintendiaid, neu olygwyr, y rhai oedd bob un yn ei ardal ei hun yn llywodraethu'r offeiriaid, fel Eſgobion gyda ni; 3. Ond o war pawb yr oedd yr *Archimagus*, neu 'r archoffeiriad, yr hwn oedd ben arnynt oll, ac fel yr oedd graddau eu hoffeiriaid o ddau fath, felly hefyd yr

oedd

oedd eu temlau, canys yr oedd ganddynt, yn 1. eglwyſydd neu demlau plwyfol, y rhai'n a waſanaethyd gan yr offeiriaid cyffredin, a'r dyledſwyddau oedd i gyflawnu yno, oedd darllain gwaſanaeth beunyddiol allan o'r *Liturgy*, ac ar ryw amſerau priod darllenant ryw ran o'u ſcrifenadau ſanctaidd i'r bobl; nid oedd dim tân yn yr eglwyſydd hyn, ond y tân ſanctaidd o flaen pa un y byddent yn addoli oedd yn unig yn cael ei feithryn mewn lamp. — Yn neſa yr oedd tair Teml dân, ymha rai yr oedd tân yn waſtad yn cael ei gadw yn ennyn ar yr allor, y rhai'n oedd y Superintendiaid yn waſanaethu; ac ymhob un o'r rhai'n yr oedd amryw o'r offeiriaid cyffredin yn cael eu cynnal, a hwy oedd yn cyflawnu y gwaſanaeth tan y Superintendiaid; ac yn gofalu am y tân ſanctaidd, ac yn ei wilied nos a dydd, bob yn bedwar yn eu troion. Ond yr eglwys uwcha oll oedd y tân deml lle yr oedd yr *Archimagus* ſef eu harchoffeiriad hwynt yn cyfaneddu,— hi fu ar y cyntaf yn *Balch*, ond hi ſymmudwyd oddautu 700 o flynyddau wedi geni ein Jachawdwr i *Kerman*, y tu deheu i *Perſia* lle mae yn aros hyd yr awr hon.

Eu. Ar beth mae eu hoffeiriaid hwynt yn byw?

Ap. Ar y degwm, ac offrymau'r Bobl.

Eu. Mi wela yr awrhon yr hyn a ddywedaſoch cawn ar ol clywed y cwbl weled bod yma lawer jawn o arferion yr *Juddewon*; ond a gyrhaeddodd y grefydd hon tros ran fawr o dir y Dwyrain?

Ap. Nid llai na'r Parthiaid, y Mediaid, y Perſiaid, y Bactriaid, y Chowareſmiaid, yr Ariaid, y Sociaid, ac amryw Genhedloedd eraill oedd yn proffeſu'r Grefydd hon yn y dyddiau gynt;

gynt; ac etto er i Mahomet ennill y gwledydd hynny yn awr, a phlannu ynddynt ei grefydd ei hun, mae gweddill o'r Magiaid hyn yn India a Pherfia, yn cadw yr un defodau a'g a ddyfgodd Zoroaftres iddynt, a'i lyfr ef fydd ganthynt, yr hwn maent yn ei gadw mor annwyl ac yn ei anrhydeddu yn yr un dull a'r Bibl gyda ni.

Eu. Attolwg dywedwch ychydig am ei lyfr ef?

Ap. Ei enw oedd Zendaveſta; fe'i henwid yn fyr Zend, neu Zand, arwyddoccad pa un yw ennyn Tan; y rhan gyntaf yw y Liturgy, neu'r gwaſanaeth i ddarllen yn y Tân Demlau, a'r llall fydd yn ſon am y rhan arall o'u Crefydd, ac fel y b'ai ei gweithredoedd hwynt yn cytuno, neu yn anghytuno a'r llyfr hwn, felly gelwir hwynt yn dda, neu yn ddrwg; eu gweithredoedd da alwant, Zendover; ſef gweithred ag y mae'r llyfr Zend yn ei ganiatau; a gweithred ddrwg alwant Nazendover, ſef gweithred nad yw eu llyfr hwy yn ddioddef. A'r llyfr hwn maent yn gredu ddyfod o'r Nef, ag fydd fyth yn cael ei gadw yn hen iaith y Perſiaid, ac yn y Llythyren hynny hefyd a chopi o hono ymhob Tân Deml hyd heddyw: Ac yn y Llyfr hwn mae amryw bethau wedi cymmeryd o'r Hen Deſtament, heblaw enwais eiſoes canys mae ynddo amrywiol rannau o Salmau Dafydd, mae yn gwneud Adda ac Efa yn rhieni cyntaf dynol-ryw, ac yn rhoi yr un Hanes gan mwyaf am y greadigaeth, a'r diluw ag y mae Moſes yn ei roddi, yn unig lle mae Moſes yn dweud mae 6 diwrnod bu Duw yn creu 'r byd, fe ddywed Zoroaſtres fod pob un o'r diwrnodau hynny yn flwyddyn. Mae ef hefyd yn dweud am Abram, Moſes, a Salomon, fel y dywed y Bibl;

ac

ac o Barch neillduol i Abram, mae yn galw ei lyfr yn llyfr Abram; a'i grefydd yn grefydd Abram; o ran mae yn cymmeryd arno, nad oedd y diwygiad a wnaeth ef ond dwyn yn ol grefydd y Perſiaid i'r un man o burbeb ag y bu yn amſer Abram; trwy ei phuro hi oddiwrth yr holl ddiffigiadau, y camarferion, ac ofer goelion ag arweiniwyd yr amſeroedd diweddaf i mewn iddi. Canys yr oedd enw Abram yn enwog iawn trwy holl wledydd y Dwyrain, a phob Sect yno oedd yn cleimio hawl i Abram yn dad iddi; canys meddwl yr oeddent y dygai enw Abram lawer o barch i'w Sect hwy, nid yn unig yr Juddewon, y Magiaid, y Mahometaniaid, ond y Sabiaid, yr Indiaid hefyd, os y gair Braman ddaeth oddiwrth Abram ſydd yn cleimio hawl iddo fel tad ei Sect hwy.

Eu. Ond a ddarfu i chwi ddweud am y llyfr Zend?

Ap. Dim rhagor, ond bod amrywiol bethau ynddo etto o drefn yr Juddewon, ſef ei fod yn gorchymmyn yr un wahaniaeth rhwng creaduriaid glan, ac aflan, ag y mae Moſes yn ei wneud, a'r un gorchymmyn i dalu degwm i'r Offeiriaid, yr un gwahardd o halogiad, a'r un ffordd o buro eu hunain trwy amryw olchiadau, a chadw y ſwydd offeiriadol yn yr un llwyth, ac amryw o ordinhadau Juddewig eraill; ond y rhan arall o'r llyfr ſydd yn cynnwys am fywyd yr awdwr, a'i weithredoedd, ei brophwydoliaethau rheolau a chynghorion i fywyd moeſol.

Yr Ail

Yr AIL RAN.

PEN. I.

Euſebius.

FE ddarfu i'ch adrodd llawer am y grefydd baganaidd; yn neſa mi ddymunaf arnoch ddangos rhyw faint am y grefydd Fahometanaidd; ac yn gyntaf, mynegwch, Pwy ydoedd y Mahomet hwn? Pa bryd y cododd? Pa fodd y dechreuodd ddyfod i fynu? A pha fath dderbyniad a gafodd ei athrawiaeth ar y cyntaf?

Ap. Mahomet a anwyd yn Mecca neu Becca, tref yn Arabia Felix, medd rhai, ond prif ddinas Arabia Petrea *, medd eraill; un o

* Diau y diſgwylir gennyf roi deſcrifiad neillduol o'r rhannau hynny o'r byd lle mae *Mecca*, *Medina*, *Arabia*, a'r gwledydd y ganwyd *Mahomet*, ac y dechreuodd ei weithredoedd; a'r lleoedd y tannodd gyntaf y grefydd Fahometanaidd ar lled; ac am ei bod eu gid yn Arabia, mi anturiaf roi deſcrifiad byr o'r wlad hon. Arabia ſydd wlad fawr yn fil a thri chant o filldiroedd ei hyd, a dauddeg cant ei lled; rhwng Twrci yn Aſia a Pherſia, un o du'r gogledd, a'r llall o du'r dwyrain; a mor yr India o'i thu deheu, a'r mor coch yn torri rhyngddi ac Affrica: ac yn dair rhan; Arabia garregog, Arabia'r anialwch, ac Arabia ddedwydd, a thrwy ran o'r wlad hon y teithiodd plant yr Iſrael 40 mlynedd; ac yn Arabia garregog mae mynydd

lwyth y Coroastriaid y pennaf yn yr holl wlad honno, seilsaenwr pa un oedd un Korais, gwr o hil Ismael mab Abram: hwy ddywedant fod ei dad, ei dad cu, a'i daid, yn dywysogion o'i llwyth hwy: enw ei sam oedd Amena, yr hon oedd yn perthynu o bell iddo; mae awdwyr yn gomedd cytuno am amser ei enedigaeth; ond y mae yn fwya tebyg mai oddautu 600 o oedran ein Jachawdwr ydoedd; er bod 50 o flynyddau rhwng rhai a'u gilydd a chytuno a hyn; a llawer iawn sydd gan y scrifenwyr Mahometanaidd o storiau, hanesion celwyddog, gwrthiau, a rhyseddodau ddigwyddodd yn amser

---

mynydd Sinai, a mynydd Horeb; — Mae'r Aer yma yn boeth iawn, ac yn wenwynllyd, a'r tywod yma sydd flin a pheryglus; canys se'i gyrr y gwyntoedd poethion hwynt sel cymmylau, sel y mae'r holl Garafan lawer pryd yn cael eu claddu a'u colli yn yr anialwch, sel defaid dan luwchsau o eira, trwy stormydd o wynt a thywod. Mae'r Arabiaid yn lladron rhywiog, ac wedi dysod o hil Ismael, a'u dwylo yn erbyn pawb, a phawb a'u dwylo yn eu herbyn hwythau; ac y maent yn trethu, yn tolli, ac yn gorthrymmu'r Carafan sel y mynnont, ac weithiau yn eu mwrddro yn y dull creulona; ac yn dwyn ymaith yr holl ysbail. Y Carafan yma yw cwmpniaethau o farsiandwyr ac o drafaelwyr eraill neu bererinion i Mecca sydd yn teithio rhwng Twrci a Pherssia, neu o Damascus i'r Aipht, neu o'r Aipht i Balesteina; y rhai sydd weithiau er mwyn bod yn ddiogel yn ddeng mil o rhagor, yn dwyn trysorau mawrion gyda hwynt, o bob perlysiau, a pheraroglau ar gefnau cyssylau, camelod, ac asynnod; ac yn dwyn dwfr, ac ymborth iddynt ei hunain, ac iw hanifeiliaid; ac er eu bod y fath dorf luosog, ac yn gryfion, ac yn berchen arfau, yr Arabiaid gwylltion a gwympant arnynt, ac a'u hysbeil-

fer ei enedigaeth; megis na ddarfu i'w fam deimlo blinder pan oedd hi'n feichiog arno, na phoenau wrth eſgor arno; a'i fod wedi enwaedu arno pan y daeth i'r byd; ac i'r Angel Gabriel agor ei ymyſgaroedd, a phuro ei

T 2 galon

---

beiliant or gallant; ac nis gallai'r pererinion i Mecca fyth dydfod i ben eu ſiwrnau, oni b'ai fod y Twrciaid yn anfon llu o wyr arfog gyda hwynt, er eu hamddiffin yn erbyn yr Arabiaid gwylltion. —— Ac er hyn i gid llu o Arabiaid oddautu hanner can mil a oſododd ar y Carafan, y rhai oedd yn dychwelyd o Mecca, yn y flwyddyn 1758; ac ar ol lladd oddautu trigain mil o wyr, a yſbeiliaſant hwy o'r cwbl ag oedd werthfawr; ac un peth a ddigwyddodd hefyd yn y flwyddyn 1694 yn y wlad hon.—Mae meirch, camelod, a dromedaries, rhyw fath o gamelod yw y dromedary ag a drafaela 200 o filldiroedd yn y dydd. —— Ftrwythau'r wlad yw Coffee, Manna, Myrrh, Caſſia, Balm, Thus, Orange, Lemons, Dates, ac ychydig Yd mewn rhai mannau. —— Mae yma amryw deyrnafoedd, a rhai yn ehang iawn, a'u brenhinoedd gyfenwir Xeriffs; ac eraill elwir Imans: ond mae y brenhinoedd hyn yn y ſwydd offeiriadol cyſtal a gwladaidd; ac y mae ganthynt allu i wneuthur y fynnont, heb un gyfraith iw gwrthwynebu yn y ddau. Y deyrnas fwya a'r dref fwyaf o fewn i holl Arabia yw Mecca, lle ganwyd Mahomet; lle mae yn myned bob blwyddyn, lawer mil o Fahometaniaid ar bererindod; ac oni b'ai fod y Twrciaid yn danfon ar hyd y mor, o'r Aipht i Syden, tre aber yn agos i Mecca, rice, yd, a phob lluniaeth angenrheidiol, ni's gallai'r pererinion fyw yn y wlad lom honno. Mae Mecca yn ddinas, ac o adeilad rhagorol, ynghanol pa un y mae Caaba, neu dŷ Dduw, yr hwn mae'r Arabiaid yn gredu a adeiladwyd gan Abraham, i ba un y gorchymynodd Mahomet iw ganlynwyr fyned, un waith ar eu pererindod yn eu hoes; nid yw'r deml hon ond 15 troedfedd ei hyd, a 12

ei

galon pan oedd yn faban; ac i'r diaflaid wedi cael eu taflu maes o drigfannau'r nef, ymgaſglu ynghyd a myned at y pen diafol i fynegu genedigaeth Mahomet; ac iddo yntef orchymyn iddynt gwmpaſu yr holl ddaear, i chwilio allan pa ryfedd beth a ddigwyddodd; ac ar ol gwneud felly, hwy a ddaethant o'r diwedd i Mecca, lle gwelſant ryw dŷ wedi ei amgylchu

---

ei lled, a 30 o uwchder; ac y mae cyntedd mawr oddautu iddi, wedi ei amgylchu a philerau, ymha un y mae'r pererinion yn cyflawnu eu haddoliadau, ac yn anſynych y maent yn myned i mewn i'r Caaba, am na's gall gynnwys ond ychydig.

Medina ſydd ddinas arall yn Arabia'r anialwch: 200 o filldiroedd oddiwrth Mecca: yma y ffodd Mahomet pan erlydiwyd ef yn Mecca, ac yma y claddwyd ef. Hon ſydd brif ddinas o deyrnas, ac yma hefyd y mae'r pererinion yn dyfod; ond nid mor fynych ac y maent i Mecca. — Yma y cafodd Mahomet ei wiſgo gyntaf ag awdurdod brenhin; ac oddiwrth amſer ei ffoadigaeth ef yma, y dechreuwyd era'r Mahometaniaid; ſef yn y flwyddyn o oed ein Jachawdwr 622. Yma mae teml ardderchog wedi ei hadeiladu i Mahomet, a thŵm ardderchog i Mahomet ynddo, a phaliſadoes o ârian oddautu iddo. — Nid oes un ffordd fawr yn y wlad hon; mae'r Carafan yn trafaelu trosanialwch o dywod, wrth y cwmpas fel ar y mor, a'u marchnadfa hwynt ſydd yn cael eu dwyn ar gefnau camelod; gan ddwyn eu lluniaeth gyda hwynt, am nad oes Carafanſara yn yr anialwch hyn: Carafanſara yw Inns mawrion iawn maent wedi ei hadeiladu ar y prif ffyrdd yn Perſia, a thrwy Twrci, a gwledydd dwyreiniol eraill, at dderbyn trafaelwyr, i rhai mae rhydd-did i letua ynddynt, ac i drin eu bwyd eu hunain yn rhad; maent wedi eu hadeiladu yn bedwar onglog, a chanddynt ſtafelloedd o tanynt gan mwyaf.

gylchu gan angylion, o ba un yr ymddangoſodd tân, yr hwn a gyrhaeddod i'r net: a phan dychwelaſant, hwy adroddaſant i'r diafol eu meiſtr yr hyn a welſant, trwy'r hyn y deallodd ef fod Mahomet wedi ei eni. —— Dywedir hefyd i holl ddelwau, ac eulunod y cenhedloedd gwympo i'r llawr pan y ganwyd ef; ac amryw o'r fath gelwyddau nad yw fudd eu hadrodd. Megis i gwmmwl gwyn ei orchguddio ef pan y ganwyd; ac yn y cyfamſer iddo gael ei ddwyn gan angylion gylch y ddaear a'r mor, fel y gallai dynion a diafliaid ei adnabod a'i addef ef. ——— Ac yno iddo gael ei ddwyn yn ol at ei fam wedi ei amwiſgo mewn gwlanen; gan ddal tair o allweddau yn ei law, yr hyn ddeallodd hi trwy lais a glywodd, mai allwedd buddugoliaeth, prophwydoliaeth, a theml Mecca oeddynt. —— Yna cwmmwl arall a'i gorchguddiodd ef, ac fe'i dygwyd gan angylion i'r lleoedd ag y dywedir i'r prophwydi a'r apoſtolion gael ei geni; a llais a glywyd yn llefain, gwiſgwch ef a gwiſg Adda, ac ardderchawgrwydd Noah, a gwybodaeth Abram, a thafod Iſhmael, a harddwch Joſeph, ac amynedd Job, a llais Dafydd, a diweirdeb Ioan, ac anrhydedd Jeſu, a gwroldeb Moſes, ac yſtofwch arno ddoniau'r prophwydi, yna tri llangc diſglair a chwppan arian wedi ei weithio ag emerald, a ſidan plygedig a olchaſant y plentyn faith waith; ac un o honynt argraphodd y fel brophwydol rhwng ei yſgwyddau ag offeryn diſglair; ac yno wedi ei amwiſgo ef mewn ſidan, a'i dododd ef tan ei aden, gan ddywedyd wrtho y byddai yn arglwydd ac yn eiriolwr tros holl ddynol-ryw yn nydd y farn; ac a'i dygodd ef yn ol at ei fam.

Eu. Digon o'r fath ſtoriau, gwir yw gair Duw, " Fe roddodd iddynt amryfyſedd ca-" darn fel y credent gelwydd." Ond ewch rhagoch i fynegu y pethau mwya tebygol o fod yn wir.

Ap. Pan y daeth ef i oedran, ei ewythr Abutelah a'i hanfonodd ef a'i gamelod i Syria, † ymha orchwyl yr aroſodd ef hyd onid oedd yn 25 oed; yr amſer darfu i un o benaethiaid ei ddinas ef i farw; a'r wraig weddw, enw pa un oedd Cadiga, i ba un y gadawodd ef ei holl gyfoeth, yn awr mewn eiſiau o farchnattwr iw trefnu hwynt yn ei lle, iddi dderbyn ef iw gwaſanaeth; ac a gynnigodd iddo y fath ammodau manteiſiol, ag a ddarfu iddo i dderbyn; yn y gorchwyl hwn y parhaodd dair blynedd, gan ddwyn trad ymlaen troſti hi, yn Damaſcus, a lleoedd eraill; ond wrth drin ei negeſeion, ſe roddodd iddi y fath fodlondeb, ag a ennillodd ei chariad, a'i barn dda am dano, fel yn yr 28 ei oedran darfu iddi roi ei hunan iddo mewn priodas yr hyn beth a'i derchafodd ef i fod yn gyfattebol mewn golud i'r gwr mwyaf yn y ddinas; ac a'i rhodd ef mewn cymmwyſdra i fod yn arglwydd arni, yr

† Syria ſydd wlad fawr yn Nhwrci yn Aſia, rhwng y mor canoldir ac Arabia a Meſopotamia, prif ddinaſoedd pa un yw Damaſcus, ac Aleppo, yr hon ſydd 3 milldir ei chwmpas. Yma y mae trade fawr mewn camblets, ſidan, a lledr Twrci. — Y criſt'nogion ſydd yma a'u teiau, a'u heglwyſydd tu faes i furiau'r ddinas. Mae bron gan bob cenedl yn Europ eu gwaithdai, a'u marchnad-dai yma, y marſiandwyr ſaeſnig ynt oddeutu 40, ac yn byw mewn adeiladau gyferbyn eu gilydd, pedwaronglog, fel Coledge, a chan ddynt Chaplain, a Chappel lle y maent yn cynnal eu haddoliad fel cartref.

yr hyn oedd ei deidau wedi bod tros amryw genhedlaethau. Ond yma etto mae amryw ſtoriau celwyddog am dano, tra fu yngwaſanaeth Cadiga; megis i fod cwmmwl yn ei orchguddio rhag yr haul, wedi ei oſod gan yr angel Gabriel, tra fyddai yn myned allan gyda marchnatwyr Mecca i Syria, ac i Gadiga ei oſod ef ar gammel gwyllt i brofi ei wroldeb; ond i'r cammel pan gwelodd ef, a chlywed ei lais, i gwympo i lawr, ac annerch y cyfeillion a llais dynol; gan ddywedyd, pwy fel myfi, canys arglwydd y cyntaf a'r diweddaf a gyffyrddodd a'm cefn.

Eu. Gadewch eu gwag ſtoriau hwy, ac ewch rhagoch at y pethau mwya tebyg i fod yn wir yn hanes ei fywyd.

Ap. Mahomet yn awr wedi cael ei ddercha-fu i allu, a chyfoeth, trwy briodas ag un o'r pendefigeſau cyfoethocca yn Mecca, ac yn ddyn ag oedd wrth natur yn gall ac yn gyfrwys, a'i feddyliau am godi, ac ymdderchafu, a ddechreuodd letua ynddo ei hun feddyliau i fod yn ben, ac yn arglwydd ar ddinas Mecca yr hyn oedd yn wir yn perthyn iddo trwy union difeddiaeth. Ond y ffordd ſicraf a feddyliodd ef i ddyfod a hyn i ben, oedd goſod i fynu grefydd newydd, ac i ddychymmygu awdurdod dwyfol; i ddyſgu a chyfarwyddo ei gyd-wladwyr, ac i ddiwygio'r Juddewon, a'r criſtiannogion yr rhai oedd wedi llygru eu hathrawiaethau cyntaf. Yr oedd ef yn gydnabyddus a'r Juddewon a'r Criſtiannogion, yn Syria, Paleſtina, a'r Aipht; yn gwybod am eu hymraniadau truenus hwynt, a'r erledigaethau erchyll un ar y llall, yn fynych iawn am bethau diſtadl, neu bethau na's gwyddent eu hunain; yr oedd wedi dal ſylw ar fywyd drwg,

ac

anfoefol y rhei'ny ag a ddylaſai roi enſamplau da i eraill; nid oedd ef ddim dieithr i'r tertyſg diddarfod, a'r ymdrechiadau oedd rhyngddynt am dderchafiad, a blaenoriaeth; eu hawydd didorr, a'u tymmer greulon anedifeiriol hwynt, felly fel y tybiodd na's cwrddai ei amcan ef a llawer o wrthwynebiad ar yr ochr hyn, a'i ddinaſyddion ei hun feddyliodd ef fyddai ddigon parod i ddyfod atto, o ran y tarchnadſa oedd rhyngddynt a phroffeſwyr y wir grefydd, yr hyn a gymmerodd ymaith lawer o'u ſerchiadau oddiwrth yr eulunaddoliaeth ag oeddynt wedi ei gofleidio hyd yma.

E. Ond pa fodd y dygodd ef ymlaen y gorchwyl?

Ap. Rhaid oedd iddo arwain bywyd mwy trefnus, ac ymddangoſiad mwy ſanctaidd na'r lleill o ddynol-ryw, a dewis lle addas i ymarferiadau nefol, a chymmundeb dwyfol; am hynny yn y 38 o'i oed, ſe ymadawodd a'i hen ymarweddiad, yr hwn a ddywedir nad oedd ond ſael iawn, ag a dynnodd i ogof Hiram, yn agos i Mecca; lle cymmerodd arno ymarferyd ei hun i weddiau, ymprydiau, myfyrdodau ſanctaidd, paratoad angenrheidiol i brophwydo; ac yno dywedir iddo gael ei ddatguddiaethau. With ddyfod adre y nos ſe fyddai arferol o fynegu iw wraig y lleiſiau fyddai yn glywed, y gweledigaethau fyddai yn weled, a'i ymddiddanion ef a'r angel Gabriel, yr hyn oll oedd hi yn edrych arno fel gwag dybiau, dychymmygion terfyſgiyd, neu hudoliaethau'r yſbryd drwg; nes peri iddi yn y diwedd goelio trwy reſymmau mynach crwydredig, yr hwn oedd y pryd hyn yn lletua gyda hwynt; yr hwn a haerodd fod Mahomet wedi ei alw i'r ſwydd brophwydol, ac felly daeth hi i fod yn bro-

ſelyt

ſelyt cyntaf iddo. Ond ar ol iddo arwain bywyd llymdoſt, a hunan-ymwadol, fel yr ydys yn tybied tros ddwy flynedd, ſe gymmerodd arno y titl o apoſtol Duw, a than yr enw hwnnw i dannu ar lled y twyll ag y ſu ef tros yr holl amſer hyn yn ei ddyfeiſio, ond yn gyntaf, ſe wnaeth hyn ymhlith ei geraint, a'i gyfeillion, tros 4 blynedd, ne's iddo ennill rhai o'r rhai'n, yn enwedig un Abubeker, un o'r cyfoethocca, a'r calla yn ninas Mecca; ac amryw a ddilynaſant ei enſampl ef; canlynodd pump arall, a rhai'n a ſu yn gapteniaid yn ei ſyddin, a'r offerynnau mwya i ddwyn ymlaen ei ymerodraeth: ac ar ol iddo gael y dyſgyblion yma ſe ddechreuodd yn gyhoedd oſod allan ei athrawiaethau i bobl Mecca, yn y bedwaredd flwyddyn a deugain o'i oed; gan ddodi yn eglur o'u blaen ei fod ef ei hun yn brophwyd, wedi cael ei anfon gan Dduw iw dychwelyd hwynt o gyfeiliorni paganiaeth, a'u dyſgu hwynt yn y wir grefydd. Fe gymmerodd arno fod ei athrawiaethau wedi eu traddodi iddo gan yr angel Gabriel, yr hwn oedd ag awdurdod ganddo oddiwrth Dduw i wneud felly.

E. Mi glywais ei fod ef yn ſyrthio i lewygfau, a chynhyrfiadau corphorol, fel pe buaſai yſbryd dieithr yn gweithio ynddo.

A. Yr oedd ef yn fynych yn cwympo i lewyg, ond dweud yr oedd ef ei hun, mai yr angel Gabriel y pryd hynny oedd yn traddodi iddo gennadwri Duw, ac yntau yn methu edrych ar lewyrchiadau ei wyneb ef: ond ei elynion oedd yn haeru mai llewygfau'r fam, a'r cyffelyb oedd y rhai'n. Yr Alcoran fydd gaſgliad llawn o'r datguddiaethau hynny, y copy gwreiddiol o ba un ſy'n cael ei gadw yn llyfr-dy'r nef, o ba un y rhoddodd yr angel Gabriel i Mahomet

bennod

bennod a phennod, fel oedd yr achos yn peri eu cyhoeddi hwynt i'r bobl. Y caſgliadau roddodd Mahomet i gadw i fynu mewn ciſt, yr hon a alwodd ef yn giſt ei apoſtoliaeth, mewn cyffelybiaeth i'r arch ymhlith yr Juddewon, ymha un yr oedd copy o'r gyfraith yn cael ei chadw. — Y giſt hon roddodd ef iw chadw i Haphſa un o'i wragedd; ac o'r papurau oedd gynhwyſedig yn hon, y caſglwyd ac y cyſanſoddwyd yr Alcoran, yn un llyfr gan Abubeker, y neſaf ar ol Mahomet, ond darfu iddo gael cynnorthwy gan lawer o'r rhai glywodd yr athrawiaeth o enau Mahomet ei hun, am fod amryw o'r papurau wedi eu blotto, na's gallaſid eu darllen. Ar ol iddo ddibennu'r gwaith, fe roddodd y copy i giſt Haphſiba drachefn i gadw, a chopiau newyddion o'r rhai'n a dannodd ef ymhlith ei ganlynwyr; ond pan daeth un Othman i fod yn ben, fe ffeindiodd fod y copiau hyn oll wedi eu llygru, ac yn cael eu darllen mewn amrywiol ffyrdd; ac yna fe a'i galwodd hwynt i mewn, ac a wnaeth gopiau newyddion, yn cytuno â'r un o enau Mahomet, ac a ddiſtrywiodd yr hen rai eu gid; ac yna fe oſododd bedwar copy i gael eu ſcrifennu i maes yn deg ac yn llythrennol, ac a roddodd un ynghadw yn Mecca, yr ail yn Medina, y trydydd yn Caldea, yr ola yn Syria. Y tri cyntaf ymhen tro a gollwyd; ond yr ola o honynt ymhen oeſoedd wedi'n a ddywedpwyd i gael ei gadw yn dda yn Damaſcus, mewn teml yno, yr hon oedd wedi bod gynt yn eglwys St. Ioan fedyddiwr 21 o flynyddau oedd hyn ar ol marw y twyllwr Mahomet. Ond nid aeth y llyfr tan ddim gwellad byth mwy.

Eu. Ond pa fodd y dygodd Mahomet ei grefydd ymlaen yn ei fywyd?

Ap.

Ap. Llawer a'i gwawdiodd gan ei alw ef yn ſwynwr, yn ddewin, yn gelwyddwr, yn dwyllwr, yn adroddwr hen ſtoriau; yr Arabiaid eulunaddolgar a ddrwgdybient ei ddiben yn erbyn y duwiau; y ſwyddogion gwladaidd yn ofni gwneud cyfnewid yn y llywodraeth, a gytunaſant a'u gilydd ei dorri ef ymaith; ond Abutelah ei ewythr a'i hamddiffynodd, ac a'i cadwodd yn ei dwyll oddiwrth holl amcanion ei elynion; ac am hynny fe aeth rhagddo gan bregethu yn eon i'r bobl yn holl leoedd cyhoeddus, a chyn'lleidfaoedd y ddinas.

Eu. Ond pa beth oedd ſwm y pregethau?

Ap. Sylwedd y pregethau oedd, gwaſgu credíniaeth o undeb y duwdod; eu cynghori hwynt iw addoli, a'i waſanaethu, i ffieiddio pob eulun addoliad, i arferyd pob dyledſwyddau moeſol, a rhinweddau, ynghyd a chadw rhai ſeremoniau juddewig a chenhedlig; ymha rai yr oedd yn cynnwys y cwbl o'i grefydd newydd ef, ond y rheſymmau mwya oedd ganddo i hudo dynion i'r dwyll grefydd hon oedd, addewidion a bygythion; ſef y fath a weithiai fwy a eſmwyth ar ſerchiadau'r bobl gyffredin.

Eu. Pa fath oeddynt?

Ap. 'Roedd yn dweud y cai y rhai a gredent ynddo fyned i mewn i erddi hyfryd, lle b'ai* amryw

* Ni fuaſwn fyth yn goſod allan i'r Cymro ſut egwyddorion gau, ſut ſtoriau gwag, a ſut ffablau celwyddog, oni buaſai bod y fath ran fawr anrhaethawl o'r byd, ie agos hanner yr hên fyd o'r gau grefydd hon. A feiai 'r Cymro unjaith, di ymoſyniad fi am oleuo gronin ar ddeall rhai ſydd am glywed, a deall y fath goel grefyddau ag ſydd yn y byd. Truenus yw meddwl fod myrddiynau o bobl yng Nghymru, na ddarfu iddynt erioed dybied llai, nad efengyl ſydd trwy'r byd o gwr

ryw o afonydd yn llifeirio, ac amryw ffynnonau gloywion yn tarddu allan yn waſtadol, yn ffrydiau mwya hyfryd, yn agos i ba rai caent orphwys eu hunain ar welyau mwya hynaws, wedi eu haddurno ag aur, a meini gwerthfawr, tan gyſgod prenniau Paradwys, y rhai a gyfrannai iddynt fyth bob math o felus ffrwythau; ac

---

o gwr i'r llall; a'i bod yn cael ei phregethu, naill a'i gan offeiriaid mewn gwenwiſgoedd, neu weinidogion Preſbiteraidd mewn bondau, Quaker a'i hatt ar ei ben, neu gynghorwr ar ben ſtol o ddyddiau Adda hyd yn awr. Gan dybied nad oes crefydd, ffurf, na phaſiwn, o unrhyw, ond ſydd yng Nghymru. Ni wna nemawr o'n Cenedl ni gymmaint a holi mewn i wraidd pethau, ond eu cymmeryd ar yr wyneb; a thybied fod oll trwy'r byd fel y byddo gartref. Mae myrdd o bobl heb yſtyried na deall p'odd mae 'r haul a fachludodd neithiwr tros Aberteifi, wedi dyfod y borau heddyw i godi tros Gaerloiw. — Ond er hyn oll gwybydded y ſawl nad yw am wybod rhagor, fy mod i am ddangos rhagor i'r ſawl a ddarlleno; ac mae nid i dynnu ſerch neb at y grefydd Fahometanaidd a'r Alcoran y ſcrifenais i hyn ond i gynhyrfu rhyfeddod rhagor am ddallineb calon dyn a'i falchder, ac am i bob gwir Griſtion gwympo lawr yn iſel a ſynnu anfeidrol ras, na buaſem ni ynghyflwr y trueniaid tywyll hynny, y rhai ſydd wedi goreſgyn, fel y dwedais fwy na hanner yr hen fyd; nid oedd hen lywodraeth Rhufain.

Pan y bu yn ei rhwyſg fwyaf, ac wedi eſtyn ei llinynau tros holl deyrnaſoedd Europ (y rhai ſydd heddyw yn 12 neu 15 o frenhiniaethau ehang) a rhan fawr o Aſia, rhan o Affric, ac hyd yr India ddim mewn meſur i hyd a lled y tir ennillodd y grefydd Fahometanaidd o'r dechreu hyd yn awr; canys Twrci yn Europ ei hunan o leiaf ſydd 9 cymmaint a Chymru a Lloegr, oll yn Fahometanaidd; a Thwrci yn Aſia ſydd agos ſawn gymmaint arall oll o'r un grefydd; a

Thwrci

ac yno caent fwynhau y benywod mwya teg, pur, a glan, yn meddu llygaid duon mawrion, mwya hyfryd, a'u hwynebau, fyth yn newydd, ac yn wyn fel y perl diſglair, y rhai ni wnaent gymmaint a thaflu golwg ar neb arall, ond hwynt eu hunain; gyda pha rai y byddent yn mwynhau gwaſtadol bleſerau cariad, ac yn ymhyfrydu eu hunain yn eu cyfeillach mewn digryfwch cariad, tros dragwyddoldeb; gan yfed gyda hwy y licwr mwya per, a'r gwin mwya melus a hyfryd; heb fod fyth yn feddw, neu yn ſurffetto arno, yr hwn fyddai yn cael ei eſtyn iddynt gan langciau jefaingc, a glan, bob pryd yn attendo o gylch eu gwelyau, iw was'naethu ef iddynt mewn cwppanau aur, a glaſſes wedi eu gwadnu ar feini gwerthfawr.

Eu. Ond pa fath fyddai'r coſp oedd i'r rhai anghrediniol ac anufudd?

Ap. Na fyddent fyth i yfed ond dwfr berwedig, a drewllyd, nag anadlu dim arall ond gwynt poethlyd; byddent fyth i gael aros mewn

Thwrci yn Affrica, megis yr Aipht, a lleoedd eraill yno ſydd wedi cael eu goreſgyn gan y grefydd hon. O ehangder Perſia fawr drachefn heblaw ymerodraeth y Mogul yn yr India yr hon ſydd bron dau cymmaint eilwaith, ac Arabia nad yw fawr llai oll wedi eu hennill gan y ffydd Fahometanaidd: heb law cannoedd o ynyſoedd yma athraw ar hyd y moroedd, na's gellir yn hawdd eu rhifo heb dreulio amſer maith. Ac-yn awr gellir d'wedyd wrth y Cymro unjaith; creded, neu peidied, fod y goel grefydd hon, wyf yn ei deſgrifio wedi ennill cymmaint o ddaear gant o weithiau a thir Lloegr a Chymru; a raid i'r rhan fwyaf o blant Gomer fod yn anwybodus o hyn; a garwn ni ddim ar Dduw yn rhagor, o ran bod ei haul fawr ef wedi codi arnom ni, wrth yſtyried pa ſawl rhan o'r byd ſydd yn gorwedd tan eitha tywyllwch.

tân gwaſtadol yn lloſgi yn danbaid; ac y caent eu hamgylchu a mwg poeth a hallt, megis a chwrlid; na chaent fyth fwytta ond drain a mieri, a ffrwyth y pren *Zacon*; yr hwn fyddai yn eu boliau fel pyg berwedig.

Eu. Fel hyn mae'n debygol trwy addewidion, a bygythion, cytunol a thybiau'r wlad, am yr happuſrwydd mwya, a'r trueni mwya y denodd efe rai, ac y dychrynodd ef eraill iw rwyd; ond a wnaeth ef ddim gwrthiau?

Ap. Amryw oedd yn diſgwyl gwrthiau ganddo, gan ddweud i Moſes a'r Jeſu wneud gwrthiau i gadarnhau eu hanfoniad; ond yntau g'nigodd daflu ymaith rym eu gwrthddadleuon, trwy ddywedyd wrthynt iddo ef eiſoes roddi arwyddion amryw i rhei'ny na ddarfu iddynt trwy eu hanghrediniaeth wneuthur eu hunain yn anheilwng o'r unrhyw; nad oedd diben ei anfoniad ef gymmaint i wneud gwrthiau, a phregethu'r gwirionedd; i *Jeſu Griſt* amryw weithiau wrthod wneuthur gwrthiau, gan addef na's gall'ſai fe wneuthur gweithredoedd mawrion ymhlith ei gyd wladwyr, oblegid eu hanghrediniaeth; ac am hynny nad oedd gan ei gydwladwyr ef, y rhai oedd yn edrych arno fel ſwynwr, a dewin, un rheſwm i ddiſgwyl am wrthiau, cyhyd ag y byddent yn y dymmer hon; canys pe buaſai yn gwneud gwrthiau, meddai ef, hwy fuaſent yn eu cyfrif yn ddewiniaeth, a gallu'r Diafol, tra na byddai ganthynt ffydd gref mae effeithiau a gallu dwyfol fyddent; fe ddywedai hefyd nad oedd gwrthiau o honynt eu hunain yn abl argyhoeddi neb o wirionedd athrawiaethau, i'r prophwydi, a'r apoſtolion wneuthur llawer o wrthiau oflaen torfeydd, etto iddynt bara yn eu cyfeiliornadau, a'u heilun-addoliad. Y rhai'n

ac

ac amryw o'r fath oedd ganddo i ſefyll tros ei anallu i wneud gwrthiau. — Er dweud amryw o ddoctoriaid y ffyddFahometanaidd iddo wneud amryw wrthiau o bryd i bryd; ond nid oes rhagor o goel iddynt nag ſydd i wyr Rhufain am wrthiau eu ſeintiau hwy. Ond i fyned ymlaen oddautu yr 8fed flynedd o'i anfoniad (fel yr oedd yn pretendo) bu farw ei wraig *Cadiga*, yn ol byw gydag ef ddwy ar hugain o flynyddau; yr hyn fu ddrwg jawn iddo er dwyn ymlaen ei amcan awyddus; ond i wneud i fynu y golled hon, a lluoſogi, a chryfhau ei ochr, ſe gymmerodd ddwy wraig yn ei lle hi, ac ymhen ychydig eilwaith un arall; y gyntaf oedd Ayheſha, merch Abubeker; yna Sewda, merch Zama; a Haphſa, merch Omar, a thrwy hynny ſe wnaeth ei hun yn fab ynghyfraith ar un waith, i dri o'r dynion mwyaf yn ei ſect ei hun; a thrwy y berthynas hyn y rhwymodd ef hwynt yn gadarn i fod o'i ochr. — Ac yn y 12fed flwyddyn o'i anfoniad, mae y Meſrah hynny yw, ei ſiwrnau hynod ef ar hyd nos o Mecca i Jeruſalem, ac oddiyno i'r nef; o ba un y mae yn rhoddi cyfrif helaeth yn y 17fed bennod o'r Alcoran; yr hon er mor anwireddus yw, etto gan ei bod yn cael ei chyflawn gredu fel mam articl o'r ffydd, gan bawb ſydd yn proffeſſu 'r grefydd Fahometanaidd, ac yn cael ei goſod i lawr felly, yn holl lyfrau ei traddodiadau, mi ro i chwi hanes o honi mor gywir, ac union ag y medraf.

Eu. Yr ydych yn rhoi blys arnaf i glywed.

Ap. Yn y nos fel yr oedd ef yn gorwedd yn ei wely, gyda ei wraig Ayheſha; ſe glywai guro wrth ei ddrws; a phan gododd, ſe glywai yno yr angel Gabriel, a phedwar ugain a deg o barau adenydd, yn wynnach na'r eira, yn loywach

na'r grisial, a'r anifail Alborack yn sefyll wrth ei glun, ar ba un yr oedd y prophwydi yn arfer marchogaeth, pan y byddent ar un siwrnau yn gosyn brys; mae Mahomet yn ei ddescrifio ef, ei fod mor wynned ar llaeth, ac o natur gymmysg rhwng assen a mwlsyn; ac o'r fath fuandra anarferol fel y symmudai fel y fellden, o ba un y casas ei enw; yr angel ei hanerchodd ef yn brydferth yn enw Duw; gan ddweud ei anfon ef iw ddwyn ef i'r nefoedd, lle cai weled dirgeledigaethau rhyfedd, y rhai nad oedd gyfreithlon iw gweled gan neb rhyw ddynion eraill; ac yna parodd iddo neidio ar gefn yr *Alborack*, ond ni's gadewai'r bwystfil iddo neidio i fynu nes iddo weddio trosto, ac addo iddo le Ymharadwys, ac yna fei derbyniodd ef yn llonydd; ac mewn tarawiad amrant, Gabriel yn dal y ffrwyn, se'i dygodd ef o Mecca i Jerusalem, ymha le wrth borth y deml, yr holl seintiau a'r prophwydi fuant feirw, ymddangosodd iddo, ac a'i hannerchodd ef; ac oddiyno a ddygasant ei gwmpni ef i'r cyntedd nessaf i mewn, yn yr hyn le y gweddiodd ef ddwy waith; ac wedi dymuno arno weddio trostynt hwy ymadawsant, ac ar hynny Mahomet gyda 'r angel Gabriel, a aethant allan o'r deml, ac a welasant ysgol o oleuni wedi ei gosod yn barod iddynt, ar hyd yr hon y darfu iddynt yn union esgyn, gan adel yr Alborack yn rhwym wrth y graig, hyd oni's dychwelent; yna aethant i'r lan ar eu siwrnau, nes daethant i'r nefoedd gyntaf; i ba un y caniattaodd y porthor iddynt fyned i mewn; ar ol iddynt dweud pwy oeddynt, a pha beth oedd ei neges. Y nefoedd gyntaf hon medd ef oedd, oll o arian pur, wedi ei haddurno a sêr, yn hongian wrth wrydion aur, ymha rai y byddai yr anghelion yn cadw amddiffynfa

ddiffynfa, i gadw allan y Diafiaid, rhag iddynt glywed a gwybod beth oedd yno yn cael ei wneuthur, ac ar ei fynediad i mewn, fe wele hen wr climercyn, yr hwn a wyddai mae ein hen dad Adda ydoedd, yr hwn yn union a'i cofleidiodd ef, gan ddiolch i Dduw am fab mor fawr; ac yna orchymynodd ei hun i weddiau Mahomet; ac fel yr aeth ymlaen fe wele dorf o angelion o bob rhyw luniau, rhai ar lun dynion, rhai ar lun adar, ac eraill ar luniau anifeiliaid o bob math; ac ymhlith y rhei'ny ag oedd yn ymddangos yn amryw luniau o adar, fe wele geiliog mor wynned a'r eira, a'i adenydd wedi ei addurno a pherlau, ac a charbwncl, ac o'r fath faint aruthr, fel yr oedd ei draed ef yn ſefyll ar y nefoedd iſſaf, a'i ben yn cyrrhaedd i fynu i'r ail; yr hon o bellder oedd pump cant mlynedd o drafaelu, ar ol y ffordd gyffredin o drafaelu yma ar y ddaear; ond eraill a ddywedant fod pen y ceiliog hwn yn cyrrhaedd i fynu trwy'r faith nefoedd, mor belled a gorfedd Duw: y ceiliog hwn medd y twyllwr yw angel pennaf y ceiliogod, a'i fod bob borau yn uno a Duw i ganu anthem ſanctaidd, a bod ei lais ef y pryd hynny mor uchel, ac y clywir ef trwy'r nef a'r ddaear, ond yn unig dynion, a gwag yſbrydion; ac yna yr holl angelion ſydd yn y nef, ac ar y ddaear a ganant hefyd.

Eu. Beth am yr angelion eraill?

Ap. Am y lleill Gabriel a ddywedodd wrth Mahomet, mae angelion oeddynt ag oedd oddiyno yn eiriol tros bob creadur byw ar wyneb y ddaear; ſod y rhai ar lun dynion yn eiriol tros ddynion; a rhai ar lun adar, tros adar; a rhai ar lun bwyſtfilod, tros fwyſtfilod.

Eu. I b'le yr aeth Mahoment wed'yn?

Ap. O'r nefoedd gyntaf fe eſgynnodd i'r ail,

yr hon oedd ei gyd wedi ei gwneuthur o aur pur; o'r ail ſe eſgynnodd i'r drydedd nef, yr hon oedd wedi ei gwneuthur o feini gwerthfawr; oddiyno ſe eſgynnodd i'r bedwaredd nef, yr hon oedd oll yn emerald; oddiyno yr eſcynnodd i'r bummed nef, yr hon oedd oll yn adamant; oddiyno yr eſgynnodd i'r chweched nef, yr hon oedd oll yn garbwncl: y pellder o un o'r nefoeddau hyn i'r llall, oedd bump can mlynedd o drafaelu. — Yn yr ail nefoedd y cwrddodd Mahomet a Noah; yn y drydedd ag Abram; yn y bedwaredd a Joſeph; yn y bummed a Moſes; ac yn y chweched a Joan Fedyddiwr; y rhai oll orchymynaſant eu hunain iw weddiau ef. Ymhob nefoedd y gwelodd angel yr hwn a gyrrhaeddodd o'r nefoedd honno ymha un yr oedd ef yn aros i'r neſſaſ uwchlaw hynny; ac fel yr oedd ef yn derchafu ei olygon, ſe welai ſod pob nefoedd wedi ei phlannu ddau lawnach ei thrigolion na'r hon oedd ef wedi ei adael yn ol. O'r chweched nefoedd, Mahomet eſgynnodd i'r ſeithfed nef, yr hon oedd oll yn oleuni dwyfol, ac yma y gwelodd ef Jeſu Griſt; lle gellir dal ſylw iddo newid ei lais; oblegid y mae yn dweud na orchymynodd dim o Jeſu Griſt ei hunan iw weddiau ef, ond efe weddiau Jeſu Griſt; gan ddymuno arno weddio troſto; wrth ba beth yn ddiau y mae ef yn ei addef o'i ſod yn bennaf. Ond ei arfer ef trwy holl rannau ei hudoliaeth, oedd ceiſio boddio'r Criſt'nogion. Yma y cwrddodd ef a llawer mwy o angelion nag yn yr holl chwech nefoedd arall; ac yn eu plith hwynt, un o anghyffredin faint, yn berchen tri ugain a deg o filoedd o bennau, ac ymhob pen tri ugain a deg o filoedd o dafodau, a phob tafod yn clodfori Duw yn waſtadol, a thri ugain a deg o filoedd o jeithoedd nos a dydd. Yr angel Gabriel

briel ni allai anturio ymlaen, adawodd Mahomet i eſgyn i orſedd Duw, yn unig wrtho ei hun; yr hyn a wnaeth ef medd ef, trwy lawer o anhawſdra; yn gorfod myned trwy ddyfroedd, ac eira, nes daeth ef i le, lle clywodd ef lais yn dweud, O Mahomet annerch dy Greawdwr! o ba le gan eſgyn yn uwch; ſe ddaeth i fan y gwelodd ef ehangder mawr o oleuni, o'r fath ddiſgleirdeb hyfryd, na's gallaſai ei lygaid edrych arno, a hon oedd trigfa'r hollalluog ei hun; lle yr ydoedd ei orſedd wedi cael ei goſod; ar du deheu pa un, yr oedd medd efe, enw Duw wedi ei 'ſgrifennu, a'i enw ef ei hun, yn y llythrennau *Arabic* yma, LA ELLAH ELLALLAH MAHOMED RESULALLAH; hynny yw, *Nid oes un Duw ond un, a Mahomet yw ei Brophwyd ef.* Yr hon yw credo'r Mahometaniaid: Pa eiriau hefyd, medd ef gafodd ef wedi eu ſcrifennu ar byrth y ſaith nefoedd. Pan neſſaodd ef i breſenoldeb yr Hollalluog, mor agos a dau ergyd bwa, medd ef, fe'i gwelodd yn eiſtedd ar ei orſedd, a gorchgudd o dri ugain mil a deg hân tros ei wyneb; ac fel neſſaodd ef yn agoſach mewn arwydd o gariad, ſe ddododd allan ei law, yr hon oedd mor ryfeddol oer, fel y darfu iddi drywanu i fer ei gefn ef, fel nas gallaſai ei dioddef hi. Yn ol ymddiddan fel hyn yn gyfeillgar a Duw, yr hwn a ddadguddiodd amryw o ddirgeledigaethau iddo, gan roddi iddo amryw freintiau uwchlaw y lleill o ddynolryw; ſe ddychwelodd at yr angel Gabriel, yr hwn oedd yn aros am dano; ac arweinwyd ganddo trwy'r ſaith nefoedd, ac a'i goſodwyd ar yr Alborak, yr hwn gan gael ei arwain gan yr angel, aeth ag ef o Jeruſalem i Mecca. A hyn oll yn y ddegfed ran o'r nos.

Eu. Pa fodd y derbyniodd y bobl yr hanes hon?

Ap.

Ap. Ar waith Mahomet yn adrodd y fath weledigaeth afradlon gelwyddog, rhai lidiodd, rhai chwarddodd, a llawer o'i ganlynwyr, a'i gadewſant, a llawer mwy fuaſai yn ei adel, oni buaſai i Abubeker i gadarnhau y gwir o honi; am ba achos fyth mwy y rhoddwyd iddo y tittl, y CYFIAWN. O ran haeddiant anarferol ei ffydd ef yn yr achos hwn, ar dydd heddyw y ſiwrnau hon a gredir mor gadarn gan bob gwir Fahometan ag un rhan o'r efengyl gan wir Griſtion.

Eu. Ond pa fodd bu ar Mahomet ar ol hyn?

Ap. Nid heb lawer o erlid, a chymmaint o lwyddiant o'r tu arall; nes iddo o'r diwedd, ar ol tannu ei grefydd newydd i ran fawr o Medina, ddewis deuddeg Apoſtol, i ddyſgu, a chadarnhau gwyr Medina yn y grefydd newydd; a darfu i rhai'n i weithio gyda'r fath lwyddiant, ag y gwnaethant amryw broſelytiaid newydd i'r hudoliaeth hon. Canys danfon wnaeth ef amryw o'i ganlynwyr pan daeth erlid arnynt yn Mecca, i Medina; lle cawſant fawr roeſaw i dannu eu crefydd ar lled; ac o rhai ddeuai yn awr a phryd arall i wneud ymweliadau i Mecca y dewiſodd ef ei 12 Apoſtol, ar ol medd ef gyfarwyddiad yr angel Gabriel. — Mahomet pan welodd hyn, a chael cyfarwyddiad gan yr angel Gabriel, fod plot wedi ei oſod yn erbyn ei fywyd ef yn Mecca, (trwy ddyſais y Diafol, yr hwn ddaeth i mewn i'r cynghor fel hen wr parchedig, gan eu cynghori hwynt ei dorri ef ymaith) ddymunodd ar eu ganlynwyr i ymadael o'r ddinas ar hyd nos, a myned i Medina, ac ef ei hun ac Abubeker ganlynodd, gan adael Ali yn ol, yr hwn wedi iddo oſod eu meddiannau mewn trefn ddaeth attynt y trydydd dydd; ond danfonwyd ar eu hol hwynt iw herlid, ond Mahomet

homet ac Abubeker a guddiaſant eu hunain mewn ogof tros dri diwrnod; ac yn amſer yr erledigaeth hon o eiddo Mahomet mae Æra'r Mahometaniaid yn dechreu. — Pan y daeth ef i Medina, ar ol cael ei dderbyn gan bawb o'r dinaſyddion, y rhai oedd yn dringo i bennau'r tai i gael golwg arno; ſe adeiladodd yno deml neu moſque yr hwn adeiliadodd ef yn y fan y ſtoppodd ei gamel ef, ac y dododd ei lin ar lawr, ac ef a oſododd y garreg gyntaf a'i law ei hun; ac adeiliadodd deiau iddo ei hun, a'i ganlynwyr gylch cwmpas iddo. — Y flwyddyn hon y priododd ef Ayheſha merch Abubeker yn 6 neu 7 mlwydd oed, ac y rhoddodd ei ferch ei hun Phatima iw gefnder Ali. Ac ſe fyddai arferol o ddweud ſod ymhlith gwrwod amryw yn berffaith, ond nad oedd ond pedair ymhlith benwod, ſef Aſiah gwraig Pharoah, Mary mam Criſt, Cadiga ei wraig ei hun, a Phatimah ei ferch, yr amſer hyn y goſododd ef i fynu wyl Ramadan, yn gyffelyb i wyl y cymmod ymhlith yr Juddewon, a grawys y Criſt'nogion; am mae ar y mîs hwn, ſef mîs Tiſri, daeth y bennod gynta o'r Alcoran i lawr iddo o'r nef. Ond wedi iddo ymgryfhau yn Medina efe a gododd fyddyn, ac a ddygodd ymlaen amryw ryfeloedd yn erbyn llawer yng Nghymdogaeth Medina; yn enwedig rhyfel neu gad Beder, yn erbyn Abuſophian; yr hwn oedd yn dychwelyd o Syria, gyda llawer jawn o gyfoeth, ac yn elyn cyffredin i Mahomet, yr hwn aeth allan iw erbyn a 319 o wyr iw rwyſtro ef, yr hyn pan glywodd Abuſophian, a geiſiodd gymmorth o Mecca, ac a gafodd fil o wyr traed, a dau cant o wyr meirch; y ddwy gad a gyfarfu yn Beder, ac ar ol ymladdfa aruthr Mahomet ennillodd y dydd, ac a roddodd y bummed ran o'r yſbail

iddo

iddo ei hun, ac a rannodd y lleill rhwng gwyr Medina ei gynnorthwywyr, a gwyr Mecca ei ganlynwyr. Ac y mae Mahomet yn y drydedd bennod o'r Alcoran, yn cymmeryd arno i Dduw wneud ei fyddyn ymddangos yn ddau cymmaint ag oedd, ac iddo ddanfon byddyn o angelion, o rifedi tair mil, ag ennillodd iddo y fuddugoliaeth; y pryd hyn y cyfnewidiod ef y Cibla, fef y pwynt o'r wybr ag y byddid yn cadw eu hwyneb atto wrth addoli, yr hwn o'r blaen oedd ganddo tua Jeruſalem, yr hon oedd ef yn alw y *Ddinas ſanctaidd*, a dinas y prophwydi; ond wrth weled y parch oedd gan ei ganlynwyr ef i deml Mecca, ac am fodloni ei gyd ddinaſyddwyr, ac wedi magu gelyniaeth anghyfnewidiol at yr Juddewon, fe archodd iw ddyſcyblion droi eu hwynebau at Mecca; ac i wneud eu pererindod atti, fel pan oeddent yn eulun-addolwyr. Wedi hyn Abuſophian ymladdodd a Mahomet, ac ennillodd arno, nes iddo orfod cilio i ogof, lle yr ymguddiodd ef nes gweled yn ddiberygl iddo ddyfod allan. Ac am gael ei guro yn awr gan Abuſophian, deſeifiodd ef ei athrawiaeth o rag bwrpas, ac arfaeth, i fodloni achwynion y rhai yn y rhyfel hwn a gollaſant eu perthynaſau, fe ddywedodd wrthynt fod y rhai fu farw yn y rhyfel, mor ddiau i farw pe buaſent gartre yn eu teiau, a bod terfyn amſer pawb wedi eu goſod gan Dduw; fel na allai neb dynion i farw un awr yn gynt, na byw yn hwy, nag yr arfaethwyd gan Dduw. I fod hyn yn gwir ganlyn oddiwrth ragwybodaeth anffailedig Duw ar ol pa un y mae pob peth yn happio yn ddiattal ymhob amgylchiadau; yr amſer, y lle, a'r dull y rhagadnabyddwyd hwynt er tragwyddoldeb. amryw o ryfeloedd hefyd a fu rhwng Mahomet

a'r

a'r Arabiaid, y Nadiritiaid, ac oddiwrth ryw afreolaeth a welodd yn eu fyddinodd yn feddwon, y gwaharddodd ef i yfed gwin, a chwariaethau ennill arian. — Gormod o amſer a'i i adrodd nanner ei ryfeloedd a phob Cenhedlaethau yn y parthau hynny o'r byd. — Gwnaeth ef hefyd lawer jawn yn ei amſer o bererindodau i Mecca, ac amryw o gannoedd o wyr gyda ef i ymweled a'r Caaba, ſef ei deml yno, yr hyn oedd yn hen gwſtwm gan lwythau eulun-addolgar yr Arabiaid; yr hyn oedd ef am gadw i fynu cyſtal er mwyn ei bodloni hwy a dwyn pobl Mecca ei gyd-ddinaſyddion iw ochr trwy barhau cwſtwm ag oedd mor fuddiol iddynt; a'r pererindod hyn ynghyd a'i holl ſeremoniau digrif a gynhelir hyd y dydd heddyw, gan bob Mahometan fel un o ddyledſwyddau gwreiddol eu crefydd; a phan y cafodd ei enw cuwch a hyn, ſe gymmerodd arno yr awdurdod wladaidd; ond gan gadw fyth ei le o fod yn archeffeiriad o'r grefydd honno, yr hyn oedd yn gynhwyſedig mewn agor y gyfraith, trefnid pob achoſion crefydd, gweddio, a phregethu, ar bob achoſion cyhoedd yn y moſquau, a'r ſwydd ddyblyg hon o fod yn dywyſog, ac yn offeiriad a droſglwyddodd ef iw etifeddion, y rhai tan yr enw Caliphiaid, a deyrnaſodd ar ei ol ef, nes iddynt golli o'r diwedd eu henw, a'u hawdurdod yn y dilyw o ddiniyſtr a wnaeth y Tartariaid: ac fyth ar ol y dyddiau hynny y mae gan y tywyſogion Mahometanaidd ſwyddog neillduol wedi ei oſod bob un yn ei deyrnas neillduol ei hun, yr hwn ſydd yn dwyn awdurdod ſanctaidd y Caliph, neu'r archoffeiriad yr hwn yn Twrci elwir Myffti, ac yn Perſia y Sadre. Ond Mahomet a gynnyddodd fwy fwy nes daeth ef o'r diwedd allan a 10000 ac weithiau a dauddeg mil o wyr i ryfel; ac en-

nill

nill holl Arabia yn eiddo iddo ei hun; a thynnu i lawr eu holl ddelwau, a chael yspail fawr iawn amryw droion, megis yn nyffryn Honaina yn agos i Mecca yr ennillodd ef y dydd, ac y cafodd 12000 o gamelod a llwythau arnynt yn yſpail: ac ychydig wed'yn y gwnaeth ef ei bererindod olaf i Mecca, gan fyned yn gylch cwmpas y Caaba, neu'r Deml yno 7 waith; 3 gwaith yn rhedeg, a 4 gwaith yn cerdded; ac yna fe ymwelodd a mynydd Sapha, a Merfa, a dyffryn Mina, a mynydd Araphat, lle pregethodd ef i'r bobl, ac a ddychwelodd i ddyffryn Mina, gan daflu 7 garreg fechan tu ol iw gefn, i yrru'r Diafol ymaith; ac yn olaf fe aberthodd y defaid ag ddaeth gydag ef 70 a'i law ei hun, a 37 trwy law Ali; a thyma ei bererindod olaf ef i Mecca.

Eu. Nid wyf am ymholi ymhellach i fywyd Mahomet, ond ychydig pa ddull bu farw? Pa le y claddwyd ef? Ai gwir yw ei fod wrth Boadſton, yn hongian rhwng nefoedd a ddaear?

Ap. Ar ol ei farw bu derfyſg mawr ymhlith ei ganlynwyr, rhai o ba rai a'u gadewodd, a rhai gredaſant, mae nid marw o hono; ymhlith pa rai yr oedd Omar, yr hwn a dynnodd ei gleddyf, ac a dyngodd y torrai ef yn ddarniau yr hwn ddwedai ei fod yn farw.

Eu. Ond a goeliwyd hyn?

Ap. Na ddo, fe ddaeth Abubeker i mewn, ac yn gwybod y cyfeiliornad, llefodd, a ydych chwi yn addoli Mahomet, neu Dduw Mahomet? Os ydych yn addoli Duw Mahomet anfarwol yw; ond am Fahomet, mae ef i farw; ac yno oddiwrth amryw leoedd yn yr Alcoran fe gadarnhaodd i fod ef i farw fel dynion eraill, ac o hynny allan nid oes un ymhlith y Mahometaniaid ag ſydd yn ei ddiſgwyl ef attynt hyd yr adgyfodiad cyffredin. *Eu.*

Eu. Ond pa le y claddwyd ef?

Ap. Bu ryw faint o ymrafael ynghylch y lle iw gladdu; rhai fynnai ei gladdu ef yn Mecca, lle ei enedigaeth rhai lle bu ef farw, ſef yn Medina, rhai fynnai ei ddwyn i Jeruſalem dinas y prophwydi; ond Abubeker trwy ei ddoethineb a ddibennodd hyn hefyd; gan ddweud iddo glywed y prophwyd ei hun yn dywedyd, fod y prophwydi iw claddu yn y man bont farw; ac yna heb ddweud rhagor ſe orchymynodd y gwely ar ba un y gorweddodd iw godi ymaith, a bedd iw gloddio tano, a phawb a gyttunaſant, ac a'i claddaſant yn union yn y lle y bu ef farw; yr hyn oedd yn ſtafell Ayheſha ei anwylaf wraig, yn Medina; ac yno y mae yn gorwedd hyd y dydd hwn, heb un coffyn hiarn, a Loadſton, yn ei hongian ef yn yr awyr, fel y mae'r ſtoriau am dano gan Criſt'nogion yn cerdded. Ac fel hyn terfynodd bywyd y Twyllwr llwyddiannus hwn, yn yr oedran o 61 i 63; ymha amſer oddiwrth ddechreuad gwael, ſe gododd trwy ymegniadau awydd, a chyflymdra ei gyfrwyſdra, i'r uwchder hynny, ag y gwnaeth ef un o'r cyfnewidiadau mwyaf ag a ddigwyddodd trwy'r holl fyd; yr hyn a roddodd ddechreuad i ymerodraeth, yr hwn mewn pedwar ugain o flynyddau, eſtynodd ei lywodraeth tros fwy o deyrnaſoedd, a gwledydd nag allodd y Rhufeiniad mewn wyth cant o flynyddau. Ac y mae tair o'r ymerodraethau mwyaf galluog ar wyneb y ddaear y dydd heddyw yn cofleidio'r ffydd Fahometanaidd, ſef ymerodraeth Twrci *; ymerodraeth Per-

* Ymerodraeth y Twrc, yw un o rhai mwyaf yn yr holl fyd; yn cynnwys Twrci yn Europ, Twrci yn Aſia,

Aſia, a Thwrci yn Affrica. Twrci yn Europ ei hunan ſydd fil o filltiroedd ei hyd, a naw cant o led; yn cynnwys gwledydd meithion, a theyrnaſoedd ehang yn y dyddiau gynt; lle bu brenhinoedd, ac ymerawdwyr yn llywodraethu; a lle tannwyd yr Efengyl gyntaf erioed, megis Tartari fechan, Budziac, Tartari, Beſſarabia, Dacia, Walachia, Bulgaria, Servia, Boſnia, Romania, Macedonia, Theſſali, Achaia, Boetia, Epirus, Albania, Dalmatia, Raguſa, Corinthia, Argos, Sparta, Olympia, Accadia, Elis; rhai o ba rai enwir yn yr Yſgrythurau; heb law tair ar ddeg ar hugain o ynyſoedd yn yr Archipelago, a'r mor Lefant, rhwng Aſia ac Europ. — Twrci yn Aſia eilwaith ſydd oddautu yr un faintioli; yn fil o filltiroedd o hyd, ac wyth cant o led, yn cynnwys Chaldea, Meſopotamia, Aſſyria, Turcomania, Georgia, Natolia, Amaſia, Aladulia, Caramania, Syria, a Phaleſtina, y tir ſanctaidd; a'r holl wledydd hyn yn Europ ac Aſia ſydd yn Fahometanaidd; nid oes un rhan o'r byd wedi ei oſod yn well at draffic na hwn, am eu bod yn cwrddid a'r mor canoldir, y mor coch, a'r mor du, a chanddynt bob cyfleuſdra i ddanfon allan holl dryſorau gwerthfawr y dwyrain; a'u tannu hwynt tros holl Europ, na neb teyrnaſoedd eraill. Ond nid ydynt fyth yn cynnig gwneuthur ſiwrneuon pell ar y mor, ac nid oes ganthynt fawr nifer o longau Marſiandwyr; canys maent yn danfon allan, ac yn cael i mewn eu meddiannau mewn llongau o deyrnaſoedd eraill. — Y gwledydd hyn yn enwedig Aſia leiaf cyſtal a Phaleſtina, a Syria, fu gynt yn gyflawn o faeſydd ffrwythlon, a gwinllanoedd hyfryd, ac wedi eu harddu ag amrywiol o dyrau arddechog, ac adeiladau teg; ydynt yn awr megis cynnifer anialwch at yr hyn fuont gynt; am nad yw y Twrciaid yn gofalu fawr am blannu, adeiladu, na marchnatta mewn cydmariaeth i wledydd eraill. Tyrus, Sidon, ac Alexandria yn yr Aipht, fu yn drech mewn morwriaeth, a marſiandaeth na'r holl fyd; ſydd tan lywodraeth y Twrc, ond nid ydynt yn gwneuthur un enw heddyw mewn marſiandaeth. — Nid yw'r Grand Signior,

Signior, neu ymerawdwr y Twrciaid, yn cael ei gaethiwo tan un gyfraith, na chyfammod; mae ei bwer ef yn anherfynol; mae'r bobl cyſtal a'r wlad tan ei feddiant; mae bywyd pob dyn a meddiant pob dyn yn yr ymerodraeth at ei ewyllys: mae ef hefyd yn etifedd iw ei holl ſwyddogion, pa ſwydd bynnag ſo ganthynt yn y llywodraeth; pan font hwy wedi yſpeilio gwleddydd, a theyrnaſoedd cyfain, maent yn rhwym wrth farw i adael oll a feddant at ewyllys yr ymerawdwr, i wneud ag ef fel y gwelo fod yn dda; ac ni ry ef ond rhan fechan o hono i berth'naſau yr hwn fu farw; pa mor ffyddlon bynnag yr ymddygodd yn yr ymerodraeth; ac rai prydiau, tan gyſgod iddynt ymddwyn yn anaddas, fe'i tyrr hwynt ymaith ynghanol eu dyddiau; yn enwedig os digwydd iddynt fod yn gyfoethog iawn. — Conſtantinople i hunan, eiſteddfod y Grand Signior, yw un o'r pethau mwya hynod, a rhyfeddol trwy'r holl fyd; yr Aber hyfrydaf yn Europ a ſefyllfa'r ddinas hefyd i'r olwg ſydd yn y dull mwya cymmwys a hyfryd; a'r holl hen adeiladau ardderchog mae hi yn ei gynnwys, ni's gellir braidd ei cydmaru trwy'r byd. Y rhan hynny o honi elwir y ddinas, ſydd 12 milldir o gwmpas; a rhan tu allan i'r muriau eilwaith nid yw ronyn llai, a'r holl ddinas ſydd fel yr ydys yn tybied yn cynnwys dwy filiwn o bobl 2000000. Palas yr ymerawdwr, a elwir Seraglio, lle mae efe, ei wragedd, a'i ordderchwragedd yn byw, a'r holl ieuengctyd a ddygir i fynu yn y Seraglio, ag ſydd yn cael eu pwrpaſu at ryw waſanaeth yn y llywodraeth, neu'r armi, ydynt oll blant i rieni criſt'nogol; naill a'u wedi eu cymmeryd mewn rhyfel, neu wedi eu prynu, neu eu rhoi gan y rhag-lywodraethwyr o'r amryw ardaloedd; y plant mwya glan, a thlws, union, a bywiog ag ellir eu ffeindio allan, ac ſydd yn waſtad yn cael eu golygu, a'i cymmeradwyo gan y Grand Signior, cyn y derbynnir hwynt i Seraglios. — Pera, Conſtantinople, neu Adrianople, y rhai yw y tri Cholege, neu ddyſgeiddai, ymha rai y dygir hwynt i fynu at yr alwedigaeth ag y bo'r awdurdod freiniol yn ei weled yn addas idd-

ynt ; fe'i dyſgir hwynt yn gyntaf i fod yn ddiſtaw, ac o ymddygiad goſtyngedig, yna addyſgir hwynt yn y grefydd Fahometanaidd, ac i chwedleua, a ſcrifennu yn jaith y Twrciaid ; ac eilwaith yn jaith Perſia, a jaith Arabia ; pan addfedont i oedran, fe'i dyſgir hwynt i arferyd arfau, a'r fath gelfyddydau eraill ag a fo'n perthyn i'r llywodraeth : ac fe'i derchefir hwynt, a'u cyflogau chwanegir, ar ol eu defnyddioldeb. Ac fel y bo lleoedd o'r llywodraeth yn myned yn wag, maent yn cael eu derchafu iddo. Rhan o deulu'r Grand Signior ſydd wedi ei wneud i fynu o fudion, a phegoriaid, neu dwarffs, ſef dynion bychain jawn cefn grynion ; y mudion, y rhai ſydd wedi eu geni yn fuddar, ac yn ganlynol yn fud, ſydd oddautu 40 o rifedi ; y rhai hyn ſydd wedi eu dyſgu i chwedleua wrth arwyddion, ac yn dal i fynu gymdeithas heb arfer geiriau ; gyda rhai'n a'r pegoriaid y rhai ſydd hefyd yn ddigryfwyr y difyrra'r tywyſog yma lawer o'i amſer ; ac os bydd pegor yn digwydd i fod yn efnych, ac yn fud ni's gellir goſod gormod o bris arno. —— Y grefydd ſefydledig trwy holl wledydd y Twrc yw Mahometaniaeth, o ſect Omar ; a hon wedi ei rhannu yn gant o ſectau eilwaith. Y Mwffti yw archoffeiriad eu crefydd hwynt, ſel pa un ſydd angenrheidiol at baſſo un Act f'o yn perthyn i'r llywodraeth. Fe all pwy bynnag i fod yn offeiriad ag a gymmero'r gwiſgoedd, ac a gyflawno ſwydd offeiriad ; nid oes dim yn gyffelyb i urddau yn eu plith. — Mae amrywiol o ryfeddodau mawrion ar hyd y gwledydd meithion yma, yn enwedig hen adeiladau er amſer yr Emerawdwr gynt, y rhai ſydd ry faith iw henwi eu gid, ond mi enwaf rai, Palmira yn Syria, ſef ddinas y Palmwydd a ſonier am dani yn yr yſgrythur yr hon ſydd heddyw yn gárneddau ſydd yn ryfeddod i bob trafaelwr.—Mae hefyd oddautu 12 milldir i Aleppo, dinas arall o Syria, lynn oddautu 7 neu 8 milldir o led ac arno grofen o halen, yr hwn ſydd yn ſwnio fel eira wedi rhewi, pan Siango ceffyl arno ; a thryſorau mawrion o'r halen hyn oſodir i fynu mewn tryſor-dai yn agos i Aleppo.—Ac am y ryfeddodau ſydd oddautu

yr

sia †; ac ymerodraeth y Mogul yn yr India;

---

yr hen Jerusalem maent yn rhy faith iw rhifo; ac mi wna sy ngorau am gofio enwi rhai o honynt mewn man arall o'r Llyfr hwn. —— Yr hen Fesopotamia yn awr sydd ran o deyrnas y Twrc, ac yn gorwedd rhwng yr afon Euphrates a'r afon Tigris, a debygir i fod yn drigfan yr hen Baradwys; ac yn yr un ardel ar lan yr afon Euphrates, yr oedd Twr Babel wedi ei adeiladu, ac ar ol hynny dinas Babilon, o ba un nid oes heddyw ddim yn aros; ac ni's gwyddir yn gywir yr union fan ag yr oedd hi; ond a teddylir ei fod wedi ei droi yn llynn o ddwfr trwy hfeiriant yr afon Euphrates. Ninefe hefyd prif ddinas ymerodraeth Assyria, oedd yn sefyll ar lan yr afon Tigris, ol pa un yn unig sydd i weled gogyfer a dinas Mousol.

† Persia sydd ymerodraeth fawr iawn, rhwng yr East-India a Thwrci yn Asia; yn ddeuddeg cant o filldiroedd o hyd, a chymmaint arall o led, yn 16 o wledydd meithion jawn, rhai yn fwy, a rhai yn llai na Chymru a Lloegr i gid tan lywodraeth un ymerawdwr; ac yn awr gan mwyaf yn Fahometanaidd. —Mae rhai rhannau o'r wlad hon yn oer jawn, a'i mynyddau mawrion ag eira fynychaf arnynt; a rhannau eraill sydd gymhedrol o ran gwres; — ond tros ddau fis yn y flwyddyn, oddautu Ebrill, a Mai, maent yn cael eu blino a Saniel neu'r gwynt poeth ag sydd yn chwythu tros dair neu bedair awr yn y dydd, gyda'r fath wres lofgedig, ag sydd yn lladd llawer o bobl.—Hyn sydd yn agor y gair a ddywed Dafydd yn y Salmau, a phoeth wynt ystormus, dyna ran eu Phiol hwynt. Eu hanifeiliaid mwya defnyddiol hwynt yw Camelod a Cheffylau; mae ganddynt hefyd Eifr danas, Uchen, a Buffaloes; a'u Defaid hwynt sydd hynod am fod ganthynt 6 neu 7 o gyrn bob un, ac hynffonnau ag sy yn pwyso 7 neu 8 o bwysi bob un: mae yno Lewod, Tygers a phob rhyw fwystfilod gwylltion; eu traffic hwynt sydd gan mwya mewn Sidan, Gwlan, Mohair, Camblets, Carpets, a Lledr; ac yr ydym ninnau yn cyfnewid ein gwaith gwlan a hwynt, ymhen Sidan, heb ei weithio,

neu wedi ei weithio, Carpetau, a'r cyfryw bethau o waith y wlad honno. Mae yma fwyn-gloddiau gwerthfawr, yr ydys yn cloddio i fynu frwmſtan, a ſalt petre yn y mynydd Damaford, ac mewn dau fan arall mae yma gerrig Torquoiſe y rhai ſydd feini gwerthfawr iawn. Mae bywyd a meddiannau'r bobl yn hollol at ewyllys yTywyſog yma fel gwledydd dwyreiniol eraill; ac nid oes yma un Parliament, na Phrify Counſel, ond y brenhin ſydd yn cael cynghor gan rai o'i weinidogion anwylaf; ond y mae'r cynghor ag mae'r brenin yn ei gael gan ei fenywod yn yr Haram, yn fynych yn myned yn drech na'r Cynghorion gorau iw weinidogion gwladaidd ef.— Mae'r brenin yma heblaw ei eſtat ei hun, yn derbyn y drydydd ran o'r Anifeiliaid, ac o'r Yd, ac o'r Ffrwythau eraill. Lle mae mynyddoedd arnynt o anifeiliaid, ac yn byw mewn pebyll, perchenogwyr yr anifeiliaid hynny, ſydd yn talu y ſeithfed ran i'r brenin: Mae ef hefyd yn cael y drydydd ran o'r Sidan a'r Gotten, trwy'r holl ymerodraeth, a'r trydydd Ebol. Mae pob gwr yn yr ymerodraeth hyn yn talu treth am ddwfr, pan y troer ef naill ag i'r maeſydd, neu'r gerddi; canys o'r braidd tyf dim yma hebddo, o ran nad oes yma fawr jawn o law ac mae treth iw thalu ar bob pen ag nad yw o'r grefydd Fahometanaidd. — Nid oes un man o'r byd ag y mae benywod yn cael eu gwilied mor fanwl a'u caethiwo cymmaint ag yn Perſia, yn yr Harams, hynny yw llyſoedd y tywyſogion, a thrigfannau'r gwyr mawrion. Pan bo benywod y brenin yn ſymmud o un fan i'r llall, maent yn cael ei danfon mewn cerbydau wedi eu gorchguddio, ac amddiffynfa gadarn o wyr gyda hwynt; a rhaid i'r holl wyr cymmydogaethol i ymadael eu trigfannau, a ſymmud bellder mawr oddi ar y ffordd y bont yn paſſo, tan boen marwolaeth. — Yr Arabic yw'r Iaith ddyſgedig yn y wlad hon, ac yn y laith hon mae'r Alcoran, a llyfrau eraill wedi eu ſcrifennu, ond mae rhai gwledydd yma yn chwedleua yr hen jaith Berſiaidd, a jaith y Twrciaid yn yr ochr ne-

ſaf

dia ‡; heblaw yr Aipht yr hon hefyd ſydd tan lywodraeth y Twrc, a chan mwya oll yn Fahometanaidd.

Eu. Pa

ſaf i Twrci o'r wlad; ac yn enwedig yn llys y brenin. Nid oes dim printio yn Perſia, ond hwy a ſcrifennant yn dda, a hynny o'r llaw ddeheu i'r aſſwy, a chanddynt amrywiol fath o ſcrifen-law, wyth o leiaf, ac mae ganthynt fath o ſcrifen-law fer, ymha un yr arferant lythrennau'r Alphabet; a'r un llythrennau wedi eu pwynto yn wahanol a ddioddefant ugain amrywiol arwyddoccad.

‡ Am i mi ſon am yr India o'r blaen, a bod yr Aipht gan y Twrc, yr hon ſydd wlad o 600 miildir ei hyd, 150 o led; ar lann y mor coch, yn neſa at Aſia, a holl wledydd Affric, ac un o'r brenhiniaethau ſydd yn cynnwys mwya o ryfeddodau trwy'r holl fyd. Yma y mae yr afon fawr Nilus, yr hon ſydd yn dechreu o lynn yn Abiſinia, ac yn rhedeg trwy holl wlad yr Aipht; ac yn arllwys ei hun i'r mor canoldir, yn amrywiol iawn o bennau, y ddau fwya o ba rai yw Roſetta, a Damietta, a 100 milldir ſydd rhwng y ddwy gangen hyn yn myned i'r mor; yr afon hon ſydd tros holl wlad yr Aipht, canys nid oes fawr wlaw yno, ac mae yn dechreu llifo oddautu diwedd mis Mai, ac mae yn para i godi hyd fis Medi, neu Hydref, ymha amſer y mae'r dyfr-ddorau neu Sluices yn cael eu hagor a hithau yn cael rhedeg ar y canal mawr ag ſydd yn arwain trwy Grand Cairo ac oddiyno yn cael ei rhannu iw maeſydd a'u gerddi, mae yn arferol o godi 24 o droedfeddi erbyn mis Medi, ac yn goſtwng o hynny hyd ddiwedd Mai y flwyddyn ganlynol, ymha amſer y dechreu hi liſo o newydd. —— Y dydd y codo'r afon Nilus iw huwchder mwyaf ydys yn ei gadw yn wyl, ac yn ei gyſſegru a gweithiau tan; a phob ymddangoſiad arall o lawenydd cyhoeddus, fel yn y dyddiau gynt; a chaneli aneirif ſydd yn cael eu hagor i ddwyn y dwfr i bob rhan o'r wlad, ar ol rhyw reolau goſod-

edig

Eu. Pa ſawl gwraig y briododd ef ddywedaſoch.

Ap.

---

edig a arferir yno. Mae yn wreſog iawn yn y wlad hon fis Ebrill a mis Mai, pan y byddo'r poeth-wynt yn eu blino; yr amſer hyn y mae'r tywod yn cael ei yrru oddautu yn gymmylau, a'r bobl bron yn cael eu dallu, ac y maent yn fwy tueddol i gyſtuddiau yr amſer hyn, nag un pryd trwy'r flwyddyn; ond pryd cyntaf y dechreuo'r afon godi, a llifo tros ei cheulannau, yno pob clefydiau (hyd yn oed y plague ei hunan, yr hwn ſydd yn ymweled a hwynt un waith bob ſaith flynedd) a dderfydd: y mwd ſydd yn dyfod gyda'r afon, ſydd yn gwneud y tir yn rhyfeddol ffrwythlon, pan gyntaf y ſycho'r dwfr oddiar hyd wyneb y ddaear, nid oes gan yr hwſmon ddim arall i wneud ond llyfnu ei yd, a hadau eraill a hauo efe yn y mwd, ac weithiau yn gorfod tymheru'r mwd a thywod, er mwyn rhwyſtro'r yd i fod yn rhy ſras; ac mewn mis neu ddau, y maeſydd fydd wedi eu gorchguddio o ydau, pys, ffa, a gronynau eraill; a lle na byddys yn hau fe dyf yn fuan borfeydd breiſion. Yn mis Hydref, a mis Tachwedd mae eu gwenith, a'u haidd yn cael ei hau, a'r rice, y llin, a'r cywarch oddautu yr un amſer; y rice ag ſydd yn tyfu mewn dwfr ſydd yn cael ei hau gan mwyaf yn yr Aipht iſa. Mae eu hanifeiliaid hwynt yn cael eu troi i'r borfa yn mis Tachwedd, ac yn aros yno hyd nes dychwelo'r llif yn mis Mai canlynol; a'u cynhauaf hwynt ſydd arferol o fod yn mis Mawrth ac Ebrill. —— Mae'r Aipht iſa oll yn for troſti, pan y byddo'r llifeiriant fwya, ac nid oes ond pennau'r gelltydd, a'r coedydd yn y golwg blith dra phlith; a phen trefydd, a threfydd wedi eu hadeiladu ar fangciau naturiol, neu wedi eu gwneuthur; ond pan ſycho'r dwfr, mae'r awyr yn glir, ac yn bur, wedi ei pheraroglu gan flodau'r orange, a'r lemons, a ffrwythau eraill; a'r maeſydd llawnion, y gerddi teg, a'r porfeydd breiſian yn llawn o bob

Ap. Dywedir, fod ganddo ar ol y cyfrif cyffredin, un ar hugain, a phedair gordderchwraig.

---

o bob rhyw anifeiliaid, yn hyfryd i'r olwg edrych arnynt. Pan y byddo eifiau dwfr ar eu melons, a'u fhugar-canes, neu unrhyw blanhigion eraill, maent yn ei dynnu i mewn iw gerddi a'u maefydd, ar hyd rhewynau bychain o lynnoedd mawrion ag fydd yn cadw dwfr yn bwrpafol at yr achos hynny; ac felly yn dyfrhau heblaw'r pethau uchod pob planhigin fydd yn eu gerddi; megis dates, plantains, gwynwydd, figisbrennau, palmwydden, o ba un y mae gwin yn cael eu dynnu allan. Mae'r bobl gyffredin yn byw un rhan o'r flwyddyn ar Cucumbers heb unrhyw niwed oddiwrthynt. —— Mae yn y wlad hon ddinafoedd mawrion iawn, megis Grand Cairo yr hon dybir ei bod yn un o'r rhai mwyaf yn y byd; dywedir ei bod yn cynnwys rhagor na dwy filiwn o bobl; mae yma hen gaftell ag fydd yn dair milldir o gwmpas, ymha un y mae ffynnon ag fydd 300 troedfedd o ddyfnder, elwir ffynnon Jofeph, yr hon fydd bron yr unig ffynnon o fewn y deyrnas.

Alexandria hefyd gynt prif ddinas yr Aipht 120 o filldiroedd oddiwrth Cairo, yw un arall; ac yma y mae colofn Pompey, a nodwydd Cleopatra, yn un garreg o farbl difglair 70 o droedfeddi o uwchder, a 25 o gwmpas, a chanddi gap cerfiedig wedi ei addurno a Hierogliphycs, fef llyniau creaduriaid oedd gan yr Aiphtiaid yn lle llythrennau i ofod i lawr eu meddwl, fel y gwnawn ni mewn geiriau a llythrennau. Ar ol diniftrio Tirus a Charthage, y ddinas hon oedd ar farfiandaeth fwya yn y byd; perlyfiau a holl farfiandaeth y dwyrain oedd yn cael ei ddwyn yma ar hyd ffordd Arabia, a'r mor coch. Mae yma gamelod lawer iawn fel yn y gwledydd cymydogaethol, a cheffylau, ond ni chaniatteir mae'n debyg i'r criftianogion i farchogaeth dim ond afynnod; ac yr ydys ar y fath achos yn hurio'r anifail a'i berchennog,

neu

wraig. Ei wraig gyntaf ef oedd Cadiga, a hon ſydd o'r fath barch ymhlith y Mahometaniaid,

---

neu was ei berchennog, yr hwn ſydd a gierthu ar ol y creadur yn ei yrru ymlaen tra fo'r trafaelwr yn ei farchog. —— Y maent yn dyſgu rhai camelod yma i ddawnſio, yr hyn a wnant wrth eu goſod ar lawr poeth, nes byddo'r anifail yn codi ei draed ar gylch, fel pe b'ai yn dawnſio, ac yn y cyfamſer bydd llangc yn curo'r drwm, ac yn ol gwneuthur hyn yn fynych y daw'r creadur o hono ei hun i ddawnſio pan glywo guro'r drwm. Un o ryfeddodau'r wlad hon yw'r march afon elwir Hippopatamus; mae ef yn fwy nag ych, ond y tu ol iddo ſydd yn bur gyffelyb iddo, a'i ben fel ceffyl a thraed mawrion breiſcion, ac ewinedd, a'i gynffon fel elephant, mae ef yn greadur tir a mor, ac yn dyfod allan o'r dwfr ac yn pori glaſwellt ar hyd y maeſydd; nid oes nemawr o honynt, ac nis gwelwyd fawr o honynt yn ddiweddar yngwlad yr Aipht. Y Crocodil hefyd ſydd yn afon yr Aipht; hwn eilwaith ſydd greadur tir a mor, o hyd mawr, rhai oddautu ugain troedfedd, o lun pedairchwilen, a phedair troed ferr, ag ewinedd; mae ei gefn ef wedi ei wiſgo a rhyw fath o gragen neu grwſt fel helm, na's gellir torri trwyddo; maent yn diſgwil am eu ſclyfaith yn yr heſg, neu yr wythydd ar lan yr afon; lle gallant orchguddio eu hunain a rhyw ogyſgod, fel y maent yno yn ymddangos fel hen foncyff o bren diniwed; ac oddiyno yn neidio yn ddiſymmwyth ar yr ymdeithydd difraw, a'i ddwyn i lawr a'i foddi yn gyntaf, meddant, ac yno ei lyngcu; ond nid oes fawr o honynt o'r maentioli hyn. Creadur yw ac ſydd yn dodwy llawer iawn o wyau, y rhai ſydd yn cael eu deſtrywio gan greaduriaid eraill: oni b'ai hyn yr afon a'r wlad a lanwai o honynt. Mae 'r Oſtrich yn yr Aipht, cyſtal ag yn anialwch Affrica: yr aderyn mwya welwyd, mor bwyſig nas gall ehedeg, ond trwy nerth ei adenydd ſydd yn rhedeg mor gynted

aniaid, fel y cyfrifir hi yn un o'r benywod gorau o bob oes; ac amryw ſydd yn credu ei bod

---

gynted a cheffyl, ac ſe helir hi weithiau fel adar eraill o'r helfa. Mae yma lawer hefyd o'r Storciau, y rhai ſydd dda at ddifa pryfed ag y f'o yr afon wedi eu gadel yn y mwd. Mae yn y wlad hon ffordd ryfeddol o ddeori wyau, nes delo o honynt gywion heb i'r jar i eiſtedd arnynt; ſef trwy ddodi rhyw gannoedd o honynt mewn ffwrn a thom cyffylau gyda hwynt, a'u cadw mewn gwres mor gymhedrol ag ſydd gan y jar, hyd nes delo'r amſer nodedig i ddyfod allan gywion. Ond y peth mwya rhyfeddol trwy holl wlad yr Aipht, ac hefyd trwy'r byd, yw'r Piramids mae ſeilfaen y mwyaf yn gorchguddio un ſlang ar ddeg o dir, ac yn bum cant o droedfeddi o uwchder a'i feſur yn blwm i lawr, ond 700 o droedfeddi a'i feſur ar oledd gyda'r mur. Mae un 'ſtafell ynddo yn 34 troedfedd, 4 ei hyd, a 17 ei led, ymha un y mae ciſt o farbl 7 troedfedd o hyd, yr hwn a feddwl rhai mae yſgrin yw ymha un y mae cyrph rhyw rai o'r hen frenhinoedd wedi eu rhoi i gadw. Y peth arall yw pyllau'r Mummy: gogfeydd mawrion ydynt tan y ddaear o hyd rhyfeddol, deg troedfedd ar hugain o ddyfnder, ac ynthynt rodfeydd mawrion pedwar onglog, ar ochrau pa rai yr oedd yr Aiphtiaid yn arferyd claddu eu meirw, trwy oſod yr yſgrin i ſefyll yn union yn rheſau, ar ol dodi'r corph wedi ei eneinio ynddo. Rhyfeddod arall yn yr Aipht uchaf yw y Labyrinth a ddywedir ei naddu allan o graig galed o farbl, yr hwn ſydd yn cynnwys deuddeg o balaſau, a mil o deiau. Hefyd yn y wlad hon mae'r frwynen Papyrus, yr hon ſydd yn tyfu ar lan yr afon Nile, o ba un y gwnawd papur gyntaf ac oddiyma y cafodd ei enw. Mae'r Mwriaid, a'r Arabiaid yma, yn fwy gwreſog yn y grefydd Fahometanaidd nag ydynt yn Twrci, mae ganthynt eu Santos, ſef rhai ſydd yn cymmeryd arnynt fod yn fwy creſyddol

bod hi yn forwyn bur, er ei bod yn fam llawer o blant; ond Ayhefha, yr hon oedd ei ail wraig oedd un o'r pendefigefau mwya dyfgedig yn holl Arabia yn ei hoes; am i Mahomet gymmeryd gofal iw haddyfgu yn nyfgeidiaeth pennaf y wlad honno; ac a hi byddid yn ymgynghori ynghylch y Pyngciau mwya dyrus o'r Gyfraith; a'i holl agoriadau gafodd myned yn lle y traddodiadau mwya cywir fyth mwy. Ac yn neffaf atti mae traddodiadau Abdorrakman Ebn Auf, yr hwn oedd o gof da, ac yn gyfeillgar ar twyllwr yr holl amfer y bu ef yn gweithredu, yn dyfeifio, ac yn dwyn ymlaen y dwyll grefydd afradlon honno. Ac ni's cyfrifir llai na phump mil, tri chant, a deugain o draddodiadau yn eu plith, ag fydd wedi eu hadeiladu ar ei awdurdod ef yn unig.

Eu. Digon am fywyd Mahomet, mynegwch bellach Athrawiaethau pennaf y grefydd hon?

Ap. Mae'r holl grefydd Fahometanaidd yn gynhwyfedig mewn ffydd, ac arferiad; neu ffydd a dyledfwyddau.

Eu.

---

ddol na'r lleill o'r Mahometaniaid, i'r rhai y maent yn rhoi parch anarferol, amryw o'r rhai'n fydd yn myned oddautu yn hollol noeth, heb gymmaint ag un rhegfyn yn eu gorchguddio, ac yn gadael eu gwallt i dyfu i hyd anarferol: yn y drych hyn y maent yn ymweled a theiau pendefigion, gan eiftedd i lawr i ginawa gyda hwynt, heb un gwahoddiad, y rhai a adawant y bwrdd gyda cyn leied o foefau ag yr eiftedda fant: ac fe edrychir arno, fel nid y fendith leiaf i'r ty i dderbyn ymweliad oddiwrth un o'r bobl hyn. Mae amryw feirph yn yr Aipht, megis yr Afp yr hon fydd farph lan, ond yn wenwynig creulon, a thrwy glwyf hon y dewifodd Cleopatra farw, ond nid oes yno un Bafilic ac a wenwyna a'i lygaid fel y dywed rhai ei fod, nag yn un rhan arall o'r byd.

PEN. II.

Eu. PA rai yw pyngciau eu ffydd?

Ap. Maent am Dduw, am ei Angylion, ei lyfrau, ei brophwydi, y dydd olaf, ac am ei arfaeth. Mae eu hymarferiad eilwaith yn gynhwyſedig mewn, ymolchiadau, gweddiau, eluſennau, ymprydiau, a phererindodau i Mecca.

Eu. Pa beth yw eu cred am Dduw?

Ap. Ffydd yn Nuw yw gwir addefiad y meddwl, a chyſaddefiad y tafod, i fod goruchel Dduw, ei fod yn wir barhaol hanfod yn dragwyddol, heb lun, na dull allanol, na lle, na chyfaddas, nac un gogufwch, na chyffelyb, na ſummudiad, na chyſnewidiad, na rhannau, na blino, na thorriad; ni's cyſylltir ef ag arall, yn un bywiol, holl breſennol, a Hollalluog, yn ewyllyſio, yn gweled, yn clywed, yn creu, yn cynnal, yn bywhau, yn rhoddi i farwolaeth, yn adgyfodi, yn barnu, yn gwobrwyo, ac yn coſbi; a'r priodoliaethau nid eſe ydynt, etto nid ydynt wahanol oddi wrtho.

Eu. Beth ſydd i gredu am yr Angylion?

Ap. Eu bod heb bechod, yn agos i Dduw, goſtyngedig mewn ufudd-dod; a'u cyrph ſanctaidd o ddefnydd tenau, yſgafn megis Goleuni; nad ydynt yn bwytta, nac yn yfed, heb wahaniaeth Secſau, na nwydau cnawdol; ac am eu fwyddau, rhai ſydd yn ſefyll, rhai yn plygu, rhai yn canu, ac yn ymgrymmu, rhai yn gweddio am faddeuant pechodau dynol-ryw; rhai yn 'ſcrifennu, ac yn amddiffyn dynion, ac yn dwyn gorſedd Duw i fynu ac i lawr; a'u caru hwnt yw un o'r ammodau mwyaf angenrheidiol o ffydd.

Eu. Pa beth yw ffydd yn y llyfrau ſanctaidd?

Ap. Bod wedi coelio yn y meddwl, a chyffeſu â'r tafod, fod llyfrau ardderchog yn perthyn i

Dduw, a rhai a ddanfonodd ef o'r nef i'r prophwydi; y llyfrau hyn i gyd ydynt eiriau y goruchaf Dduw, y rhai ddarllenir â thafodau, 'ſcrifennir mewn llyfrau, ac a gedwir yn meddyliau dynion; a'r gair hwn o eiddo Duw, ſydd wahanol oddi wrth y geiriau a'r llythyrenau a 'ſcrifennir mewn llyfrau; ac etto y geiriau a'r llythyrenau hyn elwir yn air Duw, trwy ddull o ymadrodd, o ran eu bod yn dangos gwir air Duw, ſel y mae'n geiriau ni yn cael eu galw yn eiriau, am eu bod yn dangos y gwir air, ſef ein meddyliau ni: a'r llyfrau hyn mewn rhifedi ſy'n 104, o ba rai 10 a roddwyd i Adda; 50 i Seth; 30 i Enoc; 10 i Abraham; 1 i Moſes; 1 i Ieſu; 1 i Dafydd; 1 i Mahomet; yr hwn yw 'r Alcoran.

Eu. Beth yw ffydd ynghenhadon Duw?

Ap. Addef â'r galon, a chyffeſu â'r tafod, fod gan Dduw brophwydi ymhlith dynion, y rhai ſydd raid i'w credu; y rhai ſydd yn gorchymyn rhai pethau, ac yn gwahardd pethau eraill, yn dwyn cenhadwri Duw at ddynion, yn datguddio iddynt gannonau, a phethau dirgel, megis nattur a phriodoliaethau Duw, a'i weithredoedd, yr adgyfodiad * poenau 'r bedd, y cweſtiwn, a'r treial, y fantol, y † bont, a'r ffordd ſydd i'w theithio, y dydd olaf, y ‡ pwll, yr eiriolaeth, Paradwys a'i

---

* Maent yn dal bod dau angel Mwnkin, a Nakir, yn cyfodi dynion o'u beddau, a'u hyſbrydoli hwynt a bywyd newydd; gan eu holi am eu ffydd a'u duwioldeb; a chosbi yr enog, ac ynó y caiff eu gweithredoedd da a drwg eu pwyſo yn y clorian; rhifedi y rhai da un pen, a rhai drwg y pen arall i'r glorian.

† Hon ſydd yn cyrhaeddyd tros uffern, a rhaid i'r duwiol a'r annuwiol ſyned troſti, a'r annuwiol a gwympo i lawr i'r tân.

‡ Y pwll ſydd hefyd ar y bont hon, o ba un rhaid i'r duwiol yſed wrth ſyned troſodd i'r nefoedd.

phleſerau,

phleſerau, uffern a'i phoenau : ſod y prophwydi yn rhydd oddi wrth gyfeiliornadau, a phechodau mawrion, † eu gyd o'r un grefydd, ſef y Fahometanaidd ; etholedigion y creaduraid, wrth ba rai mae Duw yn llefaru, ac angylion yn dyſod i lawr attynt ; eu bod yn gwneuthur gwyrthiau, rhai yn cyſodi'r meirw, rhai yn ymddiddan ag anifeiliaid, ac yn cael eu cyfarch gan greaduriaid difŷwyd, megis coed, a maen ; y prophwyd cyntaf oedd Adda, yr olaf a'r mwyaf rhagorol oedd Mahomet. Y mwyaf rhagorol o'r creaduriaid, a'r neſaf i'r prophwydi oedd Abubeker ; yna Omar, yna Othman ; ac yn olaf Ali ; rhifedi'r prophwydi ar ol un traddodiad ſydd ddau cant a phedwar ar hugain o filoedd 224000 ; ond ar ol traddodiad arall, 124000 ; ac o rhai'n 313 ddygaſant ſwydd cenhadon, a 6 oſodaſant i ſynu oruchwyliaethau newyddion; ſef Adda, Noah, Abraham, Moſes, Ieſu, a Mahomet. Nid ydys yn gofyn fel ammod ffydd, eu hadnabod, ond angenrheidiol yw eu caru hwynt ; canys yr hwn ſydd yn eu caſau hwynt, neu ryw un o honynt anghredadyn yw.

Eu. Beth y maent yn ei gredu am y dydd olaf?

Ap. Credu bod dydd olaf yn ſicr o ſod, ac mai hwn yw dydd yr adgyfodiad ; ac y bydd i Dduw ddwyn y bydd hwn i ddiſtryw, ac a rhydd yr holl greaduriaid ſy ynddo i farwolaeth; ond rhyw bethau y rhai mae ef yn eu hewyllyſio i aros, ſef gorſedd y gogoniant, yr eiſteddfa frenhinol,

† Eu gyd o'r un grefydd—cred gadarn y Mahometaniaid yw i ſod Adda, Noah, Moſes, Ieſu Griſt a'r holl brophwydi yn cofleidio yr un grefydd a Mahomet : ac ſe ddywedir am Abraham yn yr Alcoran, mai Mahometan ydoedd, ac nid Iuddew na Chriſtion.

yr yſpryd, y * llech, a'r pin, paradwys, ac uffern, a'r holl bethau gynhwyſir ynddynt: yna Duw a gyfyd dynion i fynu ac a'i caſgl ynghyd, ac fe'i geilw i roi cyfrif ac a'i hola, ac a rydd iddynt eu llyfrau, ymha rai y mae'n ſcrifenedig eu gweithredoedd da a drwg; rhai ſydd ar ei law ddeheu, rhai ar ei law aſſwy, tu ol i'w gefn; yna barn efe rhyngthynt mewn cyfiawnder, ac a bwyſo eu gweithredoedd cyſtal da a drwg; ac a rydd daliad i bob enaid ar ol hyn a wnaeth; rhai ant i mewn i baradwys trwy ei haeddiant a'i ddaioni ef; rhai i uffern: ond nid erys neb o'r ffyddloniaid yn uffern yn hir, ond ant i mewn i baradwys, 'nol dioddef yn gyfattebol i faint eu pechodau; ac yna erys y credinwyr fyth ymharadwys; a'r anghredinwyr fyth yn nhân uffern.

Eu. Y peth neſaf am arfaeth Duw. Pa beth y maent yn ei gredu am dani?

Ap. Credu â'r galon a chyffeſu â'r tafod, fod y goruchel Dduw wedi arfaethu pethau a'u dull, fel nad oes dim yn digwydd yn y byd, pa un bynnag ai yn perthyn i gyflyrau, neu weithrediadau; da, neu drwg; ufudd-dod, neu anufudd-dod; ffydd, neu anghrediniaeth; iechyd, neu

---

* Y llech—barn y Mahometaniaid, mai 'r peth cyntaf a greodd Duw oedd y llech, y pin, y dwfr, yr orſedd, a'r eiſteddfa frenhinol; ond y llech yma meddant, nid oes neb yn deall beth 'ſcrifenwyd arni ond Duw: dywedant hefyd ei bod hi o berl o anfeidrol faint, a'r pin o gemmau o agen pa un, y mae yn dyfod allan oleuni fel ingc; ond rhaid deall nad oedd hyn ond cyffelybiaeth yn arwyddoccau arfaeth dragywyddol Duw am bob peth; yr hyn mae pobl y dwyrain yn ei oſod allan yn eu ffordd ddamhegol eu hunain. Yr Iuddewon hefyd a ddywedant fod y pin â pha un y 'ſcrifenwyd y 10 gorchymyn ar feini Saphir wedi eu greu o flaen nef a daear.

glefyd;

glefyd; cyfoeth, neu dlodi; bywyd, neu angeu; nad yw yn gynhwyſedig yn arfaeth Duw. Ond ei fod wedi arfaethu daioni, ufudd-dod, a ffydd felly, fel y mae yn ei hewyllyſio, ac y gallont fod tan ei gyfarwyddiad iachuſol, ei ewyllys da, a'i orchymyn; ond o'r tu arall, iddo arfaethu drwg, felly fel nad yw tan ei gyfarwyddiad iachuſol, ei ewyllys da, na'i orchymyn ef; a phwy bynnag dd'wedo, nad yw Duw yn ymhyfrydu mewn daioni, a ffydd, neu nad oes ganddo lid un erbyn drwg, ac anghrediniaeth; neu fod drwg a da oddi wrth Dduw felly, fel darfu iddo arfaethu ac ewyllyſio y ddau gyd â hyfrydwch ynddynt; diau mai anghredadyn yw. Dyma ſwm pyngciau ei ffydd hwynt; y peth neſaf yw y rhan ymarferol o'u crefydd.

Eu. Y peth cyntaf a ddywedaſoch yntau oedd, eu golchiadau hwynt, canlynwch hynny.

Ap. Nid llai nâ 7 math o ddwfr ſydd ganthynt i hyn; ſef dwfr glaw, dwfr eira, dwfr afon, dwfr y môr, dwfr pydew, dwfr ffynnon, a dwfr ceſſer.

Eu. Pa fath yw y golchiadau hyn? ac i bwy ddiben y dywedir eu bod?

Ap. Un math o olchiad elwir Gaſl, yr hwn ſydd olchiad o'r holl gorph; a hyn ſydd i amryw ddibenion, megis ar ol enwaediad, miſglwyf, genedigaeth, marwolaeth, a rhai pethau eraill nad wyf yn dewis eu henwi; ond mae ganthynt olchiad arall ag maent yn galw Wodau arno, rhannau pa un ſydd 6, ſef 1 crymmu; 2 golchi'r wyneb; 3 golchi'r breichiau; 4 rhwbio rhyw rannau o'r pen; 5 golchi'r traed a'r migwrnau; 6 cadw'r dreſn, ond y llyfr * Sunnah ſydd yn gofyn llawer

* Y llyfr Sunnah ſydd yn cynnwys ymadroddion, a gweithredoedd Mahomet, y rhai nad ydynt yn cael eu

llawer mwy nâ'r Alcoran, a llawer rhagor o ſeremoniau ynghylch y golchiadau hyn.

Eu. Y peth neſaf yw eu gweddiau.

Ap. Y deddfau ar ba rai y mae ſeremoniau eu gweddiau cyffredin yn ſylfaenu ydynt amrywiol o ymgrymmiadau, eiſteddiadau, credo, darllain pennodau o'r Alcoran, ‡ cyfaddefiadau, ond y pump peth hyn ofynir cyn gweddi; 1 Purdeb yr aelodau oddi wrth halogrwydd y Bol a phob aflendid arall. 2 Gorchuddio'r corph â gwiſg lân. 3 Sefyll mewn lle glân. 4 Gwybodaeth o'r amſer nodedig. 5 Troi'r wyneb tua'r Kibla neu deml Mecca; pump amſer gwedi ſydd ganthynt; 1 gweddi ganol ddydd; hon ſydd yn cynnwys yr ymgrymmiad; 2 gweddi ar ol canol ddydd yr hon ſydd yn gofyn cynnifer; 3 gweddi brydnhawnol o dri ymgrymmiad; 4 gweddi noſweithiol yr hon ſydd yn gofyn 4; 5 gweddi foreuol yn gofyn dau, eu gyd yn 17 o ymgrymmiadau yn y dydd.

Eu. Y peth neſaf yw ynghylch eu heluſennau.

---

henwi yn yr Alcoran, wedi cael eu rhoi yn gyntaf allan trwy draddodiad, yna eu caſglu ynghyd mewn ſcrifen; a'r llyfr hwn ſydd a thorfeydd aneirif o ſeremoniau ynddo, am y golchiadau hyn, na's gellir ei hadrodd heb lawer o amſer, na'i cofio chwaith heb orcheſt, ac arfer; ac hefyd am y pethau ſy'n gwneud y golchiadau hyn yn angenrheidiol, rhy gnawdol a digrif ydynt i Siarad am danynt. Mae ganthynt olchiad a thywod yr hyn yn unig a gyflawnir pan y b'o dwfr yn eiſiau fel yn fynych y mae ef yn y gweledydd poethion hynny.

‡ Y cyfaddefiad yw, adrodd nad oes un Duw ond un, a Mahomet yw ei brophwyd ef, yr hyn mae'r Mahometaniaid yn ei ddyblu a'i dreblu ymhob gwaſanaeth eglwyſig, fel y mae'r Proteſtaniaid y ffyrf honno gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab, &c.

Ap.

Ap. Maent i'w rhoi o bump math o bethau; anifeiliaid, arian, ffrwythau wedi eu hau, planhigion, a phethau marſiandwyr; tri math o anifeiliaid ſy, o ba rai mae yn rhaid rhoi eluſen, camelod, gwartheg a defaid; a chyn gwnair hyn yn gyfreithlon, 6 peth ofynir, ſef, 1 bod yr hwn a roddo eluſen o'r pethau hyn yn Fahometan, 2 ei fod yn rhydd, 3 ei fod yn gyflawn Arglwydd ar y peth hynny, 4 ei fod wedi cynnyddu i'r fath gyflawnder ag ſ'o wrth y gyfraith i roi eluſen o honno; 5 ei fod flwyddyn gyflawn yn ei feddiant; 6 a bod yr anifeiliaid hynny wedi eu magu ganddo ei hun, neu ar ei draul ef; ac eluſenni o'r lleill yn gyffelyb i'r un modd: ond nid ydynt yn rhoi o eluſenni planhigion ond yn unig o'r palmwydd a'r gwinwydd.

Eu. Y peth neſaf yw ympryd, mynegwch etto ychydig am eu treſn ynghylch hwn?

Ap. Mae tri pheth yn ofynedig i ympryd gyfreithlon; ſef, 1 fod un yn Fahometan; 2 mewn oedran; 3 yn ei ſynhwyrau; ond y rheolau ynghylch ympryd yw, 1 bwriad y meddwl, 2 ymneillduad oddi wrth fwydydd, 3 diodydd, 4 ymarferiad â gwragedd, 5 oddi wrth y bwriad o loeſi.

Eu. Ewch rhagoch at eu hymdaith i Mecca.*

Ap. Dyma un o'r pethau mwyaf ynfy dyn eu holl grefydd hwynt; ac mae yma gymmaint o

* Yr oedd pererindod i Mecca, yn hir cyn amſer Mahomet, pan oedd Paganiaeth yn blaguro yno; ac enw un o'r eulunod oeddent yn ei adooli oedd Al-uzza, hynny yw, Venus, ac mae'r Mahometaniaid heb law gorchymyn Mahomet yn dweud eu bod yn credu adeiladu'r lle hwn gan Adda; a'i fod wedi ei ail adeiladu gan Abraham, ac Iſmael ar ol ei fod wedi ei ddinyſtrio gan y diluw.

wag

wag ſeremoniau, y rhai fel yr addefant eu hunain, ſydd heb un yſtyr ynthynt, ond bod Mahomet wedi eu gorchymyn hwynt, ond pa ham y rhoddodd y twyllwr y fath draul, a choſt arian ar ei ganlynwyr, nid oes neb a wyr yn iawn, er gellid meddwl, mai un peth oedd, i gyfoethogi dinas Mecca, ei drigfan ef ei hun; ac felly ynnill calon y bobl hynny atto, eu clymmu i fod yn ganlynwyr mwy clos ac agos iddo. Ac hefyd fe allai, er mwyn ynnill troſodd yr eulun-addolwyr hynny i'w grefydd ef, trwy eu bodloni wrth gadw hen drefn ag oedd gan y Paganiaid hynny er's oeſoedd o'r blaen. Ond pa fodd bynnag, mae y lle hwn mor ſanctaidd y dydd heddyw, ag y mae pob Mahometan yn troi ei wyneb tu ag atto wrth addoli, pa ran bynnag o'r byd y b'ont yn trigo, ac i'r diben hyn mae ganthynt fath o dabl yn eu llyfrau, i ddangos o bob rhan o'r byd, pa ffordd y mae teml Mecca yn ſefyll: ac fe ddywed y Mahometaniaid y dydd heddyw eu bod hwy yn gwneuthur y pererindod hwn am orchymyn Mahomet; ac iddo yntef i'w orchymyn, i dreio ufudd-dod eu ffydd hwynt: a diau fod ganddo barch mawr i'r ddinas hon, am mai yno y ganwyd ef, ac mai yno y cafodd eu ddatguddiaethau, gwaſgarodd ei bapurau, ac y cyhoeddodd ei athrawiaeth gyntaf.

Eu. A oes dim rhoddion yn cael eu dwyn yno gan neb o'r bobl hyn? ac os ydynt i byw y maent yn cael eu rhoi?

Ap. Pobl fawrion ſydd arferol o ddwyn gyd â hwynt roddion ardderchog i harddu 'r deml, a chyfoethogi 'r ſwyddogion † ſydd yn perthyn iddi

† Y mae naw o raddau o Swyddogion Eglwyſig ymhlith y Mahometaniaid, un uwch y llall; ſef, yn 1. offeiriaid temlau breiniol, ſef, chapleniaid tywyſogion; ac

iddi o bob graddau; pawb hefyd ag ſydd yn myned yno, ſydd yn diſgwyl cyflawn faddeuant a rhydd-did oddi wrth eu pechodau, am yn unig eu bod wedi gweddio yn y lle ſanctaidd hwnnw. Ac fe edrychir ar y rhai ſydd wedi bod yno, yn ſanctaidd tros eu holl fywyd, ac yn rhagori ar y rhai ni fu yno erioed.

Eu. Adroddwch ragor ar drefn eu pererindod.

Ap. Rhaid i'ch wybod fod y rhai ſydd yn cymmeryd y fath ſiwrnau, yn myned yn dorfeydd

---

ac offeiriaid plwyfol, y rhai ſy yn cael eu cyflog oddiwrth arian a geſglir at waſanaeth crefyddol; rhai fwy, a rhai lai. Yn awl yw, Nat-chon darllenwyr y priodoliaethau yr hwn ſydd yn canu rhinweddau a chlod Mahomet a'i gyfeillion, a'r ddyddiau gwenerau, cyn gweddi ganol ddydd. Yn drydydd, Gjuz-chon, ſef darllenwyr y rhannau; hynny yw, yr Alcoran ſydd wedi ei rannu 31 o rannau, ac eſe ſydd yn darllen y rhannau hyn, naill ai yn y temlau ai yn lleoedd claddedigaeth y ſeintiau. Yn bedwerydd Turbadar, ceidwad lleoedd claddedigaeth; ac mae gan frenhinoedd a phendefigion geidwaid neillduol y rhai ſydd yn waſtad yn breſennol ddydd a nos a lampiau yn hongian oddiamgylch. Y pummed, yw ceidwaid y lampau, yr hwn ſydd yn ennyn y lampau, a'r canhwyllau yn y temlau ar bob nos ym mis Ramadan amrywiol lampau ſydd yn cael eu hongian ar y Tyrau oddi allan, y rhai o un twr i'r llall ſydd trwy eu diſgleirdeb yn dodi allan amryw luniau. Y chweched, yw y criwyr, y rhai ſydd yn gwaſanaethu mwy nag un Moſque, ac yn cyhoeddi allan amſerau, gweddiau, ar gylch yn yr wythnos. Y ſeithfed yw golygwyr y temlau, y rhai ſy yn cymmeryd gofal i wneud y deml yn lân, i oſod y mattiau, y clyſtogau, y carpettau, a chadw'r Alcoran yn lân. Yr wythfed, yw yſgubwyr y temlau, a'r Monumentau. A'r nawfed, yw yr hwn ſy yn tynnu dwfr o'r ffynnonau a'i dywallt i'r dwfr-leſtri, ymha un yr ymolch y rhai ſydd yn myned i'r teimlau ar amſer gweddi.

Iluoſog.

lluoſog gyd â eu gilydd; ac i'r perwyſ hyn, yn cyfarfod yn flynyddol mewn lleoedd apwyntiedig, ar amſer y b'o pawb yn gwybod; nes gwneud i ſynu gwympniaethau o lawer iawn o filoedd, ac wedi dyfod o bellder mawr iawn, fel y gallont wrth deithio mewn corph fel hyn, i fod yn fwy diogel rhag yr yſbeilwyr, y rhai ſydd yn aml iawn yn y gweledydd hynny.

Eu. Pa leoedd y maent yn cyfarfod?

Ap. Mae y rhai ſydd o Aſia ac Europe yn cwrddyd yn † Damaſcus; y rhai o Affrica yn Cairo; rhai eilwaith ſydd yn dyfod ynghyd yn Zebib; ond pobl Arabia, ac ynyſoedd yr India ſydd mewn lleoedd eraill; a rhai o Perſia, Caldea, a Tartary, ac Uſbec ſydd yn cyfarfod yn Bagdat § yn Caldea.

---

† Damaſcus ſydd brif ddinas tu deheu Syria, 90 Milltir oddi wrth Jeruſalem mewn gwaſtadedd hyfryd a ffrwythlon; mor ehang nad yw'r mynyddau ſydd yn ei hamgylchu ond prin yn weledig: nid yw'r dref ond dwy filldir o hŷd, ond y gerddi o ddautu iddi ſydd 30 o filltiroedd; ac nid oes braidd ardd heb ddwfr rhedegog yn cerdded trwyddi, ffynnonau, caſgadau, a dwfr weithiau eraill; ſe fyn y trigolion mai'r fan hyn yr oedd yr hen baradwys ac mai o lwch y maeſydd hyn y crewyd Adda.

§ Bagdat tref gref yn Twrci yw, yn ymyl Perſia, ar lan yr afon Tygris, o fewn ardal hen Galdea, o ba un y mae hi yn awr yn brif ddinas, yn lle Babilon fawr; hon a fu yn brif ddinas ymerodraeth y Saraſeniaid, nes i'r Twrciaid ei hennill hi yn y bedwarydd canfed ar ddeg, ac wedi hynny fe'i henillwyd hi yn ol ac ymlaen, amryw weithiau gan y Twrciaid, a'r Perſiaid, ond y Twrciaid wnaethant eu hunain yn feiſtri o honi yn y flwyddyn 1689, ac maent mewn perch'nogaeth o honi hyd heddyw.

Eu.

Eu. Ond a ydyw raid i bob Mahometan fyned un waith yn ei oes i Mecca?

Ap. Ydyw, canys gorchymyn Duw ydyw meddant, ond yr ammodau hyn a ofynir gan bod un elo yno; ſef ei fod yn ŵr rhydd, yn ei oedran, yn iach, a bod ganddo ddigon o ymborth at ei fynediad a'i ddychweliad; a hynny tros ben ei angenrheidiau gartref.

Eu. A raid i'r benywod fyned.

Ap. Angen ſydd iddynt hwythau hefyd fyned, ond ynghyfeillach eu gwyr, eu rhieni, neu eu perth'naſau agoſaf; a'u bod yn eu hoedran, ac nid ynghwmpeini un o'r Magi, addolwyr y tân, neu mewn cwmpeini un a ſ'o mewn cyfeillach ddrwg â hi.

Eu. A oes un amſer pennodol o'r flwyddyn wedi ei appwyntio at y pererindod hyn?

Ap. Oes, ſef o'r 10fed mis, hyd y 9fed dydd or 12fed mis, bydd holl gwmp'niaethau 'r pererindod yn cwrdd ar fryn Arafat, yn agos i Mecca, yr hyn alwant arno dydd yr Arafa, yr hwn yw nos gwyl fawr, neu baſg y Twrciaid.

Eu. Pa ddefod wnant pan ymgyfarfyddont yma?

Ap. Deallwch fod 5 o leoedd neillduol ar y bryn hwn, ac enw neillduol arnynt, fel y gallo pob cwmpni aros yn ei le ei hun; y rhai fo'n dyfod o Medina, mewn un man, a rhai o Ddamaſcus mewn man arall, fel y byddo'r holl aneirif luoedd wedi eu ſefydlu mewn 5 lle.

Eu. Ond pa ſeremoniau ſydd yn canlyn?

Ap. Dodi am danynt y wiſg elwid Imbram, hynny yw ſanctaidd, yr hon a wnair o wlan, ar ol dull gwenwiſg offeiriaid; yr hon ddodant am danynt y dydd o'r blaen, ſef nos wyl eu paſg, neu yn gynt; canys nid yw yn iawn iddynt ei gwiſgo hi ar ol y dydd hwnnw; ond y rhai ſydd

yn

yn ſefydlu eu hunain yn agoſach i Mecca, nâ'r pump man uchod ar fynydd Arafat, allant fyned i'r ddinas heb ddodi y wiſg hon, nes delont i le elwid Hill, yr hwn ſydd tu faes, ond yn agos at deml Mecca; ac y mae pobl y ddinas weithiau yn ei dodi am danynt yn unig yn y fynwent. Ond rhaid i bawb cyn ei dodi, dorri eu gwinedd, am yr aflendid ſydd danynt, a thorri eu barfau o war a than eu genau, eillio eu dirgelwch, eu pennau, a holl flew eu corph, yr hyn dybir yn orau; neu o'r hyn lleiaf eu pennau, a'u traed, a'u dwylo.

Eu. Beth wed'yn?

Ap. Yna gwiſgant ar hyn drachefn wiſg arall elwir Rida, yr hon ſydd wen fel y llall, i'w dodi am y gwddf fel cochl, ond deallwch pan y b'ont yn dihatryd i ddodi y gwiſgoedd hyn am danynt, hwy a beraroglont eu hunain â rhyw berlyſiau, gan dd'wedyd gweddi o ymgrymmiad, ac a orphwyſant ddeng waith; gan ddweud yma yr wyf yn ufudd i ti o Dduw yr wyf yma yn breſenol o'th flaen di, nid oes neb a gyſtedlir i ti; canys clod a haelioni ſydd yn eiddo ti, a'th deyrnas di ſydd heb un cyſtadlwr: nid oes lle iddo ddweud llai nâ hyn o eiriau, ond fe all ddweud rhagor os myn. Ac ar ol hyn mae'r pererin yn cael ei alw byth mwy Mwkrim, neu ſanctaidd; a rhaid iddo ymwadu ag ymwarweddiad ofer twyll, dichell, ymryſon, helwriaeth, na ſon am dano. Ac mae lliaws eilwaith o ſan bethau ag ſydd gyfreithlon iddo wneud, a mwy drachefn o bethau digrif diſylwedd yn anghyfreithlon na thal eu henwi.

Eu. Maent yn dyfod beſtach i Mecca ond ydynt?

Ap. Ydynt a phan y delont i mewn i'r ddinas rhaid iddynt fyned yn union i'r deml, a phan gyntaf

gyntaf y gwelont hi rhaid iddynt i'w chyfarch, gan ddywedyd mawr yw Duw ac nid oes un Duw ond un, a chyn y delo'r pererin at y maen du, oddi ar ba un y d'wedant i Abraham eſgyn i gefn ei gammel, mae ef yn derchafu ei ddwylo at ei griſtiau, gan ddywedyd yr un weddi ag o'r blaen; ac os gall heb fod yn rhwyſtr i'w gyd bererinion i gyſanu 'r maen hwnnw, neu gwrdd ag ef â'i law, neu rwbian ei wyneb ynddo, neu gwrdd ag ef â rhyw beth a f'o yn ei law, neu wneud arwydd ei fod yn foddlon i'w gyſanu ef, gan ganmawl Duw a thywallt gweddiau tros y prophwyd. Yna efe a â ynghylch y Deml i gyflawnu'r proceſſiwn hynny ag elwir proceſſiwn y ddyfodfa ddedwydd, yr hyn a ddechreu efe ar du aſſwy'r porth, gan gymeryd un cwr i'w fantell, a'i phlygu tan ei geſſel, a'r cwr arall a deifl ef ar ei yſgwydd, ac a â tu hwnt i fur iſſel a elwir Alhatim, ac a amgylcha hon 7 waith; y tair gwaith gyntaf gydâ brys, gan yſgwyd ei yſgwyddau, yn arwyddocau ei ymrafael a'r Criſtnogion * ond y pedwar tro arall y cerdd efe yn bwyllig, a phob tro yr el heibio garreg ddu, rhaid iddo i'w chyfarch, neu chyſanu fel o'r blaen, yna ar graig ag ſydd yn agos i'r porth, ar ba un y maent yn dangos ol troed Abraham wedi ei argraphu neu yn y Deml os bydd yn fwy cyfleus y gweddia ef ac y diwedda broceſſiwn cyntaf ei ddyfodiad.

Eu. A oes rhyw beth arno etto i wneud cyn ymado.

---

* Yr article mwyaf o ymrafaelio rhwng y Mahometaniaid a'r Criſt'nogion yw, am fod yr olaf yn dal tri pherſon yn y Duwdod, lle mai'r pwngc cryfaf a mwyaf gwreſog mae'r Mahometaniaid yn ei ddal yw nad oes un Duw ond un a Mahomet yw ei Brophwyd ef; hyn ſydd yn cael ei ail adrodd yn fynych yn eu gwaſanaeth eu henwaediad, ac wrth farw, ie ac ar ol marw dybygant.

Ap. Oes, canys rhaid iddo eilwaith gyſanu'r maen du a myned allan i Alſapha, mynydd yn agos i deml Mecca, a throi ei wyneb tua'r Deml gan dd'weud, Mawr yw Duw, ac nid oes un Duw ond un, a bendith a heddwch ſo ar ein prophwyd Mahomet; a myned oddi yno i fryn Almerwa, bryn y Flints, ac yno rhodio yn araf, ond rhwng dau gruglas fechan, rhedeg yn fuan, fel y b'o yn myned heibio iddynt, gan wneuthur yma fel y gwnaeth ar fryn Alſapha, ac yma y mae'r lle i redeg o ddautu, yr hyn ſydd raid ei gyflawnu y waith, gan ddechreu o fynydd Alſapha, a diweddu yn Almerwa: yna yr erys ef yn Mecca yn ſanctaidd; ac o dduwioldeb ſe all gyflawnu proceſſiwn o ddautu 'r deml mor fynych ag y mynno.

Bu. A ydyw ef yn rhydd yr awr hon?

Ap. Nag yw; canys mae 'r pererinion bellach i gael pregethu iddynt, gan un o'r offeiriaid ar ddydd apwyntiedig yr hwn pan b'o wedi darllen y weddi foreuol ddydd y Twrwi, neu yr yfed, (yr hwn yw 8fed ar ol dyfodfa'r pererinion, a elwir felly am ar y dydd hwnnw yr holl ddieithriaid fydd arferol o yfed o ffynnon Mecca, a diodi eu cammelod hefyd o'r un) yr ant allan i ddyffryn Mina, ac arofant yno hyd ddydd yr Arafa; ac yna yr ymadawant, ac yr ant i fynydd Arafat; ac ar ol machludiad haul, yr offeiriad a bregetha ddwy bregeth, ac a â gyda'r bobl oddiyno i fryn trugaredd, yr hwn ſydd agos i fryn Arafat, lle try efe ei wyneb tua'r deheu, ac y gweddia ef amryw weddiau, a rhai tros y prophwyd, am iddo gael pob peth ſy eiſiau arno, a'r bobl hwythau yn ſefyll o du cefn yr offeiriad, â'u hwynebau tua'r dehen, er mwyn ei glywed yn well; ond ar ol machludiad haul, hwy a ruthrant yn dorf gyd â'r offeiriad i Muzdeleſa, yr hwn ſydd

rhwng

rhwng mynydd Araſat a dyffryn Mina, lle Y gweddiant y prydnhawnol a'r noſweithiol weddiau, ac yr aroſant dorriad y dydd; ond wedi dydd y deuant ac y gweddiant yn nheml Mecca, yr un rhyw weddiau; ond cyn codi haul, pan ſ'ônt yn dechreu eu ſiwrnau i ddyffryn Mina, dechreuant daflu flints tuol i'w cefnau ‡ o ganol y dyffryn nes delont i rhifedi 7, ac wrth daflu pob carreg, dywedant weddi, ac ar ol hynny gallant ladd ebyrth, * ac ſe eillia'r pererin ei ben, ei ſarf, ac a â i Mecca, ac a gyflawna broceſſiwn o ymweliad, heb frys na rhedeg, os gwnaeth ef hyn yn ei broceſſiwn cyntaf: ar ol hyn ſe all y gwŷr adnabod eu gwragedd, ond nid cyn hyn.

Eu. Dyma 'r pererindod wedi darfod oni te?

Ap. Nagê, mae amryw o ſeremoniau neillduol yn cael eu dodi ar y ſawl a eſgeuluſo ei amſer, ac mae rhai yn gwneud eu pererindod yn ofer wrth ddim ond eſgeuluſtra; ond yr hwn ſydd yn ei

---

‡ Maent yn taflu'r cerrig hyn tu ol i'w cefnau, i yrru ymaith yr yſpryd drwg ſel y maent yn tybied, rhag iddo eu temtio hwynt i anufuddbau gorchymyn Duw, fel y ceiſiodd wneud i Abraham pan oedd yn aberthu ei fab.

* Yr aberthau hyn y rhai eilw'r Arabiaid Corban arnynt, ydynt ddefaid, ac anifeiliaid eraill ag maent arferol o ladd yn yr wyl hon, yr hon alwant hwy arni Beiram, ac y maent yn rhannu'r cig rhwng eu cyfellion, ac yn eowedig rhwng y tlodion; ond nid oes ganthynt y ſath beth a'i lofgi ar yr allor ſel yr Iuddewon gynt: ac y mae tair gwyl fawr gan y Mahometaniaid ac yn cael eu cadw gyd â phob pheth perthynaſol i wleddoedd ond gwin; maent yn awyddus i weled y lleuad newydd, ar ba un y mae rhai o'u gwyliau yn dechreu, a danfonant 'ſpiwyr i'r mynydd uchaf, i weled ymddangoſiad cynta'r lleuad, y rhai pan gyntaf y gwelont hi, a redant i'r ddinas ac a gyhoeddant Muzhdaluck, cenhadwri hyfryd gan bawb ag fydd am dechreu'r wyl.

gadw yn y cwbl ſydd yn myned adref â haeddiant ei bererindod gyd ag ef: ond os bydd un yn glaf, ſe all ddodi arall i wneud y cwbl yn ei le, ac etto bod yn gymmeradwy, yn unig dodi 'r wiſg Imbram am dano: ond ni flinaf ormod arnoch i fynegu am amryw ſeremoniau eraill, megis cyſanu trothwy'r deml, a'r pererin oſod ei ddwy fron, a'i fol, a'i rudd ddeheu uwchlaw Muttazim, ſef lle rhwng y garreg ddu a'r porth a ymaflyd yn araf yn y llen fraith ag y mae'r ymerawdwr yn ei hanfon bob blwyddyn yn orchudd i deml Mecca. † A gweddio yn daer yno, ac wylo, a'r fath bethau na's dyellir yn iawn o honynt mewn geiriau.

Eu. Ond a ydyw y benywod yn rhwym i fyned trwy'r fath ſeremoniau a hyn?

Ap. Ydynt trwy lawer ond nid trwyddynt oll; megis gallant orchuddio eu pennau, ond nid eu hwynebau, ac nid rhaid i wraig redeg rhwng y

---

† Mae ymerawdwr y Twrciaid yr un o'r rhai mwyaf ei awdurdod trwy yr holl fyd, ac ſel fad ei ffydd Fahometanaidd, ac i genfogi'r pererindod i Mecca mae ef yn anfon yno len fraith bob blwyddyn, yr hon ſydd yn cael ei chyſegru at waſanaeth y deml. A'r ymerawdwr mawr hwn a gyfenwir, *Debuty Duw ar y ddaear. — Arglwydd Arglwyddi'r byd hwn. — Meddianwr gyddfau Dynion. — Brenhin credinwyr ac anghredinwyr. — Brenhin brenhinoedd y byd. — Ymerawdwr y Dwyrain a'r Gorllewin. — Brenhin ac Arglwydd o'r cydſeiniad mwyaf dedwydd. — Cæſar ardderchog. — Sel Buddugoliaeth. — Noddfa yr holl bobl yn yr holl fyd. — Cyſgod Duw yn cyfranu tangnefedd ar y ddaear. — Brenhin Groeg ac Aſia leiaf, ac Arabia a Pherſia, a Twrci a Thartary, ac Arabia Ffelix a Phetrea, yr Aipht a Syria, Caramania a Churdiſtan, Circaſia yr Abaſitiaid, a'r Georgiaid — Arglwydd y Mor du a gwyn ar Cefnfor. — Tywyſog Hungary, Walachia, Moldavia, Affrica, Algiers, a Barbary, hefyd Etifedd mil a mil o ardaloedd a gwledydd*, &c.

ddau

ddau gruglas ar fynydd Arafat; nac eillio ei phen, ond rhaid iddi dorri ei gwinedd, ac nid oes le iddi agoſhau at y garreg ddu, pan y bo'r gwyr yn agos, a rhai pethau eraill y rhyddheir hwynt oddi wrthynt.

Eu. Onid yw'r Mahometaniaid yn enwaedu ar eu plant?

Ap. Ydynt, ond nid yw yn cael ei gyfrif mor angenrheidiol yn eu plith, fel na's gall ar rai achoſion y dienwaededig fod yn broffeſwr o'r ffydd Fahometanaidd, canys amryw, naill ag o eiſiau cyfleuſdra, neu ddyfod yn hen i'r grefydd honno, ac arnynt ofn poen a'r niwaid allai enwaediad wneuthur, ni's dioddefant.

Eu. Ymha oedran y maent yn enwaedu arnynt?

Ap. Gellir enwaedu ymhob oedran, babandod ieuengctid, canol oed, a henaint, ond cyfrifir yn well pan enwaedir yn llawn oed; er mai'r arfer fwyaf cyffredin yw enwaedu arnynt yn eu hieuenctid; yn 13, 14, 15, neu 16 oed, ymha amſer maent yn addas i wneud proffes o'r ffydd Fahometanaidd, ac rai prydiau yn y 7fed a'r 8fed flwyddyn o'u hoedran, os gallant wneud proffes o'r ffydd; ſef d'weud, *Nid oes un Duw ond un, a Mahomet yw ei brophwyd ef.*

Eu. Y mae yn rhy faith i roi hanes o holl drefn eu henwaediad.

Ap. Ydyw, ond mae gan y cyſoethogion ragor o wleddoedd, o fwſic, o gwmpeini ac ſe allai o ſeremoniau, nag ſydd gan y tlodion yn hyn, megis y mae ymhob lle arall, ac nid gwahaniaeth mawr ſydd rhwng eu henwaediad hwynt a'r luddewon, nid oes ganthynt un ffurff o weddi ond bod y meddyg yn d'weud, *yn Enw Duw*, wrth dechreu; mae ganthynt ſwn drwm, ac offer eraill i rwyſtro clywed llais alaethus y plentyn, ac y maent yn ei wylied y nos gyntaf,

yn ei gyſuro, ac yn ei rwyſtro i gyſgu, ac at hynny yn cadw amryw fath o chwaryddiaethau a digrifwch; ac yn y borau y gwahoddedigion ſydd yn ymadael, ac ſe gedwir yn y gwely 15 diwrnod, a phan bo 'r clwyf wedi gwella, dygir ef i'r bath i'w olchi.

Eu. Rhoddwch air am waſanaeth eu temlau.

Ap. Rhy faith adrodd dull eu haddoliad cyhoedd, ac ſe ſoniwyd rhyw faint eiſoes hefyd am hyn, pan dywedpwyd am yr amryw weithiau o'r dydd yr oeddent yn gweddio, a'r golchiadau o 'r blaen, a'r dwfr i'r pwrpas ſydd wedi ei roddi mewn dwfr-leſtri mawrion ymhob un o'r temlau yn barod, cyn yr addoliad, ond yn fyrr, mae ganthynt fel y dywedais 5 gwaſanaeth eglwyſig yn y dydd; y cyntaf, cyn codi haul; yr ail, hanner dydd; y trydydd, brydnhawn cynnar; y llall, wedi goſtwng haul; a'r olaf, am hanner awr o nos, fel y mae 'r foreuol weddi awr a hanner cyn dydd; heb law gweddiau yn rhagor ſydd i'w harferyd ym mis Ramaſan, un am 4 y borau, ac un am hanner nos; ond rhaid y golchiadau canlynol yn gyntaf, ſef, golchi yr wyneb, a'r dwylaw i fynu hyd y breichiau, y traed i fynu hyd y migwrnau, a'r coeſau; golchi'r genau a'r trwyn, a ſnwffo dwfr i fynu iddo, ſychu 'r pen, ſychu 'r gwddf, trwy ei rwbian â dwylaw gwlybion, ac y mae ganthynt enwau neillduol ar bob un o'r arferion hyn, a gweddi ferr gyd â phob un o honynt, ac y mae ganthynt y fath gyflymdra anghynefin yn y gwneuthuriad o honynt, na's gellir yn iawn ei adrodd ac na's gall y rhai gyfrifir yn halogedig ddyfod i 'r addoliad cyhoedd heb gyflawni 'r Gaſl, ſef golchi yr holl gorph. Yna eu gweddiau ſydd o ddau fath y rhai orchymynir wrth y llyfr Sunnah, a rhai orchymyn yr Alcoran; a rhwng y gweddiau hyn y maent yn cyflawni yr

hyn

hyn alwant arno Ikamât, ſefyllfau; Rekaat crymmiad y pen a chanol y corph; Segidat ymgrymmiadau; Rundat, eiſteddiadau, y rhai ſy yn cael eu harferyd fynychaf ar ol dau ymgrymmiad. Maent hefyd yn cymmyſg blith dra phlth â'r gweddiau hyn, ddarlleniad o ryw rannau o'r Alcoran; a pheth alwant arno Teſkahhud, ſef, rhoi tyſtiolaeth; dywedyd, *Nid oes un Duw ond un, a Mahomet yw ei brophwyd ef*; ond y Perſiaid ſy yn 'chwanegu, *Ali yw ffrynd Duw*; maent yn dweud hefyd rhwng y gweddiau hyn, yr hyn alwant arno *Teſtimat*, ſef, cyfarchiadau i'w hangylion amddiffynol, y rhai ſydd yn eiſtedd meddant ar eu hyſgwyddau wrth weddio, hwythau drônt eu hwynebau tu ag at eu hyſgwyddau wrth gyfarch iddynt.

Eu. Digon bellach, ac yr wyf yn rhyfedda cynnifer ſydd ganthynt o addoliadau cyhoeddus, maent er cywilydd i amryw Griſt'nogion yn hyn?

Ap. Llawer mwy pe gwybyddech eu manolrwydd hwynt o fod yn breſenol yn eu temlau yn yr amſerau hyn; canys cadw amſer gweddiau ſydd yn cael ei ganmawl yn fawr ymhlith y Mahometaniaid, a pha gyfoethoccaf y byddo un, cyntaf i gyd y cyhoeddir ef yn Bagan, yn anghredadyn, neu yn annuwiol, os bydd ef i eſgeuluſo gweddi unwaith neu ddwy; ac y mae'r bobl o iſſel radd yn cael eu taflu allan o'u plwyfau gan eu hoffeiriaid, os nad ant i weddi gyhoedd i'r temlau; canys dywedant fod gweddi yn biler crefydd, a phwy bynnag ſydd yn caſau gweddi, ſydd yn deſtrywio crefydd. Fe cyfrif Twrc ef yn wradwydd pennaf ag alloch i ddodi arno, os geilw neb ef yn ddyn diweddi; ac mae gan yr offeiriaid Mahometanaidd ryw ſen gellweirus yn erbyn y rhai nad yw yn gweddio yn feunyddiol, trwy ba un y maent yn eu goſod hwynt allan i'r byd yn ddiyſtyrllyd, ac yn ddigrif. —— Yn awr

ſy

fy mrawd Euſebius, mi adroddais i chwi hanes y Ffydd Fahometanaidd o'r haneſion mwyaf cywir; ac ſwyaf i gyd o enau gwŷr o Europ, ag ſu flynyddau meithion ymlith y Twrciaid; ac yn gorfod proffeſu'r ffydd honno eu hunain o ran eu ſwydd yngwaſanaeth yr ymerawdwr; ac nid all y grefydd hon i gael eu goſod allan gan neb mor gywir a Mahometan eu hun; canys ni ddioddefir i Griſtion weled eu ſeremoniau hwynt, heb fod mewn mawr berygl o'i fywyd; o ran pe b'ai Criſtion yn breſenol yn eu haddoliad, ac yn enwedig yn eu pererindod i Mecca, hwy gyfrifent fod pob peth wedi ei halogi trwy hynny, a diau y goſodant y dyn hwnnw i farwolaeth, rhag iddo oſod allan yr hyn a welai: f'alle cai marſiandwr fyned a dyfod i'r ddinas honno, ond nid mewn cyfeillach a'r pererinion.

Eu. Mae yn druenus meddwl am eu holl ynfydrwydd; a'r fath dorfeydd o ofer wag ddiſylwedd, ac ynfyd ſeremoniau ſydd ganthynt!

Ap. A rhai'n oll ydynt ddigrif a phur goel-grefyddol; yn enwedig eu pererindod i Mecca; oll wedi eu dyfeiſio gan dwyllwyr cyfrwys i ddenu, a dallu meddyliau yr Arabiaid gwylltion: pa mor wag yw myned mor fynych o ddau tu mur y deml, gan yſgwyd eu hyſgwyddau, pa mor reſynnus yw dallineb y trueniaid hyn, y rhai ſydd yn dodi eu cyfeillion pan f'ont ar fin marwolaeth mewn cof i dorri eu gwinedd, a pheri iddynt gredu y bydd y meirw i gael eu holi a'u treio gan ddau angel yn y bedd, ac yno gael eu ceryddu â fflangellau trymion, o ynfydrwydd! fel y maent yn cynghori y dyn marw yn haerllug i wadu'r drindod, ac i addef yn gryf y ffydd Fahometanaidd yn y byd arall, a'r un ffyddlondeb ag y gwnaeth yn hwn, a'i gynghori i fod yn ofalus yno o'i broffes, i gofleidio Duw yn Arglwydd, a Mahomet yn brophwyd, a'r Alcoran

yn

yn llyfr iddo; gan dybied y gall y marw wrthgilio, a gwadu'r ffydd; ond hyn maent yn ei wneuthur, gan gredu bod yr enaid yn agos at y corph, neu yn crogi uwch ei ben ef tros dri, neu bedwar diwrnod; hyd oni's b'o y trial hynny wedi darfod ac am hynny y cadwant ymaith bob rhyw drwg aroglau, a lleisiau ſarrug, rhag ofn f'allai i'r pethau hyn derfyſgu a gyrru ymaith yn rhy fuan, neu ddychrynu 'r enaid ſy'n ehedeg o ddautu iddo.

Eu. Mae'r pethau ydych yn adrodd yn aethus i'w clywed!

Ap. Ydynt, a phe baech ond clywed y cwbl, o'u ſeremoniau wrth ymweled â'r claf, ac yng ngladdedigaeth y marw, chwi gaech eich cadarnhau yn rhagor o'u tywyllwch anghydmarol: ond rhy faith adrodd yr hanner, fel y mae'r offeiriad, a'r dyn ar fin marw, yn peri iddo eillio ei ben, y pyllau tan fon ei freichiau, a'i ddirgelwch; gan weddio gyd âg ef yn erbyn loes angau, a darllen Surat, ſef, pennod o'r Alcoran; a ſiſial ynghluſtiau'r claf, nad oes un Duw ond un, a Mahomet yn brophwyd iddo: ac ail adrodd y Surat 40, neu 100, o weithiau, hyd oni ddarfyddo'r clâf am dano; ac nid llai o ynfydrwydd ſydd wrth ei ddodi ef yn y bedd; pan y maent yn gweddio, amryw ar ol eu gilydd, am gadarnhau'r marw mewn byd arall a geiriau cadarn, fel y cadarnhawyd ef yma a geiriau cadarn, i gyffeſſu 'r Ffydd Fahometanaidd, ac iddo fod yn agos at Fahomet ei brophwyd; ac na byddo i'r byw gael eu twyllo ar ei ol ef, na bod heb eu haeddiant: pan y maent hefyd yngalw ar y marw, gan ddywedyd, y cyfryw un, mab y cyfryw un, dair gwaith, ac ar ol tybied ei fod yn clywed, dywedyd bydd gofus o'th gyfammod, a pha un yr est allan o'r byd, gan ddwyn tyſtiolaeth, *Nad oes un Duw ond un, a Ma-*

Mahomet yw ei brophwyd; a bod paradwys yn wir, a bod yn wir bod tân, a bod adgyfodiad yn wir, ac y daw'r awr o ba un nid oes ammau; ag y cyfyd Duw bob un fydd yn y beddau, a dy fod di dy hun yn cofleidio Duw ei hun yn Arglwydd; a Mahometaniaeth yn ffydd; a Mahomet yn brophwyd; a'r Alcoran yn archoffeiriad, ar Caaba yn Gibla; a'r ffyddloniaid yn frodyr. Y fath eiriau a'r fath weddiau a rhai'n fydd ganthynt uwch ben y marw, fy'n dangos eithaf tywyllwch y ffydd gyfeiliornus honno.

RHAN III.

PEN. I.

Eu. CHWI roifoch im' gyflawn foddlondeb am y ddwy grefydd yma, ac fe debygid y gallai y fath hanefion i weithio trueni, a fyndod fod anwybodaeth, a thywyllwch wedi goreigyn y byd mor bell; ond etto nid yw fy mlys un gronyn llai, ond yn hytrach yn fwy, fel yr wyf yn eich gwrando ac am glywed rhagor; a'r peth neffaf yw crefydd yr hen bobl Iuddewig, cenedl gynt fu yn anwyl gan Dduw; i'r hon yr ymddiriedodd ef ei ymadroddion, eiddo pa rai oedd yr addewidion, y cyfammod, a'r gyfraith; ond yn awr, ydynt genedl wafgaredig, ac wrthodedig gan Dduw, a dynion; heb fan o'r byd, na theyrnas allant ei alw ar eu henw eu hunain. Da fyddai gennyf wybod, pa fath yw eu crefydd y dydd heddyw? Pa fodd y darfu iddynt i ymado â Duw mor bell? Pa le o'r byd y maent yn trigo? Pa arwyddion o ddigofaint Duw fydd arnynt? A pha addewidion o'u dychweliad? Ac O na allech ddych'mygu i mi, pa fath ddyddiau hyfryd y fydd hi, pan y dychwelont yn eu hol.

Ap.

Ap. Pobl a ſuont ſwyaf eu rhagorfreintiau o neb tan haul; cenedl a godwyd i ſynu o un, a hwnnw cyſtal a marw; a waredwyd o dir yr Aipht, a agorwyd y môr o'u blaen, ac y daroſt-yngwyd deuddeg Brenhin ar hugain tan eu traed yn nhir Canaan, ac a wnaethpwyd yn harddwch yn yr holl wledydd ‖ oddiamgylch; end yn awr ydynt

‖ Nid yn unig gogoniant gwlad Canaan ond hefyd gogoniant yr holl ddaear oedd Jeruſalem; wedi ſylfaenu ar fynydd o graig, heb le i eſgyn iddi o un tu ond trwy eſgynſa ſerth ac anodd, ond o du gogledd yn unig; wedi ei hamgylchu bob ochr arall â mynyddau fel muriau cedyrn. Yr oedd hi yn cynnwys yn yr amſer mwyaf godidog bedair dinas; ac wedi eu neillduo ag amryw furriau, fel cynnifer dinas neillduol: y ddinas uchaf, y ddinas iſaf, y ddinas newydd, a dinas Herod: ac oll o honynt (ond y ddinas iſaf yn ſefyll ar eu bryniau neillduol a rhai'n wedi eu harddu â phalaſau, ac adeiladau teg, tyrrau, ceſtyll, ac amddiffynfeydd annorchfygol; rhai yn 30, rhai yn 40, rhai yn 45 llathen o uwchder; yma 'roedd twr Dafydd, yr hwn ydoedd Balas dau ddyblyg ei gyd o farbl, a'i leinio oll o mewn ag aur pur, yma yr oedd aneirif o adeiladau gogoneddus yn llanw y tair tref nes ydoedd yn 7 milltir o gwmpas, a rhodfeydd ardderchog, gelltydd hyfryd, gerddi teg, llynoedd angydmarol, a phob dyfais gwaith cywraint dwylaw dynion yn ei llanw hi o'r pen bwy gilydd; ond yr hyn a'i gwnaeth hi i ragori ar yr holl fyd, oedd teml yr Arglwydd yn ei chanol; adeilad na fu, ac na fydd o'i chyffelyb tan' haul; nid llai nâ deg mil ar hugain o wyr, deng mil bob mis, oedd yn Libanus yn gludwyr coed, deng mil a thrugain yn dwyn beichiau, a phedwar ugain mil yn naddu cerrig yn y mynydd, tair mil a thri chant yn llywodraethu'r bobl a weithient, oedd gan Salomon yn dechreu'r gwaith anghydmarol hwn: a'r deml hon er ei holl ogoniant a'i gwerthfawrogrwydd, er yr holl aur ag oedd yn ei leinio hi o ben bwy gilydd, y byrddau, y canwyll brennau aur, a'r myrdd o leſtri aur pur

ydynt ddirmediccaf o bawb tan yr holl nef; a hyn yn unig, nid cymmaint am eu pechod arall yn

---

pur oedd ynddi, a ddinyſtriwyd gan Frenhin Babylon: ond adeiliadwyd gan Zorobabel ar ol eu dychweliad o Fabylon; ond nid cyffelyb i'r deml gyntaf, fel gorfu ar Haggai dorri allan Hag 2. 3. Pwy yn eich plith a welodd y tŷ hwn yn ei ogoniant cyntaf; a pha fodd y gwelwch chwi ef yr awr hon; onid yw wrth hwnnw yn eich golwg fel peth heb ddim. Ond y deml hon eilwaith am ei bod naill ai yn adfeilio, neu yn rhy dlawd yr olwg, neu yn hytrach am fod Herod am ennill enw mawr gan yr Iuddewon, a dynnodd ef i lawr, ac adeiladodd un arall lawer iawn mwy ardderchog yn ei lle hi; nad oedd ddim llawer llai gogoneddus, os ydoedd ddim nâ'r un gyntaf oll; ac i hon daeth ein Iachawdwr Criſt. Ond ymhen 85 flynyddau ar ol ei hadeiladu gan Herod, y dinyſtriwyd hi gan Titus, mab Feſpaſian, yn y 69 o oed ein Harglwydd Criſt; a hon a ſafodd yn garnedd nes daeth yr ymerawdwr Julian yr hwn oedd a'i fryd i chwanegu rhifedi yr Iuddewon, a lleihau rhifedi aneiniſ y Criſt'nogion, a ddechreuodd adeiladu'r deml, ond mor gynted ag y goſodwyd y ſylfaen, daeth daear-gryn ofnadwy ac a'i taflodd i fynu; a thân a ddaeth o'r nef, ac a loſgodd holl Dwls y gweithwyr, ynghyd â'r coed a'r holl ddefnyddiau a barotoiſid atti. Ac am y ddinas, fe'i hadeiladwyd hi gan yr ymerawdwr Elius Adrianus, yr hwn a'i cyſenwodd hi Elia, yr hwn a yrrodd ymaith yr Iuddewon, ac a'i rhoddodd hi i'r Criſt'nogion ond nid adeiladwyd y ddinas hon yn gwbl yn yr un lle ag o'r blaen; canys yn hon mae mynydd Calfaria, nad oedd yn yr un o'r blaen; ac fe adewid o'r tu arall fynydd Sion, rhan o ddinas Herod, a'r ddinas newydd allan o hon; ac nid yw y ddinas hon hynod am ddim heddyw ond teml y bedd, yr hon adeiladwyd gan Helena mam Conſtantine fawr. Gwaith mawr meddant gafodd y Bendefiges ddymunol i gael y bedd; canys Paganiaid a'r Iuddewon a godaſant grug aruthr arni, ac a adeiladaſant deml i Fenus; hon a dynnwyd i lawr, a'r bedd a gafwyd,

a theml

a gwrthod Arglwydd y gogoniant i deyrnaſu arnynt; peidio a chredu yn unig anedig Fab Duw. *Eu.*

---

a theml adeiladwyd yma; a hon a barchwyd yn fawr gan yr holl Griſt'nogion o'r parthau hynny, a llawer ſy yn myned yno o bob rhan o'r byd criſt'nogol hyd heddyw; nid yn unig pererinion eglwys Rufain, y rhai ſydd yn tybied bydd y fath bererindod i haeddu rhyw beth, ond hefyd amryw bendefigion o'r eglwys Broteſtanaidd, y rhai ſy'n myned yno, naill ai o giwrioſity, neu gariad i weled hen leoedd ardderchog; pwy benna gaffo weled y Bedd hyn ſydd raid iddo dalu 9 coron i emerawdwr y Twrciaid; ac nid yw ei ennill ef oddi yma ar yr achos hyn dim llai na phedwar ugain mil o goronau yn y flwyddyn. Fe ſu yma amryw Griſt'nogion tlodion, o'r holl amrywiol ſectau yn y Dwyrain yn byw, Mwriaid hefyd, Arabiaid, a rhai Twrciaid o ran yr elw maent yn eu wneuthur o'r Criſt'nogion ſydd foddlon i aros yma. D'wedir fod o fewn i'r deml hon, 12, neu 13, o leoedd wedi eu cyſſegru i anrhydedd mwy na chyffredin, am y tebygir fod rhyw weithrediadau neilldnol wedi eu gwneuthur ynthynt, yngylch marwloaeth ac adgyfodiad ein Harglwydd. Megis, yn 1. lle gwawdiwyd ef gan y milwyr: 2. lle rhannaſant hwy eu ddillad ef: 3. y lle y caewyd ef i fynu tra fuont yn cloddio pwll i ddodi i lawr droed y groes, a pharotoi pob peth at ei groeshoeliad ef; 4. lle yr hoeliwyd ef wrth y groes: 5. lle codwyd y groes: 6. lle ſafodd y milwr a'i trywanodd ef yn ei yſtlys: 7. lle enneiniwyd ei gorph erbyn ei gladdedigaeth: 8. lle dodwyd ei gorph ef yn y bedd: 9. lle yr ymddangoſodd yr angylion i'r gwragedd ar ol ei adgyfodiad: 10. lle yr ymddangoſodd yr Ieſu i Fair Magdalen, *&c. &c.* Pob lle o ba rai ſy wedi eu haddurno a chynnifer rhyw o allorau wedi eu hadeiladu yn gapeli bychain o ddau tu'r eglwys fawr hon. Yn y galeriau gylch yr eglwys, ac mewn rhyw adeiladau bychain tu faes iddi y rhai etto ſydd un a hi, mae ſtafelloedd i dderbyn y monachod a'r pererinion; ac yn rhai o rhai'n yn mron pob cenedl griſt'nogol gynt a gynhalient gymdeithas ſechan o fonachod; megis y Rhufeiniaid,

Eu. Onid oeddent wedi adfeilio yn eu crefydd er amſer yr ail deml? Canys nid oes ſon am un prophwyd yn eu myſg ar ol Malaci, ac yntef ſydd yn eu hargyhoeddi am anffyddlondeb, ac oerfelgarwch mawr.

Ap. Mae yn wir na fu prophwyd wedi Malachi; ac i yſbryd o brophwydoliaeth i gael ei gau i fynu yn ei brophwydoliaeth ef; ac fe ddywaid y rhan fwyaf o wyr dyſgedig, fod pedwar peth arall wedi eu colli yr amſer y buont yn Babilon; ſef, arch y cyfammod, a'r drugareddfa oedd arni; a'r Cerubiaid aur, a'r llechau cerrig, ar ba rai oedd y gyfraith wedi ei ſcrifenu; yr hon oedd yn yr arch pan y dygpwyd hi gyntaf i deml Solomon: ac eilwaith, y Shekinah neu'r preſenoldeb dwyfol, mewn cwmmwl o ogoniant ar y drugareddfa; yr urim a'r thummim hefyd, o ba le yr oedd yr attebiad dwyfol o'i holl ymofyniadau hwynt yn dyfod: y tân ſanctaidd ar yr allor oedd hefyd yn eiſiau, yr hwn a ddaeth o'r nef; ac yn olaf yſbryd o brophwydoliaeth ſoniaſoch am dano; yr hwn, er fod Haggai, Zachariah, a Malaci yn fyw yn amſer adeilad yr ail deml, ac yn prophwydo ar ol ei hadeiladu, etto ar eu marwolaeth hwy, yr yſbryd hwn a orphennodd; ond etto nid oerodd yr Iuddewon y pryd hyn, nag amſer maith wed'yn, ond cerddodd y diwygiad ymlaen yn llaw Joſua, Zorobabel, Ezra, Nehemiah, a Malaci mor bell, ag y cadwyd yr Iuddewon amſer hir mewn trefn go ddiogel, a chymmwys.

Eu. Pa ddiwygiad a wnaeth Ezra, a Nehemiah wrth, neu wedi adeiladu yr ail deml?

Groegiaid, y Syriaid, Armeniaid, Georgiaid, Neſtoriaid, Coptiaid, *&c.* ond y rhai'n oll, ond pedwar, a adawſant eu llocheſau, gan eu bod yn anabl i ddioddef y fath renti digydwyddod ag oedd y Twrciaid yn weled fod yn dda i waſgu oddi arnynt.

Ap.

Ap. Yr ydys yn tybied mai hwy ddarfu gosod i adeiladu ſynagogau ymhob dinas, ac yſgrifenu amryw goppiau o'r gyfraith, i'w darllain ymhob un o rhai'n.

Eu. Pa beth oedd y gwahaniaeth rhwng y ſynagogau hyn a'r deml?

Ap. Llawer, canys nid oedd y rhai'n ond cynniſer capel, neu eglwyſi plwyfol, ymha rai y gellaſid darllen y gyfraith, gweddio, canu, mawl, cateceiſio, pregethu, ac eſponio'r ddeddf; ond y deml oedd y fam Eglwys, ymha un yn unig yr ydoedd aberthu, ac ymha un yr oedd yr archoffeiriad i waſanaethu, ac ymha un yr oeddid i gadw y dair gwyl arbennig, i ba rai yr oedd yr holl wyrwod i ddyfod dair gwaith yn y flwyddyn.

Eu. A ellaſid adeiladu y rhai'n yn y man y mynnid?

Ap. Yr Iuddewon a ddywed y gellid eu hadeiladu mewn un dref y buaſai 10 dyn o lawn oedran, ac o'r fath amgylchiadau eſmwyth o fywyd ag y gallent fod yn breſenol yn y gwaſanaeth.

Eu. Yn y Iaith Hebreaeg yr wyf yn meddwl yr oedd eu gwaſanaeth, a'u hagoriadau ar yr yſgrythurau?

Ap. Nage, canys pobl a anwyd, neu a feithrinwyd o'u ieuengctid oeddynt yn Babilon; ac yn fwy cyfarwydd o iaith y Caldeaid na hen iaith y wlad; ac am hynny rhaid oedd agor yr yſgrythurau iddynt yn y iaith ag a ddeallent orau, yr hon oedd y Caldeaeg. Neh. 8. 4. 8. a'r ffordd hyn o ddarllen yr yſgrythur, gwers a gwers yn Hebreaeg, a'u cyfieithu i'r Caldeaeg, a rhoi rhyw agoriad bur arnynt, oedd dull o eſponiad yn yr hen ſynagogau; ac oddi yma y daeth dechreuad y targymmau Iuddewig, rhai o ba rai ſydd o fawr barch gan yr Iuddewon hyd y dydd hwn.

Eu. Agorwch i mi hyn, canys ni 's gwn beth yr ydych yn feddwl wrth dargymmau?

Ap. Pan darfu i'r ſynagogau amlhau, a mwy o riiedi o honynt nag o Eſponwyr abl, ſe ddaeth yn angenrheidiol i oſod cyfieithiad o'r Hebreaeg i'r Caldeaeg, cyſtal er mwyn y dyſgawdwyr a'r bobl yn gyffredin; cyſtal er mwyn teuluoedd neillduol, a'r ſynagogau, ac am hynny y pryd hyn cyfanſoddwyd amryw o'r agoriadau hyn, (gyſenwir gan yr Iuddewon Targum) ar amryw rannau o'r Yſgrythur lan; fel y cyfanſoddwyd amryw gyfieithiadau o'r Yſgrythur i'r iaith Groeg mewn amſer canlynol i'r un diben.

Eu. A ydyw yr agoriadau hyn i'w cael yn awr?

Ap. Nag oes fawr iawn; canys aethant i'w colli trwy faithder yr amſer, ond y rhai pennaf ag ſydd yn aros hyd heddyw yw, Targum *Onkelos* ar gyfraith Moſes, a *Thargum Jonathan Ben Uzzel* ar y prophwydi, y rhai a dybir i'w ſcrifennu o flaen dyddiau ein Harglwydd Crift; ac edrychir arnynt gan yr Iuddewon fel llythyren y bibl Hebreaeg ei hun: ond heb law hyn, mae Targum Jeruſalem ar gyfraith Moſes, ac eraill ar amryw fannau neillduol o'r Yſgrythur; ond oll o lai parch ac o gyfanſoddiad mwy diweddar.

Eu. Pa amſerau oedd wedi eu rhoi heibio at waſanaeth y ſynagog?

Ap. Dau ddiwrnod yn yr wythnos, heb law y Sabbath, a'r dyddiau gwyliau eraill; ac at hyn, llyfrau Moſes oedd wedi ei rhannu yn gynnifer rhan ag ſydd a wythnoſau yn y flwyddyn, a hanner un o rhannau hyn fyddai'n cael ei darllen bob dydd Llun yn y ſynagog, a'r hanner arall bob dydd Iau, ond yr un rhan hyn ei gyd drachefn bob dydd Sabbath; a phan 'chwanegwyd darllen y prophwydi at y gyfraith, cadwyd yr un drefn, Act. 15. 21. ond rhaid dal ſylw, mae'r oriau yr oeddent yn gweddio yn y deml, yn y ſyna-

ſynagogau, ac yn eu teuluoedd gartref oedd y pryd ag y byddent yn aberthu y prydnhawnol, a'r foreuol aberth; ac yn arogl-darthu, Luc i. 9. 10. Dat. viii. 4. 5. ac yr oeddent hefyd yn arfer gweddio ddechreu'r nos, y pryd y byddai'r prydnhawnol aberth yn diweddu ar yr allor; felly yr oeddent yn gweddio dair gwaith yn y dydd, Dan. 6. 10. Sal. 57. 17.

Eu. Os oedd neb yn gwaſ'naethu'r ſynagogau ond rhai o lwyth Lefi, ac offeiriaid o lwyth Aaron, fel yn y deml, pa fodd mae ein Iachawdwr yr hwn oedd o lwyth Juda, a Phaul ag oedd o lwyth Benjamin yn cael cennad i lefaru ynddynt?

Ap. Am y ſynagogau gallaſai rai o'r llwythau fynnid i'w gwaſanaethu, ag ſyddai wedi eu happwyntio gan henuriaid y dref honno, y rhai elwid wed'yn pennaethiaid y ſynagog; ac os rhoi bennaeth y ſynagog gennad, nid oedd rhaid gofyn cennad mwyach, Act. 13. 15. heb law 'r ſynagogau hyn, yr oedd gan yr Iuddewon leoedd eraill i weddio, wedi eu hadeiladu ar fynyddau, a maeſydd, ſef muriau noeth heb un grong-lwyd iddynt, i ba rai y byddai y rhai defoſiynol yn myned i weddio oriau cyfain nos neu ddydd; i ba un hefyd yr aeth ein Iachawdwr, ac y bu yn gweddio trwy'r nos; nid oedd un fath o addoliad yn y rhai'n, ond y ſawl a fynnai fyned iddynt y pryd y mynnent i ſyfyrio a gweddio Duw.

Eu. Gwedi i'r Iuddewon gael eu gwâſgaru, mae 'n debyg nad oes ganthynt ond y fath ſynagogau a rhai'n i addoli ymhob rhan o'r byd lle maent?

Ap. Felly y mae; ac ymhob man y b'ont, os cant gennad, hwy a'i hadeiladant; a hyn fu dda iawn o amſer eu gilydd, cant o amryw genhedlaethau a ddaethant i adnabod amryw bethau am

y gwir Dduw, a rhai o egwyddorion rhinwedd, a chrefydd; ac o'r diwedd daethant yn broſelytiaid i'r ffydd Iuddewig; a thrwy'r lleoedd cyhoedd hyn o addoliad, mewn talm o amſer wed'yn, y cafwyd lle addas i gyhoeddi yr Efengyl gan yr apoſtolion i'r Iuddewon, a'r cenhedloedd hefyd, Act. 17. 1. 2. a 19. 8.

Eu. Pa beth ragor a wnaeth Nehemiah o ddiwygiad ymhlith yr Iuddewon ar ol eu dychwelyd o Fabilon?

Ap. Yſgaru yr holl briodaſau ag oedd wedi eu gwneud â gwragedd dieithr, am ba achos y trodd ef allan Manaſſeh mab neu ŵyr yr archoffeiriad, am briodi merch Sanbalat yr Horoniad, Nehem. 13. 28. ac yn y cyfamſer y darfu i Sanbalat yntef ſynnu cennad gan Darius Nothus, yr hwn oedd yn awr yn frenhin ar Perſia, i adeiladu ar fynydd Gereſim, yn agos i Samaria, deml yn gyffelyb i'r un yn Jeruſalem; gwneud Manaſſeh ei fab ynghyfraith yn archoffeiriad o honi.

Eu. A dyma ddechreuad y gelyniaeth rhwng yr Iuddewon a'r Samariaid?

Ap. Ie, canys yn awr daeth Samaria i fod yn noddfa i'r Iuddewon gwrthryfelgar, y rhai fyddai yn cael eu galw i gyfrif am dorri'r Sabbath, bwytta bwydydd halogedig, neu eu cael yn euog o bechu yn erbyn y gyfraith mewn un ffordd hynod, a gwaedd-fawr; nes o'r diwedd, trwy fod y Samariaid yn gyſgod i'r Iuddewon gwrthryſelgar, i'r gelyniaeth i gynnyddu cymmaint, fel y darfu i'r Iuddewon gyhoeddi yn eu herbyn y ſelldith fwyaf chwerw ag y gyhoeddwyd erioed yn erbyn un genedl tan haul.

Eu. Pa fath ydoedd?

Ap. Yr yſgymmundod ofnadwy hwnnw oedd, *yn enw y Jehofah mawr*, ffurf pa un meddant, os gwir yw, a gyfanſoddwyd gan Nehemiah, ac Ezra, fel y canlyn. Ar ol cynnull y bobl

ynghyd

ynghyd i deml yr Arglwydd, hwy a gaſglent 300 o offeiriaid, 300 o lyfrau 'r gyfraith, a 300 o utgyrn, a chynnifer a hynny o fechgyn, y rhai a ganent yr utgyrn, a'r Leiaid yr un pryd tan ganu yn melldithio'r Samariaid, trwy bob rhyw felldith, yn nirgelwch yr enw Jehofah, Tad, Mab, ac Yſbryd Glan; ac yn melldith y 10 gair deddf, yn melldith y tŷ uchaf, ac yn melldith y tŷ iſſaf barn; gan gyhoeddi fod holl ffrwyth eu tir hwynt yn aflan, eu hanifeiliaid yn aflan, ac nad oedd i neb o Iſrael fwytta bara Samariad, ac na ſai un Samariad yn broſelyt yn Iſrael; ac na chael rhan yn adgyfodiad y meirw.

Eu. Ofnadwy yr yſgymmundod! ond pa fath oedd crefydd y Samariaid hyn?

Ap. Rhaid i 'ch ddeall mai eu dechreuad oedd cenhedloedd o'r dwyrain blannwyd yno gan Salmanazar Brenhin Aſſyria, ar ol caethiwo 'r deg llwyth i Aſſyria, 2 Bren. 17. Hwy addolaſant bob un o honynt dduw ei wlad ei hun, ond pan difethodd llewod hwynt, am na addolent yr Arglwydd, brenhin Aſſyria ddanfonodd un o offeiriaid y gaethglud, i'w dyſgu hwynt yng wir grefydd yr Iuddewon, yr hon er iddynt ei derbyn, etto ni fynnent adael yn lân eu heulun-addoliaeth; ond gwnaethant gymmyſg o waſanaeth y gwir Dduw a gwaſanaeth eu duwiau eu hunain; a'r gymmyſgedd hon gafas ei pherffeithio 'nawr yn rhagor; canys taflaſant ymaith ran mwy o'u heulun-addoliaeth, pan cafodd teml eu hadeiladu yn eu plith, ymha un y cafodd y gwaſanaeth Iuddewig ei ddarllen, a chyfraith Moſes a'i chlywaid fel yn Jeruſalem; ond er dyfod yn nes at waſanaeth Duw ar ol yr yſgrythur, etto ni wnaethant ond dodi y gelyniaeth tu ag attynt gan yr Iuddewon yn llawer mwy, a pherffeithio yr hen gaſineb a ddechreuodd pan geiſiodd y Samariaid fod mewn rhan a

hwynt

hwynt o'r gwaith i adeiladu teml yr Arglwydd, yr hyn pan neccaodd yr Iuddewon, y Samariaid wnaeth i'r gwaith ſefyll agos dwy flynedd.

Eu. Pa fodd y bu gyda hwynt o bryd i bryd o hynny nes dyfod ein Iachawdwr?

Ap. Amryw droiadau chwerwon a gawſant o amſer eu dychweliad o Babel hyd nes i'r Shilo ddyfod; ac amryw brydiau y buont mewn caethiwed, weithiau i'r Perſiaid, weithiau i'r Groegiaid, ac yn olaf i'r Rhufeiniaid; ond ymhob un o'u rhyfeloedd â hwynt, yr oeddent yn cael eu lladd, a'u gorthrymmu yn reſynnus iawn; brenhinoedd Perſia oedd yn rhoi Judea tan lywodraeth rhaglawiaid; Syria a hwynthau oſodent y llywodraeth wladaidd ac eglwyſig yn llaw'r archoffeiriad; yr hwn yn fynych a ddiſwyddent y pryd y mynnent, ac a oſodent y ſawl y fynnent yn ei le ef; megis y perodd Bagaſes y rhaglaw i ddiſwyddo Johanan, a gofod Joſua ei frawd yn ei le ef; a bu y fath ymrafael yn y cyntedd i mewn i'r deml, fel y lladdodd Johanan, Joſua, ar ba achos daeth Bagaſes i'r deml, er ei wahardd gan yr Iuddewon, ac a wnaeth iddynt dalu 31⁵ o arian am bob oen a aberthid y flwyddyn honno.

Eu. Pa fodd y bu arnynt yn nyddiau Alecſander? pan goncwerodd ef gymmaint o'r byd, peth rhyfedd yw, os na's concwerodd ef hwythau!

Ap. Yr Arglwydd a wnaeth yn rhyfedd i'r bobl hyn yr amſer hynny, canys er iddynt wrthod ei gynnorthwyo ef i warchae ar Tyrus, yr hyn ennynodd ei lid i'r eithaf, etto pan darfu i Alecſander ddyfod yn erbyn Jeruſalem, a'i fryd i goſbi yr Iuddewon, Jadus yr archoffeiriad wedi cael ei gyfarwyddo gan weledigaeth nos, a ddaeth i'w gyfarfod ef yn ei offeiriadol wiſgoedd, ac offeiriaid eraill gydag ef, mewn gwiſgoedd addas,

addas, a'r holl bobl mewn gwiſgoedd gwynion Alecſander wedi ei daro gan yr olwg hon, a gyfarchodd yr archoffeiriad i lawr i'r ddaear, a'i coſleidiodd, ac a ddaeth i mewn i Jeruſalem mewn ffordd heddychol, ac a offrymmodd aberth i Dduw yn y deml am ei fuddugoliaethau diweddar.

Eu. Pa fodd y daeth ef mor ddiſymmwth i newid ei feddwl, ac ymddwyn mor deg?

Ap. Alecſander ei hun a ſynegoedd iddo ef, ac yntau yn Macedonia, i'r un rhyw ddyn, yn yr un rhyw wiſgoedd i ymddangos iddo mewn gweledigaeth nos, gan beri iddo gymmeryd calon i ganlyn ymlaen ei ryfeloedd yn erbyn y Perſiaid, ac yn addo iddo lwyddiant; y pryd hyn hefyd, y dangoſodd yr archoffeiriad iddo brophwydoliaeth Daniel, pen. 8. 27. lle dangoſir, mai brenhin Groeg yw y bwch a fuddugoliaethai ar y Mediaid, a'r Perſiaid; ac Alecſander yntau a ddymunodd ar yr Iuddewon ddeiſyf y peth y ſynnent, ac ar ol eu dymuniad ſe ganiattaodd iddynt rydd-did eu cyfreithiau, a'u crefydd a rhydd-did oddi wrth deyrnged, a threthau bob ſaith mlynedd; o ran y flwyddyn honno nid oeddent yn hau nag yn medu. Ac ymhen ychydig, Alecſander goncwerodd yr Aipht, ac adeiladodd Alecſandria, ac a blannodd ynddi amryw Iuddewon, ac a roddodd iddynt yr un freintiau â'u Facedoniaid ei hun; ac yno ſe ennillodd ymerodraeth Perſia, ac wedi hynny yr India, ond ymhen pump mlynedd, ſe fu farw, a'i frenhiniaeth a rannwyd rhwng pedwar o'i Gapteniaid.

Eu. Pa fodd y digwyddodd hi ar yr Iuddewon wed'yn?

Ap. Hwy fuant yn hir tan y Ptolomeaid, brenhinoedd yr Aipht; y rhai berſwadiodd amryw o honynt i ddyfod i Alecſandria, gan addo

iddyn

iddynt yr un freintiau ag a roddodd Alecſander o'r blaen. Yr Iuddewon oedd hefyd o ddautu Babilon ddarfu i Seleucus capten arall o eiddo Alecſander i adeiladu iddynt amrywiol iawn o ddinaſoedd, gan roi iddynt yr un ragorfreintiau ag oedd ganthynt yn yr Aipht; a thyma'r pryd y darfu i un Simon y Cyfiawn, enwir gyd a pharch yn Eccleſ. 50, yr hwn oedd yn olaf o'r ſynagog fawr, yr hon a barhaodd o'u dychweliad o Fabilon hyd yn awr, ac oedd yn cynnwys 120 o henuriaid, y rhai oedd i gadw gwaſanaeth y grefydd Iuddewig mewn trefn, a pharotoi llyfrau'r gyfraith ddigon i'r bobl; hwn yn awr meddaf a 'chwanegodd ddau lyfr y Cronicl, Ezra, Nehemiah, Eſter, a Malaci at ganon yr Yſgrythur lân, ac a'i dibennodd hi. Ac er tybygfid bod hyn yn ddigon heb un 'chwanegiad ddynol; etto, dyma yr amſer y ‡ dechreuodd eu traddodiadau

‡ Ryw amſerau wedi hyn yr yſgrifenwyd llyfrau'r Apocrypha; nid oeddent yn Mibl yr Iuddewon, ac ni's gwyddent am danynt; ac nid yſgrifenwyd hwynt hefyd yn y Iaith Hebreaeg, megis y llyfrau eraill o'r Hen Deſtament; ac yr oedd yr hen Iuddewon mor ofalus am gadw yr Yſgrythurau, ag y byddai rhifedi'r gwerſi a'r llythrennau ganthynt ar gyfrif, ymhlith pa rai nid oedd yr un o lyfrau'r Apocrypha: a mwy na'r cwbl, ni's cadarnhawyd hwynt gan ein Iachawdwr Criſt a'i Apoſtolion erioed; ac nid oeddent yn ein Bibl ni nes i'r grefydd Babaidd ennill tir yn y byd; canys amryw ſlynyddau ar ol ein Iachawdwr; nid oedd un ſynod na chownſil yn ei derbyn fel un ran o'r Yſgrythur Lan, i brofi un pwngc o athrawiaeth, nag i wrthſefyll un cyfeiliornad, ond yn unig eu darllen er mwyn moeſau fel llyfrau eraill, ond o ddautu 6d canfed flwyddyn o oed ein Harglwydd, y darfu i'r pab eu plannu hwynt i mewn ynghanon yr Yſgrythur lle maent gan eglwys Ruſain yn gorwedd hyd heddyw, er cymmaint o wag yſtoriau

traddodiadau hwynt i gael eu bod, a hynny oddi wrth hen arferion ac ymadroddion rhai o'r hynafiaid. *Eu.*

---

yſtoriau, dychymmygion dynion, rhyfeddodau a gwrthiau diraid, ac anhygoel, ie, er cynnifer o gelwyddau hawdd eu hadnabod ſydd ynthynt; megis Tobit 5. 12. lle mae angel yn dweud celwydd, mai efe oedd Azarias mab Ananias fawr. Yno hefyd mae Aſmodeus y diafol anniwair; y ſaith angel yn cyflwyno gweddiau'r ſaint; y ſwyn ddiſylwedd o afu buſtl a chalon y pyſgodyn i yrru ymaith ddiaflaid a rhoi golwg, yr hyn nad yw yn ſawrio o Yſbryd Duw. Judeth hefyd ſydd yn ei gweddi yn canmawl gweithred Simeon, yr hon mae'r Yſgrythur yn ei gondemnio, Gen. 49. 5. Gan weddio Duw i lwyddo y ſtoriau a'r celwyddau a ddychymmygodd, Iud. ix. 13. Baruc ddywed iddo ſcrifennu ei lyfr yn Babilon, pen. 1. gwers 1. lle dywed Jeremi 43, 6. ei fod ef gydag ef yn Jeruſalem, ac nad aeth oddi wrtho. Mae ef hefyd yn ſcrifenu am offrymmau ar ol lloſgi'r deml. Jeremi 'r Apocrypha hefyd ſydd yn dweud fod yr Iuddewon yn Babilon tros 7 Genhedlaeth; lle dywed y gwir Jeremi na fyddent ond 70 mlynedd. Yſtori Suſanah ſy yn gwneud Daniel yn llangc ieuangc yn nyddiau Aſtyages, ac iddo ddyfod yn gymmeradwy o flaen y bobl trwy farn Suſanna, lle dywed Daniel ei hun i'r gwrthwyneb, Dan. 1. a 2. Yſtori Bel a 'r Ddraig ſydd yn llefaru am Habbaccuc yn Nyddiau Cyrus; yr hwn oedd yn prophwydo o flaen Caethiwed Babilon, yr hyn oedd 70 mlynedd cyn Cyrus. Yr yſtori mwyaf cywir o fewn yr Apocrypha yw llyfr cyntaf y Maccabeaid, ond y mae'n dweud yn fynych bethau yn groes i'r ail lyfr, ac i Joſephus mewn rhai pethau; canys ſe ddywaid y Maccabeaid, cyntaf i Antiochus farw yn Babilon ar ei wely. 1 Mac. 6. 8. ond yr ail Maccabeaid gwers 15. 16. d'wedir ei dorri ef yn chwilfriw yn nheml Nanea; ac yn y ofed bennod o'r un llyfr d'wedir iddo farw mewn gwlad ddieithr yn y mynydd dir, gan boen a dolur yn ei berfedd, a gofyd aruthrol yn ei fol, na's gellafid ei iachau, ac iddo ſyrthio o'i gerbyd ac i holl aelodau ei gorph ef gael eu gwneuthur yn friw trwy ei

gwymp

Eu. Pwy ydoedd y prif ddyſgawdwyr o'r traddodiadau hyn?

Ap. Un Antiochus o Socho oedd y cyntaf, yr hwn oedd yn ddyſgawdwr enwog o'r gyfraith, ac oedd yn flaenor o'r Sanhedrim o henuriaid yn Jeruſalem, yn brif Athro o'r yſgol Iuddewig, yn ddyſgawdwr cyſiawnder i'r bobl, ac o'r traddodiadau hyn; ac ar ol hyn, holl ddyſgawdwyr y Gyfraith Iuddewig, elwir yn y Teſtament Newydd weithiau Scrifenyddion, weithiau Cyfreithwyr, neu y rhai a eiſteddant yng adair Moſes; a rhai'n oedd y bobl yn eu galw Rabbi, ac o rhai'n yr oeddent yn dewis aelodau'r Sanhedrim fawr, o drugain a deg, y rhai oedd yn llywodraethu holl Iſrael; ac o rhai'n yr oeddent yn dewis y cownſil o 23, yr hwn oedd ymhob dinas o Judea; a rhai'n oedd yn cael eu galw

---

gwymp mawr. Ail lyfr y Maccabeaid ſydd lawn o wag yſtoriau a dychymmygion celwyddog, gan ganmawl dynion am weithredoedd drwg. Rafis ganmolir am gynnyg lladd ei hun, gan dd'weud iddo ar ol colli ei holl waed ymaflyd yn eu berfedd a'u tynnu allan, a'u taflu i blith y bobl, gan weddio ar Dduw, a'r yſpryd, a'r iddo eu rhoddi hwynt yn ol 2 Macc 14. 42. Judas hefyd ganmolir am offrymmu tros y marw, 2 Macc. 12. 45. Holl lyfr Eſter yr Apocrypha ſydd lawn o ffablau ag ellir brofi o'r yſgrythur eu bod yn anwir ac yn ddigoel, megis cydmarwch Eſter ii. 16. a xi. 2. hefyd y vi. 3. a'r xii. 5. fe ddywed Eſt. 15. 7. fod wyneb y brenhin yn llawn o greulondeb; etto fe wna i Eſter dd'weud ei ſod ef fel angel Duw; naill ai d'weud celwydd ei hun, neu beri i Eſter i dd'weud hynny. Llyfr Doethineb ſyn i bobl gredu mai Salomon oedd yr awdwr, ond mor bell oddi wrth hynny nad oedd berchen ar y ganfed ran o'i ſynwyr, na'i goneſtrwydd. Gwelwch ei farn ef am faſtarddiaid yn niwedd y drydedd bennod a dechreu'r bedwarydd. Hwn fuaſai ynghanon ein Bibl ni oni buaſai rhad ras.

yn

yn llywodraethwyr, henuriaid, a chynghorwyr; y fath oedd Nicodemus, Joſeph o Arimathea, a Gamaliel: ond daliwch ſylw er i'w traddodiadau gael eu codi o ddautu'r amſer hyn, etto y Miſnah yr hwn yw caſgliad o'r traddodiadau hyn ag maent hwy yn ei gymmeryd arnynt eu bod wedi rhoddi gan Dduw i Moſes, ni's cyfanſoddwyd hyd fwy na chan mlynedd ar ol ein Iachawdwr, gan un Rabbi Judah Hakkadeſh; a'r Miſnah hwn ynghyd a'r agoriad arno elwir Talmud; ac mae dau Dalmud ganthynt, un alwant Talmud Jeruſalem yr hwn a orphenwyd 300 wedi amſer Criſt; a'r llall, Talmud Babilon, yr hwn orphenwyd 500 mlynedd ar ol ein Iachawdwr; yr un Miſnah ſydd i'r ddau, ond bod yr agoriadau yn wahanol, a'r eſponiad alwant Gemara.

Eu. Pan oedd y fath liaws o Iuddewon yn Alecſandria, yn Babilon, ac ymhob rhan o Aſia agos, a gafodd dim o'r yſgrythurau eu cyfieithu i'r Ieithoedd ymha rai yr oedd yr Iuddewon yn waſgaredig?

Ap. Do, canys ſe gyfieithwyd 5 llyfr Moſes gan yr Iuddewon yn Alecſandria i'r iaith Groeg, at eu gwaſanaeth ei hun, a'u cydwladwyr; canys yr Iuddewon yn eu gwaſgariad a arferaſant eu hunain i'r Iaith Groeg o ran buddugoliaeth Alecſander a'i ſyddin o Roegiaid a dannodd eu hiaith hwy trwy'r holl fyd; a phan daeth darllen y prophwydi cyſtal a'r gyfraith mewn arfer yn ſynagogau'r Iuddewon yn nyddiau Antiochus Epiphanes, hyn berodd gwneud cyfieithiad eilwaith o'r prophwydi ac ſelly 'nawr yr holl Hen Deſtament oedd wedi cael ei gyfieithu, yr hwn elwir hyd y dydd heddyw Septuagint.

Eu. Pa wahaniaeth oedd rhwng y Groegiaid a'r Hebreaid, Act. 6. 1.?

Ap. Mi ddywedais eiſioes eu bod yn amſer

Ezra yn darllen yr Yſgrythur yn Hebreaeg, ac yn ei heſponio hi yn iaith y Caldeaid; ond yn Alecſandria wedi cyfieithu yr Hen Deſtament i'r iaith Groeg, yr oeddent yn eſponio yn Groeg hefyd; ac nid yn unig yno ond hefyd yn holl ddinaſoedd y Groegiaid, ac yr oedd yr Iuddewon wedi eu gwaſgaru; ac am hyn yr aeth yr Iuddewon hynny tan yr enw Groegiaid, a'r lleill ag oedd yn darllen yn Hebreaeg, ac yn eſponio yn Caldeaeg, gyfenwid Hebreaid.

Eu. A barhaodd yr Iuddewon yn Judea mewn heddwch tan lywodraeth brenhinoedd yr Aipht?

Ap. Y brenhinoedd ddaeth ar ol 4 capten Alecſander fawr, y rhai a rannodd y byd rhyngthynt, ac yn enwedig brenhinoedd yr Aipht, a Syria oedd yn fynych mewn rhyfeloedd er mwyn helaethu eu teyrnaſoedd, yr Iuddewon gafodd eu gwaſgu i lawer iawn o gyfyngderau, ac yn fynych byddent heb wybod pa ochr i ddewis; yr oeddent mewn perygl o bob tu, ac rai prydiau yn cael eu gorthrymmu yn reſynus a'u malu yn druenus rhwng y naill o'r llall; fel mae prin yr oeddent yn dal eu fynu burdeb eu teml addoliad. Pan yr oedd Ptolomy Philopater brenhin yr Aipht yn teyrnaſu tros yr ardaloedd hyn, daeth yn ei fryd i aberthu i Dduw Iſrael, am ei lwyddiant yn erbyn Antiochus fawr, Brenhin Syria, ac nid ydoedd foddlon i aros yn y cyntedd o maes, ond fe fynnai ymwthio i mewn i'r cyſſegr, hyd yn oed i'r cyſſegr ſancteiddiolaf; ond y Leiaid, yr offeiriaid, a'r holl bobl a godaſant eu dwylo tua'r nef mewn gweddi, a phan oedd y brenhin wedi myned trwy'r cyntedd neſſaf i mewn, ‡ ac yn

‡ Pan byddir yn enwi y deml yn yr Hen Deſtament a'r Newydd, ſe feddylir am y deml ei hun a'r holl gynteddau, neu fynwentau o ddautu iddi, y rhai oedd bedwar

yn awr yn myned i'r deml, ef a darawyd gan Dduw, tan y fath arſwyd, a dychryn meddwl, fel y gorfu ei ddwyn ef allan yn hanner marw; ond y brenhin i ymddial ar yr Iuddewon, pan daeth ef i Alecſandria a orchymynnodd iddynt i aberthu i'w dduwiau ef, ac os neccaent i dynnu ymaith eu rhydd-did yr hwn oedd ganthynt er dyddiau Alecſander fawr; ac a'u cymhellodd i wiſgo nod y ddeilen iorwg, yr hyn oedd arwydd eu duw hwynt Baccus, wedi ei nodi arnynt â haiarn poeth; ar ſawl a Neccai, naill ai bod yn gaethweiſion tra faent byw, neu yntau ddioddef marw. *Eu.*

---

bedwar yn; 1. cyntedd neu fynwent yr offeiriaid, yr hwn oedd neſſaf i'r deml: yma yr oedd yr allor bres, a'r noe i o'chi yr offeiriaid a'r ebyrth; ac nid oedd i neb fyned i mewn i'r cyntedd hyn ond yr offeiriaid yn unig: 2. mynwent y bobl, wedi eu neillduo oddi wrth y lleill a mur 6 troedfedd a hanner o uwchder; i ba un yr oedd y bobl yn myned a'u haberthau 'nol i ddweud eu gweddiau, ac i dalu eu haddunedau: ynghalon y fynwent hon y gwnaeth Salomon y pulpit pres; a llawer o byrth, neu leoedd cyſſegr a tho arnynt adeiladwyd wedi hynny o ddautu 'r pulpit hwn, er mwyn i'r bobl i gael gwaſgod mewn tywydd glawog, fel y rhowd enw porth Solomon i'r cyntedd hyn i gyd; John 10. 23. yn 3. yr oedd y cyntedd newydd, neu fynwent y gwragedd, ymha un yr oedd y dryſorfa ſonir am dano. Luc 1. 21. a'r cyntedd hwn oedd yn cael ei alw yn fynych yn dryſorfa Ioan 8. 20. a rhwng y ddau olaf hyn yr oedd deſgynfa o 15 ſtep, neu raddau ar ba rai y byddai y Leſiaid yn anferyd canu y pymtheg ſalm y rhai ſydd yn canlyn y 119 ſalm, ſef un ar bob ſtep neu graddau, a hyn oll oeddynt ei gyfrif yn dir Sanctaidd, ar ba un nid oedd i neb ſengu ond Iuddewon naturiol, neu broſelytiaid wedi enwaedu arnynt; ond am y pedwarydd cyntedd nid oedd hwn yn cael ei gyfrif yn ſanctaidd, er ei fod yn rhan o'r deml, ei enw oedd cyntedd y cenhedloedd, wedi i ddarparu i broſelytiaid y pyrth, y rhai oedd yn cadw 7

Eu. Pa beth a wnaeth Iuddewon Alecſandria yn yr achos hyn?

Ap. Ychydig o honynt a'wadaſant eu Duw i gael ffafr y brenhin; ond amryw filoedd a ſafaſant yn gadarn at eu crefydd; ac er i amryw o honynt gael eu cymmell o drais i wiſgo'r ddalen iorwg, etto hwy a ddangoſaſant eithaf caſineb at eu cydwladwyr, a aberthodd i dduwiau 'r brenhin; ond hyn a drodd yn hyfryd o'u hochr hwynt yn y diwedd.

Eu. Pa fodd?

Ap. Ptolomy ar hyn a fwriadodd ddinyſtrio holl genedl yr Iuddewon, ac a barodd i'r holl rai ag oedd yn trigo yn un rhan o'r Aipht gael eu dwyn i Alecſandria i'w difetha yno gan yr Elephantiaid.

Eu. A ddinyſtriwyd hwynt?

Ap. Na ddo, canys yr Elephantiaid wedi eu meddwi gan win, eu gadael yn rhydd i ruthro arnynt, yn lle cwympo ar yr Iuddewon, hwy a dywallaſant eu holl gynddeiriogrwydd ar yr Aiphtiaid ag oedd yn edrych arnynt, ac a ddinyſtriaſant rifedi mawr o honynt, nes i'r brenhin weled na thalai ddim iddo ymddial ar yr Iuddewon; ond gan ofni barn Duw, fe adferodd iddynt

---

orchymyn Noah yn unig, canys yn hwn fel mewn tir halogedig yr oeddent yn dioddef marchnad defaid, ac ychain, colomenod, a byrddau 'r cyfnewidwyr arian er mwyn aberthau ac offrymmau 'r bobl: gan gyfrif y cenhedloedd dienwaededig ddim well na'r anifeiliaid, neu'r ehediaid ag oeddent yn eu gwerthu yno: ac o'r fynwent hon y gyrrodd ein Harglwydd allan y prynwyr a'r gwerthwyr, ac a ddadymchwelodd fyrddau'r cyfnewidwyr arian; gan ddangos mai ei ddefnydd cyntaf ef oedd, bod yn dy gweddi i'r holl Genhedloedd, a'r mur ag oedd rhwng y cyntedd hyn a'r lleill mae'r Apoſtol yn aliwdo atto, Ep. 2. 14 15. pan dywed fe ddattododd ganol fur y gwahaniaeth, &c.

eu llawn rydd-did fel o'r blaen, ac a roddodd gennad i roi i farwolaeth, yr Iuddewon ag adawaſant eu creſydd i waſanaethu delwau.

Eu. Ai tan lywodraeth y Ptolomeaid y parhaodd yr Iuddewon?

Ap. Nagê, canys wedi cael eu gorthrymmu yn reſynus gan frenhinoedd yr Aipht, hwy a ymoſtyngaſant eu hunain i frenhinoedd Syria, ac yn gyntaf i Antiochus fawr, yr hwn a roddodd iddynt amryw freintiau fel eu cydwladwyr, ym Meſopotamia, ac o ddautu Babilon; ac ef a droſglwyddodd amryw o honynt o Babelonia i Aſia leiaf, i gadw ei geſtyll ef yno, ac a roddodd iddynt ſefyllfeydd da; o ba le y daeth rhan fawr o'r Iuddewon gafwyd yn y parthau hynny yn amſer yr Apoſtolion.

Eu. Ai yr un oedd Antiochus fawr ar Antiochus Epiphanes?

Ap. Nagê, y neſſaf a deyrnaſodd ar Syria ar ol Antiochus fawr oedd Seleucus ei fab; ac ar ei ol yntef, Antiochus Epiphanes ei frawd yr hwn a orthrymmodd Judea, a'r holl Iuddewon yn chwerw iawn.

Eu. Mi glywais ſon am dano, ewch ymlaen a'i hanes.

Ap. Un o'r drygau cyntaf a wnaeth ef i'r Iuddewon oedd, pan glywodd ef fod terfyſg yn y ddinas, yr hwn oedd rhwng yr Iuddewon a'u gilydd, ynghylch taflu Onias o'r offeiriadaeth, a gofod Jaſon yn ei le a'i daflu yntef allan a gofod ei frawd Menelaus yn yr archoffeiriadaeth, a Jaſon ddyfod yn ol, a mil o wyr, a gwneud galanaſtra aruthr yn y ddinas; ar glywed hyn meddaf y daeth Antiochus Epiphanes (o ran iddo feddwl fod y ddinas yn gwrthryfela i'w erbyn ef) ac barodd i'w filwyr nad arbedent na hen nac ieuainge; a lladdwyd newn yſbaid pum diwrnod bedwar ugain mil o bobl; a

Menelaus yr hwn oedd archoffeiriad drwg iawn, a'i harweiniodd ef i mewn i deml yr Arglwydd, o ba le y cymmerodd ef ymaith y rhan adawyd o'r lleſtri ſanctaidd, allor yr arogl-darth, yr allor aur, y canhwyllbren, ac efe dorrodd hefyd ymaith addurnau aur y deml, ac a'i yſpeiliodd hi o'i thryſorau cuddiedig: ac fe offrymmodd hwch fawr, yr anifail aflan a gwaharddedig hwnnw ar allor y poeth-offrwm; ac a adawodd Jerufalem mewn gwaed a galarnad.

Eu. A orphennodd ef ar hyn?

Ap. Na ddo, canys dwy flynedd eilwaith, fe ddanfonodd Apolonius caſglwr y dreth a mil o wyr y rhai a fyrthiaſant ar y ddinas ar y dydd Sabbath, yn ddiſymmwth, tra fuant ar eu haddoliad; a hwy a laddaſant y dinaſyddion, a'r offeiriaid. Fe wnaeth i'r aberthau beidio, arweiniodd wragedd a phlant yn gaethion, fe dynnodd i lawr y tai, a'r muriau, ac adeiladodd geſtyll a thyrrau ar y bryn uchel yn ninas Dafydd, gyferbyn a'r deml, tu ag at ddrygu y rhai a eſgynnai i fynu yno; ac a oſododd geidwaid ynthynt, ac yno y goſododd ef anrhaith y ddinas, ac heblaw hyn oll, 'fe chwanegodd ei ddrygioni trwy roddi allan orchymyn fod ei holl ardaloedd ef o'r un grefydd, gan fwriadu yn bennaf yn hyn, i gyfyngu ar yr Iuddewon: 'fe waharddodd eu plant i gael cnwaedu arnynt, ac a waharddodd bob poeth offrymmau, ac aberthau yn y deml i Dduw Iſrael: fe'i galwodd hi teml Jupiter Olympus, 'fe oſododd i fynu ar yr allor ei * ddelw ef, ac aberthodd

* Y ddelw hon o eiddo Jupiter oſodwyd ar yr allor gan Antiochus, ydys yn dybied yw y ffieidd-dra ſydd yn gwneuthur yn anghyfannedd, ragfynegwyd gan Daniel, pen. xi. 31. megis yr oedd y faner Rufeinedd â llun yr Erryr arni, aderyn Jupiter wedi ei oſod i fynu yn y deml oedd y ffieidd-dra anghyfaneddol, yr hyn a ragddywedodd Dan. ix. 27. a'r xii. 11. ag mae'n Iachawdwr yn pennodi atto, Mat. xxv. 15.

iddo; 'fe orchymynodd i'r bobl i halogi'r Sabbath; 'fe oſododd i fynu allorau, a llwyni, a chappeli delwau trwy yr holl ddinaſoedd, ac a barodd iddynt aberthu cig moch, ac anifeiliaid aflan eraill; ac yno ei ſwytta; ac efe a ddeſtrywiodd lyfrau'r gyfraith pa le bynnag gellid eu ffeindio hwynt.

Eu. Ni fu ei fath o'i flaen ac yr wyf yn gobeithio nag fyth ar ei ol. A ddarfu i rai i ufuddhau i Antiochus?

Ap. Er fod lliaws y rhai na halogent eu hunain, ac ni thorrent gyfraith eu Duw; etto gormod o honynt naill ag o ofn y brenhin, neu o awydd i'w bleſio ef, a gydſyniaſant â'i grefydd ef, ac aberthaſant, ac a loſgaſant arogl darth i ddelwau yn heolydd dinaſoedd Judea; ond y rhai a neccaſant wneud hyn, fe roddes y gwyr i farwolaeth bob mis, fe laddodd amryw fenywod, ag a fynnodd enwaedu eu plant, gan grogi eu plant am eu gyddfau, a lladd y rhai a'u henwaedaſai hwynt.

Eu. Pa beth oedd helynt y Samariaid yn y dyddiau hyn?

Ap. Tra fyddai yr Iuddewon yn llwyddiannus y Samariaid a arddelent y perthynas; ond os mewn adfyd, hwy a'u gwadent hwy; ac yn awr hwy a wnaethant araith at Antiochus, i gael teml eu hun ar ben mynydd Gerizim yn deml i Jupiter y Groegiaid.

Eu. Pa fodd yr aethpwyd ymlaen â'r erlyd hyn ar yr Iuddewon?

Ap. Fe ſafodd i fynu un Mathias offeiriad, yr hwn oedd yn Modin, yr hwn pan gafodd ei gymmell i gydſynio â'r addoliad eulun-addolaidd yno, ar ol gorchymyn y brenhin, yntau a fynegodd ei fwriad i wrthſefyll hyd farw, yr hyn a ddangoſodd efe mor gynted ag y gwelodd ef un o wyr y brenhin yn aberthu ar yr allor eulun-addolaidd yn Modin; canys fe a'i lladdodd ef ar yr allor, ac a ladd-

a laddodd ſwyddog pennaf y brenhin gydâg ef, yr hwn a ddaethai yno i erchi y fath addoliad; yna ſe waeddodd â llef uchel, trwy'r holl ddinas, pwy bynnag ſydd wreſog o'r ddeddf dilyned fi; felly efe a'i feibion, a ffoiſant i'r mynyddoedd, a llawer iawn o Iuddewon a ffoiſant gydâ hwy, ac a ymguddiaſant yn yr anialwch.

Eu. A ganlynodd byddin y brenhin ddim o honynt?

Ap. Do, ac a gwympaſant arnynt ar ddydd Sabbath, yn yr hwn ni fynnai yr Iuddewon ymladd, a chwympwyd mil o honynt yr un dydd.

Eu. A ennynodd hyn ddim o lid y brenhin?

Ap. Yn ofnadwy iawn, canys ſe arferodd greulondeb enbyd yn erbyn yr holl Iuddewon, ag na ymadewai â chyfraith Moſes, pan gwelodd nad oedd ofn marwolaeth ddim yn tyccio.

Eu. Rhowch un inſtans o hyn.

Ap. Saith brawd a'u mham a ddirdynnwyd yn echrydus, tu ag at eu cymmell i fwytta cig moch, a hwy a ddioddefaſant y poenau gydâ'r calondid mwyaf, un ar ol y llall, er cynnifer o gyſtuddiau, a gwaſgfeion annioddefol oſodwyd arnynt, gan gyhoeddi allan eu bod yn fwy parod i ddioddef nâ thorri cyfraith eu teidau.

Eu. Pa fath boenau oſodwyd arnynt?

Ap. Amrywioldeb mawr o gyſtuddiau llymion a gwaedlyd: eu haelodau hwynt a dorrwyd ymaith, eu tafodau a dorrwyd allan, a hwy a ffriwyd mewn pedyll ffrio; crwyn eu pennau a flingwyd ymaith, gydâ'r gwallt; a hwy a fuant feirw tan y poenau mwyaf echrydus ac ofnadwy, tra yr oedd eu mam ar yr un pryd yn edrych arnynt, ac yn eu cefnogi hwy eu gyd i ddioddef yn eon mewn gwrthwynebiad i ddeniadau, bygythion, a gorchmynion y brenhin; gan ddymuno arnynt ofni Duw, ac nid dyn, ac i ddioddef mewn gobaith o

dded-

ddedwydd adgyfodiad, pan cai hi eu derbyn hwynt i gyd mewn trugaredd.

Eu. A gas hi ddim ei hun hefyd i ddioddef poenau?

Ap. Ar ol gweled ei phlant eu gyd yn ferthyron o flaen ei hwyneb, hi gafodd ddioddef ei hun.

Eu. Mae allan o derfynau yr hyn ſydd gennym yn llaw, i ofyn am amgylchiadau tymhorol, rhyfeloedd, buddugoliaethau, a chyfyngderau yr Iuddewon, trwy holl ddyddiau'r Maccabeaid, ymha amſer diau fod llawer iawn o gyfnewidiadau rhyfedd; ond yr wyf yn deall y caf lawer o honynt yn llyfr cyntaf y Maccabeaid, ag ſydd yn hanes weddol gywir meddwch; am hynny gwell yw gennyf i'ch adrodd am gyfnewidiadau, ſectau, athrawiaethau eu crefydd, o'r amſer hyn hyd ddyddiau ein Iachawdwr.

Ap. Hynny a wnaf, ond goddefwch gennyf ddweud, i Judas Maccabeus orchfygu byddin o ddeugain mil o wyr traed, a ſaith mil o wyr meirch i Antiochus, a thrwy fod Duw gydag ef; ac a aeth i fynydd Seion; a phan welodd ef y cyſſegr yn anrhaith, yr allor wedi ei halogi, y pyrth wedi eu lloſgi i fynu, coed a glaſwellt yn tyfu yng nghynteddoedd tŷ Duw, hwy rwygaſant eu dillad, ac a gwympaſant ar eu hwynebau, ac a wnaethant alarnad mawr: yna hwy oſodaſant i weithio gydâ phob brys; mynnaſant offeiriaid diargyoedd eu hymarweddiad, i lanhau'r cyſſegr; hwy a dynaſant i lawr allor y poeth-offrwm, am i'r Cenhedloedd ei halogi hi; hwy a adeiladaſant allor newydd; hwy a wnaethant leſtri newyddion ſanctaidd, allor yr arogl darth, y bwrdd, a'r canwyll-bren, eu gyd o aur a gymmeraſent oddi wrth y gelynion a hwy a oſodaſant bob rhan o'r adeilad i fynu drachefn, ac offrymmaſant ebyrth ar ol y gyfraith: a hyn ydoedd dair blynedd ar ol ei deſtrywio hi gan Antiochus. A'r peth mwyaf

rhyfedd

rhyfedd etto, fe barhaodd addoliad yma, heb ddim rhwyſtr oddi wrth y Cenhedloedd, nes deſtrywio'r deml gan y Rhufeiniaid, yr hyn oedd lawer cant wed'yn, er bod y ddinas a'r deml lawer gwaith yn nwylo'r Cenhedloedd, ac er i Antiochus Eupater, mab Antiochus Epiphanes ddyfod â llu o gan mil o wyr traed, a 7 mil o wyr meirch a 32 o Elephantiaid yn erbyn Jeruſalem; Judas Maccabeus a gwympodd arnynt yn y nos, ac a laddodd 4000 o honynt.

Eu. Ond bellach am y ſectau ymhlith yr Iuddewon.

Ap. Yr amſer hyn, nid oedd o enw, ond tair ſect, y Phariſeaid; y Saduceaid; yr Eſſeniaid; ond yn y ganfedd flwyddyn neſaf cododd yr Herodianiaid, ac ymben rhai cannoedd eilwaith y cododd ſect elwid Carriaid.

Eu. Pa ddaliadau oedd gan y Phariſeaid?

Ap. Y pethau mwyaf hynod yn neillduo y ſect hon oddi wrth y lleill, oedd eu ſêl tros draddodiadau'r henuriaid; canys tra yr oeddent yn cyfaddef ſcrifeniadau Moſes, a'r prophwydi yn ddwyfol, yr oeddent yn cynmeryd arnynt fod y traddodiadau hyn hefyd wedi eu rhoi i Moſes ar fynydd Sinai; a'u traddodi lawr heb fod yn 'ſcrifenedig o dad i fab trwy'r amryw genhedlaethau: ac o'r achos eu bod hwy yn cymmeryd arnynt i gadw 'r gyfraith yn fwy llwyr, a manwl ar ol eu traddodiadau, a chwanegaſant atti, yr oeddent yn edrych arnynt eu hunain gymmaint a hynny yn fwy ſanctaidd nag eraill; ac yr oeddent yn cael eu galw Phariſeaid, hynny yw dynion wedi ymneillduo oddi wrth eraill; a'r ſect hon oedd amlaf, ac fwyaf ei pharch o flaen dynion.

Eu. A ydyw y ſect hon yn awr mewn bod?

Ap. Crefydd breſenol yr Iuddewon yn ei gwaſgariadau (ond ymhlith y Carriaid yn unig) ſydd wedi ei gwneud i fynu yn hollol, o, ac yn cael ei

harferyd

harferyd yn gyttunol a thraddodiadau'r Phariſeaid, yn hytrach nag ar ol y gyfraith, a'r prophwydi: ac y maent yr awr hon wedi llygru yr hen grefydd luddewig, fel y gwnaeth y Papiſtiaid a'r grefydd Griſt'nogol.

Eu. Os ymneillduwyr oedd eu henwau, oddi wrth ba bethau yr oeddent yn ymneilldu?

Ap. Oddi wrth gyfeillach dynion eraill, gan alw pawb yn felldigedig, ac yn bobl heb adnabod y ddeddf ond hwynt eu hunain: — ac oddi wrth wiſgoedd ag oedd gyffredin; canys yr oedd ganthynt ddull o wiſgad pennodol iddynt eu hunain; ac hefyd oddi wrth amryw foeſau, ac arferion pobl y byd, fel yr oeddent yn eu galw hwynt. Yr oeddent yn gwahanu oddi wrth y Saduceaid, yn ei cred, canys y Phariſeaid a addefant yſprydion, ac angylion, ac adgyfodiad y meirw, a bod Eneidiau yr annuwiol ar ol ymado a'u cyrph i ddeſgyn i uffern; ond bod eneidiau'r ffyddloniaid i gael eu troſglwyddo i gyrph dynion da eraill yn ol barn y Pythagoriaid; ond y gwahaniaeth mwyaf rhwng y Phariſeaid â phob ſect arall oedd, eu bod yn manwl ddal traddodiad yr Henuriaid.

Eu. Henwch rai o'r traddodiadau hyn.

Ap. Ni's bwyttaent, nes golchent eu dwylaw, a hyn oedd yn cael ei wneud gydâ llawer iawn o wag ſeremoniau, ag oedd raid i'w cadw i'r manylrwydd mwyaf, a'u coel grefydd oedd gymmaint yn hyn, fel os doent i ddwfr a ſyched arnynt, ac heb fod yno ddigon i dorri eu ſyched, ac ymolchi, rhaid oedd iddo yn hytrach ymolchi nag yfed, pe buaſai yn gorfod trengu o ſyched: ac yr oedd yn cael eu gyfrif gydâ hwynt gymmaint pechod i beidio golchi dwylo cyn bwytta a godinebu. Yn ail hwy ymolchent pan y doent o'r farchnad, rhag ofn wrth orfod delio a phob math o bobl, iddynt yn ddiarwybod gael eu halogi; yn drydydd, golchi eu ſtenau, a'u bwrddau, yn bedwarydd,

warydd, gwahardd bwytta gydâ pechaduriaid, ac yr oeddent yn ei gyfrif yn halogedigaeth i gyffwrdd a hwynt Luc 7. 39. yn 5ed yr oeddent yn ymprydio ddwy waith yn yr wythnos, ſef dydd Llun, a dydd Iau, yn 6ed yr oeddent yn gwneud yn llydain eu Philacterau, ac yn gwneud ymyl-waith eu gwiſgoedd yn helaeth; a'r Philacterau hyn oedd ddarnau o barchment, a rhyw rannau o'r gyfraith yn 'ſcrifenedig arnynt; ac wedi eu troi ynghyd, yr oeddent yn ei gwiſgo hwynt; un math ar eu talcennau rhwng eu llygaid, a'r llall ar eu dwylo, ond yn lle hynny gwiſgent hwy ar y fraich aſwy, o war pen yr elyn, yn agos at y galon.

Eu. Pa beth oedd yn 'ſcrifenedig ar y Philacterau hyn?

Ap. Fe ddywaid rhai o hen deidau 'r Eglwys mae'r deng gair deddf; ond mae'n fwy tebygol mai y pedwar rhan hyn o'r gyfraith oedd. 1 Ecſod. 13. 2. i ddiwedd y 10 wers. — 2. Ecſod. 13. 11. hyd ddiwedd yr 16 wers. — 3. Deut. 6. 4. hyd ddiwedd 9 gwers.—4. Deut. 11. 13. hyd ddiwedd yr 21. wers.—

Eu. Pa fath oedd yr ymyl-wiſgoedd yma?

Ap. Mae y rhai yn cael eu gorchymyn i holl Iſrael yn Deut. 22. 12. ac yr oedd ein Iachawdwr eu hun yn eu gwiſgo. Luc 8. 44. ond yr hyn oedd yn cael ei geryddu yn y Phariſeaid oedd, eu bod hwy yn eu gwneud yn llydain, ac yn helaethach nag yr oedd y ddeddf yn gorchymyn, er mwyn ymddangos yn fawr, ac yn dduwiolach nag eraill: — ac yr oedd rhai er mwyn cadw y gorchymyn yn well mewn cof, yr hyn oedd prif ddiben y ffringe, neu y lâs hyn wrth ordrau'r gwiſgoedd Num. 15. yn dodi drain yn y plethau hyn, i'w pigo yn waſtad wrth eiſtedd a ſefyll fel nad anghofient byth o gyfraith Dduw.

Eu.

Eu. Onid oedd yn eu traddodiadau ryw fath o lwon ag mae'n Iachawdwr yn eu condemnio, pan yw yn dywedyd, Math. 10. am dyngu i aur y deml, &c?

Ap. Yr oedd eu llwon fel pethau eraill yn gyfeiliornus; yr oedd ganthynt lw i Jeruſalem; arall i'r deml; arall i'r allor; arall i aur y deml; ac arall i'r rhodd, neu'r aberth ar yr allor; yr hon gyfenwid Corban: end pob un o'r llwon hyn ellid dorri wrth rym angenrheidrwydd, ond yr olaf hyn, yr hyn nid oedd lle i'w dorri er dim; fel pe buaſai un yn tyngu trwy y llw hyn yn fyrbwyll, na wnai ddaioni i'w dad a 'i fam; nid oedd iddo wneud daioni iddynt fyth mwy ar un cyfrif, er fod gorchymyn Duw yn wrthwyneb, yn dyweud anrhydedda dy dad a 'th fam, &c.

Eu. Pa fath oedd daliadau'r Saduceaid?

Ap. Yr oeddent yn gwadu pob traddodiadau, pa ryw bynnag; ac yn glynu yn unig wrth y gair 'ſcrifenedig; ond yr oeddent yn gwadu adgyfodiad y meirw, ac angylion, ac yſprydion, ac eneidiau dynion, a phob bod, a pharhad mewn byd arall: yr oeddent yn haeru mai Duw oedd yr unig Yſpryd, a'i fod yn gworwyo, ac yn coſbi dynolryw yn y byd hwn yn unig, ac nad oedd dim i'w obeithio na'i ofni tu draw i'r bedd; yr hon egwyddor oedd yn gwneud y ſect hon yn blaid o ddynion digrefydd a drwg.

Eu. Pa beth oedd rheol eu bywyd?

Ap. Yr oeddent heblaw gwrthod traddodiadau, yn gwrthod hefyd holl yſcrifenedig air Duw, ond yn unig pump llyfr Moſes; canys nid yw athrawiaeth cyflwr dyn mewn byd arall ddim mor eglur yno a rhannau eraill o'r yſgrythur lân; am hynny nid yw ein Iachawdwr yn gwrthddadlu a hwy o'r Salmau, na'r prophwydi, ond o ddeddf Moſes pan mae ef yn profi'r adgyſodiad,

Eu. A barhaodd y ſect hon yn hir?

Ap. Er fod yr holl bobl gyffredin â'r parch mwyaf i'r Phariſeaid, etto y rhan fwyaf o rhai cyfoethoccaf yn eu plith a gwympodd i ſect y Saduceaid, tros amryw genhedlaethau; ond fe'u torrwyd hwynt oll ymaith yn ninyſtr Jeruſalem; ac nid y'm ni'n cael dim ſon am danynt fel ſect tros amryw oeſoedd wed'yn; hyd nes eu henw gael ei adfywio, a'i gymhwyſo at y Cariaid, mewn ffordd o ddirmyg.

Eu. Pwy ydoedd y Cariaid hyn?

Ap. Sect lawer gwell ymhlith yr Iuddewon, y rhai yn y chwech canfed flynedd ar ol Criſt, a ddechreuaſant gymmeryd eu tramgwyddo yn anghyffredin gan ſtoriau anghredadwy, a gwag ddych'mygion y Talmud, yr hwn a gyhoeddwyd y pryd hyn ynghyd a'r agoriadau dirgelaidd a dieithr ag oedd rhai ô'r Iuddewon yn eu dodi ar yr Yſgrythurau; fel y darfu iddynt rwymo eu hunain yn unig wrth air Duw yn yr Yſgrythurau, yr hon yn Iaith Babilon elwid Cara; a chan mwyaf maent yn boddloni eu hunain â'r yſtyr lythrennol o honi. Mae'n hwy rai prydiau, ond gydâ llawer o gam yn cael eu galw yn Saduceaid gan Iuddewon y Talmud.

Eu. Ymha le y mae y Cariaid hyn yn cyfanneddu fwyaf?

Ap. Nid oes nemawr o honynt yn y rhan orllewinol hyn o'r byd, ond y maent gan mwyaf yn Poland ac ymhlith y Crim Tartars; ychydig hefyd ſydd yn-yr Aipht, ac yn Perſia: ond y maent yn cael eu cyfrif yn ddynion o'r ddyſg orau ac o'r goneſtrwydd, a rhinwedd fwyaf ymhlith yr Iuddewon; ac y mae i ddal ſylw arno, eu bod yn cyflawnu eu haddoliad cyhoedd yn Iaith y wlad y b'ont yn trigo ynddi.

Eu. Pa fath oedd yr Eſſeniaid?

Ap. Mae'n debyg eu bod o'r dechreu o'r un

ſect

ſect a'r Phariſeaid; ond hwy oſodaſant i fynu am fywyd mwy manwl a phur; f'allai mwy diargyhoedd: yr oeddent yn cytuno mor belled a'r Saduceaid ſel nad oeddent yn addef nac yn diſgwyl adgyfodiad y cyrph; ond yr oeddent yn credu bywyd i ddyfod o ddedwyddwch neu drueni tragwyddol ar ol eu hymddygiad yn y byd hwn. Mae'n debyg eu bod wedi trefnu eu hunain yn gymdeithaſau a brawdoliaethau, ac nad oeddent yn pennodi dim meddiannau tymmorol yn eiddynt eu hunain; ond yn y ſtor gyffredin i faentumio pawb. Yr oeddent mewn modd neillduol yn grefyddol tu ag at Dduw ar y Sabbathau, ac yn eu dyledſwyddau beunyddiol; ac yn rhyfeddol gymwynaſgar a charedig i ddynion. Nid oeddent yn gwahardd priodi, ond etto yr oeddent yn myned i'r cyflwr hwnnw yn llai cynnefin, a chydâ llawer o garc a gocheliad; ac yn lle plant o eiddynt eu hunain hwy fagent i fynu blant tlodion yn eu ſect eu hunain. Yr oeddent yn hunan-ymwadol iawn o ran eu bwydydd, a'u gwiſgiadau oeddent ddillad gwynion cyffredin. Rheolau eu bywyd ſy'n cael yn helaeth eu deſcrifio i ni gan Joſephus, Philo yr Iuddew, Pliny, Scaliger, a rhai o hen deidau yr eglwys griſt'nogol.

Eu. Agorwch ragor am eu daliadau a chyffredinolrwydd eu meddiannau a phethau eraill.

Ap. Agos iawn oeddent i'r Pythagoreaid; nid oedd un yn dlottach, nag yn gyfoethoccach na'u gilydd yn eu plith; canys un tryſor oedd ganthynt, ac o'r tryſor cyffredin hwn, y byddai pob un yn cymmeryd ei angenrheidiau ei hun, ac yn cyfrannu i angenrheidiau eraill: yn unig ni's gallent gynnorthwyo neb o'u perth'naſau heb gydſeiniad y golygwyr. Nid oeddent yn prynu nag yn gwerthu yn eu plith eu hunain, ond pob un yn cyflawnu angenrheidiau trwy fath o gyf-

newid meddiannau: rhydd-did oedd hefyd i un gymmeryd oddi wrth arall yr hyn fyddai eiſiau arno, heb gyfnewid. Yr oeddent yn gwaſanaethu eu gilydd ar gylch, canys meiſtrolaeth, a gwaſanaeth ni chydſafent a chymmundeb meddiannau: nid oeddent yn cymmeryd dim i'r daith ond arf ymddiffyn; canys i bwy bynnag dref neu ddinas y doent iddi, hwy aent at y brawdoliaeth, ac yno y caent eu hangenrheidiau fel aelodau o'r un rhyw; canys Eſſeniaid pob dinas oedd yn ymrwymo eu hunain yn un gymdeithas; a phob cymdeithas oedd a dau fath o olygwyr; yn gyntaf tryſorwyr, ag oedd yn edrych am y tryſor cyffredin; parottoi lluniaeth, a goſod i bob un ei orchwylion; ac yn ail y rhai oedd i dderbyn y dieithriaid a'u hymgeleddu; yr oedd y ſect hon yn gwahardd pob rhyw bleſerau, eu dillad oedd wynion, a phan y dodent wiſg am danynt, ni's dihatrent hi nes ei threulio; ni fynnent wneud un llw hefyd; a chymmaint o barch oedd ganthynt i'w blaenoriaid, fel nad oedd un o honynt gyffwrdd ag un oedd îs radd; a phe buaſai, ſe debygſai ei fod wedi ei halogi, fel pe cyffyrddaſai ag un o'r cenhedloedd. Eu diod hwynt oedd y dwfr gloyw, ac ni phrofent win; hwy ddanfonent roddion i'r deml ond nid aberthent; ond a gyfrifent y dwfr ſanctaidd o flaen yr ebyrth; o ba achos yr Iuddewon eraill a waharddent un dyfodfa i'r deml iddynt. Yr oeddent yn dal fod y cwbl o arfaeth, a rhagderfyniad gyda'r Pythagoriaid; nid oedd neb yn cael llawn ddyfodfa i mewn attynt heb flwyddyn o brofiad arno: ac nid oedd i un lafaru heb gennad y lleill oll; fel os eiſteddai deg wrth y bwrdd, rhaid oedd cael cennad gan y naw cyn llafaru. Fe dd'wedir eu bod yn troi eu hwynebau at yr haul yn eu haddoliad a'u bod yn gwneud rhyw fath o addoliad i angylion, ac yn cadw pob ſeithfed wythnos yn llawn wŷl y Pentecoſt.

Eu. Pa fodd nad oes ſon am y ſect hon yn y Teſtament Newydd?

Ap. Rhai feddyliant nad oeddent yn dyfod i ddinaſoedd ond anfynych, ond yn arwain bywyd hunan-ymwadol, ac yn byw gan mwyaf yn y wlad; ac nad oeddent yn dyfod tan olwg Criſt, i gael lle i'w hargyoeddi hwy; er mae'n rhaid addef fod eu anghrediniaeth o adgyfodiad y corph; eu gwaith yn peidio bod yn breſenol yngwaſanaeth y deml; eu golchiadau traddodiadol; eu purediagaethau, a'u dychymmygion eu hunain; eu gwaharddiadau creulon a diles oddi wrth amryw fwydydd; ac amryw arferion coel grefyddol eraill o Ewyllys grefydd, all'ſai roi achos cyfiawn i'n Iachawdwr i roi cerydd iddynt, pe buaſent yn dyfod ar ei ffordd; neu f'allai eu bod yn cael eu ceryddu tan yr enw cyffredin o Phariſeaid, pan mae'n ſon am y traddodiadiau ymha rai yr oeddent yn cyttuno; ac y mae amryw bethau yn cael eu condemnio yn Epiſtolau Paul ag oedd yn cael eu dyſgu yn yſgol yr Eſſeniaid. 1 Tim. v. 23, a iv. 3, yn enwedig, Col. ii. 16, 18, 20, 21. lle dywed gwers 18. *na thwylled neb chwi am eich gwobr, wrth ei ewyllys grefydd mewn goſtyngeiddrwydd, ac addoliad angylion, gan ruthro i bethau ni's gwelodd.* —*Pa ham yr ydych yn ymroi i ordinhadau?* gwers 20. *ac na chyffwrdd na archwaetha, ac na theimla*; nid oedd i wyr ieuainge yr Eſſeniaid i gyffwrdd â'r henafgwyr, na bwytta, ond bara a halen, a dwfr a hyſop; a hyn oedd ddoethineb: —a'r Apoſtol a'i geilw yn rhith ddoethineb; a lle galwent hwy eu crefydd yn Philoſophi a dderbyniaſant oddi wrth eu teidau; yntau a'i galw hi yn wag dwyll.

Eu. Ond pa fath ſect oedd yr Herodianiaid?

Ap. Ni dechreuodd y ſect hon cyn dyddiau Herod fawr Brenhin Judea: ac eglur fod ganthynt ddaliadau neillduol a drwg cyſtal a'r ſectau eraill; o ran i Griſt rybuddio ei ddyſcyblion yn erbyn lef-

Phariſeaid, a Herod. Yn wir yr oeddent yn gwrthwynebu y Phariſeaid, a hynny yn gyfiawn mewn un pwngc; canys prin yr oedd y Phariſeaid yn meddwl ei fod yn gyfreithlon i dalu teyrnged yn union gyrch i'r cenhedloedd, er bod ganthynt yr awdurdod frenhinol, yn enwedig i Cæſar yn y dyddiau hynny: ond eu cyfeiliornad neillduol, yr hon mae'n Harglwydd Ieſu yn ei alw lefain arno mae'n debygol oedd hon; ſef eu bod yn barnu fod yn gyfreithlon pan y b'o un yn cael ei gymmell, gan oruwchlywiawdwyr, i gydſynied ag eulun-addoliaeth a gau grefydd. Mae yn debyg i Herod godi y ſect hon yn bwrpaſol i gyfiawnhau ei hun yn yr arfer hyn; yr hwn oedd Idumead o genedl, o'r naill ran yn Iuddew, a'r llall yn un o'r cenhedloedd; ac yn caru cydffurfiad â'r cenhedloedd mewn rhai pethau i foddloni Cæſar yr hwn a'i gwnaeth ef yn frenin; tra ar yr un pryd yr oedd yn proffeſſu'r grefydd Iuddewig. Fe ddaeth y Saduceaid i'r farn hon; a'r un rhai ag elwir Herodianiaid, Marc viii. 15. elwir Saduceaid yn Math. 16. 6. ond fe ddarſu y ſect hon yn fuan, canys ni's clywir ſon am danynt ar ol dyddiau ein Iachawdwr.

Eu. Rhowch i mi hanes yr Iuddewon yn fyr oddi yma hyd ddyddiau'n Iachawdwr.

Ap. Hyd nes i Pompey ddyfod i mewn, ac ennill Jeruſalem, yr oedd yr awdurdod gwladaidd ac eglwyſig yn llaw yr archoffeiriad; ac Ariſtobulus mab Hircanus ddododd gyntaf y Goron freiniol ar ei ben; a rhai o'r Maccabeaid oedd er's 120 mlynedd yn llywodraethu, ac yn archoffeiriaid; er eu bod yn awr a phryd arall tan deyrnged i dywyſogion Paganaidd: hwynt hwy o dad i fab, oeddent ddynion gwrol iawn a phawb yn ffyddlon iddynt; nes cododd Ariſtobulus ragdd'wededig, yr hwn a drodd yn ddyn drwg iawn, ac a laddodd ei fam ei hun, rhag ofn iddi ofyn

hawl

hawl i'r llywodraeth; fe garcharodd ei frodyr, gorchfygodd yr Itureaid, ac a'u cymhellodd i enwaedu arnynt, fe laddodd ei frawd anwylaf, ac yna bu farw ei hun tan ddychryniadau mawrion cydwybod, ac Alecſander ei frawd a deyrnaſodd yn ei le ef, yr hwn yntef a dynnodd gaſineb eithaf yr Iuddewon, ac a dynnodd hefyd yn ei erbyn Lathirus brenhin yr Aipht, yr hwn a laddodd o'i wir ef mewn brwydr ar lan yr Iorddonen 30,000; ac nid oedd ond y llid eithaf rhwng Alecſander a'r Phariſeaid, am ei fod ef yn dal yn ddigoll at reolau ei dad, y rhai oedd yn gyfangwbl yn erbyn llywodraeth a thraddodiadau'r Phariſeaid, fel y byddent yn cynhyrfu'r bobl i'w guro ef ag afalau pudron, gan ei alw ar bob enw dirmygus yn yr amſer y byddai yn gweini yr offeiriadaeth wrth yr allor; y fath grefydd oedd yn awr yn Jeruſalem; ac yntau i ymddial arnynt, a laddodd 6000 o honynr yn union, ac a ddewiſodd geidwaid o'r cenhedloedd, heb allu ymddiried i'r Iuddewon mwyach, ac o'r diwedd hi dorrodd allan yn rhyfel gartrefol rhyngthynt, yr hwn a barhaodd 6 mlynedd, ac a barodd nes lladd 50,000 o'r Iuddewon.

Ex, Ond pa fodd y diweddodd yr ymrafael ofnadwy hwn yn Iſrael?

Ap. Pan oedd Alecſander yn foddlon gwneud heddwch, gan anfon at y Phariſeaid, a gofyn pa delerau fynnent, attebaſant mai iddo ef ei hun dorri corn ei geg; ac yna y rhyfel aeth ymlaen, a lladdwyd llawer iawn bob ochr, ond ar ol iddo dorri lawr y rhan fwyaf o'i elynion, fe yrrodd y lleill i Ddinas Bethany, ac a warchaeodd arnynt yno; ac wedi cymmeryd y lle, fe ddygodd 800 o honynt i Jeruſalem, ac a'u croeſhoelliodd hwynt yno mewn un dydd; a'u gwragedd a'u plant i'w lladd o flaen eu hwynebau, tra faent yn hongian ar y pren. A thyma'r

drych

drych oedd ganddo i bleſeru ei wragedd mewn gwledd a wnaeth ef yno iddynt: hyn a ofnodd yr Iuddewon mor fawr, fel na's darfu iddynt godi byth mwy yn ei erbyn ef, ac er bod gantho ddau fab, Hircanus, ac Ariſtobulus, fe roddodd y frenhiniaeth i'w wraig Alecſandria, ac a'i cynghorodd hi wrth farw, am gelu ei farwolaeth ef, hyd oni's ennillai gaſtell tu hwnt i'r Iorddonen, wrth warchae ar ba un y bu ef farw, ac yna arwain ei byddin i Jeruſalem mewn gorfoledd, a gwneud ei chais at y Phariſeaid, a thraddodi i fynu iddynt ei gorph ef i'w pleſſer hwy, i'w ddiſtyru neu ei gladdu fel y gwelent fod yn dda; ac addef iddynt y dilynai hi eu cynghor hwynt yn holl achoſion y llywodraeth; ac fe gadarnhaodd iddi, mai hwynt oedd y gorau o ffryns, a'r gwaethaf o elynion; ac os byddai hi ond cymmeryd eu rheoli ganthynt hwy, y gwnaent hwy hi i reoli ar eraill, a hyn oll a ddigwyddodd ar ol ei air ef. Hwy a'i claddaſant ef yn anrhydeddus, hithau deyrnaſodd, ac a ddiddyfnodd gyfreithiau ei gwr, ac a gadarnhaodd gyfreithiau, a thraddodiadau 'r Phariſeaid, ac a wnaeth ei mab hynaf Hircanus yn archoffeiriad, ac a lywodraethodd yn llwyddiannus ar ol cyfarwyddiad y Phariſeaid; ac a roddodd y deyrnas ar ol ei marwolaeth i Hircanus, yr hwn gafodd ei ddwyn i fynu tan ei golygiaeth hwy. Ond Ariſtobulus ei frawd yn deall fod y bobl yn gyffredin wedi blino gan lywodraeth orthrymmus y Phariſeaid, a gododd fyddin yn erbyn ei frawd, ac a'i taflodd ef allan o'i frenhiniaeth, a'r archoffeiriadaeth: ond tiwy gymmorth Aretas brenhin Arabia, fe ennillodd ar Ariſtobulus, a chafodd ei frenhiniaeth yn ol, ond yn y gwrthryfel creulon hyn rhwng y ddau frawd, hwn weithiau, o'r llall weithiau yn ennill, darfu iddynt oſod eu hachos o flaen Pompey blaenor y fyddin Rufeinaidd, yr

hwn

hwn oedd yn awr yn Damaſcus, yr hwn ni roddodd iddynt un atteb yn union, ond a warchaeodd ei hunan ar Jeruſalem, a thrwy gymmorth Hircanus a warchaeodd hefyd ar gaſtell Baris, ac a'i hennillodd hwynt mewn tri mis; ac fel hyn daeth yr Iuddewon gyntaf tan awdurdod y Rhufeiniaid.

Eu. Pa fodd y daeth Pompey i orchfygu lle mor gadarn cyn gynted?

Ap. Er fod yr Iuddewon er dyddiau cyntaf y Maccabeaid, wedi eu dyſgu i amddiffyn eu hunain ar ddydd Sabbath, etto am nad oeddent yn cael goſod arnynt yn weithredol, hwy a oddefaſant y Rhufeiniaid i oſod i fynu eu hengins ar ddydd Sabbath, heb eu hattal; a pha rai cymmerwyd y deml, a'r twr, yr hyn oedd ar ddydd o ympryd o goffadwriaeth am ei chymmeryd hi gan Nebuchodonoſor; ac yr oedd i ddal ſylw arno, fod yr offeiriaid wrth yr allor yn parhau yn eu haddoliad, ac yn dwyn yn y blaen waſanaeth yr allor, nes iddynt gael eu lladd gan eu gelynion; ac nid llai laddwyd yn y deml gan filwyr Pompey a gwyr Hircanus, na 12 mil, ond pan aeth Pompey i mewn i'r deml, ni's cwrddodd ef a'r lleſtri ſanctaidd, na'r ddwy fil o dalentau aur oedd yno, ynghadw at achoſion ſanctaidd, ond fe barodd i'r deml gael ei glanhau, ac aberthau gael eu hoffrymmu yn ol eu cyfreithiau eu hunain, ac a oſododd Hircanus yn llywodraethwr, ac yn archoffeiriad, ond tan dreth i'r Rhufeiniaid; ymhen tro eilwaith y daeth Herod i deyrnaſu tan Rufain ar yr Iuddewon; ac efe oedd frenhin yno, pan y ganwyd Criſt ‡ A'r Herod

‡ Yr Herod hwn oedd un o'r dynion rhyfedda a glywyd ſon am dano; canys anodd ydoedd cael ei waeth mewn mwrddrad, twyll, cenfigen, dichell, a malais; etto fe wnai

Herod hwn oedd ddyn drwg, a chwannog iawn i waed, a'i greulondeb ddangoſir yn y Teſtament Newydd,

---

wnai rai pethau rhyfedd dda i'r Iuddewon, er mwyn ennill eu gair da a'u ffafr; ſe ddyrchafodd ei hun trwy ryw foddion i rwyſg fawr iawn, a golud anghyffredin. Trwy lawer o waed y daeth ef i'r frenhiniaeth, ac nid trwy lai y cadarnhaodd ef ei hun, canys ſe laddodd holl aelodau'r Sanhedrim ond dau, am wrthod ei dderbyn ef yn frenhin yn lle Antigonus; ſe wnaeth i Ariſtobulus yr hwn a oſododd ef yn archoffeiriad yn 17 oed, er mwyn Mariamne ei wraig gael ei foddi, tan gymmeryd arno ei drochi: ſe laddodd Hircanus yn 80 oed, am ei fod o dylwyth y Maccabeaid rhag iddo ryw bryd gynnyg am y llywodraeth: ac o'r tu arall, yn amſer daeargryn yn Judea, (ag a laddodd ddeng mil ar hugain o'r Iuddewon) ſe fu haelionus iawn i'r genedl honno. Mor eiddigeddus oedd eſe rhag i neb feddiannu y fath degwch a Mariamne ei wraig ar ol ei farwolaeth, a rhag bod un gwarged o deulu 'r Maccabeaid i attal ei etifeddion ef i deyrnas Judea, ſel y darfu iddo roi gorchymyn dirgel i rai o'i ffryns, i roi ei anwyl wraig a'i mam i farwolaeth, pan gyntaf byddai eſe ei hun marw; ac o'r achos hyn, ynghyd a bod ei wraig yn ei ſino ef yn fynych am y bwriad hyn yn erbyn ei bywyd hi, a bywyd ei mam, a'r mwrddrad ar ei thylwyth, ei gariad, ei lid, a'i eiddigedd yntef, a'i blinodd, ac a'i dirdynnodd ef cymmaint, ynghyd a deniadau ei ſam, a'i chwaer Salome, ſel y dododd ei anwylaf wraig i farwolaeth, tan gymmeryd arno ei bod hi am gymmeryd ymaith ei fywyd; a'r un modd y gwnaeth â'i mam, a than yr un rhith o achos; ac eilwaith hyn fu mor belled o eſmwythau arno, ſel y dychwelodd ei gariad gyd a grym mwy, a galar a blinder ynghyd a nwydau eraill a'i gwnaeth yn adyn mwy truenus, yn boen iddo ei hun, ac yn greulon i bawb o'i gwmpas; ſe oſodai y ſawl a fynnai yn yr archoffeiriadaeth, ac a'u tynnai hwy allan y pryd y mynnai, ſe gyfnewidiodd amryw bethau ynghyfraith yr Iuddewon, ac a oſododd i fynu chwaryddiaethau, ac ymdrechiadau rhwng bwyſſiſiod a drwg weithred-

weithredwyr, fel ymhlith y cenhedloedd; fe adeiladodd amryw dyrau o ſewn ac o faes i Jeruſalem, er diogelwch iddo ei hun, cyſtal ac er rhoi coffadwriaeth o'i enw; fe adeiladodd demlau yn amryw o ddinaſoedd Judea, ac a'u cyſſegrodd hwynt i Cæſar, ac rai prydiau fe oſtyngai yn y trethi er mwyn boddloni'r bobl; ond y peth mwya erioed a wnaeth ef tu ag at ennill ffafr yr Iuddewon a dyrcha ei enw ei hun, oedd adeiladu teml yr Arglwydd, yr hon oedd yn awr wedi aros er's 500 o flynyddoedd, ac wedi adfeilio, a'i gwella lawer gwaith, yr hon hefyd a dynnodd ef i'r llawr, ac adeiladodd un fwy ardderchog a gogoneddus; ac er mwyn cadarnhau i'r Iuddewon ei wir fwriad, ni's tynnodd ef yr hon i lawr, nes parottoi erbyn y newydd; yr hyn a wnaeth gyda llawer iawn o draul mewn dwy flynedd, trwy oſod deng mil o grefftwyr ar waith, mil o wagennau, a mil o offeiriaid i gyfarwyddo, y meini oedd 25 cufydd eu hŷd, 12 o led, ac wyth o uchder; y cyſſegr ſanctaidd a'r cyſſegr ſancteiddiolaf a orphennodd ef mewn blwyddyn a hanner; ac mewn wyth mlynedd eilwaith y gorphennodd bob un o'r muriau, y pilerau, y cynteddau, a'r galeriau; etto Herod, a rhai ar ei ol oedd yn adeiladu gweithiau o'i chwmpas, ynghyd â'i harddu o'i mewn, hyd at 46 mlynedd eilwaith, pan daeth ein Harglwydd Iesu i ŵyl y Paſg hwnnw, *Ioan* ii. 20. er i'r Herod hwn fod yn foddion i roi rhydd-did i'r Iuddewon ag oedd ar hyd Aſia leiaf, a thir Groeg yn cael eu gorthrymmu gan y trigolion eraill, i arferyd eu defodau a'u cyſreithiau eu hunain, fel y dioddefwyd iddynt o'r blaen gan frenhinoedd Syria a'r Rhufeiniaid, etto ei greulondeb fu cymmaint, fel y lladdodd ei ddau fab hynaf, a Mariamne, y rhai pan ddychwelaſant o Rufain a dangos anfoddlonrwydd am ladd ei mam, a ddaethant tan gafineb Salome ac fel ennynodd hi eiddigedd rhwng Herod a'r frenhines i'w lladd hi; felly yma, hi a'i gwnaeth ef yn ddryg-dybus am eu feibion, eu bod am ddwyn ymaith ei fywyd, a'r gynnen hyn, ac eiddigedd a barhaodd amryw flynyddau, a diheli:ion a ddyfeiſ-

wyd

Eu. Mae ſon am amryw o lywodraethwyr yn yr efengyl yn amſer ein Harglwydd Ieſu, ac fe dybygid mae Eppil Herod ydoedd y rhan fwyaf o rhai hyn.

Ap. Ei fab ef oedd Archelaus a deyrnaſodd ar ei ol ef yn nheyrnas Judea, a Samaria; ei fab ef hefyd oedd Herod Antipas tetrarch Gali-

---

wyd o bob ochr, a hyn a roddodd i Herod yn ei henaint aflonyddwch gwaſtadol, drwg dybiau, ac ofnau; ond Salome ei chwaer a ennillodd mor belled trwy ei dichell yn erbyn y ddau fab, fel ar ol amryw weithiau eu cyhuddo, a'u rhyddhau, hi o'r diwedd a'u mynnodd hwynt i'w dihenyddio wrth orchymyn Herod; a chydſyniad Auguſtus Cæſar. Hyn oedd flwyddyn neu ddwy, cyn genedigaeth ein Hiachawdwr Criſt. Dyma'r Herod hefyd a laddodd holl blant Bethlehem fel y byddai ſicr o ladd Criſt; a'i hiliogaeth ef ei hun, fod yn fiwr o'r frenhiniaeth: ond Antipater y mab hwnnw ag oedd ef yn arfaethu i'r frenhiniaeth, ac fe yn annogaeth iddo ladd plant Bethlehem, a gafwyd ei fod am wenwyno ei dad Herod, ac o'r diwedd gafodd barn marwolaeth fel y lleill, ac a gadarnhawyd gan Cæſar, ac a ddihenyddiwyd trwy lawn gydſyniad ei dad; ond ymhen pump diwrnod eilwaith: bu farw Herod ei hun, trwy amryw o gyſtuddiau greſynol ac alaethus; ond wrth ei farw y gwnaeth ef un o'r dichellion mwyaf o'i holl fywyd, ſef am ei fod yn gwybod na fyddai ddim galar ar ei ol ef gan yr Iuddewon, ond yn hytrach llawenydd pan byddai farw, am hynny fe ddyfeiſiodd y project mwyaf creulon a ddychymmygodd dyn erioed; ſef, fe alwodd am holl bennaethiaid yr Iuddewon tan boen marwolaeth i ddyfod i Jerico, o'i flaen ef, yr hwn le yr oedd ef y pryd hynny yn glaf, pan y daethant fe'i cauodd hwynt i fynu yn y carchar, ac fe dyngodd ei chwaer Salome a'i gwr i yrru i mewn filwyr mor gynted ag y byddai ef marw, a'u lladd hwynt oll â'r cleddyf; canys hyn, ebe fe, a wna alarwyr am fy nghladdedigaeth tros yr holl dir; ond er cynddrwg oedd Salome, gwell oedd ganthi dorri ei llw na gwneud y fath yſgelerder, am hynny hi gollyngodd hwynt yn rhydd.

lea;

lea; hwn a dorrodd ben Ioan fedyddiwr: Philip hefyd llywodraethwr Iturea a Thrachonitis, yng-hyd a Herod Philip a briododd ei nith ei hun Herodias, ac ynnillodd merch o honi, Salome, yr hon a ddawnſiodd yn dda; ond yr Herodias yma eilwaith a'i gadawodd ef, i briodi Herod Antipas ei frawd, am ba achos y ceryddodd Ioan fedyddiwr ef, Luc iii. 19.

PEN. II.

Euſebius:

PA fodd y digwyddodd i'r Iuddewon ar ol marwolaeth ein Iachawdwr? pa ddull oedd eu crefydd? a pha fodd y gwaſgarwyd hwynt fel y maent yn awr?

Ap. Er i lawer iawn, etto nemawr mewn cydmariaeth i'r lleill dderbyn y grefydd griſt-'nogol, ond erlidiaſant yr Apoſtolion, a dyſcyblion ein Harglwydd Ieſu, nes o'r diwedd i'r farn eu gorddiwes hyd yr eithaf, canys ar ol cyflawnu i fynu feſſur eu hanwiredd, darfu iddynt ryfela yn erbyn y Rhufeiniaid, wedi bod tan eu llywodraeth hwynt gant o flynyddau, y rhai ddaeth a byddin anrhaethol o wyr i'w herbyn, y rhai ddeſtrywiodd eu teml a'i dinas i'r llawr, ar ol prophwydoliaeth ein Harglwydd Criſt Math. 24. Luc 21. fel y difethwyd trwy'r cleddyf, newyn, haint, boddi a lloſgi, nid llai nag un cant ar ddeg o filoedd; (1100,000) a'r lleill o'u cenedl a waſgarwyd ar hyd wyneb y ddaear fel na wyddis yn iawn pa wlad y maent fwyaf ‡ yn crwydro ynddi hyd heddyw: a hwy a gant

‡ Am fod cymmaint ſon gan bawb agos am ddinyſtr Jeruſalem, a'i fod yn cael prophwydo am dano gan ein Iachawdwr Criſt, fel un o'r cyfyngderau mwyaf o ddechreuad y byd i'w ddiwedd; ac mor ofnadwy fel y mae megis emblem gymmwys o ymddattodiad *pob peth*;

gant aros fel hyn, tan anghrediniaeth, nes delo cyflawnder y cenhedloedd i mewn, a holl Iſrael i fod yn gadwedig. *Eu.*

---

ac na's gwyddir am lawer gwers yn y 24 o Math. ar 21 o Luc; pa un mae'n Harglwydd yn ei feddwl, ai diwedd y byd, neu ddinyſtr y genedl Iuddewig rhof hanes byr o hono. — Y gwrthryfel hyn a ddechreuodd yn amſer Nero Cæſar, pan ddarfu iddo ddanfon rhodd i Jeruſalem, a dymuno ar yr Iuddewon fod yn ufudd iddo fel i'r ymerawdwyr o'i flaen; y rhodd oedd tarw i'w boethoffrymmu, a choron o aur ar ei ben, ei gyrn wedi eu gorchuddio ag aur, a gwiſg o borphor wedi ei brithio a meini gwerthfawr am dano; gwyr yn cerdded o'i flaen, yn dwyn talent o aur, ac amryw iawn o ddefaid ar ei ol yn aberth hedd: ond Eleazar yr archoffeiriad, a daflodd allan o'r deml rodd Nero; a laddodd hefyd lawer o wyr Rhufain; ag oedd yn cadw gwyliadwriaeth yn Jeruſalem, ac a gododd yn erbyn y brenhin Agrippa, ac a geiſiodd ei ladd yntef; ond efe a ddihangodd i Rufain, lle gwnaeth achwyn ar yr Iuddewon am eu gwrthryfel, fel y danfonodd *Nero*, *Caſſius* gydag *Agrippa*, a byddin fawr iawn yn erbyn Juda a Jeruſalem; lle lladdwyd llawer o'r Iuddewon, ac a ganlynwyd y llaill hyd furiau 'r ddinas ſanctaidd, ac a warchaewyd arni dri diwrnod: ond y pedwarydd dydd y daeth yr offeiriaid a'r bobl yn ddiſymmwth ar ben y Rhufeiniaid ac a laddaſant bump mil o wyr traed a mil o wyr meirch, nes gorfod ar *Agrippa* a *Chaſſius* fyned drachefn i Rufain i ſynegu hyn i *Nero*; yr hwn a ddanfonodd *Veſpaſian* tywyſog ei lu, a Thitus ei fab a byddin fawr iawn yn erbyn Juda, a Jeruſalem drachefn, a'r Iuddewon hwythau oſodaſant Joſeph Ben Gorion, yr hwn ſcrifennodd hanes rhyfel yr Iuddewon wedi hynny, ac Anani yr archoffeiriad ynghyd ac Eleazar ei fab, yn ben ar fyddin o 60000 o wyr; a rhwng y rhai'n a Rhufeiniaid bu deſtryw reſynnus ar hyd Judea a Galilea, *ond dechreu gofydiau oedd hyn oll:* canys oddiyma allan yr aeth pethau waeth waeth; a byddin Veſpaſian a gynnyddodd yn ddirfawr; canys daeth gwyr cedyrn atti, o Meſopotamia, Aſſyria, Sinar, Perſia, Caldea, Macedonia, a llawer o wledydd y dwyrain; Miz'aim,

Eu. Pa fath grefydd ſydd gan yr Iuddewon yn awr yn y gwledydd lle maent? *Ap.*

Mizraim, Lod, Denan, Seba, ynghyd a'r holl ardaloedd pell ac agos ag oedd tan lywodraeth Rhufain; a'r Iuddewon hwythau o amrywiol drefydd a dinaſoedd a daflaſant y lau oddiar eu gyddfau ac a ryſelaſant o ochr Veſpaſian. Ac ar ol ymladdfau creulon a thywallt gwaed heb feſſur o bob ochr ar hyd Judea a Galilea Joſephus a gauodd ei hun i fynu yn ninas Jorpate y fwyaf o holl Galilea. Ar ol i'r Rhufeiniaid geiſio trwy deg gan yr Iuddewon ufuddhau; Joſephus a anfonodd at yr henuriaid i Jeruaſlem i wybod beth i wneud yn yr achos; a hwythau oedd mor gyndyn a chreulon na's goddefent heddwch, nes i'r Rhufeiniaid guro'r murriau i lawr a deſtriwio'r cwbl; oddieithr Joſephus â 40 wyr, a ffodd i ogof, ac a ſafiaſant eu bywyd; yna gan ei fod ef yn gweled na thalai ddim, fe roddodd ei hun yn gaethwas i Veſpaſian. Am Ieruſalem yr amſer hyn, yr Iuddewon oedd yno wedi gwrthryſela yn erbyn eu gilydd, ac wedi tywallt gwaed yn aruthr, cyn i Veſpaſian ddyfod yn agos iddi; canys *Jehochanaan Galilead*, oedd wedi ffoi yno, ac wedi gwneud party cryf o'i ochr, o ladron, llofruddion, twyllwyr, a phobl ddrygionus, y rhai a wrthſefodd *Anani* yr archoffeiriad; ac a gymmerodd y dinaſoedd oddiamgylch Jeruſalem; a dinas *Gerara* tu hwnt i'r Iorddonen; ymha gyſyngder, y danſonodd yr offeiriaid, yr henuriaid, a thrigolion *Gerara*, Genhadau at yr Rhufeiniaid, gan ddymuno arnynt i deyrnaſu arnynt hwy, rhag gorthrymder *Jehochanaan*; ac yna y daeth Veſpaſian i wared i Gerara, ac a wnaeth lladdfa fawr iawn ymhlith gwyr *Jehochanaan*; ond pan glywodd ef wrth ddychwelyd o ymlyd ar ol y rhai oedd yn ffoi i goed, fod lliaws o honynt yn myned at y gwrthryſelwyr i Jeruſalem, efe a laddodd dair mil ar ddeg o honynt, a'r lleill a neidiaſant i afon yr Iorddonen ac a foddaſant, hyd at bedwar ugain a deg o filoedd; gwyr, a gwragedd, a phlant, ynghyd a llawer iawn o anifeiliaid a foddaſant yn yr Iorddonen, fel ſtoppwyd yr afon gan y cyrph meirw, nes iddi eu dwyn hwynt i wared i fôr Sodom; llawer iawn wnaeth Veſpaſian o lanaſtra ym-

Ap. Mae eu crefydd heddyw yn hollol gyfeiliornus, eu llyfr pennaf yw y Talmud, wrth yr hwn mae eu rhodiad a'u haddoliad. *Eu.*

---

hlith yr Iuddewon ymhob man cyn gwarchae ar Jeruſalem, yr hon adawodd ef yn llonydd 3 blynedd a hanner nes oeddent wedi dîſa eu gilydd yn afreſymol; canys chwanegodd y gwrthryfel rhwng *Jehochanaan* ac un Schimeon yr hwn a gaſglodd atto ugain mil o ddynion drwg, diddeddf, a chynhenllyd; y ddau hyn, un yn Jeruſalem, a'r llall ar hyd gwledydd Judea, a gwlad Edom, a ddinyſtriaſant y tir o'u blaen, ac a laddaſant y bobl heb rifedi; canys nid llai na deugain mil o wyr oedd gyda Schimeon yn gwneud holl dir Iſrael fel maes o waed: y gwrthryfel yn 'chwanegu hefyd bob dydd yn Jeruſalem gan Jehochanaan, fel yr oedd yn dyſgu trigolion y ddinas i ladd eu cymmydogion, ac i orwedd gydâ eu gwragedd; y pyrth oedd wedi eu cae, fel nad oedd neb i fyned allan; ac os ai fe'i lleddid gan Schimeon, a rhai o'mewn os d'wedent air yn erbyn yr hyn a wneud, hwynthau leddid; a'r dinaſyddion pan wel'ſant greulondeb Jehochanaan, tu hwnt i bob meſur a ymgaſglaſant yn ei erbyn, ond hwy a laddwyd yn ofnadwy iawn, ac oni buaſai yr Edomiaid ddyfod, a chymmorth y dinaſyddion ni's buaſai ddyn byw ond oedd o blaid Jehochanaan: yna *Anani yr archoffeiriad* a'r henuriaid, a roddaſant y ddinas i Schimeon, yr hwn oedd yn dinyſtrio'r cwbl o tu ſaes i'r pyrth, tan obeithio 'nol gofod Schimeon yn frenhin byddai iddo ddinyſtrio Jehochanaan, ac achub y ddinas, ond pan y daeth, hi aeth yn waeth fyth; canys cytunodd y ddau orthrymwr hyn â'i gilydd, a gwnaethant beth y ſynnent, nes oedd y ddinas yn reſynol iawn ei chyflwr. Ac yn y cyſamſer yr aeth Veſpaſian i Rufain i'w goroni yn ymerawdwr, a Thitus a'i fyddin yn Alecſandria yn yr Aipht, ond anfonwyd Titus gyda Joſephus yr hwn oedd garcharor yn Rhufein i warchae ar Jeruſalem, lle yn awr yr oedd y gwrthryfel yn cynnyddu fwy fwy: y dinaſyddion yn lladd eu gilydd heb ddim gorphwys, na llonyddwch haf na gauaf; canys yr Arglwydd a'i meddwodd hwynt y ſwyddyn honno ag yſbryd ynfyd, lle yr oedd y bobl wedi rhannu yn dair rhan, yr orau a ddi-

a ddilynent yr archoffeiriad, yr hwn oedd ddyn da iawn; y llall Schimeon, yr olaf Jehochanaan; felly nid oedd, ond rhyfel yn Jeruſalem ac oddi allan iddi; y Rhufeiniaid hwythau wedi torri ffordd o Cæſarea i Jeruſalem ni allai neb fyned allan heb ſod mewn perygl o'i ladd, na neb o fewn heb ſod yr un fath. Yn awr Anani yr archoffeiriad a roddodd i fynu ei hawl i'w fab Eleazar, yr hwn oedd yr achos cyntaf o'r holl wrthryfel, trwy iddo godi llaw yn erbyn y Rhufeiniaid; ac yna Eleazar gymmerodd y deml, Jehochanaan y farchnadle, yr heolydd, a rhan iſſaf y ddinas, a Schimeon y rhan uchaf o'r dref, lle yr oedd ef yn niweidio Jehochanaan yn fawr a ffyntaflau, a chroes-fwau; a rhwng y tri hyn, yr oedd ymladdfau ofnadwy tros 4 diwrnod heb orphwys, a llawer yn cwympo bob dydd, fel yr oedd gwaed y lladdedigion yn rhedeg ar hyd pob goror i'r ddinas hyd yn oed i deml yr Arglwydd fel dyfroedd cawodydd mawrion; a'r cyrph yn gorchuddio eu gilydd, un ar y llall yn garnedd, heb neb i'w claddu. Y pryd hyn yr ymgaſglodd i'r deml, yr offeiriaid, a'r henuriaid, gan ddeiſyfu arnynt beidio halogi teml Duw a'u lladdfau, ond lladdwyd hwynt fwya gyd am ei daioni. Yn awr yr aberthau a beidiaſent er's 36 o ddiwrnodau aeth heibio ac a beidiaſant hyd heddyw; ond hyd yn hyn yr oedd rhyw offeiriaid da neu gilydd yn gwaſanaethu'r allor; ond yn awr pan gynnigai'r offeiriad roi aberth ar yr allor, fe redai rhai o'r gorthrymwyr hyn ymlaen, ac a'i lladdai hwynt, fel y byddai cyrph y dynion a'r anifeiliaid ynghyd yn gelaneddau meirwon: fel yr oedd cyrph yr offeiriaid, a'u haberthau, mor aml ar hyd y deml, ag yr oeddid yn eu damſian tan draed; ac anodd oedd cerdded y llawr marmor gan mor llithredig ydoedd, o ran y cyflawnder gwaed oedd arno; dynion da, a drwg; y goneſt, a'r lleidr; y glân, a'r aflan yn gymmyſg yn gorwedd tan draed y llofruddion: llaſgaſant hefyd deiau mawrion a theg o ddantu'r deml, ac hefyd un fil pedwar cant o dryſordai, ymha rai yr oedd gwin, olew, ac yd wedi ei roi i gadw erbyn amſer eiſiau; gymmaint medd, ant ag allaſai borthi dau cant o filoedd o bobl 20 mlyn-

Ap. Ceremoni y Tephilin, ſydd o ryfeddol barch ganthynt, yr hon ſydd yn cynnwys rhyw ddarnau

---

edd, wedi eu llenwi gan yr henuriaid yr amſer yr oedd Veſpaſian yn Galilea, rhag ofn iddo ddyfod i warchae ar y ddinas: ac arſwydus oedd gweled yn awr fel yr oedd y newyn, y tân, y pla, a'r cleddyf yn teyrnaſu ymhob cwr o Jeruſalem; ac hefyd torri lawr bob teiau teg, a hawddgar; fel pa ffordd bynnag y troi ddyn ei wyneb, nid oedd ond deſtryw a gorthrymder, gweiddfau a llefain, heb orphwyſfa na llonyddwch: dim cymmorth, na chyſur o un ty, ond pob cwr i'r ddinas yn llawn ochain, gan wragedd, a phlant ynghyd: yma byddai rhuadau gwyr wedi eu clwyfo heb ei lladd, accw ochneidiau a galarnad yr henuriaid, a phlant yn llefain am ymborth heb ei gael, yn fyr y fath lefain a gwae ag mai dedwydd yr hwn fuaſai farw cyn y dyddiau hyn: ond yn y cyfamſer daeth Veſpaſian ymlaen, ac yna y tri gorthrymwr hyn a wnaethant heddwch a'i gilydd, a hwy a roiſant ffwyl i'r Rhufeiniaid dair gwaith ol ynol yn yr un dydd, ond pan gynted gadawai y Rhufeiniaid lonydd iddynt, pe buaſai ond tros ychydig wythnoſau hwy wrthryfelent a'u gilydd, ag a wnaent lanaſtra ofnadwy; a Thitus amrywiol weithiau a g'nigodd iddynt ammodau heddwch gan anfon Joſephus i ymddiddan a hwynt yn eu hiaith eu hunain; ond ni chaſodd ond y cyndynrwydd mwyaf; hwy fyddent yn delo mor dwyllodrus, fel na phriſient lw nag addunedau a wnaent i'r Rhufeiniaid; ond mor ddichellgar a chyfrwys yn eu holl ffyrdd, ag oedd yn ennyn llid y Rhufeiniaid o newydd; ac un tro, pan fu Joſephus yn hir tros y Rhufeiniaid yn gwrth'adlu am iddynt ymoſtwng, nes iddo gael y cyffredin bobl o'i ochr gan mwyaf, ond y tri gorthrymwr hyn a gauaſant bob porth, nad oedd lle i'r un fyned allan o'r ddinas heb gael ei ladd; canys ceidwaid y pyrth oedd yn rhwym i ladd pob un geiſiau fyned allan; fel nad oedd lle i fyned i mewn nag i maes. Y fath newyn oedd yma yn awr, fel oedd y gorthrymwyr yn chwilio pob cell am ymborth; ac os neb a'i gwrthwynebai lladdent ef, nes o'r diwedd darfu lluniaeth yn y ddinas, fel yr oedd y bobl yn ceiſio

dom

ddarnau o femrwn, ar ba rai y mae rhai pennodau o bump llyfr Moſes, a'r darnau hyn o femrwn

---

dom i'w fwytta, a llawer ſu farw o newyn: pwy bynnag g'ai yn awr lyſiau, gwreiddau, llygod, ſeirph, neu ryw ymluſgiaid beth bynnag, i'w fwytta, a gyfrifid yn ddeddwydd: ac os yd a fyddai gan neb, ſe ofnid fyned ag ef i'w felina rhag ei gynmeryd ymaith gan y gorthrymwyr; a gorfyddai arnynt ei fwytta ef yn yd fych, yn ddiſtaw fel y gallent: amryw o gyfoethogion heddyw a ddygent ar ei gilydd luniaeth, y tad ar y mab, a'r mab ar y tad, y fam ar y plant, a'r plant ar y fam; ac os ai rhai allan tros y murriau at y Rhufeiniaid rhag y newyn; hwy leddid yno, gan dybied eu bod yn ddrwg ewyllyſwyr; hyn gynhyddodd y newyn, nes ca'dd pob peth ei ddifa o'r wadd i'r wenci, o'r llygod i'r amwydon, a'r cwbl a ymluſgai wyneb y ddaear. A phla echrydus a ganlynodd hyn; aneirif o bobl ſu farw, ac nid oedd neb a'i claddai; os anifail o ryw fath fyddai marw yn y ddinas, byddent yn ei gylch fel cigfrain yn caſglu at gelain, fel y lleddid llawer yn y fath ymrafel: yr Iuddewon a grogai eu gwyr eu hunain, ar y murriau os dalient neb yn myned at y Rhufeiniaid. Os gallent ddal neb o'r Rhufeiniaid, hwy wnaent 'run modd, darfu iddynt hongian ar eu murriau 500 o wyr Rhufain, a'r Rhufeiniaid a groeſhoeliaſant tu faes i'r pyrth gynifer o'u gwyr hwythau; lloſgaſant 44 o *Battering Rams* y Rhufeiniaid, ac a'i rhwyſtraſant dorri eu murriau i lawr, fel y gorfu ar Titus ddefeiſio adeiladu mur newydd gylch o gylch y ddinas i rwyſtro yr Iuddewon fyned i maes nag i mewn, a'i newynu yn y fan honno; yr hwn wnaed trwy rannu'r fyddin, a rhannu'r gwaith, er mwyn brys, a hwy a weithiaſant gyda'r fath awch, fel y gorphenwyd y mur meddant mewn tri diwrnod, yr hwn nid oedd ſawr lai na 5 milltir o hyd, ac adeiladwyd 13 o dyrau gylch cwympas iddo, i gadw gwylwyr mewn arfau tros nos i ddiſgwyl rhai yn ffoi allan o'r ddinas, nes rhoi yr Iuddewon i'r rádd eithaf o anobaith; newyn yn eſcubo ymaith deuluoedd cyfain ar un waith, ar teiau a lanwyd o gelaneddau benywod, a phlant, â hen ddynion yn gorwedd

yn

rwn wedi eu troi mewn darnau o ledr du, a'u rhwymo a charreion duon o ddautu'r llaw ddeheu,

---

yn ſeirw ynghonglau 'r heolydd; a'r gwyr ieuaingc yn rhodio'r ſtrydoedd fel ellyllon. Nid oedd yn awr yr un ſeremoni wrth gladdu'r marw, rhai ni's meddent nerth, eraill ni feddent 'wyllys i wneud cymmaint; rhai oedd yn marw wrth gladdu eraill, a rhai yn llefain am y bedd i gael lle i orphwys oddi wrth eu gofyd; ond yn nyſnder y trueni hyn, nid oedd nag och na chri i'w glywed o ran newyn a oſtegodd eu holl nwydau; ond ſefyll, ac edrych yn reſynol eu lliw, a'i llygaid ynghou eu pennau, ar y rhai fyddai marw wrth eu hochr: nid oedd yr holl ddinas yn awr ond un bedd o ddiſtawrwydd, a'r cyrph meirw yn cael eu cludo ar eu gilydd yn garnedd ar hyd y nos; a'r hyn oedd yn gwneud y trueni yn ſwy oedd creulondeb y lladron, y rhai a ruthrent i deiau, ac a ddihattrent y meirw, ac a wnaent eu hunain yn llawen o'i noethni hwy, gan wneud prawf o'u cleddyfau ar gyrph y rhai fyddai hanner marw; ond eu zel at y deml oedd fyth yn para, canys wrth farw, hwy fyddent yn cau eu llygaid tua'r deml, yn alar mwyaf ganthynt eu bod yn gadael y trueniaid hynny i fyw ag a'i halogodd hi fel hyn. Y drwg ſawr oedd erbyn hyn yn ofnadwy i feddwl am dano; am hynny penderfynwyd, pan nad oedd lle yn y ddinas, i'w taflu hwynt tros y murriau bendramwnwgl i geunentydd a phyllau, yr hon oedd olwg mor atgas, fel darfu i Titus wrth amgylchu'r lle, pan gwelodd y cloddiau wedi eu llanw o gelaneddau drewllyd, godi ei ddwylo tua'r nef, gan ddweud nad ydoedd un gronyn o'i bleſſer ef ei bod fel hyn; ond etto amrywiol aeth troſodd at y Rhufeiniaid, rhai yn cloddio tan y murriau, a rhai megis pe buaſent am erlid ar ol y Rhufeiniaid a cherrig, ond yn ol diangc yno, nid gwell y digwyddodd iddynt, canys pan gynta cawſant ymborth yn ol dioddef newyn yn hir, chwydaſant y bwyd i fynu, ac a fuant feirw; ond mae i ddal ſylw arno pan yr oedd y Rhufeiniaid yn chwilio am aur, cafwyd un o'r ffoaduriaid ymhlith y Syriaid oedd gyda Rhufeiniaid, ag aur wedi ei guddio yn ei ymyſgaroedd, ac wedi dyfod trwyddo, yr hyn oſododdd yr holl bobl i chwllio, ac fe gafwyd yn fuan

gyflawnder

heu, ac o ddautu'r pen, a'r gair hwn yn cael ei gyhoeddi wrth eu gwiſgo, " Bendigedig f'o Je-

" hofah

---

gyſtawnder mawr anrhaethol o aur, ac ar yr awgrym hwn y Syriaid a'r Arabiaid a rwygaſant ugain mil o ſoliau yn yr un nos, o gariad am aur, Mor erchyll oedd y lladdfa yn awr ar ddynion, ſel darfu i un Meneus yr hwn oedd a gofal un o byrth y ddinas arno, pan trodd ele at Titus, i roddi'r hanes hyn, ſef fyned o'r amſer y darfu iddo warchae ar Jeruſalem, hyd y pryd hynny trwy'r porth hwnnw, gant a phumtheg o filoedd a 24 o gyrph meirw, yr hyn (115024) oedd ef ei hun wedi ei rifo, o ran y comiſiwn a gafodd ef i'r diben hynny, heb law yr holl werin oedd wedi cael eu claddu gan eu perthynaſau, ynghyd a rhai a daflwyd allan tros y murriau heb le i'w claddu yn y ddinas. Ac ymhen ychydig wed'yn ſe dybir i ddwyn allan i bob porth o gyrph dynion tlodion, at rif chwech cant o filoedd, heb law'r carneddau hynny o eraill, y rhai o eiſiau cyfeillion i'w claddu, a garnwyd i fynu un ar y llall, ac a glowyd arnynt mewn teiau mawrion. Buſhel o wenith oedd o bris talent o arian y dyddiau hyn, ſef tros 353 o bunnau. Yr amſer yma mae yn anodd credu y fath bethau ffiaidd oeddent yn ei wneuthur iddynt yn ymborth, hanes o ba drueni oedd yn cyffroi trueni oddi wrth eu gelynion; diau yw, ni fu erioed y fath gyfnewid mewn lle tan y nef, paradwys yn anialwch; yn lle y fangre ardderchoccaf am erddi teg, a rhodfeydd, a phob hyfrydwch, nid oedd heddyw gymmaint a phren ar ei draed, na chaban i'w weled, ond a nodau deſtryw arnynt fel na's gall'ſai dieithriaid eu hunain lai, nag wylo wrth weled y gwahaniaeth oedd rhwng yr hen Jeruſalem a'r hon oedd yn awr; ſel yr oedd rhai pobl yn moſyn am Jeruſalem ynghanol y ddinas; ac o'r diwedd ganolnos ſe ennillwyd caſtell Antonia, yr hyn oedd wanhad mawr i'r Iuddewon, a chymmaint o ſantais i'r Rhufeiniaid; canys yn awr y dechreuodd y deml ei hun fod mewn perygl, a'r Iuddewon a roiſant dân yn y rhan hynny o galeri'r deml ag oedd neſaf i'r caſtell, fel y gwnaent dorriad o ugain cyfydd rhwng Antonia a'r deml, ac fel

hyn

" hofah ein Duw, brenhin y byd, yr hwn ſydd
" yn ein ſancteiddio ni a'i orchymynion, ac yn
" gor-

---

hyn hwy ei hunain ddechreuaſant ddodi'r lle ſanctaidd yn fflam: ond yma gwelwch un o ddichellion yr Iuddewon, na's gallaf lai na'i adrodd, pan yr oeddent hwy yn y deml, a'r Rhufeiniaid yn Antonia, ſel hyn mewn ymgyrch gwaſtadol y naill yn erbyn y llall, hwy a lanwaſant i fynu gronglwyd y porth neu'r cloch-dy gorllewynol, rhwng y trawſtiau a'i ben ef o goed ſychion lawer, pitch a brwmſtan, ac ar yr ymgyrch cyntaf i'r Rhufeiniaid, defeſodd yr Iuddewon gymmeryd arnynt ffoi; yna pan daeth y Rhufeiniaid i mewn, yr Iuddewon a gauaſant y porth ac a ddodaſant dân yn y coed, nes ydoedd yr holl borth, neu y twr uchel ar dân, er ſyndod i'r rhai oedd yn ddedwydd ymhell oddi wrtho, ond y dychryn mwyaf ofnadwy i'r ſawl oedd yn y perygl y rhai a daflaſant eu hunain i lawr bendramwnwgl, rhai a ſogwyd yn y fflam, ac eraill a daflaſant eu hunain ar eu cleddyfau, ſel trwy un angeu y gallent achub rhag y llall: yr ail dydd y rhoddodd y Rhufeiniaid hwythau dân i borth y gogledd, ac a'i dygaſant ymlaen hyd borth y dwyrain, yr hwn oedd uchel iawn, megis yn bongian uwchben yr afon Cidron, yn awr yn, ac o ddantu'r deml yr oedd y rhyfel, y ddinas oedd bron heb bobl: ond ymhob teulu yr oeddid yn tybied bod bwyd, yr oedd rhyfel yno am dano, a thammaid o fara y pryd hyn a dorraſei'r cyfeillgarwch mwyaf yn natur; canys hyd yn oed mynweſau y rhai oedd yn marw o newyn oedd yn cael eu chwylio a'i rhwygo mewn gobaith ffeindio rhyw beth i'w ſwytta: ac nid gwaith bach oedd enaill y deml ag oedd wedi ei gweithio a cherrig ag oedd 25 cyfydd eu hŷd, a 12 o led, ac 8 o uwchder, ac er goſod eu *Battering Rams* yn erbyn y deml chwech diwrnod, etto ni wnaethant ronyn niwed iddi, nag un ffordd arall a gynnigiaſant methaſant; ſel goſodaſant yſgolion i'w dringo hi, ond yr Iuddewon a daflaſant i lawr yr yſgolion a dynion bendramwnwgl, ſel bu colled mawr iawn i'r Rhufeiniaid; a dygwyd y faner beſyd oddi arnynt; ond y ddau ochr erbyn hyn oedd yn ymladd un

ſel

" gorchymym i ini wiſgo'r Tephilin." a hwy a haerant y cyfeiliornad hyn o Deut. 6. 8. a'r Talmud

---

ſel Iuddewon, a'r llall ſel Rhufeinwyr, nes i Titus weled nad oedd ſeddiginiaeth, ond rhoi tân wrth byrth y deml, a'i lloſgi; ac erbyn hyn, yr oedd ei phyrph hi yn wenfflam, a'r gwaith arian o ddautu iddi yn toddi i'r ddaear, a'r coed yn difa yn un danllwyth, a'r Iuddewon yn y cyfamſer heb gynnyg na lle i gynnyg ei ddiffoddi, na chynnyg achub yr hyn oedd etto heb loſgi; y tân ennynodd ymlaen y dydd hwnnw a'r nos, nes i'r holl galeries gael ei difa yn ulw; ond Titus oſododd drannoeth i ddiffodd y tân er mynnai ei ſwyddogion ef amryw ei lloſgi hi yn ulw; gan haeru na fyddai yr Iuddewon fyth yn llonydd tra fyddai cyfarfod gantlynt yn y deml: yntau a attebodd, os hwy a barhau yn gyndyn, ag a droi'r deml yn gaſtell, a raid i mi eb ef i ddial gwrthryfelgarwch dyn â'r goed a maen, ac felly goſod yr adeilad mwyaf gogoneddus tan haul yn garnedd er eu mwyn hwy: anrhydedd Rhufain a ddioddefai, trwy dynnu allan o'r ymerodraeth addurn mor ardderchog: ond drannoeth (ſef yr un dydd ag y lloſgwyd hi o'r blaen gan frenhin Babilon, a Titus am warchae arni a'i harbed hi rhag mynd yn ulw) rhyw un heb gennad na chomiſiwn neidiodd i ben un o'i gyfeillion, ac a daflodd dewyn o dân poeth trwy'r ffeneſtr aur i'r un o'r ſtafelloedd o du'r gogledd; y lle a gymmerodd dân yn union nes ydoedd y waedd mwyaf echrydus trwy yr holl Iuddewon, y rhai ymegniaſant hyd eithaf eu gallu i gadw eu bywydau, pan oedd yr unig beth ag oedd yn awr yn anwyl ganthynt mewn perygl, yr hyn pan glywodd Titus, aeth a'i lu gydag ef i geiſio diffodd y tân, ond y cwbl oedd ofer. pa arwydd bynnag a wnai ef, canys y ſŵn oedd cymmaint na thalai dd'weud geiriau, a'r holl filwyr ni's gellid eu rheoli a bygythion na gorchymynion ond pawb o honynt yn cael eu harwain gan lid ac eithaf cynddaredd; rhai yn cael eu damſian tan draed i farwolaeth ymhlith y weryn, eraill yn cael ei mogi yn y mwg; y Galeriau 'nawr yn darfod lloſgi uwch y pyrth, y milwyr cyffredin ag oedd yn y deml yn cymmeryd arnynt nad

Talmud ſydd yn goſod cymmaint pwys ar wiſgo Tephilin, fel y mae'r hwn ſydd yn eſgeuluſo'r peth

nad oeddent yn clywed mo orchymyn Cæſar: nid oedd gan y gwrthryſelwyr ffordd yn y byd i'w attal ef, ond pa ffordd bynnag troent eu hwyneb, nid oedd dim ond gwaed a deſtryw; yr holl bobl dlodion anarſog oedd ymhob man wedi cael ei rhoi i'r cleddyf; mynyddau o gyrph meirwon yn cael eu carno ar ei gilydd o ddautu'r allor; ac afonydd o waed yn rhedeg i lawr eu griſiau; a thorfeydd o greaduriaid ym mron marw, yn gruddfan yn ei gwaed; ond yn y cyfamſer pan adnabu Titus bod y cyſſegr etto heb ei niweidio, a bod gogoniant y lle ymhell tu hwnt ei amgyffred dyn, ac nwchlaw dim a glywodd ef am dano oddi wrth yr Iuddewon, meddyliodd nad oedd hi etto yn rhy ddiweddar, a ddeiſyfodd ar ei filwyr wneud eu gorau am ei ſafio ef, ond am fod eu cynddaredd yn anghymmedrol, a'i hawydd i waed cymmaint, nid oedd na pharch i'r lle, na bygythiad Cæſar yn ddigonol i'w hattal; eraill hwythau a'u hawydd cymmaint i'r aur, heb ammau pan oedd y dryſau wedi ei leinio ag ef, nad oedd y tu mewn wedi ei lanw o dryſorau, ond yn y cyfamſer rhai o'r milwyr roiſant dân wrth riniogau'r dyryſau, lle gorfu ar Titus ei hun ymadael, pan gwelodd nad oedd le lai nag i'r deml fawr fyned oll yn ulw er cymmaint a wnaeth ef i'w hachub. Yn awr y milwyr a gymmeraſant y cwbl allent roi eu dwylo arno, ac a laddent bawb ag a ddoi o'u blaen hwynt; nid oedd parch yn cael ei roi i oedran, na rhywiau, i hen nag ieuaingc, i bethau cyſſegredig mwy nag angyſſegredig, yr offeiriaid a'r gwyr llen oedd bawb yn cael cyfran yr un wedd o gyſtuddiau mwyaf creulon y rhyfel; pa un bynnag wnaent a'i gwrth'nebiad neu ymddaroſtyngiad. Trwſt y tân yn awr oedd yn gwneud cydſein doſturus a gruddfannau'r meirw, a rhwng uwchder y deml, a'r bryn ar ba un yr oedd hi yn ſefyll, ac hefyd uwchder y ffiam, yr oedd megis pe buaſai'r holl ddinas yn wenffiam oleu; a'r terfyſg a'r gwaeddi mor ofnadwy, fel y mae yn amhoſibl i'w ddychymmyg; gweiddſa y gwrthryſelwyr pan darfu iddynt adnabod ei bod

peth hyn yn cael ei fygwth a dinyſtr tragwyddol; a dywedant fel hyn, y drygionus ymhlith yr Iſraeliaid

---

bod wedi ei gadael i drugaredd y tân a'r cleddyf, a galarnadau echrydus lliaws o drueniaid oedd yn y deml, oedd bethau mor ofnadwy na's gellir eu hadrodd; y fflammau tân y rhai oedd yn ymddangos fel pe buaſai yr holl fynydd ar ba un adeiladwyd y deml yn un danllwyth o'r gwraidd i fynu oedd yn agor llygaid y rhai oedd yn barod i farw o newyn; ac yn rhoi ynddynt anadl newydd i alaru eu trueni; a'r gwaed oedd yn lliſo lawr oedd gyfattebol i'r fflammau; rhiſedi'r lladdedigion oedd llawer ragor na rhai oedd yn eu lladd hwynt; ac er hyn i gyd darfu i amrywiol o honynt godi yn erbyn y Rhufeiniaid eu curo yn ol, nes gwneud eu ffordd i'r cyntedd neſſaf i maes, a diangc i'r ddinas; ymhlith pa rai yr oedd llawer o offeiriaid, y rhai oedd yn ymladd a berau'r deml yn lle ſaethau, phlwm yn eu ffynn taflau yn lle cerrig, yr oedd y pryd hynny chwe' mil wedi dyfod i un o aleriau'r deml, a chyn i Titus derfynu dim yn eu cylch, ei filwyr ef oſododd dân ynddi, ac naill ai hwy loſgwyd yno, neu hwy daflaſant eu hunain i blith lloſg y deml, ac a ddiſethwyd; ac yna ciliodd y gwrthryfelwyr i balas y brenhin, yr hwn oedd yn gadarn iawn, a llawer o dryſorau wedi ei oſod i fynu ynddo; ond curwyd hwynt allan oddi yno, ac a laddwyd 8400 o honynt, a'r arian a ddygwyd: ac drannoeth lloſgwyd yr holl dref iſſaf, a churrwyd yr Iuddewon allan o honi, ond hwythau ddygaſant lawer o'r tryſorau i'r dref uchaf, gan gadw fynu fyth yn eu gwrthnyſigrwydd, a phroffeſu bod yn dda ganthynt weled y ddinas ar dân, a bod angau yn felus iddynt: yn yr holl ynfydrwydd hyn, hwy ymdannent trwy'r holl ddinas i ymofyn am wrthgilwyr yn y tyllau, ac ogfeydd, a chynnifer ag a gaent, hwy a'u lladdent; amryw o honynt aeth at y Rhufeiniaid i gymmeryd un bywyd ac i roi lawr un arall: ond y gobaith diwethaf ag oedd ganthynt, oedd ymguddio eu hunain mewn ogfeydd a thyllau, nes ai'r Rhufeiniaid ymaith, ac y caent hwythau amſer cyfaddas i ddiangc; ond y newyn oedd cymmaint, fel yr yſpeilient y rhai

Iſraeliaid a ant i lawr i uffern; a phwy yw y drygionus, ond yr hwn nid yw yn gwiſgo'r Tephilin.

Eu. Un arall deſgrifiwch.

Ap. Seremoni 'r lladd yw un o wag goel-grefyddol a digrif ſeremoniau'r Talmud; canys ſe waherddir bwytta o un math o gig, neu adar a leddir trwy law un dyn nad yw yn proffeſu'r grefydd

---

oedd yn diangc o'r cyſſegr i'r cyfryw leoedd, a'r bwyd pa fath bynnag f'ai, oedd yn ddigon o achos o derfyſg newydd —Fe werthwyd teuluoedd cyfain o'r Iuddewon yn awr fel ychen yn y farchnad; ac wedi ennill yr holl dref; y milwyr a dannafant eu cleddyfau noethion, gan ladd pawb yn eu cyfyl, a lloſgi teiau cyfain a'r cwbl a gaent ynddynt yn un wenfflam. Pan oedd Titus yn cymmeryd golwg lawn yn awr ar ol diwedd y rhyfel ar y tyrau, y murriau, y ceſtyll, hyd a lled, a ſefyllfa'r tyrau, a'r dreſn ragorol o'r cwbl, fe dd'wedodd y geiriau hyn, Oni buaſai fod Duw yn rhyfela troſom, ni fuaſem byth yn dyfod yn Arglwyddi o'r lle hwn; Duw a'n cynhorthwyodd ni, ac a ryfelodd yn erbyn yr Iuddewon; canys ni's gall'ai y gwaith byn byth ei orphen a dwylo, nag offer rhyfel. Bu farw y pryd hyn un cant ar ddeg o garcharorion ag oedd gan y Rhufeiniaid o newyn; a holl rifedi y carcharorion gymmerwyd yn y rhyfel hwn oedd pedwar ugain a dwy ar bymtheg o filoedd 97,000 a rhan fwyaf o honynt yn Iuddewon, ond nid trigolion Judea oeddent eu gyd; canys torf gymmyſgedig o honynt oedd wedi ymgaſglu ynghyd i Jeruſalem i ŵyl y paſg, ac a ddaliwyd yno gan y rhyfel. Tiuts ei hun oedd yn gwneud ei appel at Dduw, iddo wneud ei allu i ddodi'r Iuddewon yn ddedwydd yn y mwynhad o'u bywydau a'u rhydd did; ond os gwell oedd ganthynt i dorri giddfau gylydd, na's gall fai ef ddim oddi wrthynt; ac os nas gwnai ddim arall y tro, ond rhoi tân yn y deml, a lladd, a bwytta eu plant eu hunain, yr oedd efe yn penderfynu claddu eu drygioni hwynt yn ngharnedd y ddinas, a pheidio gadael pobl tan y nef ag oedd wedi cyrraedd i'r fath radd o felldigedigrwydd.

grefydd Iuddewig ;- ac yn rhwymo y rhai ſydd yn lladd i gadw at yr achos hyn, gyllell berffaith lym, ymha un os bydd ond un bwlch bychan, nid yw y lleiddiad ddim yn gyfiawn, ac y mae yn waharddedig; ynghyd ag amryw o amgylchiadau digrif nad oes ganthynt un ſeifaen o air Duw, yr hyn y maent yn ei gymmeryd oddi wrth Deut. xii. 21. gan wneud truenus agoriad arnynt: a'r ſeremoni hon ſydd o'r fath bwys, ag i'w chadw mor fanwl fel y tyſtia ef, os bydd tammaid o gig gwaharddedig, gwympo o'r crochan, ſef cig na's lladdodd Iuddew ef, yr holl gig ag oedd yn y crochan, pe ba'i yr hyn a gwympodd ond y dri ugainfed ran ag oedd o'r blaen, fydd yn aflan, ac nid yw i'w ſwytta er dim. —

Eu. Un etto o'u ſeremoniau.

Ap. Bwndel arall o goelgrefyddau gwan a phlentynaidd mae'r Talmud wedi ei 'chwanegu at air Duw yw ynghylch y Sabbath, ſe ddywed fod tan y pedwarydd gorchymyn (lle d'wedir y ſeithfed dydd yw Sabbath yr Arglwydd dy Dduw, ynddo ni wnai ddim gwaith) y pethau hyn yn cael ei waharddd, goleuo canwyll, neu ei diffodd; dattod, neu glymmu carrai Eſgyd; 'ſcrifennu dim o goffadwriaeth, gymmaint a chwotatiwn o'r Yſgrythur, ie, gymmaint a dwy lythyren; ſe ddywed y Talmud yn ddigwilydd pwy bynnag a 'ſcrifenno ddwy lythyren, ſydd yn haeddu ei goſbi a marwolaeth, a phwy bynnag a ddygo o'i dŷ i'r heol napcyn yn ei bocet, neu ffon yn ei law i gerdded, ei fod yn haeddu yr un farn; ac o'r tu arall gwneud amryw bethau gwag, diſtadl, coel-grefyddol, a digrif eilw'r Talmud yn brif weithredoedd da, fel y geilw ef yn weithredoedd cenhedlig a drwg beth pur ddiniwed, megis cymmyſgu dwfr a gwin ſydd bechod mawr, cribo pen eilwaith, neu ladd cilionen, a gondemnir ynddo a dinyſtr tragwyddol. *Eu.*

Eu. Peth truenus i ddyn gael eu gondemnio i fod yn ddaroſtyngedig i drueni tragwyddol am ladd gwybedyn ar ddydd Sabbath, ac i fod yn rhydd oddiwrth farn, pan ſ'ont yn pechu yn erbyn goleuni natur, ac yn byw mewn gwaſtadol dorriad o'r gorchymynion pennaf y rhai a wnai o boſſibl i'r cenhedloedd mwyaf tywyll wridio ac arſwydo.

Ap. Y rhai hyn er eu manylrwydd yn y pethau diſtadl hyn, a dyngant, a regant, a gablant, ac a ganant ganiadau ofer, ac anllad ar ddydd Sabbath; ac eraill a chwariant, ac a ddawnſiant; etto gyd, mae nid yn unig ei zel o blaid, ond hefyd y gwag ſeremoniau hyn eu hunain yn cynhyddu fwy fwy; ac nid oes braidd un llyfr yn cael ei gyfanſoddi gan eu dyſgawdwyr yn Germani, nag yn un rhan arall o'r byd, nad yw yn dyfeiſio, ac yn 'chwanegu ſeremoniau newyddion; mynegu y rhai'n eu gyd, fyddai waith rhy faith.

Eu. Ond henwch rai yn rhagor.

Ap. Un yw ynghylch torri eu hewinedd, ſef bod rhaid naill ai lloſgi neu gladdu yr ewinedd a dorrir, gan gyfrif y rhei'ny yn ddynion drygionus a'i taflant hwy ymaith; y Talmud a ddywed, yr hwn a'u lloſgo ſy wr cyfiawn, yr hwn a'u cladde ſydd wr duwiol, yr hwn a'i taflo ymaith ſydd wr drygionus. — Un arall ſydd ynghylch yfed, fel os yfer cwpanaidiau anghydſein, bydd yr yſpryd drwg a'r diafol i gael awdurdod ar y cyfryw a'i hyſo. Y Talmud hefyd ſydd yn peri bendithio'r lleuad unwaith bob mis, ac yn gorchymyn trochi dillad y ddydd cyntaf o'r flwyddyn ar lan afon, ar ddiben megis y maent yn dychymmygu, daflu pechod iddi. — Dwyn hefyd gangen helyg ar ddydd olaf o wyl y pebyll i'r ſynagog, a churo ei dail hi ar y meingciau, tan ddychymmygu yr un pryd, fod eu pechodau yn

cael

cael eu curo allan, yw un o ſeremoniau gwag y Talmud. — Gweddiau tros y meirw yw un arall. Cefnogi eu plant i guro Haman a mwrthwlion yn y ſynagog nos a dydd yn ngwyl y Purim, yw un mor ofer a choel grefyddol ar ynfyda ag ſydd yn yr Alcoran; ac un arall mor wag a hithau yw Abdala, ſef cymmeryd cwpanaid o win, a chanwyll, a blwch o berarogl, a galw ar y prophwyd Elias, a'r Meſiah, a chyflawnu hyn bob nos Sadwrn. — Gweddio hefyd tros y claf, a newid ei enw, gan ryfygu wrth hynny y newidiant arfaeth Duw ſydd mor ddiſylwedd ag un o'r llaill. Dyma rai o gannoedd o wag draddodiadau oſodwyd i ſynu yn lle pur air Duw.

Eu. Rhowch ragor o wybodaeth i mi am nattur llyfr eu Talmud yr hwn ſydd mor llawn o'r fath ſeremoniau.

Ap. Deallwch mai ar ol marw Simon y cyfiawn i godi i ſynu ryw fath o bobl ag oeddent yn eu galw Tannaim, ſef dyſgawdwyr traddodiadau, y rhai oedd yn ei gwneuthur yn unig ſwydd iddynt aſtudio, ac agor y traddodiadiau hynny a dderbyniwyd, ac a gymmeradwywyd gan Ezra, a gwyr y ſynagog fawr, a thynnu addyſgiadau, a chanlyniadau oddi wrthynt, y rhai oll a impiaſant hwy i mewn ynghorph yr hen draddodiadau, ſel pe buaſent o'r un awdurdod a'r lleill; yr hon eſampl a ddylinwyd gan y rhei'ny a'i canlynodd hwy yn eu proffes ar ol llaw; hwy o un i'r llall, a chwanegaſant eu dychymmygion eu hunain at yr hyn a dderbyniaſant gan y rhai aeth o'u blaen, ſel y daeth y traddodiadau hyn ſel caſeg eira, ba bellaf y treiglent i lawr o un genedl i'r llall, rhagor y gaſglent, a mwy y tyfai eu maintioli. Ac ſel hyn yr aeth hi ymlaen hyd agos i gant a hanner o flynyddau o oedran ein Harglwydd Ieſu, pan y darfu iddynt ffeindio mai angenrheidiol oedd i ddodi y traddodiadau

hyn i 'ſcrifen; canys y pryd hynny cynnyddaſant i'r fath riſedi aneirif, fel yr oeddent tu hwnt i bob poſſibilrwydd o gael eu cadw yn hwy ynghof dynion. A Rabbi Judah Hakkadeſh yr hwn, y pryd hynny oedd yn ben ar yr yſgol yn Galilea, ac yn flaenor o'r Sanhedrim ag oedd yn eiſtedd yno, a gymmerodd y gwaith mewn llaw, ac a'i caſglodd hwynt ynghyd, yn 6 llyfr, a phob un yn cynnwys amrywiol rannau, eu gyd yn tri ugain (63) a thair rhan, ymha rai y darfu iddo tan eu pennau priod eu hunain yn drefnus ddoſbarthu oll hyd yma a draddodwyd iddynt hwy o'i cyfreithau creſydd trwy draddodiadau yr henafiaid. A hwn yw llyfr y Miſnah; yr hwn lyfr a dderbyniwyd yn union gan yr Iuddewon gydag anrhydedd mawr trwy eu holl wafgariadau, canys eu barn am dano yw, fod pob cymmal ag ſydd yn gynhwyſedig ynddo, wedi cael eu llefaru gan Dduw ei hun wrth Foſes ar fynydd Sina cyſtal a'r gair 'ſcrifenedig ei hun; ac yn ganlynol ei fod ef o'r un awdurdod dwyfol ag yntau, ac a ddylai gael ufudd-dod mor bur ac mor ſanctaidd iddo. Ac am hynny mor gynted ag y cyhoeddwyd ef fe ddaeth yn deſtyn o ſtudy eu holl ddyſgedigion hwynt, a rhai pennaf o honynt yn Judea a Babylonia, a ddefnyddiaſant eu hamſer i wneud agoriadau arno, a'r agoriadau hyn ynghyd a'r Miſnah ſydd yn gwneud i fynu eu dau Dalmud hwynt; hynny yw, Talmud Jeruſalem, a Thalmud Babylon; y cyntaf a ddibennwyd o ddautu'r flwyddyn tri chant o oedran ein Harglwydd, ond yr olaf a gyhoeddwyd o ddautu dechreu'r chweched canfed flynedd, ac a gafodd amryw argraphiadau ar ol dyfod printio; a'r hwn a brintiwyd yn Amſterdam ſydd yn 12 llyfr mawrion dau blyg; ac yn y ddau Dalmud hyn (y gyfraith a'r prophwydi wedi gyſtal a'i gadael allan o honynt) y cynhwyſir y cyfan o'r

greſydd

grefydd ſuddewig ag y broffeſir yr awr hon yn eu plith. Ond Talmud Babylon yw hwnnw a ddilynant fwyaf, ond y llall am ei fod yn dywyll ac yn anodd ei ddeall nid oes ganthynt fawr o gyfrif iddo. Yn y llyfr hwn mae yr holl rai ag ydd yn cymmeryd arnynt fod o ddyſg yn eu plith, yn goſod eu holl ſtudy; ac ni's gall un fod yn feiſtr yn eu hyſgolion, neu yn ddyſgawdwr yn eu ſynagogau, os na bydd wedi ei ddyſgu yn dda, ac yn gyfarwydd yn hwn; ar gwyr hynny ſydd yn gwneud eu hunain yn feiſtri o hono elwir yn awr Rabbi, amryw ditlau enwog fuont yn ei gael gynt, ond o ddautu y flwyddyn 1040 eu holl yſgolion ym Meſopotamia, lle yr oeddent yn cael yr enwau ardderchog a ddeſtriwiwyd, a'i holl wyr doethion a yrrwyd allan oddi yno gan dywyſogion Mahometanaidd; hwythau er y pryd hynny, gyda y rhan fwyaf o'u pobl, a heidiaſant i rannau gorllewinol y byd, yn enwedig i Spain, Ffraingc, a Lloegr; ac er hynny yr holl enwau ardderchog a feddent yn y Dwyrain a anghofiwyd yma, nid oes ganthynt yn awr yn aros ond Rabbi, y ſawl ſydd yn gweini yn y ſynagogau elwir Chacam arno, hynny yw gwr doeth.

Eu. Onid yw ein Iachawdwr yn d'wedyd yn Math. 24. ac yn Luc. 22, y cyfyd gau griſtiau, ag y dwyllai, pe byddai poſſibl yr Etholedigion; diau gennyf, naill ai bydd y rhai'n i godi, neu eu bod wedi codi eiſioes, canys gair Duw ni chollir iota o hono, nes cyflawnu'r cwbl oll.

Ap. Amrywiol iawn a gododd o bryd i bryd, ac yr y'm yn cael rhai wedi codi yn agos i ddyddiau'n Iachawdwr ei hun, ſef Theudas, Act. 5. yr hwn a dynnodd ar ei ol 400 o wyr; yr hwn a laddwyd, a chynnifer oll a ufuddhaſant iddo a waſgarwyd, ac a wnaed yn ddiddym. Y pryd hynny hefyd, y cododd un Judas Galilead,

ac

ac efe a drodd bobl lawer ar ei ol; ac yntau hefyd a ddarfu am dano, a chynnifer oll a ufuddhaſant iddo o waſgarwyd. Ond y gau griſtiau mwyaf hynod oedd Barchocab, hynny yw, mab y Seren; hwn a ddychymmygodd ei hun yn Feſiah, a bod yr yſgrythur yn llefaru am dano ef, pan y dywed, Seren a ddaw allan o Jacob, &c. ac un Rabbi Akiba, gwr o Enw mawr yn y dyddiau hynny ymhlith yr Iuddewon, pan welodd ef hwn, a dd'wedodd, Hwn yw'r brenhin y Meſſiah: yr oedd y Barchocab hwn fel y dywaid rhai, yn Jeruſalem o flaen ei dinyſtr hi, ac Akiba oedd yn cwmhwyſo atto yr ymadrodd hynny o eiddo'r prophwyd, Dymuniant yr holl genhedloedd a ddaw. Darfu nid yn unig i'r bobl gyffredin, ond hefyd i'r dyſgedigion, a doctoriaid y gyfraith ymgaſglu i lynu wrtho, a'i gynhorthwyo yn erbyn y Rhufeiniaid, hyd oni's darfu iddo ei hun gael ei ddiwedd; ac i amryw eraill gael eu diwedd gyd ag ef. O ddautu 48 mlynedd ar ol dinyſtr Jeruſalem, os gellir credu'r Hiſtorwyr goreu yr amſer hynny, y cododd twyllwr arall, a'i enw Bencoſbi, (er myn rhai yn wir o'r 'ſcrifenwyr Iuddewig mai yr un oedd y Bencoſbi hwn a'r Barchocab a enwid eiſioes) yr hanes ſydd fel hyn; yr Iuddewon oedd yn fyw ar ol dinyſtr Jeruſalem a wnaethant ddinas a'i henw Bitter, fel prif ddinas y deyrnas, gan gymmeryd y gau Griſt hwn yn frenhin arnynt; yr Emerawdwr Adrian a warchaeodd arnynt yn y ddinas hon, ac o'r diwedd a'i cymmerodd hi, ac a dorrodd ymaith Bencoſbi; a rhai ſydd yn d'weud o leiaf, a haerant i bedair mil a phum cant (4500) o Iuddewon golli eu bywydau yn y rhyfel hwn. Yn nheyrnaſiad Theodoſius yr ail, un Moſes a geiſiodd chwarae rhan gau Feſiah, yn y byd; fe roddodd allan mai efe

oedd

oedd yr ail Foſes, prophwyd ſel ef, ac i Dduw ei ddanfon ef o'r nef, ac y byddai iddo arwain yr holl Iuddewon ag oedd yn ei ganlyn ef trwy'r mor ar hyd dir ſych: tros flwyddyn gyfan efe a'u perſwadiodd hwynt yn eu trefydd a'i dinaſoedd i adael y cyfan, a'i ganlyn ef; ac y byddai iddo eu harwain hwynt i'r tir a addewid: yn yr amſer pwyntiedig torfeydd mawrion o wyr, gwragedd, a phlant a ymgynnillodd atto, y rhai a ddygodd ef i graig fawr uwchben y mor, ac yno wrth ei orchymyn ef amryw a daflaſant eu hunain i lawr, rhai o ba rai foddodd, eraill a achubwyd gan ymorwyr, y rhai oedd yn eu perſwadio hwynt hyd eithaf eu gallu rhag y fath hunan ymladdiad ynfyd. Pan welodd yr Iuddewon eu hunain yn cael eu twyllo fel hyn, hwy a feddyliaſant oſod llaw ar y twyllwr, ond y gau Foſes yma fel pe buaſai gwir Ddiafol, a aeth ymaith i ba le, a pha fodd ni's gwyddent; hyn fu achos i amryw o Iuddewon i gôfleidio y grefydd griſt'nogol, ac i roi heibio y ffordd honno o Iuddewiaeth ag oedd ddaroſtyngedig i'r fath dwyll peryglus. Brenhin Perſia tan lywodraeth pa un yr ydoedd, a'i daliodd ef, ond am ei fod ef yn ſwynwr cyfrwys efe a ryddhaodd ei hun, ac a wnaeth lawer o ôrangciau nes llidio'r brenhin hwnnw yn erbyn yr Iuddewon; ond y bobl i attal dinyſtr ag oedd i ddyfod arnynt trwy hyn, a wnaethant wledd fawr i'r gau Feſiah hwn, athra yr oedd yn efe yn cyſgu yn ei fedd-dod, hwy a dorraſant ymaith ei ben ef, ac a'i preſentaſant ef i'r brenhin, yr hwn ar hynny a heddychodd a hwy. Yr ydym yn darllain hefyd am un brenhin Tabor, a fynnai fod yn Feſſiah; yr hwn trwy orchymyn Charles y pummed a loſgwyd, ac mae Mamonides 'ſcrifenwr Iuddewig yn ſon

am

am bedwar gau Grift yn rhagor, y rhai gododd ymhlith yr Iuddewon yn Spain, a Ffraingc, ac a dynnasant gystuddiau mawrion arnynt eu hunain, a'i canlynwyr.

Eu. Mynegwch etto ychydig am wasanaeth eu synagogau hwynt, canys yr wyf yn deall bod ganthynt synagogau ymhob tref ag y maent yn cael llonyddwch i bresswylio.

Ap. Mae ganthynt ffurf neu liturgi fel eglwysi eraill; a rhan gyntaf o'u gwasanaeth yn y synagogau hyn yw gweddiau, yn ail darllen yr ysgrythurau ac esponio, ac yn olaf pregethu; eu gwasanaeth ar y cyntaf oedd yn syrrach, ond yn awr sy wedi 'chwanegu atto amryw seremoniau coel grefyddol a gwag, ymha un y maent yn cyfatteboli os nid yn rhagori mewn hyd ac amrywioldeb ar Fass eglwys Rusain ei hunan: y rhai mwyaf sylweddol o'u gweddiau yw y rhai alwant arnynt Shemoneh Esshreh, sef yw hynny y 18 gweddi; y rhai'n a dd'wedant eu cyfansoddi, a'i rhoddi i mewn gan Ezra ar synagog fawr, ac at y rhai'n y 'chwanegodd Rabbi Gamaliel ychydig oflaen dinysir Jerusalem y bedwarydd ar bymtheg yn erbyn y Crist'nogion; a diau fod amryw o rhai'n yn nyddiau ein Iachawdwr, a'i fod ef yn cyd-seinio a hwynt, wrth fod yn bresenol yn y synagog bob dydd Sabbath.

Eu. Adroddwch y weddi yn erbyn y Crist'nogion.

Ap. Na fydded gobaith iddynt hwy sydd yn gwrthgilio oddi wrth dy wir grefydd di, a bydded i Hereticiaid pa nifer bynnag y b'ont i ddarfod am danynt yn yr un funud, a bydded i deyrnas balchder yn fuan i gael ei diwreiddio allan a'i thorri yn ein dyddiau ni, bendigedig wyt ti o Arglwydd ein Duw yr hwn wyt yn dinystrio bradrygionus ac yn tynnu i lawr y balch — yr

Heretic-

Hereticiaid oedd y criſt'nogion, ac ymerodraeth Rufain oedd y balch, a rhaid oedd d'weud y 19 gweddi hyn gan bob rhai mewn oedran, o ba ſex neu ba gyflwr bynnag naill ai yn gyhoedd, neu yn ddirgel, dair gwaith bob dydd, y boreu ar ol canol ddydd, ac wedi nos, neu brig yr hwyr; a'r fath barch ſydd ganthynt i'r 19 gweddi hyn, ag y maent yn eu cyfrif yn fwy na'r lleill oll, ac fel ſylfaen i'w holl weddiau eraill; fel gweddi yr Arglwydd yn ein gwaſanaeth ni, canys heblaw y rhai'n, mae ganthynt amryw weddiau ymlaen, ac yn ol, ac yn gymmyſg, yr hyn ſydd yn gwneud eu gwaſanaeth yn faith anghyffredin.

Eu. Chwi ddywedaſoch eu bod yn darllen yr yſgrythyrau, pa ddull y mae hyn?

Ap. O dri Math. 1. Kiriath Shema; 2. darllen y gyfraith; 3 darllen y prophwydi. Am y ddau olaf chwi glywſoch o'r blaen; am yr hyn alwant arno Kiriath Shema, ſef darllen yw o ddechreu'r 5ed wers o'r 6ed o Deut. hyd ddiwedd y 9ed wers; ac eilwaith o ddechreu y 13 wers o'r 11 o Deut. hyd ddiwedd 21 wers; ac yn olaf o ddechreu 37 wers o'r 15 o Numeri hyd ddiwedd y bennod; ſe elwir y rhan hyn o'r gwaſanaeth yn Kiriath Shema am mai y gair cyntaf o'r rhannau hyn o'r Scrythur yw Shema, *clyw*, a'i darllen yw Kiriath.—Y Shema hyn ynghyd a'r pedair gweddi ar bymtheg yw y rhan mwyaf defoſiynol o'i gwaſanaeth, a rhaid ei ddarllen bob dydd, naill ai yn y ſynagog yn y dyddiau pwyntiedig, neu gartref yn eu teuluoedd; yn unig hyn o wahaniaeth, fod y Shema yn unig i'w darllen 2 waith yn y dydd, forau a prydnawn; lle yr oedd y gweddiau hynny i'w d'weud 3 gwaith; ac nid rhaid i'r benywaid na'r gweiſion i ddarllen y Shema, ond yn unig y gwrrywaid.

Eu. Beth am eſponio a phregethu.

Ap.

Ap. Y drydydd ran o waſanaeth y ſynagog oedd hyn, y cyntaf o rhai'n oedd yn cael ei gyflawnu wrth ddarllen y gyfraith a'r prophwydi fel y dangoſwyd o'r blaen yn iaith y Caldaeg, ac yn Groeg; ond y llall ſef pregethu oedd ei gyflawnu ar ol darfod y cwbl. — Hyn am drefn eu gwaſanaeth, ond pe baech y dyddiau hyn yn gweled eu haddoliad, dull eu hwynebau, eu hymddygiadau, a'u holl wag allanol ſeremoniau, eu rhith alar, llawenydd, cynhyrfiadau, a: yſgogiadau eu traed, a'u dwylo, nid allech lai na ſynnu.

Eu. Adroddwch hyn.

Ap. Mae ganthynt oruwch-ſtafell fechan gyſſegredig yn agos i'r ſynagog, i ba le mae rhai o bennaethiaid, ſwyddogion, ac eraill o'u gwyr ardderchoccaf hwy yn crynhoi cyn amſer gwaſanaeth y ſynagog, i ddarllen rhyw ran o'r gwaſanaeth, (i ba le y cenhadir hefyd i ddieithriaid ddyfod, fel i'r ſynagog) yr hwn ſydd wedi ei ſcrifennu mewn carecterau byrrion ar femrwn wedi ei lynu wrth aſtyllen llai na throedfedd ſcwar, a choes iddo ar lun llyfr corn; yma nid oes ond gwrrywaid, ac oll a'u hattiau ar eu pennau, weithiau yn ſefyll, weithiau yn eiſtedd, ond nid fyth yn penlinio, gan atteb y naill y llall fel yng waſanaeth eglwys Loegr; ond dull eu hwynebau, a'u llygaid yſgafn ſydd yn datguddio nad ynt yn ymofyn dim o bryſyr am Dduw. Yna un, dau, neu dri ſydd un ar ol y llall yn eſponio, rhyw rannau o'r hyn a ddarllenwyd, a hyn gyda'r fath wres, a zel na's cred yn hawdd yr hwn na's gwelodd; ond ar ol darfod yr ant ymhen ychydig i'r ſynagog, yr hon ſydd yn gyffredin yn lle mawr ac ardderchog, wedi ei threfnu a galeriau gylch o gylch, a pharwydydd i'r galeriau hyn o bump troedfedd uwchder, er mwyn i'r benywaid eiſtedd lle na's gall neb gwyr eu gweled hwy yn is na'u gyddfau;

gyddfau; i'r ſynagog hon y maent yn dyfod a'u plant o 4 i 5 mlwydd oed, y plant benywaid gyd a'r benywaid, a rhai gwrywaid gyda'r gwrywaid: y pulpit ſydd ynghanol y ſynagog, lle mae tri neu 4 o'r chacams neu'r athrawon, a'i hattau ar eu pennau, fel y lleill o'r gynnulleidfa, wedi eu gwiſgo mewn dillad duon; yma a thraw ar hyd y ſynagog a bydd amrywiol a ſachlen am danynt, hynny yw, math o ganfas melyn ddu, o ddautu dwy lathen ei hyd, wedi ei daflu yn gynta tros eu pennau, a'i ddau pen yn hongian i lawr tros eu dwyfron, fel hwdiau hirion gwragedd; ond fel y bo'r gwaſanaeth yn tynnu ymlaen, gadewant y rhai'n i gwympo i lawr ar eu gwegilau, nes erbyn y diwedd, y bont mor iſſel yn ol a'u gwregyſau, a'r ddau pen blaen i'r canfas yn cael ei ddal a'u dwylo tros eu breichiau; rhai hefyd o'r hen bobl fydd a ſachlen rawn tros eu pennau, a'u barfau brithwynnion yn hongian i lawr i'w bronnau: ond y peth mwya ſynn yma yw, y parch allanol a'r bri ſydd ganthynt i'r gyfraith, y llawenhau y maent wrth ddyfod a hi i'w darllen i'r bobl: canys deallwch fod y deg gair deddf wedi eu 'ſcrifennu ar femrwn mawr o ddautu llathen a hanner o hyd, a thros hanner llath o led, a dau boſt arian, un wedi ei rhwymo wrth bob pen i'r memrwn, ac yno troi'r memrwn o ddautu'r ddau, nes cwrdd o'r ddau boſt yn y canol; y gyfraith fel hyn ſydd wedi ei rhoi ynghadw mewn math o gwppwrd ardderchog yn un pen i'r ſynagog, a drws dau ddyblyg arno, yna ynghanol y gwaſanaeth, yr athrawon, neu'r darllenwyr hyn a ant allan o'r pulpit tan ymgrymmu, ymoſtwng, ac addoli ar hyd y ffordd, fel pe baent yn gweled yr anweledig yn myned o'u blaen; ac yn y cyfamſer yr holl bobl ſychain a mawrion, ſydd yn curo eu ſodlau a blaenion eu traed ar gylch yn erbyn y ddaear, fel pe bai

yr holl Synagog wedi ynfydu; dyn dieithr ar y cyntaf a ſynnai, ac a ofnai heb wybod yr achos, nes gweled yn y man y chacams neu'r athawon hyn yn dwyn y ddeddf ganthynt o'r cwppwrd caiedig, tan addoli ar hyd y ffordd fel o'r blaen, a'r bobl yn para yn yr un dull, nes b'o yr holl Synagog yn adſein ſwn traed y gynnulleidfa; yna darllenwr y ddeddf, a'r bobl yn atteb rhwng pob gorchymyn fel yn eglwys Loegr; ac wedi hyn y dygir hi yn ol (wedi ei rholo i fynu fel o'r blaen) gyda'r un ſeremoni ag y daeth hi allan, yna holl waſanaeth y Synagog ſydd yn diweddu trwy ganu ſalm fawrion a bychain.

Eu. Pa rannau o'r byd os gellwch wybod y mae yr Iuddewon crwydredig hyn yr awr hon fwyaf aml?

Ap. Nid oes wybod yn iawn canys hwy gawſant eu herlyd o un wlad i'r llall o bryd i bryd gan dywyſogion Mahometanaidd, ac nid ydynt y dydd heddyw ond ymddifaid ar wyneb y ddaear; a'r cyflawnder mawr ſydd ganthynt o arian, a'r elw fydd oddiwrthynt, yw yr achos maent yn cael aros cymmaint yngwledydd criſt'nogol y gorllewin. Er i'r ymerawdwr Adrian orchymyn i amryw o honynt aros yn Spain, etto cyn leied gariad gawſant yma, fel amryw weithiau darfu iddynt brynu eu rhyddid, ac o'r diwedd cawſant eu taflu o holl deyrnaſoedd Europ gan mwyaf rai prydiau neu gilydd; er i aneirif o honynt i lechu, a dychwelyd yno drachefn. Fe gyrrwyd hwy o Loegr gan Edward y cyntaf, yn y flwyddyn 1290. o Ffraingc gan Philip mwyn yn 1307. o Spain gan Fferdinand y Catholic yn 1492. o Portugal gan Immanuel yn y flwyddyn 1497. o Naples a Sicily gan Charles y bummed yn 1539. Etto maent mewn rhifedi mawrion yn Germany, y rhan babaidd o honi; yn Poland, yn y rhan fwyaf o ddinaſoedd Italy; yn enwedig yn Rhufain hun;

lle

lle nad oes dim llai meddant na 15 neu 20 mil o honynt; ac yn Avingon hefyd mae llawer: mae ganthynt hefyd Synagog yn Amſterdam, ac maent etto yn aml iawn yngwledydd y Twrc, ac fe debygir bod eu rhifedi hwynt mor fawr yn Theſſalonica, a Chonſtantinopl fel y meddylir fod yno a ddautu gant a thri ugain o filoedd; * ond y maent, yn cael eu caſau trwy holl wledydd y Twrc, fel nas derbynir un Iuddew yn Fahometan nes b'o yn gyn-

* Peth rhyfedd fod cymmaint o honynt yn fyw wrth y mwrddrad anghyffredin a wnaed arnynt gan y Rhufeinaid o bryd ei gilydd, cyn, a chwedi dinyſtr Jerufalem, trigolion o Cæſarea, laddodd o honynt ugain mil mewn un dydd; mewn Scirmiſh ſu rhyngthynt a'r Syriaid; y lladdwyd tair mil ar ddeg; pobl Alexandria ddododd hanner can mil i'r cleddyf; trigolion Damaſcus eilwaith ddeng mil. Antonia Capten Rhufeinaidd laddodd ddeng mil yn Aſcalon, a Ceſtius Capten arall tros wyth mil; ac yn rhyfeloedd Veſpaſion y lladdwyd, ac y carcharwyd yn Aphaca tros ddwy fil ar bymtheg; yn Samaria, tros un fil ar ddeg, yn Jotopata tros ddwy fil a deugain; yn Joppa cynnifr a laddwyd ac a foddaſant eu hunain fel taflodd y môr i fynu o gyrph meirw tros bedair mil; yn ninas Tarichea lladdwyd, ac y carcharwyd Pum mil a deugain; yn Gamala pedwar ugain mil a deg, heb adael yn fyw ond dwy fenyw; yn Gaſcala pum cant laddwyd; yn Gedala deuddeg mil ar hugain; ac yn Jerufalem ei hun, fel y d'wedais un cant ar ddeg o filoedd trwy newyn, a chleddyf, a chynnifer a gymmeryd o honynt yn garcharorion gan y Rhufeiniaid, ag y gwerthwyd 30 o honynt am geiniog, am iddynt hwy werthu Iachawdwr y byd am ddeg ar hugain o geiniogau —— yr holl laddfau hyn heblaw rhifedi aneirif a laddwyd yn y maeſydd a'r pentrefi; yr ys yn tybied eu gyd i fod yn ddwy fil o filoedd o Iuddewon (2000000) a ddigwyddodd mewn 4 blynedd o amſer; ond etto ni yrrwyd allan yr holl genedl o'u tir hyd y flwyddyn 136 pan y gwrthryfelaſant yn erbyn Adrian, a Thrajan, yr ymerawdwyr, o'r pryd ni chawſant fyth i ddychwelyd ond fel dieithriaid.

taf yn Griſtion; nos Wener y croglith mae cymmaint ol id attynt, gan y Criſt'nogion yn y Dwyrain fel y maent mewn perygl o gael eu lluchio â cherrig am iddynt hwythau gernodio Iachawdwr y byd; a chan y Twrciaid hwythau, am mai hwy yw'r publicanod ag ſydd yn codi 'r dreth, yn gorthrymmu gyda phob creulondeb, ac yn ei chwanegu i'r eithaf er eu helw eu hunain; pobl yw yr Iuddewon y dydd heddyw a fedrant ymddwyn a'r cyflwr, a'r amſer y b'ont ynddo, pa fath bynnag, os eu helw hwynt fydd trwy hynny, pan y bont yn cael eu diyſtyru fel cwn, a'u harferyd fel caethweiſion, nid ydynt yn dangos wyneb llidus, cenedl ag y gynhydda pa le bynnag yr elont, yn enwedig trwy uſuriaeth, a gwyſtl; ni ront fenthyg dim byth ond ar wyſtl, a rhai'n pan y bont un waith wedi ei fforffettu, ni's gellir eu cael hwynt yn ol. Maent yn cadw i fynu yr enwaediad yn eu plith hyd heddyw, ond wedi ei gymmyſg ag amryw ſeremoniau nad yw'r ddeddf yn ei orchymyn, na'r her deidau yn ei arferyd, gan oſod cadair wag i'r prophwyd Elias, yr hwn y maent yn gredu ei fod yn breſennol yn y fath ordinhad; maent wedi chwannegu at goelgrefydd yr hen Phariſeaid i gadw'r Sabbath; mor fanwl y maent, fel os bydd Iuddew i drafaelio ddydd gwener, ac yn y prydnawn i fod mor fyr o ben ei ſiwrnau ag y bydd tros 2000 o gyfuddau hynny yw 6 ſtad yr hyn a gyfrifant yn daith diwrnod Sabbath, yno y rhaid iddo eiſtedd i lawr a chadw ei Sabbath, pe b'ai mewn maes neu anialwch, mewn perygl o 'ſtormydd a lladron, maent mor fanwl am fwyd a diod nad eiſteddant i fwytta gyd a heb arall ond eu hunain, ac os bydd ond rhyw aſgwrn wedi torri neu ryw beth yn ei ymyſgaroedd o'i le ynddo, hwy a'i gwerthant ef i'r Criſt'nogion. Maent o hyd yn diſgwyl am eu Meſſiah, a phan y dêl maent yn credu y cânt ddychwelyd i'w gwlad eu hun i feddiannu pob dedwyddwch.

Eu.

Eu. Mae amryw Yſgrythurau yn cadarnhau eu dychweliad i'r ffydd griſt'nogol?

Ap. Amrywiol iawn yn yr hen Deſtament; megis Eſay xi. 11, 12, 13. Bydd hefyd yn y dydd hwnnw, i'r Arglwydd fwrw ei law i feddiannu gweddill ei bobl y rhai a weddillir gan Aſſyria a chan yr Aipht, a chan Bathros, a chan Ethiopia, a chan Elam, a chan Sinar, a chan Hameth, a chan ynyſoedd y môr. Ac ef a gyfyd faner i'r cenhedloedd ac a gynnyll grwydriaid Iſrael ac a gaſgl waſgaredigion Judah Eilwaith Ezec. xxxvii. 21, 22, 23. Fel hyn y dywaid yr Arglwydd Dduw, wele fi yn cymmeryd meibion Iſrael o fyſg y cenhedloedd yr aethant attynt ac mi a'u caſglaf hwynt o amgylch, ac a'u dygaf hwynt i'w tir eu hun. A gwnaf hwynt yn un genedl o fewn y tir ym mynyddoedd Iſrael ac un brenhin fydd frenhin arnynt oll; ni byddant hefyd mwy yn ddwy genedl ac ni rennir hwynt mwyach yn ddwy frenhiniaeth. Hoſea iii. 4, 5. Canys llawer o ddyddiau yr erys meibion Iſrael heb frenhin, a heb dywyſog, a heb aberth, a heb allor, a heb Ephod, a heb Deraphim. Wedi hynny y dychwel meibion Iſrael, ac y ceiſiant yr Arglwydd eu Duw a Dafydd eu brenhin; ac a barchant yr Arglwydd a'i ddaioni yn y dyddiau diweddaf, Zec. x. 6, 7, 8. A nerthaf dŷ Juda a gwaredaf dŷ Joſeph a pharaf iddynt ddychwelyd i'w cyfle: canys trugarhais wrthynt; a byddant fel pe na's gwrthodaſwn hwynt: o herwydd myfi yw yr Arglwydd eu Duw hwynt. Bydd Ephraim hefyd fel cawr, a'u calonnau a lawenychant fel trwy win: a'u meibion a gânt weled ac a lawenychant; bydd eu calon yn hyfryd yn yr Arglwydd. Chwibanaf arnynt a chaſglaf hwynt; canys gwaredais hwynt: ac amlhant fel yr amlhaſant, *&c.* ac yn y Teſtament Newydd y dywed Paul, Rhuf. xi. 25. Pan del cyflawnder y cenhedloedd i mewn, y bydd holl Iſrael i fod yn gadwedig. Y rhai'n ac amryw

eraill o'r fath yn yr Hen Deſtament a'r Newydd ſydd yn eglur ddatguddio dychweliad yr Iuddewon i'r ffydd o holl gyrrau'r ddaear pe le bynnag y maent wedi eu gwaſgaru.

RHAN IV.

Hanes o'r Grefydd Babaidd.

PENNOD I.

EUSEBIUS.

YPETH neſſaf yw y Grefydd Babaidd ſydd arnaf chwant gwybod rhagor am dani; clywais amryw weithiau i'r Deyrnas hon gael prawf chwerw o'i hyſpryd tanllyd di-drugaredd hi; amryw gannoedd meddant a ddioddefodd o'i hachos; a hir y bu ein teidau yn gorwedd tan eithaf ei thywyllwch: ond y dydd heddyw nid oes yma fwy o wybod am ei hegwyddorion, ei huwchder, ei gogoniant na'i hyſpryd, nag ſydd o wybod am y ffydd Fahometanaidd: hwy ddywedant fod y gweinidogion gynt yn gofod holl rym eu pregethau yn eu herbyn; ac nad oedd araith o Bulpit, heb ſaeth yn erbyn y Pab a'i ganlynwyr; ond yn awr nid oes ſon am Bab mwy nag am y *Grand Seinior*: llawer o hen Eglwyſydd mawrion, a rhai Monachlogydd, a welais i wedi adfeilio, ond prin y caf ddyn i fynegu i mi pa fath addoliad oedd yno yn y dyddiau gynt; am hynny rhowch i mi hanes gyſlawn o'r grefydd hon yn ei Hegwyddorion, ei Diſcyblaeth, ei ſeremoniau, ei holl ogoniant a'i hanrhydedd yn y dyddiau gynt; ond yn gyntaf mynegwch pa fodd y daeth y Pab i'r fath rwyſg a bod yn Ben ar y Byd, a'r Eglwys? Lle yr oedd gweinidogion y gair yn y dyddiau cyntaf, *yn yſcubion y Byd, ac yn ſorod pob dim.*

Ap. Er cymmaint rhwyſg eglwys Rufain, ac er awdurdod

awdurdod mawr y Pab, ni's daeth ef i ſod yn ben ar yr holl fyd, nag yn ben ar yr Eglwys oll, canys ſafodd allan Eglwys Groeg heb gyttuno ag ef yn ei ogoniant pennaf; ac y mae hi hyd y dydd heddyw yn wahanol oddi wrtho, mewn egwyddorion, diſcybliaeth, a ſeremoniau: ond pa fodd y daeth Eſcob Rhufain i'r fath rwyſg meddwch, dyellwch na fu yr Eglwys ddim yn hir heb ddirywio oddi wrth wirionedd y ffydd, fe ddywed Paul fod anghriſt wedi ei lunio yn ei ddyddiau ef, a bod dirgelwch yr anwir wedi dechreu y pryd hynny, ond bod yr hyn oedd yn attal, yn attal nes ei dynnu ymaith, ſef bod y llywodraeth wladaidd etto gan yr emerawdwyr, yr hon attaliai rwyſg Anghriſt, hyd onis tynnid hi ymaith; a'r llywodraeth wladaidd ac eglwyſig fyned yn un yn y Pab. Llawer oedd yn nyddiau yr Apoſtolion, nid yn unig ymadael a Duw mewn ymarweddiad, ond hefyd mewn athrawiaethau; gan oſod i fynu hereſiau yn erbyn wyneb yr apoſtolion; *Hymeneus*, *Philetus*, ac *Alexander* y gof copper oedd yn haeru i fod yr adgyfodiad wedi myned heibio; amryw yn eglwyſi Aſia ddaeth i ddal athrawiaethau penrhydd iawn, rhai ag oedd yn bodloni cnawd a nattur i'r eithaf, megis athrawiaeth y Nicholaiaid, a honno o eiddo Jezabel; ac hyd ag y byddai heddwch a llonyddwch oddi wrth dywyſogion gwladaidd gan yr eglwyſi cyntaf, ac ychydig o fri yn cydgerdded a chrefydd, llawer a oſodent eu hunain i fynu i fod yn ben ar ryw ſect neu enw; etto am fod erledigaeth yn aml yn y dyddiau hynny, ni ddyrchafodd yr yſpryd balch hwn o Anghriſt ei ben yn uchel; canys nid llai na 300 o flynyddau y bu yr eglwys tan erledigaeth chwerw iawn, deg erledigaeth ol ynol fu tan yr emerawdwyr *Nero*, *Dioclefian*, *Domitian* a *Hadrian*. ‡ 300 eilwaith

‡ Anodd yw credu pa fath dorfeydd aneirif o ddynion a noſiaſant i'r nefoedd trwy dân; fe ddywed St. *Hierom*, nad

eilwaith y bu hi mewn rhyddid, ymha amſer y gwnawd ynddi bob trefn hardd, lliaws aneirif o bob

---

nad oed un dydd o'r flwyddyn; ond y cyntaf o'r Calends, nad oedd pump mil o ddynion yn marw tros gref-ydd Criſt, poenau y rhai'n oedd mor amrywiol ag y gallai y poenydwyr eu dychymmygu hwynt; ſynn ac aruthr fyddai darllen am danynt, ond melus a nefol fyddai clywed am yr yſpryd eon, ffyddiog, a chyſurus y bydd-ent yn dioddef; un *Rabanus* ſy'n dweud fel hyn, am eu hamrywiol ddioddefiadau; rhai a laddwyd â'r cleddyf; rhai a loſgwyd yn y tán; rhai fflangellwyd; rhai dry-wanwyd a phigau heiyrn, rhai a grogwyd, ac a ſibedwyd; rhai a foddwyd yn y mor; rhai flingwyd; rhai dynnwyd allan eu tafodau; rhai labyddiwyd i farwolaeth; rhai ſ thwyd o anwyd; rhai newynwyd; rhai torrwyd ymaith eu traed, neu eu cliniau a'u gadael ſelly yn ágored i gywilydd y byd. A St. Auſtin yntau ddywed, hwy rwymwyd, hwy garcharwyd, hwy ddirdynwyd, hwy laddwyd, hwy loſgwyd, hwy ddarniwyd, hwy fwrdd-rwyd, a hwy a amlhaſant, heb ryfela, am fywyd; ond diyſtyru eu bywydau tros y Iachawdwr. — Amryw o boenau na enwyd uchod a ddioddefodd y Merthyron, megis rhai gyrrwyd allan eu ymenyddiau, rhai hongiwyd wrth eu canolau, rhai rwymwyd, rhwng glaſgoed, a r coed megis Spring yn taſgu allan a'u rhwygo yn ddarniau oddi wrth eu gilydd; rhai lloſgwyd yn unig eu dwylo yn y tân, rhai a daflwyd a'r gyrn teirw, rhai grogwyd herwydd eu traed, rhai herwydd eu gydd-tau; rhai a daflwyd rhwng moch, rhai a grafwyd a chregin i farwolaeth; rhai dorrwyd eu heſgyrn yn chwilfriw, eraill yn hongian wrth y naill fraich a eſtynwyd eu gewynon a gefail; rhai lloſgwyd eu bron-nau a haiarn poeth; eraill eu clinniau a'r un rhyw; rhai roſtwyd ar y ber, gan ddodi finegr a halen ar eu haelod-au rhai a glymmwyd rhwng dau farch wylltion, a rhai'n a yrrwyd un y naill ffordd a'r llall ffordd arall, nes rhwygo'r Criſtion yn ddarnau oddi wrth ei gilydd; rhai gurwyd a ffyn am wrthod addoli'r eulun i far-wolaeth, rhai grogwyd â'u pennau i lawr, eraill a waed-

wyd

o bob adeiladau teg, eglwyſydd mawrion ardderchog, wedi eu haddurnu ag aur, ac ag Arian; gweinidogion ddaeth i fod yn abl, ac yn gyfoethog; gwiſgoedd yn hardd, ac yn werthfawr; lleoedd mawrion, a bywiolaethau teg gafodd eu rhoi, a'u rhwymo at eglwyſydd, nes daeth yr eglwys ag oedd o'r blaen yn dlawd, yn anhardd, yn iſſel, ac yn waradwyddus i fod yn barchedig, yn hardd, ac yn ogoneddus; etto nid oedd ymadawiad hollol oddi wrth wirionedd y ffydd, ond y 300 neſſaf y dirywiodd hi yn aruthr, ac y rhedodd yn ddirwyſtr oddi wrth ſymlrwydd y ffydd yng Nghriſt: yn awr y cynyddodd rhwyſg, gogoniant allanol, awydd i elw, rhith, rhagrith, a thorfeydd o gau athrawiaethau, nes i ſatan gael ei ollwng allan yn hollol o ddau tu'r naw canfed flwyddyn; ac o hynny i fil o flynyddau ar ol planiad cyntaf yr efengyl; ac er bod yr eglwys wedi newid ymhell, o ran balchder ac awydd bydol, oddi wrth ſymlrwydd yr oeſoedd cyntaf, etto mewn rhyw yſtyr yr oedd hi ryw beth yn ganolig mewn cydmariaeth, ac arni ryw fath o lun eglwys er bod llawer o athrawiaethau gau, coel-grefyddau, ſeremoniau, bywiolaethau, derbyn wyneb, cydſyniad a'r byd yn ei arferion; a

---

wyd i farwolaeth; ac eraill tynnwyd allan eu taſodau, rhai tyllwyd eu pennau a therydr, eraill a lyſgwyd rhyd yr heolydd herwydd eu traed; rhai y gwanwyd tan eu gwinedd hoelion llymion, eraill dorrwyd eu pennau ymaith; temlau hefyd loſgwyd yn llawn o wyr, gwragedd, meibion, a merched; hen St. Larens a roſtiwyd ar yr alch, yr hwn ddywedodd, yr ochr hyn a roſtiodd, *trowch yr ochr arall, O orthrymwyr*; rhai a flangellwyd â chwip o wyrs, eraill a godwyd i fynu, ac adewyd i ſyrthio ar bigau heiyrn llymion; a rhai a ferwyd mewn pairau o olew. — Hyn ac amryw fwy ra hyn, gewch weled yn llyfr merthyron Mr. *Ffox*. a diau na's gallodd yr awdwr hwnnw gaſglu holl dd oddefiadau'r ſaint.

rhagrith

rhagrith wedi dyfod i mewn; ond nid dim at y ddaeth yn y cannoedd neſſaf i hyn, pan cafas Anghrift ei godi i fynu yn ei gyſtawn nerth, a'r wir eglwys ei hanrheithio gan goelgrefydd a phob anghyfiawnder a bydoldeb; cyſtawn rwyſg pa un a fu tros 400 o flynyddau, ymha amſer yr hollol gollwyd pob bywyd duwiol, a gwir athrawiaeth gan mwyaf, ac y diffoddodd yn lan bob gwir ddduwioldeb, yn enwedig ym mhenaeithiaid yr eglwys yn y rhannau gorllewinol o'r byd, lle yr oedd gan eſcob Rhufain ddim awdurdod.

Eu. Mae yn debyg mai bob yn ychydig ac yn ychydig y daeth Anghrift i deyrnaſu, ac iddo gael ei genhedlu, yn foreu iawn yn amſer yr Apoſtolion; a chael eſgor arno pan daeth rhydd-did yr eglwys oddi wrth erledigaeth; ac ymhen rhyw gannoedd eilwaith iddo gael ei ddwyn i fynu, nes daeth yn abl i gerdded ei hun, a gweithredu o'i nerth ei hunan.

Ap. Felly yr oedd, canys nid oedd y 300 cyntaf fel y d'wedais ond cyſtuddiau dirfawr, a phoenau alaethus i'w hadrodd, ar yr holl eglwyſi, yn enwedig ar Eſcobion a Dyſgawdwyr y praidd, fel nad oedd i briodaſerch yr Oen orphwyſfa llonyddweh, diogelwch na llawenydd o'r byd hwn; ond yr Arglwydd a fyrhaodd y dyddiau hynny ac a wawriodd ddydd ar gaethiwed ei bobl, ac efe a rwymodd eu doluriau hwynt; gan gadwyno'r hen ddraig ag oedd yn mwrddro'r eglwys. Bellach daeth yr eſcobion ag oedd o'r blaen gan yr ymerawdwyr yn cael eu diyſtyru, ei hanrhydeddu a'u perchu ganddynt; yn awr hwy ddyrchafwyd, hwy gyfoethogwyd, iddynt rhoddwyd rhoddion ac etifeddiaethau nes dringad o honynt i ditlau, enwau, ſwyddau, awdurdodau; ac o ychydig i ychydig fyned gogyfuwch a'r ymerawdwyr eu hunain, fel pan daeth patch, Elw, ac anrhydedd i mewn, hwy daflaſant allan hunan-ymwadiad, ffydd, goſtyngeiddrwydd,

yngeiddrwyd, zel tros Duw, ac yſpryd gweddi; canys fel dywed St. Awſtin, crefydd ennillodd gyfoeth, a'r ferch ddinyſtriodd y ſam: canys yr Eſcobion fel hyn wedi eu dyrchafu i lwyddiant, a chyfoeth a ddechreuaſant yn lle cael eu herlid i erlid hwythau; ac i ſengu ar yddfau dynion, ac i farchogaeth ar yſgwyddau Arglwyddi a thywyſogion, a mynnu o'r diwedd Emerawdwyr a phennau Brenhinoedd i lawr tan eu traed; a phellaſant gymmaint oddi wrth bob lliw o wir grefydd, fel y daethant tan wir nodau ac arwyddion anghriſt yr hwn a brophwydwyd am dano gan yr Yſpryd Glan yn y dyddiau gynt. Canys yn nyddiau *Conſtantine fawr*, yr hwn agorodd gyntaf ddrws y carchar, i ollwng allan y caethion o'u cathiwed, yr oedd ef yn parchu, ac yn cofleidio Eſcobion duwiol, ac yn eu cymmeryd yn gymdeithion anwyl iddo; ond etto ni feddent ddim llywodraeth wladaidd, ond ymhen ennyd eilwaith, Eſcobion Rhufain ddaeth i'w dyrchafu yn fwy gan yr Emerawdwyr, a'u llywodraeth a chwanegodd, nes daeth yr Emerawdwr i gufanu traed y pab, a chyn pen gronyn wedi'n, daeth pab *Cœleſtin* i goroni *Harry* y chweched â'i droed; a Harry y pedwarydd, a'i wraig, a'i fab, gafas diſgwyl dair noſwaith a thri diwrnod mewn rhew ac eira wrth y porth, i gael derbyniad i dŷ Pab *Gregory*: y Brenhin Ioan yntau a gynnigodd roddi ei goron i Bandulphus, Legat y Pab: Henry y pedwarydd a roddodd ei goron i'r Pab, gan ymoſtwng ar ei liniau o'i flaen; Henry yr ail gufanodd ben glin Legât y Pab; Frederic y cyntaf, fu yn dal ſtirrop y Pâb ar y tu aſſwy; ac o'r diwedd cafodd y Pab c'uwch ei ddyrchafu ag yr oedd yn marchogaeth a'r Emerawdwyr yn dal y ffrwyn, a brenhinoedd yn cerdded o'r blaen; ac ar amſer arall y byddid yn ei ddwyn ef ar yſgwyddau dynion, a'r Emerawd-

wyr

wyr ar Brenhinoedd yn cerdded o'r blaen. † Dyma'r anghriſt ſydd yn eiſtedd ynghadair Duw,

† Rhwyſg eſcob Rhufain ſu yn fawr anhygoel yn y dyddiau gynt; yr enwau fynnai alw arno ei hunan oedd, anyſgrythurol, a chableddus; a'r awdurdod oedd ef yn honni oedd afreſymol. Fei gelwid ef *archoffeiriad y byd*; *tywyſog yr eglwys*; *eſcob apoſtolaidd*; *pen cyffredinol yr eglwys*; *pen ac eſcob yr eglwys gyffredinol ymhob man, ac ar bob amſer, canlynwr St. Pedr*; *y pab mwyaf ſanctaidd*; *Ficer Duw ar y ddaear*; *nid Duw, nid dyn, ond cymmyſg rhwng y ddau*; *patriarch, a metropolitan eglwys Rufain*; *eſcob yr eſgobaeth gyntaf*; i ba ditlau y chwnegwyd tair coron, tair croes, dwy allwedd groes i'w gilydd, cleddyf noeth, ſaith ſêl, mewn arwydd o ſaith ddawn yr Yſpryd Glan, hwn fu yn cael ei ddwyn ar yſgwyddau dynion, a'r holl ymerodraethau a'r ymerawdwyr tan ei draed: gan gymmeryd arno, nad yw addas i fod un tywyſog yno yn teyrnaſſu lle mae ef yn eiſtedd, gan fod y cyflawn awdurdod o bethau yſprydol, a phethau tymhorol yn ei law: fod pob peth yn eiddo ef, ac am yr holl dywyſogion a roddodd iddo un peth, na roddaſant iddo ond ei eiddo ei hun; a bod yn ei bleſſer ef i bregethu maddeuant, a bod i'r ymerawdwyr a brenhinoedd i wneud cyſaddefiad, a daroſtyngiad iddo ef ar eu coroniad: bod ganddo awdurdod i ddigoroni, fel y digoronodd ef frenhinoedd, ac ymerawdwyr Fraingc: hefyd i ryddhau deiliaid oddi wrth eu hufuddod i'w tywyſogion: ac y gall ef roi pwer i Eſcobion ar gyrph dynion, heb awdurdod pa un nid yw un ſynod, na chonſſil cyffredin o ddim awdurdod: ac at ba un y dylai appeliad i'w wneuthur ar, ac ymhob achos: fod ei reolau ef o'r un awdurdod a chonſſil Nicea, ac nad y'nt lai i cyflawnu nâ phe buaſaent yn cael eu goſod gan St Pedr ei hun: y gall ef gyfnewid ac altro nattur pethau, trwy gwmhwyſo ſylwedd un peth at beth arall, y gall ef o'r hyn nad yw ddim wneid rhyw beth; ac i beri i'r farn oedd o'r blaen yn ddim i ſefyll mewn effaith: a gall faddeu uwchlaw y gyfraith, ac o anghyfiawder wneid cyfiawnder, ac i wella ac i gyfnewid cyfreithiau, a bod cyflawn awdurdod yn ei law ef.

ac

ac yn dyrchafu ei hun cuwch a Duw, 2 Theſſ. 2.

Eu. Y peth neſſaf ſydd arnaf chwant clywed, pa gyfeiliornadau ſy'n eu hathrawiaethau?

Ap. Maent yn eu hathrawiaethau, eu ſeremoniau, eu traddodiadau, eu diſcybliaethau, eu hurddau, eu ſacramentau, eu haddoliad o ddelwau, eu gweddiau ar ſeintiau, eu graddau eglwyſig, eu maſs, eu canonau, eu gwiſgoedd offeiriadol, a'u Incuiſiſion yn abl llanw byd o lyfr; ond am rai o honynt mi mynega i chwi, a hynny mor fyrred fyth ag allwyf.

Eu. Ewch rhagoch.

Ap. Maent yn 1. yn gwahardd darllen y Bibl yn y iaith ag y mae 'r bobl yn ei deall; a hynny at eu cadw yn anwybodus, gan haeru fod anwybodaeth yn fam crefydd. Maent yn ail yn rhoddi cymmaint derbyniad i Liaws mawr o draddodiadau dynol, ag ydym ni i air Duw; a rhei'ny mor wag, diſylwedd, a diyſtyr ag yw rhai Mahomet ei hun. Yn drydydd, maent yn haeru fod y Pab a'r Eglwys yn anffaeledig, ac y dylai pob dyn ddaroſtwng ei ffydd a'i gydwybod iddynt hwy; fel pe byddai'r Pab yn peri i ddynion droſeddu gorchymynion Duw, a gwahardd iddynt fyw yn rhinweddol, fod yr Eglwys yn rhwymedig i gredu fod y beiau yn dda, a rhinweddau yn ddrwg. Maent yn dal yn 4. fod y Pab hwn yn ben ar holl Eglwys Criſt, a bod holl ſrenhinoedd ac Ymerawdwyr y Byd i fod yn gyfiawn tan ei lywodraeth ef. Maent yn dal yn 5. nad yw meddiannau offeiriaid tan lywodraeth neb ſwyddogion gweledig, ond tan lywodraeth y Pab, ac mai ef yw'r neſſaf at Griſt ar y ddaear; er dywed yr yſgrythur mai anghriſt yw. Yn 6. maent yn gweddio ar ſeintiau ac angylion luoedd aneirif; gan wneud felly Liaws mawr o Gyfryngwyr rhwng Duw a dyn; gwyr, gwragedd, meibion, merched, yn enwedig y Forwyn-Fair,

ac yn galw arni yn fwy mynych nag ar Iachawdwr y byd. Yn 7. maent yn dal purdan, dodi dynion i dalu iawn am eu pechodau ei hunain, ac wrth hynny yn gwadu cyfiawnder cyfiawnder Criſt. Yn 8. maent yn dal fod dau fath o bechodau rhai maddeuol, a rhai marwol; y rhai marwol yw balchder, cybydd dod, anlladrwydd, digofaint, anghymmedrolder, cenfigen, a ſegurdod. Y nawfed, yw eu hathrawiaeth o haeddiant, yr hon ſydd yn ofnadwy iawn yn dodi gweithredoedd da dyn i haeddu'r cyfan ar law Duw; ac mor bell y maent yn hyn, fel y dalient fod gan rai ſeintiau enwog weithredoedd da tros ben pwrcaſſu Nefoedd iddynt eu hunain, fel y gallent gael gan Dduw am danynt fywyd gras a maddeuant i eraill; gweithredoedd yw y rhai'n tros ben orchymynir yn y ddeddf, ac a alwant gweithredoedd o *Supererogation* arnynt. Maent yntau yn 10. yn gwyr droi athrawiaeth o gyfiawnhad credadyn, ac yn taflu cyfiawnder Criſt ymaith; ac yn 11. nid yn unig yn gwneud cyfryngwyr o ddynion, ac angylion, ond hefyd delwau o ddynion, ſeintiau ac angylion i'w cynhorthwyo yn eu haddoliadau; ac amryw rai ddynion drwg a diras hefyd, mae'r Pab wedi eu rhoi yn wrthddrych o addoliad. Ac yn 12 ychydig amſer cyn y diwigiad y daeth allan yr athrawiaeth o *Indulgenſes*, ſef rhoi pardynau i rhai a'u prynai hwynt, rhyddhad oddi wrth euogrwydd ar goſp ddyledus am bechod, trwy'r iawn ag ſydd yn nhryſorau yr Eglwys. Maent yn 13. yn gwahardd priodi yn hollol i'r offeiriaid, fel y mae putteinio yn llai pechod ganthynt i'r cyfryw na phriodas. Ac hefyd maent yn edrych arno'n fwy canmoladwy a duwiol i eraill beidio a phriodi, am hynny mae ganthynt filoedd o fonachlogydd, a gwedd-dai ymha rai mae myrddiynau a myrddiynau a ſonachod, a *Nuns*, ſef

merched

merched a meibion gweddwon yn byw yn ſegur, ac eraill o'r bobl ddeillion yn eu maentumio hwy yno, tan dybied eu bod yn gweddio troſtynt pan fyw, ac wedi iddynt farw, eu bod yn eu tynnu yn gynt o'r purdan. Maent yn 14. yn gwadu bod y fath beth a Sicrwydd Ffydd, ac yn 15. yn haeru bod 7 Sacrament, ſef dodi *Confirmation*, Enneiniad diweddaf, priodas, urddau, a phenyd at ein dau Sacrament ni. Maent hefyd yn dal *trans* ſylweddiad, ſef bod trwy gyſſegriad y bara a'r gwin gyfnewidiad yn cael ei wneuthur o holl ſylwedd y bara i ſylwedd corph Criſt, a'r gwin i ſylwedd ei waed ef. Yn 16. maent yn attal y cwppan oddi wrth y Bobl yn y Cymmun neu'r Maſs; nid ydynt yn unig ond rhoi'r waffer yng nghenauau'r Cymunwyr, ond yr offeiriad ſydd yn yfed y dwfr a'r gwin cymmyſglyd ei hunan. Yn 17. Sacrament yr offeren neu'r Maſs ſanctaidd yw un o'u herchyll gyfeiriornadau, ſef gwneud aberth newydd o Sacrament Swpper yr Arglwydd, a'i hoffrymmu i fynu yn iawn tros y bobl; a chymmaint ſydd ganthynt o barch enw a ſeremoniau ynghylch yr offeren hon, ie, cymmaint o wrthiau wedi ei wneud trwyddo fel eu ſeintiau o fendith ar rai am ei barchu, ac o farn ar eraill am ei ddiyſtyru ag a lanwai fyd o lyfrau. †

† Treulio amſer ofer ſyddai mynegu yr holl aneiriſ wrthiau mae eglwys Rufain yn gyfrif i'w ſeintiau: mae ganthynt lyfr mawr, a'i enw *Flos Sanctorum*, yn cynnwys bywyd yr holl ſeintiau anrhydeddir a choffadwriaeth; pa rai a goffair yn eglwys Rufain trwy'r holl flwyddyn; ac heb law y llyfr hyn, mae ganthynt amrywiol eraill o lyfrau ſydd yn rhoi hanes bywyd rhyw un, megis bywyd St. *Nicholas*; un arall o fywyd St. *Fframſis*; arall o fywyd St. *Thomas* ac fel y mae pob ſect grefyddol â llawer o ſeintiau, a thri ugain a deg o ſectau, deallwch

Eu. Eglurwch ragor ar rai o'r athrawiaethau enwaſoch, yn enwedig yn gyntaf am gyfiawnhad.

Ap. Maent yn wrthwyneb i Paul ſy 'n d'weud mai trwy ffydd yng Nghriſt yn unig mae pechadur i gael ei gyfiawnhau, yn goſod amryw foddion o'u dyfais eu hunain, trwy ba rai mae haeddiant a dioddefaint Criſt yn cael ei wneuthur a 'i gymhwyſo yn eiddom ni er cyfiawnhad; megis *Cariad, Gobaith, Euluſen, Aberth y Maſs, Cyfaddefiad yngluſt yr offeiriad, iawn, haeddiant y Seintiau, urddau ſanctaidd, pardynau* 'r Pab, a'r cyfryw; felly fel nad yw *aberth a dioddefaint* Criſt yn ein iachau ni, nag yn fuddiol i ni er pa mor cyſtal y credom, oni chwanegwn y gweithredoedd da a'r haeddiant a ddywedpwyd uchod; a hwn ſydd gyfeiliornad er yr edrych ar y cyntaf i reſwm cnawd yn fechan, etto wrth ei ſanwl yſtyried yr Hereſi fwyaf dinyſtriol ar ba un fel ſylfaen

---

deallwch erbyn hyn, pa ſawl llyfr allai fod o fywyd feinctiau, pen ſectau, a Monachod yn yr eglwys hon; ac yn y rhai'n oll, mae y fath dorf o ryfeddodau, gwrthiau, ac arwyddion o ffafr Duw, ag fyddai aeth ar ddyn i glywed, ac etto nid y'nt oll ond breuddwydion digoel, a chelwyddau hagr; diben yr holl lyfrau hyn fydd eglur, ſef i ddifyrru'r bobl â rhyw fath o yſtoriau, a'u cadw yn ddall wreſog, ac yn dywyll eulun-addolgar at eu ſeintiau; ac i ddenu arian oddi wrth y bobl. Ac fel y mae ganthynt dorfeydd o wrthiau a gyfrifant i'w ſeintiau, felly nid llai gyfrifant i aberth y Maſs, a rhai'n oll mor wag, ddiſylwedd ac mor ddianghenrhaid, nad y'nt ond fel digrifwch dynion ſegur; amrywiol o honynt fydd oddi wrth y parch a'r cyfaddefiad a roddodd anifeiliaid y maes, adar yr wybr, ac ymlyſgiaid y llawr, ar amryw achoſion i'r waffer ſanctaidd; gwenyn, adar, cwn, ſeirph, gwiberod, meirch, aſſynnod, ŵyn, corrynnod, uchen, hwyaid gwylltion, bwchod, hyrddod, a geifr a ddangoſaſant barch ac ufudd dod anghyffredin i ſacrament yr allor.

ſylfaen y mae y rhan fwyaf o Gyfeiliornadau Eglwys Rufain yn adeiladu eu hunain.

Eu. Etto ychydig am y pwngc hwnnw o weithredoedd da ſoniaſoch ronyn o'r blaen.

Ap. Eglwys Rufain ſydd yn camſynied am nattur gweithredoedd da, ac yn galw gweithredoedd da, nid cymmaint, y rhai ſydd yn cael eu gorchymyn gan gyfraith Dduw a rhai ſydd gyttunol a chyffreithiau'r Pab; megis adeiladu Abbiau, ac Eglwyſydd; rhoddi at yr Allor fawr: ſylfaenu traetolau, ſef dweud Maſſau tros y marw ddeg ar hugain o ddiwrnodau; adeiladu chanteriau, ſef capeli ymha rai yr ydys yn maentumio offeiriaid i ddweud Maſſau tros y rhai f'o yn ei codi hwynt; goreuro Delwau, gwrando darllen Maſſau; myned ar Bererindod i leoedd pell, Rhyfela tros y groes ſanctaidd; cadw addynedau; cymmeryd urddau ſanctaidd, cadw nos wyliau ympryd; ymgrinad at y groes; gweddio ar y ſeintiau; a lliaws o'r gyffelyb, y rhai ſydd eu gyd, nid yn unig yn cael eu galw yn weithredoedd da, ond yn cael blaenoriaeth hefyd ar bob gweithredoedd eraill, fel y rhoir gan y Pab bardwn i rhai wnelo y rhai'n yn ddwbl, ac yn drebl ragor un weithred dda arall o gariad orchymynir ynghair Duw; ac er y d'wedant mai Gras Duw yr hwn ſy'n gwneud yn raſol, yw yr achos pennaf o weithredoedd da, etto ar ol cael Gras, gweithredoedd da ſydd yn cael eu cyfrif i ryw beth arall, ac nid i ffydd; megis i ewyllys rhydd, neu anian Gras, lle mewn gwirionedd nad oes un weithred dda, ond a f'o yn effaith ffydd. Am ddiben y gytraith yntau maent yn bur wrthwyneb i'r ystyrthur yr hon ſydd yn d'weud fod y ddeddf wedi ei rhoi i ddatguddio troſedd, ac felly i ein danfon at Criſt; nid ydynt yn gwneud un defnydd arall o honi, ond ein gwneud yn berffaith, i'n

cadw rhag digofaint, a'n gwneuthur yn gyfiawn ger bron Duw, ac felly gwnant ddiben gweithredoedd da i haeddu maddeuant, i roi iawn i Dduw, i haeddu Gras i waredu Eneidiau o'r purdan, a bod trwy rhai'n berſon y dyn diadgenedlig yn bodloni Duw. Ac er y d'wedant i Griſt i ddioddef tros bechodau gwreiddiol, neu bechodau o flaen bedydd, etto am bechodau gweithredol, ſod rhaid iddynt gael eu dileu trwy haeddiant dyn ei hun; ond nid yw pawb yn cytuno yn hyn, canys rhai ſy'n llai, a rhai yn fwy yn cymmyſgu cyfiawnhad, ond pawb ſydd yn goſod rhyw chwanegiad at haeddiant ein Harglwydd, cyn cael maddeuant Pechod. Maent yn dal nad yw'r gyfraith yn gofyn ufudd-dod, ond oddi allan ac y gall dyn fel y d'wedais nid yn unig ei chyflawnu ond gwneuthur pethau tros ben, i ſod yn dryſor i eraill i gael maddeuant; y rhai alwant gweithredoedd perffeithrwydd, neu weithredoedd anyledus arnynt, megis addunedau Monachlogaidd, tlodi gwirfodd, cadw gwahaniaeth bwydydd, a dillad, pererindod at Eſgyrn Seintiau, a Seintiau eu hunain, addoli y meirw, ac amryw ſeremoniau coel-grefyddol, Roſaries, ſef d'weud Maſs wrth Fair y Forwyn o 15 Pater-noſter, ac o 150 o Ave-maria, y rhai'n a gyfrifir ymhell uwchlaw neb o ddyledſwyddau'r Gyfraith:

Eu. Adroddwch ychydig am eu penyd.

Ap. Gwnaeth Eglwys Rufain Sacrament o benyd, neu edifeirwch, ac a'i rhannaſant yn dair rhan, 1. gofid am bechod, 2. cyfaddefiad, 3. a iawn Canonaidd. Am ofid meddant, mae ef i'w gael trwy nerth Ewyllys-rhydd, heb y gyfraith na'r Yſpryd Glan; ond trwy ymegniad dyn ei hun, a'r gofid ſydd raid ei fod yn gyflawn, ac yna mae yn haeddu maddeuant Pechod. Mewn cyfaddefiad, maent yn gofyn cyflawn adroddiad o'u holl bechodau wrth yr offeiriaid.

offeiriaid, ſel y b'o yn gwybod yn iawn pa ſodd i wneud bodlondeb cyffattebol i'r beiau; a'r adroddiad hyn o hono ei hun ſy'n haeddu gollyngdod. Y iawn Canonaidd alwant *Opera in debita*, gweithredoedd nad ydynt ddyledus, y rhai gyſarwyddir iddynt gan y Tad Cyfaddefwr, y rhai ſydd yn cymmeryd ymaith Boenau tragywyddol, ac yn eu troi yn Boenau amſerol y purdan; yr hyn Boenau hefyd maent yn ei leihau; ond fe ellir ſymmud ymaith, a pheidio gwneud y gweithredoedd Canonaidd hyn trwy Indulgenſe y Pab, a chael yr un rhyw rydd-did oddi wrth uffern ar purdan hefyd.

Eu. Ychydig ynghylch eu gwaith yn gweddio ar y Seintiau.

Ap. Mae ganthynt liaws o Seintiau ac angylion i weddio arnynt, y rhai oll maent yn eu gwneuthur yn gyfryngwyr rhwng Duw a dyn, yn enwedig y Forwyn Fair, yr hon yw y bennaf ar neſſaf at Criſt ei hun; ac yn cael erfyn yn fynychach arni nag ar y Iachawdwr ei hun, ond yr holl Seintiau hyn, ar angylion maent yn ei weddio arnynt, maent yn ei alw cyfryngwyr eiriolaeth, ond Criſt alwant arno cyfryngwr Iachawdwriaeth; ac am y rhifedi ſydd ganddynt gwrandewch ar ran fechan o'u Litani hwynt, o ba un hefyd y cymmerwyd rhan fawr o Litani Eglwys ‡ Loegr wrth hyn y deallwch

‡ Rhan o'r Litani ſydd fel hyn: Mari ſanctaidd gweddia troſom; Sanctaidd Fam Duw, gweddia troſom; Sanctaidd Forwyn y Morwynion, gweddia troſom; St. Michael, St. Gabriel, St. Raphael, gweddiwch troſom; chwi holl Angylion, ac Arch Angylion, gweddiwch troſom; chwi holl laddau Sanctaidd o Yſbrydion bendigedig, gweddiwch troſom; St. Ioan ſedyddiwr, gweddia troſom; chwi holl Batriarchiaid, a Phrophwydi, gweddiwch troſom; St. Pedr, St. Paul, St. Andrew St.

deallwch y parch ſydd ganthynt i'r Forwyn Fair ragor nâ neb o ſewn i'r holl nef; a dyma y rhifedi aneirif mae Eglwys Rufain yn weddio arnynt o Seintiau ac Angylion, ac mewn effaith yn eu haddoli; ac nid dynion ac Angylion a addolant hwy fel hyn, ond hefyd darnau o'r groes, o Eſgyrn neu dillad hen Seintiau, yr Elfennau hefyd, ſef y waffer, a'r Gwin yn y Sacrament, gan ymgrymmu iddynt ar eu gliniau, wrth fyned heibio ar ol eu cyſſegru, fel y dywedant fod Criſt ei hun yn gorphorol yno; ar fath dorfeydd mawrion o ryfeddodau a gwyrthiau

---

St. Iago, St. Ioan, St. Thomas, St. Philip, St. Bartholomew, St. Mathew, St. Simon, St. Thadeus, St. Mathias, St. Barnabas, St. Luc, St. Marc, gweddiwch troſom; yr holl Apoſtolion Sanctaidd a'r Efangylwyr; holl diſcyblion ein Harglwydd, a'r holl wirionaid, gweddiwch droſom; St. Stephen, St. Laurens, St. Vincent, St. Ffabian, a St. Sebaſtian, St. Ioan, a St. Paul, St. Coſme, a Damian, St. Gervas, a Phrotas, a chwithau holl ferthyron, gweddiwch troſom; St. Silfeſter, St. Gregori, a St. Ambros, St. Awſtin, St, Ierom, St. Martin, a St. Nicholas, gweddiwch troſom; chwi holl Eſcobion Santaidd a chyfaddefwyr, chwi holl ddyſgawdwyr, gweddiwch droſom; St. Anthoni, St. Bennet, St. Bernard, St. Dominic, a St. Ffrancis, gweddiwch troſom; chwi holl Offeiriaid Santaidd a Leiaid, yr holl fonachod a'r Hermittiaid, gweddiwch troſom; St. Mari Magdalen, St. Agatha, St. Luſi, St. Agnes, St. Sifili, St. Catharine, St. Anaſtaſia, chwi'r holl wyryſon Sanctaidd a'r gweddwon, chwi holl Wyr, Gwragedd, eiriolwch troſom. Dyma i chwi ran o Litani gyffredin y Maſs, ond cymmaint yw eu parch i Fair y Forwyn ag y mae Litani, iddi ar ei phen ei hun yn cael ei dywedyd yn waſtadol yn Eglwys *Loretto*, a lleodd eraill, rhan o ba un ſydd fel hyn — Mari Sanctaidd, gweddia troſom; ac yna y rhoir yr holl ditlau canlynol arni, gan ddweud ar ol pob un gweddia troſom; y titlau roir iddi yw y

rhai'n,

gwyrthiau a gyfrifir i Aberth y Maſs, (ſel y galwant ef,) ie, y fath rifedi o ſeremoniau ac o Broſeſſions fydd yn perthyn iddo ag fyddai rhy faith eu mynegu, anodd eu credu, a diſylwedd i'w hadrodd. Hwy a'i cadwant ef ar ol y cummundeb, ac a'i gwerthant ef am ariar, d'wedant ei fod yn ddigonol i greu ffydd yn y derbyniwr yn unig wrth wneud y peth, er na b'o na chwant, na dymuniad, na thueddiad yn y derbyniwr; dygant ef o ddautu Trefydd a Maeſydd mewn rhwyſg mawr, ac anrhydedd, fel pe baent yn dwyn y Iachawdwr ei hunain; gwnant gwmhwyſiad o hono at y byw a'r meirw, at y rhai abſenol, fel y rhai preſenol, er maddeuant Pechod, fel hyn y maent yn addoli'r creadur yn lle'r Creawdwr, yr hyn a ddyrnwyd o'r yſcub wenith fel Iachawdwr; ac ar ol ei addoli yr offrymmant hwy ef i'w Dad, ac ar ol hynny y bwttânt ef, neu y cauant ef i ſynu mewn bedd, ymha le os llygru o phydru wna ef cyn ei fwyta, yna y lloſgant ef yn ulw, ac er y gwyddant nas

---

rhai'n, Sanctaidd Fam Duw; — Mam Criſt; — Mam Dwyfol Ras; y Fam fwyaf Pur; y Fam fwyaf diwar; y Fam ddihalog; y Fam hollol; y Fam gariadus; y Fam ryfeddol; Mam ein Creawdwr, Mam ein Iachawdwr; y Fam fwyaf doeth; y Forwyn i'w moliannu; Drych Cyſiawnder; Eiſteddfa Doethineb; Achos Llawenydd; y Lleſtr yſbrydol; y Lleſtr anrhydeddus; y Rhoſyn dirgelaidd; Twr Dafydd; Twr Iſory; y Tŷ auraidd; Iechyd y Claf; Noddfa Pechaduriaid; Cymmorth Criſtnogion; Brenhines Angylion; Brenhines Patriarchiaid; Brenhines Prophwydi; Brenhines yr Apoſtolion; Brenhines Merthyron; Brenhines y Cyfaddefwyr; Brenhines y Morwynion; Brenhines yr holl Saint, Gweddia troſom: amryw yn rhagor o ditlau ſydd yn y Litani hon, megis Arch y Cyfammod; Porth y Nef; y Seren Forau; Cyſſur Wraig y cyſtyddiol gweddia troſom. —

nas gall corph Criſt fyth lygru mwy, etto hwy a loſgant bawb na's credo ſod hyn oll yn wirionedd.

Eu. Eglurwch ronyn ynghylch eu gwahardd priodi hwynt.

Ap. Croes i'r hyn a gadarnheir yngair y gwirionedd, galwant briodas yn ſtat o amherffeithrwydd, ac y cyfrifant fywyd ſiengl yn rhagorach, b'oed mor amhur ag y bo, gan gymmeryd arnynt lle mae y naill yn llanw'r byd, y mae'r llall yn llanw y nefoedd; ac heb law hyn, hwy. fuont gynt pan yn eu rhwſg yn cadw y drydydd ran o'r byd criſt'nogol os nid rhagor, meibion a merched, trwy lw o wedd-dod rhag priodi; * pa un bynnag

---

* Fe gollodd y Pab ran fawr o'i rwyſg, a'i awdurdod yn amſer y diwygiad; ond etto mae yn para i ſod un dwyſog tymhorol canolig fawr, ac yn hollol ben yn ei lywodraeth ei hun. Mae yn dal cwrt neu gownſil o gardinals ar achoſion eglwyſig, ond nid yw y Cardinals hyn yn cymmeryd dim mewn llaw am ei achoſion gwladaidd ef. Y Cardinals ynt drugain a deg o rifedi, pan ſont yn gyfain, wedi eu happwyntio gan y Pab pan b'o y gadair yn wag; ac y mae ef yn cymmeryd gofal yn waſtad ſod y rhan fwya o'r Cardinals hyn o *Italy* ei hunan, rhag ofn iddynt ſymmud y gadar o *Rufain.* Gweinidog pennaf y Pab yw Cardinals *Patron*, yn gyffredin ei nai, yr hwn ſydd yn crynhoi Etifeddiaeth anghyffredin os bydd bywyd y Pab o hir amſer. Rhan hynny elwir *Campania* ſydd tan lywodraeth ddigyfrwng y Pab. Yr ardaloedd eraill o'i lywodraeth eglwyſig ſydd yn cael eu llywodraethu gan Legats, a rhag Legats; ac mae pen Captain er ai ſyddinoedd ymhob ardal. Mae'r Pab yn prynu yr holl yd iddo ei hun, am ei bris ei hun o fewn ei gyffyniau ei hunan; ac yno y mae ef yn gwerthu yr un rhyw i'w Stiwardiaid am ei bris ei hun, ac yn gwneud mawr Elw y ffordd honno; mae teyrras y Pab yn 240 o filltirodd o hyd, ac 120 o led y man lletta gwlad frâs yn dwyn yd, gwin, olew, Sidan, a phob

bynnag ai meddent ddawn diweirdeb neu peidio. Y cyfryw weinidogion ag ellid ffeindio fod ganthynt wragedd, nid yn unig a ſymmudent o'u lleoedd,

---

phob rhyw ffrwythau ſy'n perthyn i wlad wreſog — Muriau *Rhufain*, y brif ddinas, ſydd 12 Milldir o gwmpas; nid oes dim o'r drydedd ran o'r tir ag ſydd o fewn i'r muriau a theiau arno; ond amryw o erddi, a gwinllannoedd ſydd yn llanw'r lle. Nid yw trigolion y ddinas ddim tros 120000 chwech ugain mil. Mae pump pont etto yn aros ar yr afon *Tiber* yn y ddinas, 20 o byrth, a 300 o durau er yr amſer gynt. Mae i ddal ſylw arno, fod mwy o rydd-did yn cael ei roi i bobl o bob crefydd yn Rhufain nag yn un wlad arall o'r grefydd Babaidd Refeniw'r Pab fel tywyſog tymhorol ſydd o ddautu un filiwn o bunnau yn y flwyddyn, y rhai ſydd yn dyfod yn bennaf oddi wrth yr ŷd mae ef yn ei gymmeryd oddi wrth eu holl ddeiliaid, y Diwti ar win a'r cyffelyb. Ond llywodraeth eglwyſig y Pab ſydd ymhell yn rhagori ar ei un dymhorol. Fe gyfrifir fod y monachod a'r offeiriaid y rhai ſydd yn gyſan tan ei lywodraeth, ac at ei Ewyllys, ddim llai o rif nâ dwy fil o fioledd, wedi eu gwaſgaru trwy holl ardaloedd y byd, i gadarnhau ei bendefigaeth ar frenhinoedd, ac i ddyrchafu ei intereſt ef yn yr eglwys; ac nid yw yr elw ag y mae y monachod hyn yn ei ſugno oddi wrth wledydd pabaidd ddim llai nag ugain miliwn o bunnau yn y flwyddyn, heblaw yr holl elw dirifedi ſydd yn digwydd iddynt oddi wrth offrymmau a rhoddion y bobl, y rhai ſydd yn cael eu dyſgu fod eu Iachawdwriaeth yn gorphwys ar y fath roddion. Mae llywodraeth y Pab trwy yr holl fyd mor belled ag y mae'r grefydd babaidd wedi cadw ei lle; a pha rwymedigaethau bynnag mae deiliaid tanynt i'r tywyſogion hynny tan ba rai maent yn byw, maent yn barod i roi heibio bob rhwymedigaeth, pan b'o eu dyledſwydd hwynt i'r Pab yn cyd-daro a'u dyledſwydd i'w harglwyddi tymhorol; a llawer pryd yr annogwyd hwynt i ddiyſtyru eu tywyſogion: ac er i amryw o dywyſogion tymhorol yn ddiweddar a'u deiliaid hefyd o gymmundeb eglwys *Rufain* i wrthddadlu un bennaeth y Pab, etto y monachod,

a'r

oedd, ond hefyd roent arnynt farn marwolaeth, ac a gyfrifent eu plant yn faſtarddiaid; hefyd cyſtal a'r drydedd ran o'r fwyddyn maent yn ei gadw rhag rhydd-did priodas. Maent yn gwahardd perthynaſau i briodi hyd y bummed a'r chweched ach, er dywaid yr yſgrythur yn eglur i'r gwrthwyneb, ac er y medrant am arian roi rhydddid drachefn i'r cyfryw beth; ac uwchlaw hyn oll, hwy chwanegaſant waharddiad newydd i achau yſprydol i briodi, ſef na b'o i'r rhai a fo yn oſebion, ſef yn dadau a mammau bedydd gydà eu gilydd yn dal wrth fedydd blentyn dyn arall, byth i briodi eu gilydd mwy: ond yn olaf, maent oddi wrth yr athrawiaethau hyn o waharddd priodi yn ennill, ac yn rhaccanu iddynt eu hunain oddi wrth y bobl gyfoethog yn aneirif ac yn meithrin godineb, a phutteindra, a phechodau mwy.

Eu. Agorwch ychydig am athrawiaeth ei purdan.

Ap. Poenau eu purdan ſydd gymmaint meddant a phoenau uffern, yn unig hyn o wahaniaeth, fod un yn parhau byth, a'r llall yn darfod ar ol cymmaint a hyn o amſer; a bod tân y purdan yn tarfu, ac yn ſcwrio yr holl bechodau a wnaed o'r blaen yn y corph.

Eu. Pa cyd mae'r poenau hyn yn para?

Ap. Rhai yn llai, a rhai yn fwy, pawb ar ol haeddient eu pechodau; ond pan del yr amſer y b'o eu poenau i ddarfod, troſglwyddir hwynt i lawenydd y nef, yr hon a brynodd corph Criſt iddynt; ond rhaid iddynt aros yno, nes bo'r tân wedi cyflawn darfu, ac wedi ſcowro pob pechod ymaith;

---

a'r offeiriaid ymhob gwlad ſydd fyth yn para yn hollol ymroddi eu hunain o ochr eglwys *Rufain*, ac yn barod i wrthſefyll y llywodraeth wladaidd bryd bynnag b'o awdurdod y Pab yn cael ei ammau, a rhai'n fel y dywedpwyd yn 2000000.

ymaith; oni chânt ryw ddiangfa ffordd arall.

Eu. Pa fath maent yn ddiſgwyl i gael?

Ap. Rhyw gynnorthwyadau ag ſydd yn byrhau amſer eu puredigaeth; megis pardynau ac Indulgenſes y Pab, aberth yr allor, gweddiau tros y marw, trentalau, gweddiau, ymprydiau, gweithredoedd haeddiant o dryſorau'r eglwys, eluſennau'r byw, y rhai ſydd yn bodloni cyfiawnder Duw troſtynt. Ac anghrediniaeth o gredu bod y fath burdan a hwn ſydd yn damnio yr enaid tros fyth yn uffern.

Eu. Eglurwch ryw ychydig am eu hereſiau yn darllen ac yn gweddio mewn iaith ddieithr i'r bobl.

Ap. Ni chair darllen y Bibl gan neb ond yr offeiriaid; a hynny hefyd yn lladin, iaith nad yw'r dynion yn awr yn ei deall yno mwy na'r Hebraeg, ac mor beryglus yw i'r cyffredin bobl gadw Bibl gyda hwynt, ag y drwgdybir eu bod yn hereticiaid. Darllenant y maſs hefyd mewn iaith na ddeallont, ſef y lladin.

Eu. A ddywedaſoch nad ynt yn dal yr yſgrythur lan yn ddigonal o reol ffydd a bywyd crift'nogion?

Ap. Cyfeiliornad ofnadwy iawn yn eu heglwys yw hyn, ſef, haeru nad yw llyfrau'r hen Deſtament a'r Newydd yn ddigonol i ffydd a bywyd; am hynny mae'r Apocripha wedi dyfod i mewn ganthynt o'r un awdurdod a'r lleill o'r Yſgrythur Lan, er cymmaint o gelwyddau eglur ſydd ynddo, ac er ei fod o neillduol lais, a neillduol Yſbryd oddi wrth lyfrau Canonaidd y Bibl: amrywiol iawn hefyd o Synods ſydd ganthynt hwy, megis Synod Nicea, a Synod Conſtans, a llawer eraill, Canonau pa rai ſydd ganthynt o gymmaint a mwy pwys na'r Yſgrythur ei hunain; er nad oedd y rhan fwyaf o'r Synodau hyn ond rhai a gadwyd wedi i'r Eglwys wrthgilio ymhell oddi wrth ei chyweirdeb cyntaf; a rhan

ſwyaf o honynt a gynhaliwyd wedi goſod i fynu y Pab yn ben Eſcob ar yr holl Eglwys; a rhan aneirif o'u Canonau ſydd yn llwyr wrthwyneb i'r Yſgrythyr Lan, wedi eu ſefydlu a'u goſod yn bwrpaſol er mwyn amddiffyn y Pab ei rwyſg, ei awdurdod, a'i apoſtoliaeth gau; a dal i fynu intereſt pabyddiaeth yn y byd.

Eu. Yr wyf yn deall nad yw eu holl addoliad ond allanol, ac nad oes mo weithrediadau Yſbryd y Gras yn un rhan o hono.

Ap. Gwir, canys nid yw holl grefydd Eglwys Rufain o'r coryn i'r ſawdl yn gynhwyſedig ond mewn cyflawniadau ſeremoniaidd, fel gellir dweud bod hwnnw yn Griſtion rhagorol a wnel y pethau hyn; ſef yn gyntaf a fedyddir yn Lladin, lle y mae y teidau a'r mammau bedydd yn proffeſu yr hyn na wyddant; yna ei gonffirmio gan yr Eſcob, a mam y plentyn i gael ei phuro; ac ar ol y tyfo i oedran, dyfod i'r Eglwys, cadw ei ddyddiau ympryd, ymprydio yn y grawys, dyfod tan y *Benedicite*, ſef cael ei addef gan yr offeiriad, gwneuthur ei gyfaddefiad, cyflawnu ei ſeremoniau ar y Paſg, gwrando'r Maſs, a'r gwaſanaeth, goſod i fynu ganhwyllau o flaen y delwau, ymgriniad at y groes, cymmeryd y Bara Sanctaidd, a'r Dwfr Sanctaidd, myned mewn Proſeſſiwn, dwyn ei Balmwydd, a'i ganhwyll, a chymmeryd lludw; ymprydio ddyddiau'r lludw, dyddiau'r gweddiau, a nos wyliau, cadw dyddiau gŵyliau, talu ei degymmau, a'i offrwm ddyddiau, myned ar bererindod, prynu pardynau, addoli ei Greawdwr tros ben yr offeiriaid, cymmeryd y Pab yn ben ardderchoccaf, ac ufuddhau i'w gyfreithiau, derbyn athrawon St. Nicholas, arferyd ei fedau, a rhoi at yr allor fawr, dweud ei Fattins, neu ei waſanaeth boreuol, eanu ei Faſs, codi i fynu yn deg, cadw ei adduned, peidio priodi, cymmeryd ei enneinio pan

b'o

b'o claf, a chyflawnu ſeremoniau'r Eglwys Santaidd, cymmeryd ei gladdu yn y fynwent, a chymmeryd canu clych ar ol ei gladdedigaeth, a chymmeryd ei gladdu mewn cochl Ffryer a ffeindio offeiriad i'w gynhorthwo ef yn ei farwolaeth. Y fath a hyn yw gwir Griſtion ar ol barn Eglwys Rufain.

Eu. Agorwch ychydig ar y Sacrament hynny o Enneiniaid diweddaf.

Ap. Pan b'o neb yn glaf ac yn debyg i farw, yr offeiriad a gymmer olew yr hwn ſydd yn waſtad wedi ei wneud o'r blaen, a'i gyſſegru gan yr Eſcob, ac â hwn yr offeiriad a ira lygaid, cluſtiau, a holl aelodau eraill y dyn claf, ac a ddywed. Yr wyf yn dy enneinio di yn enw'r Tad y Mab a'r Yſpryd Glan, fel y byddo i ti gael maddeuaut o'r holl bechodau fu'r Aelodau hyn offerynol o wneuthur trwy dy holl fywyd; ac yn awr fe gyfrifir yn deilwng i farw.

Eu. Y peth neſſaf yw Sacrament y Maſs.

Ap. Deallwch nad yw y bobl yn eglwys Rufain yn cymmuno un waith ond un yn y flwyddyn, er fod yr offeiriad yn cymmuno ei hun bob Sabbath; ar cummun hwn alwant arno Aberth y Maſs, ac a weinidogaethir ar ŵyl y Paſg, o flaen pa un, ar ryw ddiwrnodau o'r grawys, y mae'r holl bobl yn rhwym i addef eu pechodau, maddeuol a marwol ynghluſt yr offeiriad; yr hyn ddefod yw un arall o'u Sacramentau, ac yna yr offeiriad plwyfol, yr hwn elwir ar y cyfryw achos Tad Cyfaddefwr a'u maddeu hwynt oll; gan dd'wedyd, *Abſolvo te, yr wyf yn dy ryddhau di.* Ond os bydd y pechodau yn fawrion, ac amryw o rai marwol yn eu plith, gorfydd arnynt ar ol cael y maddeuant hyn i gyflawnu rhyw daſg rhagor megis dweud cynnifer *Pater-Noſter, Ave Maria,* neu weled rhyw hen Saint, neu fonach ymhell, neu roi'r fath ſwm a arian at y fath achos eglwyſig; yna cânt

ddyfod i Aberth y Maſs, yr hyn a ddeſcrifiaf i chwi orau ag y medraf ond cyn myned rhagom, da yw i chwi wybod yr amryw liwiau, yr addurnau, a'u harwyddoccad ſydd ganthynt wrth weini y Maſs hwn.

Eu. Manegwch.

Ap. Yr allor yr hon ſydd yn dal allan fynydd Calfari meddant, a elwir felly am mai arni yr offrymmir Aberth o gorph Criſt, y lliain ſydd yn dal purdeb nattur ddynol ein Iachawdwr, a rhaid bendithio'r lliain yn arwyddo mawr Sancteiddrwydd Bywyd Criſt. Y canhwyllau ar yr allor hon ſydd yn rhybuddio i fod yn barod ag olew gweithredoedd da yn lampau ffydd; y groes ar yr allor yr hon yw yr addurn pennaf, ſydd yn dal buddigoliaeth ein Iachawdwr a'r angau; y Chalis ſy'n arwyddo y cwppan ymha un darfu ein Iachawdwr gyſſegru ei waed; y clawr ſy'n arwyddo y garreg drowd ar y bedd; y corporol yr hwn ſydd ddarn o liain pedwar onglog, ar ba un y cyſſegrir y bara a'r gwin, ſy'n dal y lliain glân hwnnw darfu i Joſeph o Arimathea wiſgo'r Ieſu cyn ei gladdu; y gorchudd ſydd yn cuddio 'r caliw a'r clawr, ſydd yn dal y napcin am ben ein Iachawdwr yn y bedd.

Eu. Dyma ddodrefn yr allor, bellach am ddull yr Aberth.

Ap. Hynny wnaf ond rhaid paſio heibio i'r amryw lywiau, au harwyddoccad ag mae'r eglwys wedi ei ordeinio, at amſerau priod o'r flwyddyn, a'r gwiſgoedd ſydd gan yr offeiriad yn bwrpaſol at y Maſs hwn, heb ba un ni's gall ef weinidogaethu y Sacrament yn gymmeradwy ‡ ar ol i'r offeiriad wiſgo

‡ Mae gan Eglwys Rufain amrywiol liwiau i'w harferyd ar wŷliau, ac amſerau priod, nid yn unig addurnu'r addoliad, ond hefyd ſydd o arwyddoccad neilduol, megis

wiſgo ei hun yn ei holl offeiriadol-wiſgoedd eſe a'i Ddiacon, neu ei Glerc a â i'r gangell, a'r Clerc

megis lliw gwyn, yn arwyddo purdeb, a diweirdeb: yr hwn ſydd yn cael ei arferyd ar ŵyliau yr angylion, cyſaddeſwyr, gwyryſon, ac ar Enedigaeth ein Iachawdwr, ei Adgyſodiad, ei Eſgyniad, *Corpus Criſti*, a'r gŵyliau pennaf eraill. Y neſſaf yw coch, yn arwyddo dioddefaint Criſt, ac arferir ar ddydd gŵyl y grog, gŵyliau yr Apoſtolion, a'r merthyron, i ddangos ſod eu hymadawiad oddi yma trwy fôr y gyſtudd. Un arall yw gwyrdd yr hwn arferir o'r wythſed o'r Yſtwyl hyd Septuageſima, ac o octaf y ſul-gwyn hyd yr adfent; yr hwn liw ſydd yn arwyddo Ieuenctid, grym a chalon, ac am hynny yn dal allan weithio, ymdrech, a diwidrwydd. Lliw arall yw'r Fiolet, lliw'r awyr, yn arwyddo ſod y Nef yn gaued i bawb nad yw trwy edifeirwch yn gwella eu bychedd. A'r lliw du yw yr olaf, yn arwyddo galar, ac i ſod ar yr allor yn dangos dioddefaint Criſt; ſe arferir heſyd ar gladdedigaeth, ac yn cyffro i alaru am y rhai ſydd yn y purdan, am waredigaeth pa rai ni ddylem yn waſtad weddio meddant. Mae gan yr offeiriad amryw wiſgoedd fel yr Arch-offeiriad gynt; ac un yw yr *Amice*, yr hon a ddyd ef tros ei ben, yn arwyddo meddant ddyndod Criſt, tan ba un yr oedd yn gyddiedig ei nattur ddwyfol. Yr ail yw yr *Able*, gwiſg wen hir, yn arwyddo diniweidrwydd, ac yn dal y wiſg ddedwydd am ein Iachawdwr gan Herod. Mae gwregis eilwaith yn arwydd o'r cordyn a pha un y rhwymwyd ef wrth y poſt, pan fflangellwyd gan y milwyr, ac am ſod dau ben y gwregis yn cael eu troi i ſynu, hyn ſy'n dal y ddau fath foddion trwy ba un y cedwir ein diweirdeb, ſef ympryd a gweddi. Y neſſaf yw y *Manipl* math o Scarff i wiſgo am ei fraich, yn dal allan y cordynnau y rhai oedd yn rhwymo ddwylaw, a breichiau'r Iachawdwr, pan oedd yn cael ei arwain o un barnwr at y llall. Un arall yw y ſtol yr hwn ſydd addurn am wdds yr offeiriad, ac yn groes i'w ddwyfron, yn arwyddo iau ufudddod hyd angeu; ar y groes i ba un y rhoddodd ein Harglwydd ei hun er ein Iechydwriaeth. Yr offeiriad a

Clerc a ddwg y Llyfr o flaen yr offeiriad, ac ai dyd ynghauad ar du deheu'r allor, yn arwyddo meddant mai'r Iuddewon oedd i gael y cynnig cyntaf ar yr Efengyl; yna efe a ymoſtwng ar ei liniau ar y ſtep iſſaf, ac a ymgrymma i'r groes, gan ddweud o leiaf yn ei galon *Duw bydd drugarog wrthyf bechadur*; ac wedi troi ei wyneb tua'r Dwyrain, a mynych groeſi ei ddwyfron, a'r lleſtri a ſo yn cynnwys y bara a'r gwin, y rhai y mae yn myned i wneud offrwm o honynt, a ddywed amryw weddiau Lladin, a chan groeſi, ac ymgrymmu, a ddaw o'r diwedd at Eiriau'r Ordinhad; a chyn gynted ag y dywedo, *hwn yw fy nghorph*, maent yn credu fod y bara a'r gwin yn cael ei wir droi yn berffaith Gig a Gwaed Criſt; am hynny fe ymgrymma, ar y geiriau hynny, i addoli'r Elfennau, y Bara a'r Gwin; yna ſe'u cyfyd uwch ei ben i olwg yr holl gynnulleidfa, y rhai a ſafant yn y cyfamſer ynghorph y llan; y rhai pan y gwelant, a ymgrymmant, ac a ſyrthiant ar eu gliniau i'w addoli, gan gredu y pryd hynny eu bod yn addoli Criſt ei hun. Yr offeiriad wedi cyſegru yr offrwm ſel hyn, a weddia ar Dduw ar iddo ei gymmeryd yn aberth cymmeradwy

---

guſana'r groes, yr hon ſydd ar ei chanol hi pan b'o ef yn ei gwiſgo hi, i ddangos ei ewyllyſgarwch i ddwyn iau croes Criſt gydâ phob amynedd mewn pob cyſtudd, llun y ddwy groes, un ar bob pen i'r ſtol, yn hongian i lawr ar ddau ochr yr offeiriad ſydd yn arwyddoccau y ddwy groes ar ba rai yr hoeliwyd y lladron; a'r groes a'r ganol ei freſt ſy'n arwyddo ei groes ef ei hun. Yr olaf yw y Veſtment yn arwyddo y wiſg borphor rowd am dano pan oedd ei gorph ef ei gyd yn waed; mae'r wiſg hon yn ddwy ran ar uchaf oll yw hi, yn arwyddo dau ryw gariad ſef at Dduw ac at gymmydog; ac y mae croes ſawr ar gefn y Veſtment yn dodi mewn cof o'r groes a ddygodd ef ar ei yſgwyddau i ſynydd Calfari. A gweddiau byrrion ſydd i'w harferyd wrth wiſgo y rhai hyn oll.

cymmeradwy drosto ei hun ac eraill; tros y Pab, a Phennaethiaid yr Eglwys; brenhin y tir, a'i geraint; yr holl Ffyddloniaid, yn enwedig y gynnulleidfa honno: ac ar ol iddo ei offrymmu tros y rhai byw, efe weddia yn nesaf ar iddo sod yn llesiol i'r meirw yn y purdan; amrywol iawn o weddiau sydd cyn cyssegru, wrth gessegru, ac ar ol cyssegru, wrth ddyrchafu'r bara y gweddier, *henssych well wir gorph o sendigedig Forwyn Fair, ac a wir ddioddefodd*, &c. Ac wrth ddyrchafu'r Cwppan, *henssych well werthfawroccaf waed*, &c. Mae gweddi ar y sacrament ei hun;— *yr wyf yn dy addoli di O Iachawdwr sy enaid, tragwyddol Air y Tad, gwir Aberth wedi ei offrymmu tros bechodau yr holl syd* &c. *O angylaidd nefol Fara! o Dragwyddol air y Tad!* mae gweddi tros y ffyddloniaid a ymadawsant, ar sod yr Aberth hynny iddynt hwy yn iechydwriaith dragwyddol, yn orphwysfa wastadol, ac yn ddedwyddwch tros byth, &c. Yr offeiriad ar ol aberthu tros y byw, a'r meirw, a ddywed, amryw weddiau am eiriolaeth y Forwyn Fair, y sanctaidd Apostolion, Pedr a Phaul, a'r holl seintiau; ar ol cysanu'r allor, y llestri; curo ei ddwyfron, ac ymgrymmu, &c. se gymmer y Bara a'r gwin, ac wedi gwneud llun y groes a hwynt ar draws ei enau, se'u bwytty; y gynnulleidfa yn edrych arno, ac yn dweud gweddiau pwrpasol i'r achos, eu gyd ar eu gliniau; ond hyn a wna sef bob Sabbath, bob dydd gŵyl, a phob pryd y b'o ef yn gweini yn gyhoeddus; ond ar ddydd Pasg yr offeiriad a ddyry y waffer i'r holl bobl, gan ei dodi yn eu geneuau â'i law ei hun; a'r waffer hon sydd teisen fechan o gann gwenith wedi ei chrasu rhwng dwy deilsen; ond ar ol y cwbl, y Diacon neu'r Clerc a rydd iddo Ddwfr a Gwin cymmysgedig, i olchi ei ddwlo, ac wedi addoli llun y groes, dywedyd rhai gweddiau, yr Epis-

tol,

tol, a'r Efengyl, fe ddiwedda gyd a gweddiau ar y Drindod.

Eu. A oes gan Eglwys Rufain un rhyw waſanaeth ond hwn?

Ap. Oes amryw, mae offeren Ladin i'w dailen y borau ag elwir Mattins arni, ac un arall brydnhawn elwir Veſper; ac hefyd mae ganthynt Roſary, yr hwn a ddatguddiwyd meddant gan y forwyn Fair i St. *Dominic*, y rhai'n yw clwm o weddiau mwyaf effeithiol i ennill ar Law Duw, a throi drwg oddi wrth ddyn; maent yn cynnyws 15 *Pater-noſter's* a 150 o *ave Maria's*; *ave Maria* yw gweddi fer ar Fair y forwyn, fel hyn; *henffych well fendigedig Forwyn Fair, llawn o ras, ein Harglwydd ſydd gyd a thi, bendigedig wyt ti ymyſg Gwragedd, a bendigedig yw ffrwyth dy fry Ieſu.* A'r Roſari hyn ſydd wedi cael ei rannu yn 3 rhan; ſef 5 *Pater-noſter* a 50 *Ave Maria*, ac o flaen pob un o'r rhannau hyn mae ryw bwngc o ddirgelwch o fywyd ein Iachawdwr, neu ei fam, fel ſylwedd i fyfurio arno, tra fyddo yn gweddio; y dirgeledigaethau hyn hefyd ſydd 15, ac o dri math, at dair rhan y Roſari, ſef rhai llawen, rhai athriſt, a rhai gogoneddus. Y dirgeledigaethau llawen ydynt, am gyfarchiad yr angel Gabriel, i Mair; am Mair yn myned i gyfarch Elizabeth; am Mair yn eſgor ar ei mab; am Mair yn preſentio ei Phlentyn yn y Deml: am Mair yn ymofyn yr Ieſu dri diwrnod wedi iddo aros yn ol yn Jeruſalem. Y pethau hyn ſydd i'w fyfyrio arnynt ddydd lluniau, a dyddiau iau, ſuliau'r adfent, ac o'r yſtwyll hyd y grawys, felly mae'r dirgeledigaethau galarus wedi eu pennodi at ddyddau Mawrth, dyddiau Gwener, a phob dydd Sul trwy'r flwyddyn, ac yn gynhwyſedig mewn myfyrdodau am ein Harglwydd yn chwyſu gwaed yn yr ardd; fel fflangellwyd ef yn nhŷ Pilat, y rhifedi o wialenodau roddwyd iddo, fel y dat-

guddiwyd

guddiwyd i St. *Bridget*, y rhai oedd tros bum mil, a'r cyfryw: felly y mae dirgeledigaethau gogoneddus wedi eu pennodi at ddiwrnodau neillduol, ac yn cynnwys myfurdodau ar goncweſt ein Harglwydd ar angau, a'r bedd, *&c.* ac un *Paternoſter* a 10 *Ave Maria* i'w dweud wrth fyfyrio ar bob un o rhai'n, a gweddi neullduol ar Fair y forwyn ar ol y cwbl. Mae yn Eglwys Rufain dri Sallter; un Sallter Dafydd o dri hanner cant o Salmau; y llall yw Sallter Mair, o ddau hanner cant o *Ave-Maria*; a Sallter Ieſu, yr hwn fydd yn cynnwys 15 o erfyniau defoſiynol iawn ar yr Arglwydd Ieſu, ac o flaen pob un o rhai'n ei enw ef yn cael ei ailadrodd 10 waith, nes ei ail adrodd dri hanner cant o weithiau, ſe ellir dweud y Sallter hwn ar un waith, neu ddwy fel y b'o cyfleuſdra, a gwreſogrwydd y perſonau.

Eu. A oes cynnifer o wag ſeremoniau, ac o bob ewyllys grefydd yn awr yn Eglwys Rufain ag oedd yn y dyddiau gynt? A wnaeth dim diwygiad yn amryw o deyrnaſoedd Ewrop ddim iddynt ymadael â rhai o'u cyfeiliornadau?

Ap. Na ddo; canys y rhai fydd yn trafaelio gwledydd pabaidd fydd yn rhoi hanes i ni eu bod y dydd heddyw mor dywyll, ac eulunaddolgar ac erioed er bod llawer o rwyfg eu pen apoſtol hwy wedi ei golli, a thra fyddys yn cadw'r Bibl oddi wrth y wereinos, nid allant lai nâ gorwedd yn eithaf tywyllwch. * *Eu.*

---

* Y fawl a ddarlleno lythyr y parchedig Mr. G. Whitefield, o *Lisbon* yn Portugal, yn y flwyddyn 1754, at ei ffrynd yn Llundain, ynghylch proſeſſions y grawys yn y ddinas honno, a gaiff weled fod y Grefydd Babaidd mor belled, o ddiwigio mewn ſeremoniau ac addoliad delwan, ag y mae hi yn hytrach yn cynnyddu yn yr un rhyw: darnau o ba lythyrau yw y rhai'n " Ond yr hyn ddeliais fulw arno ar fy ffordd i Liſbon, oedd amldra

Eu. Bellach yr wyf am wybod am eu hoffeiriaid, eu monachod, a'u monachlogydd, ar dull y daeth y rhai'n gyntaf, a'u trefn hwynt yr awr hon. *Ap.*

---

dra llun y groes, a delwau bychain o lun Mair y Forwyn, a rhai ſeintiau eraill, pa un a'u bod yn wir Saint neu beidio, ag oedd wedi eu goſod bron ymhob Heol, neu wedi eu hoelio ar furriau'r tai bron ar bob croes ffordd, a lampau yn hongian o'u blaen y bobl oedd yn ymgrymmu i'r rhai'n wrth ſyned heibio, ac yn agos i rai o honynt, yr oedd yn ſefyll gwmpniaethau bychain yn canu â'u holl nerth. —— Wrth edrych allan i'r ffeneſtr un diwrnod, mi welwm gwmpni o offeiriaid, a ffriars, a chanhwyllau cwyr mawrion wedi eu hennyn yn eu dwylo; a chyda hwy amryw fath o bobl, rhai o ba rai oedd a chydau, a baſgedi o ſwyd yn eu dwylo, ac eraill oedd yn dwyn ymborth ar eu hyſgwyddau ar bren rhwng dau. Ac ar ol y rhai'n, yr oedd tyrfa gymmyſgedig yn canu a llais dyrchafedig, y weddi arferol ar Fair y Forwyn, *ora pro nobis*, gweddia troſom. Fel hyn yr aethant i'r Carchar, lle goſodwyd y cwbl i fynu i'r Carcharorion, ond mwy ardderchog proſeſſion o'r un fath aeth heibio y diwrnod o'r blaen, lle'r oedd 300 o Ffriers Ffranciſcanaidd, llawer o ba rai (heb law eraill wedi eu cyflogi i'r pwrpas hwn) oedd yn dwyn beichiau o amryw fwydydd; a rhai nad oedd yn dwyn bwyd oedd yn dwyn lledweddi, a llwyau, yn eu dwylo Dau beth oedd yn gwneuthur y fath broſeſſions a hyn yn fwy aml y dyddiau hyn; ſef ei bod hi yn ſychdwr mawr, a'i bod hi yn nyddiau'r grawys; ac er mwyn cael gwlaw proſeſſi ynau beunyddiol oedd yn cael eu gwneud o ryw fonachlog neu gilydd. Un o rhai'n a welais ag oedd yn cael ei chyfrif yn un go ardderchog, wedi ei gwneud i fynuo Ffriers Carmelitiaidd, offeiriaid y plwyfau, a rhifedi mawr o rhai alwent brodyr y ſect, neu yr order; y rhai oedd yn rhodio bob yn ddau, mewn amryw wiſgoedd, yn dwyn canwyll gwyr fawrhir wedi eu hennyn yn eu llaw ddeheu. Ac ynghanol y rhai hyn yr oedd yn cael ei ddwyn ar yſgwyddau 8 neu 10 o ddynion, ddelw fawr hir o Fair y Forwyn,

Ap. Deallwch fod dau fath o offeiriaid yn Eglwys Rufain, ſef offeiriaid gwladaidd, neu plwyfol;

---

y Forwyn, mewn rhyw fath o ddillad gwrryw; canys meddwl yr wyf fod ganddi wiſg wen deg iawn (gwiſgad ag y mae hi yn fynych yn ymddangos ynddo) ac wedi ei haddurnu yn rhyfeddol a pherlau, a meini diſglair; ac ychydig ffordd oddi wrth y ladi, tan Ganopy arddechog yr hwn oedd yn cael ei ddal i fynu gan 6 neu 8 o ddynion, daeth offeiriad yn dal yn ei law rhyw wehilion hynod o ryw hen Saint neu fonach. Ar ei ol y canlynodd llawer mil o bobl, yn cydganu â'r Ffriers, yr un gân, *ora pro nobis*, gweddia troſom, yr holl ffordd. Nid oedd gwlaw etto yn dyfod, a phroſeſſions oedd etto yn parhau. Ond o'r diwedd y cymmylau a ddechreuaſant gaſglu, a'r Mercury yn y Baro meter a gwympodd yn fawr: yna y daeth allan ddelw bren yr hon meddant hwy, nad oedd fyth yn methu: llun ein Harglwydd bendigedig oedd, wedi ei wiſgo mewn mantell o borphor, a'i goroni a drain: yr oedd ef yn dwyn ar ei yſgwyddau groes fawr, tan ba un yr oedd ef yn ymgrymmu, hyd onid oedd ei gorph ef bron yn plygu yn ddau. Y ddelw oedd wedi ei dwyn o fonachlog *Le groſs* gyda gogoniant mawr, a oſodwyd mewn Cathedral yn agos i'r allor, a'r faingc ardderchog, ac o gylch iddi ganhwyllau cwyr o anferth faintioli. Yn lloſgi; gerllaw iddo, yn attendo arno yr oedd llawer o bendefigion, a miloedd o rai o bob graddau yn edrych; wedi dyfod o bob goror, ac yn eu troion yn cael dyfod o fewn i'r Railiau, i wneud eu haddoliad; yr hyn oeddent yn ei wneud trwy benlinio, a chyſanu ſodlau y ddelw; a dodi eu llygad deheu, ac aſſwy i gyffwrdd a hi. Yn rhoi ei bedau i gwrdd a hi, y rhai yr oedd pendefig, yr hwn oedd yn waitio yno yn ei dderbyn ganthynt, ac yna eu rhoi ynol drachefn. Hyn fuwyd yn ei repeato dri diwrnod ol yn ol; a thrwy gydol yr amſer, yr eglwys, a'r cyntedd o'i blaen hi, oedd mor llawn o gerbydau a phobl, fel nad oedd braidd le i fyned heibio: y Muſic ar yr achos hyn, oedd yn eithaf melus, a'r eglwys wedi ei goleuo yn ardderchog rhyfedd: y trydydd dydd yn y prydnhawn hi lawiodd, ac yna y ddelw arweiniwyd ynol i'r fonachlog gyda chymmaint

plwyfol; ſwydd pa rai yw dywedyd Maſſau ar y Sabbathau, a'r dyddiau gwylion, dywedyd Mattins a Veſ-

maint o ogoniant, a llawer rhagor o orfoledd na'r pryd y dygwyd hi allan. Fel yr oedd fy ſefyllfa i yn gyfleus, mi welais y cwbl ac yna aethum ac a glywais ran o'r bregeth yr hon a bregethwyd yn yr Eglwys fawr lle yr oedd y ddelw yn perthynu. Y pregethwr oedd yn llawn o fywyd, ac yn un rhan o'i ymadrodd, ſe amneidiodd at y Ddelw, ac a dd'wedodd yn awr mae ef mewn gorphwyſfa — ſe aeth allan mewn cyfiawnder, ac a ddychwelodd mewn trugaredd; ar y diwedd ſe alwodd y bobl i uno ag ef mewn gweddi *Ecſtempore*: a hyn a wnaethant gyda gwres mawr, yr hyn oedd yn datguddio ei hun trwy ei waith yn curo ei ddwyfron, a chlappo ei ruddiau, ac wylo yn hidl ac i ddiweddu, yn union ar ol rhoi'r fendith, mi glywn oddi wrth y lle ag yr oedd y Ddelw yn aros, gyngan hyfryd o Fywſic; ac ar ol i hwn ddiweddu, y gynnulleidfa a ymadawodd. Ac ſe dd'wedodd rhai o'm cyfeillion wrthyf o ddautu 12 ar gloch un noſwaith arall iddynt nid yn unig glywed Ffrier yn pregethu yn wreſog o flaen y Ddelw, ond hefyd iddynt weled amryw gwmpniaethau o rai edifeiriol yn cael eu dwyn i mewn, yn curo, ac yn chwippo eu hunain yn greulon. — Darnau o lythyr arall ſydd fel hyn; " y Proteſtiyns ddanfonais eu hanes attoch ddiwethaf, oedd yn achos y ſychdwr mawr; ond yr hyn wyf yn anfon attoch yr awr hon, ſydd yn flynyddol; canys arferol yw yn *Lisbon* i gyflawnu rhyw Broſeſſiwn bob dydd gwener trwy'r grawys. Proteſtant dyallus oedd wrth fy nghlun a ddehonglodd i mi pa beth oedd y Shew fud, fel yr oedd hi yn myned heibio. Yr wyf yn ei galw hi Shew fud, canys rhaid i'ch ddeall ei bod hi wedi ei gwneud i fynu o ddelwau coed, a chwyr; a'i dwyn ar yſgwyddau dynion trwy 'r heolydd, tu ag at ddangos bywyd a marwolaeth St. Ffrancis, ſylfaenwr un o'u ſectau hwynt. Fe'u dygwyd hwynt allan o fonachlog y Ffranciſcanod, a thri wyr mewn gwiſgoedd yſgarlet oedd yn cerdded o'u blaen, a baſgedi yn eu dwylo, i ba rai yr oeddent yn derbyn Euluſennau, y rhai oedd yn edrych arnynt, i gynnorthwyo 'r carcharorion tlodion.

Ar

a Veſpes; dywedyd Maſſau neillduol, tros y ſawl o'r plwyf a fuant feirw, tu ag fryſio eu gwar-

---

Ar ol y rhai'n daeth dau fachgennyn mewn gwiſgoedd amryw liwiog, ac adenydd wedi eu goſod wrth eu hyſgwyddau, fel baent yn gyffelyb i angylion bychain. Yna yr ymddangoſodd llun St. Ffrancis, yn wyllt, yn ieuangc, yn hardd, ac wrth y Ffaſiwn fwyaf balch; fel yr ydoedd ef cyn ei argyoeddiad. — Ei ddelw neſaf ef a ymddangoſodd fel tan argyoeddiad; ac yn ganlynol wedi ei ddioſg o'i wiſgoedd hardd. Yna yn fuan ar ol hwn, yr ymddangoſodd delw ein Hiachawdwr ei hun, mewn gwn o borphor, a gwallt du llaes, a St. Ffrancis yn gorwedd o'i flaen ef i dderbyn yn ddigyfrwng ei Sect o Fonach. Yna daeth delw Mair y Forwyn, a Chriſt ei Mab ar ei llaw aſſwy, a St. Ffrancis yn ymgrymmu i'r ddau: dyma'r man cyntaf, os wyf yn cofio yn dda yr ymddangoſodd ef mewn gwiſgoedd Ffrier, a'i wallt wedi ei dorri yn ſyr; ond etto heb eillio coryn ei ben. Cyn pen ychydig amſer, dyma'n canlyn Gardinal, a'i goron ar ei ben, wedi ei wiſgo yn falchedd, ac o'i flaen ef yr oedd St. Ffrancis bron yn ei orwedd; mewn trefn i'w gadarnhau yn ei ſwydd. Ychydig ar ol hyn, mae ef yn ymddangos fel wedi ei hollol gyſnewid i fod yn fonach, ei goryn wedi ei eillio, ei ddillad yn dduon, a'i lwynau wedi ei gwregyſſu â chordynnau cnottog. Yma y mae ef yn gweddio ar ein Harglwydd ar y groes, ar fod ol y clwyfau yn ei ochr, yn ei ddwylo, a'i draed, wedi eu hargraphu yn yr un mannau ar ei gorph ynteu. Y weddi a wrandawyd; gwaed ddaeth allan o'i draed, ei ddwylo, a'i ochr: a'r Saint gyda boddlonrwydd mawr a dderbyniodd yr argraff. Hyn oedd yn cael ei oſod allan a charreion o gŵyr coch yn cyrraedd o'r rhannau hynny o ddelw ein Harglwydd i'r unrhyw fannau o ddelw St. Ffrancis. Ar hyn mae ef yn dechreu gwneud gwyrthiau; ac ymmhen ychydig y mae ef yn cael ei ddwyn ymlaen, yn dal tŷ i fynu ag oedd barod i gwympo. Y rhyfeddod

gwaredigaeth allan o'r purdan: am y gwaſanaeth hwn mae tylwyth y meirw yn talu y cyfryw

---

hwn a wnaeth St. Ffrancis meddant yn *Madrid* yn *Spain*. Ac ymhen ychydig y tad hwn fu farw, a'i ddelw ef ſydd yn awr yn cael ei dwyn allan yn gorwedd yn ei fedd. Ond, O! wele y mieri ar danadl tân ba rai yr oedd ef yn gorwedd, a drowd yn flodau peraidd a hyfryd. Ar ol hyn mae ef yn cael ei ddwyn ymlaen, ar elor wedi ei gorchguddio â gorchudd arian, a phedwar Ffriar yn galaru troſto. Yn awr gwelwch ef yn ymddangos y tro diwedda, ond gyda gallu a gogoniant mwy; canys yr oedd yn cael ei repreſento fel yn tynnu dynion allan o'r purdan, a'i gordyn cnottog, yr hwn fel gellwch ddeall yr oedd yr eneidiau tlodion yn ymaflyd ynddo yn awyddus. Ac yno daeth Ffrier ardderchog tan Ganopy gogoneddus yn dwyn yn ei law ddarn o'r groes ſanctaidd; ac ar ei ol ef y canlynodd dau fachgennyn bychain adeinog; ac yno gwmpeini llawn o Franciſcanod tewon llawnion, a'u heſgidiau tyllog, fel mae Eraſmus yn eu galw'hwynt; ac yna y darfu'r proceſſiwn. Am hynny mi gymmeraf fy nghennad oddi wrth St. Ffrancis, proceſſiwn pa un oedd wrth oleu dydd; ond rhaid i mi ddweud wrthych, mai yn unig i fanegu wrthych am un arall ag oedd fwy ofnadwy, ac aethus o nattur, yr hon y welais wedi hynny ar hyd y nos, o ddautu 10 o'r gloch; pan daeth Sais i mewn, ac y dywedodd wrthyf gydâ phob brys, iddo weled cwmpeini o agos dau cant o rai edifeiriol yn myned ar hyd yr heol, ac wrth bob tebygoliaeth y gallaſwn gael y pleſer o weled yr un olwg, os bryſiwn i fan ag yr arweiniai ef fi iddo. Yn union mi ufuddhais yr alwad, ac fel yr oedd chwant gweled pethau newydd yn fy annog i 'mlaen, ni a orddiweſaſom rai o'r creaduriaid gwirion hynny, y rhai oedd y pryd hynny yn aros, ac yn penlinio yn yr heol, tra yr oedd Ffriar oddi ar ben croes uchel a delw ein Harglwydd Ieſu, wedi ei groes hoelio yn ei law, yn pregethu iddynt hwy ar holl

werinos,

ryw ſwm o arian at bob Maſs, ond y rhai cyfoethog ſydd yn gadael llawer yn eu hewyllys diweddaf

---

werinos, yn eithaf ei nerth. Pan darfu y bregeth, y rhai edifeiriol hyn yn awr wedi cael pregethu iddynt, a aethant ymlaen, ac amryw gwmp'niaethau a ddaethant ar ol, a'u Ffriars neillduol i bregethu o'u blaen, bob un yn dwyn croes; y rhai'n oeddent yn ei ddal allan yn eu dwylo, ac yn ei ſiglo i beri edrych arnynt, ar gwrandawyr hwythau mor fynych yn curo eu breſtau, ac yn clappo eu gryddiau; rai prydiau ar hyd y ffordd hwy aroſent, ac a weddient; ac un o honynt ag oedd yn fwy gwreſog nâ'r lleill oflaen palas y brenhin a weiddodd allan y gair *Penitentia*, ſef yw hynny, Edifeirwch, trwy *Speaking Trumpet*, neu udgorn gweiddi. Yr edifeirwyr hyn eu hunain oedd wedi eu gwiſgo, a'u gorchguddio ei gyd troſtynt â lliain gwyn, yn unig tyllau wedi eu gwneud i'w llygaid weled: hwynt oll oedd yn droednoeth, ac oll oedd a chadwyni haiarn mawrion wedi eu ſicrhau wrth eu migyrnau, y rhai wrth gael eu lluſgo ar hyd yr heol, oedd yn gwneuthur trwſt angharuaidd: ond er eu bod yr un mewn gwiſgoedd, etto amrywiol oeddent mewn amryw bethau eraill; canys rhai oedd yn dwyn meini mawrion, ar eu hyſgwyddau, ac eraill eſgyrn, a phen-glogau dynion meirw yn eu dwylo: rhai oedd yn dwyn crwys mawrion, y rhai oedd yn ymddangos yn bwyſig rhyfedd ar eu hyſgwyddau; tra yr oedd eraill a'u breichiau ar led, neu ynteu yn dwyn bwa llawn o gleddyfau, a'u min i lawr. Y rhan fwya o honynt oedd yn chwippo, ac yn fflangellu eu hunain; rhai â chordynnau, eraill â chnappau bychain o haiarn. Yr oedd hi yn noſwaith oleu lleuad, yr oeddwn yn eu gweled yn ddigon da; ac yn wir yr oedd rhai o honynt yn curo eu hunain mor galed, fel yr oeddwn yn dyall bod eu cefnau (y rhai adewid yn noeth o bwrpas i'w flangellu) yn hollol goch, ac wedi chwyddo yn uchel gan nerth yr ergydion Mewn darn o lythyr arall eſe a ddywed fel hyn, " o ddautu z o'r gloch brydnawn, ni ddaethom i'r fan lle clywais rai dyddiau

diweddaf i hurio'r offeiriad i ddywedyd Maſſau. I'r offeiriad plwyfol y perthyn gwrando cyffes eu

---

dyddiau o'r blaen, fod rhyw beth rhyfeddol i gael ei gyflawni: a ellwch dybied pa beth ydoedd, f'allai na ellwch; am hynny mi ddywedaf wrthych. Croes hoelio Mab Duw ydoedd, yn cael ei oſod allan mewn rhan, trwy ddelwau mudion, ac mewn rhan trwy berſonnau dynion byw mewn eglwys helaeth ag oedd yn perthyn i Fonachlog *de beato*; amryw filoedd a ymgynnullaſant i mewn iddi; rhai o ba rai ſel y dywedpwyd i mi a fu yno yn aros er chwech yn y borau; trwy gynnorthwy proteſtant neu ddau, mi geſais nid yn unig ſy nghynnwys i'r eglwys, ond ceſais fy ngoſod mewn lle pur gyfleus i weled cyflawniad o'r cwbl: ni's darfu i ni aros yn hir, nes i'r llen gael ei chodi i fynu: yn union ar ſcaffold uchel wedi ei gwiſgo mewn brethyn glas, yn yr ochr neſaf attom, ac o'r tu cefn â damaſc ſidan o liw porphor wedi eu laſſo ag aur, rhowd allan i'n golwg ddelw ein Harglwydd Ieſu Griſt, yn ei lawn faentioli, wedi ei goroni â drain, a'i hoelio ar y groes, rhwng dau ddelw arall o'r un faintioli, yn dal allan y ddau leidr. Ychydig eilwaith ar y llaw ddeheu goſodwyd delw Mair y Forwyn, â'i ruffles hirion heb laſſau na'u fflowro, mewn math o wiſgad gweddw; gorchgudd ei phen oedd ſidan o liw porphor, a gogoniant o wyrs o ddautu ei phen. Wrth droed y groes yr oedd yn ſefyll mewn dull athriſt galarus ddyn byw, wedi ei wiſgo mewn dillad menyw, yr hwn oedd yn dal allan Mair Magdalen; ac yn agos i hyn eilwaith yr oedd yn ſefyll wr ieuangc yn cyſgodi y diſgybl anwyl. Hwn oedd wedi ei wiſgo mewn gwiſgad llaes o ſidan gwyrdd, ac ar ei ben *Bob Wig*; ei lygaid oedd yn craffu ar y groes, a'i ddwylo wedi eu heſtyn ychydig allan yn agos i wyneb y ſtage un o bob tu, yr oedd yn ſefyll ddau filwr mewn bwff, ac ar eu pennau gappau hull, a barfau hirion, ac yn union o flaen wyneb y ſtage yr oedd un arall yn fwy hull yr olwg, â gwaywffon yn ei law. Ni allwn feddwl mai hwn oedd y can-

eu plwyfolion unwaith o leiaf yn y flwyddyn, ſef yn y grawys; er eu bod yn fynychach, os bydd

---

canwriad Rhufeinedd; ac i ddibennu y ſcene, y tu ol i'r llen borphor, daeth allan o ddautu ugain o fechgyn bach adeiniog, wedi eu gwiſgo mewn porphor, dau a dau, a phob un yn dwyn canwyll gŵyr wedi ei hennyn yn ei law, a chap du-goch; ac aur ar eu pen ar eu gwaith yn myned i fynu i'r Stage, hwy a ymgrymaſant eu pennau mewn dull addfwyn i'r rhai oedd yn ſefyll o amgylch; yna ſyrthiaſant ar eu gliniau ac a wnaethant ufudd-dod i'r ddelw ar y groes yn gyntaf, ac yna i Fair y Forwyn. Pan y codaſant gwaethant ufudd-dod y naill i'r llall, ac yna cymeraſant eu lleoedd neillduol, un gyferbyn y llall, ar riſiau a barattowyd iddynt, ar wyneb y ſtage. Gyferbyn a hyn rai llatheidiau o bellder, yr oedd Ffriar du yn ſefyll mewn pulpit wedi ei wiſgo â brethyn du, hwn aroſodd yn fud tros dro, yna dorrodd allan, ac a ddyrchafodd ei lais bob yn ychydig ac yn ychydig, hyd onid oedd wedi cyrraedd yn oruchel, er fy mod yn meddwl nad oedd yn ddigon uchel i gyn'lleidfa mor lliooſog. Ar ol iddo ddal yn ei ymadrodd o ddautu cwarter awr, llais terfyſglyd oedd i'w glywed wrth ddrws mawr gorwyneb yr eglwys, ac wrth droi fy wyneb gwelwn bedwar wyr a barfau hirion; dau o ba rai oedd yn dwyn yſgol ar eu hyſgwyddau, ac o'u hol yr oedd yn canlyn ddau yn rhagor, a dyſgleidiau mawrion yn eu dwylo yn llawn o lieiniau, peraroglau, a'r fath. Y rhai'n dybygſwn i oedd yn cyſgodi Nicodemus, a Joſeph o Arimathea. Wrth roi arwydd o'r pulpit, hwy neſaſant ymlaen i riſiau y ſcaffold; ond ar y cynnig cyntaf a wnaethant i'w dringad, ar amneid y canwriaid gwiliadwrus, y milwyr ufudd a waſgaſant arnynt, ac a'u bygythaſant trwy breſentio eu gwaywffyn yn union gyrch at eu mynweſau. Hwy giliaſant yn ol; ar hyn mae llythyr oddi wrth Pilat yn cael ei roi ymlaen; y canwriaid ſydd yn ei ddarllen: yn figlo ei ben; a chyda golwg ag fy'n dangos mai gorſod oedd ef gydſynio

bydd cyfle; ac yn rhai o'r monachlogydd mae rhai yn cyfaddef bob dydd, a'r offeiriad yr hwn

---

amneidiodd ar y milwyr am dynnu eu harfau yn ol: fel hyn wedi cael cennad, y gwyr eſgynnaſant; a chan ddangos eu hufudd dod trwy benlinio yn gyntaf i'r ddelw ar y groes, ac yna i Fair y Forwyn, hwy a dynnaſant i du ol y ſtage. Fyth y pregethwr oedd yn para i areithio, neu yn hytrach fel y dywedent yn agor y ſcene alarus Magdalen oedd yn para i blethu ei dwylo; ac amryw ffyrdd yn manegu ei galar ei hun, tra yr oedd Ioan (fel pe buaſai heb feddwl am ddim arall) yn ſefyll, ac yn ſyllu ar y ddelw ar y groes. Erbyn hyn yr oedd hi yn dri ar gloch; ac am hynny yn llawn bryd i'r ſcene dynnu at ddiwedd, yr yſgolion a godwyd. Yr yſgrifen ag oedd uwch ei ben ef, ar goron ddrain a gymmeryd ymaith; a dau rolau wynion hirion oſodwyd gylch breichiau y ddelw, ac yna yr hoelion a yrrwyd allan, ag oedd yn ei gadarnhau ef wrth y groes. Yma yr oedd Mair Magdalen yn dangos wyneb trallodedig, a Ioan os oedd poſibl yntau oedd ſwy ſynn nag o'r blaen; yr areithiwr oedd yn codi i ſynu ei lais: ac bron yr holl wrandawyr oedd yn dangos difrifwch trwy wylo, curo eu dwyfron, a'u gryddiau: o'r diwedd y corph a gymmerwyd yn gynnil i lawr; Magdalen edrychodd arno; a chan godi bob yn ychydig ac ychydig, dderbyniodd ei draed ef i'w napcin ag oedd wedi ei dannu ar led, tra yr oedd Ioan (yr hwn oedd hyd yn hyn yn ſefyll fel delw) fel yr oedd y corph yn neſau at y ddaear gydag awch ag oedd yn datguddio dwfn ſerch cyfaill cydymdeimladol yn rhedeg at y groes, ac yn gafaelu am y rhan uchaf o honi yn ei freichiau, ac ynghyd a'i gyd alarwr yn cynnorthwyo i'w dwyn hi ymaith. Ac yma y buaſai yr hanes yn diweddu, oni buaſai bod ofn arnaf y buaſech yn digio wrthyf i'm beidio rhoi i chwi hanes y rhan olaf o'r chwaryddiaeth, trwy ddangos i chwi pa beth a ddigwyddodd o'r corph ar ol ei dynnu ef:

llawer

hwn ſydd yn cael yr enw yn awr o Dad Cyfaddefwr, a ddywed *abſolvo te*, ac yna y cyfrifir y dyn mor lân a phe buaſai heb bechu erioed.— Y ſath arall o offeiriaid yw'r monachod a'r Ffriars; ymhlith pa rai mae amryw o ſectau neillduol, y rhai ydynt yn aneirif.

Eu. Pa fodd daeth y Monachod a'r Monachlogydd yma gyntaf i gael bod?

Ap. Fe ddaeth Monachod yn fore iawn, er na ddaeth y Monachlogydd mawrion a'r cyfoeth anfeidrol ſydd ynthynt, ynghyd a rhyfedi aneirif o Fonachod ac o Fonacheſau hyd yn ddiweddar iawn; ac mae lle i gredu am eu dechreuad

---

llawer o barottoad a wnawd erbyn ei gladdedigaeth. Fe'i trowd ef mewn lliain, a pheraroglau; ac wedi ei roi ar yr elor, yr hon oedd wedi ei leinio yn anrhydeddus, a ddygwyd wedi'n yn gylch i'r fynwent mewn proceſſiwn arbenig. Delw Mair y Forwyn oedd y galarwr pennaf, a Ioan, a Magdalen, a lliaws o ffriars a chanhwyllau cwyr wedi eu hennyn yn eu dwylo yn canlyn ar ol. A mi wedi penderfynu gweled y cwbl, mi aroſais ei ddychweliad, ac ymhen cwarter awr y corph a ddygwyd i mewn, ac oſodwyd mewn bedd agored wedi ei barottoi i'r perwyl hyn; ond nid heb i offeiriad, ac yn ei gwmpni amryw o'r un alwad mewn gwiſgoedd ardderchog, ei beraroglu ag arogl-darth, gan ganu iddo, a phenlinio o'i flaen. Ioan a Magdalen a ganlynodd yr angladd; ond delw Mair y Forwyn a ddygwyd ymaith, ac a oſodwyd gorwyneb y ſtage, fel y gallai eſe gael ei gyſanu, a'i addoli gan y bobl. Hyn a welais hwynt yn ei wneuthur gyda'r parch ar gwreſogrwydd mwyaf, ac fel hyn y dibennod y wawd chwaryddiaeth goelgreſyddol eulunaddolgar ag ſydd yn cael ei harfer ddydd gwener cyn y paſg; gwawd chwaryddiaeth, yr hon tra yr oeddwn yn ei gweled cyſtal ag yn awr tra'r wyf yn ei goſod allan, oedd yn cynhyrfu ynof fawr gaſineb."

chreuad, mai dynion da oeddent, ag oedd am neillduo o ddwndwr a ſwn y byd at ſyfurio, darllen, gweddio, ymprydio, a moliannu Duw, ac y mae Baſil, Jerom, ac Auſtin, yn meddwl yn dda iawn am danynt. Ond o ddautu'r flwyddyn 370, pan oedd amrywiol o honynt fel hyn wedi neillduo oddi wrth y byd, i gabanau dirgel, mewn lleoedd anial, St. Baſil a gymmerodd arno ddwyn amrywiol o honynt i'r un man, ac adeiladodd deiau iddynt, ac a wnaeth ddiſgyblaeth yn eu plith,ac fe'u galwyd byth mwy Monachod St. Baſil; ond fel y dechreuodd eglwys Rufain godi i tynu o ddautu 'r 5ed ar 6ed canfed flynedd, daeth llawer yn rhagor o'r fath arfer a hon, ſef i ddodi rhai fyddai am neillduo oddi wrth y byd, a pheidio priodi, ar eu pennau eu hun mewn lleoedd pwrpaſol, y rhai alwyd wed'yn Monachlogydd; canys o ddautu'r flwyddyn 472 darfu un *Bennet*, neu *Benedictus*, gaſglu ynghyd yr holl Fonachod oedd yn byw yn waſgaredig yn Itali, ac a wnaeth ffurf o ddiſgybliaeth iddynt, fel yr oedd iddynt wiſgo y cyfryw ddillad, ac o'r cyfryw liw, a gweddio gynniſer o weithiau yn y dydd; hyn a hyn o oriau oedd iddynt gyſgu, y nos, y cyfryw fwydydd a gaent fwytta, rhaid oedd iddynt ymprydio ar y cyfryw ddyddiau o'r wythnos, ar cyffelyb reolau. Eu gwiſgoedd uchaf oedd gynau duon; yn lle eſgidiau gwiſgent fotaſau. Mae 'r ſect hon fyth yn Eglwys Rufain, tan enw, Monachod St. Bennet; ond darfu i'r ſect hon wahanu yn yr oeſoedd diweddaf i amryw ſectau eraill, naill ai trwy wneuthur cyfnewidiadau yn yr hen drefn, neu 'chwanegu atti, ac oddi yma daeth y *Clywiniaid*, y *Carthewſiaid*, y *Ciſterſiaid*, y *Seleſtiniaid*

ac

ac eraill. Ac nid oes dref na gwlad, hyd ag y mae'r Grefydd Babaidd yn cyrraedd heb rai Monachdai yn perthyn i ryw un o'r ſectau hyn. Ac nid oes ammau nad oedd y fath weddi-dai a'r rhai'n yn rhodio'n hunan-ymwadol, ac yn addas iawn i'r efengyl ar eu codiad cyntaf i ſynu; ond oeraſant, cyfoethogaſant, ac o'r diwedd aethant yn waradwydd i grefydd Criſt.

Eu. Ond pa fodd y daeth y Monachod ar Monachlogydd i feddu cymmaint cyfoeth? yr hyn o boſibl fu yr achos iddynt oeri?

Ap. Chwi ryfeddech fwy pe clywech pa rifedi ſydd yn Ffraingc, Spain, Portugal, Itali, a gwledydd eraill pabaidd o honynt; ac hefyd gynnifer fu o honynt gynt yn ynys Brydain, a gwledydd proteſtanaidd eraill; y rhai oll a dorrwyd i'r llawr; a'r fath gyfoeth anorphen oedd mawrion y byd wedi eu rhoi i faentumio y Monachod hyn! y fath etifeddiaethau mawrion! y fath renti digyfri! y fath ſymmau maith o arian, fel mai Monachod ei Monachlogydd, oedd y rhai cyfoethocca trwy'r byd, lle yr oedd y grefydd Babaidd: nid llai nag un cant ar ddeg ac wyth a deugain o fonachlogydd a ddinyſtriodd Harri yr wythfed ei hun yn Lloegr, ac a gymmerodd lawn berch'nogaeth o'r tiroedd oedd yn perthyn iddynt; y rhai nid oeddent lai y pryd hynny na naw ugain mil, 7 gant, a 7 o bunnau, a 13s. yr hyn a fuaſai y dydd heddyw o leiaf, yn dri chymmaint. Ac fe drodd allan mewn un flwyddyn, ddeg mil o Nuns a Ffriars; a llawer mewn blynyddau canlynol. Nid llai ſydd yn Ffraingc ei hun, na 500 o Nunneries, a phedwar ugain mil o Nuns, 500 o Hermits, ac Anchorets: 1500 o Fonachlogydd a Phreior-dai

ac

ac o ddautu chewch ugain mil o Fonachod a Ffriers. Ac os oes cynnifer o honynt ond yn Ffraingc ei hun, pa fath rifedi fydd trwy yr holl wledydd ehang, bu'r Pab, ac y mae ei grefydd ef hyd heddyw? pa faint o filoedd mawrion o Fonachlogydd etto fydd ar eu traed? a pha fawl can mil o Fonachod, a Monacheſau fydd trwy Europ, er cymmaint a ddinyſtriwyd o honynt o bryd i bryd? ond am yr hyn ofynaſoch, pa fodd daethant i fod mor gyfoethog? un peth fu yr achlyſur o hyn, yr opiniwn uchel, ar farn dda oedd gan ddynion am danynt; canys tybied yr oeddent mai yn eu myſg hwy yr oedd y grefydd bura; am hynny llawer o ddynion wedi ymflino ymdrafferthu a'r byd, a chaſglu llawer o olud, a chwennychent ddiweddu eu bywyd ymhlith y Monachod; y rhai hyn a wnai y Monachod yn etifeddion o ran fawr, ac fe allai o'r cwbl o'u meddiannau; nes i'r Monachod fel hyn fyned yn oludog iawn. Ond y peth mwyaf oll a ddyrchafodd gyfoeth y Monachlogydd yw athrawiaeth y Purdan; canys fel yr oedd eu tyb, fod pawb, neu y rhan fwyaf yn myned yno tros ryw amſer llai neu fwy, a pha mwyaf fyddai eu pechodau, hwyaf yma fyddai eu poenau; ond etto trwy weddiau rhai defoſiynol, offeiriaid eu plwyfau i ddweud maſſau troſtynt, a'r Monachod hwythau i weddio, y byddai hyn i yſgafnhau eu cur, a bryſio eu gwaredigaeth allan o hono; ac felly dechreuodd y bobl gymmeryd mawr ofal yn amſer eu bywyd i ddarparu rhyw rai i weddio troſtynt pan fyddent feirw. Ni chyfrifid gweddiau offeiriad y plwyf yn ddigonol; eithr am fod pawb yn credu nad oedd neb cyffelyb i'r Monachod mewn duwioldeb, tybygent mai eu gweddiau hwy a fyddai fwyaf

effeithiol

effeithiol i wared eu heneidiau allan o'r Purdan; am hynny byddent haelionus iawn at y Monachod; rhoent iddynt, nid yn unig eu haur, a'u harian, ond hefyd eu tiroedd; gan eu rhwymo wrth y Monachlogydd yn etifeddiaeth dragywyddol i bwrcafu maſſau, a gweddiau i'w d'wedyd troſtynt ar ol eu marwolaeth; gynt pan yr oedd yr ynys hon yn Babaidd, yr oedd perchen tiroedd trwy Gymru a Lloegr yn rhoddi mor helaeth i'r Monachdai, hyd oni thybygwyd yr ai yr holl renti a chyfoeth y deyrnas o'r diwedd at y Monachlogydd a'r Monachod. Am hynny fe wnawd cyfraith trwy Barlament yn y flwyddyn 1281, yn yr hon ordeiniwyd na byddai o hynny allan neb roi eu tiroedd i'r Monachlogydd heb *Liſens* neu gennad y brenhin.

Eu. Pa fath yw y Ffriars, a'r Jeſuits, ac amryw eraill ſonier am danynt weithiau mewn cwmpniaethau?

Ap. Yr amſer cyntaf dechreuodd y Ffriars dorri allan i lenwi y gwledydd, oedd ynghylch y flwyddyn 1230; a rhai pennaf o honynt yw y Dominicanod a'r Ffranciſcanod, y ddau fath hyn elwir oddiwrth enwau eu hawdwyr, ſef St. Ffrancis a St. Dominic; yr olaf oedd wr o Spain, yr hwn oſododd allan i bregethu yn erbyn yr Hereticiaid, ac a gaſglodd atto ddiſgyblion lawer iawn; ac ar ol gwneud yn eu plith ffurf o ddiſgybliaeth, fe a'u danfonodd allan i bregethu, ac a gafodd gan y Pab *Honorius* y 3 gadarnhau y ſect hon o Ffriars, ac elwid y pryd hynny Dominicanod. Fe'i gelwir hefyd y Ffriars duon, oddiwrth liw y dillad duon a wiſgent. Am Ffrancis tad y Ffranciſcanod gwr o Itali oedd, yr hwn a gaſglodd ddiſgyblion, ac a roddodd iddynt orchymynion, y rhai elwid Teſta-

ment

ment eglwys St. Ffrancis, y rhai yw gwiſgo un wiſg yn unig: yn lle eſgidiau nid oedd iddynt gymmeryd dim ond yn unig rhyw fath o wadnau a chareion wrthynt, darnau o gordennau gaent yn lle gwregyſau; aur, neu arian nid oedd iddynt gynnig gadw yn eu meddiant; hwy ſuont yn cael eu galw Mendicants, ſef Cardotwyr, am mai un o orchymynion eu hathro ydoedd iddynt fwy ar euluſennau, eithr ni chadwaſant y gorchymyn hwn yn hir, canys ni buant yn neppell, nes cael iddynt Fonachlogydd cynnes, ym mha rai maent yn byw yr un wedd a'r Monachod, yn gyflawn ac yn gyfoethog; ac o'r ddwy ſect o Ffriars hyn, mae amrywiol iawn eraill wedi tyfu, ag ſydd ry faith i'w henwi. Fe elwir y rhai'n Ffriars llwydon, oddi wrth y gynnau llwydon maent yn eu gwiſgo. Fe ymneillduodd un ſect o rhai'n, ac alwaſant eu hunain Minims; ſef y rhai mwya goſtyngedig; ac eraill alwaſant eu hunan Recolets; ac eraill Capuchin Ffriars. Mae ſect arall o Ffriars elwid Carmelites arnynt, ac yn Gymraeg Mabwynion, o ran eu bod yn gwiſgo dillad gwynion; y rhai hyn ſydd yn pretendo derbyn eu dechreuad o ſynydd *Carmel*, a chymmerant arnynt ddilyn *Elias*, a *Ioan fedyddiwr*— y tai ſydd yn cynnwys y Monachod, elwir Monachlogydd, Monachdai, Abbies. Y tai mae'r Ffriars ynddynt, elwir Preior-dai. Yr hwn ſydd yn ben ar y Fonachlog, elwir Abbat; ar tŷ y byddo yn byw, elwir Abbat-dŷ; pen y Preiordy yw y Preior, ond y rhai gyfenwir Hermits, yn Gymraeg Moudy, rhai ydynt ſydd yn cilio i ryw goed, yſtlus craig, neu le anial arall oddi wrth ddynion, ac yna gwnant iddynt eu hunain fwthod, neu dwlcau, lle treuliant eu ham-

hamſer i ſyfurio, i weddio Duw a Chriſt, Mair, a'r lleill o'r ſeintau. Eu hymborth ni fydd ond ſael a newynllyd; eu gwiſgoedd a drych eu hwynebau fydd erwin yr olwg; hwy ſtarfiant eu hunain fel hyn, er mwyn crefydd hyd y diwedd.

Y mae math arall o fonachod a elwir Anchorets, y rhai ddewiſant le yng nghilfach llan, neu bentref, ac yno mewn congl y carchara efe ei hun nos a dydd, ac odid iddo weled neb ond y ſawl a ddwg luniaeth iddo; a thu ag at ddaroſtwng y corph, fe orwedd ar y llawr, gan gloddio ei fedd â'i ewinedd: y cyfryw galedi a garwindeb a arfera atto ei hun ac y byddai anhawdd gennym ei gredu.

Eu. Ond ni's dywedaſoch pwy yn eglwys Rufain yw y Jeſuits?

Ap. O ddautu'r flwyddyn 1536 Ignatius Loyola, gwr o Spain, gaſglodd atto ddiſgyblion ac ordeiniodd y ſect hon. Cymmeraſant eu henw oddi wrth Ieſu, gan broffeſu zêl fawr at Griſt; ac y maent fel y rhan arall o'r monachod yn byw yn ſinteioedd mewn monachlogydd, y rhai alwant coleges arnynt, ac y mae pen ar bob colege; ac wrth dderbyn un yn aelod o 'r cyfryw golege, rhaid iddo wneud llw, fod yn ufudd i ben y colege hwnnw ym mhob peth; a phan y byddo'r pen hwn yn rhoddi iddynt orchymyn i fyned i bregethu i'r cwrr eithaf o'r byd, rhaid iddynt ufuddhau; ac y mae amrywiol iawn o rhai'n wedi cael eu danfon gan eglwys Rufain i America, Affrica ac Aſia, i ynyſoedd ac ardaloedd, ac y mae neb rhyw frenhinoedd pabaidd ag awdurdod arnynt.

O's gorchymynir iddynt ladd yn ddirgel ryw un a fo yn rhwyſtr i'r grefydd babaidd, bydded frenhin neu arglwydd, byddant barod i ufudd-

hau i'r fath orchymyn gwaedlyd a hwn ; a ſicr yw, mai nid anfynych y maent yn cael eu goſod ar y cyfryw waith : llawer o'r gwyr mawrion o gymmundeb eglwys Rufain fyddai barod i ymadael â'r grefydd babaidd, oni b'ai ofn bradwriaeth y dynion hyn ; a thyma'r ſect oedd yn ddiweddar yn cynnal fwyaf ar grefydd y Pab i fynu, trwy eu bod yn danfon mwy o'u pregethwyr i wledydd pell, ac yn fwy cyfrwys hefyd a dichellgar na neb, neu nemawr ym mhlith ei offeiriaid ef. Ond y dydd heddyw daeth cwmmwl ar eu llwyddiant, pan gwelwyd cymmaint o'u bradwriaeth ym Mhortugal, a theyrnaſoedd eraill.

Eu. Onid oes hefyd fonacheſſau yn eglwys Rufain ?

Ap. Oes, a rhai'n a elwir Nuns ; a'r Monachlogydd lle maent a elwir Nunneries, a gwyryfdai ; a'r gyntaf a fu yn ben arnynt oedd Scolaſtica, chwaer Bennet enwyd uchod. Ond y ddwy Sect bennaf o'r gwyryfon ſanctaidd hyn, yw ſect St. Clara, a ſect St. Bridget. Y ſantes Clara, neu St. Clêr, merch o Itali ydoedd ; yr oedd hi yn byw yr un amſer, ac yn yr un dref â St. Franſis, pen y Franſiſcanod hon wedi ei dyſgu gan y pen ffrier St. Franſis, hi wnaeth ffurf o forwynion lawer iawn, y rhai elwir heddyw Cleirw, ſef monacheſſau ſy'n dilyn diſgyblaeth St. Clara. Bridget oedd frenhines Sweden o ddautu 1370 : hithau hefyd a ddyfeiſiodd ffurf o reolau i forwynion crefyddol, ac a ddaeth yn ben ar Sect ac elwir heddyw Gwyryfon St. Bridget.

Eu. Attolwg pa fath yw yr Inquiſition hwnnw ſydd yn Spain a Phortugal ?

Ap. Y Cwrt mwyaf ofnadwy tan yr haul yw ; nid oes ym mhlith yr Indiaid, Twrciaid, a'r

Iuddewon

Iuddewon, nac un genedl o ddynion o'i fath: ſe ſylfaenwyd yn erbyn yr Iuddewon, y rhai ar ol eu bedyddio a arferent eu ſeremoniau eu hunain, ond y mae ef yn awr yn cael ei arferyd yn erbyn y rhei'ny ac ſydd, neu a ddrwg dybir eu bod yn y rhan leiaf yn caru gwirioneddau 'r Arglwydd. Maent yn Spain a Phortugal yn credu na's gall yr Inquiſition hwn gyfeiliorni; ac na's gall y teidau ſanctaidd yr Inquiſitoriaid hyn gael eu twyllo. Tri math o bobl yn bennaf ſydd mewn perygl o'r Inquiſition hwn. Yn gyntaf, y rhai ſydd yn gyfoethog iawn, am fod amcan yr Inquiſitoriaid i'w yſpeilio o'u mheddiannau. Yn ail, y rhai dyſgedig, rhag i'r cyfryw ffeindio allan, a datguddio eu drygioni, a'u gorthrymdra dirgel hwynt. Yn drydydd, y rhai ſydd yn dechreu cynhyddu mewn anrhydedd a dyrchafiad, rhag ofn pan elont i awdurdod y gwnant iddynt ryw gywilydd a dianrhydedd. Mae dioddefiadau yr Inquiſition yn erchyll i ſyndod: o's â un gair allan o enau neb, yr hwn ellir ei gymmeryd mewn rhan ddrwg yn erbyn yr Eglwys; ie, o's na ddywedir un gair ond bod mawrion yr Eglwys yn unig yn dwyn anfoddlonrwydd neu ddrwg ewyllys yn erbyn neb partion, yn union hwy orchymynant gymmeryd y cyfryw un a'i roi mewn carchar echryſlon; ac yna hwy gant chwilio allan feiau yn ei erbyn ef y pryd y gwelont fod yn dda. Yn y cyfamſer nid oes dyn byw ac a egyr ei enau troſdo: o's y tad a ddywed un gair dros y mab, ſe rhoir yntau hefyd i'r carchar megis cyfaill i'r heretic; ac ni's canniataer i un dyn fyned yno i'w weled ef; ond yno yn unig y bydd ef ei hun, lle na's gwel gymmaint a'r llawr y mae yn ſengi arno: ac ni's canniataer iddo ddarllain na 'ſgrifennu; ond aros mewn tywyllwch dudew, tan ddychrynfeydd anfeidrol, ac ofn truenus, gan ymorcheſtu ag ymoſodiadau angau.

Eu. Ond pa fodd y trefnir ef eilwaith ?

Ap. Pan b'ont i'w boeni ef, gorchymynir i'r Jaylor ddwyn allan y carcharwr i'r lle arferol i'w ddirdynnu ef, yr hwn le fydd tan y ddaear, ac yn anodd iawn dyfod atto ; ond ar ol myned trwy lawer iawn o droiadau, a llawer iawn o ddryſau, fel na chlywir gweiddfau echryſlon y rhai boenir yno ; mae gorſedd uchel wedi ei barottoi i'r Inquiſitoriaid, a'r regiſter hefyd, i weled y chwaryddiaeth ofnadwy hyn : yno yr ennynir y canhwyllau ; a rhai fydd i ddioddef y goſp druenus a arweinir i mewn. Y poenwr yr hwn fydd yn dyfod gyda hwynt i mewn, fydd wedi ei wiſgo a gwiſg ddu, yn glos wrth ei gorph, ac ar ei ben hwd ddu, yr hon a guddia ei wyneb rhag ei weled, a dau neu dri o dyllau wedi eu gwneud ynddi er mwyn iddo ei hun weled ac anadlu ; a hyn oll er mwyn dychrynu y dioddefwr truan, yr hwn fydd megis pe b'ai yn gweled diafol cyndeiriog yn barod i'w boeni. Y teidau hyn wedi eiſtedd fel hyn ar eu mheinciau, a ddechreuant drachefn i annog y carcharwr i adrodd o'i wir fodd y gwirionedd, yr hyn os pall ef ; ar ol iddynt arferyd pob math o fygythion ofnadwy ac allent, gwnant iddo gael ei ddioſg yn noeth lymyn, pa un bennaf ai gwr, gwraig, neu forwyn a f'o ef ; ac wedi dodi heibio fel hyn bob math o ddynoldeb wrth eu dioſg hwynt, hwy a'u gwiſgant mewn breeches lliain f'allai am na's gall y poenau fyddant i roi arnynt ddim gael cymmaint o argraff trwy grys a thrwy freeches lliain ; pan y bo'r dyn yn awr fel hyn gwryw neu fenyw yn ſefyll yn noeth o'u blaen, ond yn unig y breeches lliain am dano ; hwy amneidiant ar y poenwr, pa fath boenau ddyd arno : ac mae ganthynt ryw arwydd, neu air dirgel pwrpaſol, trwy ba un y dyall y poenwr yn union pa ryw fydd y poenau fydd y teidau ſanctaidd hyn am

ddodi

ddodi arno, er mwyn ei gael i'r grefydd babaidd; a rhai mwyaf cyffredin yw y Cordynau y Pwlies, y Gewynon, y tân a'r dwfr. Ond er mwyn i chwi eu dyall yn well, y dyn yn awr fel hyn yn noeth o'u blaen, hwy cynghorant ef atto un waith i dd'weud y gwir, ac yno os y cordynau fydd ef yw dioddai, hwy glymmant ei ddwylo llwyr ei gefn, gan eu godi i fynu wrthynt 8 neu 10 o weithiau, fel y mynno yr Inquiſitoriaid, ac yna rhwymant ei fawd fis ef neu hi â chordyn meinion yn eithaf tynn, a'i ddwylo eilwaith a chordyn f'o ref, gan ei godi i fynu â'r pwli wrth y rhai'n yn uchel iawn; ar ol hyn, goſodant am ei draed ef fyllt trymion, os nad oeddynt arno eiſoes, ac ar uchaf hynny 25 o bwyſi o haiarn; yna a'r pwyſau hyn i gyd arno, cod y poenwr ef i fynu yn uchel fel o'r blaen, a'r Inquiſitoriaid yn ei gynghori ef o hyd i gyfaddef; ac yna y gadawant ef i hongian nes gwnelo naill ai cyfaddef, neu yn y rhan leiaf atteb eu gofynion: ar ol iddo hongian fel hyn heb wneud un gyffes, gadawant ef i lawr er mwyn dyblu'r pwyſau ar ei draed; ac yna y tynnant ef i fynu drachefn, gan fwgwth ei hongian yno nes marw; ac os na's cyfaddef iddynt yr hyn fyddont yn ei geiſio, gorchmynant i'r poenwr ei hongian ef yn hir yn yr awyr, fel trwy bwyſau'r heiyrn ar ei draed, b'o ei gymmalau wedi eſtyn i'r radd uchaf: pan y bo'r dioddefwr yn gwaeddi allan gan faint eu boenau, hwyntau o'r tu arall a waeddant cuwch am iddo gyfaddef, yr hyn y mae ef yn ei wybod; os na's gwna, hwy a'i gadawant i gwympo, ond nid i'r llawr, ond ryw faint o ffordd, ac wrth ſtoppio cyn cwrdd â'r ddaear, y loes fydd mor anioddefol, fel nad oes na gewin na gwythen nad ŷw megis yn myn'd i maes o'i lle mewn eithaf poen; ac yna os na's cyfaddef ddim y drydydd waith, hwy 'chwanegant y poen, gan oſod rhagor o bwyſau, ac

yntau eiſoes megis hanner marw : ac yna y cod-ant ef i'r lan, gan 'chwanegu geiriau ofnadwy o fwgwth, a'i alw yn gi, yn Heretic, &c. ac os geilw y dyn truenus ar Ieſu Griſt i'w helpu ef yn eithaf ei gyſyngder ; yna gwatwarant ef, gan dd'weud Ieſu Griſt, Ieſu Griſt, gadewch ef yn llonydd dros dro, pa fath Ieſu Griſt ydych yn alw arno, ac os dymuna'r dyn truenus hwn iddynt i'w dynnu ef i lawr, tan addo cyfaddef rhyw beth wrthynt, ni chaiff aros ar lawr ne-mawr, ond poenant ef drachefn, gan ei fwgwth â'r ſtrapado.

Eu. Pa fath yw hwn ?

Ap. Y poen uffernol hwn ſydd yn dechreu am 9 y boreu, ac yn parhau hyd 12 neu 1 o'r gloch brydnawn ; pan y b'ont am wneud diwedd, hwy ofynant i'r poenwr, a yw ei offer arall ef yn barod ; er mwyn rhoi ofn mwy ar y merthyr brywedig ; ſe ettyb nad y'nt ; yna hwy berant eu parotoi erbyn trannoeth yn ddiffael, gan ddy-weud ni fynnwn weled a ellir cael yr holl wir-ionedd o hono neu peidio ac wrth ſyned allan, hwy a gyſurant y dyn fel hyn, *hyn a waſnaetha yr awr hon ond edrych rhwng hyn ag y foru, ac ym-gynghora pa beth ſydd i ti gyſaddef, oni te ti fyddi mewn perygl o farw wrth dy boeni ; ac na feddwl ddiangc wrth yr hyn a ddioddefaiſt, canys nid oedd y rhai'n ond gwely o roſes wrth yr wyt i ddioddef :* ac ar ol ei wiſgo, y dygir ef drachefn i'r carchar; ac os na bydd ef yn abl myned yno ei hun, dygir ef, gan ofyn iddo mewn gwawd, a oes arno eiſ-iau meddyg; ac os meddyliant fyn'd â'u creulon-deb ymlaen ar yr unrhyw ddyn, danfonant am dano y trydydd dydd, tra f'o eu ewynon a'i gym-alau yn nyfnder eu poenau, i adfywio eu byg-ythion ofnadwy, tu ag at iddo ddatguddio ei Hereſi, a phwy ſydd yr un farn ag yntef ; oni te rhaid iddo barottoi ei hun i'r poenau ; os bydd

iddo mewn un ffordd fiſgario yn ei gorph, neu farw, ei fai ei hun yw, nid yr eiddont hwy; ſel hyn os na addef, yna y Jaylor a'i dwg ef i le'r poenau, a hwy yn eiſtedd ar eu mheingeiau fel o'r blaen, a orchymynant ei ddioſg yn eu gwydd, a'i boeni fel o'r blaen; ond i 'chwanegu, hwy rwymant ei forddwydydd a'i arrau ynghyd â chordyn maen, ac a'i tynhânt â darnau bychain o goed, ymha gyflwr y gadewant ef weithiau dair, neu bedair o oriau, gan ei fwgwth yr holl amſer hyn i gael ganddo gyfaddef. Mae ganthynt boenau eraill mewn Inquiſitiynau eraill, yr hwn a alwant Burno, yr hwn ſydd blanc o bren wedi ei wneud yn gau, ſel cafan neu gwtter, ymha un y gall dyn i orwedd ar ei gefn, ac yn y lle mae aſgwrn ei gefn i orwedd, mae darn o bren yn groes, yn cadw y Cefn rhag gorphwys yngwaelod y cafan, fel na roddo orphwyſfa i'r hwn a boenir ynddo, ac mae'r cafan yma wedi ei oſod fel y mae ſodlau y dyn a boenir ynddo yn uwch na'i ben; ac wedi ei ddodi yn y coffyn hwn, rhwymir ei freichiau, a'i goeſau, a'i forddwyddydd a chordynau meinion yn dynn iawn, ac yna troir coed bychain ynddynt nes b'ont yn bwytta i mewn i'r cnawd ac yn trywanu hyd yr eſgyrn; yna rho'nt liain dros ei wyneb i'w rwyſtro ef i anadlu, tra f'ont yn diwel dwfr yw enau, yr hwn ſydd yn piſtyllo oddi uchod ar y lliain hyn, nes byddo yn myned i'w wddf ef, a'r diodd-efwr gan rwymau yn gorfod aros yn ei boen, fel un hanner marw; a phan tynnir y lliain hyn i maes o'i enau, can's fe tynnir ef pan y b'ont yn ceiſio ganddo gyfaddef, chwi debygech, pe b'aich yn gweled y fath ddwfr a gwaed fydd yn dyfod allan, eu bod wedi tynnu ei ymyſgaroedd ef allan yw enau: yno y ceidwir ef hir o amſer nes i'w ddychwelyd yn ol i'w garchar drachefn, ac os gwelant fod yn dda i 'chwanegu y poenau

drachefn

drachefn ymhen mis neu ddau, fe adnewyddir y creulondeb hwn mewn modd mwy ofnadwy, neu lai i rai, unwaith, ond i eraill hyd y chweched tro. Poenau eraill i rai fydd eynnu tân, a rhoi gwadnau eu traed wrtho, i roſtio bob yn ychydig ac yn ychydig, wedi eu hiro hwynt yn gyntaf a bloneg neu ſuet: ond os gall ef adnabod pwy yw ei gyhuddwyr, ac am beth, f'allai caiff ei bardyno; ond rhaid iddo aros carchar hîr, a phoenau lawer, ac efe a'i dylwyth ar ei ol wiſgo dillad melynion, yn arwydd o'r gwarth a'r gwaradwydd tra f'ont byw: ond fel y mae y cyhuddwr yn ddirgel, y bai yn ddirgel, y tyſtion yn ddirgel, a'r cwbl yn ddirgel, a'r carcharwr heb wybod am ddim, os na's gall ef adnabod y bai, a'r cyhuddwr, nid oes ond ei gondemnio ef i farwolaeth.

Eu. A ydyw yr Inquiſitiwn yn rhoi llawer fel hyn i farwolaeth?

Ap. Nid llai na deg ar hugain ar un waith fu yn derbyn barn marwolaeth mewn tref yn Spain yn y flwyddyn 1556; a choffyn gwraig fonheddig, oedd wedi marw er's talm, a'i phictwr yn gorwedd ar yr yſgrin; hon hefyd, yr hon oedd fam i 5 o'r lleill, er ei bod wedi pydru yn y bedd, bollt o gondemniad a daranwyd allan yn erbyn y coffyn gwael, ac fe gondemnwyd y pictwr gyda hi i'w lloſgi; a rhoi ei mhoddion yn fforfet; lloſgi ei thŷ, a rhoi marbl yn ei le ef, fel monument o'r hyn a wnawd, a'r achos o'i dioddefaint hi yn ſgrifenedig arno. Cymmaint a ddihenyddwyd trwy yr Inquiſition ſanctaidd hwn medd un Vegerus fel mewn llai na 30 mlynedd iddo ddiſtrywio cant a hanner o filoedd trwy bob math o boenau.

Eu. Chwi ddodaſoch yn wyf ryw feddyliau caredig am rai o honynt wrth adrodd eu gweddiau ar y Iachawdwr, &c. er y myrdd o gyfeiliornadau

nadau ſydd ynddynt, ond wrth weled yr yſbryd llidus, a didrugaredd ſydd ynddynt, at bawb eraill, mae yn ddiau gennyf, mai dyma'r buttain fawr mam holl butteiniaid y byd.

Ap. Chwi ryfeddech pe clywech ond y ganfed ran o'r llid a'r malis ſydd ynthynt yn erbyn crefydd y Bibl: mae eu herledigaethau a'u maſſacres yn ddigon i brofi hyn; can's mae yn fwy na digon i lanw llyfr o'r maintioli mwyaf adrodd holl greulondeb tywyſogion Pabaidd, Offeiriaid, Ffriers, a Jeſuits, ymha wlad bennaf y mae ganthynt awdurdod o'r pryd y dechreuodd y grefydd babaidd hyd yn awr; a hynny trwy dorriad cyhoedd o'r addewidion mwyaf cryf, llwon, ac addunedau mwyaf yſtyriol; gan arferyd y twyll, y ddichell, a'r bradwriaeth mwyaf anghydmarol. A rhyw ychydig o'u creulondeb anghydmarol a arferwyd ar y proteſtaniaid gwirion yn *Frainc*, *Spain*, *Portugal*, a *Germany* gaf ddangos; ac yn fwy neillduol y rhei'ny yn *Lloegr* yn nheyrnaſiad gwaedlyd y frenhines *Mary*; ac ar y rhei'ny yn *Iwerddon*, y Scotiaid, a'r Saeſon, yn yr erledigaeth arſwydus hynny a godwyd gan y Papiſtiaid gwyddelig yn eu herbyn hwy yn 1641 yr hwn elwir yn gyffredin *y gwrthryfel gwyddelig*; a hyn yn unig am eu gwaith yn glynu wrth y grefydd broteſtanaidd, a gwrthod cydſynio â chyfeiliornadau erchyll y grefydd babaidd. Mae erlid a chreulondeb yn rhan o'r grefydd babaidd; yn effeithiau naturiol, ac yn ffrwyth cywir o'i hathrawiaethau hi, ac nid digwydd y mae trwy ddamwain, yn tarddu oddiwrth achoſion pellenig i'w crefydd; can's nid yw yn beth ag ellir ei wneuthur, ond yn beth ſydd raid i'w wneuthur, ac wedi ei orchymyn; a'r gorchymynion hyn yn cael eu cymmell a dialeddau creulon ar un llaw, a gwobrwyau mawrion ar y llaw arall; yr hyn a ymddengis trwy yr haneſion canlynol. Onid

yw

yw cyfreithiau, counſils, a'u ſynodau, yn rhan o'u creſydd, ac yn rhwymo cydwybodau eu haddolwyr ? ac onid yw amryw o'r canonau *(a)* hyn yn waedlyd ac yn farbaraidd yn y radd uwchaf ?

(a) Y Synodau hyn oedd gyfarfodydd, neu gymmanfaoedd mawrion o Eſgobion, Gweinidogion, a Swyddogion eglwyſig eraill ; y rhai a ymgaſglent yng hyd i ryw dref, neu ddinas, i ymgynghori ynghylch athrawiaethau, canonau, ſeremoniau, neu ryw achoſion eglwyſig eraill ; ym mha rai, y byddai weithiau gant neu ddau ; ac weithiau lawer iawn rhagor o Eſgobion yn ymgynnull, wedi eu caſglu o holl wledydd cred. Rhai o'r Synodau hyn fyddai yn perthyn yn unig i un wlad, neu ddwy ; ac yno ni fyddai yn breſennol, ond ychydig ragor o nifer a ddewiſid o'r gwledydd hynny ; ond yn gyffredin, byddai rhai o *Affric*, *Aſia*, ac *Europ* yn yr un gymmanfa——Y cyntaf o'r rhai'n a godwyd gan yr Eglwys, yn yr ail o'r Actau, pan yr ymgynhullodd yr Apoſtolion i benderfynu rhai cyfarwyddiadau i'r cenhedloedd, y rhai oedd yn cael eu blino gan yr Iuddewon am enwaediad, *&c.* ac ar ol hyn cawn rifedi aneirif o'r cymmanfaoedd hyn, dros y chwech cant cyntaf o oedran ein Harglwydd, ac a gadwodd yn ganolig dda ; er, nid yn berffaith gwbl oddi wrth ſeremoniau Eglwys *Rufain* ; rhai o honynt yn yr *Ital* ; amryw yn *Ffraingc* ; amryw yn *Spaen* ; amrywiol iawn yng *Ngharthage* ; llawer yn *Germany* ; ac ar hyd *Aſia*, fwy nag ellir eu rhifo. Ond pan ddaeth Pabyddiaeth i reoli, y cymmanfaoedd hyn a gedwid gan fwyaf dan ewyllys, a golygiaeth y Pab, ac amrywiol oedd ynddynt o'i greaduriaid ef ei hun : ac nid oeddid yn gwneuthur nemawr rhagor ynddynt, na chadarnhau ei bendefigaeth ef ar yr holl Eglwys, ynghyd â goſod i fynu dorfeydd o wag-ſeremoniau, a gwyr-droi athrawiaethau mwyaf goleu yr efengyl. Ac un hynod at yr achos hyn a gedwid yng *Ngbonſtantine*, yn *Germany*, yn y flwyddyn 1514, lle y condemnwyd 45 o athrawiaethau *Wickliff* fel Hereſi : a'i eſgyrn ef a orch-

uwchaf? onid y'nt yn cael eu dyſgu gan eu hathrawon fod canonau eu counſils fel geiriau ſanctaidd

---

a orchymynwyd eu lloſgi 40 mlynedd ar ol ei farwolaeth; ac y gwnaethpwyd llawer o ganonau yn erbyn y *Bohemiaid*, rhag iddynt dueddi ar ei ol ef. ——— Ond y bennaf gymmanfa erioed a gadarnhaodd holl Hereſi ac ynfydrwydd y grefydd Babaidd, gan oſod y Pab ei hun fel duw, ac i eiſtedd ynghadair duw oedd Counſil Trent. ——— Ac fe ddywed *Belarmin* ei hun, os tynnwn ymaith awdurdod yr Eglwys a'r Counſil hwn, gellir ammau arfaethau cymmanfaoedd eraill, a'r ffydd griſt'nogol ei hunan. ———A hanes ferr o'r gymmanfa hon ſydd fel y canlyn:

Ar ol llawer o dremio yma a thraw, darfu i'r Pab ſefydlu o'r diwedd gadw'r Counſil yma yn Nhrent, yr hon ſydd brif ddinas o *Germany*; ac fe barhaodd o'r flwyddyn 1545, i'r 1563, gyd ag ychydig o orphwyſiad yn awr a phryd arall. Ac ar ol dyfod ag ef yno, cafodd lawer iawn rhagor o orcheſt i droi a gwneud canonau wrth ei fodd ei hun; a gorfod arno arferid llawer o dwyll, dichell, celwydd a gormes, cyn cael pethau wrth fodd ei galon. Pab Paul y drydydd a ddechreuodd gyhoeddi y gymmanfa ym *Mantua* yn yr *Ital*, wedi hynny yn *Fiſentia*; ac yn olaf yn *Nhrent*; lle dan Bab *Julius* y drydydd, rhyw nifer o deidiau ſanctaidd, y fath ag oeddynt, a ymgynnullaſent oll yn greaduriaid y Pab eu hunain, a rhai o'r rhai 'n, oedd ddynion lleiaf eu ſylwedd, a mwyaf anfoeſol ac ellid enwi; nid oedd y gymmanfa hon, nac yn gyffredin, nac yn rhydd, nac yn tueddu 'r mumryn lleiaf at fod yn union gred; ond yn hollol goel-grefyddol, ac eilun-addolgar: nid oedd yma neb o Eſgobion *Aſia*, y *Groegiaid*, yr *Armeniaid*, yr *Abiſiniaid*; a rhan fyrr o Eglwyſydd y Dwyrain a gaewyd allan, megis *Lloegr*, *Iwerddon*, *Scotland*, *Ffraingc*, na Phroteſtaniaid *Germany*. *Harry* yr wythfed, mewn yſgrifen gyhoedd a'i gwrthſafodd ef; Brenhin *Ffraingc* eilwaith a broteſtodd nad oedd yn ddiogel nac yn addas, iddo anfon neb i'r gymmanfa hon; ac nad oedd yn ei galw hi'n gymmanfa, ond

aidd yr Yſbryd glan ? gan ſgrifennu y titl hwn o'u blaen hwynt; *fe welwyd yn dda i'r Yſbryd glan a ninnau.*

---

ond cwrdd neillduol, wedi ei alw ynghyd, nid at dda cyffredin, ond at elw a phleſer rhyw ychydig; ac na fyddai efe, na neb o'i ddeiliaid yn rhwym i gadw Canonau a wneud yno. Embaſſador Emprwr *Germany*, a broteſtodd o enau'r Emerawdwr ei hun, nad oedd y Legates a'r Eſgobion a gaſglodd ynghyd yno, a chan mwyaf yn rhwym i'r Pab ac yn hollol weithredu ar ol ei amneid ef, ddim awdurdod i wneud dim cyfreithiau mewn achos diwygiad crefydd a moeſau. Nid oedd neb i lefaru yn y gymanfa hon ond oedd wedi tyngu fod yn gaeth i'r Pab. *Fel hyn yr wyf yn tyngu yr amddiffynaf babyddiaeth yn erbyn pob dyn.* Ac os byddai un i yngan gair yn erbyn y Pab, fe'i taflid allan o'r counſil. Amrywiol o Embaſſadors a ddeiſyfaſant dros eu harglwyddi am ryw arch, neu gilydd; ond eu dymuniadau a omeddwyd, a'u rhydd-did hyn a waharddwyd iddynt. Fe daflwyd rhai allan am ddweud na's offrymodd Criſt yn ei ſwpper ddiweddaf mo'i ſulweddol gig a'i waed. Taflwyd allan un o'r Dominicanod am ddweud fod cymmanfa *Conſtantine* oddiar y Pab. Eſgob *Chioza* daflwyd allan am iddo gyfaddef nad oedd ef yn derbyn yr arfaeth wnaethant o fod traddodiadau cyfuwch a'r yſgrythurau. Amryw ddichellion arferodd y Pab yn y gymmanfa hon; o eiſiau gwir Eſgobion, rhai oſodwyd i fynu mewn enw i gyflawnu yr lle ac i roi llais, a phan oedd pob ſhifft yn methu, efe ddyfeiſiodd fel hyn yn y diwedd. Gweled yr oedd fod yno amryw am ddiwigio rhai pethau, ac am ffrwyno ei fawredd ef; ac yn gwybod fod Eſgobion Spain yn cyttuno ag Eſgobion Germany i grynhoi ei awdurdod ef o fewn llai terfynau, a thu ag at beidio ildio i'r cwrt hwnnw; fe dynnodd i fynu y rhan fwyaf o'i Eſgobion o'r *Ital*, ac os delid ſulw ar un i fod o ymadrodd mwy rhydd ac eon, dyfeiſwyd moddion i'w galw hwynt yn ol a goſod rhai mwy diſulwedd yn eu lle, a'r Pab o hyd yn rhoi cyfarwydd-

iad

a ninnau; oni arfaethodd y bummed counſil o *Toledo*, nad oedd i un tywyſog eiſtedd ar orſeddfaingc ei deyrnas hyd oni's tyngai na ddioddefai un dyn i fyw yn ei deyrnas ag nad oedd yn Bapiſts? ac oni ddarfu i'r *Lateron counſil* tan Bab *Innocent* y III. arfaethu fod i'r awdurdodau tymhorol gael eu cynghori, ac o's angen fai eu cymmell i dyngu, y gwnaent eu gorau gyd â ffydd dda, ac â'u holl allu i ddiwreiddio bob rhan o'u teyrnas pob rhyw ddeiliaid Hereticiaid yn gyffredinol? onid yw y canonau hyn wedi eu goſod â dialeddau arſwydus am yr eſgeuluſdra o honynt? ac â rhagorfreintiau a gwobrwyon mawrion i'r rhai ag ſy'n eu cyflawni; y coſbedigaethau nid y'nt lai nag eſgymmundod, taflu o ſwydd, colli etifeddiaeth yn y byd hwn, a thân uffern yn y byd neſaf: ac o'r tu arall y rhagorfreintiau a gwobrwyon y rhei'ny ſydd yn llafurio yn y gwaith bendigedig hwn ydyw, rhydd-did oddi wrth benyd; indulgence y Pab, o'r un werthfawrogrwydd a honno a ro'ir i'r rhai ſy'n myned i ennill yn ol y tir ſanctaidd; ac oni ddarfu i Bab *Urban* yr wythfed roi i'r mwrddwyr hynny yn y

---

iad i'r counſil pa beth a wnaent; ſel yr aeth hi yn ddihareb fod yr Yſbryd Glan yn ymdaith o Ryfain i Trent mewn packet, neu god-poſt; ond pan fethodd hyn wneud y tro, fe drodd at ei ddyfais olaf; ſef, creu 130 Gardinaliaid newydd o'r *Idal* ei wlad ef ei un, a danfon y rhai'n i'r gymmanfa. Y fôts newydd hyn a drodd y cwbl at 'wyllys y Pab, ac ni orphwyſodd eu dichell hwynt yma, ond o's oedd neb yn rhagor mewn doethineb, pwyll, dyſg, a duwioldeb fel na's byddai iddynt rwyſtro pwrpas y Pab, rhai o honynt cyn y gymmanfa, a rhai yn amſer y gymmanfa a gymmerwyd ymaith â gwenwyn. Yn y counſil hwn y gwnawd arfaeth, am 1. addoli delwau, 2. gweddio ar y ſeintiau, 3. aberth haeddianol y maſs, 4. y cymmundeb yn unrhyw.

Iwerddon indulgence gyflawn a maddeuant pechodau i'r rhai oll oedd â llaw ynddo, gan ddymuno bod yr holl rai ffyddlon yn awr mewn arfau, yn feddiannol o'r gwerthfawroccaf dryſor hyn? onid yw'r Eſgobion cyn cymmeryd eu ſwydd arnynt, yn addaw yn ddwys i gyſtuddio ac erlid y rhei'ny ac nad yw yn ymddaroſtwng i'r Pab? ac onid yw hyn yn ran o'u creſydd? ac nid oes tan y nef grefydd wedi ei chaſglu ragor am yſpail, a dinyſtr a diſtryw pob tangnefedd ar y ddaear ac ewyllys da i ddynion? A bod eu gweithredoedd yn gyttunol â'r egwyddorion gwaedlyd dinyſtriol hyn a ymddengys oddi wrth yr eſamplau canlynol, megis yn gyntaf, y bradwraidd a'r arſwydus faſacr ar y Proteſtaniaid yn *Paris* yn *Ffraingc*, yn y flwyddyn 1572, lle dinyſtriwyd can mil o Broteſtaniaid, o ba un y Pab a'i offerynau ag oedd wedi eu tyngu i'r pwrpas oedd yr achos. Ac i ddwyn hyn o ddeutu, pan methodd pob moddion arall, chwaer brenhin *Ffraingc* a roddwyd mewn priodas i frenhin *Navarre*, fel y gallent ladd y Proteſtaniaid yn y briodas; a hwythau yn meddwl am ddim bradwriaeth a ddaethant i ddinas *Paris*, lle gwenwynwyd brenhines *Navarre* â phâr o fenyg wedi eu haroglu; a'r Admiral, a'r rhan fwyaf o'r Pendefigion a laddwyd yn yr un boreu; y lladdfa oedd mor greulon, fel ac y gwnaeth i'r afon redeg yn goch gan waed; ac nid llai na deng mil ar hugain o Broteſtaniaid a laddwyd mewn un mis; eu creulondeb oedd cymmaint, fel nad arbedent blant bychain yn eu crûd, na babanod ynghroth eu mhammau; yr heolydd oedd gwedi eu gorchuddio â chyrph briwedig, y pyrth a'r dryſau yn llawn gwaed; rhuadau a gweiddfau'r mwrddwyr yng nghymmyſg â llefain a griddfannau'r meirw. Pen yr Admiral a dorrwyd ymaith, ac a ddanfonwyd yn anrheg i Bab *Gregori* y 13, yr hwn a aeth mewn proſeſſiwn gyd â'r Cardinaliaid i ddiolch i Dduw a St. *Lewis* am y fath newydd cyffurus,

ac

ac am y fath ffafr i eſgobaeth *Rhufain*; a Jubilec a apwyntiwyd ym *Mharis*, a diolchgarwch i roddi i Dduw, fel pe buaſai yn aberth cymmeradwy ganddo. Proteſtaniaid yn *Saltzburgh* a yrrwyd allan o'u gwlad yn y flwyddyn 1735, yn unig am eu crefydd; llawer o ba rai a ddaeth troſodd yma, ac a drugarhawyd wrthynt ac a gynnorthwywyd gan amryw. Cof hefyd am y ddwy arfaeth a oſodwyd allan yn *Ffraingc* mewn rhyfel diweddar, lle gadewid erledigaeth yn rhydd; a'r Dragoons yn gwneuthur y creulondeb mwyaf ofnadwy ar y Proteſtaniaid gwirion yn *Mount-aban*, lle trow'd deng mil o deuluoedd i eiſiau a newyn. Yn *Volteline* yn y flwyddyn 1620, y gofodaſant ar y Proteſtaniaid fel yr oeddent ar bregeth, heb ofni 'r fath beth, hwy a'u mwrddraſant hwynt i gyd heb edrych ar ryw nac oedran: yn *Germani*, yn y flwyddyn 1630, lle yr oedd y *Swedes* ag oedd yn Broteſtaniaid (yn berchen ar dref ac oedd a'i henw *Paſswalk*, ond wedi ei chymmeryd trwy nerth gan wyr yr Emerawdwr) hwy a gurwyd, hwy a laddwyd, ac a yrrwyd allan o'r dref, gan loſgi'r eglwyſydd, mwrddro'r gweinidogion, ac o'r diwedd lloſgi'r holl dref. Eu creulondeb hefyd â dinas *Magdeburgh* oedd arſwydus, yr hon oedd hynod am wir grefydd, ar ol ei chymmeryd gan count *Tili*, yn y flwyddyn 1631, mewn deuddeg awr a loſgwyd 139 o deiau, heb ddangos trugaredd i un oedran, rhyw na chyflwr: O ddeutu ugain mil a laddwyd, a loſgwyd, ac a fogwyd i farwolaeth; chwe' mil a foddwyd yn yr afon; pendefigon a Phendefigeſau a iauwyd ynghyd fel yſgrubliaid, ac a arweinwyd o gylch y wlad, ac a yrrwyd i goedydd i'w treiſio; a'r fawl a ballai, a ddioſgid yn noeth-lymmun, a chwippid ac a dorrid eu cluſtiau, ac a adewid i fyned i gerdded; yn fyrr, eu creulondeb oedd mor fawr at broffeſwyr yr eſengyl, fel nad aeth na'r Tyrciaid na'r Cenhedloedd tu hwnt iddynt; braidd nad oedd y creu-

londeb a arferent tu ag attynt yn rhy echrydus gymmaint a'i adrodd ; megis hanner dagu rhai, gwneud iddynt fwyta eu tom eu hunain, tynnu carreion a chordynau trwy gnawd rhai, a thrwy ewynau, borddwydydd, coesau, breichiau, neu trwy gluſtiau, trwynau eraill : crogi rhai i fynu mewn mwg, eu ſychu hwy wrth dân araf, a'u llonni hwy yno â dwfr, rhag iddynt farw yn rhy gloi ; rhoſtio eraill wrth dân gwellt ; gwaſtadhâu wynebau eraill â plane neu ſiſwrnau, *&c.* Y fath greulondeb a arferwyd at yr *Albigenſes*, tan Bab *Innocent* y III. a *Julian* yr II. pan ddiſtrywyd dau cant o filoedd o honynt mewn ychydig ſiſoedd. Ond edrychwch ar y creulondeb a arferwyd yn ein gwlad ni ein hunain yn amſer y Frenhines *Mari* waedlyd honno, yn y flwyddyn 1553 ; nid llai nag wyth cant a ordrodd y Frenhines hon i'r lladdfa mewn tair blynedd o amſer, a rhai'n i gyd yn unig am fod yn Broteſtaniaid ; ac nid oedd yr herlidwyr hyn yn foddlon i ferthuru'r byw, ond rhaid oedd hefyd cloddio i fynu eſgyrn y Proteſtaniaid meirw, a'u lloſgi yn gyhoedd. A'r fath oedd zel annaturiol y Frenhines babaidd hon yn erbyn y rhai fu'n Broteſtaniaid, fel na's gwnae recantatiwn, neu alw yn ol, i gadw neb o honynt ; canys pan darfu un alw yn ol yng nghanol y fflammiau, a'r Sheriff i'w dynnu ef allan, ac yntef i ſelio ei recantaſiwn ; ond pan gynted ag y clywodd y Frenhines am dano hi a barodd ei loſgi ef a charcharu 'r Sheriff : ac yn lle gwellhâu at ei diwedd, hi a aeth yn waeth, er ei bod tan glefyd hir a nychlyd ; canys lloſgwyd pump yng *Nghanterbury* am grefydd wrth ei gorchymyn hi, ond wythnos cyn ei mharwolaeth ; er, fel y mae Eſgob *Burnet* yn addef mai menyw naturiol iawn oedd y Frenhines *Mari* ; etto, eglur yw, ei bod hi fel y mae yr holl Bapiſtiaid, yn berchen crefydd ddrwg, yr hon na's dioddef iddynt arfer dynoldeb cyffredin at y rhei'ny ag y maent yn eu cyfrif yn Heretieiaid,

aid, megis ag y maent yn cyfrif yr holl Broteſtaniaid.

Eu. Ond chwi a ddywedaſoch am ryw Faſacr ofnadwy iawn yn *Iwerddon*, pa ſut, a pha bryd y bu hwn?

App. Ar ol hir heddwch o 40 mlynedd agos, pan yr oedd yr hen lid megis wedi ei gladdu, eu Hoffeiriaid hwy yn canlyn y gorchymynion a dderbyniaſant o *Rufain*, yn fuan a dorraſant yr heddwch, trwy gynhyrfu i fynu y Pendefigion ac eraill i ddiſtrywio yr holl Saeſon a'r Scotiaid, fel hereticiaid; a'r dydd cyn i'r mwrddrad hyn ddechreu, yr Offeiriaid a roiſant i'r bobl gyflawn faddeuant yn y Maſs, a rhydd-did i fyned allan a chymmeryd perchennogaeth o'u holl diroedd, fel hefyd eu dioſg, eu rhobbo a'u 'ſpeilio o'u holl feddiannau a'u hanifeiliaid; gan fod y Proteſtaniaid fel yr oeddent yn dywedyd wrthynt yn waeth nâ chwn; canys diaflaid oeddent, ac yn gwaſanaethu'r diafol; am hynny lladd y cyfryw ydoedd waith haeddiannol, ac yn amddiffynfa anghyffredin yn erbyn poenau 'r pur-dân. A'r Offeiriaid a roiſant y Sacrament i amryw o'r *Gwyddelod*, ar ammod na fyddai iddynt arbed na gwr na gwraig na phlentyn o'r Proteſtaniaid, gan ddweud ei fod yn beth haeddiannol iawn i olchi eu dwylo yn eu gwaed; hyn oedd eu hegwyddorion hwynt, a'u gweithredoedd fu rhy gyttunol â hwynt, fel yr ymddengys yn yr hanes arſwydus ſydd yn canlyn. Yn y Caſtell yn *Liſgal*, fe loſgwyd 120 o wyr, gwragedd, a phlant. Caſtell arall a yieldwyd i fynu i'r gelynion ar ol amryw addewidion a llwon o gael eu harbed; ond pan gynted ag y daeth y milwyr i mewn, hwy a'u mwrddraſant hwynt i gyd, gan dyngu yn ofnadwy, *Nad oedd un ffydd i'w chadw gyd â hereticiaid.* Mewn un man hwy a ddodaſant Gaſtell ar dân, lle yr oedd llawer o Broteſtaniaid wedi ffoi, mewn gobaith o gadw eu heinioes; ac wrth glywed ſcrechfau alaethus, a

llefain y trueiniaid tlodion, hwy gân chwerthyn a ddywedaſant, Gwrandewch fel y maent yn ffrio ynghyd; y fath fywſic y maent yn ei wneuthur! Pan y caent un Bibl ſaeſonaeg, hwy a'i briwient ef mewn llid, gan dyngu mai y rhai'n oedd y tân uffern ag oedd yn dodi'r cwbl yn wen-fflam, ac yna hwy a'i lloſgent ef. Yn *Liſſenhea* hwy a grogaſant ac a laddaſant gant o'r Scots-proteſtanaidd; rhai a gymhellaſant i glywed Maſs, tan addo iddynt gael byw, a'u dodi i dyngu na chyfnewidient byth oddiwrtho, ác yn union wedi 'n, hwy a'u crogaſant, neu lladdaſant hwy. Wrth Bont *Parton-down*, hwy a yrraſant 1000 o bobl i'r afon i foddi; ac o's byddai un yn ddiog i fyned, hwy a'i ſymbwlent ef ym mlaen â chleddyfau ac â phiccellau. Yn nhref *Armagh* fe foddwyd ac a fwrddrwyd 500 o ddynion. Yng *Nghilmore*, yr holl drigolion a ddioſgwyd ac a ddihenyddwyd, eu gyd yn 200 o deuluoedd; yr holl wlad oedd yn gigydd-le cyffredin; rhai a oſodent mewn carcharau tywyll drewllyd, eraill a ddarniaſant yn farbaraidd, ac a adawſant yn hanner marw ar y pryf-ffyrdd; rhai a gladdaſant yn fyw; rhai a dorraſant, ac a glwyfaſant, ac yna a'u cadwaſant i lawr â cherrig; lle cawſant orwedd tan riddfan, tra yr oedd eu gwragedd eu hunain yn ſtoppio eu hanadl â'u nhapcynon i'w rhoi allan o'u poenau; amryw o wragedd beichiogion a hongiaſant i fynu, yna rhwygaſant eu crothau, nes daeth allan eu plant, y rhai a roddaſant i'w difa i'r cwn a'r moch; amryw fabanod a gymmeraſant erwydd eu traed, ac a darawſant eu hymenyddiau allan yn erbyn coed. Ymhlwyf *Cilmaren*, y mwrddrwyd 1200 o Broteſtaniaid. Yn Sir *Antrim* hwy a fwrddraſant 954 yn yr un boreu; ac eilwaith 1200 rhagor yn y Sir honno. Sir *Philem Oneal* a ymffroſtiodd iddo ef ladd o ddeutu 600 yn *Garva*; ac na adawodd ef na gwr na gwraig na phlentyn yn fyw ym *Maroniaeth Munterlong*;

Munterlong; ac mewn lleoedd eraill y mwrddrodd ef 2000 o ddynion yn eu teiau. O ddeutu 12000 a laddwyd ar y prif ffyrdd, fel yr oeddent yn ffoi tu â'r *Down*. Rhai a roſtiaſant yn fyw, ac a arferaſant greulondeb, na's clywad am ei fath tu ag attynt; gan ddiſtrywio oll tros ddau cant o filoedd o bobl (200, 000). Dyma 'r fath yw yſpryd y grefydd babaidd!

Eu. Da yw bod y grefydd hon yn llai ei rhwyſg nag yn y dyddiau gynt, ac attolwg pa faint o'r byd ſydd yr awr hon tan dywyllwch y grefydd hon?

Ap. Llawer a ymadawodd yn y diwygiad, etto mwy ſydd yn ol; * canys holl dir *Spain*

---

* Y gwledydd hyn y mae'r grefydd babaidd ynddynt y'nt helaeth a chyfoethog iawn uwchlaw holl deyrnaſoedd y byd, ac yn cynnwys aneirif o drefydd a dinaſoedd mawrion, a theg, llawn o bobloedd, ac o bob meddiannau gwerthfawr, dyfais dyn a gogoniant y byd hwn: hen *Spain* ei hunan ſydd yn 700 o filltiroedd ei hyd, a 500 o led; ac yn fwy llawn o arian nag un o deyrnaſoedd y byd: Gynt y mwyn-arian-gloddiau yno oedd yn rhoddi i'r *Rhufeiniaid* fwy o arian nac un wlad tan lywodraeth *Rhufain*, er fod y mwyn gloddiau hynny yn awr wedi eu colli, neu eu diyſpyddu, neu ynteu y *Spaniards* ſy'n cael y fath gyflawnder o arian o *America*, fel na thâl mwyn-gloddiau *Spain* ddim i'w gweithio. Llywodraeth Brenhin *Spain* yw y fwyaf ſydd gan un Emerawdwr yn y byd; mor faith, fel nad yw'r haul yn machludo ar unwaith ar ei ardaloedd ef i gyd. Canys heblaw ei lywodraeth yn *Europ*, mae efe yn perch'nogi y rhan orau o *America*; gwlad hyfryd a chyfoethog, ardaloedd pa un ſydd i gyd yn cyfarfod â'u gilydd, ac yn cyrrhaedd 6000 o filltiroedd o hyd, o'r De' i'r Gogledd; mae efe hefyd yn Frenhin ar yr holl ynyſoedd cyfoethog yn y Deheu-dwyrain o gyffyniau *China* yn *Aſſia*, elwir y *Philipines*, o ba le y mae ef yn dwyn adref holl farſiandaeth gyfoethog y Dwyrain; ac

yn

Spain ſydd babaidd, holl *Ffraingc* a *Phortigal*, *Itali* o ben bwy gilydd; *Switzerland* ynghymmyſg, yn hytrach

---

yn *Affrica*, mae ef yn arglwydd ar *Ceuta*, *Oran*, ac amryw leoedd dewiſol ar y cyffyniau hynny. Mae hen *Spain* yn gyfoethog o win, olew, ſidan; ac nid oes un wlad ag ſydd yn dwyn gwell oranges, lemmons, raiſins, ſitrons, prunes, ffigys, capers, almonau, a phomgranadau; mae'r tir yn dwyn hefyd cotten, llin, ſugar, ſaffrwm, a chanddynt fwyn gloddiau gwerthfawr o arian byw, coppor, plwm, alem, brwmſtan, a haiarn a dur. *Biſgai* yr hwn a gyfrifir y gorau yn y byd. Etto, er hyn i gyd, nid yw *Spain* ddim yn llawn boblog, ond yn deneu iawn; (1.) O achos gweddwdod yr Offeiriaid, a chynnifer o fynddiynau o feibion a merched ſy' yn cael eu caead i fynu mewn gwedd-dai. (2.) Taflu allan gynnifer cant o filoedd o'r *Iuddewon* a'r *Mwriaid*, fel y gwnaethant o ddeutu ddau can mlynedd yn awr. (3.) O achos y rhyfeloedd a ddygaſant ym mlaen â rhan fwyaf o frenhinoedd *Europ*, cyſtal ag *Affrica* ac *America*, er ys dau can mlynedd a aeth heibio, trwy ddiyſpyddu eu gwlad bob blwyddyn o gynnifer o ddynion i lanw eu hardaloedd yn *America*. Mae Palas gan Frenhin *Spain* o fewn i un filltir ar hugain i *Madrid*, ag ſydd yn un o'r rhai pennaf yn y byd; mae iddo un fil ar ddeg o ffeneſtri, pedair mil ar ddeg o ddryſau, deunaw cant o bilerau, dau ar bumtheg o gloyſters, a dau ar hugain o gynteddau; nid oes dim yn eiſiau yn hwn o fod yn dref hardd-deg a chyflawn; canys mae yma Eglwys, Coledge, Monachlog, tai cyfanneddol, ſhoppau, creffitwyr, rhodfeydd, gerddi, a pharc mawr ehelaeth; ag ynddo elltydd, ffynhonnau, caſgadau, grottos, bangciau hyfryd, a phob peth ag a all wneud lle yn ddewiſol yn y fath gyfimate poeth â hwn. Yn *Spain* newydd, neu *Mexico*, y coed ffrwythau yw pren cabbage, caccao, neu cneuen jacolet, venelas, plantain, afalau-pine, cacoes, ſapadiloes, avagato-pear, coed mamee, gwava, pear pricle, oranges, lemmons, *&c.* ac amryw fath o gums a drugs; a choed eu fforeſt yw cedrwydd, log-wood, manchinael, bamboe, mangroves, mahoe, *&c.* nid oedd

hytrach mwy o honi yn Broteſtanaidd; llawer iawn o Bapiſtiaid ſydd yn *Holand*, a'r 7 *United-Netherlands*

oedd na cheffylau, nac eidionnau, na chamelod, elephantiaid, defaid, moch, geifr, aſſynnod, na chwn, ond ychydig o rai mudion yno, hyd oni's daeth yr *Europiaid* â hwy troſodd: ond yr oedd yno lewod, teigers, eirth, elks-deer, math o eifr-danas, mws, pecaree, waree, beafers, apaſſums, armadilos, guanoes, gwiwerod hedegog, racwns, crocodiliaid, manateemonkeys, parots, macaws, pelicanod, milfrein, ac amryw fath o nadroedd, ſcorpionau ac ymluſgiaid, o ba rai y gwerthfawroccaf yw y cochineal. *Portugal* hefyd ſydd dri chan milldir o hyd a chant o led, ac yn un o'r gwledydd cyfoethoccaf tan y nef o'i mhaint: marſiandaeth eu gwlad eu hunain yw gwin, oranges, lemons, a ffrwythau eraill, ond yr hyn y maent yn ei farſiando o'u plantaſiynau yn *Aſſia*, *Affrica* ac *America*, yw ſugar, tobacco, rum, cotten, lliw-glas, crwyn, train-oyl, coed-lliw, a drugs, heblaw tryſorau mawrion o aur, arian, a diamonds, ag y maent yn ddwyn adref o *Brazil*; wedi cael yn ddiweddar fwyn-gloddiau mawr-bris o'r meini gwerthfawr hyn yno. Nid oes un wlad â pha un y mae'r Saeſon yn trado gyd â mwy fantais nâ *Phortugal*; canys er ein bod ni yn derbyn i mewn y rhan fwyaf o'u gwin a'u ffrwythau hwy, maent hwythau yn cymmeryd ein gwaith gwlan ninnau mewn cyfnewid, â pha un nid y'nt yn unig yn dilladu gwyr *Portugal*, ond hefyd yr amrywiol ardaloedd hynny ſydd ganddynt yn *Aſſia*, *Affrica*, ac *America*, ac amryw genhedlaethau ag oedd yn myned yn noeth gynt, ac a ddyſgodd y *Portugees* i gyd-ſynio ag arferion *Europ*. ——*Ffraingc* ſydd wlad fawr o ddeutu 540 o filltiroedd bob ffordd; gwlad boblog iawn ydoedd hyd yn ddiweddar, pan ddiyſpyddwyd hi o lawer o bobl, trwy newyn, cleddyf ac erledigaeth; yr awyr yma ſydd fwy cymhedrol nag un wlad yn *Europ*, a'r tir ſydd yn dwyn ŷd, gwin, olew a llin, feſur mawr; ei phobl y'nt yn gyffredin o ddeall da, ac yn fwy eu bywyd a'u dyfais nac un genedl yn *Europ*; ond mor aneſmwyth ac anioddefol, fel y maent yn waſtad yn ymdynnu

mewn

Netherlands; ond yr *Auſtrian-Netherlands* y'nt oll yn Bapiſtiaid, ond ychydig bach o *Flanders*, a *Brabant*

---

rhyfeloedd o dref, ac mewn cyfreithiau â'u gilydd gartref; maent mor hunan-dybis, fel yr edrychant ar bawb eraill ond fel barbariaid: mae yn *Ffrainge* tros ddeunaw mil ar hugain (38000) o blwyfau; mae gan y Brenhin yn amſer heddwch ddau cant o filoedd (200000) o bobl mewn arfau, ac yn amſer rhyfel yn fynych gymmaint arall; nid yw yr holl deyrnas ond un fferem fawr i'r Brenhin; canys holl ffrwyth a mwyniant *Ffrainge* ſydd tan ei awdurdod ef, o's gwel fod yn dda ei ofyn ef; er ei fod yn dewis ei gymmeryd yn y ffordd arferol, fel na's gwnelo ragor yn anfoddlongar, na chynnifer ag na's gallo beidio. Gwaith eu dwylaw hwynt yw 'r lawn, lace, camric, tapeſtry, gwaith gwlan a ſidan, felfed, brocades, alamodes, lleder a gwaith haiarn. *Itali* ſydd wlad fawr, o ddeutu 600 milltir ei hyd; a'i lled mewn un mann yn 400, mewn mann arall yn 120, a mann arall ond 80 o filltiroedd; mae hi wedi ei rhannu rhwng amryw awdurdodau; y tu Gogledd iddi mae Duchies *Savoy*, *Piedmont*, a rhan o *Mount-Ferrat*, yr hyn ſydd eiddo Brenhin *Sardinia*; ardal *Genoa* yn eiddo 'r *Genoeſe*; Duchies *Mila*, *Mantua*, a'r rhan arall o *Montferrat* yn eiddo Brenhines *Hungari*; Duchy *Parma*, eiddo'r Inffant Duck; Duchy *Modena*, eiddo ei Duck ei hun; a'r ardal fawr *Fenis*, eiddo y republic.—Yng nghanol *Itali* mae Duchy *Tuſgani*, eiddo'r Emprwr; ac ardaloedd y *Pab*. Yn y rhan ddeheu o *Itali* mae teyrnas *Naples*, yr hon ſy'n eiddo Brenhin y ddwy *Siſilys*. Felly fel nad oes dim llai nâ naw o berchenogion ar *Itali*, ſef yr Emprwr, y Pab, Brenhin *Sardinia*, Brenhin y ddwy *Siſilys*, Brenhines *Hungari*, republic *Venice*, a republic *Genoa*, a Duckiaid eraill. Mae aneirif o drefydd hardd-deg a gogoneddus yn *Italy*, a hen adeiliadau er amſer y *Rhufeiniad*. Nid llai na thri chant o Eglwyſydd ſydd yn *Rhufain* ei hun, ac eglwys St. *Pedr* yno yw yr adeiliad ffeinaf o'r fath ar wyneb y ddaear. Eglwys St. *Paul* yn *Llundain* a gymmerwyd oddi wrth ddull honno; ond eglwys St. *Pedr* ſydd lawer helaeth-

Brabant ag ſydd yn perthyn i'r *Dutch*; ac am Emerodraeth *Germany*, y pen ſydd ehang iawn, mae

---

ach, ac wedi ei haddurnu yn well â ſtatues ac â lliwiau. Mae *Naples* yn *Itali* yn ddinas ardderchog, yn ſaith milltir o gwmpas o fewn i'r muriau, a chymmaint arall pe b'ai'r teiau ſydd o faes o fewn i'r mur, yn cynnwys o ddeutu dri chan mil (300000) o ddynion, nid oes ym mhob yſtyr un lle mwy dymunol tan yr haul, oni b'ai y tân ag y mae mynydd *Veſuvius* yn ei daflu allan, a daear-grynfâu ſydd yn eu haflonyddu, cyſtal a'r cyfnewidiadau mynych ſydd yn digwydd yn y deyrnas hon; canys gwlad mor ddymunol yw, ag ſy'n dodi Brenhinoedd cymmydogaethol yn waſtad i ymladd am dani: *Germani*, *Ffraingc* a *Spain* fu ar gylch yn llywodraethu arni; anghynnefin bod yr un Brenhin arni 40 mlynedd. Aml iawn yw Pendefigion ac Offeiriaid y deyrnas fechan hon *Naples*; 25 o Arch-eſgobion, 125 o Eſgobion, 300 o dywyſogion, Duciaid, Ieirlls a Marqueſes. A'r catecwms yn y deyrnas hon yw un o'r pethau mwyaf rhyfedd yn y byd; y rhai'n y'nt aleriau hirion wedi eu torri allan o graig, yn dair lloft, un oddiar y llall, o ddeutu ugain troedfedd o led, pumtheg troedfedd o uwchder, ac a ddywedir ei bod yn rhedeg amryw filltiroedd tan y ddaear. Fe debygir mai lleoedd claddedigaeth yr hen bobl oeddent yn *Rhufain* a *Naples*. *Venis* ſydd ddinas hyfryd iawn, yr hon nid yw ar ſôr nac ar dir, ond wedi ei hadeiladu ar y cyntaf ar drugain a deuddeg o ynyſoedd bychain, ond yn awr ar lawer rhagor; ac mor annodd i elynion ddyfod atti fel nad rhaid adeiladu muriau iddi; ei chwmpas ſydd 6 milltir, a'i thrigolion o ddeutu dau cant o filoedd; y caneli ſydd mor amlwg ag y gellir myned i un rhan o'r dref ar hyd y dwfr, ac nid llai nâ 450 o bontydd ſydd ar y rhai'n; a'r fwyaf ſydd yn un arch, yn gwneud y drydydd ran o circle, ac yn 30 llathen o led: amryw iawn o'i phalaſau ſydd â'r tu wyneb iddynt o farble, yn gwneud golwg hyfryd iawn. *Switzerland* ſydd 260 milltir ei hyd, ac o ddeutu 100 o led; gwlad am ei bod hi yn agos iawn i'r *Alps*, y mynyddau uchaf yn

Europ

mae yn bur gyd-bwys rhwng y Papiſtiaid a'r Proteſtaniaid; amryw rannau yn Galfiniſtiaid, rhai

---

Europ y rhai ſydd ran fawr o'r flwyddyn tan eira, ag ſydd yn fwy llym nac amryw wledydd agoſach i'r Gogledd. Mae 'r afonydd mwyaf yn *Europ* yn cael eu dechreu yn y mynyddau hyn, ſef y *Rhine*, y *Rhone*, y *Danub* ac eraill; ac mae yma lynnoedd mawrion iawn, megis llyn *Conſtance*, a llyn *Geneva*, y rhai y'nt bob un o honynt yn drugain milltir eu hyd, ac nid oes yma braidd fynydd heb lynn arno: gwlad llawn o goedydd teg yw hi, ac mae y rhan o honi ſydd gan y Proteſtaniaid yn ehangach ac yn gryfach nâ'r hyn ſydd gan y Papiſtiaid. Nid oes un byddin ſefydlog tan daliad yn cael ei chadw yn *Switzerland*; ond etto nid oes mewn gwlad Filitia mwy trefnus; pob gwrryw o 16 i 60 oed ſydd yn cael ei enw mewn llyfr; a'r drydydd ran o honynt ſydd yn cael eu traino i fynu; ac o'r lleill mae y rhai'n yn cael eu gwneud i fynu pan f'o eiſiau; ac er nad oes na gwr march na gwr traed tan daliad tra font gartref; etto, pa bryd bynnag yr elont allan, mae eu cyflog wedi ei apwyntio; ac er mwyn caſglu yn gynt eu Mhilitia ynghyd, mae ganddynt arwyddion i roi, trwy ennyn tân y nos, a mwg y dydd ar y begunau uchaf, ar ba olwg yr holl Filitia o bob goror a ymgaſglant mewn arfau, ac a grynhont i'r lle apwyntiedig; a'r gwyr ieuaingc hyn ſy'n gwaſanaethu tair neu bedair blynedd yn eu byddinoedd hwynt o gartref, ar ol pa amſer eu ſwyddogion ſydd rwym i'w cymmeryd hwy adref; fel mae rhan fawr o'u Mhilitia gwedi bod mewn gwaſanaeth pellenig, ac am hynny a allir eu cyfrif hwynt cyſtal â milwyr ag ſydd yn waſtad tan arfau, ac yn rhagori llawer ar Filitia gwledydd eraill. Yn y rhyfel diweddaf, yr oedd gan y Proteſtaniaid ddeugain mil, (40000) ac nid oedd gan y Papiſtiaid ond ugain mil, (20000) am mai mwy yma yw llywodraeth y cyntaf nâ'r ail, oni b'ai fod y Pab mor agos yn cynnorthwyo'r Papiſtiaid. — *Holand* a'r chwech arall *united provinces* y'nt o ddeutu 150 o filltiroedd eu hyd, ac o gwmpas cymmaint arall o led; ond *Holand* ei hun ſydd mor

boblog

rhannau yn *Lutheriaid*, a rhannau eraill o grefydd y Pab; y grefydd ſefydledig yn nheyrnas *Bohemia*,

---

boblog ac mor gyfoethog â'r lleill oll; yn cynnwys dros ugain o drefydd mawrion, ac wedi cyrrhaedd i'r farſiandaeth fwyaf trwy'r byd; er nad oes ganddynt un commodity gartrefol i farſiando, ond y porfaidd breiſion ag ſydd yn dwyn iddynt gyflawnder o fenyn a chaws, etto maent yn dwyn i mewn bob peth arall o wledydd eraill, ſel y mae ganddynt y fath amrywioldeb mawr o waith dwylo ac o farſiandaeth, ag un wlad pwy bynnag. Mae *Holand* yn dryſor-dŷ mawr, lle mae ffrwythau a meddiannau pob gwlad arall yn cael eu goſod i gadw, yn cael eu prynu i mewn ag eithaf newid, a'u gwerthu allan yn eithaf drud. Mae eu llongau rhyfel hwy (o's nid eu byddin ar dir) yn abl cymharu ag un Brenhin yn *Europ*. Mae ganddynt un fantais fawr yn eu traffic, yr hyn na's gall y lleill o'r byd gyſtadlu â hwynt, yn enwedig yn eu marſiandaeth o'r perarogl-au gorau, y rhai a ddarfu iddynt er ys can mlynedd a aeth heibio, eu cymmeryd yn unig iddynt eu hunain; ac ym mhyſgodfa'r ſcadan ynghyd â phyſgodfa'r morfilod, trwy ba rai y caſglaſant olud anrhaethol. Mae eu byddin ſefydledig hwynt yn amſer heddwch yn 40 mil. ——Nid oes un genedl yn *Europ* a all oſod allan fwy o longau rhyfel na'r *Dutch*; canys y mae ganddynt yn barod at adeiladu llongau yn *Sardam* goed, a defnyddiau eraill at eu rhigo hwynt, fel y gallant adeiladu llong ryfel bob dydd o's mynnant: ac nid oes un wedi eu cyfoethogi yn well â morwyr cymmwys at eu llanw hwynt. Llawer a ddioddefodd y wlad hon o bryd i bryd gan dorriad y môr i mewn arnynt; ac amryw ben-trefydd a ſoddwyd.——Yn y flwyddyn 1568, torrodd y môr y cloddiau, ac a liſodd i mewn cuwch, fel y daeth troſtynt: mewn mannau eraill gyd â'r fath liſeiriant diſymmwth, na chlywad ſôn am ei fath, fel y gorchuddiodd rai ynyſoedd o *Zealand*, rhann fawr o goror *Holand*, ac ym mron holl *Ffrizland*, ac a lyngcodd i fynu drugain a deuddeg o ben-trefydd; ac yn *Ffriſland* ei hun y diſtrywiodd eſtros ugain mil (20000)

Bohemia, teyrnas *Hungari* a thywyſogaeth *Tranſylfania* ydyw y Babaidd, er bod llawer iawn o Broteſtaniaid,

---

o bobl cyrph pa rai ynghyd â chyrph eu hanifeiliaid, dodrefn eu tai, a'u lleſtri briwedig oedd yn nofio ar wyneb y dyfroedd: amryw weithiau ar ol hyn y torrodd y môr i mewn, ac y gwnaeth ddiſtryw alaethus. —*Auſtrian Netherlands* eilwaith ſydd o ddeutu 200 o filldiroedd ei hyd, a 130 o led: eu traffic gartrefol yw lawn, cambric, lace a thapeſtry; pa foddion y maent yn dwyn ymlaen yn dra manteiſiol, yn enwedig â *Lloegr*, o ba le yr ydys yn tybied y maent yn ennill rhagor na ni o bum can mil (500000) o bynnau bob blwyddyn, yn amſer heddwch.—*Germani* ſydd wlad ehang lawn, o ddeutu 600 milldir ei hyd, a 500 milldir o led; mae hi wedi ei rhannu yn ddeg o rannau mawrion, y rhai a elwir Sircles; mae ynddi tros 300 o Dywyſogion, a States yn berchen awdurdod brenhinol yn eu hardaloedd neillduol eu hunain: mae *Germani* yn gyffredinol yn wlad waſtad tu â'r Gogledd a'r Dwyrain; yn cynnwys tir cras grafelog a morſeydd; ar y tu deheu mae mynyddau'r *Alps*, ond yng nghanol y wlad y mae amrywiol o frynniau, dyffrynnoedd, maeſydd ffrwythlon, a gwaenydd, yn enwedig ar hyd lann eu hafonydd, y *Danub*, y *Rhine*, a'r lleill. Aneirif o drefydd hardd, ceſtyll a phalaſau ſydd yn ei haddurno hi; ac y mae hi lawer yn fwy poblog nâ *Ffraingc*. Mae'r Emprwr a'i holl Dywyſogion pe cyttunent yn un, yn abl codi pum can mil (500000) o ſawdwyr, a'u maintainio hwy hefyd i ryfela, a hwy fyddent tros ben match i *Ffraingc*, ond nid yw hyn yn digwydd ond yn anfynych; canys *Ffraingc* pan yr el i ryfel â *Germani* ſydd yn gwyr-droi rhai o dywyſogion yr Emerodraeth, ac yn eu dwyn hwy troſodd i'w party hwy; neu gyffroi y Twrc neu 'r Swedes i wneud difyrrwch o'u hochr. Maent yn *Germani* ymhell iawn oddiwrth eu gilydd ymhyngciau crefydd; y ſectau pennaf yw y grefydd Babaidd, y Lutheriaid a'r Calfiniſtiaid; mae yno hefyd Independents, Anabaptiſts, Cwaceriaid a Chriſt'nogion o bob enwau, a thorfeydd o *Iuddewon* yn eu holl drefydd mawrion. Mae'r Emerawdwr

Broteſtaniaid, a hynny o amryw ſectau yn waſgaredig ar hyd y tair teyrnas hyn. *Sclavonia* hefyd

---

Emerawdwr yn waſtad yn Bapiſt; *Sacſoni* a *Brandenburg* y'nt gan fwyaf yn Lutheriaid, a chan rai yn Galfiniſtiaid; *Bafaria* ac *Auſtria* y'nt Babaidd; y *Palatinate* ar y *Rhine* uchaf a'r *Rhine* iſaf y'nt gymmyſg o bob ſectau: Dinaſoedd yr Emerodraeth y'nt gan fwyaf yn Lutheriaid, a rhai yn Galfiniſtiaid; a'r ddau olaf hyn yn caſâu ac yn erlid un y llall yn fwy nag y maent y Papiſtiaid.——Mae *Germani* yn dwyn ŷd, gwîn, olew, defaid, da duon, a rhywogaeth ragorol o geffylau, at y cerbyd, neu ryfel; llawer hefyd o lîn, cŵarch, a llawer iawn o dderw, a choed adeiladu rhagorol; mae ganddynt fwyn gloddiau haiarn, coppor, arian, plwm, halen, glo, fitriol, arian-byw, nitr, ocre a ſulphur; a rhai o'r ffynhonau mwyaf meddyginiaethol yn *Europ*.—Mae ganddynt gyflawnder o eifr, pyſgod ac adar, a'u perllannau hwynt ſydd yn llawn o'r ffrwythau goreu. Teyrnas *Bohemia* ſydd 300 milltir ei hyd, a 250 o led, wedi ei hamgylchu â mynyddau mawrion a choedydd, ac awyr y wlad hyn a gyfrifir yn afiachus iawn; mae'n dwyn ŷd, gwîn, hops, llîn, cŵarch, gwlan, coed, a ffrwythau yn afrifed; nid oes un wlad yn *Europ* â chyfoethoccach mwyn-gloddiau arian, arian-byw, coppor, haiarn, plwm, ſulphur a ſalt-petre; y gwledydd ſefydledig yma yw y Babaidd, er fod amrywiol ſectau ym *Morafia* ag ſydd yn eu galw eu hunain yn Broteſtaniaid.——*Hungari* ſydd deyrnas fawr waſtad, yn 300 o filltiroedd ei hyd, a 200 ei lled; ac y mae'r afon fawr *Danub* yn ei rhannu yn ddwy, yr hon ſydd yn rhedeg trwy holl *Germani*, *Fienna*, *Hungari*, *Twrci*, ac yn cwympo i'r môr du yn amryw Ganeli, yn rhedeg i gyd o ddeutu mil o filltiroedd; mae hi mor llydan ac mor ddwfn o *Fienna* i *Belgrade*, fel y mae fleets o longau rhyfel wedi bod yn ymladd arni y rhyfel diweddaf rhwng y Criſt'nogion a'r Tyrciaid; y wlad hyn ſy'n dwyn cyflawnder o ŷd, gwîn rhagorol, ac anifeiliaid, mwyn-gloddiau arian, coppor, haiarn, a halen.—Mae *Hungari* wedi bod yn faes rhyfel er ys 200 o flynyddau; ſe'i gelwir hi

fyd a *Chroaſia* y'nt Babaidd, ond bod amryw o eglwys y *Groeg* yn waſgaredig ar hyd *Sclavonia*.

Y grefydd

Bedd y *Germaniaid*, amryw filoedd a gollodd eu bywydau yn y tir afiachus hwn trwy glefyd cyſtal â'r cleddyf; mae rhyw fath o blague yn ymweled â'r wlad hon bob tair neu bedair blynedd. Mae yn y wlad hon bont ar yr afon *Danub*, ac ar yr afon *Drave*, a'r morfa yn ei hochr yn cyrrhaedd pum milltir o hyd; ac arni dura bob cwarter milltir un oddiwrth y llall; a'r bont hon ſy'n rhagodfa ac yn fywyd, yn ymladd llawer am dani rhwng y Criſt'nogion a'r Tyrciaid: mae yma bont arall wedi adfeilio, o waith yr hen *Rufeiniaid*, yn cynnwys ugain obilerau pedwar conglog, yn gant troedfedd o uwchder; a phob piler yn bedwar ugain llathen o gwmpas; a phellder un o'r rhai'n oddiwrth y llall, yn agos i 60 llathen, a bwâu wedi bod troſtynt yn y dyddiau gynt. Pabyddiaeth yw y grefydd ſefydledig yma, ond darfu i Huſſiaid *Bohemia* dannu eu crefydd yma yn y flwyddyn 1500, a'r Lutheriaid yn y flwyddyn 1600: mae rhifedi mawr o Broteſtaniaid yn y deyrnas hon, wedi eu rhannu yn amrywiol o ſectau, pa fodd bynnag y maent yn uno yn erbyn y llywodraeth, am ba achos y cawſant eu herlid amryw flynyddau; hwy fuant yn taro gyd â'r Tyrciaid yn erbyn y Criſt'nogion Babaidd; yn derbyn gwell ffafr ar law y Paganiaid na'r Papiſtiaid rhagfarnllid hyd y teyrnaſiad preſennol, pan addawodd y Frenhines i'r Hungariaid gael adferiad o'u hen ragorfreintiau, a tholeraſiwn i'r Proteſtaniaid o'u crefydd; hwy a ſafaſant i'w hamddiffyn hi yn yr oeſoedd diweddaf.—— *Tranſilfania* ſydd wlad o ddeutu 120 o hyd, a chymmaint o led, tan lywodraeth Brenhines *Hungari*; gwlad ffrwythlon yn dwyn ŷd, gwín, anifeiliaid a phorfeydd breiſion; a'u mwyn-gloddiau, a graian eu hafonydd ſydd yn rhoi aur, arian, haiarn a halen; maent yma am grefydd yr un fath â *Hungari*.——*Poland* ſydd wlad fawr iawn, yn 700 milldir ei hyd, a 680 o led, yn dir gwaſtad, wedi ei ddyfrhau yn rhagorol â llynnoedd ac afonydd; tir da rhagorol ffrwythlon, yn dwyn cyflawnder o wenith a rhŷg, â pha un mae'r *Duteh* yn llwytho

rhyw

Y grefydd ſefydledig eilwaith yn *Poland* yw y Babaidd, ond yn unig mewn rhai trefydd ar lann y môr

rhyw gantoedd o longau bob blwyddyn, a'i ddanfon eilwaith i'r fath wledydd ag y b'o prinder o ŷd. Mae ganddynt hefyd borfeydd cyfoethog ag ſy'n tewhâu aneirif o anifeiliaid, â pha rai y maent yn digoni *Germani*; byddinoedd *Poland* y'nt i gyd wyr meirch, a phan b'o eiſiau gwyr traed arnynt, y maent yn hurio rhai o *Germani:* un o'r pethau mwyaf rhyfedd yn y wlad hon yw, y dynion gwylltion, y rhai ydys yn eu cael yn fynych yn y coedydd, lle y tybir i'w rhieni eu dwyn yn eu mhebyd er mwyn eu cadw rhag y *Tartars*, y rhai ſydd yn cwympo yn fynych ar *Poland*, ac yn dwyn ymaith bentrefydd llawnion o bobl i gaethiwed: wrth eu canlyn yn galed, mae'n debyg i'r benywod orfod gadael eu plant ar ol; ac yr ydys yn eu cael hwy yn fynych ymyſg yr eirth, gan ba rai y maent yn cael eu mhagu, a'u dyſgu i ymborthi ar yr un peth â hwythau: mae rhai a gymmerwyd o honynt megis yn cerdded ar bedair troed, er eu bod rai prydiau yn ſefyll ar eu traed yn union: ni's gallant ymarferyd eu tafod ar y cyntaf, ond fe'u dyſgwyd hwynt i ſiarad trwy eu dwyn i drefydd, a'u harferyd yn addfwyn: nid oes ganddynt gof o'u bywyd gwylltſilaidd o'r blaen. Mae pyllau halen yn *Poland* amryw gantoedd o latheidiau o ddyfnder, ac yn y gwaelod y mae mil o droeadau dyrys; a rhai'n ſydd oer anfeidrol, a'r fath yſtormydd o wynt ſydd yn codi ynddynt, fel na's gall dim eu hattal. Un o'r halen gloddiau hyn ſydd yn talu deugain mil (40000) o bynnau yn y flwyddyn; ac ynddynt mae tri math o halen, un yn galed iawn, mor loyw â'r criſtal; y llall nid mor galed, ond yn loywach; y trydydd yn dyner, yn frau, ac yn hollol wynn; y maent yn gorfod cymmeryd gofal mawr am eu canhwyllau yn y mwyn-gloddiau hyn, canys y fapour yr hwn ſydd o natur nitr rai prydiau a gymmer dân, ac a'u lliyſg hwynt wrth weithio.——Ym mynydd *Poland*, ar ymyl *Ruſſia*, y mae math o ogfeydd tan y ddaear, y rhai yr oedd yr hen bobl yn eu harferyd yn lleoedd claddedigaeth, lle y dywedir fod

y môr du, lle mae rhai yn proffeſu'r grefydd *Lutheraidd*, ond yn fynych yn cael eu herlid am dani. Ond am yr holl wledydd helaeth ſydd gan y *Ffrangcod*, *Portugees*, ac yn enwedig gan *Spain* yn *America*, yr hyn ſydd cymmaint ag *Europ* a rhagor, maent yn gwneud eu gorau i arwain y rhai hyn trwy dân a chleddyf i'r grefydd Babaidd.

App. Pa beth yw'r hyn a alwant arno relics, neu weddillion, yn y grefydd babaidd?

Eu. Rhannau o gyprh hen deidau'r eglwys; rhyw batriarchiaid, ſeintiau, monachod, pennau ſectau, merthyron, apoſtolion, prophwydi, gwyryfon, ſeintieſau, neu ryw rai eraill ag oedd yn enwog yn y grefydd babaidd.———Rhai o'u haelodau, traed, pennau, dwylo, byſedd, gwallt, ewinedd, dannedd, ſhol, eſgyrn, neu weithiau eu gwiſgoedd, eu croes, eu ffyn a'u haſſynnod; ac ar rai prydiau mae ganddynt rannau o angylion, neu o'u harfau.—Maent yn ymffroſtio fod ganddynt laeth Mair y Forfyn, ei chrib, a'i gwregys; ïe, hyd yn oed y tŷ lle yr oedd hi yn byw, i gyd wedi eu dwyn yn wrthiol i *Loretto*. Dywedant hefyd i Cardinal *Buno* roi dau o'i gwallt i Abbi *Beck* yn *Normandi*.———Maent yn cymmeryd arnynt fod ganddynt darian *Michael* yr Archangel, a'r cleddyf â pha un y rhyfelodd ef â'r diafol: ac hefyd un o'i blyf ef.———Ie rhai o'r darnau arian y gwerthodd *Judas* ei Feiſtr, a'r rheſod â pha rai y lloſgwyd St. *Lawrens*, eſgidiau St. *Thomas*, botaſau St. *Martyn*, traed a chynffon yr aſſyn y marchogodd ein Harglwydd arni.——Dywedant fod drain ei goron ef ym *Malmſburi*, a'i waed ef yn *Hales*.———Maent yn cloddio i feddau'r meirw, i gael rhyw rannau o'u cyrph i'r lan, fel y gwnaethant ag un *Amphibius* 8 cant o flynyddau

cyrph dynion yn gyfain, y rhai a gladdwyd er ys amryw oeſoedd, wedi eu hembalmo yn well na Mymmies yr Aipht.

ſlynyddau wedi ei gladdu.———Cloddiwyd am gorph St. *Thomas* ym *Maliapin* yn yr *India* 1500 o ſlynyddau agos ar ol ei gladdu.———Dywedant fod wyneb St. *Ioan* ſedyddiwr yn St. *Jean Angels*; y rheſt o'i ben ym *Malta*, ei ſhol ef yn *Nemours*, ei ymenydd yn *Novium Roſtrovienſe*, aſgwrn o'i ên yn *Feſalium*, darn o'i gluſt yn *Fflorida*, ei dalcen a'i wallt yn *Spain* yn St. *Salvadôr*, ac er hyn i gyd mae ei holl ben ef, meddant, i'w weled yn St. *Silveſter* yn *Rhufain*; ac yn *Amiens* yn *Ffraingc*, darfu *Agelnoth*, Archeſgob *Canterburi*, brynu braich St. *Awſtin* o *Hippo* gan y Pab am 100 talent o arian, ac fe'i rhoddodd hi i eglwys *Coventri*.———*Eraſmus* a dywed iddo weled yn *Walſingham*, fel yr oeddent hwy yn dychymygu, laeth *Mair*, a bys i St. *Pedr*, gymmaint â chawr. ———Ond *inventory* o'r *relics* hyn oedd yn Abbi *Reading* yn ein gwlad ni ein hunain, ac a ddanfonwyd gan Doctor *London*, commiſioner i *Thomas Cromwel*, arglwydd Privi-ſeal, ſel hyn: 1. Dau ddarn o'r gròes ſanctaidd. 2. llaw St. *Iago*. 3. ſhol St. *Philip*. 4. aſgwrn o *Fair* y Forwyn, gyd ag amryw eraill. 5. aſgwrn i *Mari Magdalen*, gyd ag amryw eraill iddi. 6. llaw St. *Athanaſius*, ac amryw eraill. 7. darn o fraich St. *Pancreas*. 8. aſgwrn o fraich St. *Cwintins*. 9. aſgwrn o fraich St. *Dewi*. 10. aſgwrn o fraich *Mari Salmons*. 11. aſgwrn St. *Heirom*, ac eſgyrn ragor. 12. aſgwrn St. *Stephan*. 13. darn o ſhol St. *Urſula*. 14. aſgwrn St. *Blâs*, a rhagor. 15. aſgwrn gên St. *Ethelwold*. 16. eſgyrn St. *Lewis*, a St. *Jeremi*. 17. eſgyrn St. *Margaret*. 18. eſgyrn St. *Arnold*. 19. eſgyrn St. *Agar*. 20. eſgyrn St. *Andrew*, a dau ddarn o'i groes ef. 21. aſgwrn St. *Ffridiſwide*. 22. aſgwrn St. *Anne*, ac amryw eraill. A thorfeydd ragor o fân eſgyrn laſſau, a cherrig, a'r cyfryw bethau, y rhai a lanwai ormodd o le i wneud cyfrif ond o ran o honynt.

RHAN

RHAN IV.

PENNOD II.

Am EGLWYS GROEG, &c.

Ap. YNeſaf mewn trefn yw'r Eglwys Groeg; pa fath eglwys yw'r hon ſydd tan yr enw hynny? ac ym mha rannau o'r byd y mae hi? a pha wahaniaeth ſydd rhyngddi ac eglwys *Rufain?* yr ydwyf yn berffaith anwybodus; am hynny mynegwch ei hathrawiaethau, ei diſgyblaethau, ei ſeremoniau, ei ſacramentau a'i hynafiaeth fel y lleill o'r eglwyſi criſt'nogol.

Eu. Llywodraeth y Groegiaid fu fawr iawn, ond byrr ei pharhâd; canys hi a ddaeth yn fuan i fod tan awdurdod emerodraeth *Rhufain*, eiſteddfod pa un a ſymmudwyd o *Rufain* yn nyddiau *Conſtantine* fawr, yn nechreu y bedwarydd canfed flynedd o oed ein Harglwydd, ac a oſodwyd yng *Nghonſtantinopl*; a'r Emrawdwyr eu hunain a ddaethant i fod yn Roegiaid; a'r bobl a gawſant fwynhâu eſmwythder y iau Rufeinaidd hyd y flwyddyn 1300 o oed Criſt ein Harglwydd, pan gododd 'ſtorom annifgwyladwy o'r dwyrain, yr hon fel cwmmwl bychan, yn ymddangos o bell fel cledr llaw gwr, ſydd ym mhen ychydig yn tannu ei hun tros wyneb yr holl nefoedd. Felly y Twrc, trwy ddechreuad bychan, wedi cael ei ddiyſtyru a'i watwar gan ei gymmydogion gweinion,

ion, a llawer mwy gan rym a gallu'r Emerawdwyr Groegaidd, a ddaeth yn ddiſymmwth, fel tro-wynt allan o'r dwyrain, ac a dannodd ei fyddinoedd fel locuſtiaid tros wyneb holl *Aſia*; ac yr awr hon ſydd yn ymborthi ac yn ymlawenhâu yn y rhannau mwyaf bras o *Europ* hefyd.——— Yr Emerodraeth hon, ſef eiddo'r Groegiaid, yr hon oedd yn cynnwys ardaloedd meithion difeſur, fel y mae hi gan y Twrc yr awr hon, oedd wedi dyfod tan enw y grefydd grift'nogol, ac yn ogoneddus, cyſtal am amlder ei haelodau ac am zel ei phroffeſwyr, y rhai a gawſant raſuſau addas i ddioddef iau ormeſol y Twrc, yr hon a adewodd yr Arglwydd iddo oſod ar eu gwarrau, am eu hanufudd-dod i gyfraith Criſt. Ac yr awr hon, fel y mae yr emerodraeth faith hon wedi ei cholli o ddwylo brenhinoedd crift'nogol y byd, angen yw i mi ſiarad am yr eglwys Groeg, fel rhifedi o bobl yn proffeſu crefydd Criſt, ac mewn pethau gwladaidd yn ufuddhâu i holl reolau'r Twrc; ond mewn pethau yſprydol yn ufuddhâu gyd â phob parodrwydd i lywodraeth a rheolau ag ſydd yn cael eu goſod iddynt gan y fath fugeiliaid ag a oſodwyd arnynt yn olynol, meddant, o'r apoſtolion i lawr hyd yma; ac nid oes i ni edrych ar yr eglwys hon fel tros un ardal, ond tros fwy o frenhiniaethau a theyrnaſoedd nag y bu eglwys *Rufain* erioed. Ac fe gafodd yr eglwys yma hefyd yr anrhydedd o'i dyſgu gan yr apoſtolion ſanctaidd eu hunain. *Paul* fu yn pregethu trwy lawer iawn o'r gwledydd hyn, megis *Maſedonia*, *Theſalonica*, *Athens*, *Corinth*, &c. &c. *Apolos* yn *Epheſus*, ac *Achaia*, † ac mor ogoneddus y derbynwyd

† *Maſedonia* yw ardal fawr iawn yn *Europ*, rhwng môr *Egea* a môr *Adriatic*; ac yma y mae tir y Groeg, ond oll ſydd yr awr hon tan lywodraeth y Twrc; yma

bynwyd athrawiaeth Criſt yn y rhannau hyn o'r byd, ag y chwanegodd rhifedi'r criſt'nogion cymmaint, fel y darfu iddynt, er mwyn gwell trefn, weled yn addas i roi'r eglwyſi hyn tan awdurdodau dynion neillduol. Felly St. *Paul* a oſododd *Dioniſius* yn *Athens*, *Ariſtarcus* yn *Theſalonica*, *Epaphroditus*

---

yma y mae trefydd *Theſalonica*, *Philippi*, *Berea*, *Apolonia*, a threfydd eraill, lle bu téithiau cyntaf yr apoſtolion yn *Europ*.—*Theſalonica* (a gyfenwir heddyw yn *Salonichi*) ſydd brif ddinas *Maſedonia*, ac yn gorwedd ar gangen o'r *Archipelago*, neu fôr *Egea* 260 milldir o *Gonſtantinopl*; yma y mae trigfa Archeſgob eglwys Groeg, a'r rhan fwyaf o'r dref ſy'n griſt'nogion.—-*Athens*, prif ddinas *Achaia* gynt, yr hon ſydd ardal o *Dwrci* yn *Europ*; yr hon ddinas ſy 'n gorwedd ar waſtadedd teg yn y môr *Egea*, y môr o un tu, a'r *Iliſus* o'r tu arall; yma y bu ffynnon doethineb holl *Aſia*; ond yr awr hon nid yw y dref ond pedair milldir o gwmpas, ac yn cynnwys o ddeutu deng mil (10,000) o bobl, heb feddu yr yſgolion ardderchog gynt; er fod y trigolion etto â llawer o farn ganddynt mewn prydyddiaeth: y drydydd ran o honi a dybir eu bod yn griſt'nogion; teml *Minerva* yn y caſtell ſydd etto'n gyfan, gwedi ei throi un waith yn eglwys griſt'nogol, ond yn awr yn deml fahomitanaidd, am yr hon y dywed trafaelwyr mai'r adeiladaeth hyfrydaf yw hi yn yr holl fyd.—-*Corinth* eilwaith ſydd o fewn 50 milldir i *Athens*, hithau yng nghilfach y môr, ym *Meloponeſus*, gwlad ag y mae'r môr bron ei hamgylchu, tan lywodraeth y Twrc; hon a fu yn enwog gynt, ond yn awr fel pentref yn aros mewn gwaſtad hyfryd, a'r môr o bób ochr iddi: Yma, ar fynydd *Onias*, yn agos iddi bu'r *Iſthmian* games (math o chwaryddiaethau fel ar fynydd *Olimpius*) lle mae ol tref, a themlau i'r haul, *Neptune*, *Diana*, *Pluto*, *Seres*, a *Bacchus*; trigolion *Corinth* ydynt etto gan fwyaf yn griſt'nogion; ac yma y mae trigfa Archeſgob Groeg; ond yn ddaroſtyngedig i'r Twrc.—*Philippi* yw hên dref ym *Maſedonia*, ar lan môr *Egea*; ac yma y curodd *Auguſtus Cæſar*, *Caſſius*, a *Brutus*.

roditus yn *Philippi*, *Titus* yng *Nghorinth*, *Timothi* yn ‡ *Epheſus*, a *Thitus* yn ynys *Creta*: Ac mor aml oedd Criſt'nogion ar hyd y gwledydd hyn y dyddiau hynny, fel yr oedd yr enw Groegwr a Chriſtion yn arwyddo yr un peth. Ond nid wyf yn cymmeryd arnaf i ddangos i chwi gyd â pha fath zel y dechreuodd yr eglwys hon tan ei thadmaethod, yr Emerawdwyr Groegaidd; ond fy nheſtun ſydd fwy galarus, ſef dangos gwir droad y temlau criſt'nogol, tafliad allan y gwir offeiriaid o'u heglwyſydd, a'r eglwyſydd hyn yn cael eu gwneuthur yn foſchau 'r Mahometaniaid, ſacramentau'r allor yn cael eu gweinidogaethu mewn tyllau tywyll yn fwy cyffelyb i ogfeydd, neu feddau tan y ddaear, nac i eglwyſydd, a'u cronglwyddydd ychydig neu ddim yn uwch nâ'r ddaear, rhag ofn i unrhyw adeilad têg gael ei gyhuddo fel nod o falchder a gorfoledd mewn crefydd; ac i ſefyll fel cymhariaeth â chlochduau uchel, a moſchau'r mahometanaidd. Ac nid un o'r rhyfeddodau lleiaf fod yr eglwys griſt'nogol yn para i fod trwy yr holl wledydd hynny, lle mae'r grefydd fahometanaidd yn ei grym a'i hawdurdod; a hwythau yn gorfod dioddef y gormes a'r dirmyg mwyaf gan y Tyrciaid; yn enwedig wrth yſtyried holl ddeniadau'r

‡ Dinas o *Jonia* yn *Aſia* leiaf, ardderchog iawn gynt, ac yn brif ddinas *Aſia*, pan ydoedd hi tan lywodraeth y Rhufeiniaid; yma yr oedd teml *Diana*, yr hon a loſgodd *Eroſtratus*, er mwyn cael iddo ei hun enw i bara byth; a hyn a ddigwyddodd yr un noſwaith ag y ganwyd *Alexander* fawr; hon gyd â'r holl ardaloedd a'r trefydd cymmydogaethol ſydd gan y Twrc; ac nid yw hi yr awr hon ond pentref bychan o deiau tlodion, creffitwyr, ffermwyr a bugeiliaid, a'r rhan fwyaf o'r tai o furiau pridd a chlotts; er fod yma lawer o garneddau a philerau yn dangos fod yno adeiladaeth godidog iawn gynt.

ddeniadau 'r byd ſydd yn cydbwyſo yr ochr arall, i arwain dynion i'r grefydd gyſeiliornus honno; rhyfedd fyddai gennych weled, gyd â pha faint o ffyddloneb, eondra, a ſymlrwydd y mae 'r bobl dlodion dywyll yn dal i fynu eu ffyrdd, fel mae'r holl gynnygion o ddyrchafiad bydol, a'r rhagorfreintiau a gaent trwy droi yn Dyrciaid, ynghyd â threfn ac arferiadau y wlad honno, ym mha un y maent yn byw, oll yn methu llygru y fath eneidiau gwirion, y rhai na's gallant roi un rheſwm rhagor tros eu crefydd, na'i bod hi yn athrawiaeth eu teidiau, a phroffes gyffredin y rhei'ny ag ſy'n arferyd yr un ſeremoniau, ac yn chwedleua yr un iaith Groeg â hwy. Ac ni's gellir yn iawn gyfrif hyn i'w dygiad i fynu; canys Tyrciaid ſydd yng nghymmyſg â'r Criſt'nogion, yn byw yn yr un heolydd, a than yr un gronglwyd; plant yn cael eu mheithrin ac yn chwarae gyd â'u gilydd, ac yn agos yr un arferion a moeſau, heb fawr o wahaniaeth mewn dim ond eu crefydd: a phlant y Tyrciaid ſydd yn fynych o natur yn fwy bywiog, ac yn dwyn yr awdurdod ar blant y Criſt'nogion; felly fel nad dygiad i fynu na dim arall yw ond llaw ddirgelaidd y nef. *Ap.* A oes un peth arall fel moddion i gynnal criſt'nogrwydd i fynu? *Eu.* Eu holl wyliau a'u haniſeroedd ympryd yw, ynghyd â'r parch mawr ſy' ganddynt i'w hathrawon; er eu bod yn rhwym mewn pethau gwladaidd i lywodraeth y Twrc, etto eu holl bethau yſprydol a derfynir yn unig gan eu Gweinidogion, eu Metropolitaniaid a'u Patriarchiaid: a'r parch hyn ag ſydd ganddynt i'r eglwys, ſydd yn eu rhoi hwynt i lynu yn bur glos wrth eu holl draddodiadau a'u ſeremoniau mwyaf a diſylwedd, heb oddef y cyfnewid lleiaf; er eu bod yn gwybod faithder anfuddiol eu gwaſanaeth, a llawer o wag arferion coelgrefyddol, a ſeremoniau a draddodwyd iddynt oddi wrth y cenhedloedd, y rhai ſydd yn awr wedi

eu

eu himpio i mewn, ac yn cyd-dyfu i fynu a'u crefydd hwynt: ac amryw arferion eraill o ba rai y mae cywilydd ar y bobl gall o'u plegyd, ac yn dymuno eu bod wedi eu cyfnewid; etto ofn ſydd arnynt eu gwella, na'u cyfnewid; ïe ofn ſydd arnynt gyfnewid yr hên ſtile i'r newydd, rhag i'r bobl ddal ſulw ar eu hathrawon i wahanu yn y lleiaf byngciau oddi wrth eu hên a'u canonaidd broffes, iddynt ddechreu drwg dybied y gwirionedd o'r cwbl; ac oddi wrth ddechreu ammeu gwrthddadlu eu hunain i ddifrawder, ac oddi yno i wrthgiliad hollol oddi wrth y ffydd.

Eu. Pa fath rydd-did y mae'r Twrc yn ei roi i'r eglwys hon?

Ap. Er fod y grefydd griſt'nogol tan gwmmwl yng ngwledydd y Twrc, etto caniatteir rhyddid llawn a chyhoedd i'w hymarferyd hi yn y rhan fwyaf o leoedd, a rhyw faint o barch ſy 'n cael ei roi i'r Offeiriaid hefyd gan y Mahometaniaid eu hunain, y rhai ſydd yn cyfrif anrhydedd yn ddyledus i bob dyn, o ba ryw broffes bynnag y b'ont, o's byddant wedi eu goſod heibio a'u cyſſegru at waſanaeth ſanctaidd. Canys y Tyrciaid ſydd yn cadw barn dda am y grefydd griſt'nogol, a chred fod Duw yn gwrando gweddiau'r criſt'nogion; am hynny mewn amſer o blâ cyffredin, neu gyſtudd, Patriarch y Groegiaid a Phatriarch yr Arminiaid a orchymynir i gaſglu eu pobl ynghyd i weddio am ſymmud ymaith y cyfryw farn. Y fraint hyn a ganiatâwyd gan y Tyrciaid i'r Criſt'nogion; canys wrth ennill yr emerodraeth ar y Groegiaid, barnaſant y byddai toleraſiwn o grefyddau i eſmwythâu daroſtyngiad hollol y bobl hynny.——Y baich mwyaf a oſodir arnynt gan y Twrc yw arian y pôl, lle mae pob un a gyrrhaeddodd i ugain oed yn talu *Lion-Dolar*, neu o ddeutu deunaw ſwllt bob blwyddyn, a ieuengctid

rhwng bymtheng mlwydd ac ugain hanner hynny; ond nid yw y gwragedd yn talu y dreth hon. ‡

Eu. Ond o's y'nt wrth dalu ond hynny o arian ni's rhaid iddynt achwyn llawer, lle y dywedir yn gyffredin bod y crift'nogion yn *Nhwrci* yn cael eu gorthrymmu hyd yr eithaf, ac yn cael gwneud caeth-weifion o honynt wrth ewyllys eu gelynion.

Ap. Ond deallwch am y rhydd-did a foniais, mai yn *Nhwrci* yn *Europ* y dioddefir ef, ond y crift'nogion yn *Afia* fydd yn gorwedd tan cymmaint cwmmwl, a chafineb oddi wrth y Mahometaniaid yno, ag y maent yn dioddef llawer iawn mwy nâ'r rhai yn *Europ* (ond yn unig ar lan y môr lle mae traffic wedi dyfgu iddynt weddeidd-dra) can's mahomitaniaeth a gafodd ei dechreuad yn *Afia*, ac a arferir i'r manolrwydd mwyaf yn y gwledydd dwyreinol hynny, lle y mae'r offeiriaid crift'nogol yn gorfod byw gyd â'r gofal mwyaf, gan gyflawni eu haddoliad mewn lleoedd anial a dirgel, gan ofni tymmer coel-grefyddol y Mahomitaniaid poethion hynny, y rhai fydd o yfpryd y Phariſeaid, a meddyliau mawrion am eu fancteiddrwydd eu hunain; mewn cydmariaeth â pha un y maent yn cyfrif Tyrciaid *Europ* yn broffefwyr rhydd ac efgeulus; wedi cael eu halogi trwy

‡ Ond bu gwaeth baich ar y Groegiaid nâ hyn, pan oedd y Twrc yn cymmeryd ymaith pob degfed plentyn gwrryw o eiddo'r Groegiaid, ar ol y rhifedi o honynt ym mhob plwyf, o ba rai yr oedd y milwyr goreu o eiddo'r Twrc, y rhai a elwid *Janifaries*; ond nid yw hyn yn cael ei arferyd er ys amryw flynyddau, naill ai am fod y Twrc am ofod iau efmwyth ar warrau'r Groegiaid, neu am fod cynnifer yn troi yn Fahomitaniaid, a chynnifer hefyd yn dyfod o wledydd eraill, fel nad oes angen wrthynt.

trwy yfed gwin, a'u haflanhâu ag ymarweddiad y criſt'nogion, at ba rai y maent yn dwyn y fath gaſineb, fel mae rhai o honynt yn barnu ei fod yn anghyfreithlon fod yn eu cwmp'ni, neu dderbyn rhoddion oddiwrthynt, neu roddi iddynt gyfarchiad heddwch; gan gyfrif eu gwiſgoedd eu hunain, o's byddant wedi cwrdd a gwiſgoedd y criſt'nogion, yn wiſgoedd halogedig, ag ſydd yn difwyno eu gweddiau. ¶

Eu.

¶ Ond nid y Twrc ei hun na Mahometaniaid *Aſia* yw unig orthrymwyr eglwys *Groeg*; ond hefyd offeiriaid eglwys *Rufain*, y rhai er na's gallant eu dwyn hwynt trofodd i'w ſectau eu hunain, a'u perſwadio i roi heibio ufudd-dod i'w Patriarch eu hunain, ac addef awdurdod a phendefigaeth Eſgob *Rhufain*; etto nid y'nt fyth yn rhoi heibio yr achoſion hynny ag ſydd yn eu dwyn hwynt tan wialen y Twrc, a'u goſod mewn traul a choſt gwaſtadol ac anorphen; gan obeithio trwy ormeſu a blino'r bobl, a'u dodi allan o un tybygoliaeth o gael nodded tan amddiffyniad eu llywodraethwyr eu hunain, delont o'r diwedd i gael eu harwain i gofleidio Eſgob *Rhufain*. Heblaw y dichellion hyn, yr offeiriaid pabaidd ſy'n nyddu eu hunain i mewn i bob lle ag y mae 'r Groegiaid yn cyfanneddu, gan geiſio eu harwain hwynt i mewn trwy bregethu, yn gyſtal ag yſgrifennu. Ond Patriarchiaid ac Offeiriaid eglwys *Groeg* ſy'n gwahardd darllain y rhai hyn, tan boen yſgymmundod; ac fe loſgwyd rhai o rhai 'n ryw amſer a aeth heibio, rhag iddynt wneud drwg i'r bobl dywyll ac anwybodus; ond y fantais ſydd gan Offeiriaid *Rhufain* ar Offeiriaid eglwys *Groeg* yno, yw y fantais ſydd gan gyfoeth ar dlodi, neu ddyſg ar anwybodaeth; canys yr holl *Goledge* yn *Athens* ſydd wedi adfeilio, a holl dir *Groeg*, lle bu yſgolion hynod yn y dydddiau gynt, ſydd yr awr hon yn dlawd ac yn anllythrennog, fel y mae'r holl rai ag ſydd am ddyſgu'r celfyddydau yn gorfod myned trofodd i'r *Idal*, lle maent yn ſugno o'r un ffynnon, ac yn bwyta bara o'r un ſurdoes ag eg-

Eu. Rhowch ychydig hanes am y Patriarchiaid, yr Archeſgobion a'r Offeiriaid yn yr eglwys hon; eu graddau, eu hawdurdodau, maithder eu llywodraeth a'u hyſgobaethau, eu cyflogau neu eu *ſalaries*; pa fodd y maent yn dyfod iddynt, pan yn ddiau nad y'nt yn cael degymmau tan lywodraeth y Twrc.

Ap. Ar ol i eglwys Groeg ddyfod yn fawr ac yn ogoneddus yn y rhan ddwyreinol o'r byd, ei holl lywodraeth hi a ranwyd ac a ddaroſtyngwyd tan bedwar Patriarch; y cyntaf ac o'r awdurdod hynaf yw Patriarch *Alexandria*, yr hwn a eſtynodd ei lywodraeth tros yr *Aipht*, *Arabia*, *Ethiopia*, a'r *India*;* yr ail yw Patriarch *Jeruſalem*, tan ba un nid oes ond *Paleſtina*, neu wlad *Canaan* yn unig; y trydydd yw Patriarch *Antioch*, yr hwn ſy'n dal *Ciliſia*, *Meſapotamia*, *Syria*, *Pheniſia*, ‡ a chynt ynys *Siprus*; a'r pedwarydd yw Patriarch *Conſtantinopl*, yr hwn er ei fod mewn trefn yn olaf, etto anrhydeddwyd gan yr Emerawdwr criſt'nogol cyntaf, *Conſtantine* fawr, yn uchel iawn; yr hwn am fod ei eiſteddfod freiniol yng *Nghonſtantinopl*, ac am fod gan y Patriarch hwn lywodraeth mwy helaeth na neb eraill o'r Patriarchiaid, yn cyrrhaedd tros holl *Iliricwm*, *Epirus*, *Peloponeſus*, *Achaia*,

---

lwys *Rufain*, mae yn naturiol iddynt gyd-ſynio â'r un egwyddorion.

* Y gwledydd hyn yn *Affrica* ac *Aſia* a ddeſgrifwyd o'r blaen am eu mhaint a'u trigolion; ond deallwch, er mai'r grefydd fahomitanaidd yw y grefydd ſefydledig; bod yma dorfeydd aneirif o Iuddewon, a thorf arall ſydd gymmaint, neu ragor o griſt'nogion ag ſydd yn cymmeryd arnynt gadw eu crefydd yn bur, o'r Apoſtolion hyd yma, er nad oes ganddynt mewn gwirionedd ond y ffurf, a honno yn bur ſalw.

‡ *Ciliſia*, *Meſapotamia*, *Syria*, *Pheniſia* ydynt oll wledydd cymmydogaethol i wlad *Canaan*, ac ar y gwledydd hyn

aia ac ynyſoedd yr *Archipelago*;† hefyd yn *Aſia* tros *Bithinia*, *Capadoſia*, *Miſia*, a'r ſaith Eglwys yn *Aſia* leiaf; ſe welodd Cownſil *Calſedon* yn addas ei anrhydeddu ef, ac ufuddhâu iddo fel y Patriarchate pennaf; yr hwn er hynny, na fedd ddim awdurdod yn eſgobeithau 'r lleill o'r Patriarchiaid, y rhai ſydd bob un yn ben, ac yn awdurdodi yn eu heſgobeithau neillduol eu hunain.

Eu. Trwy bwy y mae'r Patriarch anrhydeddus hwn yn llywodraethu y fath wledydd mawrion ag ſydd tan ei ofal?

Ap. Trwy Archeſgobion, Eſgobion ac Offeiriaid; canys nid llai na 13 o Archeſgobion ym mhob ardal ſydd tano; a'r Archeſgobion hyn ag Eſgobion eraill tanynt tros 48; megis mae gan Archeſgob *Theſalonica* wyth Eſgob tano; a chan un o'r wyth Eſgob hyn 150 o eglwyſydd tan ei

---

hyn y tywynodd yr efengyl gyntaf, ond yn awr nid oes yma ond y grefydd fahomitanaidd ar awdurdod gan y Twrc; ond etto goddefir ganddo rydd-did y criſt'nogion yma, fel gwledydd eraill, wrth dalu llawer o arian.

† *Iliricwm*, *Epirus*, *Peloponeſus* ac *Achaia* ydynt wledydd mawrion yn nhir *Groeg* gynt, ond yn awr *Twrci* yn *Europ*; ac yma y planwyd amryw eglwyſydd gynt; ac er mai y grefydd fahomitanaidd ſydd yma, etto y mae gwerin fawr ar hyd y gwledydd meithion hyn, o rai tan enw Eglwys *Groeg*; a gwelodd y Twrc yn well iddo eu dioddef i rydd-did eu crefydd eu hunain, na'u cymhell o'u hanfodd i droi yn Fahomitaniaid.—Eilwaith *Bithinia*, *Capadoſia*, *Miſia* a ſaith Eglwys *Aſia* leiaf ydynt wledydd a threfydd yn *Nhwrci*, yn *Aſia*, rhwng y môr du a'r môr canol-dir, a'r *Archipelago*: Nid yw'r gwledydd na'r trefydd hyn yn awr ddim yn y fath gyfoeth, dyſg, enw a gogoniant ag a fuont, ac am eu mhaint a'u ſefyllfaodd, edrychwch yn Map y Bibl, c eir yno weled yr holl wledydd uchod yn *Nhwrci* yn *Europ*, a *Thwrci* yn *Aſia*.

ofal; a chan Archeſgob *Athens* 4 Eſgob tano, a chan Archeſgob *Lariſſa* ddeg o Eſgobion tano; a rhai'n, ac amrywiol eglwyſydd tanynt hwythau. Ac y mae gan y Patriarch mawr hwn, heblaw yr archeſgobaethau uchod, o ddeutu tri ugain o eſgobaethau yn perthyn iddo ei hun yn fwy digyfrwng, megis eſgobaethau *Niſea*, *Seſarea*, *Calſedon*, *Epheſus*, *Philippi*, *Thebes*, *Smyrna*, *Mitilene*, *Iconium*, *Corinth*, a'r cyfryw: dwy eſgobaeth yn *Nhartari*, a dwy yn agos i *Adrianopl*, ac amrywiol o ddeutu *Conſtantinopl*, ac ar hyd holl *Dwrci*, yn *Europ*, ac *Aſia* gynnifer ag ſydd yn gwneud i fynu y rhifedi uchod. Ond y mae Archeſgob *Epicion* yn *Serfia*, ag 16 o Eſgobion tano; ac Archeſgob *Ocrida* â 18, ac nad y'nt tan Batriarch *Conſtantinopl*, yr hwn ſydd ym mhob man trwy *Aſia* ac *Europ*, ac nid llai na 121 o eſgobaethau ac archeſgobaethau ſydd tan ei awdurdod.

Eu. Pa fodd a chan bwy y mae Patriarch *Conſtantinopl* yn cael ei ddewis, gan y *Grandſenior* neu gan yr Eſgobion?

Ap. Gan yr Eſgobion; a phan b'o rhai'n yn anghyttuno gan yr ochr amlaf; ond ar ol hynny yn cael ei gadarhâu a'i gonffirmo gan y *Grandſenior*, o flaen pa un ar ol ei ddewiſiad, y mae ef yn preſentio ei hun gydâ phob goſtyngeiddrwydd; ac y mae'r *Grandſenior* ar ol arfer yr Emerawdwyr Groegaidd yn preſentio iddo farch gwyn, clogyn du, ffon fugeilaidd, a gwiſg yn llawn lluniau, ac wedi neidio ar ei farch, a chwmpeini o'i offeiriaid ar ei ol, ac amryw foneddigion o'r Groegiaid, a rhifedi mawr o ſwyddogion y Tyrciaid; fe ddychwel gyd ag ardderchawgrwydd mawr yn ol i'w eiſteddfod batriarchaidd, wrth borth pa un y bydd yn cael ei gyfarfod a'i dderbyn yn roeſawus gan ei eſgobion ac eraill, a chanhwyllau cwyr yn flammio yn eu dwylo; a chan y rhai'n y bydd yn cael ei arwain i'r eglwys, ac yno o flaen yr allor y cyſſegrir ef gan Archeſgob *Heraclia*, yr hwn wedi

wedi ei wiſgo yn ei holl wiſgoedd ſanctaidd, a gymmer y Patriarch yn ei law, ac a'i goſod i eiſtedd yn y gadair batriarchaidd, ac a oſod y mitr ar ei ben, a'r croſier a rydd eſe yn ei law; ac yna cenir y gwaſanaeth, ac y diwedda'r ſeremoniau. § Ond y tri Patriarch arall y'nt bell o lys yr Emerawdwr,

---

§ Yr ymrafael ſydd arfer o fod rhwng yr Offeiriaid Groegaidd, am ſod yn Batriarch yng *Nghonſtantinopl*, a greodd lawer o afionyddwch yn yr Eglwys hon; canys y fath ag y mae awydd a chybydd-dod yn ei annog, a dymuniad i ddyrchafiad eglwyſig; hyn, a chanddynt ryw faint o gyfoeth o'u heiddo eu hunain, ac enw i fenthycca y rhan arall ar log; nid y'nt fyth braidd yn methu y gamp ag y maent yn chwennych; canys y mae rhoddion mor awdurdodol gan y *Grandſenior*, a ſwyddogion eraill y Tyrciaid, fel y derbyniant yr achwyn lleiaf a oſodir yn erbyn yr hwn a f'o yn breſennol yn yr eiſteddfod batriarchaidd, trwy ba achos y mae'r Patriarch yn fynych yn cael ei newid, a dyled yr eglwys yn cynhyddu, a'r dewiſiad yn hytrach yn llaw'r Tyrciaid na'r Eſgobion, un ochr yn cael eu harwain gan wobrwyau, a'r llall trwy eu hymrafaelion, fel y mae dyled yr eglwys yn fynych tros gan mil o bynnau o rent; pa ſwm ſydd beunydd yn cynhyddu, trwy grib deilwriaeth y ſwyddogion tyrcaidd, y rhai ſydd yn rhoi menthyg yr arian; a hyn yw yr achos fod y Patriarch yn fynych yn gwiſgo yr Archeſgobion a'r Eſgobion i *Gonſtantinopl*, i gyttuno ar ryw ffordd i leihâu y cyfryw faich annioddefol ag ſydd ar yr eglwys; taliad o ba un ſydd achos yn fynych o ofyniad newydd; canys pan gwelo'r Tyrciaid y ffynnon hon yn fwy gloyw, ac yn llifo allan yn fwy nag o'r blaen, ſychedant ragor am yfed o honi.——Yn y dyddiau gynt nid oedd yr eglwys yn talu dim mwy i'r *Grandſenior* wrth wneud Patriarch na deng mil o goronau; ond y rhifedi aneirif o *Bretenders* i'r ſwydd a gododd y pris i bum mil ar hugain; a chynt yr oedd trefn gwneuthur Patriarch fel y dywedpwyd uchod, ond yr ymrafaelion hyn ſydd wedi dwyn i mewn

Emerawdwr, ac oddi wrth lygad drwg cybyddlyd y Tyrciaid, ac am hynny yn cael eu dewis yn ſwy rhydd, trwy unig ddewiſiad yr Eſgobion, y rhai ſydd a pharch ganddynt i ddaioni a chynnydd yr eglwys, am hynny gan mwyaf yn dewis y rhai mwyaf hynod mewn dyſg a duwioldeb. Patriarch *Conſtantinopl*, heblaw helaethrwydd ei batriarchaeth, ſydd fwyaf ei awdurdod am ei fod yn agoſaf i'r llys; ond Patriarch *Alexandria* ſydd fwyaf cryf ac awdurdodol yn ei geryddon eglwyſig, gan roi'r titl iddo ei hun, *Barnwr y byd*; ond Patriarchiaid *Antiocia* a *Jeruſalem*, o ran eu tlodi, heb fod ganddynt ddigonedd at eu cynhaliaeth, ſydd heb fawr o barch iddynt gan y Tyrciaid, na'u pobl eu hunain.

Eu. O ba le y mae cyflog y Patriarchiaid, yr Eſgobion a'r Offeiriaid yn dyfod?

Ap. Patriarch *Conſtantinopl* ag oedd mor fawr a chyfoethog tan yr Emerawdwyr criſt'nogol, ſydd yn awr wedi ei ddychwelyd i gyfoeth llawer llai, am iddynt ddwyn oddi wrtho ei holl feddiannau ſefydledig, trwy ormes y Twrc, fel nad yw ei incwm pennaf ef heddyw ond damweiniol, yn tarddu oddi wrth farwolaeth Eſgobion, Archeſgobion, ac Offeiriaid cyffredin; ac hefyd oddi wrth y rhai a gyſſegrir ac a dderbynir i'w heſgobaethau

---

i mewn y fath derfyſg a diyſtyrwch i'r ſwydd, fel na adewid lle i anrhydedd, na pharch; fel y mae'r Patriarch yn eſgyn i'w orſedd, ac yn cymmeryd gafael ar y mitr a'r croſier gydâ chyn lleied ſeremoni ag y mae offeiriad cyffredin yn cymmeryd perchennogaeth o'i *living*: ac hefyd, ni's gall na Phatriarch, Archeſgob, Eſgob na Phenmonachlog reoli yn ei Eſgobaeth, nac yn ei Fonachlog, heb gomiſiwn yſgrifenedig o tan law y *Grandſenior*, yr hwn gomiſiwn a alwant arno Baratz. Felly y mae'r *Grandſenior* yn fwy o ben ar Eglwys *Groeg*, trwy ei holl amrywiol deyrnaſoedd, nâ neb arall.

‡ Dywedant

aethau neu i'w heglwyſydd; canys pa feddiannau bynnag a feddo Offeiriad gweddw wrth farw, ſydd oll yn eiddo'r Patriarch, fel Tad ac Etifedd o'r cwbl; oddi wrth ba reol y mae llawer iawn yn dyfod i'r Patriarch. Ond y lleill o'r Patriarchiaid, o ran tlodi ac anamldra'r Criſt'nogion, ſydd wedi gofalu am danynt yn llai; etto, o ran eu bod mor belled oddiwrth y llys, nid rhaid iddynt wrth gymmaint angenrheidiau i'w digoni. Bywioliaeth yr Offeiriaid cyffredin ſydd oddi wrth eluſen y bobl, ond am eu bod yn oer yn hynny, fel yn y lleill o'u defoſiynau, nid y'nt yn taflu nemawr ar ddydd y caſgliad, fel y mae'n gorfod ar yr Offeiriaid werthu ordinhadau'r eglwys er eu cynhaliaeth: Ni roddir gollyngdod i neb, ni's derbynier neb i gyfaddefiad, ni roddir bedydd i'w plant, ac ni's cant briodi, neu roi llythyr yſgar i'w gwragedd, neu gael yſgymmundod yn erbyn arall, neu gymmun i'r clâf, heb gyttuno ymlaen llaw am y pris â'r Offeiriad.

Eu. Mynegwch bellach athrawiaethau, ſeremoniau, traddodiadau a diſgyblaethau yr Eglwys hon.

Ap. Deallwch mai Criſt'nogion ydynt; ac yn ganlynol, y maent yn darllain ac yn credu yr hên Deſtament a'r newydd; ac y mae eu credo yr un â chredo yr Apoſtolion gyd â ni, neu'r gredo ag ſydd yn cael ei hadrodd yng ngwaſanaeth y cymmun; ond er holl athrawiaethau gwerthfawr y Teſtament newydd, crefydd ſydd yno mor farw a ffurfiol, ag y mae ei bywyd hi wedi ei lwyr golli; am hynny, nid yw crefydd Eglwys *Groeg* gymmaint yn gynhwyſedig mewn athrawiaethau 'r ffydd, pregethu, canu mawl, a derbyniad yr Yſpryd Glân, ag yw hi mewn ſeremoniau, gwyliau, ymprydiau, dyledſwydd at eu Hoffeiriaid, Eſgobion, Archeſgobion, a'u Patriarchiaid; am hynny gellir caſglu holl credo ymarferol yr eglwys hon yn y naw Erthygl ganlynol: (1) Gweddi, hynny yw

bod

bod yn breſennol yng ngwaſanaeth yr eglwys foreu a hwyr, ar ddydd yr Arglwydd, a dyddiau gwyliau. (2.) Manwl gadw dyddiau gwyliau, ac ymprydiau'r eglwys. (3.) Ufudd-dod ac anrhydedd i'w bugeiliaid a'u dyſgawdwyr yſprydol. (4.) Cyfaddefiad pechodau bedair gwaith yn y flwyddyn i Offeiriad wedi ei ordeinio'n gyfreithlon. (5.) Sydd yn gwahardd y bobl gyffredin i ddarllain llyfrau hereticiaid, neu neb llyfrau eraill ag y tynno hwynt oddiwrth broffes y ffydd griſt'nogol. (6.) Sy'n eu rhwymo hwynt i weddio tros Frenhinoedd, Tywyſogion, a thros eu Patriarchiaid, Archeſgobion, Metropolitaniaid, Eſgobion, a'r holl Offeiriaid, a thros yr holl eneidiau a ymadawſant yn y ffydd gatholic, a thros yr holl hereticiaid, a'r ſismaticiaid, fel y dychwelont i'r wir ffydd cyn eu hymadewiad o'r byd preſennol. (7.) Sy'n rhwymo i gadw heblaw yr ympryd cyffredin, bob ympryd anghynnefin a baro yr Eſgob i'w cadw yn achos rhyfel, clefyd, plâ, newyn, a'r cyffelyb. (8.) Sy'n gwahardd y bobl i gymmeryd yn eiddo iddynt eu hunain eiddo yr Offeiriaid, dim o'u helw, neu'r pethau yſbrydol hynny ar ba rai y maent yn byw, neu droi addurnau yr Offeiriaid, neu yr allor at ddefnydd cyffredin a neillduol, neu gyſſegr; 'ſpeilio blwch y tlawd, a difuddio caſgliadau cariad y Criſt'nogion yn groes i feddwl y rhoddwr. (9.) Sy'n gwahardd priodi yn y grawys, neu ar un o'u hamſeroedd ympryd eraill, neu fyned i un chwareu-dŷ, neu ddilin arferion y Barbariaid: felly fel na b'o proffeſwyr yr efengyl i gael eu cyhuddo o ddim a f'on gnawdol, yn anghymmwys, nac o air drwg.

Eu. Pa fath a pha, mor fynych y mae eu hymprydiau?

Ap. Mae ganthynt bedwar pen grawys, neu ympryd yn y flwyddyn. Y cyntaf ſy'n dechreu y 5 o Dachwedd 40 niwrnod cyn Nadolig. Yr

ail

ail yw'r grawys mawr o flaen y Paſg, yn dechreu yr un pryd a chyd â ni ar ol yr hên ſtile; yr hon ſtile y maent hwy yn ei chadw trwy'r flwyddyn. Y trydydd ſy'n dechreu yr wythnos cyn y Sulgwyn, a hon a elwir ympryd yr holl Apoſtolion, gan ei bod hi yr amſer, ar ol eu barn hwy, y darfu i'r Apoſtolion weddio ac ymprydio, pan oeddent yn parottoi eu hunain i bregethu yr Efengyl, Act. xiii. 3. Y bedwarydd ſydd yn dechreu y cyntaf o Awſt, ac yn para pymtheng niwrnod fel rhag-barottoad i'r Wyl fawr, yr hon y maent hwy yn gadw o anrhydedd i ddyrchafiad *Mair* y Forwyn, yr hon a ddywedant ei chymmeryd i fynu i'r nef yn gorphorol. Ac heblaw y 4 pen Grawys mawr hyn, y mae ganddynt ymprydiau eraill, megis yr 28 o Awſt, mewn coffadwriaeth torri pen *Ioan* Fedyddiwr; ac y mae ganddynt Rawys ym mis Medi, tros bedwar diwrnod ar ddeg, fel rhag-barottoad i wyl y Groes ſanctaidd; ac yn y Grawys hyn y maent yn pregethu dioddefaint ein Harglwydd; ond nid oes neb yn cadw hwn ond Swyddogion eglwyſig, a rhai ſydd mewn monachlogydd, proffes pa rai yw marwhâd i'r cnawd, a phob pleſſer.

Eu. Pa mor belled y maent yn attal oddiwrth fwydydd yn yr ymprydiau neu'r grawyſau hyn?

Ap. Oddi wrth gig yn hollol; ac hefyd pob llaeth, megis caws, ymenyn, a'r cyffelyb; ac oddiwrth bob pyſgod ag ſydd yn berchen gwaed, eſgyll, neu ên; ond gallant fwyta pyſgod ſydd â chregyn arnynt, megis lobſters, crabs, oyſters, cocs, a'r cyfryw; ond etto, gwybyddwch, y gallant ar y grawys cyn Nadolig, fwyta pob math o byſgod; ac fel y maent yn cyfrif y mercherau a'r gwenerau yn ddyddiau ympryd trwy'r flwyddyn, etto gallant fwyta pob math o byſgod, ond nid un cig arall, na dim ag a ddelo oddiwrtho; ond etto y mae ganddynt wythnoſau a rhai dyddiau, ym mha rai y maent yn bwyta cig, ac amſerau

eraill

eraill y maent yn peidio, ag ſydd yn rhy faith i'w henwi.

Eu. Parod wyf i gredu nad yw yr ymprydiau ond enw gan y bobl, ac nad y'nt yn cadw 'mo honynt mwy nâ ninnau yn eglwys *Loegr* yn cadw grawys, lle nad oes un ym mhlith deng mil yng *Nghymru* yn deall beth yw grawys, nac at bwy achos y rhoddwyd ef.

App. Yr ymprydiau hyn ſydd yn cael eu cadw mor fanol, ac yn cael eu dwyn, nid gyd â llai o amynedd a ſobrwydd nag o goel-grefydd, gan dybied, nad yw e'n llai o bechod i droſeddu yn ewyllyſgar un o'r ymprydiau hyn, a phutteinio, neu ddwyn meddiannau ein cymmydog. Dygiad i fynu, ac arfer, a'u dygodd hwynt gymmaint i fynu tan yr opiniwn o ymprydio, fel mai prin y maent yn credu y gall criſt'nogrwydd gael ei phroffeſu, a ſefyll i fynu hebddi: Ar y ſail hyn, fyth ni's gallant gredu fod y Saeſon, ac eraill o'r eglwyſi proteſtanaidd, yn Griſt'nogion union-gred, am nad y'nt yn ymprydio, nac yn arferyd arwydd y groes; dau beth o waradwydd mawr iawn gyd â hwy. Mor fanol a chreulon y mae eilun-addolgar am y dyddiau ympryd hyn, fel y maent yn dal nad oes un achos o angenrheid-rwydd a all roi caniattâd oddi wrtho; ac nad oes le gan y Patriarch ei hun genhadu bwyta cig, lle y mae'r Eglwys gwedi gorchymyn gwaharddiad. ——Canys, dywedant, pe b'ai ddyn yn glâf i farwolaeth, yr hwn trwy fwyta ŵy, neu yfed cawl o ryw gig a allai fywioccâu, Mai gwell fyddai iddo farw nâ bwyta a phechu, ond fe allai y bydd yr Offeiriad, yr hwn yw'r Tad-cyfaddefwr, â'r fath doſturi at y claf, ag y cynghora ef iddo fwyta cig, ac wedi hynny cyfaddef y pechod, ac yna addo caniattâu maddeuant iddo.

Eu. Mae eu hymprydiau yn bur annodd i'w dioddef.

App. Ond creulondeb eu grawyſau ydys yn

ſwy

ſwy eſmwyth yn ei ddal i ſynu tanynt, trwy y mwynhad ag y maent yn ei ddiſgwyl yn y gwyliau neu y gwleddoedd canlynol, ym mha amſer y maent yn rhedeg i'r fath anghymmedrolder o ddigrifwch, ac afreolaeth ag ſy'n gyttunol â thymmer wag, yſgafn y bobl hynny, fel pe baent am ymddial ar eu ſobrwydd diweddar, ac i wneud iawn â'r diawl am eu cymmedrolder o'r blaen; a'r afradlonrwydd hyn o lawenydd, a gloddeſt y maent yn ei arferyd gydâ chymmaint o rydd-did ag nad yw eu hoffeiriaid yn eu ceryddu hwynt am dano, ond gan ddal yn hytrach nad yw meddwdod yn bechod ar ddydd gwyl gan ei fod yn goffadwriaeth llawen o ſanctteiddrwydd y ſaint, neu'n dyſtiolaeth o lawenydd mewn côf am weithredoedd prynedigaeth dyn, ond hyn ſydd o anfoeſoldeb y bobl, ac nid un o ddaliadau yr eglwys yw.

Eu. Dywedwch ychydig am eu gwyliau.

Ap. Mae ganthynt amrywiol o wyliau y rhai maent oll yn ei gadw gyd ag eithaf llawenydd, a digrifwch, ac nid llai na 54 ſydd o wyliau, ag ſydd raid i bawb eu cadw; ond y fath rifedi ſydd i'r offeiriaid, a'r Monachod i'w cadw, fel nad oes un diwrnod o'r flwyddyn nad oes rhyw ſaint wedi ei enwi arno, ac weithiau bydd dau ſaint yn yr un dydd: ond y mwyaf un o'u holl wyliau yw gwyl y paſg, ymha amſer y mae gan y Groegiaid yr arfer hyn i gyfarch eu gilydd â'r gair hwn, *Criſt a gyfododd*; a'r llall a atteb, *Ef a gyfododd yn wir*: Cuſanant dair gwaith, un cuſan ar bob grudd, a'r llall â'r genau. Mae'r Groegiaid yn ymhyfrydu mewn yſtoriau, am eu ſeintiau, ac yn eu hadrodd gyd ag amrywioldeb o ddychymygion, fel eglwys Rufain: ond ni ddywedaf ddim am danynt, canys y mae hanes amrywiol o honynt yn yr yſgrythur; ond mi a gaf ddal ſylw ar *Coſma*, a *Damianus*, a *St. George* o *Cappadocia*, y rhai ydynt berſonau neſaf at apoſ-

tolion, a diſgyblion ein Harglwydd, gydâ rhai teidau yr eglwys megis *St. Bazil*, a *St. Criſoſtom*, &c. ag ſydd yn cymmeryd y lle mwyaf yn eu calender hwy. Y ddau gyntaf hyn, ſef, *Coſma*, a *Damianus*, a ddywedant iddynt roi eu hunain i aſtudio phyſigwriaeth, a darfu iddynt ddyfod trwy awdurdod y nef yn cydweithio gyd â'u harferiadau o lyſiau i wella pob afiechyd ar ddyn, ac anifail, heb arian, nac un taliad, am ba achos y gelwid hwynt *Anagiri*, neu rai heb dderbyn arian. Dywedant hefyd fod *Damianus* mor fanol yn y pwngc hwn, fel yr ymneillduodd ef yn fawr oddiwrth ei frawd *Coſma*, o ran yn unig iddo dderbyn dau wy gan weddw dlawd, er iddynt gael eu harferyd at ei gwaſanaeth hi ei hun mewn ennaint at y *Sciatica*; iddo byth mwy beidio cymdeithaſu ag ef, ac iddo orchymyn wrth farw, na ch'ai ei frawd ddim ei gladdu yn yr un bedd ag ef, yr hyn a feddyliodd cyfeillion y ddau i'w wneuthur, ond wrth ddwyn corph *Coſma* i'w gladdu, hwy a gyfarfuaſant â chamel, yr hwn agorodd ei ſafn, ac a gynghorodd ddodi y ddau frawd yn yr un bedd, am fod eu heneidiau yn yr un nefoedd. Yr offeiriaid hefyd ſydd yn boſtio am wyrthiau y brodyr hyn, gan ddweud fod yn *Athens* ffynnon wrth borth yr eglwys, gwedi ei chyſſegru iddynt yr hon ſydd yn ſych trwy'r flwyddyn ond ar ddydd eu gwyl hwynt; ac yna yn y boreu yn dechreu llifo o ddwfr hyfryd, ag ſydd nid yn unig yn felus, ond hefyd yn fuddiol i iachau ar eiriau cyntaf y maſs, ond yn y prydnhawn eilwaith yn ſychu i fynu. Felly hefyd *St. George* o *Cappadoſia* anrhydeddir yn fawr iawn gan y bobl hyn, nid oes braidd dre ymha un y mae dwy eglwys, nad oes un o honynt wedi ei chyſſegru i'r ſaint hwn, am ba un y maent yn adrodd amrywiol o 'ſtoriau; a'r hyn ſydd fwyaf rhyfedd, y maent yn eu credi hwynt oll.

Eu

Eu. Ond enwch rai o'u ſeintiau eraill ?
Ap. Dywedais eiſoes eu bod yn 54 o ſeintiau, ac y

---

‡ Dywedant iddo gael ei eni o waed godidog, a'i fod yn byw yn amſer *Diocleſian*, yr Emerawdwr, tan ba un pan gododd erlid gwaedlyd, y Saint hwn a ſafodd i fynu yn galonnog, gan breſentio ei hun ymlaen yn con, ac addef yr efengyl yr unig gadwedigol wir ffydd, gan ſennu a diyſtyru eilun-addoliad, a'r holl arferion cenhedlig: Ei zêl ef a flaen-llymmodd arfau ei elynion i'w erbyn, fel y darfu i un ei drywanu ef yn ei fol â gwaywffon, yr hyn er i lawer o waed i redeg, etto y clwyf a gaeodd i fynu, ac a iachaodd. Dywedant iddo gael ei daflu i odyn galch, ac iddo rodio yn droednoeth ar eſtyllod a phigau heiyrn, a'i fod mewn fflammiau heb ei gwrddid, ac heb ei ddifa; iddo gyfodi y meirw, a lladd draig ar lan afon *Euphrates*, yr hyn le y maent yn ddangos i drafaelwyr hyd y dydd heddyw; trwy ba amrywiol wyrthiau y cafodd llawer eu troi i'r wir ffydd, ac ymlith eraill yr oedd brenhines *Alecſandria*, gwraig *Diocleſian*, yr Emerawdwr. Ond pan ddaeth amſer y Saint hwn i farw, ei ben a dorrwyd ymaith, a'i enaid a eſgynnodd i'r nef i dderbyn coron merthyrdod. Ymhlith amryw gapeli, ac eglwyſydd, mae capel bychan wedi ei gyſſegru iddo mewn lle elwid *Boſchioi*, lle y maent yn dwyn oddiamgylch ei bictwr mewn *proceſſiwn*, fel gan eglwys *Rufain*, lle mae torf o dyrciaid gyſtal â chriſtnogion yn dyfod; y fath gyntaf er mwyn digrifwch, a'r ail er mwyn cwmp'ni, llawenydd, ac addoliad. Y pictwr yma, yr hwn ſydd wedi ei dynnu ar aſtyllen, mewn lliwiau, ddeutu'r un faintioli ag arwydd wrth dafarn, ac o'r un fath o baintiad; y pictwr hwn (fel y maent hwy'n rhoi allan, a llawer ſydd yn credu hynny, yn enwedig y benywod) o's bydd yn cael ei ddwyn gan bechadur hynod, ſydd yn cael ei feddiannu a chymmaint o wroldeb, ac yſbryd y Saint ei hun, ag y cur ef gefn ac yſgwyddau yr hwn fyddo yn ei ddwyn ef, ond ſydd yn fwy mwyn, a thirion i rai o fywyd prydferth, a diniwed: a chymmaint o gred ſydd gan y werinos i hyn, fel nad oes neb a'i perſwadia nad yw y pictyrau hyn-

mae pawb o'r bobl yn rhwym i'w cadw, ond bod y calender mor llawn ag nad oes braidd le i ddodi un rhagor fel mae eiſoes ddau neu dri ſaint am yr un diwarnod yn fynych; ond etto nid yw y cyffredin bobl yn rhwym i gadw ond y pymtheg a deugain y rhai ſydd ry faith i'w henwi, ond mai rhan fawr iawn o honynt yw ſeintiau yr hen deſtament a'r newydd, megis nad oes braidd na phrophwyd na neb arall yn yr hen teſtament, nad yw yn y calender, nag apoſtol na neb arall ag ſydd yn hynod yn y teſtament newydd nad yw hefyd yma, a llawer iawn ſydd yma o ddiwrnodau gwyl i Mair ac yn enwedig i'n Harglwydd ei hun, megis i'w enedigaeth, i'w enwaediad, i'w ddyrchafiad, a'r cyfryw. Gwyliau ſydd yma i *St. Demetrio*, *Coſma*, *Damianus*, i'r holl *angylion*, *St. Criſoſtom*, *St. Philip*, *St. Martin*; *St. Ambroſius*, *St. Ioan Damacenas*, ac i amrywiol o ſanteſſau megis *St. Catharine*, ac eraill.

Eu. Wedi i ni glywed am orchymynion yr eglwys, y rhai ſydd ganddi fel credo, neu gyffes o'i ffydd; d'wedwch ryw ychydig am ei ſacramentau hi? *Ap.*

---

yn fyw, yn curo yn ddidrugaredd y rhai a f'o yn eu dwyn hwynt: yr Eſgobion hefyd, a'r offeiriaid y rhai ſydd yno yn breſennol fydd yn gyflawn foddlon fod y cyffredin bobl yn credu hyn, er nad yn't hwy yn ei hollol gredu eu hunain, a hyn ſydd yn gwaradwyddo llawer ar grefydd Criſt ymhlith y Tyrciaid; canys y fath waeddi, a chwerthyn, rhedeg, a ſtwr ſydd yn y proceſſiwn hwn a phe byddid yn baito tarw, neu hela arth. Ond yr eſgus ſydd gan weinidogion yr eglwys i roi troſtynt eu hunain yw, bod yn beryglus i dwyllo'r cyffredin bobl yn y peth hyn, rhag iddynt, wrth weled torri un i lawr o Seremoniau, neu wyliau, neu arferion yr eglwys, anghredu 'r lleill hefyd, ac o'r diwedd diyſtyru 'r cwbl, canys cymmaint o ffydd ſydd ganthynt yn y fath wag, a diſylwedd arferion ag ſydd ganthynt ymhyngciau 'r ffydd.

Ap. Mae ganddi ſaith o ordinhadau ag mae hi yn ei alw yn ddirgelion, ac y maent yn atteb i ſaith ſacrament eglwys Rufain; ſef, yn gyntaf, Bedydd. Yn ail, yr Enneiniad. Yn drydydd, Swpper yr Arglwydd. Yn bedwarydd, yr Offeiriadaeth. Yn bymmed, Priodas. Yn chweched, Edifeirwch. Yn ſeithfed, Olew Gweddi.

Eu. Pa fath yw eu bedydd?

Ap. Mae eglwys Groeg er yr hen oeſoedd yn preſentio eu plant ar yr wythfed dydd ymhorth yr eglwys i dderbyn bendith yr offeiriad, megis y preſentiwyd ein Harglwydd yn y deml; ac y mae yr offeiriad yno yn eu nhodi hwynt â'i fys ar eu talcennau, eu mhynweſau, a'u geneuau â llun y groes; megis ſel o'r gras dwyfol, a chwmhwyſiad i dderbyn y bedydd ſanctaidd; a hyn a elwir Seliad Babanod. Ac yna, ar ol dweud gweddi, y cymmer yr offeiriad y plentyn i'w freichiau o flaen porth yr eglwys, gan ei ddyrchafu i fynu, a'i ſiglo yma athraw ar lun croes; yr hon ſeremoni ſydd ragflaeniad, a pharotoad i fedydd.

Eu. Bellach am y bedydd ei hun.

Ap. Y peth cyntaf wna yr offeiriad yw chwythu dair gwaith ar y plentyn i daflu'r diafol allan o'i drigfan; yna y tywallt ef olew ar y dwfr, ar lun croes, megis arwydd o heddwch, a chymmod rhwng Duw a dyn, ac adnewyddiad yr Yſbryd Glân: Yna ar ol gweddi, cyn bedydd, yr offeiriad a gymmer y plentyn o freichiau ei dad bedydd, a chan wneud arwydd y groes ag olew ar ei dalcen, ei fynwes, a'i fain gefn, a ddywed *Gwas yr Arglwydd a enneiniwyd*; ac wrth enneinio yr fynwes, ef a ddywed, *Er meddyginiaeth corph ac enaid*; yna fe enneinia'r cluſtiau, fel trwy glywed, y cenhedlir ffydd; fe enneinia'r traed, er mwyn rhodio yn ffyrdd Duw; y dwylo, er mwyn gwneud gweithred dda, ac wedi hyn y trocha ef

y plentyn dair gwaith yn y ‖ dwfr; a chan edrych tu a'r dwyrain efe a ddywed, Gwas yr Arglwydd a fedyddiwyd. ‡

Eu. Chwi a ddywedaſoch bod yr enneiniad yn un o ddirgeledigaethau, neu ſacramentau yr eglwys.

Ap. Felly y mae ef; canys er ei fod yn cael ei arferyd yn y bedydd, etto y mae yn wahanol oddiwrtho, canys ſel yw, neu gadarnhad o rhai a fedyddier, mewn trefn o gyflawniad o'r addunedau hynny y mae'r hwn a fedyddier yn ei wneuthur; canys eglwyſi'r dwyrain ſydd yn dal, mai megis y darfu i Yſbryd Duw ddiſgyn ar yr apoſtolion ar ddull tân, gan gyfrannu arnynt raſuſau, gor-

---

‖ Mae trochi dair gwaith gan eglwys Groeg yn cael ei ddal mor angenrheidiol a'r dwfr ei hun mewn bedydd; a hyn ſydd yn cael ei gadarnhau o amryw ganonau, ag y maent hwy yn ei gyfrif yn apoſtolaidd; ac hefyd o Homilies *St. Criſoſtom,* yr hwn ſydd yn dweud bod y trochiad cyntaf yn arwyddo marw i bechod, yr ail adgyfodiad i fywyd newydd o ras, ac yn olaf codiad i berffeithrwydd bywyd tragywyddol; ond tybygol mai'r canonau apoſtolaidd yma yw y rhai a wnawd yn erbyn rhai Hereticiaid ag oedd yn gwadu y Drindod ſanctaidd, gan fedyddio yn unig yn enw'r Iefu; ac mewn gwrth'nebiad i ba rai mae'r tri throchiad hyn yn cael eu harfer; canys ni's gallent wadu 'r Drindod ag ſydd wrth fedyddio yn gwahanu tri pherſon yn y natur ddwyfol.

‡ Nid yw'r *Groegiaid* y rhai ydynt un ſect yn eglwys Groeg, yn bedyddio eu plant hyd oni's b'ont yn wyth flwydd oed; ac nid oeddent gynt yn eu bedyddio cyn 14 oed; ond trwy i Batriarch *Antioch* ddanfon pregethwyr attynt, ac a ddangoſodd iddynt yr anghenrheidrwydd o fedyddio babanod, a pha mor gyttunol oedd hyn ag arfer y prif eglwys; er mor anodd oedd ganthynt ymado â'r athrawiaeth a dderbyniaſant un waith, etto o'r diwedd wrth gael eu blino gan daerni pregethwyr y Groegiaid, hwy a gwympaſant megis i ffordd ganol o 14, i'w bedyddio hwynt yn 8 oed.

goruwch naturiol, a rhoddion cyfattebol i'r gwaith y galwyd hwynt iddo; felly yr enneiniad hwn o iro y plentyn ag olew mewn amryw fannau, fel y d'wedpwyd uchod, gan ddweud, *Seldoniau yr Yſbryd Glan*, ſydd wedi cael ei oſod gan eglwys Dduw fel moddion i droſglwydd gras a grym i'r derbyniwr; ac eglwys Groeg ſy'n dal bod olew, fel y peth mwyaf cyffelybiaethol ac addas, i ddal allan ddirgeledigaethau gras; gan ei fod yn cael ei arfer mewn bedydd, confirmaſion, a'r enneiniad diweddaf; ac y mae olew yr enneiniad hyn ganddynt fel gynt tan y gyfraith, wedi ei wneud o amryw bethau, a'i gyſſegru at y gwaſanaeth hyn yn unig. §

Eu. Y trydydd dirgeledigaeth a ddywedaſoch yw eu ſacrament neu ſwpper yr Arglwydd.

Ap. Fel y mae ſeliad babanod yn rhagbarotoad i fedydd, felly y mae yn eglwyſydd y dwyrain hen arfer o gymmeryd bara elwid *Panis benedictus* o flaen y ſacrament, neu rai amſerau eraill, fel ordinhad llai ſylweddol na'r ſacrament ei hun. Y *Panis benedictus* (hynny yw bara bendigaid) hwn yw yr hyn ſydd yr ochr tu faes i'r dorth a appwyntir i'r ſacrament; canys torth y ſacrament ſy'n cael ei ſelio â llun y groes, ac wedi 'ſgrifenu *Ieſu Griſt a orchfygodd*; a chymmaint o honi ag fydd tan y ſel hon a gedwir at y ſacrament; a'r rhan arall at y bara bendigaid.‡ *Eu.*

---

§ Ar ddydd Gwener eroglith, yr Archeſgob, neu yr Eſgob, a wna, ac a ſancteiddia yr ennaint; ſef cymmaint o olew a f'o digonol at bob math o enneinio trwy yr holl flwyddyn; yr hwn ſydd yn cael ei weithio i'r fath dewder ag ymenin; y moddion heblaw olew ſydd ynddo yw y rhai 'n, *Xylo Balſamum, Echinanthes, Myrrh, Xylocatia, Carpo Balſamum, Laudanum*, ac amrywiol eraill o gums a pheraroglau: Ac wrth gyſſegru yr ennaint mae cymmaint o ceremoniau ganthynt ag ſydd mewn un rhan arall o'u haddoliad.

‡ Y bara hwn maent yn ſynych yn ei ddwyn adref i'r

Eu. Ond am y ſacrament ei hun mynegwch eu harfer.

Ap. Y ſacrament ſel gan holl eglwyſydd cred ſydd o barch mawr, ac anghynnefin yn eglwys Groeg; a hwy a haerant fod y pedwar gwaſanaeth ag ſydd yn cael eu gweinidogaethu wrth ei gyfrannu yn gyttunol ag ordinhad gyntaf ein Harglwydd ei hun: Mae'r bobl gyffredin yn gyſtal â'r offeiriaid yn cymmuno yma yn y ddau ryw, gan gymmeryd y bara a'r gwin wedi ei gymmyſgu mewn llwy o law yr offeiriad. Y bara ſydd wedi ei wneud o'r can gwenith goreu, ac wedi ei leſeinio, am ba achos mae dadleu mawr rhyngthynt ag eglwys Rufain. Maent yn cymmyſgu'r gwin a'r dwfr yn y ſacrament; a diau fod yr arfer hyn yn

---

i'r claf, ac i'r cyfryw na's gallant o ran eu galwedigaethau fod yn breſennol; megis peth ynddo ei hun ſydd â rhinwedd ac effaith i faddeu pob pechod maddeuol; ac i gadw mewn enaid duwiol barch gwaſtadol i addoliad dwyfol. Maent yn dwyn y fath barch i'r bara hwn, na's bwttant 'mo hono heb ympryd; canys am ei fod tel cyſgod o'r ſacrament ſanctaidd, ſe ddylei gael cyffelyb barch yn ei radd; canys dywed rhai iddo gael ei ddwyn i mewn yn lle'r ſacrament, yr hwn ym moreu criſt'nogrwydd oedd yn cael ei weinidogaethu bob dydd; y mynychdra o ba arfer a fagodd ymhen amſer y fath gynnefindra, ag mae'n debyg a laeſodd lawer o'r hen wres, a'r ſêl ddwyfol ag oedd gynt yn addurno yr ordinhad nefol honno; am ba achos yr apwyntiwyd amſer oedd cymmundeb yn fwy anaml, cyfraniad o'r bara bendigedig hwn ordeiniwyd i gyflawnu y coffadwriaeth o hono; yr hwn yn awr o achos oerſelgarwch, a diffyg cariad at grefydd, oedd gyd â mwy o barch a gofal yn cael ei weinidogaethu. I dderbyniad y bara bendigedig hwn gofynir iddynt ddyfod gydâ pharotoad cyſaddas; ac iddynt ei dderbyn mewn ffydd, edifeirwch, a chariad, a bod y gwr a'r wraig i ymattal y naill oddi wrth y llall ryw faint o amſer o'r blaen.

yn gynnar iawn gan ei bod yn cael ei harddel gan y rhan fwyaf o hen deidau yr eglwys, yn enwedig gan St. *Syprian*, yr hwn ſydd yn credu idd'i gael ei harfer gan Griſt ei hun *. Ond yn fwy neillduol am gyfranniad o'r cymmun hwn: Mae bwrdd ymhob eglwys yn agos i'r allor, ar ba un mae'r bara a'r gwin yn cael ei barotoi; ar y bwrdd hwn y goſodir y dorth wedi ei ſelio â llun y groes, yr hon a gymmer yr offeiriad yn ei law, ac â chyllel fechan ar lun gwaywffon, a noda hi dair gwaith ag arwydd y groes, gan ddweud mewn cof am ein Harglwydd Dduw, a'n Hiachawdwr Ieſu Griſt; ac yna y trywana ef y gyllell i'r rhan hynny o'r dorth ſydd ar ei law ddeheu, gan ddweud, *Fel oen tan law'r cneifiwr nid agorai ef ei enau*; yna trywana ei gyllell i'r rhan uchaf o'r dorth, ac a ddywed, *Ei farn a ddaeth mewn goſtyngeiddrwydd*; yna gyrre'r gyllell i'r ochr iſaf o'r dorth, gan ddweud, *Pwy a draetha ei oes ef?* ac yna y tyrr ef y rhan hynny o'r dorth a ſydd ef i gyfrannogi o hono ei hun, ac a'i geſyd ar un ochr o'r ddiſgl; ac yna y trywana ef eilwaith ei gyllell i'r bara, ac a ddywed, *Un o'r milwyr a drywanodd ei yſtlys ef, a daeth allan ddwfr a gwaed*; ar ba eiriau y cymmyſgir y gwin a'r dwfr yn y calis, fel wedi eu cymmyſgu byddant yn arwyddo dioddefaint ein Harglwydd.——Yn neſaf y tyrr ef ddarn arall ar lun tri chornelog, ac a ddywed, *Mewn cof o'r fendigedig Forwyn Fair, Mam Duw, Mair y wyryf dragywyddol, trwy weddi pa un, O Arglwydd, derbyn yr aberth hyn i'th neſol allor*; a'r darn drichornelog hwn a ro'ir yr ochor aſſwy i'r llall

* Eraill a'i barnant yn ordinhad o eiddo'r eglwys yn unig; ond pawb a gyttunant ei bod hi yn arfer a fenthycwyd oddiwrth amſeroedd cynnar iawn, ac nid yw 'ſgrifenwyr yr eglwyſi diwrygiedig yn ammeu nad oedd y prif eglwys yn cymmyſgu dwfr â gwin yn y ſacrament.

llall, gan ddweud, *Y frenhines a ſafodd ar ei ddeheulaw mewn gwiſg o aur*, &c. Yna y cymmer ef y drydydd ran o'r dorth, ac â'i gyllell y tyrr ddarn bychan, ac a'i dyd tan y cyntaf a bwrpaſſodd iddo ei hun, a hwn fydd er cof am *Ioan fedyddiwr*; ac yna y tyrr ddarn arall o gof am *Pedr*, *Paul* a'r holl *Apoſtolion*: ac felly y tyrr amrywiol o ddarnau bychain eraill, ac a'u dyd bob yn un ac un yn agos at y rhan gyntaf, gan ddywedyd wrth dorri pob darn, Er cof am ba rai o'r ſeintiau y mae ef yn eu rhoi hwynt heibio; megis un darn er cof am yr hen deidau, a'r eſgobion, am *St. Bazil*, St. *Gregory*, *St. Criſoſtom*, *Athenaſius*, *Siril*, a'r holl hen ddyſgedigion; rhan arall er cof am St. *Stephan*, y merthyr cyntaf; *Demetrius*, *Gregori*, a'r holl ferthyron eraill; ac felly rhan eilwaith er cof am y cyfaddefwyr ſanctaidd, *Antonius*, *Euthimius*, *Sabba*, ac *Onupheius* gan oſod pob darn, yr olaf tan yr un o'r blaen naill ai ar y llaw ddeheu, neu yr aſſwy; yna y tyrr ran arall er cof am *Coſma*, *Damianus*, *Syrus*, a *Ioan y trugarog*, ac a'i geſyd ar y llaw aſſwy tan ei ran ef ei hun; tan ben un eilwaith y rhy ef ran er cof am henafiaid *Mair y Forwyn*, *Joacim*, ac *Anna*; ac yn olaf y tyrr ef y 9fed rhan tros St. *Criſoſtom* yr hwn oedd awdwr y gwaſanaeth, ynghyd a'r ſaint hwnnw y byddys yn cadw ei wyl ef y pryd hynny. A'r naw darn hyn o fara ſydd yn dal y naw gradd o angylion, ag ſydd yn uno â'r addoliad hwn er cof am y ſeintiau a'r merthyron. Yna y canlyn offrwm tros y byw, ac y cymmer yr offeiriad ddarn o'r bara tros Eſgob yr eſgobaeth, a'r hwn a'i hordeiniodd ef ei hun, gan ei oſod ef ar ei law ddeheu, ac enwi yr holl rai byw hynny ag oedd yn dymuno gweddi troſtynt, ac yn enwedig y rhai oedd yn talu am y maſs hwnnw: Ac yn olaf oll y cymmer yr offeiriad ddarn o fara ac a'i geſyd ar ei law aſſwy mewn cof am y rhai a adeiladodd yr eglwys honno,

ynghyd

ynghyd â rhieni, a chyfeillion y rhai hynny a fuant feirw, ac a dalaſant am y maſs.

Eu. Pa fodd gwedi'n y cyfranna ef y bara a'r gwin hwn ?

Ap. Pan fyddo pob peth wedi ei barotoi fel hyn, yr offeiriad a gyfyd lun ſeren o arian, ac a'i dal hi uwchben y bara hynny ag ſydd i'w gyſſegru i'r ſacrament ; gan ddweud, *Y ſeren a ſafodd uwch y fan yr oedd y Dyn bychan* ; ac ar ol iddo adrodd rhai gweddiau, efe a â oddiwrth le yr offrymmiad, ac a ddarllen yr epiſtol a'r efengyl am y dydd ; ac yna y try ef yn ol, ac a gymmer y bara a'r gwin, gan ei orchuddio, a chyn cwplau y cyſſegriad y geſid efe ef ar ei ben, ac yr a ag ef mewn *proceſſiwn* o gwmpaſs yr holl eglwys, ar ba amſer mae'r bobl yn ymgrymmu, yn addoli, ac yn gwneud arwydd y groes, gan roi rhai cleifion, ac afiachus ar y ffordd, fel wrth i'r offeiriad ſyned troſtynt, y gallont dderbyn rhyw fendith wyrthiol, a iachad trwy beledr union-gyrch y ſacrament. Yna y cyſſegrir yr elfennau, trwy ddweud credo'r apoſtolion, a thynnu'r gorchudd oddi arnynt, a ſiglo 'r awyr, uwchben y bara â ffan, yn arwyddo anadliad yr Yſpryd Glân, yr hwn a oleuodd, ac a yſprydolodd yr apoſtolion pan ddarfu iddynt gyfanſoddi articlau y ffydd ſanctaidd hon. Yna y darllenir, *Y nos honno y bradychwyd ef*, &c. fel yn eglwys Loegr, ac y canlyn gweddi ferr, ag a ddywedir 3 gwaith ol yn ol, a'r offeiriad â'i ben yn y cyfamſer tu a'r ddaear ; ond efe a gyfyd, ac a ddywed â llais iſel, *Arglwydd gwrando fy ngweddi*, ac â 'i law i fynu mewn dull o fendithio, a ddywed, *Gwna'r bara hwn yn ſanctaidd gorph Criſt, Amen.* Fel hyn mae cyſſegriad yn dibennu, ac yn awr yr offeiriad a gyfranna, trwy gymmeryd un ran o'r pedwar a dorrodd ef o'r dorth ar y cyntaf ei hun, ac yna dyd ef y tri rhan arall yn y dwfr a'r gwin ag ſydd yn y calis ; o ba un gyd â llawn brudd-

der

der y cymmer ef dair gwaith; ac wedi iddo ei gymmeryd ef ei hun, fe'i cyfranna i'r lleill mewn llwy, y bara a'r gwin ynghymmyſg; ac wedi gorphen, fe ddwg y calis i fwrdd y parotoad, yr hwn ſydd fel y dywedais gerllaw yr allor, ac a ddyd ynddo y rhannau erail! o'r bara ag oedd wedi ei oſod heibio at goffadwriaeth o'r byw a'r marw o ba un wedi i'r offeiriad dderbyn rhan ei hunan a gweddill a gyfrenir rhwng y cymmunwyr. Fel hyn y derfydd y maſs a'r offeiriad a lanha'r cwppan gyd â gofal mawr, rhag i un rhan o'r ſacrament o ddiofalwch gael ei ddibriſio. ‡

Eu. Bellach ewch rhagoch at yr offeiriadaeth yr hon yw un meddwch o ſaith ddirgeledigaeth, neu ſacrament eglwys Groeg.

Ap. Gwir; un o ſacramentau'r eglwys ydyw, o ran y pwer yr awdurdod hynny ag mae'r offeiriaid wedi cael eu gwiſgo ag ef, er doſparthu dirgeledigaethau iechydwriaeth dyn; megis pwer agoriadau teyrnas nefoedd, i rwymo, neu i ollwng pechodau, pwer pregethu'r gair, agor yr yſgrythurau, derbyn i'r eglwys, bedyddio, glanhau, ac adgenhedlu á dwfr mewn dull ddirgeledig oddiwrth

---

‡ Mae arfer yn yr eglwys hon i gadw y ſacrament er gwaſanaeth y claf, ond nid yw fyth yn cael ei ddangos i'r bobl ond yn amſer ei gyfranniad; a'r pryd hynny hefyd yn cael ei orchuddio yn y calis â gorchudd; ac y mae un arfer ganmoladwy iawn yn yr eglwys hon, fod i rhei'ny ag ſydd ar feddwl cymmuno, cyn y meiddiont agoſhau at yr allor i dderbyn y cymmun, hwy ant yn gyntaf i odre'r eglwys, ac yna gofynant faddeuant gan yr holl eglwys, gan ddymuno pardwn os pechaſant yn erbyn neb pwy bynnag; os bydd un ar y cyfryw amſer i addef ei fod wedi cael cam, neu ei flino ganddo, bydd i'r hwn oedd ar fedr cymmuno i ymattal tros y tro hynny oddi wrth y ſacrament, hyd y cyfryw amſer ag y b'o wedi cymmodi â'r ſawl ag y gwnaeth ef gam ag ef.

oddiwrth halogrwydd pechod gwreiddiol, pwer i gyfrannu ſacrament y cymmun, yr enneiniad o iachau'r corph trwy yr olew ſanctaidd, pethau a'u ſylwedd mor bwyſig, ag ſydd uwchlaw y deall mwyaf clir a dyrchafedig; ac na's gall ddeilliaw o rinwedd un galwad naturiol, ond yn unig oddiwrth *character* anealladwy a dirgeledig yr offeiriadaeth meddant, 1 *Cor.* 4. 1. A deallwch fod dau fath o offeiriaid yn eglwys Groeg y rhai ſydd ag awdurdod i bregethu, a rhoi'r ſacramentau; yn gyntaf offeiriaid plwyfol, y rhai'n er eu bod yn briod, ſydd ag awdurdod ganthynt i gymmeryd urddau ſanctaidd, ond os bydd eu gwraggedd meirw o'u blaen, ni's caniataer iddynt ail briodi; yr ail fath yw offeiriaid Monachlogaidd, a elwir *Caloirs*; y rhai yw *Monachod* wedi ei caead mewn *Monachlogydd* yn proffeſu diweirdeb, ac ufudd-dod: y rhai ſydd o ſect St. *Bazil* heblaw pa un nid oes un ſect arall ymlith y Groegiaid. ‖ Eu gwiſgoedd yw caſſog o frethyn garw o flew camel, wedi ei rwymo am eu canolau, a chap brethyn i guddio eu cluſtiau, ac ar hynny fath o hett ddu. Eu ffordd o fyw ſydd galed, a manol iawn; canys y maent yn hollol yn ymwrthod a chig holl ddyddiau eu bywyd. Yn y grawyſau a'r dyddiau ympryd, y maent yn byw ar fara a ffrwythau coed, canys ni chant brofi pyſgod ſydd

‖ Heblaw y ddau ryw o offeiriaid plwyfol, a monachlogaidd; mae rhai neillduol eraill wedi eu happwyntio i weinidogaethu yn yr eglwys, ac wrth yr allor; un math at ddarllen yr hymnau i'w canu, a'r prophwydi; eraill i ddarllen y ſalmau; ac eraill ſydd a gofal i drwſio'r lampau; a diaconiaid eilwaith, a rhag ddiaconiaid i ddarllen yr epiſtol a'r efengyl; y rhai oll ſydd yn gyntaf yn cael eu dwyn i mewn, a'u bendithio gan yr Eſgob, gyd ag arddodiad dwylo; a rhai'n oll wedi eu hordeinio fel hyn ſydd a'u coronau wedi eu heillio.

a gwaed ynthynt nag olew y rhai ynghyd â phob bwyd o laeth ac wyau yw y diſgleidiau, a'r danteithion roi'r iddynt ar ddyddiau gwyliau, ac amſerau llai manawl. Y rhan fwyaf o'u hamſer ſydd yn cael ei dreulio yn yr addoliad; maent yn rhwym i ddarllen bob dydd o'r grawys holl lyfr y ſalmau troſto; ac ar ddiwedd pob pedwaredd ſalm maent i ddweud gogoniant i'r tad ac i'r mab &c a chyſanu'r llawr dair gwaith; ac ar ddiwedd pob degfed ſalm, rhaid iddynt ymgrymmu ddeugain waith ar eu gliniau, a chyſanu'r ddaear bob tro, ac felly mae pob *Caloir* i ymgrymmu, a chyſanu'r ddaear dri chant o weithiau mewn pedair awr ar hugain: ond os bydd un yn glaf rhaid i'r *Caloir* hwnnw a'i gwiſgoedd ef gyntaf â'r wiſg fonachlogaidd i gyflawnu hynny yn ei le ef. Un hanner o'r ymgrymmiadau hyn a gyflawnir ar y ddwy awr gyntaf o'r nos, a'r rhan arall ar hanner nos, cyn iddynt godi at y gwaſanaeth boreuol, yr hwn ſydd i ddechreu bedair awr cyn dydd, ac i ddiweddu gyda thoriad y dydd. Yn yr amſer ag y bo'r nos yn hir, rhan fawr o'u gwaſanaeth noſweithiol yw darllen ſalmau *Dafydd*, ac ar ddiwedd pob degfed ſalm darllenir rhyw ran o fywydau gwyr ſanctaidd, neu *Hermitau*, neu ryw rannau dewiſedig o St. *Criſoſtom*, St. *Bazil*, neu ryw hen ſanctaidd dad arall o'r eglwys: ar ol hynny darllenir neu cenir 9 hymn yn cynwys 12 gwers bob un 6 o ba rai genir er anrhydedd i'r forwyn fendigaid; tair i'r ſaint i ba un cyſegrwyd yr eglwys; neu i ba un mae'r wyl yn cael ei chadw; a chyn bo'r cwbl wedi dibennu, y dydd a dyrr arnynt, a'r haul a gyfyd. Yn yr haf cyn dibennu eu haddoliadau, fel mae prin mae ganthynt amſer i roi i natur ei gorphwysfa naturiol ac addas.——Ac yn y grawys cyn y paſg maent yn dechreu gyda thri niwarnod o ympryd heb brofi cymmaint a bara a dwfr; ar derfyn pa amſer

ſer y *Caloirs* a ymddangoſant o flaen y Prior neu'r Abbot gan fyned i mewn bob yn un ac un i un drws, ac wedi ymgrymmu iddo, a chael eu bendithio ganddo, yr ant allan i ddrws arall, lle mewn ſtafell allanol y mae baſged o fara, o ba un pwy bynnag ewyllyſio all gymmeryd, heb neb yn ſylwi pwy ſy'n bwytta, neu pwy ſy'n eſtyn ei ympryd; yr hyn mae rhai o'r natur gryfa yn ei gynnal hyd ddiwedd y pymmed dydd, heb broſi cymmaint a dwfr. Ac y mae rhai o'r Monachod hyn wedi diwygio i fywyd mwy manol a gerwin, rhai ſydd fel pe baent yn hollol farw i'r byd, heb gymmeryd ymborth arall trwy eu holl ddyddiau, ond bara a dwfr, a hynny gyd â chymhedrolder mawr, gan arferyd llawer o ymprydiau yn amſer y grawys; ond *Anchorites* a *Hermits* y maent yn cael eu galw, pa rai ſy'n byw mewn ogfeydd ac anialwch, o ba rai y mae amrywiol ym mynydd *Athos*, yr hwn a elwir gan y *Groegiaid* y mynydd *Sanctaidd*. § Mae'n perthyn hefyd i bob monachlog

§ Nid oes un rhan o holl wledydd y Dwyrain mor llawn o Fonachlogydd, ac mor hynod am dduwioldeb, ag yw'r mynydd *Athos*, yr hwn ſydd ym *Maſedonia*, o fewn 70 o filltiroedd i'r hen *Theſalonica*, cwmpas yr hwn ſydd o ddeutu 160 o filltiroedd; pen pa un, yr hwn ſy'n cael ei alw *Athos* ſydd yn uchel, yn arw ac yn wriglyd; ond o ddeutu odre'r mynydd y mae llawer iawn o bob math o goed, a llyſiau o amrywiol rinweddau, nentydd, ffynhonau, ac afonydd bychain, ynghyd â thyllau, ogfeydd, ac ymguddfeydd, wedi eu gwneuthur naill ai gan natur, neu ddyfais dyn ſy'n ei ddodi ef i ymddangos fel pe buaſai'r Creawdwr wedi ei bwrpaſſu ef yn unig yn ddiogelfa i *Anchorets* neu'n drigfannau *Monachod*.———Yn wir, o's yſtyriwn ni rifedi'r Monachlogydd a'r *Monachod* ag ſydd ynddynt, nid oes un man o'r byd i'w gydmaru iddo; ond am nad yw ef yn le ag y mae cymmaint o gynniweir iddo, nid oes

log wyr-llyg, ſef rhai heb urddau yn gwiſgo 'r gwiſgoedd monachlogaidd, ac yn myned tan reolau

---

cymmaint o ſon am dano a lleoedd o lai rhyfeddod; canys y mynydd hwn yw tryſor-dŷ pennaf y grefydd griſt'nogol, trwy holl dir *Groeg*; ac yma y dangoſir yn bennaf hen fanolrwydd a hunan-ymadawiad crefydd. Anhawdd iawn yw gwybod pa bryd y dechreuodd y lle hwn gael ei gyfanneddu gan *Fonachod*; ond diau, pan gafodd criſt'nogrwydd ei rhwyſg yn nyddiau *Conſtantine* fawr, i fywydau *Hermits* ddyfed o lai o barch a bywyd o aroslawer yn yr un gymdeithas yn fwy anrhydeddus, a mwy diogel ac adeiladol: Fel y darfu i Fonachlogydd gynhyddu ym mhob rhan o'r byd, felly y rhai a ſylfaenwyd yma, yn amſer *Conſtantine* fawr, yn raddol a gynhyddaſant i ugain, ac yn awr i ragor; ac y mae y rhai hyn yn talu treth i'r *Twrc* o fil o Ddolars bob mis, ac y mae y fath ſwm yn gwneuthur bob blwyddyn yn agos i ddeuddeg mil o Goronau (12000) a phob Monachlog ſydd wedi ei gyſſegru i ryw Saint neu gilydd; megis un i St. *Athanaſius*, un i St. *Pedr*, a St. *Paul*; rhai i St. *Nicholas*, St. *Gregory*, a St. *Stephan*, ac amrywiol o honynt i goffadwriaeth *Mair* y *Forwyn*, a'n *Harglwydd Ieſu*; rhai i'w *Genhedliad*, rhai i'w *Enedigaeth*, a rhai i'w *Eſgyniad* i'r nefoedd, *&c.* Yr holl Fonachlogydd hyn ſydd a thiroedd ar y mynydd ag ſydd yn dwyn iddynt elw mawr; etto nid yw ddim i gyfrif at eu helw hwynt o bell, ſef caſgliadau cariad pobl eluſengar, y rhai ſydd yn cael eu cuddio oddiwrth wybodaeth dynion hyd ag y gallont; ond er y cwbl y mae pawb o honynt yn pledio tlodi a thrueni, yr hyn ſydd ddirgelwch mawr i'r rhai ag y datguddiont iddynt eu tryſorau; canys pwy bynnag a welo yr amrywiol orchuddiadau ſydd i'w hallorau, yr addurniadau cyfoethog ſydd i'w heglwyſydd, fydd anhawdd iddo ddeall fod y bobl hyn yn dlodion: Canys y mhlith eu tryſorau eraill, y mae ganddynt yn gyntaf un ein Harglwydd yn y bedd, yr hwn ſydd yn cael ei ddangos bob nos Wener Croglith, yr hwn ſy'n gyfoethog o aur a meini gwerthfawr. —— Y rhan fwyaf o'u

Mhonachlogydd

olau St. *Bazil*; dynion wedi blino gan wagedd y byd, ac wedi bod yn euog o ryw bechodau marwol,

---

Mhonachlogydd a all roi hanes o'u ſylfaeniad, nid mewn *paint* neu liwiau, ond mewn *embroideri* o aur a pherlau, a meini gwerthfawr eraill, gwedi eu cyd-gymmyſgu gyd â dyfais a chywreinrwydd neillduol. Y mae ganddynt heſyd amrywiol o wiſgoedd ardderchog i'w hoffeiriaid, yn enwedig yn y pedair Monachlog bennaf, lle y mae llawer ciſt gwedi eu llanw o wiſgoedd ag ſydd i'w harferyd wrth ddarllain y gwaſanaeth. Eu cawgiau, eu diſglau, eu dwfr-lleſtri, eu ffiolau, eu canhwyllbrennau, a'u harogl-darth grochanau o arian nid y'nt i'w cyfrif; llawer o ba rai ſydd o aur pur, neu arian wedi eu *guilto* ag aur. Y mae ganddynt groeſau o faintioli mawr, gwedi eu hymmylo â dalenau aur, ac ynddynt foglunau o feini gwerthfawr, oddiwrth ba rai y mae yn hongian garreion o berlau dwyreiniol. *Cyfors* eu llyfrau o'r Efengyl, o'r Epiſtolau, o'r Salmau, ac o lyfr yr Offeren, ſydd yn fynych gwedi eu leinio troſtynt â dalenau aur, neu gwedi eu *beindio* i fynu yn gywraint mewn *cyfors* aur neu arian gwedi eu *guilto*. Llawer o ba ddodrefnau ac addurnau oedd o roddion Duciaid *Muſgofi*, cyn yr amſer y darfu i'r wlad honno gwympo ymaith oddi wrth Batriarch *Conſtantinopl.* Trwy'r fath roddion a rhai'n y mae Monachlogydd y mynydd hwn yn gallu gwneud *proſeſſiwn* ardderchog iawn, y rhai y maent hwy yn eu harfer gyd â gogoniant rhyfedd ar yr uchel wyliau; a'u *proſeſſiwn* cyffredin hwynt ar amſer gwaſanaeth ſydd mor uchel a bonheddig, fel y mae ef yn cynhyrfu calonnau'r bobl gyffredin i gymmaint o barch a gwreſogrwydd at y ſeremoniau ſanctaidd, fel mai prin yr â un o honynt ymaith heb adael rhyw rodd o'i ol, mewn tyſtiolaeth o'i wir gariad a'i hoffder yn eu haddoliad. ——— Bywioliaeth y Monachlogydd hyn ſy'n dyfod mewn rhan oddiwrth y tiroedd ſydd yn perthyn iddynt ar y mynydd, y rhai ſydd ddigonol i'w cynnal hwynt o win, bara, ac olewydd; a'r môr ſydd yn rhoi iddynt byſgod yn aneiriſ, gan fod gan bob Monachlog ei *Haber* ag

marwol, ac mewn arwydd o'u troedigaeth i fywyd gwell, ſydd yn rhwymo eu hunain yno tra fyddont

---

ſydd yn perthyn iddi yn neillduol. Ac heblaw hynny y mae gan bob Monachlog ei ffierem, rhai ar y tir, a rhai ar ynyſoedd yn y môr, lle y mae ganddynt Gapeli a chelloedd i fonachod; a'r ffermau hyn ſydd yn cael eu trin yn hollol gan bobl grefyddol o'r un ſect, y rhai ſydd ag awdurdod i hau llin, ŷd, a phlannu gwinllannoedd, cadw defaid a geifr, a gwerthu ŵyn, mynnod, gwlan, llaeth, a chaws; a'r arian a f'o yn dyfod oddi wrthynt ſydd yn myned i'r Fonachlog y byddo'r ffierem yn perthyn iddi. Ond er bod rhydd-did iddynt i gadw defaid a geifr ar y ffermau hyn, nid oes lle i'w cadw hwynt ar y mynydd; canys wrth hen ordinhad yn perthyn i'r lle hwn, nid oes i un creadur benyw i gael trigo yno; nag oes gymmaint ag i oen menyw na giar mewn arwydd o'r diweirdeb manawl ag mae bobl yma yn ei broffeſu; ond yr elw mwyaf ſydd yn dyfod i mewn i'r Monachlogydd hyn yw, oddiwrth ddiwydrwydd y cenhadon ag ydys yn ei ddanfon o ddeutu i bob lleoedd, a dinaſoedd enwog i gaſglu eluſenau y bobl haelionus i'w Monachlogydd; megis i *Gonſtantinopl*, *Smyrna*, *Bulgaria*, *Servia*, *Candia*, a lleoedd eraill lle mae eglwys Groeg amlaf: ond y rhoddion mwyaf ſydd yn dyfod o *Moldavia*, *Ruſſia*, *Valachia*, *Muſcovy*, a *Georgia*; o ba leoedd mae y cenhadau hyn yn dychwelyd yn llwythog iawn yn fynych; a'r hwn a ddychwelo â'r caſgliadau mwyaf a gyfrifir yn deilwng o fod y flwyddyn ganlynol yn *Brior* o'r Fonachlog, ac er fod y Groegiaid yr awr hon yn dlawd, etto nid oes nemmawr nad yw naill ag o falchder, neu o ddefoſiwn yn ei gyfrif yn ddyledſwydd i roi rhyw faint at achos y Monachlogydd hyn: ac mae weithiau tros 500 punt yn dyfod i un Fonachlog mewn 5 neu 6 o fiſoedd gan y cenhadon hyn, rhifedi'r *Monachod*, *yr Offeiriaid*, *Diaconiaid*, a brodyr heb urddau yn perthyn i'r mynydd hwn a gyfrifir o ddautu 6000; o ba rifedi mae o ddautu dwy fil i maes a'r hyd y gwledydd yn caſglu'r eluſennau ac nid oes cymmaint ag un fenyw

yn

ſyddont byw; y rhai'n ſydd yn llywodraethu pob achoſion allanol a f'o'n perthyn i'r Fonachlog; yn cadw eu defaid a'u hanifeiliaid eraill, o ba

---

yn perthyn i'r holl Fonachlogydd hyn, nag i'r mynydd 'chwaith. Yr unig dref ag ſy'n perthyn i'r mynydd yw *Carais*, yr hon ſydd ar ganol y mynydd, lle mae marchnad gyflawn yn cael ei chadw; i ba un mae rhifedi mawr o wr-rywod ond nid un fenyw fyth yn dyfod; lle mae'r Monachod yn prynu caws, wyau, a chynnifer o ddefaid, a geifr gwr-rywod ag ſydd ddigonol at eu cyfreidiau, ac o wlan a rhodd i'r *Aga* yr hwn yw ſwyddog tan y *Granſeinior* i dderbyn rhent i'r Monachlogydd yr hwn ſy'n cael dafad bob mis gan bob un o'r Monachlogydd hyn. Yma maent yn gwerthu eu holl weithiau, megis palau, rhawiau, gefeilion, pedalau, *&c.* yſgidiau, botaſau, bedau, croeſau, ynghyd a holl ffrwyth eu tiroedd, am ba foddion y maent yn cael eu talu yn arian parod. Mae i'w ddal ſulw arno, am y brodyr ſy'n perthyn i'r Monachlogydd hyn heb dderbyn urddau, caent weithio yn y *trade*, neu yr alwad ag oeddent yn ddilyn o'r blaen, neu y maent fwyaf hyddyſg ynddi; y rhai ſydd i maes o honynt, maent yn plannu gwinllannoedd, dodi perthi, cloddio, caſglu olewydd, gwaſgu olew o honynt, *&c.* ond nid ynt nag yn hau, nag yn medu; ond o mewn mae ganthynt ofiaid ag ſy'n gweithio palau, ceibiau, ac offerynau eraill y maeſydd; mae ganthynt eu teulwriaid eu gwehyddion, a thanneriaid; y rhai ar ol iddynt gyflawnu eiſiau'r Monachlogydd, ydynt yn gwerthu y lleill i ddieithriaid am arian; y rhai ſydd yn myned at waſanaeth y Fonachlog, yr hon o'r tryſor cyffredin ſydd yn paratoi defnyddiau iddynt i weithio, y rhai pan b'ont wedi eu gweithio gyfrifir yn eiddo'r Fonachlog. Canys nid oes i un Monach yma i gaſglu cyfoeth iddo ei hun, mwy nag yn eglwys Rufain; na galw yr elw o'i waith yn eiddo iddo ei hunan; er o boſibl bydd i weithiwr medrus a dyfal i gael mwy o barch a chael mwy o ofal am dano na rhai ſy'n ddiofal, ac yn eſgeulus mewn un galwedigaeth,

ba feddiannau y mae rhai Monachlogydd yn gyfoethog iawn: Ac er trwy rwymedigaeth eu ſect na feiddiant brofi dim o gig y praidd, etto mewn amſer na byddo ympryd, gallant fwynhâu yn gyſſurus o gyflawnder eu llaeth-dŷ: Y rhai hyn hefyd ſydd yn trin gwinllannoedd, yn ſathru yr gwin-gafn, fel y mae'r holl Fonachlog yn yfed gwin o'u ſelerau eu hunain.——O rai Monachlogydd, y maent yn anfon cenhadon i wledydd pell i grefu a chaſglu rhoddion gan bobl haelionus, ym mha waſanaeth y maent yn aros bum mlynedd, ar ol pa amſer y maent yn dychwelyd adref ac yn cael eu neillduo oddiwrth y lleill, ac yn cael eu cadw mewn celloedd tros yſbaid un mis, ym mha amſer y cant gyfleu i yſtyried eu heſgeuluſdra o'u dyledſwyddau, a pha bechodau a wnaethant tra ſuont ar hyd y byd; ac yno gwneud cymmod â Duw, ac â'u cydwybodau eu hunain.

Eu. Beth am y ſacramentau eraill, ſef Olew Gweddi, Cyfaddefiad a Phriodas?

Ap. Cyn dweud am olew gweddi, angen yw dweud am gyfaddefiad pechodau, yr hyn ſydd raid i wneud o flaen offeiriad bedair gwaith yn y flwyddyn, i'r rhai ſydd â chyfleuſdra ganddynt o fywyd; y mae'n rhaid i'r offeiriaid ac eraill ag ſydd yn y monachlogydd, gyfaddef unwaith bob mis; ond nid rhaid i'r crefftwyr, y gwaſanaethddynion, a'r holl gyffredin bobl gyfaddef ond unwaith yn y flwyddyn, ſef o flaen y Grawys mawr cyn y Paſg: I fobl gleifion fe gyfrifir yn feddyginiaeth i enaid afiachus, ac yn eſmwythdra i gydwybod glwyfus. Edifeirwch a ddehonglir gan Eglwys *Groeg* fel hyn, *Edifeirwch calon am bechod, o ba un y mae dyn yn cyhuddo ei hun o flaen yr offeiriad, gyd a* reſolution *cadarn i wella y beiau o'r blaen, a chyd â llawn fwriad i gyflawni pa bethau bynnag a oſodir arno gan ei fugail yſprydol fel penyd.*

Ac

Ac ſe all yr offeiriad oſod arno unihyw benyd rheſymmol, megis anarferol rifedi o weddiau, eluſennau, ymprydiau, ymweled â lleoedd ſanctaidd, a'r cyffelyb. Pan ddelo dyn edifeiriol i wneud cyfaddefiad, yr offeiriad a ddywed y geiriau yma, *Wele angel yr Arglwydd ſydd gerllaw i dderbyn dy gyfaddefiad; gwel gan hynny, na cheleſt un pechod rhag cywilydd, canys dyn wyf finnau heſyd â phechodau fel tithau.* Ac o's bydd un o'r rhai edifeiriol hyn yn glaf, ac yn diharffu, ac yn cael eu cydwybodau yn euog o bechodau marwol, cyfrennir iddynt y *Sacrament* o olew gweddi, yr hyn a gyflawnir gan yr eſgob, a ſaith o offeiriaid yn ei gynnorthwyo, o's gellir eu cael; ond nid yw yr enneiniad hwn yn perthyn dim i'r rhai ſydd yn euog o drais, gormes, a lladrad; pechodau pa rai yn unig a ddileir trwy daliad yn ol, a gwneuthur iawn. §

Eu. Mi a geiſiaf gennych etto adrodd ychydig am eu priodaſau, am ei fod meddwch yn un o'u ſacramentau?

Ap.

---

§ Olew gweddi yw olew pur heb gymmyſg, megis yr ennaint a ddywedpwyd o'r blaen; a chymmaint o hono a waſanaetho tros yr holl flwyddyn a gyſſegrir gan yr Archeſgob neu'r Eſgob, er y gellir enneinio ag ef gan dri offeiriad yn unig: A'r olew gweddi yn Eglwys *Groeg* yw'r un â'r *Enneinad diweddaf* yn eglwys *Rufain*; ac wrth weinidogaethu yr olew hyn, yr offeiriad a drocha ychydig *gotten*, ag ſy'n rhwym wrth ben pren, yn yr olew, ac yna yr enneinia efe y dyn edifeiriol ar lun croes ar ei dalcen, ei ên, ei rudd, ei gefn, ac ar dorr ei ddwylaw, gan ddweud gweddi o ddeiſyfiad ar Dduw i iachâu y claf o'i holl anhwyl corph ac enaid, a rhoi iddo iechydwriaeth a gras Criſt trwy weddi *Mair* y Forwyn, Mam Duw, y Wyryf dragywyddol; trwy rinwedd y fywiol groes, a'r Prophwyd gogoneddus *Ioan* Fedyddiwr, ynghyd â'r holl ſanctaidd Apoſtolion, Merthyron, y Teidau a'r Anargeiri.

Ap. Swyddogion eglwyſig ſydd yma fel mewn gwledydd crediniol eraill yn cylymmu'r cwlwm priodaſol, yn bendithio'r partion, ac yn rhoi rheolau a therfynau at hynny; a'r eglwys hon am ei bod etto yn dal llawer o reolau marweidd-dra cnawd, a hunan-ymadawiad prif griſt'nogrwydd, ſydd yn gwahardd priodi y pedwarydd tro; canys er eu bod yn ddaroſtyngedig i'r Tyrciaid, gan barai y mae priodi amryw wragedd yn gyfreithlon, etto y maent yn edrych arno i briodi un ar ol y llall tros y trydydd tro yn anhardd, ac yn ſawrio gormod o'r cnawd a blys anlladrwydd; ac mai lle y cyfryw un gweddw yw galaru ac ymofidio ei annedwyddwch trwy gynnifer colled, fel wedi cael prawf o fynychdra'r fath fflangell, y gallo bellach gael amſer i weddi ac edifeirwch. † Y mae rhai o'r ſeremoniau a arferir wrth briodi yn ddwys ac yn ſylweddol, ac eraill yn rhy yſgafn a diſylwedd i'r fath ordinhâd bwysfawr ag yw priodas: Canys er fod eu gweddiau yn y gwaſanaeth nyn yn llawn o ymadrodd pwysfawr a dwyfol; ac arfer y fodrwy ſydd addas a gweddaidd; ond cyfnewid *Garlantau* o'r Priob-Fab i'r Priod-Ferch; rhoi iddynt win a chymmyſgedd o lyſiau

† Ond pa mor fanol bynnag y mae'r eglwys hon ynghylch peidio myned ymhellach nâ'r drydydd briodas, etto o achos tlodi yr offeiriaid, torriad o'r cwlwm hwnnw a ellir gael llawer yn hawſach, fel y mae ef yn beth cyffredin i wr gymmeryd allan lythyr yſgar oddi wrth y Patriarch a phriodi menyw arall, ac i'r Patriarch eilwaith gyfnewyd y farn a roddodd, a gwneud i'r cyfryw gymmeryd ei wraig gyntaf, gan adael y dyn anwybodus yn derfyſglyd, yn gyſtal yn ei gariad a'i gydwybod. Y Metropolitaniaid yn gyſtal a'r Offeiriaid, am eu bod yn druenus dlawd, eu llythyrau yſgar yn gyſtal a'u hyſgymmundodau, ſydd yn cael eu gwerthu, oddiwrth ba farſiandaeth y mae elw mawr yn dyfod i'r eglwys yn flynyddol.

o lyſiau peraidd a *ſhugar* mewn llwy, eu cylymmu ynghyd â gardys, a'u hongian ynghyd fel baban mewn cadair, ydynt ſeremoniau rhy wag a diſylwedd i'r fath ordinhâd â hon. *

Eu. Adroddwch ryw bethau am arferion neu draddodiadau yr Eglwys hon yn rhagor.

Ap. Mi a ddywedais, mai trydydd gorchymmyn yr Eglwys yw ufudd-dod i'w bugeiliaid yſprydol;

---

* Y mae'r Groegiaid ag ſydd yn aros o ddeutu *Conſtantinopl, Smyrna,* a phrif ddinaſoedd eraill, yn edrych yn uchel, ac yn dilyn arfer y Tyrciaid, yn cadw eu mherched gyd â'r fath neillduolrwydd oddiwrth bob cwmpeini gwr-rywod, a phe b'ai eu llygaid yn abl eu halogi hwynt; gan eu galw yn berlau, nad oes neb i'w dangos cyn gwneud i fynu y fargen; felly y Priod-Fab wedi cytuno am bob telerau, a pharotoi erbyn y briodas, a wahodda'r cymmydogion, heb weled etto erioed o'r Briodas-Ferch, na'i hadnabod hi trwy un ffordd arall, ond y cyfryw adnabyddiaeth ag y mae ef yn ei dderbyn oddiwrth ei ffryns mynwedaidd; y rhai er mwyn hyn o ddatguddiad a ymwelant â hi, gan gydfwyta â hi ar y bwrdd, a chyd-ymolchi â hi yn y *bath*; ac i farn, â *ffanſi* y rhai 'n y mae ef yn daroſtwng ei farn ei hun, ac yn dyfod i'w charu trwy'r clod ag y maent hwy yn ei roddi iddi; canys ni's gall fod ganddo un tyſtiolaeth arall o'i glendid na'i rhinweddau, hyd oni's priodo ef hi; Ym mha amſer y bydd i'w rhieni a'i cheraint ddwyn y Briodas-Ferch i'r yſtafell briodas, lle yr eiſtedda hi dro gyd â'i ffryns mynwedaidd, wedi gorchuddio ei hwyneb fel o'r blaen yn amſer y briodas; i ba le y daw y Priod-Fab i mewn, ac â llaw grynedig a gyfyd i fynu y gorchudd, ac a'i cyſana hi; ac y mae'n rhaid iddo fod yn foddlon i'w *ffortwn*, pa un bynnag ai glân ai hagar o rinwedd neu o ddirinwedd y byddo hi, yr hyn ſydd yn fynych iawn yn crëu edifeirwch rhy ddiweddar: Ond nid yw'r arfer hon ymhlith y Groegiaid, mewn gwledydd eraill, canys y maent yn cyfeillachu ac yn fiarad â'u gilydd, megis yn *Europ*, eyn cytuno ar briodas.

yſprydol; oddiwrth 1 *Cor.* iv. 1. yr hon Yſgrythur y maent yn ei hail adrodd yn eu heglwyſi, ac yn tynnu canlyniadau oddi yma o ardderchogrwydd eu ſwydd, ac o'r parch a'r anrhydedd dyledus iddynt oddiwrth y bobl; ac felly y bobl ſydd yn ufuddhâu iddynt, nid yn unig mewn pethau yſprydol, ond tymhorol hefyd; ond yr hyn ſydd yn eu cymmell fwyaf i ufudd-dod yw grym eu heſgymmundodau; o ba un y mae ar y bobl gyffredin gymmaint o'u hofn, fel y mae yr gydwybod mwyaf dibris a chaled, mewn achoſion eraill, yn brawychu rhag y farn hon; i ba un, tra ſyddo neb yn ddaroſtyngedig, nid yw ddim yn cael ei gaead allan yn unig o derfynau'r Eglwys, ond ei gymdeithas ef ſydd waradwyddus; a gwrthodir hefyd iddo gael y fraint gyffredin o gariad ac eluſennau'r bobl. ‡

Eu.

---

‡ Y cerydd hwn o yſgymmundod ſydd mor fynych yn Eglwys *Groeg*, fel y tybygid y gwnei'r arferiad cyffredin o hono y peth yn ddiyſtyrllyd; ond y *ſentens* ſydd yn cael ei chyhoeddi gyd â'r fath arſwyd, a'r effeithiau alaethus o honi, nid yn unig ar y byw, ond hefyd ar y cyrph meirw tan yſgymmundod, ſydd yn cael eu hadrodd gyd â'r fath ſicrwydd ag ſydd fyth yn cadarnhâu yn y bobl effeithioldeb yr awdurdod ag y mae'r eglwys yn ei arferyd ynddi. A dull *ſentens* yr yſgymmundod ſydd, naill ai ar un a adnabyddir, neu ynteu ar un na's adnabyddir; yr hwn, pwy bynnag a fyddo, a fydd yn euog o'r drwg hwn neu arall, megis lladrad, ac heb adnabod y lleidr, cymmerir yr yſgymmundod allan yn ei erbyn, yr hwn ni's gollyngir, hyd oni's gwneir taliad yn ol; ac felly y drwg ſydd yn cael ei gyhoeddi a'i ail gyhoeddi mewn llawn gymmanfa, ac yna y canlyn *ſentens* yr yſgymmundod yn y dull hyn: O's na thal y lleidr yn ol yr hyn a ladrataodd oddi arno, ei eiddo, bydded i'r cyfryw gael ei wahanu oddiwrth yr Arglwydd Dduw ei greuwr, a bod yn felldigedig, yn ddifaddeuol,

ddifaddeuol, ac yn ddiddarfod yn y byd hwn, ac yn y byd a ddaw; bydded coed, cerrig, a haiarn i ddarfod, ond nid y cyfryw un; bydded iddo etifeddu gwahanglwyf *Gehesi*, a dychryn *Judas*; y ddaear a agoro, ac a'i llyngco fel *Dathan* ac *Abiram*; bydded iddo arfwydo a chrynu ar y ddaear megis *Cain*; a digofaint Duw ar ei ben ac ar ei wyneb; na fwynhao ddim o'r pethau mae yn llafurio am danynt, a chardotted ei fara holl ddyddiau ei fywyd; bydded iddo dderbyn melldithion y ſanctaidd a'r cyfiawn patriarchiaid, a holl ddifinyddion ſynod *Nice*, a phob ſynod ſanctaidd arall; a chan fod tu faes i'r eglwys, na fydded un dyn i weinidogaethu iddo bethau yr eglwys; ei fendithio, neu roi iddo y bara ſanctaidd; cyd fwytta, yfed, neu gyd gyfeillachu ag ef; ac ar ol marw, na chladded neb ef tan benyd o fod tan yr un eſgymmyndod. —— Ac effaith y farn ofnadwy hon ſydd yn cael ei rhoddi allan gan yr offeiriaid groegaidd mewn amrywiol *inſtances*, mor amlwg fel nad oes neb yn ammau y canlyniadau o'r holl felldithion ag a adroddir ac a ail adroddir ynddi; ac yn enwedig fod corph y dyn eſgymmynedig yn methu darfod yn y bedd, megis cyrph eraill, hyd onis bo barn yſgymmundod i gael ei thynnu ymaith; ac y maent yn credu bod cyrph y rhai yſgymmunedig yn cael eu perchennogi yn y bedd gan ryw yſpryd drwg, yr hwn ſydd yn gweithredu ynddynt, ac yn eu cadw rhag llygredigaeth, yn yr un dull ag y mae yr enaid yn gweithredu yn, ac yn bywioccau'r corph yn ei fywyd: a'u bod yn y nos yn rhodio, ac yn ymborthi; ac ar ol agor beddau rhai o honynt wedi eu cael yn wridgoch, eu gwthiennau yn llawn gwaed, 40 diwrnod ar ol eu claddu, fel pan agorid hwynt a lanſed y rhedai ef allan mor wyllt a phe daethai o gnawd dyn ieuangc; hyn ſydd yu cael ei gredu, ac ymddiddan yn ei gylch ymhlith y Groegiaid, fel nad oes braidd un o'u pentrefi heb amryw *inſtanſes* o'r nattur hyn, wedi cael yr hanes gan eu rhieni, eu mamaethod, neu trwy weled â'u llygaid eu hunain; er ei fod mewn gwirionedd y twyll mwya yn y byd.

☞ *Argraffwyd oddi yma allan gan* E. Evans, *yn* Aberhonddu.

Ap. Mae ganthynt bedair math; y gyntaf ſydd tan enw St. *Iago*, ond am fod hon yn bedair awr o ddarlleniad, ni's arſerir mo honi ond un waith yn y flwyddyn; yr ail gyfenwir ar enw St. *Criſoſtom:* y drydydd ar enw St. *Baſil:* a'r bedwarydd gyfenwir ar enw St. *Gregory*; a'r liturgies maithion hyn ſydd yn dwyn eu holl amſer ar ddyddiau ympryd; a'r offeiriaid ſydd yn gorfod rhedeg droſtynt gyd â'r fath frŷs ag y mae plentyn yſgol yn dweud ei daſg; ac ar ol yr holl faith weddiau hyn darllenant *lecture* o ſywyd rhai o'r hen ſeintiau, yr hyn ſydd yn gwaſanaethu yn lle pregeth; o ba rai mae un yn cael ei ddarllain bob dydd; holl ſwm y llyfr hwnnw gaiff ei ddibennu mewn blwyddyn, yr hwn lyfr a gyfenwir, *Caſgliad o hiſtoriau.*

Eu. Onid yw Eglwys *Groeg* yn arferyd lluniau a delwau yn eu heglwyſydd.

Ap. Maent yn arferyd lluniau (ond nid delwau meddant) er mwyn harddwch, hanes, ac addoliad; ac maent yn lloſgi lampau ger eu bron, yn eu perarogli ag arogl-darth, yn dechreu, ac yn diweddu eu gweddiau gyd ag ymgrymiadau a chroeſiadau parchedig o flaen llun a delw eu ſeintiau; at ba ddiben mae bob amſer wedi ei oſod ar giſt, lun *Mair* y forwyn, a St. *George*, y rhai maent hwy yn guſanu wrth ddyfod i mewn, a myned allan, ac ar ddiwedd rhai gweddiau o'u liturgi. Ond maent yn eſgymuno, ac yn melldigo holl addolwyr lluniau cerfiedig, am iddynt gael gynt eu camarfer i eilunaddoliad, gyd â'r un rhyw felldithion ag y gwnaent â'r rhei'ny ag ſydd yn wrthwyneb i'r ddau.

Eu. 'Rwi'n deall nad yw Eglwys *Groeg* nemawr well nag eglwys *Rhufain*, am weddiau ar ſeintiau, er ei bod hi yn ceiſio gwneud rhyw wahaniaeth tywyll rhwng y naill a'r llall.

Ap. Gwir yw, hwy ddwedant bod yn angenrheidiol i ddelw y ſaint gael ei dynnu mor agos ag

y bo

y bo poſibl i'w fywyd, fel bo meddwl y gweddiwr i fod yn fwy cynnes atto*.

Eu. Pa ddull maent ynghylch eu meirw? a ydynt yn credu fel Eglwys *Ruſain* fod purdan?

Ap. Maent yn bur goelgrefyddol yn y peth hyn, canys pan fo un yn glaf, yr offeiriad a rwyma ei ben ef â lliain gorchudd cwppan y ſacrament, ac a ry iddo dracht o ddwfr cyſſegredig, ymha un y bydd rhyw lyſieuyn wedi ei roi i gwrdd â'r groes, neu bictur *Mair* y forwyn, ac os yr anhwyl gynhydda, enneinir ef â'r olew diwedda wedi ei gymmyſg â'r dwfr hwnnw yr hwn a gyſegrwyd yn ſacrament y cymmun, ond os bydd y dyn marw, ofnadwy fydd y galarnadau wnant ar ei ol; canys wedi cauad ei lygaid, ei gorph a wiſgir yn ei ddillad goreu, ac wedi ei eſtyn ar y ddaear, a rhoi canwyll gŵyr wrth ei ben, ac un arall wrth ei draed, y dechreu y galar; y wraig, a'r plant, os byddant, a'r lleill o'r perthynaſau, ddaw i mewn â'u gwallt am eu llygaid, eu dillad yn rhyddion, ac yn rhwygedig, gan blucco eu gwallt, curo eu bronnau, a chrafu eu hwynebau, gan wneud lleiſiau aethus ac ocheneidiau dyfnion: a'r corph

* Ond gallwn ddeall eu barn yn well, wrth yr hyn a alwant hwy arno, Uniawn gyfaddefiad eglwys *Anatolia*, ymha un y cawn y geiriau hyn; *Yr ym ni yn deiſyf eiriolaeth ſeintiau, fel y gweddiont droſom; ac nid y'm yn gweddio arnynt fel duwiau, ond megis cyfeillion Duw, y rhai ſydd yn ei waſanaethu ac yn ei foliannu, ac yr y'm ni yn dymuno eu cymmorth, nid megis pe baent yn ddigonol i'n cynnorthwyo ni, â'u nerth eu hunain, ond ar iddynt trwy eu gweinidogaeth i ennill gras Duw i ni: yr un ffunud, yr ydym yn gweddio ar angylion, ar iddynt gyfryngu trwy eu gweinidogaeth ar Dduw, o herwydd maent yn offrymmu i fawrhydi Duw weddiau, eluſennau, a gweithredoedd da dynion; a phan b'om ni yn dwyn ein haberth o weddi at droed fainge gorſedd gras, maent yno yn cael eu cyflwyno i fawrhydi Duw gan ſeintiau ac angylion, ei weinidogion anwyl a chymmeradwy ef.*

ſel hyn wedi ei wiſgo â chroes ar ei fron, a'r offeiriaid a'r diaconiaid yn breſennol, a ddygir i'r eglwys, lle bydd y gweddiau yn cael eu gweinidogaethu gyd ag arogl-darth, ar i Dduw dderbyn ei enaid ef i anneddle'r gwynfydedigion: lle na bo gwraig, neu geraint ag a wnelo ddigon o wylofain, mae benwod pwrpaſol, ag a fedrant wylo a gwneud pob lleiſiau triſtwch ag ſydd yn cael eu hurio at yr achos; a phan dodir y corph yn yr eglwys, a gwaſanaeth y gladdedigaeth wedi darfod, cyfeillion y marw a guſanant y groes ar ei fron ef, ac yna ei enau, a'i dalcen; ac yna pob un a fwyt ddarn o fara, ac a yf laſſaid o win yn yr eglwys, gan ddymuno gorphwysfa i'r enaid, a chyſur i'r tylwyth cyſtuddiedig: ymhen wyth diwrnod ar ol yr angladd ffryns y marw a ymwelant â'r perthynaſau, ac ant gyd â hwy i'r eglwys, i uno mewn gweddiau er llonyddwch a gorphwyſfa yr enaid a ymadawodd; ar ba amſer bydd y gwŷr yn bwytta ac yn yfed, yn yr eglwys, tra fo y benwod yn adnewyddu eu galarnadau gyd â ſgrechfau ac wylofain, a phob arwyddion eraill o ynfydrwydd a chynnwrf meddwl.——Ond am gyflwr eneidiau wedi ymadael â'r bywyd hwn, y mae gwahanol farnau yma gan ei fod yn bwngc heb ei gyflawn derfynu yn y counſils: p'odd bynnag, credo *Anatolia* yr hon a dderbynir yn gyffredin gan ddiſinyddion y *Groegiaid* ſydd yn maintaino yn eglur yr athrawiaeth hon; ſef bod yr eneidiau pa mor gynted bynnag ag y ddattodir hwynt o lyſetheiriau'r corph, yn myned naill ai i'r nef ai i uffern; y rhai ſydd yn myned i'r nef, ſydd yno yn eiſtedd, ac yn eiriol tros y rhei'ny ag ſydd ar y ddaear, mewn anrhydedd i ba rai cenir bob dydd hymnau o fawl a gogoniant: y rhai ſydd yn myned i uffern ſydd o ddau fâth, y cyntaf yw y rhai ſydd yn marw mewn cyflwr o ddigoſaint dwyfol, ar ba rai goſodir yn union gadwynau a llyſetheiriau, y rhai na's gellir eu tynnu

ymaith

ymaith na'u dattod i eitha tragwyddoldeb. Yr ail iath yw y rhai ſy'n deſgyn i uffern heb y rhwymau a'r arteithiau ag ſydd yn caethiwo ac yn cyſtuddio'r damnedigion; ond gan eu bod yn gadael y byd hwn gyd â rhyw dueddiadau at gyfiawnder, edifeirwch, a bywyd newydd; gyd â'r fantais o gyfaddefiad, a gollyngdod yr offeiriad; er na fydd gwaith gras wedi ei hollol berffeithio ynddynt, na'u bwriad o dduwioldeb wedi cyrhaeddyd ymlaen i weithred; etto eu tueddiadau, eu dymuniadau, a dechreuad duwioldeb gaiff ei wneuthur yn gymmeradwy, a'i ddwyn i bárch ac addſedrwydd o flaen Duw, nid trwy un gwaith a wneir yn y byd neſa, ond trwy roddion, offrymmau, eluſennau, a gweddiau yr eglwys, wedi ei wneud gan y byw ar y ddaear tros y meirw: ond nid y'nt yn meddwl fod y lle hwn yn wahanol oddi wrth uffern, megis purdan, fflammau pa un ſy'n puro, ac yn gwneud iawn am bechod, fel dywaid eglwys *Rufain*: ond ni's gall yr enaid, meddant, y pryd hynny, na thrwy ddiodde, nac edifeirwch i gael maddeuant iddo ei hun, ond gweddiau y ſeintiau ar y ddaear, eu heluſenni, eu haml offrymmau, ynghyd ag eiriolaeth y merthyron ſanctaidd, a'r holl eglwys orfoleddus, all agor drws paradwys i eneidiau ag oedd yn hiraethu ac yn ſychedu am ras ar eu marwolaeth.—Ond ni chaiff y gollyngdod hyn ddyfod hyd ddydd y farn, cyn pa amſer, meddant, ni's gall *ſentens* y pedwar patriarch, na gorfodiadau y ſynod gyffredin, nac eſgobion yr holl fyd, trwy eu hawdurdod, na'u hindulgences i bennu amſer am ryddhad un enaid o gyffiniau uffern.

Eu. Ai eglwys *Groeg* ſydd yn *Rufia*?

Ap. Rufia * oedd hollol *Baganaidd* hyd y flwy-

* *Rufia* ſydd un o'r ymerodraethau mwya yn y byd, a rhan ei hyd a'i lled, mae'n 3000 o filltiroedd o hŷd, a 1500

ddyn 990, pa amſer trwy briodas *Weldemirus* duc o *Ruſia*

1500 o led o leia, ond mae dwy ran o dair o honi o leia heb gael ei thrin, na bod ond prin yn drigiannol; ac ni's gall neb drigo yn eitha'r gogledd, a phrin gall na choed na glaſwellt dyfu yno: ond y mae'r tu deheu a chanol y wlad fawr hon mor ffrwythlawn rai mannau o honi ag un rhan o *Aſia* neu *Europ*, yn dwyn pob math o ydau, a ffrwythau ag nad yw yn gofyn gwres mawr yr haul: ond y tu gogledd mae eira yn ei gorchguddio tros naw mis o'r flwyddyn; ac mae canol *Ruſia* 6 mis yn y flwyddyn tan eira; mae rhew yno trwy'r gaua, and mor gynted ag y dadleutho y rhew a'r eira, fe dyf coed a gwellt yn fuan i ryfeddu. Nid oes un wlad yn dwyn mwy o fel a chwyr nâ *Ruſia*, fel mae llawer yn gwneud eu hunain yn gyfoethog iawn trwy y pethau hyn. Canys hwy dorrant i lawr lawer cant o brennau mawr on yn y goedwig, ac wedi rhannu corph y pren yn amryw rannau, hwy a'i tyllant ef yn gau gan ſtoppio pob pen, yn unig gadael twll bychan i'r gwenyn fyned i mewn: pob gwr a dorro lawr, ac a barottoa y coed hyn at gael mel, ſydd â hawl ganddo ynddynt wrth gyfraith y wlad, ac ni's gall yr eirth gael gafael yn y mel er eu bod yn waſtad yn ymofyn am dano. Mae meth cryf yn cael ei wneud o'r mel. Maent yn y wlad hon yn bwrw rhifedi mawr iawn o angorau canonau, mortarau, bombs, a phob mân arfau rhyfel. Mae ganddynt y ffurrs, a'r crwyn mwya gwerthfawr yn *Europ*; ac mae'r fath dryſorau llawn o'r pethau hyn yn *Petersburg*, fel dywedant fod gwledydd eraill yn llwytho mil o longau bob blwyddyn o honynt.—Maent yn trafaelio ar geir, yn cael eu lluſgo gan geirw, neu fath o hyddod: yn *Lapland* yr eira fydd wedi rhewi yn ddigon caled i'w dwyn hwynt: mae'r ceirw hyn yn rhedeg mor gynted a cheffylau rafes, megis pe baent yn hedeg o un bryn o eira i fryn arall. Maent ynghanol *Ruſia* yn trafeilio ar geir yn cael eu lluſgo gan geffylau, ac mae'r ffyrdd trwy'r eira wedi cael eu caledu cyſtal fel y trafeulant nos a dydd mewn math o gerbydau ar geir, mor gyflym fel yr ant o *Petersburgh* i *Moſcow*, yr hyn ſydd 400 o filltiroedd, mewn tri diwrnod a thair nos: a chanddynt le cyfleus yn y cerbyd i orwedd i lawr a chyſgu, ond y ceffylau ſydd yn cael eu cyfnewid bob 15 milltir.

o *Ruſia* a thywyſoges *Anne*, chwaer *Conſtantinus* ymerawdwr *Conſtantinopl*, daeth *Ruſia* i gofleidio eglwys *Groeg*; ac byth ni's cyfnewidiaſant mo honi hyd heddyw; ond yn unig dewigiadau mewn rhai pethau; ond y ſylwedd ſy'n para yr un fyth.

Eu. Manegwch y cyfnewidiadau, neu y diwygiadau.

Ap. Deallwch fod patriarch *Conſtantinopl* yn ben ar holl eglwys *Groeg* yn *Ruſia*, ac etto â'i eiſteddfod batriarchaidd yn *Conſtantinopl*, tan anadl y *Grand Seignior* gynt; ond am ryw achoſion, y *Grand Seignior* a'i gyrrodd ef i *Seio*, ynys o'r *archipelago*, ac oddi yno yr oedd efe yn llywodraethu holl eglwys *Ruſia*; a'r ymerawdwr ei hun a'r offeiriaid oedd yn gorfod danfon rhoddion iddo yno, ac addef daroſtyngiad ac ufudd-dod yſprydol dyledus iddo. Ond y patriarch hwn ag oedd yn awr â'i eiſteddfod yn *Seio*, ddaeth i *Moſcow* †, lle yr oedd y pryd hyn eiſteddfod ymerawdwr *Ruſia* ei hun, ac a berſwadiodd yr ymerawdwr i droſglwyddo yr eiſteddfod batriarchaidd yno, gan wneud yn eglur i'r ymerawdwr fod yn hollol afreſymmol i aros tan awdurdod y *Twrc* yn hwy, am fod eglwys *Ruſia* yn wir ferch i eglwys *Groeg*, yn dal yr un athrawiaeth, a ſeremoniau a hi; a'r lleill ſef deiliaid y *Twrc* wedi ſyrthio ymaith oddi wrth y wir broffes at *Fahometaniaeth*, a'r pryd hyn darfu i'r ymerawdwr a'i offeiriaid ymgaſglu i *Moſcow*, lle penderfynwyd i *Mitropolitian Moſcow* gael ei gyhoeddi yn batriarch o holl eglwys *Groeg* yn *Ruſia*; ac i gael yr un awdurdod a rhagorfraint ag oedd gan batriarch *Conſtantinopl*; ac er mwyn gwneud y peth

† Mae *Moſcow* ei hunan yn un o'r rhyfeddodau mwyaf yn ymerodraeth *Ruſia*; mae yn cynnwys pedair tref ac ynddynt dri phalas brenhinol, tri o geſtyll cedyrn, a 12 cant o eglwyſi, 400 o balafau arglwyddi, a'r holl ddinas yn 30 milltir o gwmpas, ac nid llai nag o ugain i ddeg ar hugain o ſonachlogydd ſydd yn y ddinas ac o ddautu iddi.

y peth mewn mwy o dreſn a rhagor o ardderchowgrwydd yn y flwyddyn 1588 darfu i'r hen batriarch gyd â'r offeiriaid fyned i mewn i eglwys *Precheſte* yr hon oedd ym mhalas yr ymerawdwr, (wedi yn gyntaf wneud proceſſiwn trwy yr holl ddinas, a bendithio'r bobl â'i ddau fys) a gwneud yno araith, ac a roddodd i lawr ei ffon batriarchaidd, yr hon a dderbyniwyd yn union gan metropolitian *Moſcow*; a thrwy amryw ieremoniau eraill efe a wnaethpwyd yn batriarch ar holl eglwys *Groeg* yn *Ruſia*. Ond ni's parodd hyn ond tros un ar ddeg o batriarchiaid, canys pan daeth *Peter Xar* yn ymerawdwr ar *Ruſia*, fe ddiddyfnodd y ſwydd hon o batriarchaeth fel peth diddefnydd, ac a aeth ei hunan yn ben i'r eglwys; ac a gymmeroedd iddo ei hunan diroedd, a refeniws ag oedd yn perthyn i'r patriarch, yr hwn hefyd ar rai achoſion arbennig oedd yn acto yn gyhoedd yn yr eglwys fel patriarch: canys y patriarchaid o'r blaen oedd nefaf at yr ymerawdwr mewn awdurdod a gallu yn arglwyddiaethu ar gydwybodau dynion, ac yn fynych y patriarch fyddai un o frodyr yr ymerawdwr, neu berthynas agos iddo, ac wrth ei ſwydd yn gorfod cyfaneddu yn y brif ddinas; ac felly byddent yn arferyd plotto yn erbyn yr ymerawdwr yn ei abſendoldeb, neu tan law yn cefnogi gelynion pellennig; yr hyn anghyfleuſdra ddarfu i'r ymerawdwr yma *Peter Xar* o'i fawr ddoethineb i fymmud ymaith: ond er diddyfnu'r batriarchaeth, etto mae fyth yn aros yno fetropolitaniaid, archeſgobion, eſgobion, ac offeiriaid, fel yn y rhan arall o eglwys *Groeg* ag fydd tan awdurdod y Twrc.‡

Eu.

‡ Gwiſgoedd y Metropolitaniaid, yr archeſgobion, a'r eſgobion, pan b'ont yn ymddangos ar amſerau nodedig, yw meitr, neu goronau ar eu pennau, wedi gofod ynddynt berlau a meini gwerthfawr, clogau ar eu cefnau, hyd eu traed,

Eu. A wnaeth y *Peter Xar* yma ddim diwygiad yn rhagor yn eglwys *Ruſia?*

Ap. Do, canys ſe ſynnodd brintio cateciſm o holl egwyddorion y ffydd, ac agoriadau ar y deg gorchymmyn, y Gredo, a gweddi yr Arglwydd, yr hwn gateciſm ſydd yn bur iachus ond rhyw ychydig ar yr ail orchymyn ynghylch addoliad delwau; ac heblaw hyn, er y nifer fawr ſydd o wyryfdai a monachlogydd yn *Ruſia*, ſe wnaeth na bai neb i gymmeryd llw gweddwdod tan 50 oed, ac a'ſgrifennodd lythyr at y metropolitaniaid a'r archeſgobion ſel patriarch i'w gorchymyn a'u ſiarſo i fyned oddi amgylch yr eglwyſi, ac edrych fod pob peth yn cael ei wneud ar ol gair Duw a chydwybod union: heb yſgymmuno neb o falis, llid, na chenfigen, ac iddynt farnu yn union ac ymddwyn yn addfwyn at wrthwynebwyr crefydd, ac i gadw'r monachod o fewn y rheolau oſodwyd iddynt, a pheidio gwneud offeiriad o un diben ariangar.---Dewiſiad metropolitaniaid, eſgobion, ac archeſgobion ſydd ar law yr ymerawdwr ei hun, ac yr ydys yn cu dewis yn waſtad o rai o'r monachlogydd, fel nad oes un eſgob, archeſgob, na metropolitian na ſu yn fonach o'r blaen; ac felly mae yn rhaid iddynt fod yn weddwon. Mae ganddynt hefyd eu deonau, a'u harch-ddeonau: a'r lleill o'r offeiriaid yw'r archimandrites, y rhai ſy'n llywodraethu'r monachod; ac eraill a elwir igumones

---

traed, o brocade gwerthfawr, wedi ei embroidro â pherl; ffon eſgobaidd yn eu dwylo wedi ei gorchguddio â dalennau arian, a'u cwilto yn ddwbl ag aur, ac naill a chroes a bach bugail fydd ar ei phen. Eu gwiſg gyffredin pan y bont yn marchogaeth allan yw hwd ddu ar eu pennau, yn hongian i lawr i'w cefnau, a'u gwiſgoedd uwchaf yw gŵn o ddamaſg du, a rhieiniau o ſatin gwyn wedi ei rol arno, a'u ffon eſgobaidd yn cael ei dwyn o'u blaen, a'r bobl hwythau ar yr achos hyn fydd yn crynhoi o bob goror i dderbyn y ſendith dadol, yr hon maent yn ei roi â'u dau ſys mewn dull gyflym i ryſeddu.

igumones ag ſy'n llywodraethu 'r manacheſau: ac yna canlyn y papau, a'r protopapau, y rhai yw yr offeiriaid a'r archoffeiriaid gwladaidd, rhifedi y cyfryw rai ynghyd â'r monachod a'r gwyryfon ſydd yn fawr iawn; y rhai hefyd y'nt gan mwyaf yn bur anllythyrennog a thlawd, ac yn byw yn bennaf ar eluſenni y bobl.

Eu. A ydyw yr offeiriaid yn pregethu * yn eglwys *Ruſia?*

Ap.

---

* Eu barn hwy am bregethu ſydd fel hyn: Nad yw yn addas agor un rhan o'r yſgrythurau yn eu heglwyſi, ac nid ynt yn pregethu chwaith, am eu bod yn dal mai trwy y moddion hyn mae hereſiau, ac opiniwnau cyfeiliornus ymherthynas i'r ffydd yn cael eu cyhoeddi i'r byd. Maent yn dweud mai pregethiad cyhoedd, fel nad yw yn cynnwys dim ond cweſtiynau cyfrwys a rheſymmau dichellgar yw ffynnon yr holl gyfeiliornadau. Am ba reſwm maent yn gwrthod, ac yn gwahardd gyd â'r creulondeb mwya, bob gwrthddadlau mewn achoſion creſydd: ac os un pryd bydd ymrafael yn codi, maent yn union yn cael eu daroſtwng trwy ddoethineb a hyfforddiad da y patriarch; a bydded yr ymddadleu ynghylch tyn lleied peth ag y bo eſe ei hun ſydd i'w benderfynu. Dwedant hefyd y bydd y pregethwr wedi ei gynhyrfu gan ei nwydau yn rhy barod i dywallt allan pa beth ddelo i ſynu gyntaf, i godi cweſtiynau ac ymddadleuon, yr hyn a wna i'r bobl gyffredin gwympo i gyfeiliornad, ac felly arwain i mewn newyddion bethau mewn creſydd, fel mae pregethiad gan mwya yn gwneud mwy o ddrwg i'r gwrandawyr nag o gyſur ac adeiladaeth, lle mae darllain y Teſtament newydd, fel yr arferir yn eu heglwyſi hwynt yn ddigonol i'w dyſgu ymhob moeſau da, a'u cyfarwyddo i bob rhinweddau Criſt'nogol, a thrwy ddarllain y Teſtament newydd fel hyn, meddant, darfu i Criſt'nogion yr oeſoedd cynta gael eu hadeiladu a derbyn yr Yſpryd Glân: ac os rhaid, meddant, agor yr Yſgrythurau, gwell yw ar ol eu harfer hwy, darllen yn yr eglwyſi homilies y teidau ſanctaidd, na chaniattâu i bob offeiriad anwybodus, yr hwn ſy'n caru ymrafael, ac wedi ymchwyddo i ſynu gan hunan dyb a balchder, i gyhoeddi allan

Ap. Nag ydynt, ac nid y'nt yn medru; canys maent yn hollol annyſgedig yn yr yſgrythurau a phob gwybodaeth arall; ac am hynny y bobl heb addyſg oddiwrth eu hoffeiriaid ſydd yn byw mewn dugn anwybodaeth; yn unig ar ddau ddiwrnod yn y flwyddyn, ſef dydd calan nadolig, a dydd gwyl St. *Ioan* ſedyddiwr maent arferol o wneud araith i'r bobl, ſef pob metropolitian, archeſgob, ac eſgob yn ei eglwys gadeiriol ei hun, a hynny fydd am beidio dwyn malis at neb; neu fod yn fradwrus yn erbyn yr ymerawdwr; neu os bydd neb wedi eſgeuluſo ei ymprydiau, ei addunedau, neu gyflawnu ei ddyledſwyddau eraill i'r eglwys ſanctaidd, bod yn rhaid iddo wir editarhau, ac ni fydd yr araith ond ychydig ragor o eiriau nâ hyn; canys nid yw hi ond ffurf yn unig, er ei bod yn cael ei llafaru o bulpyd ardderchog, wedi ei oſod i fynu yn bwrpaſol at yr achos hyn, ac yn cael ei dweud gyd â'r fath ddifrifwch a phryſurdeb a phe baid yn pregethu holl ſwm y Teſtament newydd.

RHAN

---

allan mewn cynlleidfaoedd cyffredin ei opiniwnau gwallgofus ei hunan, o unig ddiben i enaill clod y werin anwaſtad. Am hynny maent yn hollol wahardd pob ymrafaelion a phob gwâg reſymmau philoſophaidd, ſel peth yn tueddu i greu cynnwrf ymhlith Criſt'nogion, ac i fod yn un o'r rwyſtrau mwya i'r ymarfer o wir dduwioldeb, gan ei bod yn llenwi y meddwl o yſpryd balchder a hunan dyb; ac o ganlyniad yn hollol ddeſtrywio gwir yſpryd Criſt'nogrwydd. Ond er hyn oll, darfu i'r ymerawdwr, *Peter Xar*, ar ol, yn ei holl deithiau, ddal ſulw defnyddioldeb pregethu, drefnu amryw offeiriaid ieuainge i'w dwyn i fynu mewn diſinyddiaeth, yn abl gyd â deall a ffraethineb ymadrodd i bregethu Gair Duw, ac agor yr Yſgrythurau: ond am wrthddadleuon mewn crefydd a phethau yn perthyn i'r ymerodraeth, maent hwy fel y lleill o'r offeiriaid tan waharddiad cyhoedd trwy awdurdod na's trinionf y fath byngciau heb awdurdod yr ymerawdwr.

RHAN IV.

PENNOD III.

Am yr Eglwys BROTESTANAIDD.

Eu. PAN oedd eglwys Rhufain fel hyn wedi putteinio oddi wrth rym duwioldeb mewn yſpryd, bywyd, ac athrawiaeth; ac yn awr yn ymddangos yn y gwir ddrych ag a roir iddi yn y Datguddiad, xiii. a'r xvii. pa le yr oedd y wir eglwys? a oedd un rhan o'r byd yn dal athrawiaeth a bywyd duwioldeb? neu ynte a oedd rhai yma, a rhai accw, yn dirgel ddal gwir athrawiaeth efengyl Criſt? canys yr wyf yn gweled eglwys Rhufain â gwedd waeth nâ phaganaidd arni: ac am eglwys Groeg, er ei bod hi yn llawer gwell o ran balchder, erlid, trais, mwrddrad, celwydd, gau wyrthiau, a phob twyll; etto, nid oes nemawr o'r hen oleuni yn ſefyll yno ag oedd yn yr amſeroedd cyntaf: ac am hynny chwant ſydd arnaf wybod pa le yr oedd y wir eglwys yn y dyddiau tywyll cyfeiliornus hyn?

Ap. Yr oedd y dyddiau hyn o wrthgiliad ſel dyddiau *Ahab*, pan oedd yr holl brophwydi wedi myned ar ol *Baal*, ac *Elias* yn tybied nad oedd ond ef ei hunan yn wir addolwr, a'u bod yn ceiſio ei einioes ynteu; nes i Dduw dyſtio iddo ſod ganddo ſaith mil yn *Iſrael* y rhai ni phlygaſant eu gliniau i *Baal*: felly 'nawr pabyddiaeth oedd yn llanw wyneb tir y gorllewin; deg neu ddeuddeg o deyrnaſoedd mawrion a helaeth oedd yn *Europ*

yn

yn gorwedd tan iau'r pab, a than dywyllwch eglwys Rhufain: ond etto er cymmaint o rwyſg oedd gan y diafol yn y dyddiau hyn, yr oedd gan Dduw eglwys yn ddirgel mewn amryw fannau o'r byd, ſef rhyw rai yn dal athrawiaeth ei efengyl ef; a hynny ymhob oes, ac ymhob gwlad agos ag oedd pabyddiaeth yn ei goreſgyn. Ond deallwch hyn nad oedd eglwys Rhufain wedi myned mor ofnadwy hyd onid o ddautu 1076 ac 1100 o oedran ein Harglwydd; ac oddi yno ymlaen y cynhyddodd hi yn echryſlon hyd ddiwedd y pymthegfed cant, pan torrodd *Luther* ac eraill allan; ac y gwnaethant ddifrod rhyfedd ar ei holl egwyddorion cyfeiliornus hi.*

S s *Eu.*

---

* Canys o ddautu'r wythfed, nawfed, a'r degfed cant o oedran ein Hiachawdwr, er fod eſgob Rhufain wedi myned ag awdurdod mawr iawn, etto nid oedd yr hanner, na'r ddegfed ran ag a ddaeth ganddo wedi'n; nid oedd brenhinoedd etto yn ddaroſtyngedig iddo; nid oedd yr eſgobion, a'r archeſgobion yn ei hollol goelio; ond yn fynych yn gwrthwynebu ei athrawiaeth; ac nid oedd ef yn dywyſog tymhorol etto fel y daeth ef wedi'n i fod, i goroni, a dadgoroni brenhinoedd, eſgymmuno ymerawdwyr, gwneud cardinaliaid wrth ei ewyllys ei hun, troi ſynodau at ei farn a'i feddwl ei hun, gwerthu pardynau, torri priodaſau offeiriaid, gwneud na bai un gwr gwreigiog yn eſgob, arch eſgob, offeiriad, na diacon: yn nyddiau pab *Ffildebrand* neu *Gregory* y 7fed, ſef o ddautu 1076, y dechreuodd eglwys Rhufain gadarnhau yr hereſiau hyn; canys o'r dechreu hyd yn awr yr oedd torfeudd o eſgobion cymhedrol, ac er cymmaint oedd o gyfeiliornadau yn y pab a'i offerynnau, etto yr oeddid yn diodde rhydd did rhagor nag ar ol llaw (am na's gallfai lai) i'r holl wledydd i arfer, i gredu, a phregethu eu hathrawiaeth ar ol eu cydwybod eu hunain: Ac amryw iawn o ſynodau y pryd hynny yn *Ffraingc*, *Germany Lloegr*, ac yng nghymydogaethau'r pab ei hunan, a wrthſafodd ei gyfeiliornadau, ac a droes yn ol farn ſynodau ag oedd o'i du ef; ac felly yn

y dyddiau

Eu. Mynegwch pa rai gynta fu hynod am gadw i fynu at wir grefydd yn y dyddiau ofnadwy hyn.

Ap. Rhaid ich' ddeall nad oedd dim printio hyd o ddautu'r flwyddyn 1450, ac am hynny mae llawer llai o hanes am fywyd a duwioldeb y prif-ddduwiolion nag allafai fod: canys nid pofibl cael copiau o'r 'fgrifenlaw, a'r rhei'ny mor anaml; ac hefyd wrth yftyried fod y papiftiaid mor awyddus i lofgi, ac i ddifa pob llyfr Heretic, fel y galwent ef, na fai dim o hono mewn bod. Ond etto er gwaetha'r cwbl, darfu i ragluniaeth drofglwyddo i lawr i ni o oes i oes, o'r dyddiau y gorphenwyd y Teftament newydd hyd yn awr, amrywiol hanefion ag fy'n manegu i ni y gwir am ferthyrdod, athrawiaeth, ffydd, gwroldeb, ac amynedd amrywiol o hen ddiwygwyr a aethant i'r nefoedd trwy dân.

Eu. A oedd rhai ymhob oes o dywyllwch y grefydd babaidd fel hyn yn gwrthwynebu 'r Pab a'i gyfeiliornadau?

Ap. Oedd, canys o ddautu, ac ychydig cyn yr amfer y dyrchafodd y Pab i'r radd uchaf, y cynhyrfodd yr Arglwydd amrywiol iawn mewn amryw o deyrnafoedd *Europ*, i fefyll tros y gwirion-edd; a'r rhai'n a enwid ar ol amrywiol enwau, oddi

---

y dyddiau hyn nid oedd cymmaint erfid a merthyru; ond ymrafaelion ynghylch pyngciau crefydd, cadw fynodau yn aneirif am athrawiaethau, feremoniau, amferau gwyliau. a'r fath; nes, fel y dywedais, i bab *Gregory* y 7fed godi, yr hwn ddechreuodd ddercha'u uwch brenhinoedd, fywyfogion, arglwyddi, a holl bendefigion *Europ*; gan eiftedd yn lle Duw, a galw ei hunan ar enw Duw. Ac o'r amfer hyn allan mae i ni ymofyn pa le yr oedd eglwys Crift; canys o'r amfer hyn hyd ddiwedd y bymthegfed canfed flwyddyn yr aeth y pab a'i offerynnau i'r uchder mwya o rwyfg, balchder, rhyfyg, a chreulondeb; i ladd, i ferthyru, i ddifwyddo brenhinoedd, efgymmuno ymerawdwyr, a marchogaeth ar yfgwyddau dynion.

oddi wrth naill ai'r lle yr oeddent, neu oddi wrth enwau eu blaenoriaid; megis *Berengariaid*, oddi wrth un *Berengarius*; *Pichardiaid*, oddi wrth le elwir *Pichardi*; felly *Leoniſtiaid*, *Waldenſiaid*, *Albigenſiaid*, *Lollardiaid*; ac o'r diwedd *Wicliffiaid*, a *Lutheriaid* mewn oeſoedd diweddarach, oddi wrth *Wicliff* a *Luther*.

Eu. Adroddwch ychydig am y diwygwyr hyn? a pha amſer yr oeddent: a pha ſodd darfu iddynt wrthſefyll eu gelynion, a therfynu eu dyddiau.

Ap. Fe ſafodd i fynu un *Berengarius* yn fuan ar ol y filfed flwyddyn o oed ein Harglwydd, ac a bregethodd yn erbyn cyfeiliornadau'r pab, ac o ddautu 1110 daliwyd ſulw arnynt eu bod yn neilldu oddi wrth eglwys Rufain; ac a aethant yn ffiaidd yngolwg y Rhufeinwyr, ac ymhen ugain mlynedd wedi'n aethant yn werin fawr iawn; a chawſant un *Peter Bruis* yn bregethwr rhagorol yn eu plith, yr hwn a ddyſgodd yn hir iawn yn gyhoedd yn *Tolous*, dinas enwog yn *Ffraingc*, tan amddiffyniad pendefig enwog elwid *Hildephonſus*; ac yn y flwyddyn 1120 darfu i *Peter Bruis* gyhoeddi eu daliadau hwy mewn llyfr gyfenwid Anghriſt, lle dangoſodd ef ſylfaenau ei athrawiaeth; a'r achoſion o'i ymneilldua oddi wrth eglwys Rufain, ac o ddautu'r flwyddyn 1140 yr oeddent wedi lluoſogi cymmaint fel darfu i'r pab ymoſod i geiſio eu diwreiddio hwynt allan o'r tir; i ba ddiben darfu iddo gynhyrfu y rhai mwya dyſgedig o'i ganlynwyr i 'ſgrifennu yn eu herbyn hwynt; gan rybuddio tywyſogion i ymochelyd rhagddynt, a'u halltudio hwy allan o'u hardaloedd. Ac o ddautu'r flwyddyn 1147 yr oedd ganthynt un *Henry* o *Tolous* yn bregethwr, am ba achos galwyd hwy *Henriſiaid*; ac am eu bod yn hyddyſg iawn yn yr Yſgrythurau, ac na's cymmerent un rhyw dyſtiolaethau er profi eu hathrawiaethau ond o'r Yſgrythurau, fe'u gelwid hwynt Apoſtoliſiaid.— Ac ymhen ychydig amſer ar ol hyn, y cododd y

Waldenſiaid, a'r *Albigenſiaid*, am ba rai mae llawer iawn i ddywedyd.

Eu. Mi glywais ſon lawer am y rhai'n, am hynny ewch rhogoch.

Ap. Cawſant eu henwi oddi wrth un *Peter Waldo*, dinaſydd o Lions yn Ffraingc, o ddautu'r flwydd-yn 1160, yr hwn gafodd ei argyhoeddiad cyntaf oddi wrth farwolaeth ddiſymmwth un o'i gyfeill-ion, yr hyn a weithiodd gymmaint arno ag y darfu iddo o hynny allan hollol roddi ei hun i wir grefydd; ac am ei fod yn gyfoethog, fe gyf-rannodd ran fawr o'i dda i rai anghenus, ac a ddechreuodd addyſgu ei holl deulu i adnabod y wir ffydd, a rhybuddio pawb a ddeuai atto i edi-feirwch a bywyd newydd. Ac o ran ei aml elu-ſenni a'i gynghorion melus, gwerin fawr a gryn-hodd atto nes o'r diwedd wrth weled eu paod-rwydd i ddyſgu, iddo gyfieithu iddynt ryw rannau o'r Yſgrythurau i'r Ffrangeg, yr hon o'r blaen oedd yn hollol anadnabyddus iddynt. Yn awr yr eſgobion, a'r offeiriaid wrth ei weled yn cyffwrdd â'r Yſgrythurau, a bod cymmaint iddo hefyd o ganlynwyr, ni's gallent ddiodde i'r Yſgrythurau gael eu hagoryd gan neb arall, na chymmeryd y poen eu hunain i'w hagor hwynt; ac felly hwy a ſwgwthaſant ei eſgymmuno ef, os na's rhoi hei-bio y ffordd yma; gan ei ganlyn o hyn allan fel Heretic. Ord *Waldo* attebodd na's gallaſai efe fod yn ddiſtaw mewn achos o'r fath bwys a iech-ydwriaeth eneidiau dynion, lle'r oedd iddo ufudd-hau i Dduw yn hytrach nâ dynion. Yna y ceiſ-iodd yr archeſgob ei ddal ef ond ni's gallodd, am fod cynnifer o gyfeillion gan *Waldo*, fel y cadwyd ef ynghudd tros dair blynedd yn Lions, dinas yn Ffraingc. Y pab wedi clywed fod amryw ddyn-ion yn Lions yn ammeu ei unbennaeth ef tros yr holl eglwys, a felldithiodd *Waldo* a'i ganlynwyr, gan orchymyn i'r archeſgob ofod arnynt geryddon eglwyſig, tu ag at eu llwyr ddiddyſnu allan o'r tir;

ac

ac felly taflwyd hwy allan yn hollol o Lions, ac yna y galwyd *Waldo* a hwythau yn *Waldenſes*, y rhai wedi hyn a dannaſant eu hunain i amryw wledydd: *Waldo* ei hun aeth i *Daphiny*, yr hon ſydd mewn ardal o *Ffraingc*, gan gyfeillachu yn y mynyddau hynny â phobl ddiddyſg anwybodus, y rhai a drodd ef i'r ffydd. Ei ddilyblion a dannaſant i *Pichardy*, lle galwyd hwy *Pichardiaid*: yn erbyn pa rai y cododd y brenhin *Phillip* arfau, ac a ddeſtrywiodd 30 o deiau pendefigion ag oedd yn glynu wrthynt, ac a ddinyſtriodd rai trefydd mur'c g gan ganlyn ar eu hol hwynt i *Flanders* l e y ffoiſant, ac a wnaeth i lawer o honynt yno gael eu lloſgi i farwolaeth. Parodd yr erledigaeth yma i amryw o honynt ffoi i *Germany*, ac *Alſatia*, l e tannaſant eu hathrawiaeth; ac ymhen ychydig wedi'n eſgobion *Mayence* a *Strasburgh* a godaſant erledigaeth fawr yn eu herbyn, gan beri i 35 o ddinaſyddyddion *Mayence* i gael eu lloſgi mewn un tân, a 18 mewn tân arall; y rhai gyd â'r dianwadalwch mwya a ddioddefaſant farwolaeth. Fe loſgwyd pedwar ugain o honynt yn *Strasburgh* dinas yn *Germany*, wrth arch yr eſgob, etto llu-cedd o bobl a dderbyniaſant y fath adeiladaeth oddi wrth gynghorion, dianwadalwch, ac amynedd y merthyron hyn, fel y cynnyddaſant mor rhyfedd o oes i oes, fel yn y flwyddyn 1315, yn ardal *Paſſau* yn *Germany*, ac o ddautu *Bohemia* yr oedd tros bedwar ugain mil ag oedd o'r ffydd hon.

Eu. A ddaeth neb o rhai'n i *Loegr*?

Ap. O ddautu'r flwyddyn 1160 daeth rhai o honynt i *Loegr*, ac fe'u coſpwyd hwy yn *Rhydychen* yn y dull mwya creulon a barbaraidd: ac ymhen tair blynedd eilwaith yng nghounſil *Turon* yn *Ffraingc* 1163. darfu i bab *Alexander* y trydydd wneud decree fod i'r holl efangylwyr hyn, a phawb ag oedd yn eu perchi i gael eu heſgymmuno, ac na chai neb werthu iddynt, na phrynu ganddynt. Onder yr holl ddyſais hyn yn eu herbyn hwynt,

yr oedd ganddynt eglwyſi ardderchog yn *Bulgaria*, *Croatia*, *Dalmatia*, a *Hungary*; ac ſe ddywed *Ceſarius* yr haneſiwr fod yr hereſi hon fel y gellw ete hi wedi cynnyddu cymmaint fel mewn ychydig amſer darfu iddi lygru mil o ddinaſoedd. Ac ſe ddywaid *Parſon*, hiſtoriwr arall, fod ganddynt fyddin o drugain mil a deg o wyr i ryfela troſtynt; a'u bod wedi ymdannu cymmaint yn *Germany*, fel gallent draſaelio o *Collen* i *Milan* yn *Italy*, a llettya bob nos mewn tciau o'u proffes eu hunain. Rhwng y flwyddyn 1176 ac 1226 ſe wnawd cymmaint dinyſtr ar y Criſt'nogion tlodion yma, fel pan ddarfu i archeſgobion *Aix*, *Arles*, a *Narbonne* i ymgynnull ynghyd ar arch yr incwiſitoriaid i ymddiddan â hwy ynghylch amryw anhawſtra ynghylawniad eu ſwyddau, y cymmeraſant doſturi ar y rhitedi mawr ag oedd yn cael eu cyhuddo a'u tafiu i garchar, gan ddweud ni a glywſom i chwi ddal y fath liaws o'r *Waldenſes*, fel nad yw ddim yn unig yn amhoſibl i ddwyn traul eu hymborth, ond hefyd parottoi calch a cherrig i adeiladu carcharau iddynt; yr ydym ni gan hynny yn eich cynghori chwi i ymattal y creulondeb hyn, hyd onis caffo'r pab wybod a dangos pa beth a fyn ef wneuthur yn yr achos hyn. Ond er yr holl ddioddefiadau hyn yr oedd yn y flwyddyn 1260 ar ol y cyfri mae un *George Morrel* hiſtoriwr hynod yn ei roddi, wyth cant o filoedd o ddynion ag oedd yn gwneud proffes o'r ffydd hon, heblaw yr eglwyſi oedd ganddynt yn *Valentionis*, lle yr oedd eu ffydd hwynt yn ymdannu o dad i fab; a'u crefydd hwynt a ymwalgarodd tu hwnt i'r *Alps*, i ddyffryn *Pragela* o fewn i archeſgobaeth *Turin* yn *Italy*, oc oddi yno y poblwyd gan y *Waldenſes* ddyffryn *Piedmont*, *Loperous*, St. *Martin*, *Agrogile*, gwledydd yr *Idal*, &c. a dyffryn *Pragela* oedd un o'r noddfeudd mwya ſicr ag feddai'r *Waldenſiaid*, am ei fod wedi ei amgylchu â mynyddoedd anhygyrch o bob tu, i ogfeudd pa rai y byddent yn cilio mewn amſer erle-

erledigaeth : ac er eu bod yn cael eu gwanhau o bob ochr, eu hamgylchu gan elynion, ac mewn perygl o'u dal os edrychent allan o'u dryſau ; etto nid oedd un egwyddor fydol ag oedd â gallu i gyfnewid eu bwriadau ſanctaidd o dad i fab i waſanaethu Duw, ac i gymmeryd ei air ef yn rheol o'u ffydd, a'i gyfraith yn rheol o'u hufudd-dod : ie mor gynted ag y byddai'r baban yn cael ei ddiddyfnu oddi with fronnau ei fam, y byddai y rhieni yn cymmeryd pleſer neillduol i'w haddyſgu hwy yn y ffydd Griſt'nogol. Nid oedd eu gweinidogion hefyd yn pregethu iddynt ar y ſabbathau yn unig, ond hefyd ar ddyddiau yr wythnos yn eu dyſgu hwynt yn y pentrefi a'r wlad oddi amgylch, heb arbed eu hunain er oerfelgarwch y tywydd, ac uwchder y mynyddoedd, lle yr oeddent yn gorfod dringad i fynu greigydd ſerth i ymweled â'u praidd. Yr oedd dyſgyblaeth fanol hefyd yn eu plith, a chanddynt yſgolion ym mha rai yr oedd eu plant yn cael eu dwyn i fynu. Y *Waldenſes* hyn hefyd oedd wedi ymdannu i amryw wledydd o *Europ*, megis *Bohemia*, *Auſtria*, *Germany*, *Flanders*, *Poland*, *Italy*, *Spain*, *Dalmatia*, *Croatia*, *Sclaſonia*, *Grecia*, *Philadelphia*, *Livonia*, *Sarmatia*, a *Bulgaria*, ymha lecedd oll, ryw bryd neu gilydd darfu iddynt ddiodde erledigaeth.

Eu 'Rwi'n deall bod eu hathrawiaethau yn hollol wrthwyneb i eglwys *Rufain*.

Ap. Eu daliadau hwy oedd yr un peth ag yw yr eglwys ddiwygiedig ; ac mae eu gelynion eu hunain yn gorfod, with geiſio eu gwradwyddo, ddweud am burdeb eu daliadau. Ac yn 1. dalient fod yr Yſgrythur ſanctaidd yn unig i'w chredu mewn pethau yn perthyn i iechydwriaeth, ac nid yſgrifenadau neb dynion. 2. fod pob peth yn gynhwyſedig yn yr Yſgrythur ſanctaidd angenrheidiol i iechydwriaeth ; ac nad oes dim i gael ei dderbyn mewn crefydd ond yn unig yr hyn gaffo ei orchymmyn yng air Duw. 3. Criſt i fod yn

unig

unig Gyfryngwr ; ac nad yw ſcintiau mewn un dull i fod yn gyfryngwyr nac i alw arnynt. 4. nad oes un purdan, a bod pob dyn ſydd y'Nghriſt gael ei gyfiawnhau i fywyd, neu heb fod y'Nghriſt gael ei gondemnio i drueni : ac heblaw nefoedd ac uffern nid oes un lle i fod. 5. fod pob *maſſau*, yn enwedig y rhai genir tros y meirw yn durygionus. 6. bod i holl draddodiadau dynion i gael eu gwrthod, ac yn y rhan leia nid y'nt i gael eu cyfri yn angenrheidiol i iechydwriaeth, am hynny y canu a'r chanto diachos yn y gangell i'w adael heibio : diwrnodau ac amſerau nodedig cymmelledig o ymprydio ; gwahaniaeth bwydydd ; y fath amrywioldeb o raddau, ac urddau offeiriaid, ffriers, monachod, gwyryfon, dyddiau gwylion diachos, cynnifer o amrywiol roddion i'r eglwys, addunedau, pererindodau, a'r holl wag ſeremoniau ddygwyd i mewn gan ddyn i gael eu hollol ddiddyfnu. 7. Unbennaeth y pab ar yr holl eglwyſi yn enwedig ar bob llywodraeth wladaidd i gael ei wadu, ac nad oes un radd i fod yn yr eglwys ond eſgobion, offeiriaid, a diaconiaid. 8. fod y bara a'r gwin i gael eu rhoi yn y ſacrament i'r bobl ar ol ordinhad Criſt. 9. Mai eglwys *Rufain* yw *Babilon* fawr a ſonir am dani yn y *Datguddiad* ; ac mai'r pab yw ffynnon pob cyfeiliornad, ac mai ef yw'r anghriſt. 10. fod priodaſau offeiriaid a gwyr mewn urddau i fod yn dduwiol. 11. Mai'r rhai ſy'n gwrando gair Duw a chanddynt union ffydd yw gwir eglwys Criſt, ac i'r eglwys hon mae allweddau teyrnas nefoedd wedi eu rhoddi, i darfu bleiddiaid, ac i ſefydlu gwir ſugeiliaid i bregethu gair Duw, a gweinidogaethu y ſacramentau. Y rhai'n a'r cyfryw oedd eu daliadau yn erbyn eglwys *Rufain*. Ac ymhen tro eilwaith pan daeth pardynau'r pab a'i indulgenſes ef allan, fe wnawd artic1 arall yn erbyn y rhai'n.

Eu. A oes gennych ddim hanes o'u bywydau,

a'u

a'u harferion yn eu haddoliadau, ac yng nghyfeillach eu gilydd?

Ap. Oes, canys mae un o lyfrau'r oefoedd hynny yn rhoi hanes am danynt fel hyn, Maent yn cwympo ar eu gliniau, gan bwyfo ar ryw dwyn, pren, neu ryw attalfa arall, ac yno gweddiant mewn diftawrwydd yr ennyd y dwedai un 30 pader neu ragor: a hyn hefyd maent yn wneud ymhlith eu gilydd bob dydd gyd ag eitha parch, heb adael neb dieithriaid gyd â hwynt; o flaen ac ar ol ciniaw, a fwpper hefyd y gwnânt hyn; ac eilwaith pan elont i'w gwelau; ac yn y borau pan godont, ac ar amferau eraill yn gyftal y nos a'r dydd; ac nid ynt yn yr achos hyn yn arfer un weddi ar *Fair* na neb feintiau, nac un rhyw ffurf chwaith, ond yn unig gweddi yr Arglwydd; maent yn arfer faith articl y ffydd am dduwdod Crift, a faith articl am ddyndod Crift; y deg gorchymyn, a'r faith weithred o drugaredd, y rhai ddarfu iddynt grynhoi ynghyd mewn un llyfr cryno, gan ymhyfrydu llawer ynddo; gan gynnyg eu hunain yn barod i atteb un rhyw ddyn am eu ffydd. Yr hynaf o honynt yn gyffredin fydd yn dweud gras neu yn gweddio cyn bwyd; ac felly ar ol bwyd yr hynaf ry ddiolch, gan ddweud, Bydded y fendith, a'r anrhydedd, y doethineb, y diolchgarwch, y gogoniant a'r gallu i'r unig Dduw bythol, a phawb gan godi eu golygon a'u dwylo i fyny tu a'r nef, a attebant *Amen*. Ac ar ol hyn ymddiddanant â'u gilydd, gan gyngbori y naill y llall ym mhyngciau'r ffydd. Mae un *Reinerius*, gelyn perffaith iddynt, wrth geifio eu gwradwyddo yn dweud i un o honynt er mwyn ennill dyn o'r ffydd babaidd i'w farn ei hun, nofio yn y nos, a hynny ganol y gauaf, trwy yr afon *Ibis*, i fyned atto a'i ddyfgu. A'r un *Reinerius* ddywaid bryd arall, eu bod mor gyfarwydd yn yr Yfgrythurau fel darfu iddo ef weled, a chlywed dyn gwledig, anllythyrennog o honynt, ag allai adrodd trollo

holl

holl lyfr *Job* air yng air heb lyfr; ac amryw eraill ag oedd â'r holl Deſtament newydd ganddynt ar eu tafodau. A'r un awdwr ddywaid eilwaith fod eu rhifedi hwy mor fawr, na's beiddie neb eu hattal gan liaws a gallu eu canlynwyr: ac mi fues eb ef yn eu cymdeithafau holiadau hwynt yn fynych, ac yr oedd cymmaint o eglwyſi wedi cael eu gwenwyno ganthynt fel yr oedd deg eglwys gyhoedd yn yr un plwyf wedi eu llygru gan eu hereſiau. A'r *Reinerius* hwn ar ol condemnio cymmaint ag allai arnynt ſydd yn gorfod cyfaddef hyn am danynt, na fu ymhlith yr holl ſectau erioed a fu un mor niweidiol i eglwys *Rufain* a'r *Waldenſes*. Yn gyntaf am eu hynafiaeth, a'u hir barhad; ſef o amſer pab *Silveſter* yr hwn a wnaed yn bab yn y flwyddyn 316, neu fel dywaid rhai er dyddiau yr Apoſtolion. Yn ail am gyffredinolrwydd y ſect hon; am nad oedd braidd un wlad nad oeddent. Ac yn drydydd pan oedd pob hereticiaid eraill am eu cabledd yn erbyn Duw yn cael eu ffieiddio, yr oedd gan y *Waldenſes* ymddangoſiad mawr o ddduwioldeb, am eu bod yn byw yn gyfiawn ger bron dynion, yn credu pob peth yn dda am Dduw, a chanddynt holl articlau'r ffydd, yn unig eu bod yn cablu eglwys, ac offeiriaid *Rhufain*.

Eu. Pwy ydoedd yr *Albigenſes?*

Ap. Yr un oeddent a'r *Waldenſes*, yn unig iddynt gael enw arall oddi wrth ddinas *Albi* yn *Ffraingc*; canys amryw o ddyſgyblion *Waldo* aethant i'r wlad honno, ymhlith pa rai yr aeth un *Arnold*, yr hwn a lafuriodd gyd â'r fath lwyddiant fel mewn ychydig amſer nad oedd neb ai i'r maſs. O ddautu'r flwyddyn 1210 y faeſon y rhai oedd y pryd hyn yn perchennogi *Guienne*, ardal o *Ffraingc*, a ddechreuaſant gynnorthwyo yr *Albigenſes*, wedi cael eu cynhyrfu i hynny gan *Lollard*, gwr duwiol a dyſgedig, yr hwn trwy ei bregethiad awdurdodol a ddychwelodd lawer i'r gwirionedd, ac a amddiffynnodd ffydd yr *Albigenſes*; yr hwn hefyd a

'ſgri-

'ſgrifennodd agoriad ar y *Datguddiad*, lle mae ef yn agoryd amryw bethau ag a ddywedir yno am anghriſt *Rhufain*. Y gwr enwog hwn a ddaliwyd wedi hyn yn *Germany*, ac wedi ei draddodi ef i'r awdurdod gwladaidd, a loſgwyd yn *Collen*: ac oddi wrth hwn y cafodd y Waldenſes eu galw yn *Lollardiaid*. Amryw erledigaethau trymion tan amryw enwau a gafodd y bobl hyn o'r pryd y codaſant i ſynu hyd ddyddiau y diwygiad mawr; ond mor echryſlon ag un oedd honno a gawſant yn *Ffraingc* gan y brenhin yn ei deyrnas ei hun yn y flwyddyn 1545, ym mha erledigaeth y tyſtiolaethir mewn tref gyſenwid *Cabriera* i ladd wyth cant o bobl ar un waith, heb drugarhau wrth na gwraig na phlentyn o un rhyw, o ba rai yr oedd 40 o fenwod ac amryw yn feichiogion y rhai yrrwyd i mewn i yſgubor a'r ffeneſtri yn cael eu cadw â gwaywffyn, ac felly lloſgi yr yſgubor a'r dynion yn yr un danllwyth. Ac eilwaith mewn ogof yn agos i dref *Miſium* 25 a fogwyd â mŵg a thân yr un amſer.—Etto er yr holl greulondeb a arferwyd yn eu herbyn hwy ni's gallai eu gelynion yn hollol eu diwreiddio hwynt allan o'r tir, ond byth byddent ynghyd fel gwrychion tan ludw, yn dymuno ac yn hiraethu i weled yr hyn trwy ras Duw ag y mae eu hiliogaeth hwynt yn weled yr awrhon; ſef rhydd-did i alw ar Dduw mewn purdeb cydwybod, heb gael eu cymmell i goelgrefydd, ac eulunaddoliad. Ac felly gan addyſgu eu plant yngwaſanaeth Duw, gwelodd yr Arglwydd fod yn dda i gadw eglwys yn eu plith hwy ynghanol llygredigaethau eglwys *Rufain*, hyd onis darfu i'r Etergyl gael ei thannu mewn dull mwy cyffredin a chyhoedd trwy weinidogaeth *Luther* ei gyd-laſurwr; ymha amſer darfu i'r Waldenſes hyn dderbyn yr athrawiaeth gyd ag awydd, ac felly daethant yn fwy hynod mewn proffes o dduwioldeb nag o'r blaen.

Eu. Chwi ddywedaſoch i rai o'r Waldenſes hyn ddyſod

ddyfod i *Loegr*, ac iddynt gael triniaeth reſynol yn *Rhydychen*: rhoddwch yr hanes yn fwy cyflawn, pa beth ddaeth o honynt wedi'n? ac a adawſant ddim effaith o'u hol? ac a ſafodd dim o'u hyſpryd hwy ar neb dynion ar ol iddynt naill ai dychwelyd neu gael eu merthyru?

Ap. Yn nyddiau *Henry* yr ail, ſef rhwng 1153 a 1189, daeth 30 o'r Waldenſiaid i Loegr, ac un *Gerard* yn weinidog iddynt, a chan eu bod hwy yn ymorcheſtu tynnu pobl at Griſt, hwy gafwyd allan yn ſuan gan yr offeiriaid pabaidd, ac wedi gwneud llawer o achwynion arnynt wrth y brenhin, darfu iddo gaſglu cownſil o eſgobion yn *Rhydychen*, i ba le dygwyd y rhai'n ymlaen, a *Gerard* eu gweinidog a lefarodd troſtynt oll, gan ddweud, *Criſt'nogion ydym ni, yn dal athrawiaeth yr Apoſtolion*; ar ol eu holi yn articlau'r ffydd, eu daliadau ydoedd union (fel y dywed y monach ei hun a'u holodd hwynt) ond ni's mynnent gydſynio â ſeremoniau yr eglwys; ac ar ol gwaſgu arnynt â rheſymmau, attebaſant eu bod yn credu fel yr oeddent yn cael eu dyſgu yngair Duw. Yr oeddent yn diyſtyru bwgythion, gan ddweud, *Gwyn ei fyd ſydd yn diodde erlid er mwyn teyrnas nef*, &c. yna yr eſgymmunodd yr eſgobion hwynt, gan eu traddodi i'w coſpi gan y brenhin, yr hwn a loſgodd nôd hereticiaid yn eu talcennau hwynt; ond goſodwyd y lloſg-nod hyn ar *Gerard* ddwy waith; ac yna y torrwyd eu gwiſgoedd yn eu hanneri, gan eu fflangellu hwy yn gyhoedd trwy dref *Rhydychen*, a hwythau yn canu o hyd, *Gwyn eich byd pan y'ch caſao dynion, ac y'ch didolant oddi wrthynt, ac y'ch gwradwyddant, ac y bwriant eich enw allan megis drwg er mwyn Mab y dyn.* — Y brenhin a orchymynodd na b'ai neb i'w derbyn hwynt i dŷ, nac i roddi iddynt ddim o angenrheidiau'r corph: ac ſe ddywedir iddynt drengu trwy newyn a noethni. Ac nid oes tebygoliaeth lai na adawodd y rhai'n ryw ſawyr dda ar eu hol;

canys

canys nid llai nag o ddautu 20 o wyr hynod a ymddangoſodd yn erbyn pabyddiaeth yn *Lloegr* trwy eu 'ſgrifenadau, neu ryw ffordd arall cyn dyddiau *Wicliff*, yr hwn ſu yn offeryn hynod i ddwyn y diwygiad ymlaen.

En. Adroddwch ychydig am *Wicliff*.

Ap. Rhwng y flwyddyn 1370 ac 1380, darſu i ragluniaeth godi yn *Lloegr* un *Wicliff*, i wrthſefyll llygredigaethau eglwys *Rufain:* hwn oedd dyſt calonnog o blaid y gwirionedd; yr ydoedd ef yn ddarllenwr difinyddiaeth yn *Rhydychen*, a chanddo eglwys yno hefyd, ynghylch pa un yr oedd ef yn bur ofalus; fe dderbyniodd adnabyddiaeth y gwirionedd oddi wrth un ffrier *Lollard*, yr hwn a ddaeth ag athrawiaeth y Waldenſes i Loegr, ac oddi wrth enw pa un y galwyd ei ddiſgyblion et *Lollardiaid*. Yr oedd Mr. *Wicliff* yn wr ymadroddus, ac yn ddyſgedig iawn; amryw o'r pendefigion oedd yn garuaidd iddo, gan ba rai cyſgodwyd ef rhag llid yr offeiriaid pabaidd. Gorchmynwyd i'w holl lyfrau ef i gael eu lloſgi, ond yr oedd ef wedi goleuo cynniſer o bobl o'r blaen ag a gadwodd ei lyfrau ef yn ofalus, fel methodd ar holl ddiwydrwydd ei elynion i wneud eglwys Dduw yn ymddifad o honynt: canys pa fwya yr oeddent yn llafurio trwy fwgwthion dychrynllyd, ac angan ei hunan i rwyſtro y darlleniad o honynt, mwya i gyd yr oedd ſerchiadau y bobl yn ennyn i'w darllen hwynt gyd â bywiogrwydd. Fe 'ſgriſennodd o ddautu cant o Folums yn erbyn Anghriſt, ac eglwys *Rufain*, heblaw agoriadau ar yr Yſgrythurau. Fe gyfieithodd y Bibl yn *Saeſoneg*, gyd â rhagymadrodd ac yſtyriaethau pob Llyfr. Yn ei Lyfr *Y llwybr i wybodaeth berffaith*, mae e'n dangos y fath boen a gymmerodd ef i gyfieithu'r Bibl i'r *Saeſneg*; pa fodd y cafodd ef amryw hen Fiblau Lladin, canys y llyfrau diweddar, eb efe, ſydd lygredig iawn: ac fe oſododd amryw wyr dyſgedig ar waith i'w gynnorthwyo ef yn ei bed-

ddyfod i *Loegr*, ac iddynt gael triniaeth reſynol yn *Rhydychen*: rhoddwch yr hanes yn ſwy cyflawn, pa beth ddaeth o honynt wedi'n? ac a adawſant ddim effaith o'u hol? ac a ſafodd dim o'u hyſpryd hwy ar neb dynion ar ol iddynt naill ai dychwelyd neu gael eu merthyru?

Ap. Yn nyddiau *Henry* yr ail, ſef rhwng 1153 a 1189, daeth 30 o'r Waldenſiaid i Loegr, ac un *Gerard* yn weinidog iddynt, a chan eu bod hwy yn ymorcheſtu tynnu pobl at Griſt, hwy gafwyd allan yn ſuan gan yr offeiriaid pabaidd, ac wedi gwneud llawer o achwynion arnynt wrth y brenhin, darfu iddo gaſglu cownſil o eſgobion yn *Rhydychen*, i ba le dygwyd y rhai'n ymlaen, a *Gerard* eu gweinidog a lefarodd troſtynt oll, gan ddweud, *Criſt'nogion ydym ni, yn dal athrawiaeth yr Apoſtolion*; ar ol eu holi yn articlau'r ffydd, eu daliadau ydoedd union (fel y dywed y monach ei hun a'u holodd hwynt) ond ni's mynnent gydſynio â ſeremoniau yr eglwys; ac ar ol gwaſgu arnynt â rheſymmau, attebaſant eu bod yn credu fel yr oeddent yn cael eu dyſgu yngair Duw. Yr oeddent yn diyſtyru bwgythion, gan ddweud, *Gwyn ei fyd ſydd yn diodde erlid er mwyn teyrnas nef*, &c. yna yr eſgymmunodd yr eſgobion hwynt, gan eu traddodi i'w coſpi gan y brenhin, yr hwn a loſgodd nôd hereticiaid yn eu talcennau hwynt; ond goſodwyd y lloſg-nod hyn ar *Gerard* ddwy waith; ac yna y torrwyd eu gwiſgoedd yn eu hanneri, gan eu ffiangellu hwy yn gyhoedd trwy dref *Rhydychen*, a hwythau yn canu o hyd, *Gwyn eich byd pan y'ch caſao dynion, ac y'ch didolant oddi wrthynt, ac y'ch gwradwyddant, ac y bwriant eich enw allan megis drwg er mwyn Mab y dyn.* — Y brenhin a orchymynodd na b'ai neb i'w derbyn hwynt i dŷ, nac i roddi iddynt ddim o angenrheidiau'r corph: ac ſe ddywedir iddynt drengu trwy newyn a noethni. Ac nid oes tebygoliaeth lai na adawodd y rhai'n ryw ſawyr dda ar eu hol;

canys

canys nid llai nag o ddautu 20 o wyr hynod a ymddangoſodd yn erbyn pabyddiaeth yn *Lloegr* trwy eu 'ſgrifenadau, neu ryw ffordd arall cyn dyddiau *Wicliff*, yr hwn ſu yn offeryn hynod i ddwyn y diwygiad ymlaen.

En. Adroddwch ychydig am *Wicliff*.

Ap. Rhwng y flwyddyn 1370 ac 1380, darſu i ragluniaeth godi yn *Lloegr* un *Wicliff*, i wrthſefyll llygredigaethau eglwys *Rufain:* hwn oedd dyſt calonnog o blaid y gwirionedd; yr ydoedd ef yn ddarllenwr difinyddiaeth yn *Rhydychen*, a chanddo eglwys yno hefyd, ynghylch pa un yr oedd ef yn bur ofalus; fe dderbyniodd adnabyddiaeth y gwirionedd oddi wrth un ffrier *Lollard*, yr hwn a ddaeth ag athrawiaeth y Waldenſes i Loegr, ac oddi wrth enw pa un y galwyd ei ddiſgyblion et *Lollardiaid*. Yr oedd Mr. *Wicliff* yn wr ymadroddus, ac yn ddyſgedig iawn; amryw o'r pendefigion oedd yn garuaidd iddo, gan ba rai cyſgodwyd ef rhag llid yr offeiriaid pabaidd. Gorchmynwyd i'w holl lyfrau ef i gael eu lloſgi, ond yr oedd ef wedi goleuo cynnifer o bobl o'r blaen ag a gadwodd ei lyfrau ef yn ofalus, fel methodd ar holl ddiwydrwydd ei elynion i wneud eglwys Dduw yn ymddifad o honynt: canys pa fwya yr oeddent yn llafurio trwy fwgwthion dychrynllyd, ac angan ei hunan i rwyſtro y darlleniad o honynt, mwya i gyd yr oedd ſerchiadau y bobl yn ennyn i'w darllen hwynt gyd â bywiogrwydd. Fe 'ſgriſennodd o ddautu cant o Folums yn erbyn Anghrift, ac eglwys *Rufain*, heblaw agoriadau ar yr Yſgrythurau. Fe gyfieithodd y Bibl yn *Saeſoneg*, gyd â rhagymadrodd ac yſtyriaethau pob Llyfr. Yn ei Lyfr *Y llwybr i wybodaeth berffaith*, mae e'n dangos y fath boen a gymmerodd ef i gyfieithu'r Bibl i'r *Saeſneg*; pa fodd y cafodd ef amryw hen Fiblau Lladin, canys y llyfrau diweddar, eb efe, ſydd lygredig iawn: ac fe oſododd amryw wyr dyſgedig ar waith i'w gynnorthwyo ef yn ei bed-

warydd cyfieithad o hono. Fe ddyſgodd fod gwirionedd yr Efengyl yn ddigonol i iechydwriaeth heb arferiad o ſeremoniau deddfol. Yr oedd ef yn cymmell gwyr a gwragedd, hen ac ieuaingc i aſtudio yr Yſgrythurau yn fynych; yn enwedig y Teſtament newydd, yr hwn medd ef ſydd yn llawn awdurdod ac yn rhoi deall i'r gwirion, yn enwedig mewn pyngciau angenrheidiol i iechydwriaeth. Ac fel hyn y gwelwn mewn amryw *inſtanſes* fod gan Dduw wir eglwys, gwir weinidogaeth, a gwir ordinhadau yn yr amſer mwya tywyll, er gwaetha'r diafol a'i holl offerynnau; ac lawer pryd, er fod Saint y Goruchaf yn gorfod ymguddio eu hunain, ac yn gorfod diodde' erledigaethau trymion am achos Criſt, etto fod Duw fyth yn cadw had yn fyw, y rhai pan fydde'r ſtorom wedi myned heibio, a ymddangoſent drachefn; a phan oedd llygredigaethau anghriſt wedi gorchguddio y rhan fwya' o'r byd Criſt'nogol, fe godai Duw o bryd i bryd ryw rai ymhob gwlad o *Europ* i ſefyll i fynu yn erbyn yr unrhyw; y rhai na charent eu heinioes hyd angau ſel y gallent fod yn ffyddlon i Griſt a'i wirionedd.

Eu. Dymunaf i chwi roi hanes am rai offerynnau hynod ragor, naill ai yn Lloegr neu ryw wledydd eraill, a ſafaſant i fynu o blaid y gwir yn y dyddiau tywyll peryglus hyn.

Ap. Pan darfu i drais a gormes y pab gynhyddu o ddautu'r flwyddyn 1197, trefnodd rhagluniaeth i amryw wyr hynod a dyſgedig i'w wrthwynebu ef yn *Bohemia*; yn enwedig un *John Melicius*, gwr o dylwyth ardderchog, gwreſog yn yr yſpryd, o anrhydedd mawr am ei ddyſg, a'i fywyd duwiol. Hwn wedi cael ei gynhyrfu yn ei yſpryd i fyned i Rufain, ac i dyſtiolaethu yno fod yr anghriſt mawr wedi dyfod, fe weddiodd ar Dduw gyd ag ympryd a dagrau, gan ddymuno, os nad oedd y meddyliau hyn o Dduw, iddo gael ei waredu oddi wrthynt: ond pan na's ffeindiodd ef un eſmwyth-

der

der tu mewnol, ſe aeth i Rufain, lle darfu i'r pab ei eſgymmuno ef a'i ganlynwyr, ac a'i carcharodd. Un *Mathias* o *Prague* eilwaith oedd un arall a wrthwynebodd gyfeiliornadau eglwys Rufain. Yn y flwyddyn 1375, efe ei hun a rhai gwyr dyſgedig eraill aethant at y brenhin *Siarl*, ag oedd y pryd hynny yn teyrnaſu ar *Bohemia*, gan ddymuno arno alw cownſil ynghyd er diwygiad yr eglwys: ar hynny danfonodd y brenhin at y pab yn ei gylch ef, ond darfu iddo lidio cymmaint wrth y gennadwri, fel y gorchymynodd i'r brenhin goſpi y dynion byrbwyll hereticiaidd hynny. Fe alltudiwyd *Mathias* allan o'r deyrnas, a gwaharddwyd iddo arferiad o'r ſacrament, ar ol dull ei ddechreuol appwyntiad trwy yr holl deyrnas, fel na's gallai y duwiolion ei weinidogaethu ef ond mewn teiau dirgelaidd, neu goedydd, ac ogſeudd, a hynny hefyd trwy fod mewn perygl o'u bywydau. Ac fel hyn y parhaodd pethau hyd amſer *John Huſs*.

Eu. Mi glywais am *Huſs* a *Jerom* o *Prague* amryw weithian o bulpyd, fel rhai gwrol iawn o blaid y ffydd; manegwch yn fwy helaeth am danynt nag mae gweinidogion yn ei wneud.

Ap. John Huſs tra fu ef yn uniferſity *Prague*, a gafodd weled llyfrau Wicliff; o ba le cafodd ef gyntaf oleuni, a gwroldeb i broffeſu'r gwirionedd. Yn y flwyddyn 1400 fe'i dewiſwyd ef yn weinidog eglwys: ac yn 1409 yn beriglor yr uniferſity. Fe arferodd ei weinidogaeth mewn mawr zel, diwydrwydd a ffyddlondeb tros 12 mlynedd, gan ddyſgu'r bobl allan o'r Yſgrythuran ſanctaidd, a byw bywyd dychlynaidd. Darfu iddo yn wrol wrthwynebu cyfeiliornadau'r pab, fel y cafodd ei wyſio i Rufain i atteb y fath articlau ac a oſodid yno ger ei fron. Ynteu ddanfonodd ei broctoriaid i Rufain, y rhai attebodd droſto, ac a amddiffynnodd ei ddiniweidrwydd: etto darfu i'r pab a'i gardinaliaid i'w gondemnio ef yn heretic, a'i eſgymmuno; yr hyn a wnaeth i'r offeiriaid pab-

aidd, a rhai o bendefigion *Bohemia* i'w wrthwynebu ef, am ei fod ef fel hyn wedi ei efgymmuno: a brenhin *Bohemia* hefyd a'i alludiodd ef o'i wlad, ond etto cafodd ei gadw a'i amddiffyn yn *Huffincts*, lle pregethodd ef yn eglwys y plwyf, a rhai lleoedd oddi amgylch, yn erbyn yr athrawiaeth babaidd o haeddiant, ac o weithredoedd; ac hefyd yn erbyn balchder, fegurdod, creulondeb, a chybydd-dod offeiriaid Rhufain; a thorfeudd o bobl yn crynhoi tan ei weinidogaeth: ac rai prydiau fe ai i'w eglwys ei hun *Bethlem*, ac a bregethai yno. Ond ar farwolaeth y pab, y cardinaliaid a ymranafant, ac a ddewifafant dri phab; ar ba achos cadwyd cownfil* yn *Conftance*, dinas o *Germany*, yn y flwyddyn 1414, i ba gownfil darfu i'r emprwr *Sigifmund* orchymyn *Huff* i ddyfod; gan addaw arweiniad diogel a diniwaid iddo fyned a dychwelyd. Yna *Hydref* y 15fed darfu i *John Huff* dde-

---

* Y cownfil hwn a gadwyd yn *Conftance*, tref enwog iawn yn *Germany*, ar yr achos fod tri phab ar un waith yn cleimio hawl i'r eifteddfod babaidd; un yn cael ei ofod i fynu gan wŷr *Italy*; y llall gan y *Germaniaid*; a'r ola gan *Spain*; ac yn y flwyddyn 1414, darfu i *Sigifmund*, emprwr *Germany*, a phab *Ioan*, yr hwn ofododd gwŷr yr *Hal* i fynu, gyhoeddi y cownfil hwn, yr hwn a gynhaliwyd tros bedair blynedd; ac ynddo cynhaliwyd pymp cymmanfa a deugain, neu gynnifer feffiwn, a hynny â matter neillduol ymhob un; ond y peth mwya fylweddol oedd condemno, a llofgi *John Hus*, a *Jerom* o *Prague*. Fe ddywedir fod y werin o ddieithriaid mor fawr yn awr yn *Prague* a thrugain mil a phump cant; fef 346 o efgobion ac archefgobion. Abots, a doctoriaid difnyddiaeth 560. Gwŷr'llug, megis tywyfogion, duciaid, ieirll, marchogion, ac efcwiers 1600. Menwod cyffredin 450. Barbwyr 600. Cerddwyr, cogyddion, digrifwyr 320; a chymmaint arall o bob dieithriaid ag a wnai i fynu 60500.—Yn y cownfil hwn y condemnwyd athrawiaethau *Wicliff* yn herefiau, ac y trefnwyd llofgi ei efgyrn ef 40 mlynedd ar ol ei farwolaeth.

ddechreu ei daith i *Conſtance*, ac yn gymdeithion iddo yr oedd dau bendefig enwog o'i ganlynwyr. a chan ei fod yn gwybod fod ei achos yn dda, ei gydwybod yn loyw, ac addewid yr ymerawdwr o arweiniad diogel iddo fyned a dychwelyd, fe aeth i *Gonſtance*, â meddwl llawen, ac ag yſpryd gwrol; ac yn ei daith a oſododd i fynu 'igrifenadau ymhob dinas i'r yſtyr hyn: *Mr. John Huſs, batchelor difinyddiaeth, ſydd yn awr yn myned i gownſil* Conſtance, *i gyhoeddi ei ffydd, yr hon ddarfu iddo ef ddal hyd yma, ac mae ef yn ddal yr awrhon, a thrwy ras Duw a ddeil ef, ac a amddiffyn hyd angau. Am hynny fel ag y mynegodd ef trwy holl deyrnas* Bohemia, *trwy ei lythyrau a'i ymadroddion, gan ewyllyſio cyn ei ymadawiad oddi yno i roi boddlonrwydd, a hanes gyflawn o'i ffydd i bob dyn ag a wrthddadleuai neu oſodai ddim yn ei erbyn ef yn y gymmanfa gyffredin yn* Conſtance: *felly hefyd mae efe yn cyhoeddi allan, os oes un dyn yn y ddinas hon ag alt gyfri un cyfeiliornad, neu hereſi iddo ef, am iddo barottoi ei hun i ddyfod i'r cownſil; am fod Mr.* John Huſs *yn barod i ſoddloni pob dyn yn y cownſil ag a oſodo ddim yn ei erbyn ef ymherthynas i'w ffydd.* Yn yr holl ddinaſoedd fel yr oedd ef yn paſio trwyddynt, yn enwedig pan aeth ef i mewn i *Germany*, torfeudd o bobl oedd yn ymgynnull atto; ac ymmhob man yr oedd ef yn cael ei roeſawi yn gariadus, yn enwedig gan y dinaſyddion, a'r bwrdeiſi, fel darfu iddo gyfaddef mewn epiſtol na welodd ef un lle mor elyniaethol a *Bohemia*: a phan y daeth ef i *Noremberg*, rhai marſiandwyr ag aeth o'i flaen a fanegodd ei ddyfodiad; yr holl offeiriaid ymron ag oedd yn y ddinas a ddaethant atto, gan ddymuno arno am gael chwedleua ag ef yn ddirgel, i ba rai yr attebodd ef ei fod yn dymuno yn hytrach i fanegu ei feddwl yn gyhoedd; ac felly o giniaw hyd nos, fe lafarodd o flaen yr offeiriaid, y ſeneddwyr, ac amryw o'r dinaſyddion, fel yr oedd of ganthynt yn y parch, a'r derbyniad

mwya neilltuol. Pan daeth Mr. *Huſs* i *Conſtance*, ſe'i gwyſiwyd ef i ymddangos o flaen rhai o'r cardinaliaid, i roi cyfrif o'i ffydd: ond fe ddwedodd wrthynt iddo ef ddyfod i wneud hynny o flaen y cownſil; etto os cymhellent hwy ef i wneud hynny o'u blaen hwy, nid amheuai ef na nerthai Criſt ef i ddewis angau er gogoniant i'w enw, yn hytrach nâ gwadu'r gwirionedd a ddyſgodd ef yn yr Yſgrythurau ſanctaidd. Ar ol ei holi hwy a'i danfonaſant i garchar drewllyd, lle o ran y drewdod y darfu iddo fyned yn glaf, fel y bu ei fywyd mewn perygl: yn y cyfryw amſer ei elynion a oſodaſant articlau yn ei erbyn, ymha rai darfu iddynt ddyfeiſio amryw bethau o'u pennau eu hunain, gan wthio a gwyrdroi ei ymadroddion duwiol uniongred ef i yſtyr drwg, fel y gallent gael peth i'w gyhuddo ef; ac ar hynny dymunaſant ar y cownſil iddo gael ei gondemno. Pan glywodd Mr. *Huſs* ynteu fel yr oent yn dwyn yr achos ymlaen trwy eitha malis a chelwydd, fe ddymunodd gael eiriolwr i bledio ei achos; ond hyn a ommeddwyd iddo. Tra fu yn y carchar, wedi iddo mewn rhyw feſur gael iechyd gwell, fe 'ſgrifennodd lawer o lyfrau. O'r carchar hwnnw fe'i ſymmudwyd ef gan eſgob *Conſtance* i gaſtell yr ochr arall i'r afon *Rhein*, lle yr oedd ef yn y dydd wedi ei feichio gymmaint â llyfetheiriau ar ei draed fel galle ond prin cerdded, a phob nos fe'i clymmid ef erwydd ei ddwylo wrth gynyn mewn gwal: ar hyn amryw o bendefigion *Bohemia* a erfyniaſant ei rydd-did ar feichnion yn y rhan leia; ond hynny a ommeddwyd. Ei farnwyr a wrandawſant ei elynion, ac a holaſant y tyſtion yn ei abſennoldeb, ac a farnaſant ei athrawiaeth, nid wrth y gwir faen prawf o air Duw, ond wrth ganonau pabaidd. Ond tra mynnai y cownſil ei gondemno ef heb ei glywed, yr ymerawdwr a gyfryngodd, ac a archodd ei wrando ef yn gyntaf; ond pan y daeth ef o'u blaen hwynt

gwnaeth-

gwnaethant y fath leiſiau terfyſglyd, gan ei ddifrio, fel na's gallaſai ddwedyd un gair. Pan gwelodd ef greulondeb ei farnwyr, malis ei gyhuddwyr, ffalſedd ei dyſtion, a llid yr holl gownſil yn ei erbyn ef, yn chwythu allan ddim ond tân a ffagodau, ſe gwympodd ar ei liniau, ac a orchymynnodd ei achos cyfiawn i'r Arglwydd Ieſu Griſt, gan ſegian maddeuant i'w elynion; ette ſe daer ymbiliodd ar y cownſil gyd â dagrau i'w argyhoeddi ef o ryw gyfeiliornad wrth air Duw; ac ſe yn ewyllyſgar a'i galwe ef yn ol; ond dim ni's tycciodd, canys aethant ymlaen i'w gondemnio, a'i ddiurddo ef: ac ar hynny ſe gwympodd ar ei liniau, ac a ddywedodd, Arglwydd Ieſu maddeu i'm gelynion, gan ba rai ti wyddoſt fy mod i yn cael cam-achwyn arnaf! maddeu iddynt, meddaf, er mwyn dy fawr drugaredd. Wrth ei ddiurddo hwy eilliaſant ac a flingaſant goryn ei ben ef, ac er mwyn cyfiawnhau eu gweithrediadau yn ei erbyn ef, (am i'r ymerawdwr addo iddo fynediad a dyfodiad diberygl) y gwnaeth y cowncil arfaeth, neu ganon, nad oedd iawn cadw ffydd neu addewid â hereticiaid. A chymmaint o lid oedd iddo gan y papiſtiaid fel y condemnwyd ei lyfrau i'w lloſgi. Pan ddygwyd ef allan i'w loſg, goſodaſant ar ei ben ef goron dair dyblyg o bapur, wedi eu paintio troſtynt â lluniau diafflaid ffiaidd; ond pan gwelodd efe hi, ſe ddwedodd, Fy Arglwydd Ieſu Griſt er fy mwyn i a wiſgodd goron o ddrain, pam gan hynny na wiſgaf fi er ei ſwyn ef y goron yſgafn hon, a bydded mor wradwyddus ag y bo? yn wir mi gwnaf a hynny yn ewyllyſgar. Pan goſodwyd hi ar ei ben ef, yr eſgobion a ddwedaſant, yr awr hon yr ydym yn gorchymyn dy enaid i'r diafol: ond yr wyf finnau (ebe *John Huſs*, gan ddyrchafu ei olygon tu a'r nef) yn gorchymyn fy enaid i dy ddwylo O Arglwydd Ieſu Griſt! i ti yr wyf yn gorchymyn fy yſpryd yr hwn a'i prynaiſt. Fel yr oedd ef yn myned i'w ddihenyddu, hwy a

loſg-

loſgaſant ei lyfrau o flaen ei wyneb; wrth edrych ar ba beth y gwenodd ynteu, gan ddywedyd wrth y bobl, Na feddyliwch bobl dda fy mod i'n marw am un hereſi neu gyfeiliornad, ond yn unig o ran drwg ewyllys fy ngelynion. Pan daeth ef i le ei ddihenyddiad, fe gwympodd ar ei liniau, â'i olygon tu a'r nef fe weddiodd, ac a ail adroddodd rŷw Salmau, a chyd â gwêdd hyfryd fe waeddodd, *I dy law di O Arglwydd yr wyf yn gorchymyn fy yſpryd*; pan gododd oddi ar ei liniau fe ddywedodd, *Arglwydd Ieſu Griſt help fi, cynnorthwya fi, fel gallwyf trwy dy gymmorth mwya graſuſol di, ddioddef y jarwolaeth greulon a gwaradwyddus hon mewn yſpryd gwrol amyneddgar, i ba un yr wyf yn cael fy nghondemno am bregethu dy Efengyl mwya ſanctaidd.* Ac fel yr oeddent yn rhwymo ei wddf ef â chadwyn wrth y poſt, fe wenodd, ac a ddywedodd y derbynie ef yn ewyllyſgar y gadwyn honno er mwyn Ieſu Griſt, yr hwn, a wyddai efe, a rwymwyd â gwaeth cadwyn o lawer. Pan ddechreuodd y tân ag ennyn fe ganodd â llais uchel, *Ieſu Griſt, Mab y Duw byw, trugarha wrthyf*; ac ar y drydedd waith yr adroddodd ef y geiriau hyn, y gwynt a yrrodd y fflammau i'w wyneb, fel y mogodd ef. Fe ddioddefodd ferthyrdod yn y flwyddyn 1415. Fe ddywedodd wrthynt wrth farw mai o ludw'r wŷdd (canys dyna yſtyr *Huſs* yn iaith *Bohemia*) y codai Duw alarch ymhen can' mlynedd, caniad pa un a ddychrynai yr holl fulturiaid hynny, yr hyn a gyflawnwyd yn *Luther* yn gywir ym mhen y can' mlynedd.

Eu. Adroddwch ychydig am *Jerom* o *Prague*.

Ap. Jerom o *Prague*, gwr hynod am rinwedd, dyſg, ac ymadrodd, pan ddeallodd fod addewidion cyhoedd yn cael eu torri, ei wlad yn cael ei gwradwyddo, a *Huſs* wedi ei loſgi, fe ymdeithiodd i *Conſtance*, *Ebrill* 4, 1415, ond pa mor gynted bynnag y daeth yno, fe ddeallodd fod diſgwylfa am dano i'w dda! ef; am hynny y dydd neſaf fe

arth

aeth i *Iberling*, milltir o *Gonſtance*, ac oddi yno danſonodd at *Sigiſmund* brenhin *Bohemia* a'i faroniaid, ond yn enwedig at y cownſil, gan erſyn yn daer arnynt ar iddynt roddi iddo arweinſa ſicr yn rhydd i ſyned a dyfod, ac yno fe ddeuai i atteb yn gyhoedd i bob dyn os deuai neb i achwyn arno am un bai, ond ni chaniattawyd iddo arweinſa ddiogel fel y dymunodd; am hynny arglwyddi *Bohemia* a roddaſant iddo eu llythyrau *patent*, â pha rai y dychweledd e 'nol drachefn i *Bohemia*: ond trwy fradwriaeth a chyfrwyſdra ei elynion, fe'i daliwyd yn y ffordd i *Hirſaw*, a chan y ſwyddogion fe'i dygwyd ef o flaen y duwc, yr hwn a'i dygodd ef yn union yn rhwym i *Conſtance*. Rhai o'r eſgobion ofynaſant iddo, *Jerom* pa'm y ffoaiſt, ac y rhedaiſt ymaith, a pheidio ymddangos pan y'th wyſiwyd? i'r rhai yr attebodd ef, gan ddweud, am na chaniattawyd i mi arweinſa ddiogel oddi wrthych chwi na'r brenhin; a chan fod gennyf amryw o elynion chwerwon yn y cownſil, ni fynnwn fod yn awdwr o'm perygl fy hun, ond pe gwypſwn am eich gwys chwi, yn wir pe buaſwn yn *Bohemia*, etto mi a ymddangoſaſwn. Yna traddodwyd ef yn rhwym i'r ſwyddogion i'w oſod yngharcbar. A pha mor gynted yr aeth yno, un alwodd wrth ei ffeneſtr ef gan ddywedyd, *Mr.* Jerom *bydd wrol ac nac ofna ddioddc marw er mwyn y gwirionedd, am ba un tra fuoſt yn rhydd y pregethaiſt lawer o dda*; i ba un yr attebodd ynte, yn wir frawd nid wyf yn ofni marw: ond ceidwad y carchar a ddaeth ac a'i gyrrodd ef ymaith oddi wrth y ffeneſtr. Ychydig wedi'n eſgob *Rigen* ddanſonodd am *Jerom* wedi ei rwymo yn gadarn â chadwyni am ei ddwylo a'i wddf, ac a'i danſonodd ef i gaſtell, lle darfu iddynt ei rwymo ef yn ſicr wrth foncyff mawr o bren, a'i draed mewn cyffion, a'i ddwylo ef hefyd a rwymaſant wrthynt, a'r boncyff oedd mor uchel fel na's gallaſai mewn un modd eiſtedd arno, ond

rhaid

rhaid oedd i'w ben hongian i lawr ; lle hefyd ni chaniattaent iddo ond bara a dwfr : ond ymhen un diwrnod ar ddeg, gan ei fod yn hongian fel hyn wrth ei fodlau, fe glafychodd ; etto hwy a'i cadwafant ef yngharchar fiwyddyn ond faith niwrnod ; ac yna danfonafant am dano, gan beri iddo alw yn ol, a 'fgrifennu â'i law fod *John Hufs* wedi ei roddi yn gyfiawn i farwolaeth, yr hyn a wnaeth ef, mewn rhan o ofn marw, gan obeithio trwy hynny ddiangc o'u dwylo hwynt ; ond ar ol hyn hwy a'i danfonafant ef yn ol i garchar, ac a'i cadwafant ef ag amddiffynfa o filwyr, etto nid wedi ei gadwyno mor greulon ag o'r blaen ; yna anfonafant i'w holi ef drachefn, ond fe ommeddodd i'w hatteb hwynt yn neillduol, onis dygent ef o flaen y cownfil, a hwythau (yn tybied y cadarnhai ef yn gyhoeddus ei recantafiwn o'r blaen) a'i dygafant ef yno, *Mai* 25, 1416, gan huria gau dyftion i gyhuddo arno ; ond darfu iddo mor ddyfgedig i glirio ei hun, a gwrthnebu ei elynion, fel yr oeddent yn fynnu wrth ei ymadroddion ; a chyd â chywilydd mawr a rowd i ddiftawrwydd. Fe ddibennodd ei ymadroddion yn y geiriau hyn, y bydde iddo ef ddal yn gadarn, ac amddiffyn, er gorfod marw, yr holl gyfryw articlau ag a ddarfu i *Wicliff* a *Hufs* 'fgrifennu yn erbyn holl ddrygioni, balchder, ac aflywodraeth yr offeiriaid ; ac na's darfu i un o'r holl bechodau a wnaeth ef ddim i flino, a chnoi ei gydwybod ef gymmaint a'r weithred fwya gwenwynig hynny o'i eiddo ef, fef galw yn ol yr hyn a ddywedodd ef yn gyfiawn ; ac yn ei waith yn cydfynnied â chondemniad drygionus *Hufs* : a'i fod yn edifarhau am dano â'i holl galon. Hyn a ennynnodd eu llid gymmaint, fel yr aethant ymlaen i'w gondemnio ef ; ond ynteu a ddywedodd, Minnau ar ol fy marwolaeth a adawaf gnofa yn eich cydwybodau chwi, a boel yn eich calonnau : ac yr wyf, eb efe, yn eich gwyfio chwi i atteb i fi o flaen y goruchaf a'r cyfiawn Farnwr

ymhen

ymhen can' mlynedd. Fel yr oedd ef yn myned i'r dihenyddle fe ganodd rai hymnau; a phan daeth ef i'r fan cafodd *Huſs* ei loſgi, fe gwympodd ar ei liniau, ac a weddiodd yn daer. Fe'i rhwymwyd ef wrth ddelw *John Huſs*, ac felly tân oſodwyd wrtho, yr hwn a ddioddefodd ef gyd â gwroldeb i ryfeddu; canys pan oedd ef yn ſefyll yn rhwym wrth y poſt, a'r dihenyddwr yn cynnu'r tân o'i du cefn, fe barodd iddo i'w gynnu o'i wyneb; canys eb efe, pe ofnaſwn ef ni's daethwn i'r fan hon. Darfu i holl ddinas *Conſtance* ryfeddu ei wroldeb Criſt'nogol ef. Wrth roi fynu ei fywyd fe ddywedodd,

Hanc animam in flammis offero Chriſte tibi.

Hynny yw

Yr enaid hyn wi'n roddi i ti fy Ieſu glân,
O 'wyllys pur fy nghalon mewn fflammau poeth o dân.

Un *Poggius*, yr hwn oedd ſecretary i gownſil *Conſtance*, wrth 'ſgrifennu at gyfaill, ddywaid fel hyn am *Jerom*, Yr wyf yn proffeſu na's gwelais i un dyn (yn enwedig pan byddai ynghylch achos einioes neu angau) yn dyfod mewn ffraethineb ymadrodd yn agoſach at yr Apoſtolion a'r hen deidau, y rhai ydym gymmaint yn eu rhyfeddu. Yr ydoedd yn rhyfeddod i weled â pha fath eiriau, a pha fath ffraethineb ymadrodd, rheſymmau, eondra, a chyd â'r fath hyder yr oedd ef yn atteb ei elynion, ac yn maintaino ei fatter; yn gymmaint a bod yn drueni bod deall mor rhagorol wedi gwyro i hereſi, os gwir oedd yr hyn oeddent yn achwyn arno o'i blegid. Ac mewn man arall dywaid fel hyn, Pan gommeddwyd iddo i atteb troſto ei hun, fe ddywedodd, pa fath gam a drygioni yw hyn, lle bues i byw dri chant a deugain o ddiwrnodau yn y carchar mwya caled, mewn dom, cadwyni, a brynti, mewn eiſiau o bob peth, chwi wrandawſoch ar fy ngwrthwynebwyr bob amſer, ac ni wrandawech arnaf fi un awr; mae'n boſibl i chwi gyfeiliornu, dynion ydych ac nid duwiau. Pa

bryd

bryd bynnag byddai un articl o'i gyhuddiad yn cael ei darllen yn gyhoedd, a'i chadarnhau trwy dyſtion, goſynnent iddo a oedd ganddo ddim i ddweud yn wrthwyneb, ond mae bron yn anoddi gredu fel yr oedd ef yn attеb, a chyd â pa fath reſymmau yr oedd ef yn amddiffyn ei hun; ni's llafarodd ef erioed un gair yn anheilwng o ddyn da; fel os oedd ef yn meddwl yn ei galon, fel yr oedd ef yn llafaru â'i enau, ni chafwyd un achos o angau ynddo, ac yn wir nid oedd ef yn euog o'r bai lleiaf. Deallwch fy anwyl *Euſebius*, mai yn yr amſer hyn yr oedd eglwys *Rufain* wedi myned i'r uchder mwya o falchder, rhyfyg, tywyllwch, parch, cyfoeth, llid, a gelyniaeth yn erbyn gwir grefydd; canys ni bu ericed o'i rhwyſg hi yn fwy nag o'r flwyddyn 1416, i'r flwyddyn 1516, yr amſer yr ymddangoſodd *Luther*, ac eraill o'i gyd ddiwygwyr; ac nid oedd e' ddim llai nâ rhagluniaeth oleu yn yr amſer hyn i *Huſs* a *Jerom* i ddiodde, ac i ddechreu ennyn tân yn *Bohemia*, wedi hynny a dannodd trwy holl *Europ*; ac a wnaeth *Bohemia* yn gynta o'r holl wledydd *pabaidd* i gofleidio y wir ffydd. Ond rhyfedd ydoedd pan yſtyriom, 1. Pa rifedi aneirif o bendefigion, arglwyddi, duwciaid, tywyſogion, brenhinoedd, cardinaliaid, archeſgobion, eſgobion, ac offeiriaid, oll tan y pab, yn waedlyd o blaid y grefydd babaidd, etto i'r ddau ddyn hyn gael eu codi i fynu i ddoethineb, zel, yſpryd, a gwroldeb, i ſefyll o blaid y gwirionedd lle yr oeddent oll ynghyd. Fe ddywaid *Eneas Sylvius* ei hun am danynt, yr hwn aeth wedi hynny ei hun yn bab, mai gyd â ſwn eu lleferydd, ac Yſpryd Duw yn cynnorthwyo, y gair ag oedd ynddynt yn taranu a ddihunodd y bobl o'u cwſg marwol, fel yr oeddent yn rhedeg yn fintioedd at y goleuni mawr hwn, gan wahodd eu cym'dogion at yr un rhyw. 2. I'r dyſtiolaeth hon gael ei rhoddi yn y dull mwya cyhoedd yng nghownſil cyffredin *Conſtance*, o flaen holl bennaduriaid

naduriaid gwladaidd ac eglwyſig eglwys *Rufain*; fel na fu beth erioed yn y byd a wnaed yn fwy cyhoedd. Rhaid i'r byd annuwiol weled y fath awdurdod all yr Arglwydd Ieſu roi i'r gwaelaf o'i weiſion yn eu hymddangoſiad dros y gwirionedd; gwneuthur iddynt ſefyll a gwrthſefyll y fath afon lifeiriol o ymadawiad cyffredin o'r wir ffydd, yno lle yr oedd holl rym *Rhufain*, a'r holl ymerodraeth yn cyfarfod ar un waith; ac yn gwneud iddynt trwy amynedd a gwroldeb gadarnhau'r gwirionedd, gorchfygu eu herlidwyr, gwrthwynebu hudoliaethau dyrchafiad, a lleoedd anrhydeddus yn yr eglwys. y rhai gafodd y pryd hynny eu cynnyg iddynt os hwy ymadawent â'r gwirioneddau ddaliaſant. 3. Y radd anghyffredin o breſennoldeb yr Arglwydd a gafodd y rhai'n wrth ddiodde, fel yr oedd yr holl werin yn adnabod eu bod hwy yn gyflawn o Dduw. Fe ddywaid y rhagddywededig *Eneas Sylvius*, Hwy'ch dau a ddioddefaſant angau (er mai nid yr un pryd) â meddwl ſefydlog, ac aethant yn llawen i'r tân, fel i wledd, heb y gronyn lleiaf o drymder ac anfoddlonrwydd; ac yno canaſant hymn. Yn 4. Eu prophwydoliaethau pan rwymwyd hwynt wrth y poſt, oedd mor hynod a diamheuol, fel y goſodwyd e'n argraff ar un ochr o'r arian yn *Bohemia* byth mwy, yr hyn ddywedodd *Jerom*, *Centum annis revolutis Deo reſpondebitis et mihi.* Sef, *Ar ol can mlynedd rhaid i chwi atteb i Dduw ac i minnau.* — Hyn lefarodd ef mewn amſer na's gwyddai neb etto pa beth oedd ei yſtyr, yr hyn mor eglur a attebodd yn nhorriad allan y diwygiad trwy *Luther*, yr hwn ymddangoſodd gan mlynedd ar ol hyn. — A'r dyſtiolaeth hon a ſeliwyd â gwaed y dynion hynod hyn, a eſgorodd ar y fath ragluniaethau rhyfedd o blaid gwŷr o'r un farn tros y gwirionedd yn *Bohemia*, i ddwyn diwygiad ymlaen, fel darfu iddynt anturio nid yn unig yn erbyn yr ymerodraeth, ond hefyd yn erbyn holl awdurdod ofnadwy eglwys *Rhufain*

yn *Europ*, y fath ag fyddai i olwg dyn yn anghredadwy, pe na buaſai y gelynion eu hunain ddim yn tyſtio'r peth yn wir.

Eu. Ond adroddwch am y rhyfeddol raglun-iaethau ſoniaſoch uchod i ddwyn diwygiad ymlaen.

Ap. Ar ol lloſgi *Huſs* a *Jerom* yn *Conſtance*, ni ddigonwyd eu gelynion â'u gwaed hwynt, ond cymmeraſant gyngor ymhellach i ddeſtrywio yr holl genhedl; canys pan darfu i drugain ond dau o arglwyddi penna *Bohemia*, yn enw y lleill oll o'r pendefigion, yn y flwyddyn 1416, anfon llythyrau i'r cownſil i *Prague*, yn achwyn i'w gweinidog hwy, gwr gwirion a ſanctaidd, a dyſgawdwr ffyddlon o'r gwirionedd, gael ei gondemno yn anghyfiawn; y cownſil yn lle eu hatteb hwy, a ddanfonaſant lythyrau at ryw bapiſtiaid creulon, y rhai oedd mewn awdurdod i gynnorthwyo eu legate hwy, i orthrymmu yr hereticiaid hynny. Ar ol hyn y pab a eſgymunodd y *Bohemiaid* yn gyhoeddus yn *Eſlorence*, gan gymmell yr ymerawdwr, brenhinoedd, tywyſogion, duwciaid, ac arglwyddi i godi fynu arfau yn eu herbyn, gan addo maddeuant cyffredin o bechod i'r dyn mwya drygionus ag a laddai un *Bohemiad*; ond Duw a roddodd iddynt y fuddugoliaeth tan ei ardderchog gaplain *Ziſca*; ond etto fel byddai yr ochr babaidd un tro yn ennill, hwy arferent bob math o greulondeb at weiſion tlodion Criſt; ſel yn *Cuttenburgh*, lle yr oedd mwyn-gloddiau dyfnion yn y flwyddyn 1420, hwy a daflaſant i un o honynt fil a ſaith cant o ddynion, ac i un arall fil a daunaw ar hugain; ac i'r trydydd y taflaſant *dri* chant a phedwar ar ddeg ar hugain o bobl. Yn y flwyddyn 1459, yr oedd amrywiol iawn o bobl dduwiol yn *Bohemia*, gweinidogion, arglwyddi, pendefigion, y rhai oedd yn cael eu gwaſgu yn galed yn eu cydwybodau ynghylch coelgrefydd eglwys *Rufain*; ond cawſant gan eu brenhin le yn y mynydd dir yn agos i *Sileſia*, i gyfaneddu, lle taſi-

taflaſant ymaith bob coel arferion, ac a arferaſant eu hunain ar ol dull ſyml y prif-griſt'nogion, gan alw eu hunain brodyr a chwiorydd. Dechreuad yr eglwys hon a anſoddlonodd y diafol; am hynny ſe gododd demeſtl ddiſymmwth a chreulon i'w dymchwelyd hi, yr offeiriaid pabaidd ymhob pulpyd yn cynhyrfu llid y bobl, a'r brenhin ynteu trwy ei gyhoeddiad yn gwahardd yr holl weinidogion i weini yr ordinhadau ſanctaidd heb ſeremoniau, ac hefyd yn bygwth angau i'r rhei'ny ag a weinai i'r brodyr, y rhai oedd yn awr yn cael eu galw tan yr enw gwaradwyddus o *Biccardiaid*. Ac yn union ar ol hyn daeth allan gyhoeddiad newydd na fyddai un o honynt i fyw yn *Bohemia*, ar ba achos gorfu arnynt waſgaru ar hyd y coedydd, a'r mynyddau, lle nid oeddent etto ond prin yn ddiogel. Yn y flwyddyn 1468, daeth allan arfaeth newydd yn eu herbyn, yn peri i holl arglwyddi *Bohemia* o fewn i'w hawdurdodau neilduol eu hunain i ddal cynifer ag allent; ac i ganlyn arnynt. Llawer am hynny ddaliwyd, ac a roddwyd yng ngharchar, lle y cadwyd hwynt yn hir amſer: ond trwy ryfeddol weithrediad yr Arglwydd, pa fwya egniol oedd y gelynion i ddiffodd y wreichionen hon, mwya yr enynnai hi allan yn fflam fawr; ac amryw o'u harglwyddi hwynt a ymddaroſtyngaſant i ddyſgyblaeth y brodyr, gan adeiladu eglwyſydd iddynt yn eu trefydd, a'u pentrefydd; fel yn y flwyddyn 1500, yr oedd ganddynt yn *Bohemia*, a'r wlad oddi amgylch yn agos i ddau cant o eglwyſydd. Ac ar ol y brenhin enwyd uchod, daeth brenhin arall ar *Bohemia*, at ba un y 'ſgrifennodd y brodyr *apology* o ran yr amryw gyhuddiadau budr ag a ddygwyd atto yn eu hachos hwy. Hyn a gythryddodd eu gelynion gymmaint, fel y c'nygaſant trwy y ddyfais mwya digywilydd i gynhyrfu caſineb pob dyn yn eu herbyn. Y ffordd a arferaſant oedd hon: hwy a gyttunaſant â dyn drygionus, i ddweud iddo ef

ei hun ddyfod o'u plith hwynt, a'i fod yn henuriad; ond iddo ef yn unig eu casau hwynt am eu bod yn eu cwrddau yn cablu Duw, a'i seintiau; yn enllibio'r sacramentau, yn ymgymmysg yn gnawdol o fewn achau cysagos; yn gwneuthur mwrddrad, ac yn arferyd dewiniaeth, &c. Y dyn hwn a arweiniasant trwy y trefydd a'r dinasoedd, sel drych i bawb edrych arno; hwy a'i dygasent ef i'w heglwys, lle darfu iddo ymwrthod â'i gyfeiliornadau, gan erfyn ar y bobl i weddio drosto bechadur mwya truenus; ac i gymmeryd gofal wrth ei esampl ef o'r *Pichardiaid* drygionus. Darfu iddynt hefyd gyhoeddi ei gyfaddefiad ef mewn 'sgrifen wedi ei gadarnhau â seliau, ac enwau rhai o'r deonau a'r offeiriaid, gan erchi iddynt gael eu darllen yn yr eglwysi i'r bobl; ond y diafol a dwyllwyd yn hyn oll, canys y brodyr trwy 'sgrifenadau cyhoedd a wrthbrofasant y celwyddau hyn; a'r dyn drygionus yn dychrynu mor fynych wedi tyngu yn anudon, a gyfaddefodd o'r diwedd ei fod ef wedi ei gyflogi i wneuthur y *peth* a wnaethai; ac nad oedd ef yn adnabod un o'r *Pichardiaid:* ac mor belled a hyn hefyd y trodd y cwbl er daioni; i rai, er mwyn gwneud prawf o ddrygioni mor fawr, i ddechreu dyfod yn ddirgel i gyrddau'r brodyr, a chan weled eu bod yn llwyr wrthwyneb i'r hyn roddwyd allan, darfu iddynt gyfeillachu à hwynt fel â gwir Grist'nogion. Ond yn y flwyddyn 1510, yr esgobion trwy eu teyrni a dycciasant gyd â'r brenhin am ryw feddyginiaethau llymion gael eu harferyd yn erbyn y drygau cynnyddfawr hyn, fel yr oeddent yn eu galw hwynt; ar hynny gwnawd arfaeth fod i'r holl *Bichardiaid* heb wahaniaeth rhyw, oedran, na gradd gael eu lladd, y *mandate* hwn a ddygwyd i mewn i gymmanfa arglwyddi *Prague*, gan ddau esgob; ond amryw o'r arglwyddi pennaf a'i gwrthnebasant: fel y treuliwyd 18 mis mewn ymddadleu cyn gwneuthur dim; ond o'r diwedd trwy hoc-

ced

ced gyfrwys y canghellwr a'i gyfeillion gwaedlyd, fe'i cadarnhawyd gan y rhan fwya o'r arglwyddi ym mhreſennoldeb y brenhin; a chyngrair ffyddlon a wnaed i hynny gael ei ddwyn ymlaen tuwy rym arfau: ond Duw a ddilynodd y dyfeiſwyr pennaf o hono ag amryw farnedigaethau, ac fe ddaeth ymron i ddim. Ac ymhen ychydig bach ar ol hyn, Duw gododd *Luther* galonnog yn *Germany*, fel bollt taran yn erbyn y pab, 'ſgrifenadau pa un ddaeth ag amrywiol i gofleidio pur athrawiaeth yr Efengyl; ac i mofyn ordinafiwn eu gweinidogion o *Wittenberg*, yn hytrach nag o *Rufain*: ac yn yr amſer hyn y brodyr yn *Bohemia* gafodd eu cefnogi yn fawr trwy lythyrau *Bucer*, *Luther*, *Capito*, ac eraill; ac aethant ymlaen yn ddiyſgog, a llawer iawn a chwanegwyd at yr eglwyſi.

Eu. Yr ydych wedi dwyn haneſion ymlaen hyd at ddechreu y diwygiad mawr yn nyddiau *Luther*, ac eraill; ni cheiſiaf yn breſennol gennych adrodd pa fodd y dygwyd yr achos ymlaen yn *Bohemia*; mi geiſiaf hynny os amſer a rydd le wrth ofyn am y gwledydd a ddioddefaſant yn amſer y diwygiad ar ol amſer *Luther*: ond mi ofynnaf yn gyntaf a gododd neb gwŷr hynod rhwng *Huſs*, *Jerom* o *Prague*, a *Luther*, mewn yſpaid o gan' mlynedd?

Ap. Deallwch i ragluniaeth wneuthur amryw bethau ychydig bach o flaen y diwygiad, ag fu wedi hynny yn fuddiol iawn i ddwyn y goleuni mawr ymlaen: Ac yn 1. Fel mai grym eglwys *Rufain* oedd tywyllwch, ac anwybodaeth; felly 'nawr ſe ddaeth y celfyddydau i gael eu haſtudio yn rhagor; dyſgu'r ieithoedd, yr *Hebraeg* a'r *Groeg*, y rhai oedd o'r fath ddefnydd i ddeall yr Yſgrythurau ſanctaidd, ac i wrth brofi hereſiau ac eulunaddoliaeth; fel dywaid y papiſtiaid eu hunain mai hyn a'u diſtrywiodd hwy: ac nid ychydig o rai dyſgedig gododd yr Arglwydd i fynu ymhob gwlad yn y dyddiau hyn, pan cedd Yſgrythurau

Duw ynghud, a'r dyſgedigion hyn hefyd oedd yn ſwy hynod nâ nemawr o'u blaen, ac yn dyſtal chwilio am gopiau cywyr o'r Yſgrythurau. Ond, 2. Un o'r pethau mwya hynod a ddigwyddodd yn rhagflaenol i'r diwygiad oedd o ddautu'r flwyddyn 1440, y ddyfais ſendigedig honno o breintio a dorrodd allan, megis arwydd bendigedig, i gyhoeddi i'r byd agoſdra y gwynſydedig amſer pan byddai teml Duw i gael ei hagor yn y nef, ac i'r Bibl, ag a gafodd ei gau i ſynu tros gynnifer o oeſoedd, gael ei dannu ar led yn gyffredin; ac felly i'r bachgennyn neu'r fachgennes dlotta gael treiddio i mewn iddo, a'u gwneud yn gyſarwydd ynddo, a bod yn berchennog arno am y pris lleia; yma yr oedd bendithion yn aneirif mewn un bendith, i'r tlawd a'r annyſgedig, nid yn unig i gael goleu 'r gair, ond hefyd cael arfau yſprydol i wrthſefyll cyfeiliornadau eglwys *Rufain*; ac etto nid mwy rhyſedd oedd hyn nâ'r *amſer* y datguddiodd Duw hyn, ſef mewn amſer ag oedd gwybodaeth i gynnyſgaeddu, a myrddiynau i gael eu galw o dywyllwch pabaidd. Ond rhy faith fyddai enwi yr holl nifer a gododd Duw i fynu i dorri'r adwyau o flaen *Luther*, ac eraill o'i gyfoedion; megis *Regiomontanus*, *Rodolphus*, *Agricola*, *Weſſelus*, *Moſſilanus*, *Eroſmus*, *Stephanus*, ac eraill, rhy faith eu henwi, y rhai oedd hynod i aſtudio y ieithoedd gwreiddiol, a chaſglu copiau o'r Yſgrythurau; ac felly i balmentu'r ffordd i'r diwygiad mawr.

Eu. Bellach rho'wch hanes *Luther*, a'r diwygiad ymlaen o'i amſer ef.

Ap. *Luther* pan oedd yn llyfrdy coleg *Erfurd* a ffeindiodd gopi o Fibl *Lladin* ag na's gwelodd ef erioed o'r blaen, ac a ddaliodd ſulw gyd â rhyfeddod, fod ynddo fwy o rannau o Yſgrythurau nag oeddid yn ddarllen yn yr eglwyſi, yr hyn a wnaeth iddo ddymuno bod yn berchen ar ei faith. Ac fe welodd Duw fod yn dda mai nid yn hir wedi'n bu ef heb gael un ar ol ei ddymuniad, ac

ſe

ſe gwympodd i'w aſtudio ef yn fanwl; rhyw aſiechyd ac ofn heſyd a'i hannogodd ef ymlaen yn y gwaith; ond ar ol hyn ſe gwympodd i ryw gletyd angherddol ag a lwgwthodd angau, ond hen offeiriad a ddaeth atto, ac a'i diddanodd et trwy ymddiddan ag ef yn helaeth ar gyfiawnhad trwy ffydd, ac egluro iddo articlau'r ffydd: yna darllenodd *Luther* waith St. *Awſtin* troſlynt, lle cafodd ef yr un athrawiaeth o gyfiawnhad trwy ffydd yn cael ei chadarnhau yn fynych. Ar ol hyn ſe anfonwyd i *Rufain* yn achos ei fonachlog, lle gwelodd ef y pab, a dull offeiriaid *Rhufain*; am ba rai mae yn dywedyd, *Yn* Rhufain *mi clywais hwy yn dweud maſs yn y fath fodd ag y ffieiddiais hwy:* canys o flaen yr allor y gwelais butteiniaid yn chwerthin, ac yn ymffroſtio eu drygioni. Ar ei ddychweliad o *Rufain* ſe ddaliwyd ſulw arno gan duwc *Frederic, elector Saxony*, yr hwn a'i clywodd e'n pregethu, ac a ryſeddodd nerth ei reſymmau, ac ardderchawgrwydd y pethau ag oedd ef yn eu traddodi. Ymhen ychydig wedi'n ſe ddechreuodd egluro yr epiſtol at y *Rhufeiniaid*, a rhai *Salmau*, lle dangoſodd y gwahaniaeth rhwng y gyfraith a'r efengyl, ac y dadbrofodd ef gyfiawnhad trwy weithredoedd; a'i ymarweddiad ef oedd yn cyttuno â'i athrawiaeth; nid oedd ei ymadroddion ef yn dyfod yn unig oddi ar ei weſuſau, ond heſyd o'i galon. Y flwyddyn 1517 oedd wrth y cyfrif ddyry un *Scultenus* i ni 356 oddi ar ddiwygiad creſydd yn *Eſraingc* gan y *Waldenſes*; 146 oddi ar yr amſer gwrthſafwyd cyfeiliornadau'r pab yn *Lloegr* gan *John Wicliff*; 116 o'r flwyddyn gynta o weinid gaeth *John Huſs*, a wrth'nebodd gyfeiliornadau pabyddiaeth yn *Bohemia*; 36 o'r amſer condemnwyd Dr. *Waſſalia*, yr hwn a ddyſgodd yn ninas *Worms* yr un athrawiaeth ag a ddyſgodd *Luther* wedi'n. Yn y flwyddyn hon 1517, *Ioan Fecelius* a ddygodd troſodd *Indulgences* i *Germany* i'w gwerthu, gan gadarnhau

darnhau fod ganddo y fath awdurdod helaeth oddi wrth y pab, fel pe buasai un wedi halogi *Mair y forwyn*, y gallai efe faddeu iddo. Zel *Luther* wedi ennyn wrth glywed hyn wnaeth iddo ofod allan rai teſtynau yn erbyn yr *indulgences*, yr hyn a gyndeiriogodd *Fecelius* gymmaint fel pa le bynnag y daeth ef, y crochlefodd ef yn erbyn *Luther*, gan ofod allan deſtynau i'r gwrthwyneb; ac heb fod yn foddlon ar hynny, fe loſgodd yn gyhoeddus deſtynau *Luther*, ynghyd â'r bregeth a 'ſgrifennodd ef ynghylch *indulgences*.—Hyn a wnaeth i'r Students yn *Wittenberg* i loſgi ei ddaliadau yntau. Yn y flwyddyn 1518, un *Andrew Bodenſtein*, gyd ag amryw eraill o ddiſinyddion *Wittenberg*, amddiffynnodd athrawiaeth *Luther* trwy eu 'ſgrifenadau. Elector *Saxony* hefyd o'i fodd ei hun, heb gymmell a gymmerodd arno i fod yn rhwyſgwy i *Luther*. Ymhlith y ffriars, *Luther* a ddadleuodd o Epiſtolau *Paul* ynghylch cyfiawnhad trwy ffydd heb weithredoedd. Pan oedd *Bucer* yn breſennol un waith, ac yn 'ſgrifennu lawr yr ymddadleuon hyn, efe a 'ſgrifennodd yn llyn am danynt wrth *Beatus Rhenanus*: *Ei fwyneidd-dra ef yn atteb*, medd ef, *oedd ryfeddol*; *ei amynedd ef yn gwrando oedd anghydmarol*: *chwi allech weled cyflymdra deall St.* Paul *yn dattod clymmau*, *fel daeth ef â phawb i'w ryfeddu ef o herwydd ei attebion byrron perthynoſol*, *a'r rhai'n oll wedi cymmeryd allan o dryſordy ſanctaidd air Duw*. Ond o'r diwedd yr ymerawdwr anfonodd am dano, ac a ddanfonodd arweinia ddiogel, gan erchi iddo fyfio i ddinas *Worms* ym mhen un diwrnod ar hugain; ond amryw o'i gyfeillion a fynnent ei berfwadio i beidio myned; i ba rai yr attebodd ef, fod y llwfrdra hyn yn cael ei fwrw o'i flaen ef gan ſatan, yr hwn a wyddai mai trwy ei addefiad ef o'r gwirionedd mewn lle mor gyhoeddus y byddai i'w deyrnas ef ſiglo, ac am hynny pe gwypfai efe fod cynnifer diafol yn *Worms* ag oedd o *diles* yn toi y tai etto yr ai ef yno:

ac

ac felly 'fe aeth i *Worms*. Ac ar hynny darfu i rai berſwadio yr ymerawdwr i ddelio ag ef fel y darfu i gownſil *Conſtance* ddelio â *John Huſs*; ond yr ymerawdwr a attebodd nad oedd iawn torri addewidion cyhoedd. Y dydd neſa yr ymddangoſodd Luther o flaen yr ymerawdwr, a chymmanſa lioſog o'r tywyſogion, ar ba amſer *Eccius* cyfreithwr, wrth orchymyn yr ymerawdwr a wnaeth araith, yn niwedd pa un y gofynnodd iddo pa un a wnai a galw 'nol ei waith neu beidio? i ba ofyniad yr attebodd Luther; O fy llyfrau i, eb efe, rhai o honynt ſydd am ffydd, a duwioldeb; i'r rhai'n mae fy ngelynion yn rhoddi llawn dyſtiolaeth: rhai eraill o honynt ſydd yn erbyn y pab a'i athrawiaeth; pe galwn yn ol y rhai'n, mi gadarnhawn ei greulondeb ef: eraill ſydd yn erbyn perſonau neilltuol ag ſydd yn amddiffyn ei achos; yn y rhai'n yr wyf yn cyfaddef fy mod yn rhy boeth; etto ni's gallaf eu galw hwynt yn ol heb agor adwy i ddigywilydd-dra amrywiol. Ond *Eccius* ddywedodd wrtho; nad oedd yr ymerawdwr ddim yn boddloni ar yr atteb hyn, ond ei fod yn gofyn ei *recantaſiwn* ef. Ond Luther attebodd yr wyf yn attolwg arnoch, rhowch im' gennad i gadw heddwch fy nghydwybod fy hun, yr hyn os cydſyniaf â chwi, ni's gallaf wneuthur: canys os na's gall fy ngwrthwynebwyr i'm hargyhoeddi i trwy reſymmau ſicr, wedi eu cymmeryd allan o'r Yſgrythur lân, ni's gallaf foddloni fy nghydwybod: canys mi allaf wneud yn eglur ddigon, fod y pabau a'r cownſil wedi cyfeiliorni yn erchyll, a hynny hefyd yn fynych; ac am hynny ſe fyddai yn weithred annuwiol ynnof fi i gydſynio â hwy, ac ymado â'r Yſgrythur lân, yr hon ſy'n oleu, ac yn unig na's gall gyfeiliornu. Ac felly y torrwyd i fynu y gymmanfa tros hynny o dro. Rai diwrnodau ar ol hynny eſgob *Trevers* a ordeiniodd i Luther ddyfod o'i flaen ef, gyd a pha un hefyd yr oedd rhai o'r tywyſogion wedi

ym-

ymgynnull; y pryd hyn darfu iddynt arferyd amryw reſymmau i'w berſwadio ef i alw yn ol ei ddaliadau; gan ddangos iddo eu bod hwy yn deall os pallu a wnai, mai pwrpas yr ymerawdwr oedd ei alltudio ef allan o'r ymerodraeth; ac am hynny dymunaſant arno yn ddifrif i fyfyrio ar y peth hyn. Luther attebodd ei fod ef yn ddiolchgar iddynt hwy i'r fath dywyſogion ardderchog gymmeryd cymmaint gofal yn ei gylch ef, yr hwn oedd un mor wael ac anheilwng; etto fe ddwedodd wrthynt fod yn well ganddo ef golli ei fywyd nag ymado oddi wrth wirionedd eglur gair Duw, gan ei bod yn well ufuddhau i Dduw nag i ddyn. Yna gorchymynwyd iddo fyned allan dros ronyn; yna daeth atto un *Vaeus*, cyfreithwr, yr hwn a fynne ganddo adael ei lyfrau ar farn yr ymerawdwr, a'r tywyſogion: i ba un yr attebodd ef, nad oedd ef yn diyſtyru barn yr ymerawdwr na thywyſogion yr ymerodraeth, os caent hwy eu harwain gan air Duw; yr hwn, eb efe, ſydd mor eglur o'm tu I, fel os na's gallant y'm hargyhoeddi o gyfeiliornad, ni's gallaf ymado â'm daliadau. Ymhen ychydig wedi'n yr ymerawdwr a ddanfonodd atto i ymado tu a thre, gan roi iddo ugain diwrnod ag un i ddychwelyd, gan orchymyn iddo na fynegai ef ddim i'r bobl ar y ffordd, na thrwy air, na 'ſgrifen. Ac ar ol ei ymadawiad yr ymerawdwr a gyhoeddodd farn eſgymmundod i'w erbyn. Omd mor gynted ag y cyhoeddwyd y farn hon, tywyſog *Frederick* a appwyntiodd ryw arglwyddi ag oedd ef yn gredu fod yn ffyddlon, i'w ddwyn ef i le dirgel, fel trwy hynny y gallai ef ochelyd y pervgl: y rhai a wnaeth felly, ac a'i dygaſant ef yn ddirgel i *Wartsburg*, yr hwn alwodd ef ei *Batmos*, lle yr aroſodd ef 10 mis, ac y 'ſgrifennodd amryw lyfrau defnyddiol. Yn y flwyddyn 1522, *Luther* a 'ſgrifennodd at *Melanfton* i barottoi iddo letty yn *Wittenberg*; *canys cyfieuthad y Bibl*, eb efe, *ſydd yn ſy nghymmell i ddychwelyd.*

chwelyd. Canys am ei fod ef wedi cyfieuthu llawer o'r Bibl i'r *Dutch* yn ei *Batmos*, angen cedd iddo ymgynghori â gwŷr dyſgedig, a chael eu cynhorthwy am yr unrhyw; ac yn y cyfamſer ag y bu *Luther* o *Wittenberg*, *Juſtus Jonas*, *Phill Melanction*, *Ampſdorfius*, ac eraill daflaſant ymaith y maſs, delwau, cyſaddefiad ynghluſt yr offeiriad, gweddiau ar ſeintiau, a'r cyfryw goelgrefyddau. Ond *Melanction* yn gwybod llid y papiſtiaid, a bygwthion yr ymerawdwr i wyr droi yr Efengyl, a ſlinodd yn fawr, ac a roddodd ei hun yn hollol i driſtwch, och'neidiau, a dagrau; ar ba achos y 'ſgrifennodd *Luther* atto fel hyn; *Mewn ymladdfau dirgel myſi ſydd wan a chwi yn gryf, ond mewn ymladdfau cyhoedd yr ydys yn eich cael chwi yn [illegible] a minneu yn gryfach; canys diau gennyf fod cin hachos yn dda, os cwympo wnawn, Criſt yr Arglwydd, a llywodraethwr y byd a gwymp gyd â ni, a meddyliwch iddo ef i gwympo,* Mallem ruere cum Chriſto quam regnare cum Cæſaro. *Hynny yw, Gwell ſyddai gennyf gwympo gyd â Chriſt nâ ſefyll gyd â Cæſar: yr wyf yn eitha anfoddlon i'ch gofal anghymhedrol chwi, â pha un yr ydych yn dweud eich bod bron diharffu: bod y rhai'n yn teyrnaſu yn eich calon ſydd, nid oddi wrth faintioli y perygl, ond oddi wrth faintioli eich hanghrediniaeth chwi. Os yr achos ſydd ddrwg, rhown ef i fynu, a thrown yn ol; os yw yn dda, pa ham y gwnawn Dduw yn gelwyddog yr hwn a roddodd i ni y fath addewidion, gan ddywedyd,* Rhoddwch eich gofal ar yr Arglwydd; byddwch gyſurus mi orchfygais y byd. *Fe ai un i 'moſyn y fath addewidion a rhai'n ar ben ei liniau o* Rufain *i* Jeruſalem. *Os Criſt yw Concwerwr y byd, pa ham yr ofnwn ni y byd fel pe gallai ein gorchfygu ni? byddwch galonnog a llawen heb ofalu am ddim: mae yr Arglwydd yn agos i'n cynnorthwyo.* Ac mewn lle arall, pan yſgrifennodd *Henry* yr wythfed o Loegr yn chwerw yn ei erbyn ef: *Gwnaed yr* Henriod, *yr eſgobion, y twrc, a'r diafol ei hun a allont,*

allont, plant y deyrnas ydym ni, yn addoli ac yn diſgwyl am y Iachawdwr, yr hwn maent hwy a'u bath yn poeri yn ei wyneb, ac yn groeshoelio.—Yn y flwyddyn 1523, ſe gadwyd *dict* neu barlament yn *Noremberg*, yn abſennoldeb yr emprwr, lle diddyfnwyd yr arfaeth a wnaed o'r blaen yn *Worms*. Hyn oll ddarfu i legat y pab i achwyn wrth y tywyſogion, gan ddweud, ni's coſpwyd Luther ar ol gorchymyn yr ymerawdwr; i ba un yr attebodd y tywyſogion, i bennaethiaid *Rhufain* i. eſgeuluſo diwygiad: fod *Germany* mor belled wedi ei goleuo trwy bregethu, a llyfrau Luther, fel os ai nhwy i ddodi arfaeth yr ymerawdwr i gael ei chyflawni terfyſgoedd mawrion a godai, a'r bobl fyddai barod i dybiaid eu bod am orthrymmu'r gwirionedd, ac i ddiffodd goleuni yr Efengyl, fel y gallent yn well amddiffyn y drygioni amlwg hynny, yr hwn na's galle yn hwy gael ei guddio. Fe arferai fod yn fynych iawn mewn gweddi. Fe ddywaid un *Vitus Theodorus* am *Luther*, nad oedd un dydd yn myned heibio heb ei fod yn treulio tair awr mewn gweddi o leia. Ac un tro, medd ef, y darfu i mi ei glywed ef, O pa fath yſpryd! O pa fath ffydd oedd yn ei ymadroddion ef! gyd â'r fath barch yr oedd ef yn gofyn un rhyw beth, megis yn ceiſio gan Dduw, etto gyd â'r fath obaith, a ſicrwydd fel pe ceiſiaſai beth gan dad cariadus, neu gyfaill. Y dydd cyn ei farwolaeth fe giniawodd ac a ſwpperodd gyd â'i gyfeillion, gan ymddiddan amryw bethau, ac ymhlith pethau eraill rhoddodd ei farn y cawn yn y nefoedd adnadod y naill y llall. Ar ol ſwpper y dolur yn ei ben a chwanegodd, fe aeth o'r naill du ac a weddiodd; yna fe aeth i'r gwely ac a hunodd; ond o ddautu hanner nos pan ddihunodd a'r dolur yr un wedd, fe ddeallodd ei fod ar derfynu ei fywyd, ac a ddywedodd, yr wyf yn dymuno ar Dduw i gadw athrawiaeth yr Efengl yn ein plith; canys mae gan y pab a chownfil *Trent* bethau ofnadwyyn llaw: ar ol pa

eiriau

eiriau ſe weddiodd fel hyn, "O Dad nefol, ſy Nuw graſuſaf, a Thad ein Harglwydd Ieſu Griſt, tydi Dduw pob diddanwch, yr wyf yn diolch i ti o'm calon i ti ddatguddio i mi dy Fab Ieſu Griſt, yn yr hwn yr wyf yn credu, yr hwn wyf yn broffeſu, yr hwn wyf yn ei garu, a'r hwn wyf yn ogoneddu, yr hwn mae'r pab a holl dyrfa'r annuwiol yn ei erlyd, ac yn ei ddianrhydeddu: yr wyf yn atolwg i ti Arglwydd Ieſu Griſt, derbyn fy yſpryd! O fy Nhad nefol! er im' gael fy nghymmeryd allan o'r byd hwn, ac im' roddi lawr y corph gwael hwn, etto yr wyf yn gwybod yn ddiau y byddaf byw gyd â thi yn dragywydd, ac na's dygir fi o'th law di, canys felly carodd Duw y byd fel y rhoddodd ei unig anedig Fab, fel pwy bynna gredo yndo ef na chollir, ond cael bywyd tragywyddol; Arglwydd 'rwi'n rhoi fynu fy yſpryd yn dy ddwylaw di, ac 'rwi yn dyfod attat; a thrachefn, i dy ddwylo di Arglwydd yr wyf yn gorchymyn fy yſpryd; tydi O Arglwydd y gwirionedd a'm gwaredaiſt i!"—Pan ydoedd ef yn marw, rhai o'i gyfeillion ofynaſant iddo, O barchedig dad! a ydych yn marw ynghyfaddefiad ſefydlog o'r athrawiaeth hynny o eiddo Criſt ag a bregethaſoch chwi hyd yma? ac yntef a attebodd Ydwyf, y rhai oedd y geiriau diweddaf a lafarodd ef. Yr ydoedd ef bob amſer yn ſefydlog yn y gwirionedd eglur, oddi wrth gyffes pa un ni's gellſid fyth ei ſymmud, na thrwy addewidion na thrwy fygythion. Yr oedd ef yn arferol o ddywedyd, Tri pheth wna ddifinydd, myfyrdod, gweddi, a themtaſiynau; a dod tri pheth i'w wneud gan weinidog, 1. I ddarllen y Bibl drofto drachefn a thrachefn. 2. Gweddio yn daer. 3. Bod bob amſer yn dyfgu: ac mai y pregethwyr goreu oeddent hwy ag oedd yn llafaru fel i fabanod yng Nghriſt, mewn ymadroddion deallgar, ac mewn dull goleu i'r cyffredin bobl. Fe ddwede mai yn achos Duw ei fod ef yn foddlon i fyned tan ddigofaint, a chyndeiriog-

rwydd yr holl fyd. Fel yr oedd ef yn gadarn mewn gweddi, felly hefyd yn ei bregethau rhoddodd Duw iddo y fath ddawn fel pan bregethai fel y tybiai ei holl wrandawyr fod eu profedigaethau neilltuol hwy yn cael eu cyhoeddi allan. A rhai o'i gyfeillion a ofynafant iddo yr achos o hyn; *Fy aneirif demtafiynau fy hun*, eb efe, *a'm profiadau yw yr achos o hono.* Fe ddywaid *Willerus* hefyd, dyfgybl *Luther*, iddo ei glywed ef yn fynych yn dwedyd iddo gael ymofod arno, a'i flino yn fynych â phob rhyw demtafiynau ond y pechod o gybydd-dod. Ni's goddefe mewn un dull i alw neb ar ei enw, canys, eb efe, yr athrawiaeth yr wyf fi yn ei dyfgu, nid eiddo fi yw; ac ni's buesI chwaith farw tros un dyn; ac ni's goddefe *Paul* hyn, 1 *Cor.* i. 13. Fe fu farw yn y flwyddyn 1546.

Eu. A gododd yr Arglwydd neb arall yn *Germany* yn nyddiau *Luther*, i fefyll dros y gwirioneedd, ond ef ei hun?

Ap. Do amrywiol; megis *Myconius*, *Zellius*, *Bugenhagius*, *Melancton*, *Brentius*, *Bucholtzer*, ac eraill; y rhai fu yn wŷr hynod yn eu pregethau, ac i wrthfefyll cyfeiliornadau'r pab; rhai o honynt yn yr un amfer a *Luther*, ac eraill o honynt ar ei ol ef.

Eu. Chwi ddywedafoch fod *Melancton* un un, manegwch ychydig am y cyfryw un, o ran fod mwy o fon am dano nâ neb o'r lleill.

Ap. Mi wnaf hynny, ond dweud gair yn gyntaf am *Myconius*, yr hwn pan glafychodd o'r consumfiwn yn y flwyddyn 1541, a 'fgrifenodd at *Luther* ei fod yn glaf, ond nid i farwolaeth, ond i fywyd: yr hyn a foddlonodd *Luther* yn fawr, ac a wnaeth iddo 'fgrifennu yn ol drachefn atto fel hyn; *Yr wyf yn dymuno ar Grift ein Harglwydd, cin iechyd, a'n iechydwriaeth, na bwyf byw i dy weled di, a rhai eraill o'n cydgyfeillion yn marw, a myned i'r nefoedd, a'm gadael I yma yn unig: yr*

wyf

wyf yn dymuno ar Dduw i mi yn gyntaf roddi lawr y babell ſych ddiddefnydd hon. Ffarwel, na atto Duw i mi glywed am dy farwolaeth tra bwyf byw. Ymhen tro wedi'n *Myconius* a wellhaodd ar ol gweddi *Luther*, er ſod ei glefyd yn ymddangos yn anobeithiol, ac a fu byw wedi'n 6 mlynedd, hyd yn ol marw *Luther*, ar ba achos dywed un *Juſtus Jonas* am *Luther*, ſe gai y dyn bwnnw y peth a fynnai ef gan Dduw: hyn am *Myconius*. — Ond, i fyned at *Melancton*, yr oedd ef yn byw yn nyddiau *Luther*, ac yn gyfaill ffyddlon iddo, yn nechreu y diwygiad; ac mae *Eraſmus* yn 'ſgrifennu am dano fel hyn; *Philip Melancton* ſydd yn *Roegwr* rhagorol, a dyſgedig; nid yw ond bachgennyn os yſtyriwn ei oedran, ond un o honom ni yr henaſgwyr yw pan yr edrychom ar amrywioldeb ei wybodaeth, ymron ym mhob llyfrau; mae ef yn dyſgu y ddwy iaith yn gywraint; yr wyf yn dymuno ar yr Iefu i'r gwr ieuangc yma i fyw, ſe faedda *Eraſmus* yn fuan. Fe ddaeth i *Wittenberg* pan oedd ef ond 22 oed: yno y dechreuodd ef eſponio epiſtolau *Paul* at *Titus* o'r *Groeg*, er mawr ſyndod ei wrandawyr, y rhai oedd yn pentyrru yn rhyfeddol i wrando arno. A *Luther* hefyd oedd yn cael mawr foddlonrwydd ynddynt. Pan dychwelwyd *Melancton* ei hun, ſe feddyliodd ſod yn amhoſibl i'w wrandawyr i wrthſefyll eglurder gwirionedd yr efengyl. Ond ar ol bod tros dro yn bregethwr ſe achwynodd ſod hen *Adda* yn drech na *Melancton* ieuangc. Yr oedd ef yn arferol o ddywedyd ſod tri gorchwyl yn orcheſtol iawn, ſef teyrnaſu, gweinidogaethu, ad-wyn plant i'r byd.

Eu. Ymha rannau eraill o *Europ* y cododd Duw offerynnau diwygiad heblaw *Germany?*

Ap. Yn *Switzerland* arddelodd yr Arglwydd *Zwinglius*, *Oecolempadius*, *Muſculus*, *Calvin*, *Farellus*, *Bullinger*: y rhai oll yn wrol a wrthwynebaſant athrawiaethau'r pab, a hynny amryw o honynt o ddautu yr un amſer a *Luther*, a rhai ychydig bach wedi'n.

Eu.

Eu. Da (pe rhoddai yr amſer) fyddai gennyf i chwi ddywedyd ychydig am bob un o rhai'n, ond y pennaf gennyf glywed am dano yw *Calfin*, am fod y rhai uniawngred o'r eglwys yn cael eu galw yn *Galfiniſtiaid*.

Ap. *Calfin* a anwyd yn *Ffraingc*, ac a lafuriodd yngwaith y weinidogaeth yn *Geneſa*; lle trwy ryw ragluniaeth y daeth ef (heb un meddwl aros) ychydig bach o amſer cyn i efengyl Criſt gael ei dwyn yn rhagluniaethol iawn i'r ddinas honno, trwy lafur a diwydrwydd dau wr rhagorol, un *William Farel*, a *Peter Viret*, llafur waith pa rai ddarfu i Dduw lwyddo a bendithio ar ol llaw yn rhyfeddol. Pan clywodd *Calfin* am y gwyr rhagorol hyn, efe a aeth i ymweled â hwy, wrth ba un y llafarodd *Farel* gyd â llawer o daerni, gan ei annog ef o bryſur i aros yn *Geneſa*, a'u cynnorthwyo hwy yngwaith Duw. *Calfin* ynteu wedi cael ei gynhyrfu gan ei erfyniau ditrifol ef, a ymddarſtyngodd i farn y Presbitery, a'r ſwyddogion gwladaidd, trwy ddewiſiad pa rai, gyd â chydſyniad y bobl y dewiſwyd ef yn Broffeſwr Difinyddiaeth. A'i lafur waith cyffredin ef yn y ſwydd honno oedd y pethau hyn: yr oedd ef yn pregethu ddwy waith bob dydd ſabbath; yr oedd ef yn darllen ei lecturau difinyddiaeth bob dydd llun, dydd mawrth a dydd mercher; bob dydd iau byddai yn cynnorthwyo yn conſiſtory court, at arferyd iawn ddyſgyblaeth eglwyſig: dydd gwener fe fyddai yn darllen lectur i egluro rhyw fannau tywyll o'r Yſgrythurau: heblaw hyn, fe 'ſgrifennodd lawer o agoriadau ar yr Yſgrythurau; attebodd amryw wrthwynebwyr y gwirionedd; 'ſgrifennodd amryw lythyrau i amryw leoedd o gyngor a chyfarwyddiad mewn achoſion pwyſlawr; ſel y mae gennym achos i ryfeddu pa fodd yr oedd yn boſibl i un dyn i gyflawni cynnifer o bethau. Fe wnaeth lawer o ddefnydd o *Farel* a *Viret*; ac etto yr oedd ef yn rhagor o gynnorthwy

iddynt

iddynt hwy. Ac yn wir yr oedd eu cyfeillgarwch, er ei bod yn cael ei chenfigennu lawer gan yr annuwiolion, yn hyfryd iawn gan bob dyn da. A hyfryd olwg oedd gweled y tri dyn hyn mor bynod yn yr eglwys, yn hollol gyttuno yngwaith yr Arglwydd; ac etto pob un yn rhagori yn amryw o ddoniau yr Yſpryd. *Farel* oedd yn rhagori mewn rhyw ardderchowgrwydd meddwl, pregethau taranllyd pa un ni's gellid eu clywed heb ddychryn, a gweddiau gwreſog pa un a ddyrchafai ddyn i'r nef. *Viret* oedd yn rhagori mewn araith felus cymmaint, fel yr oedd yn clymmu ei wrandawyr wrth ei weſulau; *Calfin*, cymmaint o eiriau a lafarai, cynnifer fyddent o werſi nerthol, a dwys, yn llanw cluſtiau y gwrandawyr: fel dywedodd *Beza*, pe buaſai y tri dawn hyn yn yr un dyn, fe wnaethai bregethwr cyfan gwbl.—Heblaw y gorchwylion enwyd eiſicaes, yr oedd gan *Calfin* amryw achſion pellennig; canys felly y bendithiodd Duw ei weinidogaeth ef, fel yr oeddid yn dyfod atto o bob parth o'r byd, mewn rhan, am ei gyngor yn achos Creſydd, ac mewn rhan i'w wrando ef yn pregethu, fel yr oedd dinas *Geneſa* yn rhy fach i gynnwys yr holl bobl ag oedd yn dyfod yno er ei fwyn ef. Pan oedd ef i maes o hwyl, ei gyfeillion a'i cyngoraſant ac a ddeiſyfaſant yn daer arno, na byddai iddo 'ſgrifennu, nac adrodd peth i arall i 'ſgrifennu; ond ſe atteboedd, Beth? a fynnech chwi fy mod i yn ſegur pan ddelai'm Harglwydd? cyn ei farw ymhlith pethau eraill ſe ddywedodd wrth bendefigion ac aldermen *Geneſa* y geiriau hyn, Yr wyf yn cyfaddef o'm gwirfodd fod arnaf lawer o ddyled i chwi am i chwi yn amyneddgar ddioddef fy ngormodd poethder rai prydiau; yr hyn bechod, yr wyf yn credu fod Duw yn ei faddeu hefyd. Ond am yr athrawiaeth a glywſoch gennyf fi, yr wyf yn cymmeryd Duw yn dyſt, mai nid yn fyrbwyll ac yn anwadal, ond yn bur ac yn ddiragrith y dyſg-

ais air Duw, yr hwn a ymddiriedwyd i mi. Pan clywodd ef fod hen ŵr o 80 oed, a hwnnw yn afiachus, ar feddwl dyfod i ymweled ag ef, a'i fod ar ei daith, fe 'sgrifennodd atto fel hyn i'w attal i ddyfod: *Ffarwel fy anwylaf a'm goneſtaf frawd, am fod Duw yn gweled bod yn dda i ti fyw ar fy ol I yn y byd hwn, bydd fyw mewn cof o'n cyfeillach, yr hyn fel y bu yn fuddiol i eglwys Dduw, felly mae'r ffrwyth o hono yn ein haros ni yn y nef. Ni's dymunaf i chwi ſtino eich hunan yn fy achos I, prin yr ydwyf yn tynnu fy anadl, ac yr wyf yn diſgwyl beunydd pa bryd y methaf yn lân. Mae yn ddigon i mi fyw a marw i Griſt, yr hwn ſydd elw i'w eiddo ef mewn bywyd ac mewn angau.* Ond er hynny oll, yr henafgwr hwn a ddaeth i *Geneſa*, ac a ymddiddanodd â Mr. *Calfin*, ac a ddychwelodd. Cynnifer o ddyddiau ag y bu ef byw ar ol hyn, a dreuliodd ef gan mwya mewn gweddi waſtadol, a'i lygaid wedi ſefydlu tu a'r nef. Pan bu farw, galar mawr iawn fu am dano trwy yr holl ddinas, gan y ſeneddwyr, y gweinidogion, proffeſwyr y coleg, a'r holl bobl. Yr oedd ef yn ddyn o gof mwya parod, a rhyfedd; ac o yſpryd barn mwya union ynghanol cythruddiadau aneirif. Yr oedd ef yn ddibris iawn o ddyrchafiad, er ei fod yn cael ei gynnyg yn fynych iddo: nid oedd yn bwytta ond ychydig, nac yn cyſgu ond ychydig. Yr oedd ynddo ryw bereiddra yn gymmyſgedig â'i ddewrder: doeth ac addſwyn oedd ef i ddiodde gan wendidau dynion, etto fe argyhoeddai eu pechodau yn llym heb ragrith: y fath bregethwr oedd ef, fel y tynnodd ef *Loegr*, *Spain* ac *Idal* atto, gan lanw *Geneſa* â dieithriaid. Y fath 'sgrifenwr mawr oedd ef, fel ag y dywedir am St. *Auſtin*. iddo 'sgrifennu mwy nag all nemawr yn iawn ddarllen. Yr oedd ei 'sgrifenadau mor awddus, yn cael eu derbyn, fel yr oeddent fel rhyw ddarnau mwya rhagorol a gwerthfawr yn cael eu cyſgeitbu yn union i ieithoedd eraill. Pa beth ſydd

i ddy-

i ddywedyd am ei ddiwydrwydd diflino ef hyd yn oed tu hwnt i allu nattur; ac fe ellir yn wir edrych arno yn wrthddrych o ryfeddod, pa fodd y gallafai corph teneu, treuliedig, a blinedig i ddal allan. Yr oedd ef yn darllen bob wythnos dair lecture; a phob ail wythnos gyd â hynny yn pregethu bob dydd; ac mae rhai yn rhifo ei lecturau ef yn y flwyddyn yn un cant a phedwar ugain a chwech; a'i bregethau yn ddau cant a phedwar ugain a chwech, heblaw dydd iau byddai yn eiſtedd yn y presbitery; bob dydd gwener pan byddai y gweinidogion yn caſglu i ymddiddan ynghylch agoriad textau anodd eu hagor, fe wnai gyſtal a lecture: ac hefyd nid oedd braidd ddiwrnod o ba un ni threuliodd ef ryw ran, naill ai trwy air neu 'ſgrifen, i atteb cweſtiwnau ac amheuaeth amryw ſugeiliaid ac eglwyſydd ac oedd yn ymofyn ag ef addyſg a chyngor: a thros ben hyn oll nid oedd un flwyddyn yn myned heibio, na ddeuai allan oddi wrtho ryw *Volum* fawr neu gilydd yn *ffolio*; felly fel ymhen ychydig flynyddau ei agoriadau maithion ef ar bump llyfr *Moſes*, *Joſhua*, *Job*, y *Salmau*, yr holl Brophwydi, ac yn agos yr holl Deſtament newydd ddaeth allan i'r byd, mor llawn o bob ymadroddion ſylweddol ag o bapur. Wrth yſtyried y pethau hyn, pa amſer allaſai ef roddi i ſegurdod, neu feddyliau ofer. Yn ei glefyd diweddaf prin y cymmerai ef ei gymmell gan ei gyfeillion i eſgeuluſo ei ddyledſwydd feunyddiol o bregethu, a darllen ei lecturau difinyddiaeth, a chartre pan yr oedd ef yn methu myned allan, yr oedd yn blino eraill trwy bara rhoi iddynt beth i 'ſgrifennu, yn hytrach nâ blino ei hun. Nid oedd dim yn fwy mynych ar ei dafod nâ hyn; *O bob peth, bywyd ſegur yw'r mwya poenus i mi*; ie'r fath gydwybod oedd ef yn wneuthur o gamdreulio munud, fel na's mynne gadw gweinidogion ag oedd yn dyfod i'w weled ef oddi wrth eu gwaith cyhoedd. fe fu farw yn y flwyddyn 1562, ſef 16 mlynedd ar ol *Luther*.

Eu.

Eu. Rhy faith fyddai i chwi roi hanes o holl wyr enwog y diwygiad, am hynny dewch o *Switzerland* i *Loegr* a *Scotland*, pa fodd yr ydoedd hi yma y dyddiau hyn? canys mi wn fod yma dertyfgoedd mawr yn nyddiau *Harry* yr wythfed, *Edward* y chweched, a *Mary* waedlyd, cyn fe-fydiu yr Efengyl bur yn nyddiau *Elizabeth*. Am hynny ni's blinaf mo honoch am yr achofion gwladaidd, a chyfnewidiadau brenhinoedd, a pha ddull byddai pabyddiaeth yn cael ei dyrchafu un tro, a'r grefydd broteftanaidd y tro arall; ond yr hyn a geifiaf gennych fydd adrodd pwy rai yma yn *Lloegr* gafodd eu harddel i ddwyn y diwygiad ymlaen; a pha galedi fu arnynt yn y gorchwyl nefol hwn?

Ap. Torfeudd o offerynnau bywiol, doeth, dyfgedig, a gwrol, y rhai o'u llwyr fodd a roifant eu bywydau i lawr yn dyftiolaeth tros wirioned yr Efengyl yn *Lloegr* a *Scotland*, megis, *Hamilton*, *Wifhort*, *Frith*, *Bilney*, *Tindal*, *Rogers*, *Saunders*, *Hooper*, *Taylor*, *Bradford*, *Ridley*, *Latimer*, *Philpot*, *Cranmer*, *Jewel*, *Knox*, *Deering*, *Gilpin*, *Fox*, *Greenham*, *Rollock*, *Perkins*, *Cartwright*, ac eraill.

Eu. Ni cheifiai gennych roi hanes o rhai'n bob yn un ac un, am y byddai hynny yn dwyn amfer rhy faith, ond naill ag adroddwch ryw bethau mwya hynod am amryw, neu ynte dwedwch yn fwy helaeth am rai, a gadewch eraill heibio; — ond mi chwennychwn yn fawr glywed am *Tindal*, am iddo fel y clywais gyfieuthu'r Bibl; eraill a welech yn fwya buddiol; ewch rhagoch, mi a-dawaf y cwbl i'ch barn chwi.

Ap. Tindal a anwyd ar gyffiniau *Cymru*, ac a ddygwyd i fynu yn *Rhydychen*, lle y cynhyddodd ef i fynu yngwybodaeth y ieuthoedd, a'r celfyddydau, ond uwchlaw'r cwbl yn yr Ysgrythurau; at ba un yr oedd ei feddwl ef yn neilldiol yn tueddu; a'i fywyd ef hefyd oedd mor ddiargyhoedd, fel yr oedd ef yn cael ei garu, a'i berchu gan bawb. Ac

un

un tro pan oedd ef yng nghyfeillaeh un ag oedd yn cael ei gyfrif yn athro difinyddiaeth dyſgedig, ac wrth ymddadleu ag ef, fe'i gyrrodd ef i'r ſath gyfyngder, fel darfu i'r athro dorri allan yn y geiriau cableddus hyn; *Gwell fyddai ein bod ni heb gyfraith Dduw, nâ chyfreithiau'r pab.* Pan clywodd Mr. *Tindal* hyn, yn llawn o zel ddwyfol fe'i hattebodd; *Yr wyf yn ſhallens y pab a'i holl gyfreithiau; ac os Duw a arbed fy mywyd ymhen ychydig flynyddau, mi wna ſachgennyn ag a ſo yn cathren yr ychen i wybod mwy o'r Yſgrythurau nâ chwi.* A chan ei fod yn dymuno, er daioni i'w wlad, gyfieuthu y Teſtament newydd i'r *Saeſoneg*, fe welodd nad oedd dim lle iddo i wneud hynny yn *Loegr*, am hynny trwy gynnorthwy *Humphrey Munmouth*, a rhai gwŷr duwiol eraill, fe aeth i *Germany*, lle darfu i'r gwr duwiol hwn, wedi ei ennyn o zel a gofal tyner tros ei wlad, i beidio gommedd un poen a llafur, os oedd poſibl iddo trwy ryw foddion ddadymchwelyd ei frodyr, a'i gydwladwyr o *Loegr*, i'r un flas a deall o air Duw, ag a roddodd yr Arglwydd iddo ei hunan. Ac wedi iddo ymddiddan â *John Frith*, fe ſeddyliodd ynddo ei hun nad oedd un ffordd well i hynny nag i'r Yſgrythurau gael eu cyfieuthu i'r iath gyffredin, ſel y galle'r bobl ſelly i veled geiriau eglur yr Yſgrythur o'u blaen; am ei fod ef yn deall mai un achos mawr o gyfeiliornad ydoedd, bod gwybodaeth o'r Yſgrythurau yn cael ei guddio oddi wrth y bobl. Ar yr yſtyriaethau hyn, fe oſododd yno ynghylch y gorchwyl; ac wedi iddo orphen cyfieuthu y Teſtament newydd, yn y flwyddyn 1527, fe oſododd ynghylch yr hen; ac a orphennodd bump llyfr *Moſes*, gyd ag amryw ragymadroddion duwiol a dyſgedig, wedi eu goſod o flaen pob un o honynt: yr hyn beth wnaeth ef hefyd ar y Teſtament newydd. Heblaw amrywiol draethawdau duwiol eraill a'ſgrifennodd ef yno.

Eu. Ai o ddautu amſer Luther oedd hyn?

Ap.

Ap. Ie, canys wrth waith *Tindal* yn myned o Loegr i Germany, fe aeth trwy *Saxony*, ac a gafodd lawer o ymddiddan â Luther, ac amryw wyr dyſgedig eraill yn y parthau hynny; ond fe ddychwelodd oddi yno i'r *Netherlands*, ac a wnaeth ei artref mwya mynych yn *Antwerp*.

Eu. A ddanfonodd ef y llyfrau hyn droſodd i Loegr.

Ap. Do. Ac ni's gall neb amgyffred pa ddrws o oleuni a agoraſant hwy i lygaid yr holl genhedl, y rhai oedd wedi eu cau i fynu er's amſer hir mewn tywyllwch. A phan daeth y llyfrau duwiol hyn, ac yn enwedig cyfieuthad y Teſtament newydd allan, fel yr oeddent yn dwyn budd neilldyol i'r duwiolion; ſelly yr offeiriaid yn diyſtyru, ac yn cenſigennu fod y bobl yn dyfod yn ddoethach nâ hwy, ac yn ofni, fe alle, trwy ddiſgleirdeb pelydr y gwirionedd y byddai eu rhagrith hwy a gweithredoedd y tywyllwch gael eu datguddio, dechreuaſant wneud mwſtwr mawr: rhai ddwede fod mil o hereſie ynddo; eraill ddwede fod yn amhoſibl cyfieuthu'r Yſgrythurau i'r *Saeſoneg*; eraill nad oedd gyfreithlon i'r bobl gyffredin i gael y Bibl yn eu iaith eu hunain, *&c.* ond o'r diwedd yr eſgobion a'r offeiriaid a gafodd gan y brenhin *Harry* yr wythfed i roi cyhoeddiad allan i wahardd prynu a gwerthu un o honynt.

Eu. Pa beth ddaeth o'r gwr da hwn wedi'n?

Ap. Yr eſgobion a'r offeiriaid a gyflogaſant un *Henry Philips* i fyned troſodd i *Antwerp* i'w fradychu ef; yr hwn pan ddaeth yno a wenhieithodd ei hun i gyfeillach Mr. *Tindal*, gan gymmeryd arno fod gantho garedigrwydd mawr atto; ac wedi gwybod am ei letty ef, fe aeth i *Bruſſels*, ac fe dycciodd yno ſel y daeth ag attorney yr ymerawdwr i *Antwerp*; a chan gymmeryd arno i ymweled â Mr. *Tindal*, fe'i traddododd ef i ddau o gatchpoliaid, y rhai yn union a'i dygaſant ef at yr attorney, yr hwn, ar ol ei holi, a'i danfonodd

i'r

i'r carchar, yng nghaſtell *Ffilfford*; a hwy gipiaſant ei holl 'ſgrifenadau ef, a pha beth bynnag arall a feddai ef yn ei letty. Ac er i ſarſiandwyr Lloegr ag oedd yn *Antwerp*, y rhai oedd yn caru *Tindal* yn dda iawn i wneud a allent ar iddo gael gollyngdod; ac er i arglwydd *Cromwel*, ac eraill o Loegr anfon llythyrau yn ei achos, ond *Philips* a chwariodd ei hun mor lew, fel y darfu i'w holl ymegniadau hwynt fyned yn ddim; a *Tindal* o'r diwedd a ddygwyd i atteb drofto ei hun; ac ar ol ymreſymmu llawer, er nad oedd yn haeddu marwolaeth. etto hwy a'i condemnaſant i farw. A phan y dygwyd ef i'r dihenyddle, tra yr oeddent yn ei rwymo ef wrth y poſt, fe waeddodd â llef wreſog ddyrchafedig, *Agor lygaid brenhin* Lloegr! Ac felly yn gynta fe dagwyd, ac yna fe loſgwyd. Fe adawodd attorney yr ymerawdwr yr hwn oedd yn ei broſecuto ef, y dyſtiolaeth hyn am dano, *mai gwr dyſgedig, duwiol a da oedd ef.* Ac am ei gyfieithad ef o'r Teſtament newydd, yr hwn oedd yn cael ei ddiyſtyru gymmaint gan ei elynion, fe ddywaid ei hun fel hyn am dano, mewn epiſtol a 'ſgrifennodd ef at *John Frith*; *Yr wyf yn galw Duw yn dyſt, erbyn y dydd y bom yn atteb o flaen ein Harglwydd Ieſu Griſt, i roi ſynu gyfrif o'n gweithredoedd, na's darfu i mi gyfnewid un ſilafft o air Duw yn erbyn fy nghydwybod; ac ni's gwnaethwn o hono er dim ag ſydd ar y ddaear, pa un bynnag ai anrhydedd, pleſer, neu elw.* Fe ddioddefodd angau yn y flwyddyn 1536, tef 10 mlynedd cyn marw Luther.

Eu. A gafodd y cyfieuthad hwn neu ryw gyfieuthad arall un rhydd did i'w ddarllen gan y bobl gyffredin?

Ap. Cafodd, canys o ddautu'r flwyddyn 1543, commiſſioners *Burghs* yn *Scotland* a rhan o'r arglwyddi a ddeiſyfodd ar y parlament i wneud cyfraith ar fod yn gyfreithlon i bob dyn i arferyd y cyfieuthad ag oedd ganddynt hwy y pryd hynny o'r

o'r Hen Deſtament, a'r Newydd; ac hefyd pob llyfrau eraill ag oedd yn cynnwys athrawiaeth iachus, hyd y fath amſer ag y buaſai prelatiaid a phennaethiaid eglwyſig eraill yn goſod allan iddynt gyfieuthad mwy cywir. Yr offeiriaid dros hir amſer a wrth'nebaſant hyn; ond yn y diwedd wedi eu hargyhoeddi trwy reſymmau, a lliaws o leiſiau, hwy gwympaſant. Ac felly trwy act o barlament y gwnawd yn rhydd i bob rhyw ddynion dyſgedig ac annyſgedig, yn fenywod ac yn wrrywod, i ddarllain yr Yſgrythur yn eu tafodiaith gyffredin eu hunain. Nid buddugoliaeth fechan oedd hon o eiddo'n Harglwydd Ieſu Griſt ar elynion bradwriaethus ei wirioneddau; ac nid cyſur bychan i'r rhei'ny ag oedd o'r blaen yn cael eu dal yn y fath gaethiwed ſel na's meiddient i ddarllen gweddi'r Arglwydd, y deg gorchymyn, nac articlau'r ffydd yn y iaith gyffredin, heb gael eu cyhuddo o hereſi: Ond yn awr gellid gweled y Bibl yn gorwedd ymron ar fwrdd pob pendefig; a'r Teſtament newydd oedd yn cael ei ddwyn o ddautu yn nwylo amryw o ddynion, ac felly cynnyſgaeddodd gwybodaeth o Dduw yn rhyfeddol, a Duw a roddodd ei Yſpryd i eneidiau ſyml mewn cyflawnder mawr.

Eu. A laeſodd erledigaeth yn awr yn *Scotland*, pan cafodd y fath gyfraith fendigedig a hon ei gwneud?

Ap. Na dda, canys yn yr un flwyddyn, ſef 1543, daeth cardinal *Beton* i *Edinburgh*, ac a wſiodd amryw o ddynion duwiol o'i flaen; a phan na's gallodd brofi dim arall yn eu herbyn hwynt, ſe barodd grogi pedwar gŵr ar ddrwgdyb eu bod wedi bwyta gŵydd ar ddydd gwener; ac a barodd hefyd foddi gwraig a'i phlentyn ſugno ar ei bronnau, am ommedd gweddio ar *Fair* y forwyn. Amryw eraill a barodd ef eu halltudio, eraill a daflodd ef i garchar, ymhlith pa rai yr oedd un *John Rogers*, pregethwr dyſgedig a duwiol, yr hwn

hwn a barodd ef i'w fwrddro yn y carchar, ac yna ei daflu i lawr dros y mur, gan rai allan mai wrth geisio diangc y torrodd ef ei wddf: a gormod amser ai i roddi hanes manwl o'r holl rai loſgwyd, ac a ddihenyddwyd bob ffordd yn *Scotland* cyn i rydd did hollol dorri allan i arddel yn gyhoedd wirioneddau'r Efengyl. Ac etto ynghanol yr holl greulondeb gwaedlyd hyn, gwybodaeth o Dduw oedd yn rhyfeddol gynhyddu bob dydd; mewn rhan trwy ddarllen, ac mewn rhan trwy ymddiddanion brawdol, yr hyn oedd yn cael ei arferyd yn y dyddiau peryglus hynny er cyſur ac adeiladaeth amrywiol. Ychydig bach o flaen hyn, ſef yn y flwyddyn 1538, y lloſgwyd mewn un tân bedwar pendefig; a'r ail flwyddyn lloſgwyd dau, ac nid oedd un o honynt ond deunaw oed; y rhai oll aethant yn gyſurus trwy'r fflammau i'r bywyd tragwyddol. — Ac yn fyr rhy anodd cyfri y rhiſedi, ac anhawſach datgan yr yſpryd hyfryd tangneſeddus, gwrol, a ſicr oedd yn perchennogi y rhai'n yn eu dioddefiadau.

Eu. 'Rwi'n deall mai yn nyddiau *Luther* oedd yr hyn oll ag a ddywedaſoch etto am y diwygiad mawr, ac mae'n debyg, er mai *Luther* oedd un o'r offerynnau mwya yn *Germany*, etto bod Duw wedi codi amrywiol eraill mewn amryw o wledydd *Europ*, ag oedd o'r un Yſpryd, yr un oleu, a'r un ffydd wrol ag ynteu: am hynny adroddwch ryw ychydig am y diwygiad yn gyffredin.

Ap. Yr oedd y diwygiad hwn yn un o ryfeddodau'r byd, nid llai nâ gwared plant yr *Iſrael* o wlad yr *Aipht* trwy law nerthol; neu dorri lawr yr holl hen oruchwiliaeth *Iuddewig* trwy ychydig bach o bobl dlodion annyſgedig; ond yn unig eu bod yn gyflawn o'r Yſpryd Glân; felly yma, holl *Europ* yn fawrion ac yn fychain, oedd yn gorwedd nid yn unig mewn eitha tywyllwch, ond hefyd yn eitha llid, rhagfarn, cenfigen, a phob yſpryd gwaedlyd yn erbyn Criſt a'i Efengyl; etto Duw

yn arddel rhai ymhob oes o'r tywyllwch dudew hyn, i ſefyll i fynu tros wirionedd ei air, ac yn rhoddi iddynt yſpryd boddlon i ymadael â'r cwbl, hyd yn oed â'u bywydau, er mwyn llwyddiant Efengyl Criſt. Yr offerynnau hyn, trwy burdeb eu bywyd, eu hunan-ymwadiad, eu dioddefgarwch, eu glyniad wrth air Duw, trwy arfogaeth Duw ar y dde' ac ar yr aſwy, a ſafaſant i fynu yn eitha gwrol yn erbyn y torfeudd o gyfeiliornadau; ac i'r achos hynny cadwyd amryw gyfarfodydd o ymddadleu cyhoedd, yr hyn ſonier am danynt yn helaeth yn hiſtoriau'r eglwys, ymha le darfu i'r gwirionedd mor eglur i gyfiawnhau ei hun gyd â'r fath awdurdod, a goruchafiaeth ar gydwybodau dynion, ag y parodd nid yn unig torri lawr hyder gref y gelynion, a gwthio eu harfau allan o'u dwylaw, ond hefyd gwneud i amryw o honynt orfod rhoi cyfaddefiad i'r gwirionedd, ac i'r ſwyddogion gwladaidd wneuthur diwygiad cyffredin mewn amryw o ddinaſoedd mawrion; a hynny heb dywallt gwaed, na therfyſg. Y cyfarfod yn *Zurrick*, dinas enwog o *Switzerland*, 1525, O'r fath gyfnewid rhyfeddol a ganlynodd y pryd hynny yn niddyfniad y maſs, a delwau eulunaddolgar, a goſodiad i fynu o wir grefydd! yn *Baden* hefyd, prif ddinas *Baden*, yn yr un wlad, 1527, canlynodd y fath ddiwygiad cyhoedd trwy y wlad honno, fel y rhoddaſant i fynu yr holl *abattai*, a'r monachlogydd, ac y trowyd eu holl elw hwynt at goleges a'r cyfryw achoſion cyffredin eraill. Yn *Bern* hefyd, 1527, lle yr oedd y ſenedd, a'r rhan fwya o'r offeiriaid cym'dogaethol yn breſennol, bu'r fath ymddangoſiad cyhoedd, a dwys tros y gwirionedd, trwy ymddadliad, fel ar ol pa un y canlynodd y fath ddiddyfniad hollol o babyddiaeth, a gwthiad ymlaen o ddiwygiad trwyadl, fel rhoddwyd y dydd a'r flwyddyn trwy orchymyn cyhoedd mewn llythyrennau aur ar biler o bres. Hefyd y cyfarfod hynod hwnnw

yn

yn *Geneſa*, dinas *Savoy*, prif ddinas ardal *Geneſa*, ar gyffiniau *Ffraing*, 1534, lle darfu i *Ffarelus*, *Viret*, ac eraill o'r eglwys broteſtanaidd o un tu, ac amryw wŷr mwya dyſgedig o'r grefydd babaidd o'r tu arall gyfarfod, lle ar ol hir ymddadleu, ac ymddiddan pryſur, y fath oedd gallu ac awdurdod y gwir ar gydwybodau dynion, ac y trôdd allan nid yn unig er diwygiad dwys a chyffredinol trwy y ddinas honno, ond hefyd yr hyn oedd fwya hynod, y gwrth'nebwyr hynny eu hunain, y rhai oedd yn gwrthddywedyd fwya cryf, a rhai o'r mwya dyſgedig o honynt a faeddwyd, felly fel trwy eſampl anghyffredin o addfwynder ac oneſtrwydd, hwy wnaethant gyfaddefiad cyhoedd o'r gwirionedd. Y flwyddyn a'r diwrnod a argraphwyd trwy arfaeth gyhoedd mewn llythyrennau eglur ar biler o bres.

Eu. Nerthol oedd yſpryd y diwygiad!

Ap. Mae i ddal ſulw arno nad oedd un dyfais, na phwer dynol ag allaſai mewn un modd orchfygu intereſt y diwygiad bendigedig hwn, er ei fod yn cael ei ddodi allan i'r eitha yn ei erbyn, a bod y grefydd broteſtanaidd yn waſtad yn ennill tir yn rhagor trwy ymoſodiadau a gwrth'nebiadau creulona yn ei herbyn, nâ thrwy y llonyddwch mwya. A hyn a gadarnheir, pan yſtyriom y canlyniadau hyfryd ddaeth o'u herledigaethau mwya creulon hwynt. Ar ol yr holl gouncils, coſt arian a chreulondeb *Philip* brenhin *Spain*, i dorri lawr lewyrchiadau goleuni yr efengyl yn y *Netherlands*, pa mor hynod bu'r canlyniad? pa mor rhyfeddol yr ymddangoſodd Duw o blaid ei eglwys yno? fel trôdd y cwbl yn effeithiol er ſefydliad yr *united provinces*, llwyddiant y wladwriaeth, a dyrchafiad y grefydd broteſtanaidd. Yn *Fraingc* eilwaith y gwnawd cyngrair cryf, a chyfammod catholic i ddiddyfnu'r grefydd broteſtanaidd o'r holl wledydd yno, ac o ddautu; ond pa mor ddigyfrwng yr ymddangoſodd yr Arglwydd i

friwo eu holl ddyfais? fel y trôdd eu holl gynghorion a'u councils yn y diwedd i'w dinyſtr eu hunain, yngolwg yr holl fyd. Ac fe ddywed *Eraſmus* yn un o'i lyfrau fel hyn; Yn *Bruſſels*, dioddefodd dau dros y grefydd broteſtanaidd; a fynnech, medd ef, wybod yr effaith o hynny? y ddinas honno nad oedd ynddi fawr iawn o broteſtaniaid y pryd hynny, ga's weled yn fuan gynnydd mawr, ac amlwg o honynt yno: ie, beth a ddwedaf am yma ac yn *Holand*, a phob man lle mae trais un waith yn cael ei arferyd yn erbyn y rhei'ny o'r grefydd ddiwygiedig, nid yw ond eu cynnyſgaeddu hwy yn rhagor. Ac mae un *Thuanus*, hiſtoriwr enwog, yn ei lythyr annerch, yn nechreu ei lyfr at *Henry* y pedwarydd yn dweud, Yr y'm ni, eb efe, yn cael ein dyſgu yn hollol trwy brofiad, na's gall y cleddyf, y tân, nac alltudiaeth yn y rhan leia fod yn effeithiol yn erbyn y grefydd ddiwygiedig; ond yn tueddu mwy i'w chynhyddu yn y deyrnas: yr y'm ni yn gweled pa ſwya yr erlidier hwynt, mwya gyd mae eu *hawdurdod* hwynt yn cynhyddu; ac maent yn ymddangos ſwya yn colli tir pan fo ganthynt ſwya o heddwch allanol.

Eu. A ydych chwi yn meddwl i oleuni'r gair fyned ryw bryd neu gilydd i bob gwlad ag oedd y grefydd babaidd wedi ei goreſgyn?

Ap. Ydwyf, fel nad oes braidd deyrnas na man lle yr aeth pabyddiaeth yn ei grym a'i goruchafiaeth na chas y gwirionedd yno eilwaith fuddugoliaeth enwog ryw bryd neu gilydd; a thyſtiolaeth gyhoedd yn cael ei rhoi iddo, wedi ei ſelio â gwaed ſeintiau, hyd yn ced yn *Spain*, *Italy*, a *Rhufain* ei hunan: tyſt o hyn yw y cyfri ag a ry llyfrau y merthyron i ni o'r erledigaeth druenus yn *Spain*, lle ar un tro yn *Seville*, rhowd wyth cant o Griſt'nogion i'r *incwiſition* o blegid y gwirionedd; ac ugain a loſgwyd yn yr un tân, gyd â diſgrifiad neillduol o'u poenau a'u dianwadalwch

mewn

mewn amryw o ſiamplau hynod; megis y *Juliano* hynny yr hwn a fu yn offerynnol iawn i gael llawer o Fiblau ag a brintiwyd yn *Germany* yn iaith *Yſpaenaeg*, ag a dannodd trwy *Spain*: ond fe cymerwyd ef o'r diwedd, ac a'i taflwyd i garchar, lle bu ef yn gorwedd dair blynedd gan mwyaf mewn llyſfetheiriau; ond er poenau, bwgythion, ac eitha creulondeb y *rack*, ni's gwnaeth iddo yn y rhan leia i lwfrhau; canys pan ddychwele efe o'r poenau angherddol hynny, fe ddwede wrth ei gyd-ddioddefwyr, *Mae y poenwyr yn ymadael wedi eu gorchfygu, ac yn ffoi rhag cywilydd.* Ac wrth ddiodde marwolaeth, gyd â gwedd lawen fe gynghorodd ei gyfeillion ag oedd i gyd-ddiodde i fod yn gyſurus; *am mai 'nawr oedd yr awr oedd iddynt ddwyn tyſtiolaeth i Dduw o'r gwirionedd o flaen dynion, ac ymhen ychydig oriau ni cawn ef yn dwyn tyſtiolaeth i ni, ac ni gawn orfoleddu gyd ag ef yn dragywydd.* Ac amryw eraill yn *Seville* ar ol diodde hir boenau y *rack*, gwyr a gwragedd hefyd a gymmeraſant eu lloſgi yn y tân o blaid gwirionedd yr Efengyl. Pa fuddugoliaeth loiw hefyd a gafodd y gwirionedd yn *Italy* trwy y tyſtion hynod hynny ag a ddioddefaſant yn *Ferrara*, ac yn *Venice*; ymhlith pa rai yr oedd *Anthony Ricetto*, i ba un y cnigodd ſeneddwr *Venice* i ryddhau ei eſtate ef oedd tan fortgage, heblaw rhyddid iddo ei hunan os galwe ef yn ol ei ddaliadau, ond fe ommeddodd. Amryw berſonau yno hefyd, mawrion yn y byd, a wrth'nebaſant hyd farw o blaid y gwirionedd. Ie, yn *Rhuſain* ei hunan mae gennym amryw *inſtances* o rai yn gwrthwynebu athrawiaeth y pab hyd at angau, megis pendefig enwog gyfenwid *Algerius*, yr hwn ſydd yn rhoi hanes o hono ei hun, y fath gyſuron anrhaethadwy, a'r fath lawenydd a gafodd ef yn y carchar, fel y gwelir yn llyfrau y merthyron. Hwn a ddygwyd o'r diwedd i *Rufain*, ymha le ar ol llawer o ymofodiadau a chymmelliadau ar iddo

alw yn ol; fe barhaodd yn gadarn hyd y diwedd, ac a gymmerodd ei lofgi. Hefyd un *Johannes Mollius*, pregethwr enwog o'r gair, cyfaddefiad cyhoedd pa un, a'i ymddangofiad dros y gwirionedd a feliwyd o'r diwedd â'i waed yn yr un ddinas. Ac eilwaith un *Bartholomew Fontius*, yr hwn a alwyd o *Venice* i *Rufain* ar addewid gyhoedd y pab ar roi iddo arweinfa ficr. Ond ar ol ei ymlyniad di'yfgog wrth y gwirionedd, a'i gyfaddefiad o hono, a roddwyd yn y modd mwya creulon i farwolaeth yn y flwyddyn 1538, ac ar ol ei farwolaeth y daeth llawer yn *Rhufain* i ymddangos dros y gwirionedd.

Eu. Rwi'n deall i'r diwygiad redeg fel fflam trwy holl *Europ*, ac i'r un yfpryd berchenogi mwrddiwnau o bobl, a bod cannoedd o'r rhei'ny wedi cael eu llofgi yn berarogl i Iefu Grift.

Ap Mor fuan oedd y rhediad a'r fuddugoliaeth a gafodd y gwirionedd yn nyddiau y diwygiad, na fu dim deugain mlynedd nes darfu i'r efengyl hur wneud eglwyfydd fefydledig yn *Ffraingc*, *Germany*, *Switzerland*, *Holland*, *Denmark*, *Bohemia*, *Prufia*, *Low Countries*, *Lloegr*, *Scotland*, *Iwerddon*, a gwledydd eraill: canys ni ddaeth gwirionedd yr efengyl y pryd hynny mewn gair, ond yn awdurdod, goleuni, nerth, a llawenydd yr Yfpryd dwyfol, yn rhoddi y fath gyfuron, hyfdra, meluſder, diddanwch, a boddlonrwydd, tan bob gwawd, croes, a dirmyg, ag oedd yn troi'r cwbl yn nefoedd ar y ddaear. Ac ar ol i'r dydd hyfryd hwn ddechreu gwawrio, yr Arglwydd, mor amlwg a rwygodd y nefoedd, a'r mynyddoedd a harodd ef i doddi lawr o'i flaen, gyd â'r fath dywalltiad dwys o'i Yfpryd yn canlyn ei efengyl, fel na's gellid fefyll o'i flaen ef; ond dinafoedd, a chenhedlaethau a ddarofflyngafant wrth weled awdurdod mor rhyfeddol i gofleidio'r gwirionedd. Ac nid oedd y gwaith mawr hwn o eiddo'r Arglwydd o ryw amfer byr, ond tros amryw flynydd-

au.

au. Pa le bynnag y deuai y gwirionedd, yr Yſpryd hyn oedd yn hollol amlwg yn cydgerdded ag ef; nid yn unig i argyhoeddi, a thrwy ennyn ffagl ddarfodedig ar yſprydoedd dynion, ond i'r cyfnewidiad ſylweddol, effeithiol hynny ag a'u gweddnewidiodd hwy yn amlwg i ddelw fendigedig Criſt, trwy Yſpryd ſancteiddrwydd, fel rhoddwyd hwynt i gredu ac i ddioddef er mwyn ei enw ef.

Eu. Chwi ddywedaſoch i amryw eglwyſydd proteſtanaidd gael eu goſod i fynu yn amryw wledydd o *Europ*, mewn llai nâ deugain o flynyddau, dymuno wnaf arnoch fanegu am oſodiad rhai o'r eglwyſydd hyn; ond yn gyntaf rhowch hanes am ein hegłwys ni ein hunain; canys mi wn bod terfyſgiadau ofnadwy, dioddefiadau, a merthyrdod creulon cyn goſod i fynu eglwys yn *Scotland*, *Lloegr*, a'r *Iwerddon*; pan oedd holl bendefigion y gwledydd hyn etto tan eitha tywyllwch pabaidd, a'r pab a'i brelatiaid yn fwy eu rhwyſg nâ brenhinoedd y ddaear.

Ap. Mi ddwedais o'r blaen fod *Wicliff* wedi ennyn tân yn *Lloegr* er's amſer maith o'r blaen; a bod *Tindal* hefyd wedi danfon cyfieuthad o'r Bibl troſodd o *Antwerp*; ac wedi rhoi amryw o ddynion dyſgedig yma i chwilio mwy ar wirioneddau yr Yſgrythurau nag o'r blaen; a ſwn hefyd y diwygiad yn *Bohemia*, gan *Jerom* o *Prague*, a *John Huſs*, ynghyd â'r diwygiad a wnaeth *Luther*, ac eraill yn *Germany*, fel yr oedd *Lloegr* yn awr yn addfed i dderbyn y wir grefydd; ond cael y brenhin *Harry* yr wythfed o'u hochr, a rhai pendefigion eglwyſig i dorri allan i bregethu gwir egwyddorion y ffydd; a hyn a ddaeth i ben mewn ffordd anghynnefin i ryfeddu.

Eu. Fe ddywedir i'r diwygiad yma yn *Lloegr* ddechreu yn nyddiau *Harry* yr wythfed; a oedd y brenhin hwn yn Broteſtant? ac am hollol ddiwygio y grefydd babaidd.

Ap.

Ap. Harry yr wythfed y rhan gyntaf o'i deyrnafiad, ſef rhagor nag ugain mlynedd, oedd mor wreſog papiſt ag un brenhin fu ericed ar *Loegr*; ſel yn y flwyddyn 1521, y 'ſgrifennodd ef lyfr yn erbyn *Luther*; a'r pab am hynny a roddodd iddo y titl o *Amddiffynnydd y ffydd*; yr hwn ditl y mae brenhinoedd *Lloegr* yn ddal hyd heddyw. Ac fel y dywedais eiſioes, un o eiriau diweddaf *Tindal* oedd, *Agor lygaid brenhin* Lloegr. Dc, fe ſafodd gymmaint yn erbyn y diwygiad a neb pwy bynnag, nes trwy ryw ragluniaeth ddirgel yn chwareu trwy bethau allanol, daeth ef i daflu ymaith unbennaeth y pab ar yr eglwys, a goſod ei hunan yn ben arni yn ei le ef. Canys naill ai o achos nad oedd ef yn caru *Catharine* ei wraig, neu ynte iddo ofni rhag na byddai ei hiliogaeth o honi yn union etifeddion i'r goron, efe a anſonodd at y pab, a hynny ymhen agos i 27 o flynyddau wedi ei phriodi, i gael diſpenſafiwn i dorri y briodas, fel y cafodd ef gan y pab o'r blaen ddiſpenſafiwn i'w phriodi, am mai gwraig *Arthur* ei frawd oedd hi o'r blaen; ond am ei bod hi yn ferch brenhin *Spain*, ac mai ei nai oedd emprwr *Germany*, ſe ofnodd y pab i roi diſpenſafiwn iddo, ac a oedodd y peth o bryd i bryd, nes digiodd *Harry*'r wythfed yn ddirfawr wrtho; a thrwy gyngor *Cranmer*, ac amryw eraill o ddyſgedigion y deyrnas hon, ſe alwodd gymmanfa o'r rhai mwya doeth a dyſgedig, i chwilio allan ai cyfreithlon neu anghyfreithlon oedd i'r brenhin i roi ymaith ei wraig *Catharine*: ac yn y flwyddyn 1533, y cyhoeddwyd yn y gymmanfa gyffredin hon ſod priodas y brenhin a'r frenhines *Catharine* yn ddiddim; ac nad oedd eu hiliogaeth i etifeddu'r goron; a thyma'r amſer darfu i'r parlament a'r brenhin ymwrthod yn hollol â phob daroſtyngiad i eſgob *Rhufain* ſel pen, a goſod y brenhin yn ben ar eglwys *Loegr* yn ei le ef; a rhoddi iddo y blaen ffrwyth a'r degſedau. A nemawr

mawr ragor nâ hyn a wnaeth *Harry* yn ei oes. Ond yr oedd ef mor groes i'r grefydd broteſtanaidd ag y rhoddodd ef yr act yn erbyn hereſiau mewn ymarferiad yn eitha creulon; ac a loſgodd amryw broteſtaniaid: er iddo yr ochr arall loſgi papiſtiaid am na ſynnent ymwadu ag unbennaeth y pab; ac am hynny y lloſgodd et eſgob *Fiſher*, a Sir *Thomas More*, gan wneuthur allan eu bod yn euog o uchel fradwriaeth wrth wadu unbennaeth y brenhin, yn 1535. Fel yn *Smithffield* yn *Llundain*, yr oeddid yn lloſgi rhai yr un ochr, am ſod yn hollol bapiſtiaid; ac yn lloſgi rhai yr ochr arall am ſod yn hollol broteſtaniaid: nes oedd trafeulwyt yn rhyfeddu o ba grefydd yr oedd *Harry* yr wythfed. Ymhen ychydig wedi'n trwy act o barlament y rhoddwyd i'r brenhin yr holl fonachlogydd ag oedd tan 200 o bynnau yn y flwyddyn: ac wrth yr act honno torrodd y brenhin i lawr dri chant ac un ar bymtheg a thrugain o honynt; ac y taflwyd allan ddeng mil o fonachod, a monacheſau o'r monachlogydd hyn, heb ond ychydig neu ddim *allowance* iddynt at eu cynhaliaeth. Yr amſer hyn hefyd parwyd cyfieuthu'r Bibl i'r *Saeſonaeg*, a'r littany ymhen ychydig eilwaith, a pharwyd ei ddarllen yn yr eglwyſi: Y monachlogydd, y priordai, y coleges, yr hoſpitals, a phob rhyw deiau crefyddol a ddiſtrywiodd y brenhin hwn o bryd i bryd oedd, o ddautu un cant ar ddeg ac wyth a deugain: ac fe gymmerodd eu tiroedd yn eiddo iddo ei hun; rhenti pa rai medd rhai, oedd o ddautu naw ugain mil; ond medd eraill o ddautu pump can' mil o bynnau yn y flwyddyn; heblaw gwerth pedwar can' mil o ddodrefn gafwyd ynddynt: a llawer o'r tiroedd hyn a werthodd ef i bendefigion, ac arglwyddi; ond a roddodd amrywiol o honynt hefyd i wŷr mawr ag oedd ef yn eu ffafro.

Eu. Nid aeth fawr o'r dwygiad ymlaen yn nyddiau *Harry*'r wythfed, ond un unig torri lawr

aw-

awdurdod y pab, fel pen yr eglwys, a gofod y brenhin yn ei le ef; cyfieuthu'r Bibl, peri darllen y littany yn *Saeſoneg*, torri lawr y monachlogydd; ond mae'n del yg bod yr athrawiaeth a'r ſeremoniau yn cael ſefyll yr un fath ag o'r blaen.

Ap. Gwir, ac mor gyfnewidiol oedd y brenhin yn hyn hefyd, fel pan darfu un tro iddo roi cennad i ddarllen y Bibl yn *Saeſoneg*, wedi hynny fe waharddodd iddynt gael hynny: fel wrth edrych ar y cwbl, gellir dweud i'r brenhin hwn farw yn bytrach yn bapiſt nag yn brotеſtant; canys ychydig flynyddau cyn ei farw, fe roddodd ei law wrth yr act ofnadwy honno, elwid *Act y chwech articl*; yr hon eilw rhai, *Chwip y chwech cordyn*; yr hon fu achos o roi cannoedd o bobl i'r tân yn amſer y frenhines *Mary*; ac er iddo ddiſtrywio'r monachlogydd ag oedd yn gweddio eneidiau allan o'r purdan, etto efe ei hun adawodd chwech cant o bynnau yn y flwyddyn wrth farw i bwrcaſu gweddiau a maſſau, tu ag at gael ei enaid ef yn ebrwydd allan o'r tân hwnnw. Ac i wneud ſawn am y diſtryw hyn wnaeth ef ar y monachlogydd, deallwch iddo ſylfaenu chwech o eſgobaethau, gan roddi rhan fawr o'r yſtad hynny ag oedd yn perthyn i'r monachlogydd at y cyfryw eſgobaethau: ſef eſgobaeth *iWeſtminſter*, *Rhydychen*, *Peterborow*, *Bryſte*, *Caerlleon*, a *Chaerloiw*. Ac fe ſylfaenodd hefyd goleg y *Drindod* yn *Cambridge*, a hoſpital yn *Llundain*, ac ail adeiladodd *Chriſt Church* yn *Rhydychen*; ac a fu farw yn y flwyddyn 1546.

Eu. Chwi ſoniaſoch am ddau beth wyf am gael hanes ragor am danynt, ſef am gyfieuthad y Bibl, a'i attal eilwaith; ac am act y chwech articl.

Ap. Am argraffiad y Bibl deallwch argraffu dau fath o Fiblau yn nyddiau *Harry* yr wythfed yn *Saeſoneg*; y cyntaf argraffwyd yn *Hamburgh*, yn y flwyddyn 1535; ac a gyfenwyd Bibl *Thomas Mathews*, a'i argraffyddion ef oedd *Richard Grafton*, ac *Edward Whitechurch*; a chyfieuthydd y

Bibl

Bibl hwn oedd *William Tindal*, gyd ag ychydig o gynnorthwy *Miles Coverdale* a ſoniwyd am dano o'r blaen; ond am fod *Tindal* wedi ei ddal, ac enw gwaradwyddus iddo gan y papiſtiaid, ſe rowd wrtho enw *Thomas Mathews*, yr hwn wnaeth ddim ond cyfieuthu yr *Apocripha*, a rhoi rhai ſylwiadau yn y *margin*. Ac ar ol dwyn y Bibl hwn troſodd, a'i roi i law archeſgob *Canterbury*, a'r arglwydd *Thomas Cromwel*, (y rhai oedd â'u holl galon am ddiſtrywio pabyddiaeth, a llanw y deyrnas o oleuni y gair) hwythau a'i anrhegaſant i'r brenhin, ac a gawſant ganddo yn fuan *licens* i'w holl ddeiliaid i'w ddarllen ef; ond am ſod amryw bethau yn y llyfr hwn yn cynhyrfu llid yr eſgobion, a'r offeiriaid pabaidd, yn enwedig y rhagymadroddion ar ddechreu y llyfrau, y ſylwiadau ar y *margin*, ynghylch maſs, priodaſau offeiriaid, a ſwpper yr Arglwydd, ſe rwyſtrwyd y Bibl hwn eilwaith i gael ei ddarllen. Ond yn y flwyddyn 1540, darfu i'r rhagddywededig *Thomas Cromwel* gael gan y brenhin lythyrau at frenhin *Ffraingc*, i ddymuno arno roi caniattad i'w ddeiliaid yn *Paris* i argraffu Bibl yn *Saeſoneg*; am fod yno bapur da at yr achos, a rhagor o ddwylo i ddwyn y gwaith ymlaen gyd â brŷs; argraffyddion hwn hefyd oedd yr un rhai ag o'r blaen, a chynnorthwywr mawr y gwaith oedd arglwydd *Cromwel*, a golygwr y gwaith oedd *Miles Coverdale*, a'r cyfieuthad hefyd oedd eiddo *Tindal*, wedi i *Coverdale* ei gydmaru â'r *Hebraeg*, a gwella amryw feiau ynddo. Brenhin *Ffraingc* fu lwyr fodlon, ac felly yr aeth yr argraffiad ymlaen, hyd yn agos at y diwedd, pan codwyd yn erbyn yr argraffydd, ac y danfonwyd am dano at yr *inquiſitoriaid*, lle gwnawd achwyn arno am amryw articlau o hereſiau, yno danfonwyd am y *Saeſon* ag oedd yn cefnogi'r gwaith, ond am iddynt gael rhybudd, hwy ffoiſant, gan adael y gwaith oll o'u hol, yr hyn oedd pump cant ar bugain o Fiblau, y rhai gyfenwyd

enwyd *Bibl y ſolum ſawr*; ac nid allwyd cadw dim o honynt ond ychydig ſel hyn, ſef pan rhoddwyd yr holl lyfrau hyn i lwyddog i'w lloſgi yngханol *Paris* yn *Ffraingc*, darfu i hwn o gybydd-dod, i werthu niter fach o honynt i ſiopwr, i roddi o ddautu ei eiddo; a rhai'n a brynwyd dracheſn gan ddyn dymunol; ond y lleill oll a loſgwyd yn tân: ond er y colled hyn, wedi iddynt gael rhai ſel yma o'r llyfrau, trwy annogaeth, a chynnorthwy arglwydd *Cromwel*, ſe aeth y gwŷr hyn dracheſn i *Paris*, ac a fynnaſant yr argraff waſg, y llythrennau, a gweithwyr yr argraffydd ag oedd yno troſodd i *Loegr*, ac yna argraffwyd y Bibl gynta yn *Llundain*, a gwnawd amryw argraffiadau heſyd o hono. Ond nid heb fawr drallod a cholled, o ran gelyniaeth yr eſgobion at wir oleuni. Yn y Bibl hwn, er i ſylwiadau *Thomas Mathews* gael eu gadael heibio, etto amryw nodau a llun llaw oedd ar y *margin*, i ddangos y dylaſai ſylwiadau fod yn y mannau hynny, ac am hynny yr offeiriaid pabaidd a dramcwyddaſant, er na wnawd mo'r ſylwiadau, ac ymhen gronyn yr eſgobion o lid yn erbyn daioni, a wnaethant i *Thomas Cromwel*, cytaill mwya anwyl y brenhin, a'r mwya bywiol o blaid diwygiad, gael ei gyhuddo ar gam o fradwriaeth yn erbyn y brenhin, wrth act waedlyd y chwech articl; ac o'r diwedd ei roi i farwolaeth. Ac yna gwnawd achwyn o flaen y brenhin gan yr eſgobion am gyfieuthad y Bibl, a rhagymadrodd o flaen pob llyfr; ac y carcharwyd *Graffton* yr argraffydd, a chyn cael rhyddhad gorfu arno ymrwymo am dri chant o bynnau na's gwerthai, na's argraffai, ac na pherai argraffu dim Biblau yn rhagor, hyd onis cytunai y brenhin a'r offeiriaid ar argraffiad gwell; ac felly attaliwyd argraffu, gwerthu, na darllain y Bibl tros deyrnaſiad *Harry* yr wythfed. Ac am addewid yr eſgobion hynny o gyfieuthu, neu wella y cyfieuthad, ni's cyflawnaſant o hono byth mwy.

Eu.

Eu. Rhowch air yn rhagor am act y chwech articl.

Ap. Amrywiol iawn oedd crefydd yn ſefyll yn nyddiau *Harry* yr wythfed: O! gyd â pha fath galedi ac anhawſtra y caid ychydig ddiwygiad! pa fath ddigwyddiadau, a chyfnewidiadau gafodd crefydd yn y dyddiau hyn! ſel yr oedd y brenhin yn cael ei reoli, ac yn rhoi cluſt rai prydiau i un, ac rai prydiau i arall, ſelly byddai crefydd weithiau yn myned ymlaen, ac weithiau yn myned yn ol gymmaint arall; rai prydiau yn cael ei chyfnewid yn hollol tros amſer, ſel y byddai y rhei'ny yn ſtynnu ag oedd yn cael bod ynghyſeillach y brenhin. Ond ar ol torri pen *Thomas Cromwel* ſe laeſodd crefydd bob dydd tros ddyddiau *Harry* yr wythfed: yr eſgobion a'r offeiriaid pabaidd oedd fynycha yn troi'r brenhin ffordd y mynnent; a'r pennaf o'r rhai'n oedd *Stephen Gardiner*, eſgob *Wincheſter*, ac *Edmund Bonner*, eſgob *Llundain*; ac yn awr ar ol cael gwared o arglwydd *Cromwel*, eſgob *Wincheſter* trwy eitha cyfrwyſtra a oerodd y brenhin at dywyſogion *Germany*, y rhai oedd yn ffafro'r diwygiad, ac a weithiodd ynddo ofn yr ymerawdwr, ofn brenhin *Ffrainge*, ofn y pab, brenhin *Scotland*, a brenhinoedd eraill; ac yn enwedig terfyſgoedd gartrefol; ac a berſwadiodd y brenhin, y bydde iddynt ymdderchafu yn ei erbyn, oni fydde i ryw feddyginiaeth yn fuan gael ei pharottoi i'r gwrthwyneb; gan ddangos hefyd iddo mor beryglus mewn gwlad yw gwneud un cyfnewid, yn enwedig mewn achoſion crefydd. Ac am ei bod felly, ſe gynghorodd y brenhin, er ei leſâd ei hun, a llonyddwch a heddwch i'w deyrnas, i edrych yn fuan trwy ba ffordd y galle y drygau hyn gael eu hattal; ac nid oedd un ffordd wydde 'ſe well yn erbyn hyn, nag iddo ymddangos ei hun yn llym ac yn greulon yn erbyn y ſectau newyddion, y *Wickliffiaid*, yr *Anabaptiſtiaid*, y *Sacramentariaid*, ac eraill; gan oſod allan y fath

articlau ag fyddai yn cadarnhau yr hen grefydd babaidd, fel trwy hynny y byddai iddo drachefn ennill yn ol ei enw a'i barch gyd â'r holl frenhinoedd Criſt'nogol ; ac y galle yr holl fyd o ddautu weled a barnu ei fod e'n wir a pherffaith bapiſt; ac yn fab trwyadl i eglwys *Rufain :* trwy y fath ddichellion a rhai'n, y twyllodd yr eſgobion pabaidd, yn enwedig eſgob *Wincheſter*, y brenhin i dynnu ei law yn ol oddi wrth ddiwygiad, gan dybied trwy hynny ennyll iddo ei hun ddiogelwch mwy. Yna 'fe eſtynnodd ei law, ac a gondemnodd, ac a loſgodd un *Lambert* o broteſtant ; ac a wnaeth amrywiol iawn o gyfreithiau ofnadwy a chreulon yn erbyn hereſiau, (fel yr oedd gwir grefydd y pryd hynny yn cael ei galw) rhy faith eu dangos : ond yn y flwyddyn 1540, fe alwodd ynghyd barlament o holl arglwyddi, pendefigion a bwrdeiſi y deyrnas ; ac a alwodd yr un pryd ſynod, neu gymmanfa o archeſgobion, eſgobion, a gwŷr dyſgedig eraill ; ymha gymmanfa a pharlament y gwnawd gan y prelatiaid hyn act, a gyfenwid *Act y chwech articl* ; yr hon oedd i gael ei chadw yn fanwl ymhlith deiliaid y brenhin, er mwyn undeb ym mhethau crefydd, ond fu achos marwolaeth amrywiol, yn amſer *Harry* ei hun, ac i liaws aneirif yn nyddiau'r frenhines *Mary*. Yr articl gyntaf o honi oedd fod gwir gorph a gwir waed Criſt yn ſacrament yr allor, ar ol cyſegru yr elfennau gan yr offeiriad ; ie, corph naturiol ein Harglwydd Ieſu, a genhedlwyd gan yr Yſpryd Glân, a anwyd o *Fair* y forwyn, a ddioddefodd ar y groes ; ac nad oedd y bara ddim mwy yn fara, na'r gwin yn win, ond cnawd a gwaed Criſt oeddent. Yn ail, Nad oedd cymmundeb yn y ddau ryw yn angenrheidiol i iechydwriaeth ; ac nad oes achos ammeu, nad oes yn y cnawd tan y dull o fara, wir waed Criſt ; a chyd â'r gwaed tan y dull o win, wir gnawd cyſtal ar ei ben ei hun, a phe baent gyd â'u gilydd ; felly

fel

ſel nad rhaid rhoi i'r bobl ond y bara yn unig, ond yr offeiriad ſydd yn derbyn y ddau. Yn drydydd Nad yw gyfreithlon i offeiriaid briodi. Yn bedwarydd, ſod llw gwedd dod ag a wnair gan wrryw neu ſenyw tros ugain oed gael ei gadw trwy gyfraith Dduw. Ac yn bummed, ſod yn angenrheidiol i gadw maſſau dirgel, trwy ba rai mae duwiolion yn derbyn llawer o gyſur; hynny yw, cynnorthwyo eu heneidiau allan o'r purdan. Ac yn ola ſod cyfaddefiad pechodau ynghluſt yr offeiriad yn angenrheidiol, ac yn addas i bara yn yr eglwys. Ac ar ol gwneud yr act uffernol hon yr offeiriaid pabaidd yn gwybod na thalai hi ddim, heb i goſpedigaethau trymion a gwaedlyd gael eu goſod ar y ſawl a'i torrai, a gawſant gan y brenhin, yr arglwyddi yſprydol a thymhorol, ynghyd â'r commons yn y parlament hwnnw i wneud e'n gyfraith, os byddai ddyn neu ddynion o fewn y deyrnas hon, neu un arall o ardaloedd y brenhin, trwy air, 'ſgriſen, argraff, neu ryw ffordd arall, i gyhoeddi, pregethu, llefaru, cadarnhau, gwrthddadlu, ymreſymmu, neu ddal un opiniwn yn cynnwys, nad yw corph naturiol a gwaed ein Harglwydd Ieſu Griſt yn ſylweddol breſennol yn ſacrament yr allor, tan y ffurf o fara a gwin ar ol y cyſegriad; neu ſod yn aros un gronyn o ſylwedd bara a gwin, neu un ſylwedd arall, ond ſylwedd Criſt yn Dduw a dyn: neu pwy bynnag gyhoeddo, bregetho, addyſgo, ddywedo, gadarnhao, wrthddadleuo, ymreſymmo, neu ddalo un opiniwn, nad oes yn y cnawd tan y ffurf o fara, ddim o wir waed Criſt, neu gyd â'r gwaed tan y ffurf o win, nad oes o wir gnawd Criſt yn gyſtal ar ei ben ei hun ag yn neillduol; neu pwy bynnag trwy ryw foddion ddiyſtyro, wradwyddo neu ddibriſio y cyfryw ſacrament, bydd i bob rhyw ddyn a droſeddo felly, hwynthwy, a'u cyſurwyr, eu cynnorthwywyr, eu cynghorwyr, eu cydſeinwyr, a'u hannogwyr i hynny, gânt eu cyfri a'u

barnu yn hereticiaid, a phob troſedd o'r fath, gaiff ei farnu yn hereſi amlwg, ag bydd i bob cyfryw droſeddwr neu droſeddwyr gael am hynny ddiodde barn dihenyddiad, a phoen marwolaeth, trwy gael eu lloſgi yn y tân heb un drugaredd pa beth bynnag: ac hefyd bod iddynt fforffettu i'r brenhin a'i etifeddion, bob meddiannau, tiroedd, rhenti, a pha beth bynnag arall a feddont yn y byd. Ac fe benderfynwyd hefyd gan y parlament hwnnw fod perſonau neilltuol wedi eu hapwyntio ym mhob ſir, i chwilio'n fanwl am y fath hereſiau, a diyſtyrwch i'r articlau hyn; a bod yr *inquiſitoriaid* hyn i eiſtedd bedair gwaith yn y flwyddyn, a bod yr archeſgob neu yr eſgob yn un o honynt, a chanthynt gyflawn awdurdod i dderbyn cyhuddiad, ac achwyniad trwy lwon dau o dyſtion; a rhoi deuddeg eraill tan lwon i chwilio, ymofyn, ac i holi hyd eithaf eu callineb am hereſiau, a diyſtyrwch o'r articlau hyn o ſôr i ſôr; a bod yr unrhyw gommiſſioners uchod, ag awdurdod ganddynt i benderfynu materion, ac i *gondemno* i farwolaeth y rhai gyhuddid o'u blaen, fel pe buaſent yn cael eu condemno gan farnwr a *jury* yn y ſeſſiwn mawr.

Eu. A oedd neb i ſefyll i fynu yn erbyn y fath act waedled a hon yn y parlament hwnnw?

Ap. Y fath flinfyd truenus ydoedd y dyddiau hyn ar grefydd, fel y cafodd gwir achos duwioldeb ei hollol adael yn ymddifad, hyd yn oed gan ei amddiffynwyr eu hunain, am fod pob un yn gweled fod meddwl y brenhin wedi ei dueddu mor gryf at achoſion gwladaidd, i gael yr act hon i baſſo. fel nad oedd neb yn yr holl barlament a gode i fynu; rhai naill ai ni ddeallent yr hyn oedd i amddiffyn, neu ni anturient amddiffyn yr hyn oeddent yn ei ddeall i fod yn iawn, ond yn unig *Cranmer*, archeſgob *Ganterbury*, yr hwn fel amddiffynwr diyſgog o achos Duw, a wrthddadleuodd dri diwrnod o'r trwch, yn erbyn y chwech

artic

artiol ddrygionus hyn, gan roddi rheſymmau mor gadarn, ac awdurdodol ag oedd yn ddigon i ddadymchwel y cwbl, oni buaſai rhiſedi rhai yr ochr arall oedd yn eu gwneud hwy yn drech. Y brenhin am ſod ffafr neillduol ganddo i *Cranmer*, a ddymunodd arno o gariad ymadael o dŷ'r parlament, i 'ſtafell y cownſil, tros ronyn er mwyn eſmwythder ei gydwybod, hyd oni byddai yr act gael paſſo; yr hyn ddarfu iddo yn oſtyngedig ommedd wneuthur. Ymhen ychydig ddyddiau ar ol hyn, daliwyd yr arglwydd *Cromwel*, ac y rhoddwyd ef yn y tŵr; ac ar yr act hon y condemnwyd ef ar gam yn euog o fradwriaeth; ac o'r diwedd rhoddwyd ef i farwolaeth.

Eu. Manegwch pa ſodd y digwyddodd crefydd yn *Lloegr* ar ol marw *Harry* yr wythfed.

Ap. Edward y chweched ddaeth ar ei ol ef yn naw mlwydd oed; a'i dad oſododd ar ei farwolaeth, 16 o'r gŵŷr pennaf yn y deyrnas yn gynorthwywyr iddo; o ba rai y mwyaf gwreſog tros y grefydd broteſtanaidd oedd *Cranmer*, ac *Edward Seymour*, duwc o *Somerſet*; yr hwn yn fuan a wnawd yn *Brotector*. Ac er ſod rhai o'r gŵŷr eraill yn ffryns i'r grefydd babaidd, etto am ſod yr archeſgob, a'r duwc y *protector*, ynghyd â'r brenhin ei hunan yn fawr am ddiwygio crefydd, cawd y diwygiad ymlaen; ac fe ellir dweud hyn am y brenhin ieuangc hwn; ei ſod wedi ei gynnyſgaeddu â phob dawn felly, fel yr oedd o ran ei ddyſg, ei ſynwyr, ei arafwch, ei gof, a'i ofal ynghylch y deyrnas, yn gŵpi o'i oedran i holl frenhinoedd y byd. Ac yn enwedig o ran ei ſel, a'i ymegniadau i oſod y grefydd broteſtanaidd ar ſail ſicr a da. Y fath rôdd ydoedd o eiddo yr Arglwydd i eglwys *Loegr*, na's cafodd erioed ei well. Yn nechreu y teyrnaſiad hyn *Edward Seymour* y *protector*, gwr o amryw rinweddau, yn enwedig zel at air Duw, trwy ddiwydrwydd mawr, ac ymegniadau caled, a dorrodd i lawr yr act o

chwech articl ; a thrwy hynny holl gynghorion a gwaith eſgob *Wincheſter* a adfeiliodd. Yn awr argraffwyd, ac y rhoddwyd yr Yſgrythurau i'w darllen yn y iaith gyffredin ; maſſau o bob math a hollol ddiddyſnwyd, yr amrywiol rai a ffôdd o'r wlad o'r blaen yn nyddiau *Harry* yr wythfed, a ddychwelaſant ; ac i fod yn fyrr, golwg newydd oedd ar bob peth ; offeiriaid ac eſgobion a gyfnewidiwyd, y rhai cedd offeiriaid mudion a gymmellwyd i roi eu lleoedd i eraill ag a gymmere boen : danfonwyd i 'motyn gwŷr enwog a dyſgedig o wledydd pell, ymhlith pa rai yr oedd *Peter Martyr*, *Martin Bucer*, *Paulus Phagius*, y cyntaf a ddyſgodd yn *Rhydychen* ; y ddau olaf yn *Cambridge* ; o'r hen eſgobion rhai ddanfonwyd i un carchar, ac eraill i garcharau eraill ; eſgob *Wincheſter* ac eſgob *Tonſtal* ddanfanwyd i'r tŵr am anufudd dod ; a *Bonner* eſgob *Lundain* i *Marſhalſey* ; ac am ei ddyſtyrwch a'i ddrwg ymddygiad a ddiſwyddwyd o'i eſgobaeth ; ac mae un canmoliaeth berthynaſol i roi i'r amſeroedd tyner hyn o deyrnaſiad y brenhin *Edward*, tan gyfarwyddiad y *protector* hwn ei ewythr ; nad oedd ymhlith y rhifedi aneirif o bapiſtiaid, o ba rifedi rhai ddiangaſant yn ddirgel allan o'r deyrnas, amryw yn rhagrithwyr cyfrwys gartref, a rhai yn elynion cyhoedd, ddyn a gollodd ei fywyd, yn y chwech mlynedd o'i deyrnaſiad ; ond llawer o dawelwch ac eſmwythder a gafodd eglwys *Loegr*, fel yr oedd cyndeirnogrwydd erledigaeth wedi llaeſu, a'r cleddyf wedi cael ei dynnu allan o ddwylo y gelynion. Nid oedd dim perygl yn awr i'r duwiolion, ond yn unig oddi wrth gyfoeth, a llwyddiant, yr hwn fydd lawer pryd yn dwyn mwy perygl, wrth lygru meddyliau dynion, nag un amſer o erledigaeth, neu gyſtudd. Ac er mwyn diwygio crefydd ymhellach, fe ddewiſwyd amryw wŷr doeth, dyſgedig, ac anrhydeddus, i fod yn gommiſſioners tros y brenhin, i roi ymwneliad cyffredin tros yr holl

eſgob-

eſgobaethau o fewn i'w deyrnas: nid yn unig i edrych, ond hefyd i wella y beiau oedd yn yr unrhyw; ac er trefn gweil fe'u rhanodd hwynt yn amryw gwmpniaethau, ac a ddoſparthodd iddynt amryw eſgobaethau, ac a ordeiniodd hefyd i bob cwmpni, un, neu ddau o bregethwyr dyſgedig, y rhai oedd ar bob eiſteddfod yn eu pregethau i addyſgu'r bobl yngwir athrawiaeth efengyl Criſt; ac ymhob cariad ac ufudd-dod i'r unrhyw, a'u hannog hwynt yn ddifrifol oddi wrth eu hen goel grefydd, a'u harferol eulunaddoliaeth. Ac er mwyn eu cyfarwyddo yn fwy trefnus yn eu commiſiwn yma, fe draddodwyd iddynt orchymynion neillduol, a rheolau eglwyſig, wedi eu tynnu gan gynghorwyr dyſgedig y brenhin; yr hyn bethau oeddent hwy i holi yn eu cylch, ac hefyd gorchymyn iddynt yn enw ei fawrhydi i'r rhai'n gael o hynny allan eu cadw gan bob dyn, o ba rai yr oeddent yn perthyn yn neillduol o fewn eu hamrywiol gylchiadau.

Eu. Dymunwn gael gwybod pa fath oedd y gorchymynion a'r rheolau newyddion yma?

Ap. 1. Gorchymynwyd i bob gwŷr eglwyſig i gadw eu hunain, ac i beri i eraill gadw yr holl gyfreithiau ag a wnaed i dafiu allan drais awdurdod y pab, a ficrhau goruchel awdurdod y brenhin; a bod i bawb o honynt bedair gwaith yn y flwyddyn o leiaf, yn eu pregethau i oſod allan i'r bobl, fod awdurdod y pab, a oſodwyd i fynu o'r balchder a'r trais mwya yn erbyn gair Duw, yn awr yn gyfiawn wedi cael ei dynnu ymaith; a'r llall ar ol gwir feddwl yr un rhyw air, o ddyledfwydd mwya ffyddlon i uffuddhau iddo yn unig gan holl ddeiliaid ei fawrhydi. 2. Fod i bob gwŷr eglwyſig i bregethu, neu beri i rai bregethu yn eu holl eglwyſi un bregeth yn y cwarter, ymha un yr oeddent i oſod allan yn fyml air Duw, ac i gynghori'r bobl i weithredoedd ffydd, a thrugaredd ag a bennodir yn yr unrhyw; ac nid i weithredoedd

oedd ddyfeiſiwyd gan ddychymygion dynion, megis myned ar bererindodau a'r cyſfryw ; yr hyn bethau oeddent hyd eithaf eu gallu, i ceryddu, a ſefyll yn eu herbyn ; gan gyhoeddi dylai pob gras, a daioni i gael 'mofyn am dano yn unig ar law Duw, ac nid ar law un creadur ; ac iddynt ddeſtrywio yn union gyrch bob rhyw ddelwau ag a gawſant eu camarfer trwy offrymmau, pererindodau, canwyllau, neu unrhyw wag addoliadau eraill. 3. Fod pob dydd gwyl na bo pregeth yn yr eglwys, i'r offeiriad yn union ar ol darllen yr efengyl, i ddarllen yn eglur weddi'r Arglwydd, y gredo, a'r deg gorchymyn yn y iaith *Saeſoneg* ; gan gynghori y bobl, nid yn unig eu darllen hwynt eu hunain, ond hefyd eu dyſgu hwynt i'w plant, a'u teuluoedd ; ac i erchi i bob rhieni, a phennau teuluoedd ddwyn eu ieuenctid i tynu mewn rhyw alwad addas, fel y gallont ar ol llaw i waſanaethu'r wladwriaeth ; ac nid i redeg o ddautu fel cyrwydraid a ſegurwyr, a thrwy hynny dyfod yn ddaroſtyngedig i goſpedigaeth y gyfraith. 4. Fod i bob offeiriad yn berchen eglwys, fynnu gweled y ſacramentau ſanctaidd yn cael eu gweinidogaethu yn barchedig yn eu heglwyſi ; ac os byddai un o honynt yn eiſiau oddi wrth eu heglwyſi, bod iddynt adael yn eu lle ryw gurate duwiol, a dyſgedig, ag a fo'n alluog i addyſgu'r bobl ymhob gwirionedd a duwioldeb ; heb geiſio eu heiddo eu hunain, ond elw y praidd. 5. Fod iddynt ddarparu a goſod i fynu mewn rhyw le addas, a chyhoedd ymhob un o'u heglwyſi un Bibl mawr yn *Saeſoneg*, ac un llyfr agoriad *Eraſmus* ar yr efengyl yn *Saeſoneg* ; fel galle y bobl yn barchedig heb un gwrthddadl, nac ymddadleu i'w ddarllen, a gwrando yr unrhyw pa bryd bynnag y mynnont, heb gael eu gwahardd gan eu penoffeiriaid, na'r curate, ond yn hytrach gael eu cefnogi, a'u hannog yn rhagor i hynny. 6. Nad oedd i'r perſoniaid na'r curadiaid ar un rhyw bryd

ond

ond wrth achos angenrheidiol i dramwy i dafarndai, na threulio eu hamſer yn ſegur, mewn campau anghyfreithlawn ; ond ar holl oriau eu cyfleuſdra i ddarllen gair Duw. 7. Bod iddynt bob grawys yn lle cyfaddefiad pechodau ynghluſt yr offeiriad i holi eu plwyfolion, p'un a allent ddweud gweddi yr Arglwydd, ac articlau'r ffydd ; ac os na's gallent. iddynt eu hargyhoeddi, gan gyhoeddi ymhellach iddynt, na fai iddynt ryfygu dyfod i fwrdd yr Arglwydd heb wir wybodaeth o hynny, a dymuniad difrifol i gyflawni yr unrhyw. 8. Nad oedd iddynt ddiodde neb i bregethu yn eu heglwyſydd ond oedd wedi eu licenſo i hynny, ac os darfu iddynt ar un amſer o'r blaen dderchafu a chanmol un pererindod eulunaddolgar, neu un peth arall coelgrefyddol, bod iddynt yn awr ei alw ef yn ol yn gyhoedd o flaen yr holl bobl : ac os bydde neb i rwyſtro neu aflonyddu darlleniad, neu bregethiad o air Duw o fewn i'w plwyfau, bod iddynt yn union i gyhuddo yr unrhyw wrth gownſil y brenhin, neu wrth ryw uſtus o heddwch agoſaf attynt. 10. Er mwyn cynnyſgaeddu dyſg a gwybodaeth ragor, ordeiniwyd hefyd fod i bob offeiriad yn berchen eglwys ag alle wario ugain punt yn y flwyddyn, heb fod yn preſwylio yn ei berſoniaeth, i dalu at gynnorthwyo'r gweiniaid y ddeugeinfed ran o'i elw eglwyſig. A bod i bob un ag alle wario cant punt yn y flwyddyn, i roi am bob cant punt daliad addas i ryw yſgolhaig tlawd yn un o'r ddwy brif-yſgol *Cambridge* neu *Rydychen*, neu yn rhyw ramadeg yſgol arall o'r deyrnas hon. 11. Fod gan bob offeiriad tan râdd *batchelor* difinyddiaeth, o'i eiddo ei hun Deſtament newydd yn *Lladin* a *Saeſoneg*, ac agoriad *Eraſmus* ar yr unrhyw; a bod iddo yn ddyfal ddarllen yr unrhyw lyfr, myfyrio, caſglu, a chadw yn ei gof bob rhyw fath o leoedd cyſurus o'r Yſgrythur lân ag ſy'n goſod allan drugaredd, a haelioni Duw at bechaduriaid edifeiriol, credinion ; fel gallont trwy hynny gyſuro

ſuro eu praidd ymhob perygl o farwolaeth, anobaith, a chyſtudd cydwybod : ac am hynny, ſod i bob eſgob yn eu hymweliadau â'u heſgobaethau o bryd i bryd i holi, a phrofi pa fodd darfu iddynt lwyddo yn y cyfryw ſtudies. 12. Ac er fod llyfr y maſs tros ronyn yn cael ei adael, etto bod ar bob uchel faſs, i'r darllenwr o hono ddarllen yn gyhoeddus yr eſengyl a'r epiſtol yn *Saeſoneg* yn y pulpyd, neu ryw le addas arall, fel clywo'r bobl; a darllen yn yr unrhyw ddull, a lle, bob dydd gwyl, a phob dydd Sul, ar y foreuol weddi, un bennod o'r Teſtament newydd yn *Saeſoneg*, gan adael heibio dri o'r naw llith *Lladin*, a'u hatteb-ion; ac ar y brydnhawnol weddi un bennod o't hen Deſtament, yn lle eu harferol ganiadau a'u hatteb. 13. Ac am derfyſg yn digwydd yn fynych rhwng y bobl ynghylch myned i broceſſiwn, ſe orchymynwyd i'r offeiriaid a'r clochyddion benlinio ynghanol yr eglwys, ac yno darllen, neu ganu y litany yn *Saeſoneg*; ac nad oedd i un dyn ymadael â'r eglwys yn amſer darllen yr Yſgrythurau, y litani, neu yn amſer y bregeth. — 14. Bod i'r bobl i dreulio eu dyddiau gwylion i wrando gair Duw; mewn gweddi gyhoedd a neillduol, yngnyſaddefiad eu pechodau o flaen Duw; mewn heddychu eu hunain â'u cymmydogion, lle bu fyrthiad allan o'r blaen; mewn mynych dderbyn y cymmun, mewn ymweliad â'r tlawd, a'r claf, ac ymhob ſobr a duwiol gyfeillach; ac nid mewn gwagedd, ſegurdod, a meddwdod, nac mewn un gwaſanaeth corphorol, ond yn unig amſer cynhauaf, i achub ffrwythau'r ddaear os angen fydd. Ac na bo un curate i dderbyn i mewn i'r cymmun bendigedig, un dyn ag ddarfu iddo ymrafaelio yn faleiſus â'i gymydog, oni fydd yr un rhyw yn gynta yn gyhoedd i ymgymmodi ei hun ag ef drachefn, ac i anghofio pob llid, a malis pa beth bynnag. 15. Amrywiol ragor nà hyn o reolau wnaeth y brenhin a'i gownſil er diwygiad crefydd,

megis

megis ynghylch dodi pob gradd o wŷr eglwyſig i bregethu, i ddyſgu'r bobl i dorri lawr bob math o ſeremoniau ag oeddid yn cyfrif iddynt ſaddeuant pechodau; gyrru ymaith yſprydion drwg, a'r cyffelyb; neu rhag rhoi un pwys iechydwriaeth arnynt. Ac iddynt ddeſtrywio coffrau'r gwehilion ſeintiau, y rhai oeddent yn tybied eu bod yn gwneud gwyrthiau, a phob addoliad eulunaddolgar arall, yn gyſtal yn yr eglwys ag yn eu teiau gartrefol. A bod i'r offeiriaid hefyd i gymmell y bobl i fod yn eluſengar i'r tlawd, ac wrth wneud eu teſtmenti i adael o'u hol yn haelionus at y cyfryw achos, fel yr oeddent o'r blaen yn gadael rhan fawr iawn at wag ſeremoniau coelgrefyddol; ac i ddodi yr arian a roddwyd eiſioes at y cyfryw wag ddychymmygion dynol, ag oedd yn ſefyll yn yr eglwyſi, i gael eu rhoi i'r tlodion, ac am fod cymmaint o eiſiau curatiaid da, a gweinidogion dyſgedig, ſe orchymynwyd i'r curatiaid pan na bai un bregeth i ddarllain homili allan o lyfr yr homiliau ag oedd i ddyfod allan ar frys trwy awdurdod y brenhin. Y rhai'n ac amrywiol reolau'n rhagor a orchymynwyd gan y commiſſioners yn enw y brenhin i wŷr eglwyſig: a rhai gorchymynion eraill a roddwyd i'r eſgobion yn neilldnol, ſef bod iddynt hyd eitha eu gallu i edrych yn fanwl am i'r holl bethau hyn gael eu cyflawni gan y gwŷr eglwyſig ar frys, er diwygiad crefydd; a bod iddynt hwy, ſef yr eſgobion, i bregethu bedair gwaith yn y flwyddyn o leiaf, ſef un waith yn eu heglwyſi cadeiriol eu hunain, a thair gwaith mewn amrywiol eraill o'u heſgobaeth: ac na baent i gadw yn eu gwaſanaeth, nac yn eu teulu un chaplain, ond y fath ag fo yn ddyſgedig, ac yn abl pregethu gair Duw. Ac na baent i roi urddau i neb ond a fyddai yn ddyſgedig yn yr Yſgrythurau ſanctaidd: ac na b'ai iddynt ommedd rhoi urddau i'r cyfryw, os byddent o ymarweddiad diargyhoedd. Ac yn ola na fyddent ar un amſer, nac yn un lle, i bregethu

gethu i'r bobl un athrawiaeth yn wrthwyneb i't hyn oſodwyd allan yn homilies mawrhydi y brenhin : ac na fyddent i roi *licens* i neb i bregethu o fewn i'w heſgobaeth, ond i'r fath a wyddent hwy ag a wnai yr un peth. Ac os un pryd y clywent am neb ag a wnai i'r gwrthwyneb, bod iddynt, nid yn unig eu gwahardd, ond hefyd eu coſpi, a thynnu eu *licens* oddi wrthynt. Tra fu y commiſſioners yn dwyn y gennadwri hon oddi amgylch, y brenhin ynghyd â'i *brifi counſil* a alwodd lawn barlament ynghyd, er mwyn dwyn ymlaen ymhellach y diwygiad, a rhwyſtro wrth wneuthur gwaith mor fawr, i un terfyſg i godi ymhlith y bobl. A chan ei fod yn gwybod y perygl yr oedd ei ddeiliaid ynddo o ran amryw gyfreithiau gwaedlyd a wnaed yn erbyn y *Lollardiaid*, y *Wickliffiaid*, a phob diwygwyr eraill, nid yn unig gan ei dad, ond gan frenhinoedd eraill o'i flaen ef, am hynny yn y parlament hwn y diddyfnwyd, ac y briwyd chwech neu ſaith o gyfreithiau ag fu yn achos i werin fawr o dduwiolion o bryd i bryd i ddiodde tros athrawiaeth yr efengyl, y rhai oedd oll yn erbyn darllen y Bibl *Saeſoneg*, na phrintio, gwerthu, na darllen un llyfr arall ag oedd yn cynnwys pethau crefyddol, tan boen eſgymmundod, carcharu, cymmeryd meddiannau, ac o'r diwedd diodde marwolaeth. Y rhai'n oll a ddiddyfnwyd yn y parlament hwn, ac yn benna ſtatute y chwech articl ragddywededig, gan ddiddyfnu pob coſpedigaeth, poen, a cholled ag oedd y cyfryw rai i ddiodde ag oedd euog. Fel hyn y cafodd, nid yn unig deiliaid gartrefol y brenhin gennad i broffeſu crefydd gyd â llawn rydd-did, ond hefyd amryw iol iawn o broffeſwyr gwreſog dyſgedig, oedd wedi eu halltudio o'r blaen, yn awr a ddychwelaſant, ac a gefnogwyd i waſanaethu eu ſwydd yn eon, ac yn ffyddlon. Yn y parlament hwn penderfynwyd fod y ſacrament ſanctaidd o hynny allan i gael ei weinidogaethu i'r bobl cyſtal ag i't

offeiriaid

offeiriaid trwy holl eglwyſi *Lloegr*, *Iwerddon*, ac ardaloedd eraill o eiddo'r brenhin, *tan y ddau ryw o fara a gwin*; a bod i'r offeiriaid ag fai yn gweinidogaethu yr unrhyw, i gynghori y bobl fai yn breſennol, i barottoi eu hunain i'w dderbyn; ac nid oedd yr offeiriad ar ol cynghori yn ddwys y rhai oedd i'w dderbyn, (trwy ddangos y cyſur i'r rhai dderbyniai yn deilwng, a'r gwae i'r rhai a dderbyniai yn anheilwng) ddim i wrthod neb ag fai o fywyd diargyhoedd. Yn yr un parlament penderfynwyd i gael ffurf gywir i weinidogaethu y cymmun wrthi, y fath ag oedd wrth reol gair Duw, a threfn y brif eglwys. Am hynny appwyntiwyd rhai o'r eſgobion mwya dyſgedig a duwiol, a gwŷr dyſgedig eraill i ymgaſglu ynghyd, a chwilio allan, ac i benderfynu ar ryw ffurf mwya addas, unol, a pherffaith ar ol y rheolau rhagddywededig. A danfonwyd at yr archeſgob, eſgobion, ac offeiriaid na baid i arfer dim canhwyllau ar ddydd gwyl *Fair* y canhwyllau, na lludw yn y grawys, na phalmwydd ar ſul y palmwydd. Ond yn y cyfamſer daeth gair i gluſt cynghorwyr y brenhin fod mawr derfyſg trwy y deyrnas ymhlith y bobl, ynghylch torriad i lawr y delwau o'r eglwyſi; canys byddai un yn haeru mai y ddelw hon, un arall mai y llall, ac un nad oedd yr un i'w thynnu ymaith; yr hyn barodd i'r brenhin a'i gownſil, ddanfon llythyrau at archeſgob *Cranmer*, ac yntau at yr holl eſgobion, am i'r holl ddelwau gael eu tynnu allan o'r eglwyſi yn làn, heb adael un i ſefyll. — Erbyn hyn y gwŷr dyſgedig enwyd o'r blaen a gyttunaſant ar ffurf gydſain dduwiol, ac addas, agos i'r hon ſy yngwaſanaeth y cymmun yr awr hon yn eglwys *Loegr*: yr hon a dderbyniwyd, a argraphwyd, a gyhoeddwyd, ac a ddanfonwyd at yr holl eſgobion, gan orchymyn yn gaeth iddynt ei danfon hi at yr holl offeiriaid; ac iddynt hwythau weinidogaethu y ſacrament wrth yr unrhyw: a thrwy hyn yn awr cadd yr holl faſſes dirgel a chableddus eu gwahardd, a'u tynnu ymaith trwy'r holl deyrnas;

gethu i'r bobl un athrawiaeth yn wrthwyneb i'r hyn oſodwyd allan yn homilies mawrhydi y brenhin : ac na fyddent i roi *licens* i neb i bregethu o fewn i'w heſgobaeth, ond i'r fath a wyddent hwy ag a wnai yr un peth. Ac os un pryd y clywent am neb ag a wnai i'r gwrthwyneb, bod iddynt, nid yn unig eu gwahardd, ond hefyd eu coſpi, a thynnu eu *licens* oddi wrthynt. Tra fu y commiſſioners yn dwyn y gennadwri hon oddi amgylch, y brenhin ynghyd â'i *brifi counſil* a alwodd lawn barlament ynghyd, er mwyn dwyn ymlaen ymhellach y diwygiad, a rhwyſtro wrth wneuthur gwaith mor fawr, i un terfyſg i godi ymhlith y bobl. A chan ei fod yn gwybod y perygl yr oedd ei ddeiliaid ynddo o ran amryw gyfreithiau gwaedlyd a wnaed yn erbyn y *Lollardiaid*, y *Wickliffiaid*, a phob diwygwyr eraill, nid yn unig gan ei dad, ond gan frenhinoedd eraill o'i flaen ef, am hynny yn y parlament hwn y diddyfnwyd, ac y briwyd chwech neu ſaith o gyfreithiau ag fu yn achos i werin fawr o dduwiolion o bryd i bryd i ddiodde tros athrawiaeth yr efengyl, y rhai oedd oll yn erbyn darllen y Bibl *Saeſoneg*, na phrintio, gwerthu, na darllen un llyfr arall ag oedd yn cynnwys pethau crefyddol, tan boen eſgymmundod, carcharu, cymmeryd meddiannau, ac o'r diwedd diodde marwolaeth. Y rhai'n oll a ddiddyfnwyd yn y parlament hwn, ac yn benna ſtatute y chwech articl ragddywededig, gan ddiddyfnu pob coſpedigaeth, poen, a cholled ag oedd y cyfryw rai i ddiodde ag oedd euog. Fel hyn y cafodd, nid yn unig deiliaid gartrefol y brenhin gennad i broffeſu crefydd gyd â llawn rydd-did, ond hefyd amryw iol iawn o broffeſwyr gwreſog dyſgedig, oedd wedi eu hâlltudio o'r blaen, yn awr a ddychwelaſant, ac a gefnogwyd i waſanaethu eu ſwydd yn eon, ac yn ffyddlon. Yn y parlament hwn penderfynwyd fod y ſacrament ſanctaidd o hynny allan i gael ei weinidogaethu i'r bobl cyſtal ag i'r

offeiriaid

offeiriaid trwy holl eglwyſi *Lloegr*, *Iwerddon*, ac ardaloedd eraill o eiddo'r brenhin, *tan y ddau ryw o fara a gwin*; a bod i'r offeiriaid ag fai yn gweinidogaethu yr unrhyw, i gynghori y bobl fai yn breſennol, i barottoi eu hunain i'w dderbyn; ac nid oedd yr offeiriad ar ol cynghori yn ddwys y rhai oedd i'w dderbyn, (trwy ddangos y cyſur i'r rhai dderbyniai yn deilwng, a'r gwae i'r rhai a dderbyniai yn anheilwng) ddim i wrthod neb ag fai o fywyd diargyhoedd. Yn yr un parlament penderfynwyd i gael ffurf gywir i weinidogaethu y cymmun wrthi, y fath ag oedd wrth reol gair Duw, a threfn y brif eglwys. Am hynny appwyntiwyd rhai o'r eſgobion mwya dyſgedig a duwiol, a gwŷr dyſgedig eraill i ymgaſglu ynghyd, a chwilio allan, ac i benderfynu ar ryw ffurf mwya addas, unol, a pherffaith ar ol y rheolau rhagddywededig. A danfonwyd at yr archeſgob, eſgobion, ac offeiriaid na baid i arfer dim canhwyllau ar ddydd gwyl *Fair* y canhwyllau, na lludw yn y grawys, na phalmwydd ar ſul y palmwydd. Ond yn y cyfamſer daeth gair i gluſt cynghorwyr y brenhin fod mawr derfyſg trwy y deyrnas ymhlith y bobl, ynghylch torriad i lawr y delwau o'r eglwyſi; canys byddai un yn haeru mai y ddelw hon, un arall mai y llall, ac un nad oedd yr un i'w thynnu ymaith; yr hyn barodd i'r brenhin a'i gownſil, ddanfon llythyrau at archeſgob *Cranmer*, ac yntau at yr holl eſgobion, am i'r holl ddelwau gael eu tynnu allan o'r eglwyſi yn làn, heb adael un i ſefyll. — Erbyn hyn y gwŷr dyſgedig enwyd o'r blaen a gyttunaſant ar ffurf gydſain dduwiol, ac addas, agos i'r hon ſy yngwaſanaeth y cymmun yr awr hon yn eglwys *Loegr*: yr hon a dderbyniwyd, a argraphwyd, a gyhoeddwyd, ac a ddanfonwyd at yr holl eſgobion, gan orchymyn yn gaeth iddynt ei danfon hi at yr holl offeiriaid; ac iddynt hwythau weinidogaethu y ſacrament wrth yr unrhyw: a thrwy hyn yn awr cadd yr holl faſſes dirgel a chableddus eu gwahardd, a'u tynnu ymaith trwy'r holl deyrnas;

a'r ſacrament bendigedig o waed a chnawd ein Harglwydd Ieſu Griſt gael ei arferyd ar ol ffurf ſyml yr Yſgrythur. Ond am fod etto lawer o wrthwynebiad i'r ffurf hon, ac amryw yn para yn gyndyn, ac yn wrthryfelgar; cododd rhwygiadau rhyfeddol, ac amryw ffurfiau i weinidogaethu gwaſanaeth gweddiau, a gweinidogaeth y ſacrament; canys rhai yn wreſog a dderbyniaſant orchymmyn y brenhin, rhai yn rhagrithiol, yn gorfod ei addef ef, a gluttaſant ran o hono a rhan arall o'r hen ffurf babaidd; ond rhai a ddiyſtyraſant y cwbl, ac a arferaſant yr hen offeren. Am hynny y brenhin, a'i gynghorwyr yn ofni drwg o'r amrywiol ymraniadau, a ordeiniaſant i archeſgob *Canterbury*, ynghyd â'r rhai mwya doeth, duwiol, a dyſgedig o'r lleill o'r eſgobion, a rhai gwŷr dyſgedig eraill yn ddifrifol i yſtyried, a phwyſo y pwngc hwn; ac iddynt wedi craffu yn fanol ar drefn ac yſpryd yr yſgrythurau, ac arferion y brif eglwys, i dynnu un drefn addas, a ffurf gymmwys o weddi gyffredin, a gweinidogaeth y ſacramentau i gael ei harferyd o fewn i deyrnas *Loegr*, ac ardaloedd perthynaſol iddi. Ac felly hwy, ar ol llawer o ymddiddanion dwys, a dyſgedig, o un farn, a derfynaſant i oſod allan, ac i anrhegu i fawrhydi y brenhin, lyfr yn ſaiſoneg, ac elwid yn gymraeg, *Llyfr gweddi gyffredin, a gweinidogaeth y ſacramentau, a chynheddfau a ſeremoniau eraill, ar ol trefn eglwys Loegr*; yr hwn dderbyniodd y brenhin gyd â chynheſrwydd mawr, ac a'i traddododd yn union i'r Arglwyddi a'r commons yn uchel lys parlament, yn yr ail flwyddyn o'i deyrnaſiad, 1548, ac fe wnawd act yn y parlament hwn, os byddai un gŵr eglwyſig wrthod darllen, neu weinidogaethu y ſacramentau wrth yr un rhyw, neu arferai un dull o ſeremoniau eraill, naill ag yn gyhoedd, neu yn ddirgel, neu bregethu, cyhoeddi, dywedyd dim mewn diyſtyrwch, neu wradwyddiad i'r un rhyw lyfr, neu un peth ynddo yn gynhwyſedig; bod iddo golli, ar ei droſeddiad cyntaf, ei elw blynyddol i fawrhydi y brenhin,

hin, ac hefyd dioddef carchar chwe' mis; ond ar yr ail drofedd, carchar tros flwyddyn, ac i golli ei holl fywioliaeth eglwyfig tros fyth. Ac os trofeddai y drydydd waith, dioddef carchar tra fyddai byw. Ond os un heb fywioliaeth eglwyfig a drofeddai, fod iddo am ei drofedd cyntaf, ddioddef carchar tros 6 mis, ac ar ei ail drofedd carchar tra fyddai byw: ac felly cadarnhawyd yr act hon gan y brenhin; ac y daeth llyfr gweddi gyffredin i gael ei arferyd trwy yr holl deyrnas. — Diddyfnwyd yma hefyd bob act a wnawd o'r blaen am waharddiad offeiriaid i briodi; ac y caniattawyd i bob graddau o wŷr eglwyfig briodi ag gai eu galw i hynny.

Eu. Ni cheifiaf gennych ddweud rhagor am ddyddiau dedwydd *Edward* y VIed, pan oedd haf hyfryd yn difgleirio ar y Proteftaniaid, ond nos tywyll ar eglwys *Rufain* yn ynys *Bryden*: ond mi glywais i'r amferoedd hyfryd hyn i newid, ac i'r buftl, y finegr, a'r wermwd ddyfod i gwppan y Saint, a bod yma garcharu, taflu allan o fywioliaethau, mwrddro, llofgi, a gorthrymmu Proteftaniaid yn ofnadwy iawn yn nyddiau y frenhines *Mari*. Am hynny dymuno 'rwyf arnoch i fanegu i mi ychydig hanefion am greulondeb y dyddiau hyn, yngfyd â'r nerth a gafodd y Proteftaniaid i ddioddef; a da fuafai gennyf y dydd heddyw pe buafwn heb eich blino am holl wag-addoliadau'r paganiaid, feremoniau difylwedd y mahometaniaid, a llawer o goelgrefyddau eraill, (er bod hynny hefyd yn adeiladol i weld y tywyllwch mae rhei'ny ynddo fy heb Lyfr Duw, fel yr oeddem ninnau gynt) a threulio rhagor o amfer am ddioddefiadau y merthyron, a'r holl feintiau tan yr ymerawdwyr rhufeinaidd; hefyd tan frenhinoedd *Ffraingc*, *Spain*, yr *Idal*, a *Bohemia* yn nyddiau pabyddiaeth; yn enwedig yn amfer y diwygiad mawr oddi wrth y grefydd babaidd yma yn *Lloegr*, *Scotland*, a'r *Iwerddon*, yn nyddiau *Harri* yr wythfed, *Edward* y chweched, a'r frenhines *Mari* waedled honno ag y mae pob darllenydd pro-

teſtanaidd yn ei ffieiddio. Ond adroddwch i mi yr hyn a weloch orau.

Ap. Y brenhin *Edward* wedi myned yn wan iawn mewn *conſumſiwn*, (er mwyn dwyn y diwyg-iad ymlaen,) a berſwadiwyd gan ei brifi cownſil i wneud ei ewyllys; ac ynddi i beidio rhoi'r goron i'w chwiorydd *Mari*, nac *Eliſabeth*, nac chwaith i frenhines y *Scotiaid*, yr hon oedd yn babiſtes ryw-iog; ac i ſetlo'r goron ar Ladi *Jane Grey*, merch henaf y duwc o *Suffolk*, yr hon oedd neſaf i'r goron ar ol y rhai rhag-ddywededig. Canys chwaer ieu-angaf *Harri* yr wythfed oedd wedi priodi brenhin *Ffrainge*; ac ar ol ei gladdu, wedi priodi duwc o *Northumberland*; ac iddi o hono ef yr oedd merch gyfenwid *Jane*, ſef *Jane Grey*: ac yr oedd *Harri* wedi gwneud yn ei ewyllys diweddaf os nas byddai hiliogaeth i'w fab *Edward*, fod y llîn hyn i eiſtedd ar deyrngadair *Lloegr*. Yr hyn barodd i'r duwc o *Northumberland* i briodi ei ferch yn fuan â'r duwc o *Suffolk*; a hyn, ynghyd a bod *Edward* hefyd wedi gwneud ei ewyllys yr un modd, oedd yn atteb yn rhagorol i alw Lady *Jane Grey* i'r frenhiniaeth: heblaw ei bod hi hefyd yn Broteſtant gwreſog, ac yn un o'r rhai calla, arafa, a mwya dyſgedig, a rhin-weddol ag feddai teyrnas *Loegr*. Am hynny pan fu farw y brenhin *Edward*, y prifi cownſil a phen-defigion y deyrnas a gyhoeddaſant *Jane Grey* yn fren-hines; a byddin o wŷr a godwyd i gynnal i fynu ei thitl hi i'r goron. Ond pan glybu y dywyſoges *Mari* yr hon oedd y pryd hyn yn *Norffolk*, fod ei brawd wedi marw; hi ddanfonodd lythyrau at y prifi cown-ſil, i glaimio hawl i'r goron; ac a'u ſiarſodd hwynt trwy lw ufudd-dod i dywyſog, i'w chyhoeddi hi yn *Llundain*, a lleoedd eraill yn *Frenhines Lloegr*. Ond y cownſil a anfonaſant yn ol gan inſiſto arni i roi i fynu ei hawl i'r goron, ac ymddaroſtwng fel deiliad ffyddlon i'w phenllywydd newydd. Ond *Mari* trwy annogaeth ei ffryns yn y gogledd, a reſolfodd i am-ddiffyn ei hawl; a thu ag at wneud ei ffordd yn

fwy

fwy eſmwyth, hi addawodd i wŷr *Suffolk*, na wnai hi ddim cyfnewid mewn crefydd: a hyn a barodd iddi gael byddin luoſog o wŷr, â pha un y goſododd hi allan tu a *Llundain:* ond cyn iddynt ddyfod yno, y cownſil a dinaſyddion *Llundain* a droiſant o'i hochr; ac ymhen ychydig o ddiwrnodau hi wnaeth ddyfodiad cyhoedd i mewn i'r ddinas, heb golli dafn o waed: a hyn oedd fis cyfan ar ol claddu ei brawd. Ond y peth cyntaf a wnaeth hi yno oedd tynnu eſgob *Bonner*, *Gardiner*, ac eraill allan o'r *tower*, lle yr oeddent yn garcharorion. Ac yn union hi gyhoeddodd yn y cownſil, *Er fod ei chydwybod hi wedi ſefydlu yn achoſion crefydd*; *ond etto nad oedd hi ddim am gymmell eraill ond trwy bregethiad y gair*; a hyn oedd wahanol iawn oddi wrth ei haddewidion hi i wŷr *Suffolk*; ſef *y cai crefydd fod yr un ag oedd hi yn nyddiau* Edward, ond yn awr mae hi cyſtal a dweud y cai yr hen grefydd ei hadferu, ond nid trwy gymmell. Drannoeth bu terfyſg mawr wrth eglwys St. *Paul* yn achos Dr. *Burne* i bregethu yn erbyn y diwygiad gan *Edward* y chweched. Fe ganmolodd *Bonner*, ac a oſododd feiau anafus ar y brenhin *Edward*; nes i'r holl dyrfa i godi i fynu mewn terfyſg: rhai yn gwaeddi am ei dynnu ef i lawr; eraill yn taflu cerrig atto; ac un a ergydiodd ſaeth atto, yr hon a lynodd yn aſtyllen o'r pulpyd. Darfu i Mr. *Rogers* a *Bradford*, dau bregethwr boblog tros y diwygiad, fentro eu bywydau i achub y Doctor, gan ei ddwyn ef yn ddihangol i dŷ, am ba weithred o drugaredd ymhen ychydig fe'u carcharwyd, ac a'u lloſgwyd. Ond er mwyn rhwyſtro y fath derfyſg yn ol llaw, y frenhines a gyhoeddodd waharddiad nad oedd i fod dim pregethiad mwy, heb *liſens* neilltuol; gan fanegu ymhellach *nas cymhellai hi neb o'i deiliaid i fod o'i chrefydd hi, hyd oni bai gorchymmyn cyhoedd i gael ei roi trwy gydſeiniad cyffredin.* Dyma un arwydd arall o dymmeſtl yn agoshau, *canys nid oedd ei deiliaid hi i gael eu cymmell hyd oni byddai trefn gyhoedd gael ei gymmeryd at hynny.* Ac i

rwyſtro terfyſg ragor, rhowd allan gyhoeddiad i bob penteulu i wneud i'w prentyſiaid a'u gwaſanaeth-ddynion fyned i'w heglwyſydd plwyfol ar y ſuliau, a'r gwyliau, a'u cadw gartref bob amſer arall. Ond pan clywodd gwŷr *Suffolk* fod y pulpydau proteſtanaidd wedi cael eu caead i fynu; hwy a ddihunaſant, a chan bwyſo ar eu haeddiant eu hunain, ac ar addewid y frenhines, hwy a ddanfonaſant gennadwri i'r llys i oſod allan eu gormes: ond y frenhines yn lle tynnu ymaith y iau, a'u ceryddodd hwy am eu rhyfyg. Ond pan digwyddodd i un o honynt goffau ei haddewid iddi, hwnnw roddwyd yn y pilwri dri diwrnod, ac a gadd gropio ffwrdd ei gluſtiau am ei enllib. Ymhen ychydig wedi'n rhoddwyd *Bonner* eſgob *Llundain*, *Gardiner* eſgob *Wincheſter*, *Tonſtal* eſgob *Derham*, *Heath* eſgob *Worceſter*, a dau eſgob *Chicheſter*, y rhai oedd babiſtiaid ffyrnig yn ol yn eu heſgobaethau. Rhai o'r diwygwyr a barhaodd i bregethu ar ol y gwaharddiad hyn, ond y rhai'n a ddanfonwyd i'r carcharau; ymhlith pa rai yr oedd *Hooper* eſgob *Caerloyw*, *Coferdale* eſgob *Eceſeter*, Dr. *Taylor*, *Rogers* y merthyr cyntaf, ac amryw eraill. Archeſgob *Cranmer* oedd mor ddiſtaw y pryd hyn, fel yr oeddid yn tybiaid y byddai iddo ddychwelyd i'w hen grefydd; ond o'r tu arall yntau oedd yn parottoi cyffes gyhoedd o'i ffydd yn ei herbyn hi; yr hyn pan ddaethpwyd i adnabod; ſe holwyd, ac a gyfaddefodd y gwir; ac yna yn union ſe danfonwyd ef i'r *tower*, gyd ag eſgob *Latimer*; ac ymhen rhai wythnoſau rhoddwyd *Halgate* archeſgob *Iork* yn y *tower*; a *Horn* dean *Durham* hefyd a wyſiwyd o flaen y cownſil: ond ſe ffodd o'r deyrnas. Y demmeſtl oedd yn caſglu mor dew yn awr, ac y ciliodd tros *wyth cant* o'r diwygwyr i wledydd eraill: ymhlith pa rai 'roedd 5 eſgob, 5 dean, 4 archdiacon, 50 o ddoctoriaid difinyddiaeth, a phregethwyr hynod; ymhlith pa rai yr oedd *Grindal*, *Jewel*, *Sandys*, *Raynolds*, *Pillington*, *Whitehead*, *Lover*, *Nowel*, *Knox*, *Rough*, *Fox*, *Whittingam*,

tingam, *Parhurſt*, ac eraill a fu wŷr hynod wedi hyn yn amſer *Eliſabeth*: heblaw llawer cant o bendefigion, marſiandwyr, crefftwyr, celfyddydwyr, a phob math o'r cyffredin bobl. Rhai a ffoiſant mewn *diſguiſe*, neu a aethant troſodd fel gwaſanaethwyr i broteſtaniaid pellennig a ddaethai yma i ymofyn cyſgod yn amſer *Edward*; ond yn awr wedi peri iddynt adael y deyrnas; ymhlith pa rai yr oedd *Peter Martyr*, *John* a *Laſgo*, a'i gynnulleidfa o *Germaniaid*.—Ond er mwyn attal gormod o'r *Saeſon* i fyned troſodd gyd â hwy, gorchymmyn y cownſil a ddanfonwyd i bob porthladd, na bai neb i gael ei ddiodde i ymadael â'r deyrnas heb *baſport* addas. Y parti pabaidd o zel boeth at eu crefydd eu hunain oeddent yn myned tros ben pob cyfreithiau, ac yn gweinidogaethu'r maſs mewn amryw eglwyſydd cyn iddo gael ei adferu trwy awdurdod; ond am barti y diwygiad tra fyddent yn parhau yn eu haddoliadau cyhoedd gyd â'r gwres a'r pryſurdeb mwya, y werinos ddiddyſg a ddeuai i'r eglwyſydd ac a ruthrai ar y gweinidogion, ac a wawdient eu haddoliad. Ond nid oedd y frenhines a'i hoffeiriaid pabaidd ond winco ar y pethau hyn; a darfu iddi ffeinio *Judge Hall* o fil o bynnau am iddo beri i Jeſtuſaid *Kent* i gydffurfio â chyfreithiau *Edward* y VIed, y rhai oedd etto heb gael eu diddyfnu; am ba achos darfu i'r pendefig hwnnw fyned yn felancoli, a boddi ei hun. Y frenhines a goronwyd *Hydref* y 1, 1553, gan *Gardiner* eſgob *Wincheſter*; a chyd ag ef ddeg eſgob eraill i gyd yn eu coronau, eu capiau, a'u croeſierau, ar ol y ffordd babaidd. A pharlament a wyſiwyd yn fuan i gyfarfod, ac yna danfonwyd bìl i lawr i'r *Houſe of commons* i ddiddyfnu holl gyfreithiau y brenhin *Edward* ynghylch crefydd; yr hwn a wrthddadleuwyd tros 6 diwrnod, ond o'r diwedd a ennillwyd. Hwn oedd yn galw yn ol yn gyffredin yr holl gyfreithiau a wnawd gan y brenhin *Edward* o blaid y diwygiad, ac yn peri na bai un ffurf o waſanaeth eglwyſig ond oedd yn amſer diweddaf *Harri*

yr

yr wythfed. Poenau creulon oeddid wedi eu harfaethu i fod ar y rhai a rwyſtrai y gwaſanaeth cyhoedd pabaidd, amharchai y ſacrament ſanctaidd, neu dorrai lawr allorau, lluniau Criſt ar y groes, neu groeſau, gan ei wneud yn deilwng o farwolaeth i neb gaſglu ynghyd i gyfnewid y grefydd babaidd ag oedd yn awr yn cael ei hail ſefydlu trwy yr holl deyrnas. Archeſgob *Cranmer*, lady *Jane Grey*, a duwc o *Suffolk* ei phriod, a dau fab arall i'r duwc o *Northumberland* a ddygwyd i'w treial am uchel fradwriaeth, trwy godi rhyfel yn erbyn y frenhines; a chydfradwri i oſod un arall i fynu yn ei lle hi. Darfu iddynt oll gyfaddef eu hinditments, ond *Cranmer* appeliodd at ei farnwyr pa mor anewyllyſgar oedd ef i oſod ei law wrth dorriad ymaith y frenhines. A'r inditements hyn a gadarnhawyd gan y parlament; ond yna pan daethant i wybod fod priodas yn cael ei phwrpaſu rhwng y frenhines a *Philip* o *Spain*, yr *houſe of commons* a ddanfonodd eu *Speaker*, ac ugain o'r aelodau i ddeiſyf arni yn oſtyngedig i beidio priodi dieithr ddyn; yr hyn a'i hanfoddlonodd hi cymmaint, ag y gwaſgarodd hi y parlament yn union. Y *convocaſiwn* hefyd ag oedd yn eiſtedd yr un pryd a'r parlament oedd yr un wedd wedi cael eu gwobrwyo â bywioliaethau fel baent o ochr y frenhines pa beth bynnag a ddigwyddai. Rhowd cant a hanner o lifings cyn dewis offeiriaid i eiſtedd yn y confocaſiwn hwn; fel byddai y tŷ iſa'r confocaſiwn yr un a'r tŷ ucha. Ac oddi yma darfu ymron i'r holl eſgobion proteſtanaidd gael eu taflu allan, trwy eu carcharu, neu eu diddyfnu o'u heſgobaethau, neu ryw ffordd arall. *Bonner* oedd yn awdurdodi fel yr eſgob pennaf ar dalaith *Canterbury*: ei chaplain ef a bregethodd bregeth ar *Act.* xx. 28. *Portha'r praidd*; yno rhowd o flaen yr aelodau, i roi eu dwylo wrth athrawiaeth *trawſylweddiad*, yr hyn a ddarfu i bawb gydſynio iddo ond y chwech canlynol; *Philpot, archdiacon Wincheſter*, *Philips dean Rocheſter*, *Haden dean Exeter*, *Cheyni archdiacon Henffordd*, *Aylmer*

mer archdiacon Stow, a Young chaunter Tŷ Ddewi. Y rhai'n a wrthddadleuaſant ar y pwngc dri niwrnod; ond y dadleuad a driniwyd ar ol arfer y dyddiau hynny gyd â'r fath ddirmyg a bwgythion gan yr ochr babaidd, fel darfu i'r *prolocutor* derfynu'r gwrthddadl trwy ddweud, *Chwi bia'r gair, ninnau bia'r cleddau.* Yn yr amſer yma darfu i un *Wyat* godi gwrthryfel, o achos yr anfoddlonrwydd cyffredin oedd yn erbyn priodas y frenhines: cynnygiad oedd hwn, ag a wnaeth ddrwg mawr i'r achos proteſtanaidd, er nad oedd gan y proteſtaniaid un llaw ynddo; am mai papiſt oedd *Wyat* ei hunan: y pendefig hwn a gododd bedair mil o wŷr, gyd â pha rai yr aeth ef yn union i *Lundain*; ond pan y daeth ef i *Southwark* fe gafodd y bont wedi ei chadarnhau cyſtal, na's gallaſai fyned ymlaen heb ganon; ond fe groeſodd yr afon *Têms* yn *Kingſton*, ac fe ddaeth heibio i *Charing croſs* i *Ludgate* y borau drannoeth, tan dybiaid yr agorai y dinaſyddion y pyrth iddo; ond pan cafodd ei ſiommi yn y peth a ddiſgwyliodd, fe roddodd ei hun yn garcharwr wrth *Temple Bar*; ac yn fuan y dihenyddiwyd ef, fel y gwnawd hefyd i *Jane Grey*, y duwc o *Suffolk* ei phriod, ac eraill; a phrin y dihangodd y ladi *Eliſabeth* ei hun, am i *Wyat* ar ei dreial ei chyhuddo hi o gydfradwriaeth, mewn gobaith o achub ei fywyd ei hun, ar ba achwyniad y danfonwyd hithau i garchar; ond pan welodd *Wyat* fod yn rhaid iddo farw, fe rhyddhaodd hi ar y ſcaffold; ac ar briodas y frenhines hi gafodd bardwn. Mor gynted ag y ſetlwyd y deyrnas yn ganolig, darfu i'r frenhines trwy rinwedd ei *ſupremacy* roi gorchymmyn i'r eſgobion i ymweled â'r offeiriaid. Y gorchymyn oedd yn cynnwys adroddiad digofus o'r holl newyddion bethau a ddygwyd i mewn i'r eglwys yn nheyrnaſiad y brenhin *Edward*; gan beri i'r eſgobion fynnu gweled cyflawni yr holl gyfreithiau eglwyſig ag oedd mewn grym yn amſer *Harri* yr wythfed; *ond peidio dwyn matterion eglwyſig ymlaen yn eu cyrtau yn enw y frenhines*; hynny

oedd

oedd, am ei bod hi am ddodi pab *Rhufain* yn ben ar yr eglwys drachefn ; mae hi hefyd yn peri iddynt beidio gofyn y llw o *ſupremacy*, ond i goſpi hereticiaid, a hereſiau ; ac i ſymmud yr holl offeiriaid priod oddi wrth eu gwragedd, ond am y rhai a ymadawai â'u gwragedd tros fyth, hwy allent ddodi y cyfryw mewn rhyw giwradiaeth arall. Y ceremoniau, y gwyliau, yr ymprydiau ag oedd yn amſer *Harri* yr wythfed oedd etto i gael eu codi i fynu. Bod i'r offeiriaid hynny hefyd ag urddwyd wrth lyfr gweddi gyffredin y brenhin *Edward* i gael eu hail urddo, neu gael cyflawni i fynu ddiffygiadau eu hurddau ; hynny yw, yr enneiniad, gwiſgo gwiſgoedd offeiriadol, ac eraill o arferion *Rhufain* wrth ordeinio offeiriaid ; ac yn ola bod yn rhaid gwneud i bob rhyw bobl ddyfod i'r eglwys. Fe ddygwyd eu heſgobaethau oddi ar archeſgob *York*, eſgob *Dewi*, eſgob *Cheſter*, ac eſgob *Briſtol* am eu bod yn briod: ac eſgobion *Lincoln*, *Caerloyw*, a *Henffordd* a ddiddyfnwyd o'u heſgobaethau yn unig o bleſer y frenhines ; a'r eſgobaethau gwag hyn a lanwyd i fynu yn union â gwŷr wrth fodd calon y frenhines, hyd at 16, yn lle cynnifer o rai a dorrwyd ymaith. Yr eſgobion newydd yn eu hymweliadau â'r offeiriaid, yn enwedig *Bonner*, a gyflawnaſant orchymynion y frenhines gyd â ffyrnigrwydd : y maſs a oſodwyd i fynu ymhob lleoedd, a'r holl ſeremoniau pabaidd a fywioccawyd. Y carfwyr, a'r gwneuthurwyr delwau a gawſant waith buan i wneud croeſau a delwau ag oedd i gael eu goſod i fynu yn yr eglwyſi. Y pregethwyr mwya enwog yn *Llundain* a oſodwyd mewn carcharau ; a'r holl offeiriaid priod trwy'r holl deyrnas a ddiddyfnwyd o'u heglwyſydd. Mae rhai haneſwyr yn rhifo o un fil ar bymtheg o offeiriaid, i ddeuddeg mil i gael eu taflu allan ; ond yr hyn a ddywaid eraill fydd lawer iawn llai. Rhai drowyd allan heb un achwyniad yn eu herbyn ; yn unig ſwn y wlad eu bod yn broteſtaniaid ; rhai ni's gwyſiwyd ymlaen, etto hwy drowyd allan eiſiau ymddangos ;

rhai

rhai a ymadawſant â'u gwragedd, ac a ddygaſant benyd, etto er hynny a drowyd allan. Ail barlament y frenhines a eiſteddodd, wedi'r llys brenhinol gymmeryd gofal mawr yn yr electiwnau i wneud aelodau o hono ar ol ei bwrpas ei hun, hynny yw, rhai i gymmeradwyo y briodas â *Philip*; yr hyn a gyflawnaſant gyd â hyn yn unig o ommeddiad; *fod y frenhines yn unig i gael llywodraethu y deyrnas*. Y brenhin *Phylip* a diriodd yn *Lloegr*, *Gorphenhaf* 20, 1554, ac a briododd y frenhines y 27 yn *Wincheſter*, ac efe y pryd hynny yn 27 oed, a hithau yn 38. Fe ddygodd gyd ag ef troſodd dryſorau mawrion o gyfoeth; ſaith coffraid ar hugain o arian heb eu bathu, pob coffr tros lathen o hŷd: a phedwar ugain a phedwar ar bymtheg o bynnau ceffylau, a dau lwyth cart o aur, ac arian bathedig. Yn awr gan fod y diwygwyr yn achwyn ar yr ymddygiad garwinol a gawſant wrth ymddadlau yn y confocaſiwn diwetha, y llys reſolfodd roi iddynt farwhad newydd, trwy bwyntio un arall yn *Rhydychen*, ymhreſennoldeb yr holl uniferſity. Ac am fod archeſgob *Cranmer*, eſgob *Latimer*, a *Ridley*, y difinyddion mwya hynod o'r diwygiad, hwy, trwy warant oddi wrth y frenhines, a ſymmydwyd o'r *tower* i *Rydychen*, i ddwyn ymlaen yr ymddadleuad. Y confocaſiwn hwythau a ddanfonaſant eu hareithwyr, ac amryw o'r aelodau, y rhai pan ddaethant yno, a anfonaſant am yr eſgobion, ac appwyntiaſant ddiwrnod i bob un o honynt i amddiffyn eu hathrawiaeth. Y dadlau oedd am *draws-ſylweddiad, ac aberth y maſs yn boddloni Duw*. Yr eſgobion a ymddygaſant gyd â chymedroldeb mawr, a hyfdra; ond eu gwrthwynebwyr oedd yn eu dirmygu, ac yn gorfoleddu arnynt yn y dull mwya barbaraidd. Fe ddywaid eſgob *Ridley* fod yno ſloeddiadau didor; dirmygau ffyrnig, a diyſtyrwch; lleiſiau a therfyſgoedd digyffelyb. Fe chwarddwyd am ben *Cranmer* a hen *Latimer*, gan eu hiſho hwynt fel y cywilyddient. Fe orchfygwyd *Ridley* â bloeddfau, a lleiſiau;

ac

ac fe ddywaid, *Yn fy holl fywyd ni welais I erioed un peth yn cael ei drin ymlaen yn fwy gwâg a therfyſglyd! ni's credaſwn I buaſai un Sais wedi cael ei anrhydeddu â dyſg a graddau yn euog o'r fath ynſydrwydd diarefn.* Yna fe'u gwyſiwyd hwynt i eglwys St. *Mary* drachefn, lle gofynwyd ganddynt (am eu bod wedi cael eu maeddu yn y dadlau) i ſubſcribo; ond hwy oll a wrthodaſant; am hynny y cyhoeddwyd hwynt yn *Hereticiaid cyndyn.* Fe amcanwyd gwaradwyddo y diwygwyr â dadleuad arall yng *Nghambridg*; ond pan glywodd y carcharorion, hwy a argraphaſant bapur i gyhoeddi allan na ddadleuent hwy bellach ond mewn 'ſgrifen; oni chai hynny fod o flaen y frenhines a'i chownſil, neu o flaen un o'r ddau dŷ o barlament; o ran y chwedlau celwyddog a roid allan gan eu gwrthwynebwyr, a'r triniaeth ddrwg a gawſant ymhob man y buont yn dadlau. Ac ar hynny hwy a argraphaſant grynhodeb o'u ffydd, tros ba un yr oeddent yn foddlon i roi i fynu eu bywydau i'r crogpren, neu i'r tân, fel y byddai Duw yn ewyllyſio.

Eu. Manegwch yn fyr eu cyffes.

Ap. *Tyſtiolaethaſant eu bod yn credu yr Yſgrythur i fod yn wir air Duw, ac yn farnydd pob ymddadleuon yn achoſion crefydd. Bod yr eglwys i ufuddhau iddi hyd ag y bai yn dilyn y gair hwn. Eu bod yn glynu wrth gredo yr Apoſtolion, a phob credo a oſodwyd allan gan gownſil* Niece, Conſtantinopl, Epheſus, *a* Chalcedon, *a chan y cyntaf, a'r pedwarydd cownſil o* Toledo; *a chredoau St.* Athanaſius, Irenius, Tertulian, *a* Damaſcus. *Yr oeddent yn credu cyfiawnhâd trwy ffydd yn unig, yr hon ffydd nad oedd ddim yn opiniwn gwag, ond gwir grediniaeth wedi ei weithio gan yr Yſpryd Glân, yr hon ſydd yn goleuo'r deall, yn tyneru'r galon i ymddaroſtwng ei hun yn ddiragrith i Dduw. Yr oeddent yn addef yr angenrheidrwydd o gyfiawnder tumewnol; ond bod cyfiawnhâd, a maddeuant pechod yn dyfod yn unig trwy fod cyfiawnder Criſt yn cael ei gyfrif iddynt. Yr oeddent yn tyſtiolaethu*

dylaſai

dylaſai addoliad Duw gael ei gyflawni mewn tafodiaith ag fai'r bobl yn ei ddeall. Mai Criſt yn unig, ac nid y Seintiau, oedd i weddio arno. Fod yn union ar ol marwolaeth yr eneidiau yn myned i gyflwr y gwynfydedigion, neu i le y damnedigion; ac nad oes purdan i fod rhwng y ddau. Mai bedydd a ſwpper yr Arglwydd yw ſacramentau Crîſt, y rhai a ddylent gael eu gweini ar ol ei oſodiad ef ei hun; ac am hynny yr oeddent yn condemno gwrthodiad y cwppan i'r bobl, trawſ-ſylweddiad, ac aberth y maſs; ac yn cadarnhau cyfreithlondeb priodas i bob gradd a galwad o ddynion. Ac yna darfu iddynt hyſpyſu eu hunain yn barod i amddiffyn y gwirioneddau hyn fel o'r blaen; gan fiarſo yr holl bobl i beidio codi i fynu mewn gwrthryfel yn erbyn y frenhines, ond i ufuddhau iddi ymhob pwngc, ond lle byddai ei gorchymmynion hi yn groes i gyfraith Duw. Hyn roddodd ddiwedd ar holl orfoledd y papiſtiaid yn breſennol; ac oedd yn dyſtiolaeth ardderchog o brif a neilltuol bynciau y ffydd broteſtanaidd. Ond am nad oedd le i redeg i lawr ymhellach y diwygwyr, trwy floedd, dirmyg, a chwerthin, rhaid oedd i'w ffydd a'u gwroldeb fyned tan brofiad tanllyd. Y trydydd parlament eiſteddodd, a'r arian a ddaeth gyd â *Phylip* o *Spain* a wnaeth *houſe of Commons* wrth fodd y frenhines. Y bíl cyntaf a baſiodd oedd tynny ymaith farn ag oedd ar *Gardinal Pool*, yr hwn yn nyddiau *Harri* yr wythfed a farnwyd i fod yn euog o fradwriaeth. Y bíl hyn a gafodd gydſeiniad y frenhines; a'r *Cardinal* ei hun a diriodd yn *Lloegr* ymhen dau ddiwrnod wedi'n, yn y radd o *Legate* y Pab, ag awdurdod ganddo i dderbyn teyrnas *Loegr* i fynwes yr eglwys babaidd, tan y pab fel ei phen bugail. Ac a wnaeth araith yn y parlament o wahoddiad iddynt i gymmodi â'r eglwys apoſtolic. Ac yno yr appwyntiwyd committi o'r arglwyddi, ac o'r commons i dynnu i fynu erfyniad at y brenhin a'r frenhines i eiriol ar y *legate* am gymmod, gyd ag addewid galw yn ol bob act ag a wnaed o'r blaen yn erbyn awdur-

dod y pab. Hwn a breſentiwyd gan y ddau dŷ barlament ar eu gliniau i'r brenhin a'r frenhines, hwythau a eiriolaſant ar y cardinal, yr hwn ar hynny a wnaeth araith fawr yn y tŷ, yn niwedd pa un y gorchymynodd ef iddynt yn lle penyd, i alw yn ol yr holl gyfreithiau rhagddywededig: ac felly yn enw'r pab ſe ganiattaodd lawn ollyngdod; yr hyn a dderbyniaſant hwy ar eu gliniau. Ac yna y gollyngodd ef yr holl deyrnas oddi wrth bob barnedigaethau. Ond etto a gyhoeddodd felldithion trwmion ar y rhei'ny ag oedd yn cadw meddiannau yr eglwys yn eu dwylo, heb eu dychwelyd yn ol. Ac er hyn oll cyn gwneuthur cymmod llawn y pab a gyhoeddodd fwl neu lythyr trwy ba un yr eſgymmunodd ef yr holl rai ag oedd yn perchennogi meddiannau yr eglwys, neu'r monachlogydd heb eu rhoi yn ol. Hyn a ddychrynodd y frenhines eulunaddolgar gymmaint (yr hon a feddyliodd ei bod yn agos i'w hamſer i eſgor) ag y danfonodd hi am ei huchel ſwyddogion, ac a roddodd i fynu holl diroedd yr eglwys ag oedd wedi cael eu hattal yn ei llaw hi, i wneud â hwy fel y gwelai'r pab neu ei legate fod yn addas: ond pan y gwnawd y cynnygiad hyn i'r commons yn y parlament, rhai o honynt yn eon a darawſant eu llaw ar eu cleddyfau, ac a ddywedaſant y gwyddent hwy pa fodd i amddiffyn eu heiddo eu hun. Yr act neſaf a ddygwyd i mewn i'r tŷ oedd, adnewyddu yr hen actau ag a wnaethpwyd gynt am loſgi hereticiaid, yr hon a baſodd trwy y ddau dŷ mewn chwech diwrnod er llawenydd anrhaethol i'r offeiriaid pabaidd. Pan clywodd y parlament hyn fod rhai pregethwyr hereſiaidd yn eu cyfarfodydd neilltuol yn gweddio *am i Dduw droi calon y frenhines oddiwrth eulunaddoliaeth i'r wir ffydd, neu yntau fyrhau ei dyddiau*; gwnaethant act fod i bob rhai a weddient yn y dull hyn i gael eu barnu'n fradwyr.—Y deyrnas yn awr wedi cael fel hyn ei chymmodi ag eglwys *Rufain*, a'r cyfreithiau coſpedigaethol yn erbyn yr hereticiaid wedi cael eu hadfywio, ſe gadwyd cownſil

ſil am y dull o ddelio â diwygwyr. Fe ddwedir fod *Cardinal Pool* am gymmeryd y ffordd fwya tyner eu dyſgu a'u perſwadio; ond diau fod *Gardiner* am greulondeb, tan dybiaid y byddai ychydig ſiamplau o'r fath ar y rhai pennaf o'r blaid i ddychrynu y lleill i gydſeinio. A diau fod y frenhines o'r un feddwl; canys hi orchymynodd i *Gardiner*, a thrwy gommiſiwn roddodd hi iddo ef a rhai eſgobion eraill, i wneud prawf o'r peth. Fe ddechreuodd ar Mr. *Rogers*, Mr. *Cardmaker*, ac eſgob *Hooper*, yr hwn a gadwyd yn y carchar 18 mis heb un gyfraith. Y rhai'n ar eu holiad a ofynwyd iddynt pa un a wnaent ai ymado â'u oppiniwnau hereſiaidd ynghylch y *ſacrament*, ac ymoſtwng i'r eglwys fel yr oedd hi y pryd hynny wedi cael ei ſefydlu; yr hyn pan darfu iddynt wrthod ei wneud, a gyhoeddwyd yn hereticiaid cyndyn, ac a draddodwyd troſodd i'r fwyddogion gwladaidd. Fe loſgwyd Mr. *Rogers* yn *Smithffild*; fe gynnygwyd pardwn iddo wrth y ſtange, yr hyn a wrthododd ef er fod ganddo wraig a deg o blant bychain, heb ddim i'w cynnal. Fe loſgwyd eſgob *Hooper* yng *Nghaerloiw*; ni's goddefwyd iddo chwedleua â'r bobl; ac fe ymddygwyd atto mor greulon yn y tân, fel y rhoſtiwyd ei goeſau a'i forddwydydd, ac un o'i ddwylo i gwympo oddi wrtho cyn iddo drengu; a'i eiriau diweddaf ef oedd, *Arglwydd Ieſu derbyn fy yſpryd*. Fe yſgrifenodd lawer o lythyrau rhagorol yn y carchar, llawn o fywyd a duwiolder at y difinyddion tramor; ac mewn un llythyr at *Bulinger*, ddau fis cyn ei ferthyrdod, mae y geiriau hyn; *Y clwyf a roddwyd i anghriſt gyd â ni a iachawyd; ac yr ydys yn ei gyhoeddi ef yn ben i'r eglwys yr hwn nad yw yn aelod o honi. Yr ydym o hyd yn y perygl mwya, megis yr ydym er's blwyddyn a hanner aeth heibio: yr ydym yn cael ein cadw ar wahan yn y carchar; ac yn cael ein trin gyd â phob rhyw o greulondeb a dirmyg: maent yn ein bygwth ni bob dydd â marwolaeth, yr hyn nid y'm yn ei briſio. Yr ydym ni yn ddianwadal yn diyſtyru tân a chleddyf yn*

achos Criſt. Yr ydym yn gwybod i bwy y credaſom, a ſicr yw gennym i ni roi ein heneidiau iddo ef trwy wneuthur yn dda. Yn y cyfamſer cynnorthwywch ſi â'ch gweddiau, fel y bo yr hwn a ddechreuodd y gwaith da ynom i'w ddwyn ef ymlaen hyd y diwedd: eiddo yr Arglwydd ydym, a gwnaed â ni fel y byddo da yn ei olwg ef. O ddautu yr un pryd y lloſgwyd Mr. *Saunders*, gweinidog arall yn *Cofentri*: pan daeth ef at y ſtangc, dwedodd, *Groeſaw croes Criſt, groeſaw fywyd tragywyddol.* Dr. *Taylor* perſon *Hadley* a ddioddefodd neſaf. *Gardiner* a'i triniodd ef yn arw iawn; ac ar ol ei gondemno, a'i ddiſwyddo, ſe a'i danfonodd ef i'w berſoniaeth ei hun i'w loſgi, yr hyn a ddioddefodd ef gyd â gwroldeb mawr, er iddo gael triniaeth farbaraidd yn tân; ei ymmennydd ef a gurwyd allan ag un o'r halbertau. *Gardiner* o'r diwedd, wedi cael ei ſiommi wrth weled y cwbl yn methu gwneud y tro ni wnaeth ragor, ond a roddodd y gwaith gwaedlyd hyn i eſgob *Bonner*, yr hwn a ymdaygodd yn fwy cyffelyb i waedgi nag i Griſtion; gan gondemno yn ddidrugaredd bawb a ddeuai o'i flaen ef; gan beri iddynt gael eu cadw yn y carcharau mwya creulon hyd onis baent i gael eu traddodi troſodd i'r ſwyddogion gwladaidd. Fe dorrodd ymaith farf un *Tomkins*, ac a ddaliodd ei law ef yn fflam y ganwyll hyd onid oedd y gwthiennau yn curfio, ac yn torri, a'r gwaed yn ſaethu allan yn wyneb gwr ag oedd yn edrych arnynt. Fe roddodd eraill mewn daeardai, a ſtociau, ac a'u porthodd hwy â bara a dwfr; a phan dygid hwynt ger ei fron ſe ddirmygai eu trueni yn y dull mwya creulon. Pryd hyn y lloſgwyd eſgob *Fferrars* wrth y groes yng *Nghaerfyrddin*. Mr *Laurens* offeiriad yn *Colcheſter*. Mr. *Tomkink* gwehydd yn *Smithffild*. Mr. *Hunter* prentys 19 oed yn *Brentfford*. Mr. *Cauſton* a Mr. *Higden* pendeiigion o eſtate fawr yn *Eſex*. Mr. *Wiliam Pigot* yn *Baintri*. Mr. *Stephan Knight* yn *Malden*. Mr. *Raulin White* pyſgottwr tlawd yng *Nghaerdydd*. Mr. *March* offeiriad yng *Nghaerangon*.

Ac

Ac un *Fflower*, gŵr ieuangc ym mynwent St. *Margaret*, *Weſtminſter*. Y lloſgiadau a ffieiddiwyd gan drigolion y deyrnas, y rhai ddechreuaſant ſynnu wrth weled gwroldeb a diyſgogrwydd y merthyron, gan arſwydo creulondeb anyſtyriol yr eſgobion; a hwythau wrth gael eu dirmygu am eu ffyrnigrwydd a fwriaſant yr enllib ar y brenhin a'r frenhines. Ond ar yr un amſer yr argraphwyd petiſiwn gan y dyſgedigion aeth ar waſgar tramor, at y frenhines i'w galw hi i gof fod y *Twrciaid* yn goddef y Criſt'nogion, a bod y Criſt'nogion yn y rhan fwyaf o fannau yn goddef yr *Iuddewon*. Na ddodwyd un papiſt i farwolaeth yn amſer *Edward*. Ac yna dymunaſant ar y duwciaid, yr arglwyddi, a'r cyffredin bobl i eiriol ar y frenhines i attal y llifeiriant hyn o waed; ac yn y fan lleia i ganiattau i'w deiliaid yr un rhydd-did ag oedd hi yn roi i ddieithriaid; ſef i droſglwyddo eu hunain i wledyd tramor: ond ni's cafodd hyn ddim effaith. Ond y brenhin *Phylip* wedi iddo gael gwybod dichellion yr eſgobion a barodd i'w dad cyfaddefwr i bregethu yn erbyn y creulonderau hyn, yr hyn a wnaeth ef yngwydd yr holl lys; a *Bonner* ei hun oedd yn awr yn cymmeryd arno ei fod wedi blino arnynt; ond ymhen ychydig amſer fe aeth ymlaen. Ac er fod *Phylip* yn cymmeryd arno ei fod am arferyd moddion mwy tyner, etto efe a'r frenhines a ſeiniodd lythyr at *Bonner* i'w annog ymlaen yn ei ddyledſwydd eſgobaidd; ar ba un yr ail ddyblodd ef ei ffyrnigrwydd, ac ar un waith a gondemnodd naw proteſtant i'r un tân yn *Eſecs*; a darfu hefyd i'r cownſil i 'ſgrifennu at y ſiryfon i beri iddynt gaſglu ynghyd yr holl bendefigion i ffafro y lloſgiadau hyn â'u preſennoldeb. Ymhen ychydig Mr. *John Bradford* prebendary St. *Paul*, a'r pregethwr mwya hynod yn amſer y brenhin *Edward* a ddioddefodd ferthyrdod. Criſtion duwiol iawn oedd efe, ac fe ddwedir iddo wneuthur cymmaint o waſanaeth i'r diwygiad â'i lythyrau o garchar a thrwy ei bregethiad: fe gynnygwyd ei droi ef, ond ni thycciodd.

Fe dygwyd ef at y ſtangc gyd ag un *John Leaſe*, prentis 19 oed; ond fe guſanodd y pren a'r ffagodau, ac am iddo gael ei wahardd i lafaru wrth y bobl, fe weddiodd yn unig gyd â'i gyd-ferthyr, ac a roddodd ei hunan yn llonydd i'r fflammau. Ei eiriau diweddaf ef oedd; *Cyfyng yw'r porth, a chul yw'r ffordd ſydd yn arwain i'r bywyd, ac ychydig yw y rhai ſydd yn ei chael hi.* O *Smithffild* fe dannodd yr erledigaeth dros yr holl deyrnas; ac ymhen ychydig 8 o wŷr ac un fenyw a loſgwyd mewn amryw fannau o *Gent.* Ac eilwaith 25 ragor yn *Suffolk*, *Eſſex*, a *Surrey*; ond yr aberth penna o'r creulondeb pabaidd oedd etto yn ol; canys ar fyr wedi'n eſgob *Latimer* a *Ridley* loſgwyd wrth yr un ſtangc yn *Rhydychen*. *Latimer* fu farw yn union; ond *Ridley* fu yn hir iawn mewn poenau angerddol; canys ei rannau iſaf ef a loſgwyd cyn i'r tân gyffwrdd â'i gorph: a'i eiriau olaf ef i'w gyd-ferthyr oedd, *Cymmer galon frawd, canys bydd i Dduw naill a doſi angerdd y tân, neu ein cynnorthwyo ni i'w ddioddef eſ.* *Latimer* a attebodd, *Bydd gyſurus, canys bydd i ni oleuo canwyll yn* Lloegr, *fel yr wyf yn gobeithio trwy ras Duw, na ddiffoddir byth mo honi.* Ac ar yr un dydd ag y merthyrwyd hwy, y tarawyd *Gardiner* eu herlidiwr creulon yn glaf o'r cyſtudd ag y bu ef farw o hono. Ni fynnai eiſtedd i lawr i giniaw, nes clywaid fod y ddau eſgob wedi cael eu lloſgi yn *Rhydychen*; yr hyn nid oedd ddim cynt nâ 4 o'r gloch; a thra fu ef ar giniaw y tarawyd ef â'r clefyd. Pan ddywedodd eſgob *Day* wrtho am gyfiawnhad trwy waed Criſt, attebodd, *Os agorwch chwi y bwlch yna i'r bobl, ffarwel oll drachefn.* Fe gyfaddefodd iddo bechu gyd â *Phedr*, ond nid edifarhaodd gyd ag ef. Ymhen ychydig lloſgwyd archdiacon *Philpot*, yr hwn a ymddygodd wrth y ſtangc â gwroldeb a dianwadalwch y prif-ferthyron. Ac yna yn fuan lloſgwyd archdiacon *Cranmer*. Fe diſwyddwyd ef gan yr eſgobion *Thirlby* a *Bonner*: *Bonner* a'i dirmygodd ef mewn dull anweddaidd; ond *Thirlby* a doddodd yn

ddagrau.

ddagrau. Ar ol hyn trwy lawer o berſwadio, ac mewn gobaith o fywyd, ſe oſododd ei law wrth 'ſgrifen, ymha un yr ymwrthododd ef â holl gyfeiliornadau *Luther* a *Zwinglius*; ac a gyfaddefodd ei grediniaeth o'r preſennoldeb corphorol yn y ſacrament. Uchafiaeth y pab. Y purdan. Gweddio ar y ſeintiau, *&c.* Hyn a gyhoeddwyd allan yn ſuan i'r byd gyd â gorfoledd mawr ymhlith y papiſtiaid, a galar i'r diwygwyr. Ond er hyn i gyd y frenhines ſanrhugarog oedd fyth yn bwriadu cael ei fywyd ef; ac yn ganlynol a ddanfonodd i lawr *writ ei ddihenyddiad ef:* ni's gallai hi fyth faddau y llaw fu ganddo yn yſgariad ei mam, ac i yrru awdurdod y pab allan o *Loegr*. *Cranmer* yntau yn rhagweled bwriad y frenhines i'w ddihenyddu ef, a barottodd wir gyfaddefiad o'i ffydd, ac a'i dygodd hi yn ei fynwes i eglwys St. *Mari* ar ddydd ei ferthyrdod; lle codwyd ef ar uchelfa yngolwg yr holl bobl, ac i glywed pregeth ei farwolaeth ei hun. Ni fu erioed olwg mwy aethus, ac athriſt; archeſgob ag oedd un waith yr ail yn y deyrnas, yn awr wedi ei wiſgo mewn brattiau, ac yn ddrych i'r byd! *Cole* y pregethwr a ddyrchafodd ei droedigaeth megis llaw ddigyfrwng Duw, ac a'i cadarnhaodd ef, *y cai llawer o faſſes eu dywedyd dros ei enaid.* Ond ar ol pregeth, ſe ddymunodd ar *Cranmer* i gyhoeddi allan ei ffydd ei hun, yr hyn a wnaeth ef gyd â dagrau, gan oſod allan ei gred yn yr yſgrythurau ſanctaidd, a chredo yr Apoſtolion; ac yna y daeth ef at y peth a flinodd ei gydwybod ef yn fwy nag un dim a wnaeth ef yn ei holl fywyd; ſef, *dodi ei law wrth y rhagddywededig 'ſgrifen, i wadu y gwirioneddau ag oedd ef yn eu credu, o ofn angau, a chariad at fywyd:* am hynny fe fwriadodd pan y doi ef i'r tân, y cai y llaw a ſeiniodd yr yſgrifen gael ei lloſgi yn gyntaf. Y dyrfa oedd oll mewn terfyſg ar y ſiommedigaeth hyn, a'r archeſgob calon ddrylliog tan dywallt cyflawnder o ddagrau, a arweiniwyd yn union at y ſtangc; ac wedi ei rwymo wrthi, ſe eſtynnodd allan ei ddeheulaw i'r fflammau

fflammau heb ei hyſgogi un waith ond un i ſychu ei wyneb hyd onis trengodd. Fe waeddodd yn ſynych allan, *Y llaw anheilwng yna!* yr hon a loſgodd cyn i'r tân gyffwrdd â'r rhan arall o'i gorph. Ei eiriau diweddaf ef oedd, *Arglwydd Ieſu derbyn fy yſpryd.* Fe fu farw yn y 67 o'i oed, ac yn y 23 o'i archeſgobaeth.

Eu. Dyddiau o berygl, o wae, o dreial a gorthrymder mawr ar eglwys Dduw oedd y rhai'n, a Seintiau yn cael eu nithio â gwyntoedd cryfion; ond mawr oedd gelyniaeth y papiſtiaid at wirionedd y ffydd.

Ap. Rhy faith yw 'ſgrifennu merthyrdod y blynyddau hyn, a dilyn eſgob *Bonner* a'i frodyr trwy yr afonydd o waed proteſtanaidd a dywalltaſant. Yr holl flwyddyn 1556 oedd yn barhaol erledigaeth, ymha un y darfu i babyddiaeth orfoleddu yn ei holl liwiau gwaedlyd a chyfeiliornus. Nid oedd *Bonner* foddlon i loſgi hereticiaid bob yn un, ond efe a'u gyrrodd hwynt yn gwmpniaethau i'r fflammau. Yr holl rai ag oedd yn cael eu drwgdybied o hereſi a holwyd ar yr articlau o *breſennoldeb corphorol Criſt yn y ſacrament, cyfaddefiad pechodau ynghluſt yr offeiriad, a'r maſs:* ac os na wnaent attebion ag a roi foddlondeb, yr oeddent heb un prawf ymhellach yn cael eu condemno i'r tân; nid oeddent yn eſguſodi benywaid, na phlant yn eu crothau. Yn ynys *Gwernſy* benyw feichiog a eſgorodd yn y fflammau, ac wedi cymmeryd y plentyn oddi wrthi, parodd y ſwyddogion iddynt i'w daflu ef i'r tân drachefn. Ond o'r diwedd y gorchwyl cigaidd hwn a dyfodd yn ormod i gynnifer o ddwylo ag oedd yn gweithio wrtho; am hynny darfu i'r frenhines i wneud *cwrt cyfiawnder* anarferol, i dreio hereſiau, fel yr *inquiſitiwn* yn *Spain*, yn cynnwys 31 o gommiſioners, a rhai'n fwya oll yn wŷr llyg: ac yno hi ddanfonodd allan gyhoeddiad fod pwy bynnag dderbyniai lyfrau hereſiaidd i gael eu rhoddi i farwolaeth yn union. Hi waharddodd hefyd weddiau i gael eu gwneud

tros y dioddefwyr, nac i neb i ddweud chwaith *Duw a'u bendithio*. Rhifedi y rhai a ddioddefodd angau tros y diwygiad yn y teyrnaſoedd hyn, oedd ddim llai nâ 277 o leia; o ba rai yr oedd 5 eſgob, 21 o offeiriaid, 8 pendefig, 84 o grefftwyr, 100 o hwſmyn, gweithwyr, a gweiſion; 55 o fenywaid, a 4 o blant. Ac heblaw y rhai hyn, yr oedd 54 tan erledigaeth; 7 o ba rai gurwyd; ac 16 a fu feirw mewn carcharau: y lleill, y rhai oedd yn gwneud eu hunain i'r tân, a waredwyd trwy attaliad trugarog ragluniaeth ddwyfol ym marwolaeth y frenhines. Fe ddywaid rhai haneſwyr i 400 o berſonau ddiodde yn gyhoeddus yn amſer *Mari*, heblaw y rhai hynny a laddwyd yn ddiſtaw yn y carcharau: ac o rhei'ny fod 20 yn eſgobion, ac yn offeiriaid yn berchen bywioliaethau; 60 o fenywaid, a 40 o blant gwrrywaid: ïe fe ddarfu i'r papiſtiaid didrugaredd hyn i ddwyn eu ffyrnigrwydd yn erbyn y diwygwyr tu hwnt i'r bedd; canys darfu iddynt beri i eſgyrn *Fagius*, a *Bucer*, a gwraig *Peter Martyr* i gael eu cloddio allan o'r beddau, a thrwy eu commiſſioners darfu iddynt yn ddigrif eu gwiſio hwynt i ymddangos, ac i roi hanes am eu ffydd: a phan nad ymddangoſaſant, hwy a'u lloſgaſant hwynt am beidio ymddangos.

Eu. Pa beth a ddaeth o'r holl dorfeudd o *eſgobion, offeiriaid, doctoriaid, pendefigion*, a'r *holl gyffredin bobl* ag oedd yn broteſtaniaid yn amſer *Edward?* a wrthgiliodd, neu a ymguddiodd pawb ond cymmaint a thri neu bedwar cant a loſgwyd? ac f'alle cymmaint, neu hanner cymmaint drachefn a nychwyd, a wenwynwyd, ac a newynwyd mewn carcharau.

Ap. Amrywiol iawn o'r offeiriaid ag oedd yn broffeſwyr gwreſog o'r efengyl yn nyddiau *Edward*, trwy ofn carchar, ac angau, a gyfnewidiaſant eu barn, ac a ſubſcribaſant i'r grefydd babaidd: rhai eilwaith o wendid a wnaethant felly: ond pan aethant allan o berygl, hwy alwaſant yn ol eu ſubſcriptiwnau,

tiwnau, ac a addefaſant eu cwymp yn gyhoedd; o'r fath hyn oedd *Scory*, *Barlow*, a *Jewel*, eſgobion: ac ymhlith y bobl gyffredin, rhai ai i'r *maſs* i gadw eu bywydau, ac etto yn myned i gymmanfaoedd y diwygwyr; gan ddal nad oedd e'n anghyfreithlon i fod â'u cyrph yn breſennol yngwaſanaeth y *maſs*, hyd ag y byddai eu hyſprydoedd heb gydſynio. Fe 'ſgrifenodd *Bradford* ac eraill yn erbyn y cydſeinwyr hyn ar amſer, gan gynghori y brodyr na unent â hwy: ond er hynny darfu amryw fel hyn i wneuthur, a rhai eraill a ymguddiaſant eu hunain yn nheiau eu cyfeillion, gan ddiangc o un lle i'r llall; etto darfu i eraill trwy berygl eu bywydau i gyſylltu ynghyd, ac addoli Duw ar ol treſn llyfr gwaſanaeth y brenhin *Edward*. Yr oedd amryw o'r cynlleidfaoedd hyn i fynu ac i lawr ar hyd y wlad, y rhai oedd yn caſglu ynghyd ar hyd y nos, ac mewn lleoedd dirgel, i guddio eu hunain oddi wrth adnabyddiaeth yr erlidwyr. Rhifedi mawr iawn oedd yn *Suffolk*, ac *Eſecs*, yn cynniwair yn waſtadol i gynlleidfaoedd dirgel y proteſtaniaid, heb fyned byth i'r gwaſanaeth pabaidd: ond y gynlleidfa fwyaf oedd yn, ac o ddautu *Llundain*, yn cynnwys o ddautu 200 o aelodau, a chanddi amryw bregethwyr, megis Mr *Scamer*, yr hwn aeth wedi hynny yn eſgob *Peterborough*, Mr. *Fowler*, a Mr. *Rough*; a *Berner*, a *Bentham*, y rhai fuant byw ar ol yr erledigaeth, ac a wnawd yn eſgobion *Litchffild a Chofentri* yn amſer *Eliſabeth*. Un *Simpſon* oedd diacon yr eglwys hon, yr hwn oedd yn cadw enwau yr aelodau; ond trwy fradwriaeth gau frawd fe ffeindiwyd allan y gynnulleidfa, a hi a waſgarwyd. Fe ddaliwyd *Rough* eu gweinidog, a *Simpſon* eu diacon, a hwy a loſgwyd gyd ag un ar ddeg eraill: ac yn wir yr holl eglwys a fu mewn perygl o gael yr un triniaeth, ond o ragluniaeth ryfeddol yr Arglwydd i guddio llyfr enwau yr aelodau; canys dair gwaith yn yr un dydd, y dirdynnwyd, ac y poenwyd yn aruthrol Mr. *Simpſon* eu diacon at gael datguddio'r llyfr;

ond

ond er maint y poenau a ddioddefodd, fe ddaliodd allan yn ddioddefgar, ac mewn llawn amynedd heb fanegu pa le yr oedd y llyfr, na phwy oedd yr enwau ynddo. Yna dioddefodd y fflammau gyd ag un *Ffox*, a *Dafeniſh*, dau eraill o'r un gynnulleidfa. Rhai yr amſer hynny a achubaſant angerdd yr erledigaeth trwy ffoi i wledydd eraill; rhai i *Ffraingc*, a *Fflanders*, rhai i *Genefa*, ac eraill i'r rhannau hynny o *Germani* a *Zwitzerland* ag oedd y diwygiad wedi cymmeryd gafael; megis *Bazil*, *Ffrangcfort*, *Embden*, *Strasburgh*, *Doesburgh*, *Arrow*, a *Zurich*, lle yr oedd y ſwyddogion gwladaidd yn eu derbyn hwynt gyd â llawer o diriondeb, ac yn caniattau iddynt leoedd at addoliad cyhoedd. Ond anghariadoldeb y *Lutheriaid* ar yr achos hyn oedd hynod! canys yr oeddent yn caſau y dieithriaid hyn am eu bod yn *Sacramentariaid*; hynny yw, am eu bod yn gwadu preſennoldeb corphorol Criſt gyd â'r ſacrament. A phan deuai rhai o *Loegr* i'w plith am noddfa, hwy a waharddent iddynt eu dinaſoedd, fel na ddarfu iddynt gael ond ychydig lettygarwch yn *Saxony*, a lleoedd eraill o *Germany*, lle yr oedd crefydd *Luther* yn cael ei phroffeſu. *Phylip Melancton* a eiriolodd ar y ſenedd yn eu hachos, ond yr offeiriaid oedd mor wreſog tros eu *cydſylweddiad*, ſef, *preſenoldeb Criſt gyd â'r ſacrament*, fel y darfu iddynt annog y ſwyddogion gwladaidd ymhob man yn eu herbyn. Rhifedi y ffoaduriaid hyn a gyfrifir tros wyth cant, ymhlith pa rai yr oedd amryw eſgobion; rhai deans, archdiaconau, a llawer iawn o ddifinyddion enwog eraill. Amryw heſyd o bendefigion, megis y *ddutches* o *Suffolk*, a'i phriod; Sir *Thomas Wroth*, Sir *Richard Moriſon*, Sir *Anthony Cook*, Sir *John Check*, ac eraill.

Eu. A oedd dim o hyn oll, ſef gweled cynnifer yn cael eu lloſgi, cynnifer yn trengu mewn carcharau, a'r fath dorfeudd mawrion yn myned i wledydd eraill, yn llonyddu peth ar yſpryd y frenhines, ac yn peri iddi ſlino ar y fath greulondeb, ac yfed gwaed?

Ap.

Ap. Nag oedd; canys yn awr danfonwyd rhai i ymweled â'r ddwy *univerſity*; yng *Nghambridge* darfu iddynt loſgi cyrph *Bucer* a *Ffagius*, ynghyd â'u llyfrau, a'u 'ſgrifenadau hereſiaidd: yn *Rhydychen*, darfu i'r ymwelwyr hyn fyned trwy yr holl *goleges*, a lloſgi yr holl Fiblau *Saeſoneg*, a'r holl lyfrau hereſiaidd a gaent afael ynddynt. Hwy a gymmeraſant wraig *Peter Martyr* i fynu o'r bedd, ac a'i claddaſant hi mewn tommen, am ei bod hi un waith yn fynaches, ac wedi hynny torri ei hadduned; ond ei heſgyrn hi a gymmerwyd i fynu drachefn yn nyddiau y frenhines *Eliſabeth*, ac a gymmyſgwyd ag eſgyrn St. *Gwiniffred*, fel na fyddai iddi byth mwy gael ei haflonyddu gan babiſtiaid. Yr erledigaeth fel hyn a ddygwyd ymlaen ar y diwygwyr gyd ag eitha ffyrnigrwydd; ac amcan oſodwyd ar droed i ddwyn i mewn yr *Incwiſitiwn*, trwy oſod *commiſſioners* o wŷr heb urddau i chwilio allan am berſonau ag oeddid yn eu drwgdybio am hereſiau, a'u preſento hwy i wŷr eglwyſig mewn awdurdod. Fe dybiwyd fod *Cardinal Pool* yn rhy dirion i hereticiaid, am iddo ryddhau amrywiol ag a ddaeth o'i flaen ef, ar eu gwaith yn rhoi attebion dwbl feddwl, neu rai â dau yſtyr iddynt, ac fe dynnwyd ei awdurdod fel *Legate* y *Pab* oddi wrtho, ac a'i galwyd yn ol; ond ar ei ymddaroſtyngiad, fe faddeuwyd iddo, ac fe gafodd aros yma hyd ei farwolaeth; ond nid oedd ganddo fawr o awdurdod byth mwy yn llys *Lloegr*, na *Rhufain*, am ei fod yn wr o nattur rhy drugarog at yr amſer yr oedd ef yn byw ynddo.

Eu. Pa ſut yr ydoedd hi yn awr ar y dywyſoges *Eliſabeth*, pan oedd y papiſtiaid yn marchog cuwch, a phawb o bob graddau a ddeallid ei fod yn broteſtant i gael ei roi i'r fflammau?

Ap. Yr oedd hi mewn gwaſtadol berygl o'i bywyd trwy yr holl deyrnaſiad hyn: ar gydfradwriaeth *Wyat*, hi ddanfonwyd i'r *tower* yn *garcharwraig*; a hi a arweiniwyd i mewn yno trwy borth y *bradwyr*; a gwnawd i'w gweiſion hi ei hun fyned ymaith oddi wrthi;

wrthi; ac ni chaniattawyd i neb dynion gael myned atti. Llywodraethwr y *tower* a ymddygodd atti yn galed, heb gymmaint a chaniattau iddi gael rhodio ar hyd y galeries, nac ar hyd nen y tŵr. Fe holwyd *Wyat* a'i gydfradwyr, ac fe ddirdynnwyd rhai o honynt er mwyn cael gwybod y gwir, ond fe cliriodd pawb hi ond *Wyat*, yr hwn a'i cyhuddodd hi un waith, fel y dywedpwyd, tan dybiaid o hynny achub ei fywyd; ond eilwaith a gyhoeddodd i bawb ar y *ſcaffold* iddo wneuthur hynny yn unig ar y cyfryw ddiben. Ymhen ychydig wedi'n hi ddanfonwyd i *Woodſtock* ynghadwraeth Sir *Henry Beneſield*, yr hwn a ymddygodd atti cyndrwg ag y deallodd hi eu bod hwy yn amcanu ei rhoi yn ddirgel i farwolaeth. Eſgob *Bonner* gyfrwys oedd yn fynych yn cynhyrfu'r frenhines i feddwl am ei thynnu o'r byd, gan ddywedyd *nad oedd i un pwrpas i yſgythru y colfennau tra fai corph y pren yn cael ei adael*; ond y brenhin *Phylip* oedd yn ffrynd iddi, ac a ddanfonodd am dani i'r llys, lle cwympodd hi ar ei gliniau o flaen y frenhines, ac a dyſtiodd ei diniweidrwydd o ran pob bradwriaeth yn erbyn ei mhawrhydi; ond y frenhines fyth a'i caſaodd hi: etto p'odd benna, o hynny allan gollyngwyd ymaith y rhai oedd yn gwilio arni, a dioddefwyd iddi fyned i'r wlad, lle y rhoddodd hi ei hunan yn hollol i aſtudio, heb gwrddyd â dim achoſion eraill: gan wybod fod bob amſer ryw ſpiwyr o gwmpas iddi, am gael rhyw achos yn erbyn ei bywyd. Hi gydſeiniodd oddi allan â'i *chwaer* mewn crefydd, gan ogelyd hyd ag allai bob ymddiddan â'r eſgobion, y rhai oedd yn ei drwgdybied hi o dueddiad at *hereſi*, oddi wrth ei dygiad i fynu. Yr oedd y frenhines yn deall y perygl ag oedd y grefydd babaidd ynddo, os hi fyddai marw heb hiliogaeth; ac am hynny yr oedd ei hoffeiriaid yn fynych yn ei chymmell, yn enwedig wrth weled ei hafiechyd yn cynnyddu, i ſicrhau y grefydd babaidd trwy wared y deyrnas oddi wrth y fath etifedd rhyfygus. Nid oedd gan y frenhines *Mari* betruſder cydwybod yng-

hylch tywallt gwaed dynion yn achos crefydd; am hynny nid oedd cadwraeth y dywyſoges *Eliſabeth* ond ychydig llai nâ gwyrthiau o ragluniaeth ddwyfol.

Eu. Pa hyd y parhaodd bywyd y frenhines waedled hon? a lwyddodd hi yn y frenhiniaeth mewn achoſion gwladaidd? a fu argoel plant iddi? a oedd *Phylip* ei gŵr yn cyd-dynnu â hi?

Ap. Hollol wrthwyneb yn y cyfan; canys llaw Duw oedd yn erbyn y frenhines a'i llywodraeth, yn yr hwn deyrnaſiad prin gwelwyd un terfyniad llwyddiannus yn digwydd; o herwydd yn lle cael hiliogaeth, ar ol ei mawr ddymuniad, ni chafodd hi ond gau-feichiogi, fel nad oedd ond ychydig neu ddim gobaith bellach o blentyn; hyn, ynghyd â bod ei gŵr ag oedd yn iangach nâ hi yn blino arni, ac yn diyſtyru ei chwmpeini, gan ei gadael hi, a myned i edrych at ei arglwyddiaeth treftadol ei hun, wedi byw gyd â hi 15 mis, hyn meddaf a chwerwodd ei hyſpryd hi i'r radd eithaf, ac a wnaeth ei bywyd hi yn anghyſyrus. Yr oedd rhyfel y pryd hyn rhwng *Ffraingc* a *Spain*, a gorfu ar y frenhines daro o ochr y gŵr; a hyn a lymhaodd dryſorau y deyrnas, ac fu yn achos mawr o golli holl ardaloedd *Lloegr* tu draw i'r môr: ſe gollwyd tŵr cadarn *Calais* y pryd hyn, er ei fod e gan *Loegr* 210 o flynyddau. Fe gymmerodd *Ffraingc* hefyd *Guines*, a'r cyfan o'r ardal hynny; ac ni adawyd dim heb ddwyn ar *Loegr* ond *Jerſey* a *Gwernſy*. Y llywodraeth gartre hefyd oedd mor annerbyniol gan y bobl, fel nad oedd ewyllys gan neb i'w cynnorthwyo; canys dechreuaſant feddwl fod y *nefoedd* ei hun yn ei herbyn. Amryw arwyddion o farn Duw ddigwyddodd yn ei hamſer hi; ac un oedd *clefyd gwenwynllyd* fel pla ddaeth ar ddynion, ac yſgubodd ymaith rifedi mawr o bobl; fel mewn llawer man nad oedd dim digon o offeiriaid i'w claddu, na digon o ddynion i gaſglu y cynhauaf. Amryw eſgobion a fuant feirw, yr hyn a wnaeth le i rai proteſtanaidd yn y teyrnaſiad neſaf. Ni fynnai y parlament roi arian na dyn-

ion

ion i *Phylip* i ennill *Calais* yn ol; a'r frenhines ei hun hithau aeth yn felancoli ar golled y lle hwnnw, a drwgddamweiniau eraill y flwyddyn hon. Hi dyfodd bob dydd yn fwy afiachus o amſer ei herthyliad fel yr oedd hi yn pretendo, yr hyn oedd yn cynnyddu yn enbaid trwy abſennoldeb ei gŵr, ei hanobaith o hiliogaeth, a'r croeſddamweiniau oedd yn digwydd i'r llywodraeth. Ei hyſprydoedd yn awr yn adfeilio; dropſi ddaeth yn angerddol arni, ac a derfynodd ei bywyd a'i theyrnaſiad annedwydd, yn *Tachwedd* 17, 1558, yn y 43 o'i hoed. *Cardinal Pool* archeſgob *Canterbury* fu farw yr un diwrnod.

Eu. Pa effaith oedd yr holl loſgi proteſtaniaid yma yn gael ar drigolion y deyrnas? pa un ai caſau'r frenhines a'r eſgobion, y pab a'i grefydd? neu ynte caſau y grefydd broteſtanaidd? ffieiddio y merthyron? a rhyfeddu crefydd, zel, ac oneſtrwydd y papiſtiaid?

Ap. Effeithiau croes i ddiben a diſgwyliad y frenhines a'r eſgobion a ddigwyddaſant; merthyrdod rhai a drodd eraill oddi wrth y grefydd babaidd, wrth weled cymmaint o greulondeb ac o anhrugarogrwydd oedd ynddi, ac mor hyfryd oeddent hwythau yn dioddef; rhai a garaſant y merthyron yn fwy o'u bod yn galonnog yn myned i'r tân; a geiriau diweddaf amrywiol o honynt gafodd effaith barhaus ar lawer o bobl; ac yn fyr, gweddi y dioddefwyr hyn a ſymmudodd y frenhines a'i heſgobion yn fuan allan o'r byd; barn Duw a gwympodd arni hi a'i holl ſwyddogion eglwyſig yn olygus i bawb yn berchen llygaid. Amryw inſtances a ellid roi o hyn oll, ond merthyrdod *Philpot*, yr hwn, fel dywedpwyd, a loſgwyd yn *Llundain*, ac oedd fab i farchog, yn yſgolhaig mawr, yn drafaelwr ehang, ac yn ymddadleuwr nerthol yn erbyn y grefydd babaidd, y fath nad allai y papiſtiaid wrthwynebu yr yſpryd a'r doethineb trwy yr hwn yr ydoedd ef yn llafaru; am hynny rhoddwyd ef ac eraill *yng nglo-dy* eſgob *Bonner* mewn cyffion o heiyrn, lle cafodd ei gyſtuddio

yn flin yn nyfnder y gauaf; etto efe a hwythau a lawenychent ac a ganent Salmau. Pan daeth ef at y ſtangc, plygodd ar ei lin, a chuſanodd hi, a dywedodd *Talaf fy addunedau yn awr i ti*, O Smithffild! *a wrthodaf fi ddiodde wrth y pren hwn tros fy Mhrynwr a ddioddefodd farwolaeth waradwyddus troſof fi ar y groes!* Ar ol ei ferthyrdod 'ſgrifenodd gwraig dduwiol at *Bonner*, *byddai raid iddo roi cyfrif am waed yr* Abel *hwnnw*, *ac y gorfyddai iddo ef*, *a'i offeiriaid* corynfoel *roddi biſwel ar eu pennau i guddio nod y bwyſtfil*, *am i wir grefydd gynnyddu wrth dywallt gwaed y merthyron*; *ac wrth dorri y blychau fod yr ennaint gwerthfawr yn llenwi yr holl deyrnas â'i arogl!* O mor gariadus oedd y bobl dduwiol ag oedd yn *rhydd* yn gweini i gyfreidiau y rhai oedd yn *rhwym*, yn enwedig amryw wragedd boneddigion a chyffredin, fel y rhai a ymgeleddaſant Griſt hyd farw, ac a barottoiſant berlyſiau iddo ef yn ei fedd. Gwnai rhai gryſau newyddion i'r merthyron hyn i'w lloſgi ynddynt; canys dioſgid hwynt wrth y ſtangc hyd at y cryſau; parottoent ſcarffiau i filwyr Criſt i ennill y frwydr olaf. Un inſtans arall o fod dioddefaint y merthyron yn rhoi'r bobl i ffieiddio'r grefydd babaidd yw, pan lloſgwyd 7 yn yr un tân yn *Canterbury*, un o honynt, ſef gwraig a garcharwyd naw wythnos mewn twll cyfyng, heb gael un gwely i orwedd arno, na newid ei dillad, na dim lluniaeth ond gwerth tair ffyrling yn y dydd; ac heb neb i wybod pa le yr oedd hi, nes i'w brawd ar foreugwaith ei chlywed yn adrodd ei chwyn wrth Dduw wewn gweddi: ar ol hynny, pan ofynnodd yr eſgob iddi, a foddlonai hi fyned bellach i'r offeren neu'r *maſs*, attebodd y gwyddai hi yn hyſpyſach y pryd hyn nag o'r blaen nad oeddent hwy o Dduw am eu bod mor giaidd; fel hyn y magodd dioddefaint y merthyron gariad at y grefydd broteſtanaidd, a chaſineb at y grefydd babaidd, wrth weled ei chreulondeb.

Eu. Dyna un ſtorom ofnadwy iawn wedi myned heibio,

heibio ym marwolaeth y frenhines, ac yr wyf yn credu mai gweddiau Seintiau cyſtuddiedig o yſpryd a'i tynnodd hi a'i heſgobion allan o'r byd; ond manegwch pa fath haf a ddaeth ar ol y fath aiaf anghyſurus? pa ſut y gallodd ei chwaer *Eliſabeth* i droi yn ol y fath lifeiriant o zel, a gwreſogrwydd ag oedd gan yr holl offeiriaid, a'r eſgobion dros y grefydd babaidd? dynion mor fawr eu rhwyſg, mor llidus, mor greulon, ac mor gyfrwys, heb ofn gwenwyno, na mwrddro pwy bynna na fai o'u crefydd, pa fodd meddaf y daeth benyw oedd o'r blaen wedi bod mewn perygl o'i bywyd ei hunan, i dorri lawr holl rwyſg ac awdurdod y pab a'r grefydd babaidd, ac i oſod i fynu y grefydd broteſtanaidd yn *Lloegr* ac *Iwerddon?* Diau fod llaw Duw yn hyn.

Ap. Eliſabeth ddaeth i'r goron yn ddiwrthwynebiad, ac hi roddodd fywyd newydd i'r diwygiad; ond pan gynta clywyd hyn gan y rhai a ddiangaſant tramôr, y rhan fwyaf o'r ffoaduriaid a ddychwelaſant adref; a'r rhei'ny a ymguddiaſant eu hunain yn nheiau eu cyfeillion a ddechreuaſant ymddangos; ond crefydd gyhoedd a aroſodd tros ronyn yr un wedd ag y cafodd y frenhines hi: yr offeiriaid pabaidd a gadwaſant eu bywioliaethau, ac a aethant ymlaen i weinidogaethu'r *maſs*. Ni rowd i mewn neb o'r offeiriaid proteſtanaidd a daflwyd allan yn y teyrnaſiad diweddaf; ond gorchymyn a roddwyd allan yn erbyn pob cyfnewidiad mewn crefydd heb awdurdod cyhoedd. Er i'r frenhines gydſeinio â'r holl gyfnewidiadau yn nheyrnaſiad ei chwaer, etto yr oedd yn ddigon gwybodus ei bod hi o ochr y diwygiad; ond ei mawrhydi a'i dygodd ef ymlaen gyd â llawer o ocheliad, rhag ofn codi dim terfyſgiadau ym moreuddydd ei theyrnaſiad. Ni ddaeth un tywyſog erioed i'r goron tan fwy o anfanteiſion. Y pab a'i cyfrifodd hi yn faſtardaidd; ar ba ſylfaen yr oedd brenhines y *Scotiaid* yn rhoi i mewn ei thitl am y goron. Yr holl offeiriaid a'r eſgobion o'r ſefydliad preſennol oedd elynion iddi. Y deyrnas oedd

mewn rhyfel â *Ffraingc*, a'r tryſor wedi ei ddiyſpyddu; y frenhines am hynny trwy gyngor ei *phrifi cownſil* a benderfynodd wneud heddwch â *Ffraingc* mor gynted ag oedd poſibl, fel bai ganddi odfa i ddwyn ymlaen y cyfnewidiadau ag oedd hi yn ei feddwl i wneud mewn crefydd, y rhai er eu bod yn llawer iawn etto nid oeddent mor hollol ag oedd y diwygwyr gorau a mwya dyſgedig y dyddiau hynny yn ei chwennych. Yr oedd llawer yn y frenhines o yſpryd ei thad, ac yn caru llawer iawn o ardderchowgrwydd yn ei haddoliad, cyſtal ag yn ei llys brenhinol. Yr oedd hi yn hoffi llawer iawn o'r hen ſeremoniau, a'r defodau ymha rai y dygwyd hi i fynu. Yr oedd hi yn meddwl i'w brawd ddioſg crefydd ormod o'i haddurnau; a gwneuthur athrawiaeth yr eglwys yn rhy gul mewn rhai pyngciau; am hynny gyd â llawer o anhawſtra y tycciwyd gyd â hi i ddwyn pethau ym mlaen mor belled ag *Edward* y chweched.

Eu. Nid wyf yn chwennych i chwi roi hanes o holl droiadau y diwygiad, a'r amrywiol anghyttundeb a ddigwyddodd yn amſer *Eliſabeth*; ond dymunwn i chwi fanegu yn fyr, pa ſut y trodd hi yn ol y grefydd babaidd ag oedd yn awr yn eitha ei grym? pa wrthwynebiad a gafodd hi oddi wrth y pab, a'r eſgobion? a pha ſut y ſylfaenodd hi o newydd yr eglwys ag y'm ni 'nawr yn alw arni *Eglwys Loegr?*

Ap. Yr unig beth a wnaeth y frenhines cyn cyfarfod ei pharlament cyntaf oedd attal pob gwrthddadleuon o'r pulpyd; canys rhai o'r diwygwyr ag fuant bregethwyr yn amſer y brenhin *Edward* a ddechreuaſant wneud defnydd o'i lyfr gwaſanaeth ef heb awdurdod, na *liſens* oddi wrth y llywodraeth; hyn a gynhyrfodd yr offeiriaid pabaidd, ac a fu achos o roi allan gyhoeddiad, ymha un y rhowyd gwaharddiad i weinidogion ac eraill i bregethu; ac y gorchymynwyd na wrandawai y bobl un athrawiaeth na phregethiad arall, ond yr Epiſtol a'r Efengyl pwr-

pwrpaſol i'r dydd, a'r deg gorchymyn yn *Saiſneg*, heb un agoriad na ſylwiad ar yr un rhyw, pa beth bynnag: ond y cyhoeddiad a ddioddefodd y Litani, Gweddi'r Arglwydd, a'r Credo hefyd yn *Saiſneg*; ond nid dim gweddiau cyhoeddus i gael eu darllen yn yr eglwyſi, ond oedd wedi eu happwyntio wrth y gyfraith, hyd oni chyfarfyddai y parlament, ſef ymhen 27 diwrnod ymhellach. Yn awr y frenhines a'i *chownſil* a gymmerodd y fath ofal ynghylch yr *electiwnau*, ac nad yw fyth yn methu o lwyddo; ſwyddogion y ſiroedd a'r trefydd a newidiwyd, a'r bobl ag oedd wedi blino ar erledigaeth yn y teyrnaſiad diweddaf a gynnorthwywyd, ac a gefnogwydd i ymegnio eu hunain o blaid y fath gynnyrchiolwyr, ſef aelodau parlament ag a'i gwnai hwy yn eſmwyth; felly pan eiſteddodd y ddau dŷ barlament, yr ochr amlaf oedd o blaid y diwygiad. Temmer y tŷ a brofwyd yn gyntaf, trwy roi bíl i mewn i adferu i'r goron y blaenffrwyth o'r degfedau, yr hyn a ddychwelodd y frenhines *Mari* i'r eglwys. Fe baſodd y bíl hwn trwy y tŷ iſaf, ſef yr *Houſe of commons*, heb fawr wrthwynebiad; ond y tŷ uchaf, ſef yr *Houſe of lords*, yn enwedig yr holl eſgobion a'i gwrthwynebaſant ef. Mewn act arall, hwy alwaſant yn ol rai o'r cyfreithiau coſpawl, ſef y rhai oedd yn rhoddi y diwygwyr i ddioddef, ac ordeiniwyd na bai un dyn i ddiodde am ymarfer y grefydd ag oeddid yn broffeſu yn amſer *Edward* y chweched. Ordeiniaſant y gwaſanaeth cyffredin i gael ei arferyd yn y tafodiaith cyffredin. Awdurdodaſant y frenhines i enwi eſgobion i'r eſgobaethau gweigion, fel y mae yr arfer yn breſennol. Hwy a ddiddyfnaſant y monachdai a oſodwyd i fynu gan y frenhines *Mari*, a chwanegwyd hwynt at y goron: ond y ddwy act benna a baſwyd yn y parlament cyntaf hwn oedd, yr act o *unbennaeth*, neu *ſupremacy*; a'r act o *unffurfiad y weddi gyffredin*. Yr act o *unbennaeth* gyfenwid, *Act i roi yn ol i'r goron yr hen awdurdod tros y llywodraeth eglwyſig ac yſprydol, a diddyfnu*

pob

pob awdurdod eſtronol. Nid ydoedd hi ond yr un peth mewn ſylwedd â'r hon a wnaethpwyd yn amſer *Harri* yr wythfed. Yn yr act hon heblaw rhoi yn ol i'r frenhines y titl o fod yn *oruch lywodraethydd* ynhob achoſion eglwyſig a thymhorol, mae hi yn adnewyddu y cyfreithiau hynny ag a wnawd yn amſer *Harri* yr wythfed, ac *Edward* y chweched, ag alwyd yn ol yn amſer *Mari.* Mae hi yn gwahardd pob appeliad i *Rufain*; ac yn dadlwytho'r deiliaid o bob taliadau a threthi ag oeddid yn dalu o'r blaen i'r llys hwnnw. Ac megis mae hi yn adſywio cyfreithiau y brenhin *Edward*, mae hi hefyd yn diddyfnu act greulon a wnawd yn amſer *Mari* i goſpi hereticiaid, a thair act arall a enwir yn yr act hynny. Dywedir ynddi *fod pob dyn mewn neb ſwyddau cyhoedd, pa un bynnag ai gwladaidd ai eglwyſig, ſydd raid iddynt gymmeryd llw o gyfaddefiad o hawl y frenhines i'r goron, ac o'i hunbennaeth hi ymhob achoſion eglwyſig a gwladaidd, tan benyd o fforffettu eu holl ddyrchafiad yn yr eglwys, a'u cyhoeddi yn analluog i ddal un ſwydd gyhoedd yn y wladwriaeth.* Yn fyr, trwy yr act hon o unbennaeth y frenhines, mewn effaith diddyfnwyd y cwbl a wnawd gan y frenhines *Mari*, a llywodraeth allanol yr eglwys a rowyd ar yr un droed i ſefyll ag yr oedd hi yr amſer marw *Edward* y chweched. Mae'r act hefyd yn gwahardd pob 'ſgrifennu, argraphu, dyſgu, pregethu, a phob rhyw ſfordd neu weithrediad arall trwy ba rai bydd unrhyw eſtronol awdurdod ar y teyrnaſoedd hyn yn cael ei ar.ſidiffyn; ar benyd bydd iddynt hwy, a'u cefnogwyr ar ol eu cyhuddiad o hynny, ar y troſedd cyntaf i fforffettu eu da a'u meddiannau; ac os na fyddant yn werth ugain punt, diodde blwyddyn o garchar. Rhaid i berſonau eglwyſig i golli eu bywioliaethau, a phob dyrchafiad eglwyſig. Am yr ail droſedd diodde penyd *premunire*; a'r trydydd troſedd a gyfrifir yn *uchel fradwriaeth.*

Eu. Am yr ail act, ſef yr act o unffurfiad, nid rhaid i chwi ddywedyd fawr, canys mae dwy o honynt

nynt yn nechrau y Llyfr gweddi gyffredin, y gynta wnawd yn y flwyddyn gynta o deyrnaſiad *Eliſabeth*, gyfenwir, *Act am unffurfiad gweddi gyffredin, a gwaſanaeth yn yr eglwys, a gweinidogaeth y ſacramentau.* Yr ail a wnawd yn nechrau teyrnaſiad *Charles* yr ail, ac gyfenwir *Yr act am unffurfiad gweddi gyhoedd, a gweinidogaeth y ſacramentau, a chynheddfau a ſeremoniau eraill:* ac am ſefydlu y ffurf ar wneuthur, urddo, a chyſegru *eſgobion, offeiriaid* a *diaconiaid* yn eglwys *Loegr*. Ond ni's gwn I i ba bwrpas maent yno yn awr er pan daeth *act o doleraſiwn* yn nheyrnaſiad y brenhin *Wiliam*; ac ychydig wy'n dybiaid y gŵyr rhai o'r offeiriaid eu hunain, na'i ſylwedd, na'i diben, na'r achos o'i bod yno yn awr chwaith. Am hynny dywedwch air am amgylchiadau crefydd yn yr amſer y gwnawd yr act o unffurfiad hon gyntaf? fel y gallwyf ddeall yn well yr achos o'r creulondeb ſydd ynddi, ac ni's ceiſiaf gennych ragor am y peth hyn.

Ap. Deallwch ei bod hi yn amſer blin o ran amrywiol farnau yn achoſion crefydd yn nechreuad teyrnaſiad *Eliſabeth*. Nid llai nâ thri o bartion cryfion oedd yn wreſog am oſod i fynu eu ffurfiau neilltuol eu hunain; gan edrych arno fel pe buaſai crefydd wedi ei cholli, os nid eu hathrawiaethau, eu diſgyblaethau, a'u ſeremoniau hwy gai eu ſefydlu yn yr eglwys. Yn 1. Yr eſgobion a'r holl offeiriaid, ac amrywiol hefyd o'r pendefigion a fynnai ym mhob modd gadw fynu y grefydd babaidd, yr hon y pryd hyn oedd yr unig grefydd ſefydledig yn y deyrnas; ac wedi lloſgi torfeudd o'r diwygwyr ar yr achos o'i gwrthwynebu, a gwneud yr offeiriaid a'r eſgobion yn gyfoethog trwyddi. 2. Gwerin fawr iawn o'r cyffredin bobl, rhai pendefigion, ac ychydig offeiriaid, oedd o blaid y diwygiad yn y dull ag y gadawyd ef yn nheyrnaſiad *Edward* y chweched; y rhai'n oedd am oſod i fynu lyfr gweddi gyffredin y brenhin *Edward* megis y puraf a'r neſaf at air Duw, ac arfer y brif eglwys; ac ni's mynnent

chwanegu

chwanegu atto, na thynnu oddi wrtho. Ond y trydydd parti oedd o farn arall, ſef y diwygwyr hynny a ffoiſant tramor yn amſer *Mari*, ac yn awr a ddychwelaſant yn ol o *Ffrancfort*, *Arrow*, *Zuric*, *Straſburgh*, *Worms*, a *Genefa*, a lleoedd eraill o *Ffraingc*, *Switzerland*, *Holland*, a *Germani*; amrywiol o rhai'n oedd ddifinyddion enwog a phroffiadol, wedi gweled dull yr eglwys broteſtanaidd ag oedd yn y gwledydd hynny, ac wedi ymddiddan ar yr achos hynny â difinyddion duwiol a dyſgedig, megis *Calfin*, *Bucer*, *Peter Martyr*, *Gualter*, *Bulinger*, ac amrywiol eraill; ni fynnent mewn modd yn y byd ymddaroſtwng i ddim o'r ſeremoniau pabaidd, yn enwedig y gwiſgoedd, megis y *wenwiſg*, y *ſcarffiau*, y *capiau cornelog*, a'r cyfryw, ag oedd raid iddynt eu gwiſgo wrth waſanaethu yn yr eglwyſi; ac er eu bod yn cytuno â'r articlau a'r gweddiau yn ganolig ynddynt eu hunain, etto am fod y lleill yn cael eu cymmell arnynt, heb eu gadel yn beth canolig, ſef y gellid eu harfer neu beidio, ni ymddaroſtyngent i'w gwiſgo er dim, ond eu cafau a'u galw ar bob atgas enw ag allent, megis, *Gwehilion yr Amoriaid*, *gwaddod pabyddiaeth*, *gwiſgoedd y buttain fawr*, neu gyffelyb; ac ni's cymmerent urddau, bywioliaethau, nac eſgobaethau, am fod yn rhaid iddynt wiſgo y cyfryw wiſgoedd wrth gymmeryd yr unrhyw: llythyrau ddanfonwyd at y frenhines oddi wrth amrywiol o ddifinyddion enwog, duwiol, a dyſgedig yn yr achos hyn, ond ni's tycciodd yr un o honynt; ac ni fynnai hi i ildio un gronyn rhagor nag a wnaethpwyd yn nheyrnaſiad y brenhin *Edward*; canys mor wreſog ydoedd hi tros gael addoliad hardd a gogoneddus. A deallwch mai goleuni y diwygwyr o bob ochr ydoedd bod angen o gael un ffurf o grefydd heb un ymneilltuad, a bod pob dyn trwy yr holl deyrnas i ufuddhau i'r ffurf hynny oddi allan, pa fodd bynna y byddai eu diben o fewn; ond y rhan fwya oedd foddlon i gymmeryd ffurf y brenhin *Edward*, ond iddynt naill ai tynnu ym-

ymaith y gwiſgoedd pabaidd, neu wneud rhyw oddefiad i rai o beidio eu gwiſgo, nac wrth dderbyn urddau, nac chwaith wrth waſanaethu yn yr eglwyſi; yr hyn mewn un modd ni fynnai y frenhines ei ganiattau. Am hynny y reſolfwyd i fynn act o unffurfiad mewn gwaſanaeth cyhoedd, heb un math o oddefiad er mwyn cydwybodau tyner, yr hon fel y dywedaſoch, a welwch chwi yn nechrau llyfr gweddi gyffredin, ag oedd o rym trwy yr holl amſer oedd wedi'n, nes i'r brenhin *William* wneud act o *doleraſiwn*.

Eu. Ond pa fodd y diddyfnodd, ac y torrodd hi i lawr y grefydd babaidd oedd mor gryf ac awdurdodol, a holl gyfreithiau'r deyrnas yn un o'i hochr? a gofod i fynu y grefydd broteſtanaidd ag oedd yn awr yn wannach, o ran bod ei chedyrn pennaf wedi eu lloſgi yn y teyrnaſiad o'r blaen? a dyfod o'r bobl fel hyn i ymoſtwng i'r act o unffurfiad?

Ap. I wneud ffordd i hyn, angen oedd gorchfygu'r papiſtiaid ag oedd yn awr yn perchennogi yr holl eglwyſydd, a'r eſgobaethau; am hynny y frenhines a bennodaedd ymddadleuad cyhoedd i fod yn *Weſtminſter Abby*, o flaen y prifi cownſil, a'r ddau dŷ parlament; naw o'r eſgobion pabaidd o un tu, a naw o ddifinyddion proteſtanaidd o'r tu arall; i ymddadleu ar y pyngciau canlynol: ſef yn 1af. pa un a'i fod yn erbyn yr yſgrythurau, ac arfer y brif eglwys, i arferyd tafodiaith annealladwy i'r bobl yn y gweddiau cyffredin, a'r ſacramentau? 2. Pa un ai bod gan bob eglwys awdurdod i appwyntio, cyfnewid, neu gymmeryd ymaith ſeremoniau, a chynheddfau eglwyſig, ond bod yr unrhyw er adeiladaeth? 3. Pa un a ellir ei brofi wrth air Duw fod aberth y *maſs* yn iawn cyflawn haeddiannol tros eneidiau y byw a'r meirw? yr ymddadleuad hwn oedd i fod mewn 'ſgrifen, ond y papiſtiaid am eu bod yn ffeindio y werinos yn eu herbyn a'i torraſant hi i fynu ar ol y dydd cyntaf; tan gymmeryd arnynt nad oedd yr achos pabaidd ddim i gael ei ddaroſtwng

i'r

i'r fath derfyniad; er nad oedd dim o'r amheuon hyn arnynt yn amſer *Mari* pan oedd y canlyniad o'r ymddadlau yn cael ei wybod ymlaenllaw. Eſgobion *Lincoln*, a *Wincheſter* a ddywedaſant *fod athrawiaeth yr eglwys gatholic eiſiws wedi ei ſefydlu, a'i fod e yn ormod o gefnogrwydd i'r hereticiaid i adael iddynt ymddadleu yn erbyn y ffydd o flaen y fath dyrfa annyſgedig*. Dywedaſant hefyd fod y frenhines yn haeddu cael ei heſgymuno; a chwedleuaſant *am daranu allan eu hanathemas yn erbyn y prifi cownſil*; am ba achos y gyrrwyd hwynt ill dau i'r tŵr. Y diwygwyr a gawſant fantais fawr trwy i'w gwrthwynebwyr i ildio y maes fel hyn; canys deallwyd nad allai eu hathrawiaethau hwy i ddal goleuni. Ac wedi i'r papiſtiaid fel hyn gael eu maeddu, y peth neſaf oedd uno y diwygwyr â'u gilydd. Ac er eu bod o'r un ffydd, a'r un athrawiaeth, etto pell oeddent o uno mewn arferiadau crefyddol, diſgyblaeth, a ſeremoniau, am fod pob parti am oſod i fynu ei ffurf ei hun; rhai am ffurf *gwaſanaeth a diſgyblaeth y Saeſon yn Geneſa*, eraill am *lyfr gwaſanaeth Edward y chweched*; gan chwennychu peidio tynnu oddi wrth eglwys *Rufain* fwy nag oedd angenrheidiol at adferu purdeb athrawiaeth, ac anymorphwyſiad yr eglwys ar un awdurdod eſtronol. Cynheddfau a ſeremoniau oedd yn eu barn hwy yn bethau canolig; gellid eu harfer neu beidio, a bod ſeremoniau eglwys *Rufain* yn rhagori ar neb rhyw rai eraill, am eu bod yn anrhydedduſach, ac yn ardderchoccach, a bod y bobl wedi ymarferyd â hwynt: hyn oedd barn y frenhines, yr hon appwyntiodd *gommitti* o ddiſinyddion i edrych tros liturgi y brenhin *Edward*; ac i weled a oedd hi mewn un man neilltuol yn addas i'w chyfnewid, a'u commiſiwn hwy ydoedd i dynnu allan bob geiriau niweidiol yn erbyn y pab, ac i wneud y bobl yn eſmwyth ynghylch preſennoldeb corphorol Criſt yn y ſacrament; ond nid dim am yr hyn ag oedd y diwygwyr mwya manwl yn ammau yn eu cylch, ac yn methu gan eu cydwybodau gyd-

gydſeinio â hwynt. Yr oedd ofn ar y frenhines i ddwyn y diwygiad yn rhy bell ymlaen; yr oedd hi yn dymuno cadw delwau yn yr eglwyſi; croeſau a llun ein Harglwydd arnynt, muſic llafar ac offerynol, ynghyd â'r holl wiſgoedd pabaidd; am hynny nid rhyfedd oedd wrth wellhau gweddi gyffredin y brenhin *Edward*, na wnaed dim cyfnewidiad o ochr y rhai ag oedd yn awr yn dechrau cael eu galw yn *Buritanod*. Y frenhines oedd yn gofidio mwy tros y papiſtiaid, am hynny fe dynnwyd y gair hwn allan o'r litani, *Oddi wrth greulondeb eglwys* Rufain, *a'i holl afreolaeth ffiaidd, gwared ni Arglwydd daionus*. Fe dynnwyd allan y *Rubric* ag ſy'n cyhoeddi *mai trwy benlinio wrth y ſacrament nad oes un addoliad yn cael ei feddwl am breſennoldeb corphorol Criſt*: darfu i'r committi o ddiſinyddion i adael y bobl i dderbyn y ſacrament ar eu gliniau, neu yn ſefyll, ond darfu i'r frenhines a'r parlament i'w rhwymo at benlinio. Yr hen wyliau, a nos-wyliau, a'r gwiſgoedd pabaidd a barhawyd yr un ag oeddent yn yr ail flwyddyn o'r brenhin *Edward*, hyd onis gwelai y frenhines fod yn dda i'w cymmeryd hwy ymaith, fel y gwelir yn yr act ragddywededig. Fe gyfnewidiwyd rhai o'r colectau ryw ychydig; ac fel yma preſentiwyd y llyfr i ddau dŷ'r parlament, ac a baſodd, a phrin yr oedd ef i'w gydmaru â'r llyfr hwnnw ddaeth allan yn amſer y brenhin *Edward*, ac a gadarnhawyd gan y parlament yn y bummed flwyddyn o'i deyrnaſiad. Lle yn y liturgi hynny goſodwyd heibio yr holl wiſgoedd pabaidd, ond y wen-wiſg, y frenhines yn awr ddychwelodd at lyfr cyntaf *Edward*, ymha un yr oedd clogau, a gwiſgoedd eraill yn cael eu gorchymmyn. Yr act hyn o unffurfiad a ddygwyd i'r *houſe of commons*, *Ebrill* 18, ac a ddarllenwyd dair gwaith *Ebrill* yr 20: hi aeth trwy yr *houſe of lords Ebrill* 28, ac a ddaeth mewn grym y 24 o *Febefin*, 1559, o ddautu hanner blwyddyn ar ol coroni y frenhines.

Eu. Pa wedd y digwyddodd hi yn awr ar y pabiſtiaid,

iſtiaid, a ddarfu iddynt gydffurfio a'r act o unffurfiad ; a dyfod tan ddyſgyblaeth eglwys *Loegr* ?

Ap. Mor gynted ag y torrodd y parlament i fynu, y llw o unbennaeth a gynnygwyd i'r eſgobion y rhai oedd yn awr yn babaidd oll, a hwy a'i gwrthodaſant, ond eſgob *Llandaff*, i rifedi pedwar ar ddeg; a'r lleill o'r eſgobaethau oedd yn wâg. O'r eſgobion daflwyd allan, tri aeth tramor, eſgob *Caerangon*, eſgob *Caerlleon*, ac eſgob St. *Aſaph* : y frenhines a ddioddefodd *Heath* archeſgob *Caerefrog* (York) i fyw yn ei dŷ ei hun, lle yr oedd y frenhines yn myned rai prydiau i'w weled ef; eſgobion *Durham*, ac *Ely* a gyfanneddaſant yn *Lambeth*, yn nhŷ archeſgob *Parker*, gyd â rhydd-did ac eſmwythdra; dioddefwyd i'r lleill fyned lle mynnent ar eu gair o ddychwelyd, ond *Bonner* eſgob *Llundain*, *White* eſgob *Wincheſter*, a *Watſon* eſgob *Lincoln*, dwylaw pa rai a ymdrochodd yn ddwfn yngwaed y proteſtaniaid yn y teyrnaſiad diwedda, a wnawd yn garcharorion caethion, ond cawſant ddigonol gynhaliaeth oddi wrth y frenhines. Y rhan fwya o'r monachod a ddychwelaſant i fywioliaethau gwladaidd ; ond y monacheſau a aethant tramor, fel y lleill oll y rhai oedd am fyw lle caent rydd-did i arferyd eu crefydd.

Eu. Pa fodd y digwyddodd hi o'r ochr arall ar y diwygwyr ag oedd yn peidio cydffurfio â'r act, o ran y gwiſgoedd, ſef y rhai ydych yn alw *Puritanod*, o ran dybygwn, am eu bod am gael y diwygiad yn fwy pur nâ'r lleill ?

Ap. Fe gynnygwyd eſgobaethau i rai o'r diwygwyr a ddaeth troſodd, ond hwy a'u gwrthodaſant ar gyfrif y gwiſgoedd, a'r ſeremoniau, megis Mr. *Whitehead*, Mr. *Bernard*, Mr. *Gilpin*, yr hen dad *Miles Coverdale*, Mr. *Knox*, Mr. *Sampſon*, ac eraill. Llawer a dderbyniaſant eſgobaethau, ond a wnaethant tan grynu ; o angenrheidrwydd yr amſeroedd, ac mewn gobaith trwy eu hintereſt gyd â'r frenhines o gael gwellhad yn ſefydliad yr eglwys. Ac fe adawyd yr eſgobaethau yn wag tros ronyn i edrych a fyddai

ſyddai neb o'r eſgobion pabaidd i gydffurfio; ond ni's gwnai amſer nac un peth arall iddynt wneud hynny; ond ymhen 12 mis cyſegrwyd Dr. *Mathew Parker* yn erchesgob *Caergaint* (Canterbury) gan rai o'r eſgobion a daflwyd allan yn y teyrnaſiad diwedda, canys ni's mynnai un o'r eſgobion preſennol ymyrru â hynny. Ac ymhen ychydig wedi'n, yntau gyſegrodd amryw o'i frodyr, y rhai appwyntiodd y frenhines i eſgobaethau gweigion. Ac fel hyn y diwygiad a adferwyd, ac eglwys *Loegr* a ſefydlwyd ar ei ſylfaen breſennol. Yna danfonodd y frenhines allan orchymyn o ymweliad cyffredin â'r eglwyſydd, ac a roddodd gorph o orchymynion yn cynnwys 53 o articlau, gan orchymmyn i'w holl ddeiliaid cariadus yn ufudd i'w derbyn, a'u cadw yn gywir ac yn fanwl, ar ol eu ſwyddau, eu graddau, a'u llywodraeth. Ond am eu bod agos yr un peth a rhai roddwyd allan yn amſer *Harri* y chweched, mi gadawaf hwynt heibio, ond rhai o'r rhai pennaf. Sef, bod pob perſonau eglwyſig i edrych ar fod yr act o unbennaeth i gael ei chadw yn fanwl, a phregethu dair gwaith yn y flwyddyn yn erbyn rhoi ufudd-dod i un awdurdod eſtronol.—Na bai iddynt oſod allan, na dyrchafu teilyngdod delwau, gwehilion na gwyrthiau, ond cyhoeddi camarferiad y cyfryw, a bod pob gras oddi wrth Dduw.—Bod i'r offeiriaid bregethu un waith bob mis ar weithredoedd ffydd, trugaredd, a chariad, a orchymynir gan Dduw; a rhaid iddo gyfarwyddo'r bobl fod gweithredoedd o ddyfais dyn, megis pererindodau, goſod i fynu ganhwyllau, gweddio wrth feddau, a'r cyfryw, yn ffiaidd gan Dduw.—Offeiriad â bywioliaethau i bregethu yn berſonol un waith yn y cwarter o leiaf, neu ynte ddarllen un o'r homiliau bennodwyd gan y frenhines i ddarllen bob Sul yn yr eglwyſi lle na bo pregeth. Ymhen tri mis fod i bob plwyf barottoi Bibl, ac ymhen 12 mis agoriad *Eraſmus* ar yr Efengyl, a'u goſod hwynt i fynu yn eu hamrywiol eglwyſydd.—Na bo dim o'r offeiriaid

i ddilyn tafarndai, neu dreulio eu hamſerau yn ofer wrth ddiſiau, cardiau, neu ryw chwareuyddiaeth ofer arall.—Fod i bob offeiriad tan radd Athro celfyddydau i brynu at ei waſanaeth ei hun y Teſtament newydd yn Llatin ac yn Saiſneg, ag agoriadau arno o fewn tri mis ar ol yr ymweliad hyn.—Fod i'r offeiriaid ddyſgu allan o'r Yſgrythurau ryw werſi cyſuryſ i'r cleiſion.— Na bo dim proſeſſiwnau pabaidd, na neb rodio o ddautu'r eglwys, na myned allan o honi tra fo yr offeiriad yn darllain yr Yſgrythurau: ond bod cerddediad neu broſeſſiwnau oddi amgylch y plwyf i'w gadw, a'r offeiriad i gynghori y bobl yn y cyfryw amſer. — Bod cadw gwyliau, ond yn amſer cynhauaf ar ol gwaſanaeth. — Y rhai'n, a'r cyfryw orchymynion, hyd at 53, fel y dywedais oedd i gael eu gorchymyn i'r offeiriaid a'r bobl, ac i gael eu darllain yn yr eglwyſi un waith yn y cwarter.

Eu. Pa beth oedd y goſp o anufuddhau i'r gorchymynion hyn?

Ap. Diſwyddo, difuddio, taflu allan o ſywioliaethau, a'r fath benydau eraill ag welai ſwyddogion eglwyſig y frenhines fod yn dda.

Eu. Pa un ai offeiriaid, neu ryw bendefigion oedd y commiſſioners hyn oedd i ymweled â'r offeiriaid a'r eglwyſi, yn cyhoeddi'r gorchymynion yma, ac yn coſpi am dorriod o'r unrhyw?

Ap. Y rhai amla o honynt oedd wŷr llyg, dau o ba rai oedd ag awdurdod ganddynt i holi i wir gyflwr yr eglwyſi, i ddiſwyddo neu i ddifuddio pob offeiriad anheilwng, ac i oſod eraill i mewn yn eu lle hwynt, ac i fyned ymlaen â'r goſp yn erbyn y rhai cyndyn, trwy garcharu, neu roi ceryddon eglwyſig eraill. Yr oeddent i gadw tâl i'r rhai oedd yn rhoi i fynu eu bywioliaethau o'u gwirfodd; i holi i gyflyrau pawb ag oedd wedi eu carcharu ar gyfri crefydd, a'u gollwng hwynt yn rhydd; ac i roi 'nol i'w bywioliaethau bawb ag a ddifuddiwyd yn anghyfreithlon yn y teyrnaſiad diweddaf. Y commiſſioners hyn a gymmeraſant bob gofal am i bob off-

offerynnau a lleſtri eulunaddoliad a choelgreſyddol i gael eu tynnu lawr, a'u deſtrywio allan o'r eglwyſydd, lle yr oedd pur air Duw yn cael ei oſod i fynu; megis y rhwydau, hynny yw, llun Criſt ar y groes, a *Mair* a *Ioan* yn ſefyll gerllaw: hefyd delwau y ſeintiau i ba rai yr oedd yr eglwyſydd wedi eu cyſegru iddynt, llyfrau pabaidd, allorau, a'r fath. Canys yr oedd yn y 23 articl yn gorchymyn i dorri i lawr, a deſtrywio pob coffrau gwehilion, a gorchguddiau coffrau gwehilion; pob byrddau, canwyllbrennau, trindolau, a rholau o gŵyr, lluniau, paentiadau, a phob peth arall fai yn dal cof am rith wyrthiau, pererindodau, eulunaddoliaeth a choelgreſydd, fel na bai dim cof o honynt ar furiau, ffeneſtri, gwydr, nac yn un man arall o fewn i'r eglwyſydd, na'r teiau. A'r commiſſioners hyn a orchymynaſant i brebendariaid ac archdiacon *Llundain* i fynnu eglwys St. *Paul* i gael ei phuro, a'i rhyddhau oddi wrth bod rhyw ddelwau, lluniau, ac allorau; ac yn lle yr allorau i barottoi bwrdd addas i weinidogaethu ſwpper yr Arglwydd. Y werinos oedd o ochr y diwygiad, wedi eu hannog gan greulondeb y teyrnaſiad diweddaf; a rhifedi mawr o honynt oedd gyd â'r commiſſioners, ac a ddygaſant i *Cheapſide*, ſef heol yn *Llundain*, i fynwent St. *Paul*, a *Smithffild*, y rhwydau a gymmerwyd i lawr, a'r croeſau, ac mewn rhai mannau gwiſgoedd yr offeiriaid, clogau, gwenwiſgoedd, llieiniau allorau, llyfrau, banneri, ac a'u lloſgaſant hwynt yn ulw, megis i wneud iawn am y merthyron a lofgwyd yno. Ac yn eu zel gyndeiriog hwy a dorraſant y ffeneſtri o wydr paentieedig, ac a graſaſant allan hen 'ſgrifenadau ar goed, cerrig, neu efydd, ac a ddeſtrywiaſant bob coffadwriaethau o'r meirw ag oedd â nôd pabyddiaeth arno.

Eu. Pa ſut y ſafodd yr offeiriaid pabaidd yn awr? a gydffurfiaſant hwy ag eglwys *Lloegr*, neu nid do?

Ap. Y bobl gyffredin o'r greſydd babaidd a gydffurfiaſant gan mwya, trwy adael fel hyn lawer o ſeremoniau, gwiſgoedd, ac arferion o bomp a go-

goniant yn yr eglwys, ac a ddaethant yn gydfein tros naw neu ddeg o flynyddau iddi, nes i'r pab wedi myned allan o bob gobaith o gymmod eu gwahardd hwynt trwy eſgymuno y frenhines, a rhoi yr holl deyrnas dan felldith. Ond am yr offeiriaid, ar ol i'r commiſſioners fyned trwy yr holl deyrnas, a rhoi cyfri o'r ufudd-dod i orchymynion y frenhines, fe ymddangoſodd na's darfu i ddim rhagor nâ 243 o offeiriaid roi i fynu eu bywioliaethau, ſef 14 eſgob, 3 o rai wedi eu dewis i fod yn eſgobion, 1 abbad, 4 prior, 1 abbades, 12 dean, 14 o archdiaconiaid, 60 o ganonau a phrebendariaid, 100 o offeiriaid â bywioliaethau ganddynt, 150 o bennau colegau yn *Rhydychen* a *Chambridge*, 20 o ddoctoriaid o bob rhywiau. Y rhan fwyaf o'r offeiriaid lleiaf yn berchen bywioliaethau a gadwaſant eu lleoedd, megis y gwnaethant yn holl gyfnewidiadau y tri teyrnaſiad diweddaf; a diau pe buaſai y frenhines marw, a'r grefydd babaidd i gael ei hadferu, hwy a fuaſent yn troi drachefn: ond yr eſgobion, a rhai o'r offeiriaid pennaf, wedi tyngu i unbennaeth y brenhin tan *Harri* yr wythfed, ac wedi ei wrthod drachefn tan y frenhines *Mari*, yr oeddent yn meddwl y dygai ddianrhydedd ar eu henwau i droi etto, ac am hynny ymroiſant i gadwynghyd, a thrwy eu grym ymegniaſant i attal y diwygiad. Ond ar gyfnewidiad mor fawr mewn crefydd nid oedd dau cant neu ychydig ragor o rai wrthſafodd ddim i'w cyfri i naw mil a phedwar cant o offeiriaid yn berchen bywioliaethau mawrion; ac etto rhy anodd oedd cael proteſtaniaid o ddoniau canolig i lanw i fynu y plwyfau gwag, am na's gallaſai y rhai mwya manwl o rhai ddaethai adre o wiedydd pell ddyfod i fynu i delerau'r unffurfiad a gorchymynion y frenhines.

Eu. Er yr holl ddiwygiad a ſoniaſoch, etto dim ni's dywedaſoch am erthyglau crefydd; oni chyfanſoddwyd llyfr o honynt yn amſer *Harri* yr wythfed? a llyfr arall yn amſer *Edward* y chweched? a pheth rhyfedd

rhyfedd oedd fod athrawiaethau'r ffydd etto heb eu ſefydlu, pan oedd y llyfr gweddi gyffredin, yr act o unffurfiad, yr act o unbennaeth, diſgyblaeth, ſeremoniau, a gwaſanaeth yr eglwys wedi eu ſefydlu?

Ap. Deallwch, er y gallaſai y frenhines gadarnhau trwy rinwedd ei *hunbennaeth* tan y ſel fawr cyſtal a'i brawd yr erthyglau ſefydlwyd yn ei amſer ef; ond ni's gallai yr eſgobion anturio eu dwyn hwynt i mewn i'r *confocaſiwn*, am fod y rhan fwyaf o'r offeiriaid a'r eſgobion yno o ochr y grefydd babaidd: ond er mwyn cyflawni y diffyg hyn yn breſennol, yr eſgobion a ffurfiaſant erthyglau neu gyfaddefiad o'u ffydd, yr hyn oedd pob offeiriad yn rhwym i'w ddarllain yn gyhoedd wrth ddyfod i mewn i'w giwradiaeth, neu ei lifing, a dau amſer arall yn y flwyddyn; yr hwn oedd fel hyn, *Yr wyf fi ag appwyntiwyd eich perſon, ficar, neu eich curat, ag ofn* DUW *o flaen fy llygaid, yn awr yn addef troſof fy hun, ac yn peri i chwi gydſeinio â'r unrhyw.* 1. *Nad oes ond un gwîr a bywiol* DDUW, *o anfeidrol allu, doethineb, a daioni, gwneuthurwr a chynhaliwr pob peth; bod yn undeb y Duwdod hwn dri Pherſon, Tad, Mab, ac Yſpryd Glân.* 2. *Yr wyf yn credu hefyd bob peth ag ſydd gynhwyſedig yn yr Yſgrythurau ſanctaidd canonaidd; a bod yn gynhwyſedig yn yr unrhyw bob peth ſydd angenrheidiol i icchydwriaeth; trwy ba un hefyd y gellir hollol wrthwynebu ac argyhoeddi pob cyfeiliornadau a hereſiau; a chadarnhau pob erthyglau angenrheidiol i iechydwriaeth. Yr wyf yn ſicr gredu a chyfaddef yr holl erthyglau yn gynhwyſedig yn y tair credo*; credo Nicea, credo Athanaſius, a chredo'r Apoſtolion. 3. *Yr wyf yn cyfaddef hefyd mai yr eglwys honno ſydd yn wir briodaſferch* CRIST, *ymha un y mae gair* DUW *yn cael ei wir ddyſgu, y ſacramentau yn cael eu gweinidogaethu yn drefnus ar ol ordinhad* CRIST, *ac awdurdod diſgyblaeth yn cael ei wir arferyd: a bod gan bob cyfryw eglwys neilltuol awdurdod i ordeinio, i gyfnewid, ac i hollol fwrw ymaith ſeremoniau a chynheddfau eglwyſig eraill, fel y*

bônt

bônt yn wageddol neu wedi eu camarfer; ac appwyntio eraill ag fo yn tueddu rhagor at drefn a gweddeiddra. 4. *Yr wyf yn cyfaddef nad yw gyfreithlon i un dyn gymmeryd arno un ſwydd neu weinidogaeth wladaidd neu eglwyſig, ond y fath yn unig ag a alwer felly yn gyfreithlon, trwy yr awdurdodau goruchel ar ol cyfreithiau y deyrnas.* 5. *Yr wyf yn addef rhagorfraint mawrhydi y frenhines a blaenoriaeth ei llywodraeth ar bob yſtâd, ac ymhob achoſion cyſtal yn eglwyſig ac yn wladaidd, o fewn y deyrnas hon, a'r holl ardaloedd eraill o eiddo ei mawrhydi, i fod yn gyttunol â gair* Duw, *ac yn perthynu yn gyfiawn i'w mawrhydi, yn y fath fodd ag y goſodwyd allan mewn act o barlament ddiweddar.* 6. *Yr wyf yn addef hefyd, trwy yr Yſgrythurau a gair* Duw, *nad oes gan eſgob* Khufain *ddim rhagor o awdurdod nag ſydd gan eſgobion eraill yn eu heſgobaethau, ac nad yw yr awdurdod mae efe yn awr yn ei glaimio iddo ei hun i fod yn* oruchel ben *ar holl eglwys* Crist, *ac uchlaw ymerawdwyr, brenhinoedd, a thywyſogion, ond awdurdod trais, croes i air* Duw, *ac eſamplau y brif eglwys; am hynny trwy achos cyfiawn y cymmerwyd hwy ymaith yn y deyrnas hon.* 7. *Yr wyf yn cyfaddef fod llyfr gweddi gyffredin, a gweinidogaeth y ſacramentau, oſodwyd allan trwy awdurdod y parlament yn gytunol â'r Yſgrythurau; ei fod e'n gatholic ac yn apoſtolaidd, ac yn fwya un am ddyrchafiad gogoniant* Duw, *ac adeiladaeth ei bobl ef.* 8. *Ac er yngweinidogaeth bedydd, nad oes un ſwyn, olew, halen, poeryn, neu ſanctteiddio'r dwfr yn awr yn cael ei arferyd; etto fod y ſacrament yn cael ei arferyd, yn llawn ac yn berffaith i bob dibenion a phwrpaſon ar ol trefniad ein* Iachawdwr Crist. 9. *Nid wyf yn unig yn addef na fu maſſes prifat erioed yn cael eu harferyd gan deidau y brif eglwys, hynny yw, gweinidogaeth gyhoedd a derbyniad o'r ſacrament gan yr offeiriad yn unig heb rifedi addas o gymmynwyr, ond hefyd nad yw yr athrawiaeth ſydd yn maintaino'r maſs o fod yn aberth haeddiannol tros y byw a'r mei-*

meirw, ac yn ſoddion i waredu eneidiau o'r purdan, nac yn gyttunol ag ordinhâd CRIST, *nac wedi ei ſylfaenu ar athrawiaeth yr apoſtolion, ond o'r tu arall yn fwya annuwiol, ac yn fwya niweidiol i brynedigaeth werthfawr ein* HARGLWYDD CRIST, *a'i aberth unig ddigonol ef wedi ei hoffrymmu unwaith tros yr holl oeſoedd, ar allor y groes.* 10. *Yr wyf o'r farn hynny hefyd, fod y ſacrament ſanctaidd o gorph a gwaed* CRIST *o ufudd-dod dyledus i ordinhâd* CRIST, *ac i oſod allan rinwedd yr unrhyw, i gael ei weinidogaethu i'r bobl tan y ddau ryw: a'i fod yn cael ei ſicrhau gan rai o deidau yr eglwys, fod yn gyſſegrladrad eglur i 'ſpeilio hwy o'r cwppan dirgelaidd, tros ba rai darfu i* GRIST *dywallt ei werthfawr waed, gan iddo ddywedyd,* Yfwch bawb o hwn. *Ac yn ola, fel yr wyf yn hollol anghyttuno â dyrchafu delwau, gwehilion, a gau wyrthiau, a phob math o oſod allan y* DUW *anweledig yn y dull o* hen ddyn, *yr Yſpryd Glân yn y dull o* golommen, *a phob gwagaddoliad arall o* DDUW *wedi ei ddychymmygu gan ddyfais dyn, yn groes i'r Yſgrythurau; ac yr wyf yn cynghori pob dyn hefyd i ufudd-dod i gyfraith* DDUW, *ac i weithredoedd ffydd a chariad, megis cariad, trugaredd, duwioldeb, eluſen, gweddi wreſog a defoſiynol gyd â thwymder y galon, ac nid â genau yn unig; dirweſt nefol ac ympryd, diweirdeb, ufudd-dod i lywiawdwŷr, ac awdurdodau goruchel, a'r fath weithredoedd a duwiolder bywyd a orchymynir yng air* DUW; *yr hyn ddywaid St.* Paul ſy ganddo addewid o'r bywyd hwn, a'r bywyd ſydd i ddyfod. Y pethau a ragddywedwyd, er eu bod hwy wedi cael eu happwyntio trwy orchymyn cyffredin, etto yr wyf fi heb un cymhelliad, o rydd-did meddwl a chydwybod, o waelod fy nghalon, ac ar y grediniaeth mwya ſicr yn addef i fod yn wir, ac yn gyttunol â gair Duw. Am hynny yr wyf yn eich cynghori chwi bawb o'r rhai a rowd tan fy ngofal, yn ufudd, ac o'ch calon i gofleidio a derbyn yr un rhyw, fel gallom oll wedi ein cylymmu ynghyd mewn undeb

yſpryd,

yſpryd, ffydd a chariad, hefyd yn y diwedd i gylymmu ynghyd yn nheyrnas Dduw. ——Heb ddim ſôn am erthyglau crefydd *Edward* y chweched, dyma yr hyn y flwyddyn hon a gafodd waſanaethu yn eu lle hwynt; a thelerau unffurfiad eglwyſig yn awr oedd *y llw o unbennaeth, cydſeiniad â'r act o unffurfiad, a'r gyffes hon o ffydd.* Nid oedd dim gwrthddadl gan y diwygwyr yn erbyn y gyntaf a'r olaf o'r rhai'n, ond yn erbyn y ganol; amrywiol o'r alltudion dyſgedig, ac eraill oedd yn gwrthod derbyn bywioliaethau yn yr eglwyſi ar ol yr act o unffurfiad a gorchymynion y frenhines. Anodd iawn yn awr ydoedd trwy bob cynnorthwy ag oeddent yn ei gael o'r ddwy brif yſgol i lanw i fynu yr eglwyſi gwag â dynion o ddyſg ac o fywyd addas. Amryw eglwyſydd oedd yn ymddifaid o offeiriaid tros amſer hir; ac nid ychydig o grefftwyr mor hollol annyſgedig a rhai mwya annyſgedig a daflwyd allan a ddyrchafwyd i urddas a bywioliaethau, y rhai oedd yn cael eu diyſtyru gan y bobl, ac a wnaeth fwy o ddrwg nag o dda i'r diwygiad, tra yr oedd eraill o'r radd flaena am ddyſg, duwioldeb, a defnyddioldeb yn y weinidogaeth yn cael eu gwrthod. Nid oedd ond ychydig neu ddim pregethu tros yr holl wlad; mae eſgob *Bangor* yn cyfaddef na feddai efe ond dau bregethwr trwy ei holl eſgobaeth. Digon oedd os gallaſai yr offeiriaid ddarllain y gwaſanaeth a homili ar rai prydiau. Yr eſgobion oedd yn deall yr achos: ond yn lle agor y drws ronyn yn llettach, i adael i mewn rai o'r diwygwyr mwya gwreſog a chydwybodol, hwy a dderbyniaſant y rhai mwya gwael ac anllythyrennog ag a ddoi i fynu i delerau y gyfraith; ac a gyhoeddaſant ail lyfr homilies er cynnorthwy ragor iddynt. Ond am erthyglau eglwys *Loegr* yn awr, ſoniaſoch am danynt, ni's gwnawd dim yn yr achos hyn, hyd y bedwarydd flwyddyn o deyrnaſiad y frenhines, pan agorwyd *confocaſion* yn St. *Paul*, ac y danfonodd ei mawrhydi lythyrau o *liſens* yno iddynt, i edrych tros athrawiaeth a diſ-

gyblaeth

gyblaeth yr eglwys; hwythau a ddechreuaſant ar yr athrawiaeth, ac a gwttogaſant y 42 erthyglau wnaethpwyd trwy orchymyn y brenein EDWARD a'i gownſil gan archeſgob *Cranmer*, ac eſgob *Ridley*, a dyſgedigion eraill, i 39, megis y maent yn breſennol: ſe dynnwyd allan erthygl 39, 40, 41, a'r 42. a rhai o honynt a rannwyd, dwy weithiau a gyſſylltwyd yn un, ac ambell un gafodd ei rhannu yn ddwy; ond nid oes un gwahaniaeth o ſylwedd yn yr athrawiaeth. Yr erthyglau fel hyn a derfynwyd, a'r holl eſgobion a oſodaſant eu dwylo wrthynt. Rhoddodd tros gant eu dwylo wrthynt o'r tŷ iſa y *confocaſion*; ond pa beth bynna oedd eu dyſgeidiaeth, amrywiol o honynt oedd yn 'ſgrifennu cynddrwg, fel mai prin gellir darllain eu henwau. Amrywiol o'r alltudion a roddaſant eu dwylo wrthynt er nad oeddent yn cytuno â'r ſefydliad preſennol.—Ond ni's paſodd yr erthyglau yn gyfraith, na dyfod yn rhan o'r ſefydliad, hyd at naw mlynedd ar ol hyn, er i rai o'r eſgobion mwya 'ſtyfnig i gymmell ſubſcriptiwn iddynt o'r pryd hyn. Ond y peth neſa wnawd yn y *confocaſion* hwn oedd ynghylch cynheddfau a ſeremoniau yr eglwys. Un bíl a ddaeth i mewn i ddymuno ar y frenhines 1. I fedydd prifat, a bedydd gan wragedd, i gael ei gymmeryd allan o'r llyfr gweddi gyffredin. 2. Fod y groes yn y bedydd i gael ei ſymmud. 3. Fod i gommiſioners gael eu happwyntio i ddiwygio'r gyfraith eglwyſig. Bíl arall roddwyd i mewn, 1. I'r Salmau gael eu canu gan yr holl gynnulleidfa yn eglur; ac i dynnu *organs* allan o'r eglwyſi. 2. Na fyddai neb i fedyddio ond gweinidogion. 3. Ae yng weinidogaeth y ſacrament fod y dull o benlinio yn cael ei adael at ewyllys pob un. 4. I'r arferiad o glogau a gwenwiſgoedd i gael eu tynnu ymaith; fel bo i bob gweinidog yn ei weinidogaeth arferyd gŵn hîr gweddus, fel y maent wrth bregethu. 5. Fod y geiriau yn y 33 erthygl am goſp y rhai nad yw ymhob peth yn cydffurfio â'r gorchymynion cyhoedd ynghylch ſeremoniau i gael eu heſmwythau.

6. Fod

6. Fod i bob dyddiau Seintiau, gwleddoedd, a dyddiau gwyliau yn dwyn enw dynion, i gael eu tynnu ymaith; neu yn y rhan leia bod y coffadwriaeth o honynt yn cael ei gadw trwy bregethau, homiliau, neu weddiau cyffredin, er mwyn dyſgu'r bobl yn well mewn haneſion; ac ar ol gwaſanaeth iddynt fyned at eu gorchwylion. Amryw o bethau o'r un nattur a rhai'n ag oedd y rhai elwid *Puritanod* arnynt yn ei ddwyn i mewn i'r *confocaſion*, ond er fod nifer o ddifinyddion enwog o ochr eu ſymmud oddi ar ffordd cydwybodau'r diwygwyr, etto yr ochr arall a enniliodd, a hynny yn unig trwy fôt un ond un; ac felly ſafodd y cwbl fel o'r blaen. Yr offeiriaid plwyfol yn y wlad a'r deyrnas oedd yn caſáu y gwiſgoedd; hwy gwiſgent rai prydiau mewn ufudd-dod i'r gyfraith, ond mwy mynych byddent yn gweinidogaethu hebddynt; am ba achos gwyſiwyd rhai i gwrt yr eſgob, ac a rybuddiwyd, ond nid oedd yr eſgobion etto yn gallu mentro diſwyddo, a thynnu oddiwrthynt eu bywioliaethau. Ond o'r diwedd yr achos roddwyd o flaen y frenhines, fod rhai yn cyflawni y gwaſanaeth a'r gweddiau yn y gangell, eraill ynghorph yr eglwys; rhai mewn rhyw ſêt yn yr eglwys, rhai yn y pulpyd â'u hwynebau at y bobl; rhai yn cadw yn gywir at drefn y llyfr gweddi gyffredin, ond rhai yn cymmyſg ſalmau cân a'r gweddiau; rhai yn darllain â'r wenwiſg, a rhai hebddi. Y bwrdd ſy'n ſefyll ynghorph yr eglwys mewn rhai mannau, mewn lleoedd eraill yn y gangell; mewn rhai eglwyſydd y bwrdd ſydd yn ſefyll ar ddull allor, lathen oddi wrth y wal, mewn rhai eraill ynghanol y gangell, de' a gogledd; mewn rhai mannau y bwrdd ſydd â charpet, ac mewn mannau eraill heb un. Rhai ſy'n gweinidogaethu'r cymmun â gwenwiſg a chap; rhai wrth wenwiſg yn unig, eraill heb un; rhai â chwppan cymmun, eraill â chwppan cyffredin; rhai â bara croyw, rhai â bara lefeinllyd. Rhai yn penlinio, rhai yn ſefyll, rhai yn eiſtedd: rhai yn bedyddio yn y bedyddfaen, rhai

mewn

mewn baſon; rhai yn rhoi arwydd y groes, rhai yn peidio; rhai â chap pedwaronglog, rhai â chap rhownd; rhai â chap bwttwnog, rhai â hat. Y frenhines a anfoddlonodd yn fawr ar y newyddion hyn, fod ei chyfreithiau hi yn cael cymmaint o ddibriſdod; a hi a ddanfonodd lythyrau at archeſgobion *Canterburi* a *York*, ar iddynt chwedleua â'r eſgobion ag oedd tan gommiſion eglwyſig, ac i arferyd rhyw foddion effeithiol tu ag at faintaino trefn gywir ac unffurfiad ymhob cynheddfau a ſeremoniau, megis mae wedi ei ddarparu wrth y gyfraith; *ac na fai neb ar ol hyn i gael eu derbyn i un dyrchafiad eglwyſig ond yr hwn ſydd yn reſolſo cadw y drefn gyffredin, ac a addawo yu gyhoedd i gydſeinio â'r unrhyw.* Ond fe ddwedir, mai am i rai o'r *puritanod* mwya poeth i wawdio a chwerthin am ben y gwiſgoedd oedd yr achos gwneud gorchymyn mor gaeth a chreulon; ond pa beth bynnag roddodd achos i'r erledigaeth ganlynodd, neu pwy bynnag oedd yn blaenori ynddi, neu farnu fod yr hyn a dybir yn wir, caled iawn oedd fod y fath rifedi mawr o weinidogion defnyddiol, y rhai nad oedd nac yn barnu eu brodyr nac yn enllibio eu rhydd-did trwy un ymddygiad anweddaidd, i gael eu troi allan o bob peth ag oedd ganddynt yn yr eglwys, er mwyn annoethineb rhai. Y *Puritanod* yn awr yn rhagweled y'ſtorom yn codi, a wnaethant orau ag allaſant i'w hattal. Eſgob *Durham* a 'ſgrifenodd at iarll *Leiceſter* i arferyd ei intereſt gyd â'r frenhines yn eu hachos. Fe ddywedodd, *Na ddylaſai cymhelliad gael ei arferyd ym mhethau rhydd-did. Fe ddeiſyfodd ar y iarll i yſtyried, pa fodd darfu i bob un o'r gwledydd diwygiedig i daflu ymaith y gwiſgoedd pabaidd wrth daflu allan awdurdod y pab, ac etto yr ydym ni yn ymegnio i'w cadw hwynt fel gwehilion ſanctaidd. Fod yn well gan amryw weinidogion i roi heibio eu bywioliaethau nâ chydſeinio; ac nad oedd ond rhifedi bach o bregethwyr yn y deyrnas; a llawer o leoedd heb neb. Y rhoi hyn dramgwydd anaele i broteſtaniaid tramor;*

ac fel darfu i ni gaſau pabyddiaeth fel peth drygionus, nid wyf fi yn gweled, ebe'r eſgob, *pa fodd mae eu gwiſgoedd hwy yn perthyn i ſeintiau a phroffeſwyr yr efengyl. Whittingam* dean *Durham* a 'ſgrifenodd i'r un pwrpas. Yntau oedd yn ofni y canlyniad o gymmell y peth hynny fel angenrheidiol, yr hyn nad oedd ar y gorau ond peth allid eu harfer neu beidio, ac ym marn amrywiol o wŷr doeth a dyſgedig yn goel-grefyddol. *Os yw y gwiſgoedd mae'r offeiriaid yn wiſgo yr awr hon*, eb efe, *yn ymddangos dim mor weddaidd ac mor brudd ag y mae eu galwad hwy yn gofyn, neu nad yw yn ddigonol yn eu gwahanu hwy oddi wrth ddynion o alwad arall, ni's gwrthodant wiſgo yr hyn a debygir gan ſwyddogion gwladaidd duwiol i fod yn fwy gweddaidd i'r pwrpaſon hynny, ond iddynt gadw eu hunain fyth yn bur oddi wrth wiſgoedd halogedig* anghriſt. *Amryw bapiſtiaid*, eb efe, *ſy'n mwynhau eu liſings a'u rhydd-did, heb dyngu ufudd-dod, na gwneuthur rhan o'u dyledſwyddau i'w praidd greſynus. Och! fy arglwydd, fod y fath gymhelliad yn cael ei arferyd attom ni, a'r fath diriondeb yn cael ei arferyd at y papiſtiaid! O Iarll ardderchog! byddwch yn amddiffynwr ac yn eiriolwr yn yr achos hyn, na chollom ddim o'r rhydd-did hynny ag a gawſom ei fwynhau hyd yma trwy hynawſedd y frenhines.* Llythyrau eraill a 'ſgrifenwyd i'r un pwrpas: a phawb a wnaethant yr intereſt orau ag a allaſant yn y llys. Yr arglwyddi a rannaſant, rhai o bob ochr, a'r frenhines ei hun a ymddangoſodd megis heb wybod pa beth i wneuthur; ond yr archeſgob a'i hannogodd ymlaen; ac a gafodd lythyrau oddi wrth ei mawrhydi i'w awdurdodi ef i ddwyn y peth i ben, yr hyn a wnaeth efe gyd â ſel ac ymroad. Yr eſgobion *Jewel* a *Horn* a bregethaſant wrth groes St *Paul*, i gymmodi y bobl â'r gwiſgoedd: *Jewel* a ddywedodd nad oedd efe yn dyfod i'w hamddiffyn hwynt, ond i ddangos eu bod yn *indifferent* neu yn ddiniwaid, ac gellid cydſeinio â hwynt. Ond *Horn* a ddymunodd i'r rhei'ny gael

eu

eu torri ymaith o'r eglwys ag oedd yn ei blino hi ynghylch gwiſgoedd du a gwyn, capiau crwn neu bedwaronglog. Ni feiddiai 'r *Puritanod* i bregethu yn erbyn y gwiſgoedd, ond hwy a 'ſgrifenaſant at yr eſgobion, ac a ddywedaſant, mai ar ol eu barn hwy mai y rhei'ny ddylaſai yn hytrach gael eu torri ymaith ag oedd yn attal rhediad yr efengyl, yn blino ac yn tramgwyddo eu brodyr gweinion, trwy gymmell arnynt weddill anghriſt yn fwy nâ gorchymynion Duw, ac am goſpi y rhai oedd yn gwrthod hynny yn fwy creulon nâ thorwyr cyfraith Duw. —— Darfu i'r archeſgob a'r eſgobion yn awr ffurfio amryw articlau i gymmell y gwiſgoedd, y rhai wedi hynny a argraphwyd, ond pan daeth yr archeſgob â hwy i'r llys gwrthododd y frenhines roi wrthynt ei ſel frenhinol; yr hyn ſiomedigaeth flinodd yr eſgob yn fawr, ac fe a ddywedodd mai'r llys wnaeth iddo ef i ffurfio y cyfryw articlau, ac onid aent ymlaen, a rhoi iddynt y caniattad brenhinol, gwell fuaſai iddynt beidio dechreu; ac oni roi y cownſil eu llaw gynnorthwyol yn erbyn y puritanod, ni wnaid ond chwerthin am eu pennau am y cwbl ag a wnaethant. Ond fyth y frenhines oedd mor oer, fel pan daeth eſgob *Llundain* i'w llys, ni ynganodd hi air wrtho ynghylch diwygio'r eſgeuluſdra o unffurfiad yn ninas *Llundain*, lle yr oedd ef fwyaf yn cael ei ddiyſtyru. Ond er hyn i gyd, ni ſymmudwyd dim o'r gwiſgoedd ymaith oddi ar ffordd y puritanod; ac felly o'r diwedd, darfu iddynt orfod ymadael â'r eglwys ſefydledig, ac addoli Duw mewn lleoedd neilltuol a dirgel, ar ol eu cydwybodau; a'r achos mwyaf o bob peth oedd ganddynt i beidio cydffurfio â'r eglwys oedd, yr amryw wiſgoedd oedd raid iddynt wiſgo yn yr addoliad, y rhai yngoleuni y puritanod oedd yn dangos eu bod yn cydffurfio gormod ag eglwys *Rufain*. Ond er y buaſai y puritanod yn aros o fewn i'r eglwys pe buaſent ond cael peido gwiſgo'r gwiſgoedd, ac arfer rhyw ychydig o ſeremoniau, etto pell oeddent o

gael eu boddloni yn y ſefydliad preſennol o'r eglwys. Yr oedd ganddynt wrthddadleuon eraill heblaw y rhei'ny, am ba achos y taflwyd hwy allan o'u ſwyddau a'u bywioliaethau, y rhai oeddent yn ymegnio trwy bob moddion yr holl deyrnaſiad hyn i ſwrw ymaith.

Eu. Enwch hwynt.

Ap. 1. Yr oeddent yn achwyn ar yr eſgobion, eu bod yn chwennych bod o uwch gradd nâ'r henuriaid, ac yn claimio hawl hollol o urddo, a dyſgyblaethu yr eglwys: nid oeddent boddlon bod breintiau tymhorol ac arglwyddiaethau yn cael eu rhwymo wrth eu ſwydd, a'u bod yn ymrwymo mewn achoſion gwladaidd, materion tymhorol, a'r cyfryw, am fod hynny yn tueddu i 'w dyrchafu hwynt uwchlaw eu brodyr, ac nid mor gyfaddas i'w ſwydd fel *Gweinidogion Criſt*, nac mor gyttunol â chyflawniadau dyledus eu galwedigaeth yſprydol. 2. Yr oeddent yn gwrthwynebu y titlau a'r ſwyddau o archdiaconiaid, deonau, chapterau, a graddau eraill yn perthyn i gathedrals, fel peth heb ſylfaen o'r Yſgrythurau, ac o'r oeſoedd cyntaf, ond fel trais ar ragorfreintiau yr henuriaid o bob eſgobaeth. 3. Yr oeddent yn achwyn ar awdurdod a llywodraeth anghymmedrol yr eſgobion a'u canghellwyr yn eu ewrtau yſprydol, megis wedi dynnu oddi wrth gyfraith canon y pab, ac nid o air Duw, neu gyfraith y deyrnas. Hwy achwynaſant eu bod yn ffeino, yn carcharu, yn taflu allan o fywioliaethau, ac yn dodi dynion mewn coſtau anghymmedrol am feiau bychain; a bod y ceryddon eglwyſig pennaf, megis eſgymmundod a gollyngdod, yn llaw gwŷr llyg, ac nid yn nwylo ſwyddogion yſprydol yr eglwys. 4. Yr oeddent yn galaru yr eiſiau o ddyſgyblaeth dduwiol, ac yr oeddent yn aneſmwyth am y ddyfodfa gymmyſgedig a chyffredin o bob rhai i ſwpper yr Arglwydd. Yr eglwys ſydd yn cael ei deſgrifio yn yr articlau megis cynnulleidfa o ffyddloniaid, ac yr oeddent yn ei weled yn angenrheidiol fod awdur-

dod

dod yn gorwedd yn rhyw le i chwilio i gymhwyſiadau y cyfryw ag oedd yn dymuno bod o'i chymmundeb. 5. Er nad oeddent yn gwrthddadlau dim am gyfreithlondeb ffurf drefnus o weddiau, yn unig os cai rhydd-did ddyledus ei ganiattau iddynt arferyd gweddiau o'u heiddo eu hunain cyn ac ar ol pregeth; etto yr oeddent yn anfoddloni i rai pethau yn y ffurf o weddi gyffredin a ſefydlwyd trwy gyfraith; megis ail adroddiad mynych o weddi'r Arglwydd; attaliad y gweddiau trwy attebion dyfal y bobl, y rhai nad yw mewn rhai mannau ddim gwell nâ gwag ail adroddiad, ac nad yw yn cael ei arferyd mewn un eglwys broteſtanaidd yn y byd. Hwy wrthwynebaſant rai pethau yngweinidogaeth priodas a chladdedigaeth y meirw; megis yn y briodas y dywedir "A'm corph y'th anrhydeddaf," ond yn y Saiſneg, *With my body I thee worſhip:* ac yn y gladdedigaeth dywedir, *Mewn gwir ddiogel obaith o adgyfodiad i fywyd tragywyddol*, am y gwaethaf o ddynion os na bydd ef wedi ei eſgymuno, *&c.* 6. Nid oeddent yn gweled yn iawn i ddarllen llyfrau yr Apocripha yn yr eglwys, tra fyddai rhai rhannau o'r Yſgrythurau canonaidd yn cael eu heſgeuluſo; er nad oeddent yn diyſtyru yr homiliau, etto yr oeddent yn meddwl mai nid iawn oedd urddo un dyn yn yr eglwys yn weinidog heb fod yn abl i bregethu, ac agor yr Yſgrythurau. Am hynny un o'u hachwynion mawr hwy trwy yr holl deyrnaſiad hyn oedd fod cynnifer o weinidogion mudion, a rhai ag amryw eglwyſydd ac heb fod yn cyfaneddu yn eu plwyfau; a bod preſentiadau i fywioliaethau yn llaw y frenhines, eſgobion, neu bendefigion o wŷr llyg, yr hyn a ddylaſai fod oddi wrth ddewiſiad y bobl. 7. Nid oeddent yn boddloni i amrywiol o ddyddiau gwylion, am eu bod heb ſail o'r Yſgrythurau, nac o arferion y brif eglwys. Nid oes gennym eſampl, meddant, o'r hen Deſtament na'r newydd am ddim dyddiau wedi eu hapwyntio o goffadwriaeth i ſeintiau; cynnal ympryd yn y grawys, ddydd gwener a dydd ſadwrn,

a'r cyfryw ſydd anghyfreithlon a choelgrefyddol; megis hefyd prynu a gwerthu ar ddydd yr Arglwydd. 8. Nid oeddent boddlon i ddull yr addoliad yn y cathedrals; ſef canu y gweddiau, a chanu a chanto y ſalmau bob yn ail, yr hon arfer ddarfu i gommiſſioners y brenhin *Edward* y chweched i wahardd. Ac nid oeddent boddlon i offerynnau muſic, megis udgyrn, organs, a'r cyffelyb, y rhai nad oeddid yn ei arfer yn yr eglwyſi tros ddeuddeg cant o flynyddau ar ol amſer Criſt. 9. Yr oeddent yn petruſo unffurfio â rhai cynheddfau a ſeremoniau y rhai oedd yn cael eu gorchymyn gan y rubric a chyfreithiau y frenhines; megis 1. Arwydd y groes yn y bedydd, yr hyn nad yw un rhan o weinidogaeth y bedydd a ſonier am dano yn yr Yſgrythur, ac er ei fod yn arfer Criſt'nogion yn oeſoedd cyntaf yr eglwys i groeſi eu hunain, neu wneud croes yn yr awyr ar rai achoſion, fel rhyw fath o ſwyn, etto nid oes dim ſôn am ei fod yn cael ei arferyd mewn bedydd hyd at y bummed canfed flwyddyn ar ol ein Hiachawdwr Criſt; ac am ei fod wedi cael ei gamarfer gan eglwys *Rufain* i goel-grefydd, ac wedi bod o gymmaint parch gan rai proteſtaniaid, fel y tebygent fod bedydd ei hun yn amherffaith hebddo, yr oeddent yn meddwl mai eu dyled oedd ei roi ef heibio. Nid oeddent hefyd boddlon i fedydd gan fyd-wragedd, a benywaid eraill mewn achos o glefyd; a dull o ryddhau gwragedd, yr hyn oedd yn edrych iddynt hwy fel puredigaeth yr *Iuddewon*. 2. Ni dderbynient yr arfer o oſebion mewn dull o daflu allan y rhieni o fod yn feichnion o addyſgu eu plant eu hunain: os rhieni fyddai meirw neu mewn gwledydd pell yr oeddent cymmaint am oſebion a'u gwrthwynebwyr; ond fel mae addyſg plant wrth gyfraith Duw a chyfraith nattur ar rieni, y rhai ſydd rwym i'w ffurfio hwy at rinwedd a duwioldeb, yr oeddent yn edrych arno yn anghyfion i'w rhyddhau hwy yn hollol oddi wrth y ddyledſwydd hynny, ac i roi i fynu y plentyn i eſtron. Nid oeddent hefyd

yn

yn gweled yn addas fod y goſebion yn atteb yn enw y plentyn, ac nid yn eu henwau eu hunain. 3. Nid oeddent foddlon i'r arfer o gonffirmo plant mor gynted ag gallent ddywedyd gweddi'r Arglwydd a'u cateciſm, trwy ba beth mae ganddynt hawl i ddyfod i'r ſacrament heb un cymmwyſder arall: nid oeddent hefyd yn cyttuno fod yr eſgob wrth roi ei law ar y plentyn yn gweddio ar i Dduw trwy yr arwydd hynny gadarnhau iddo ei ras a'i ffafr, yr hyn ſy'n edrych megis effaith ſacramentaidd ar arddodiad ei ddwylo. Amrywiol bethau eraill megis penlinio wrth dderbyn y ſacrament, ymgrymmu wrth enw'r Iesu, y fodrwy yn y briodas, a gwahardd priodas ryw amſer o'r flwyddyn, rhoi *liſens* am arian i briodi heb wybod i'r gynnulleidfa, ac yn bennaf y gwiſgoedd ag oedd raid i bob offeiriad i wiſgo ymhob rhan o'u gweinidogaeth oeddent yn wrthwynebu hyd yr eitha, ac er fod rhagymadrodd i'r weddi gyffredin yn dweud, *Er eu dyfeiſio hwy gan ddyn, etto maent yn cael eu gadael er mwyn gweddeidd-dra, trefn ac adeiladaeth; ac maent yn tueddu i ddyrchafu meddwl marwaidd dyn i goffadwriaeth o'i ddyledſwydd at Dduw trwy ryw arwydd hynod a neilltuol trwy ba un bydd iddo gael ei adeiladu.* Ond nid oedd y puritanod yn gweled dim gweddeidd-dra yn y gwiſgoedd; ïe yr oeddent yn edrych arnynt fel anair i'r diwygiad, ac yn yr amgylchiad preſennol yn hollol anghyfreithlon, am eu bod wedi cael eu difwyno gan goelgrefydd ac eulunaddoliaeth.

Eu. Mae'n debyg gennyf fi i'r puritanod ddiodde yn chwerw iawn am iddynt wrthod ufuddhau i drefn yr eglwys ſefydledig yn ei holl ſeremoniau, ei chynheddfau, a'i diſgyblaethau, yn enwedig gwiſgo'r gwiſgoedd appwyntiedig, yr hyn i'm meddwl I, yw un o'r rhai mwya diddrwg o holl ſeremoniau eglwys *Loegr.*

Ap. Mae yn wir fod amryw bethau yn ſefydliad eglwys *Loegr* ag ſydd lawer anhawſach i gyd-ddwyn â hwynt nâ'r gwiſgoedd, ond etto deallwch fod y puritanod

puritanod newydd ymadael â'r grefydd babaidd, ac yn ei ffieiddio hi a phob rhyw ſeremoniau ag oedd yn perthyn iddi, ac ſel yr oedd y gwiſgoedd yn rhan o'i ſeremoniau hi, ni fynnent gymmaint a gwrando y gweinidog ag a'u gwiſgai; a hwy a ddioddefaſant orthrymderau nid bychan o ran cydwybod meddant hwy, ond yr oedd cyndynrwydd, 'ſtyfnigrwydd, a rhagfarn nid bychan yn perchennogi eu hyſprydoedd, trwy eu bod yn godde eu diſwyddo, eu carcharu a'u taflu allan o'u bywioliaethau er mwyn peth mor ganolig a gwiſg wen, clôg, cap pedwaronglog, a'r cyfryw beth nad oedd na da na drwg ynddynt o honynt eu hunain. Ac o'r tu arall nid llai cyndyn, 'ſtyfnig, ac amhlygadwy oedd y frenhines, a rhai o'i heſgobion, pan na's ildent i ymadael â'r ſeremoni leiaf, yn enwedig y gwiſgoedd, er bod hynny yn peri diſtewi cannoedd o'r pregethwyr mwya enwog ac effeithiol, ac yn gwneud cannoedd hefyd o deuluoedd yn dlawd ac yn anghenus, a hynny mewn amſer ag oedd yr holl deyrnas yn gorwedd mewn mawr ddiffyg o oleuni'r gair, ac awdurdodol bregethiad yr efengyl. Anodd iawn yw adrodd y poethder yſpryd oedd yn y ddau ochr y dyddiau hyn; y puritanod oedd yn arferu pob moddion i gael y frenhines i roi rhagor o rydd-did cydwydod i rhai amheus, fel y gallent wiſgo y gwiſgoedd neu beidio; eu gwiſgo un waith, ac nid rhagor; ac i'r diben hyn y 'ſgrifenaſant at rai dyſgedig tramor, ar ddanfon llythyrau at y frenhines, a hwy a'u danfonaſant, ond nid dim a wnai y tro ond naill ai cyflawni pob ſeremoni, neu daflu allan o'r eglwys, carcharu tros flwyddyn, diſtewi pregethu, a hollol roi i fynu bob bywioliaeth eglwyſig. Llawer fu o 'ſgrifennu o un ochr a'r llall, ond gorfu ar y puritanod beidio, ac er fod rhai o gommiſſioners eglwyſig y frenhines yn fwy tyner, ac am roi rhagor o rydd-did, etto archeſgob *Parker*, yr hwn oedd elyn creulon i'r puritanod, ac yn bennaf o'r commiſſioners, ni fynnai golli y ſeremoni leiaf. Mwy o elyniaeth oedd

gan

gan y bobl gyffredin etto yn erbyn y gwiſgoedd nâ'r offeiriaid; fel yr oedd eu caſineb hwy at babyddiaeth yn chwanegu, felly yr oedd eu gwrthwynebiad hwy i'r gwiſgoedd. Yr oedd amrywiol o wŷr mawrion yn y llys yn eu herbyn; ond y werinos broteſtanaidd trwy yr holl deyrnas oedd wedi ennyn cymmaint yn eu herbyn nad oedd dim ond daroſtyngiad ofnus i'r awdurdodau goruchel ag allai eu cadw hwynt o fewn i'r eglwys. Rhifedi llioſog oedd yn pallu myned i'r lleoedd hynny o addoliad lle yr oedd y gwaſanaeth yn cael ei weinidogaethu yn y gwiſgoedd; ni fynnent gyfarch i'r gweinidogion hynny yn yr heolydd, na chadw eu cwmpeini; fe ddywedir eu bod yn poeri yn eu hwyneb, eu dirmygu hwynt tra fyddent yn cerdded, gan ymddwyn attynt mor atgas am eu bod yn eu cymmeryd yn bapiſtiaid wedi rhagrithio eu hunain yn broteſtaniaid, yn rhai ag oedd yn troi gyd â'r amſer, y rhai fyddai foddlon i weled dychweliad o'r grefydd honno arwydd pa un oeddent yn wiſgo; ac yn wir yr oedd yſpryd poeth yn y bobl yn erbyn pob peth ag a ddeuai oddi wrth yr eglwys gyfeiliornus gwiſgoedd pa un yn ddiweddar a liwiwyd â gwaed eu perthynaſau, a'u cyfeillion. Ac yn fyr ni's gellir amddiffyn doethineb a chyfiawnder y frenhines i gymmell y gwiſgoedd hynny ar yr offeiriaid; neu yr eſgobion gael eu heſguſodi am garcharu, diſwyddo a thaflu allan o fywioliaethau rai o'r pregethwyr mwya defnyddiol yn y deyrnas am bethau yn eu barn eu hunain ag oedd yn unig yn ganolig; ond ym marn eu brodyr yn hollol bechadurus. Archeſgob *Parker* oedd yn flaenaf un yn holl ddioddefiadau'r puritaned, ac yn eu gwthio hwy ymlaen gyd â phoethder diedifeiriol. Fe allaſai y frenhines gael ei thyneru; fe ddywedodd y *ſecretary of ſtate* ac arglwyddi'r llys na's gallaſent ei ddilyn ef; *Grindal* eſgob *Llundain* edifarhaodd, ac eſgob *Durham* a gyhoeddodd fod yn well ganddo roi i fynu ei eſgobaeth nâ diodde y fath greulondeb ynddi: ond *Parker* oedd uwchlaw y gwaradwyddiadau

iadau hyn, ac yn lle tyneru a thoſturio, ſe ffurfiodd y fath orchymynion i offeiriaid *Llundain* na chlywyd ſôn am eu bath erioed mewn gwlad broteſtanaidd. Ac i rwymo y gorchymynion yn dynn ar y puritanod, ſe appwyntiodd ymhob plwyf bedwar neu ŵyth o 'ſpiwyr i chwilio pob troſeddiadau: y rhai'n oedd wedi cael eu gorchymyn tan lw i gymmeryd ſulw neilltuol a oedd yr offeiriaid yn hollol unffurfio, ac hefyd a oedd y plwyfolion; ac i roi i mewn eu preſentments pan gofynnid; fel yr oedd yn amhoſibl i un puritan oneſt i ddiangc o law'r commiſſioners. A thrwy y creulonderau hyn crefydd a rhinwedd gafodd eu gwanhau, er mwyn addurnau ag oedd yn cael eu galw felly; cydwybodau dynion duwiol a gythryblwyd, a'r diwygiad a oſodwyd yn y perygl eitha. Amryw eglwyſydd a gauwyd i fynu yn ninas *Llundain* o eiſiau gweinidogion er galar i bob dynion duwiol, a phleſer anrhaethadwy y papiſtiaid, y rhai oedd yn llawenhau i weled y diwygwyr yn gwanhau eu dwylo eu hunain trwy ddiſtewi y fath rifedi o'r pregethwyr mwya poblog a defnyddiol, tra yr oedd y wlad mewn eitha angen o honynt. Fe ddywedodd eſgob *Sandys* o flaen y frenhines rai blynyddau wedi'n, yn un o'i bregethau, *Fod amrywiol o'i phobl, yn enwedig yngwledydd y gogledd, ar ddarfod am danynt o eiſiau bwyd. Amryw ſydd*, eb efe, *heb glywed pregeth tros 7 flynedd, ie, mi allwn ddweud yn eon mewn 17 o flynyddau, ſe ofynnir eu gwaed hwy ar law rhyw rai.* Gormod yw rhoi hanes lawn o drueni y dyddiau hynny, yn unig un peth yn rhagor a egyr eich deall, ſef, nad oedd y frenhines na 'r archeſgob yn gweled dim eiſiau pregethu'r gair ac agor yr yſgrythurau i'r bobl. Ymhen 13 o flynyddau o deyrnaſiad y frenhines, y dechreuwyd codi i fynu *aſſociations* neu gyfarfodydd gan yr offeiriaid fel y canlyn. Deallwch, er fod yr eſgobion yn rhwym i gyflawni rheolau y llys brenhinol, etto rhai oedd mor deimladwy o eiſiau diſgyblaeth a phregethiad y gair, fel y caniattauſant i'w

hoffeiriaid

hoffeiriaid i godi i fynu *aſſociations* er mwyn helaethu y ddau. Gweinidogion tref *Northampton* gyd â chydſyniad eu heſgob, mayr y dref a'r uſtuſiaid a gyttunaſant ar amryw reolau er mwyn adeiliad a diſgyblaeth. Yr *aſſociation* hyn oedd ddiſgyblaeth ewyllyſgar wedi ei goſod i fynu yn wahanol oddi wrth orchymynion y frenhines, neu ganonau yr eglwys. Yr offeiriaid trwy gennad eu heſgobion a oſodaſant i fynu yn eu plith eu hunain hefyd fath o ymarferiadau crefyddol eraill o agoryd teſtynau o'r yſgrythurau, un yn dweud ei feddwl am dano ar ol y llall: y rhai'n oedd yn cael eu galw prophwydoliaethau, oddi wrth 1 *Cor.* xiv. 31. Yr oeddent hefyd yn holi, ac yn ymofyn â'u gilydd am athrawiaeth iachus, a bywyd da, a moeſau. Ond rhy faith yw enwi yr amryw reolau oedd at bob un o'r rhai'n; ond yn fyr cyfaddefiad ffydd y rhai oedd yn aelodau o'r prophwydoliaethau hyn oedd, *Eu bod yn credu yng air* DUW *yn gynnwyſedig yn yr hen Deſtament a'r newydd, i fod yn rheol berffaith o ffyda a moeſau; ei fod i gael ei ddarllain a'i wybod gan yr holi bobl, a bod yr awdurdod o hono yn maeddu pob awdurdod, nid o eiddo'r pab yn unig, ond yr eglwys hefyd, y cownſils, y teidau, dynion ac angylion. Yr oeddent yn condemno fel iau orthrymedig beth bynnag oedd dynion yn ei oſod i fynu o'u dyfais eu hun i wneud articlau ffydd, a rhwymo cydwybodau dynion trwy eu rheolau a'u cyfreithiau; yn fyr, yr holl ffurfiau ac arferiadau ag a ddygwyd i mewn heb awdurdod y gair, er eu bod yn cael eu dyrchafu trwy arferiad, trwy draddodiadau an'ſgrifenedig, neu unrhyw enwau eraill pa beth bynnag; o ba fath mae unbennaeth y pab, purdan, traws-ſylweddiad, haeddiant dyn, ewyllys rhydd, cyfiawnhâd trwy weithredoedd, gweddio mewn tafod ddieithr, a gwahaniaeth bwydydd, gwiſgoedd, a diwrnodau, ac yn fyr, holl ſeremoniau a holl drefn pabyddiaeth, y rhai ynt gymmyſg diawledig wedi ſefydlu megis o anfodd i* DDUW, *ac er dirmyg i wir grefydd. Ac yr y'm ni yn hoddloni ein*

hunain

hunain, meddent, *â ſymlrwydd y pur air hwn*; DDUW; *ſwm byr o ba un ſydd ynghredo yr Apoſtol-ion; gan amcanu profi a chwilio, ac hefyd barnu pob athrawiaethau eraill pa rai bynnag trwy y pur air hwn o eiddo* DUW, *fel gwir reol a maen-prawf perffaith. Ac i'r gair hwn o eiddo* DUW *yr ydym yn oſtyngedig yn ufuddhau ein hunain, a'n holl weithredoedd, gan fod yn foddlon ac yn barod i gymmeryd ein barnu, ein diwygio, neu ein cyfarwyddo ymhellach ganddo yn holl byngciau crefydd.* Dyma glwm defoſiynol ar ddiben cywir rhwng eſgobion, offeiriaid, a ſwyddogion gwladaidd. Fe'i arfaethwyd er mwyn cynhyrfu awydd yn yr offeiriaid i ganlyn yr un eſampl o 'ſtudio yr yſgrythurau, fel gallent fod yn fwy abl i addyſgu'r bobl mewn addyſg Griſt'nogol; ac er fod dynion o foeſau penrydd yn beio arnynt, etto y commiſioners eglwyſig, y rhai oedd â llythyr neilltuol oddi wrth y frenhines i holi ynghylch pob dyfais newydd mewn crefydd, ac yn gwybod hefyd am y ſcêm ragddywededig, ni roiſant iddi etto na cherydd nac aflonyddwch; ond pan clywodd y frenhines am danynt, a chredu y gallent fod yn fammaethiad i buritaniaeth, ac yn tueddu at godi terfyſgiadau ragor yn yr eglwys, hi a'u hattaliodd hwy; ond nid cyn pen pedair blynedd ar ol eu dechreuad, canys yr oeddent wedi ymdannu i eſgobaeth *York*, *Cheſter*, *Durham*, ac *Ely*; ac eſgob *Llundain* a'u goſododd hwy i fynu yn ei eſgobaeth, fel y gwnaeth y rhan fwya o'r eſgobion eraill. Yr offeiriaid oedd ynddynt wedi cael eu rhannu yn *glaſſes* tan *foderator*, neu ganolwr wedi ei appwyntio gan yr eſgob; eu cyfarfodydd hwy oedd yn cael eu cadw unwaith yn y pythefnos; y bobl oll oedd yn breſennol ar y bregeth; ac ar ol darfod, aelodau yr *aſſociation*, enwau pa rai oedd wedi eu rhoi mewn llyfr aent ynghylch eu matterion. Eu hymarferiadau hwy oedd o wafanaeth mawr i ddatguddio cyfeiliornadau pabyddiaeth, ac i dannu gwybodaeth o'r yſgrythurau ymhlith y bobl. Ond y frenhines a gylwodd

glywodd gan yr archeſgob, nad oeddent ddim gwell nâ mammaethod i buritaniaeth; a pha fwya croes y byddai y bobl i babyddiaeth, mwya gyd oeddent mewn perygl o beidio unffurfio: fod yr ymarferiadau hyn yn tueddu i fod yn boblog, ac yn gwneud y bobl i chwilio cymmaint fel nad ufuddhaent i orchymynion eu goruchwilwyr fel y dylent. Fe ddywedpwyd hefyd fod rhai o'r gweinidogion yn peidio arferyd y gwiſgoedd, ac yn ymddiddan â'r ddiſgyblaeth eglwyſig; a bod rhai eraill am ddatguddio eu doniau, er digalondid i wŷr oneſt o îs cymmwyſderau; a bod hyn oll i'w weled yn eſgobaeth *Norwich*. Ac ar hyn y frenhines a roddodd orchymyn dirgel i'r archeſgob i'w torri hwynt i lawr ymhob lle, ac i ddechrau ar eſgobaeth *Norwich*. Yr archeſgob a 'ſgrifenodd orchymyn y frenhines at eſgob *Norwich*, yr hwn a gymmerodd yn chwith iawn fod y frenhines a'r archeſgob yn codi yn erbyn gwaith mor fuddiol i eneidiau dynion; ac eſgob *Norwich* a 'ſgrifenodd at y *privy counſil*, y rhai heb wybod dim am y peth, ond ryfeddu i'r archeſgob roi y fath orchymyn, ac a roiſant annogaeth i'r eſgob i'w cadw hwynt i fynu, ond er y cwbl trwy yr archeſgob a'r frenhines gorfu ar y *privy counſil* dewi â ſon, ac ufuddhau i ewyllys y frenhines, er mawr alar i amrywiol o eſgobion ac offeiriaid, ac i bob dynion yn tueddu at dduwioldeb trwy yr holl deyrnas.

Eu. Pa ddull yr oedd y papiſtiaid yn y deyrnas yn yr amſer hyn? canys diau fod yma filoedd o honynt yn eu calonnau, er eu bod yn gorfod ymddaroſtwng i'r awdurdodau goruchel.

Ap. Hwynt hwy oedd gelynion mwya peryglus y frenhines; etto yr oedd ganddi dynerwch neilltuol attynt; hi a'u rhyddhaodd hwy yn fynych allan o garchar, ac a gydfyniodd â'u cyfarfodydd neilltuol hwynt, o ba rai nid oedd dim llai nâ phum cant yn *Lloegr* y pryd hyn. Amryw o ddeiliaid y frenhines aeth i gapel embaſador *Portugal*, lle'r oedd

maſs yn gyhoeddus yn cael ei ddywedyd, ac am i ſiryfon a recorder *Llundain* eu haflonyddu, fe'u rhoddwyd hwy yngharchar trwy orchymyn y frenhines; ac ar yr un pryd yr oeddent yn dyfeiſio i ddwyn ymaith ei bywyd hi. Ac fel na fyddai y grefydd babaidd farw yn *Lloegr* gyd â'r oes breſennol, fe adeiladwyd colegau mewn amryw fannau o *Europ*, a rhoddwyd rhoddion attynt i ddwyn i fynu ieuengctid *Lloegr* i fod fel *miſſionaries* ol ynol i'w danfon yma er tannu ar lled y grefydd babaidd. Y gynta o'r rhai'n a ſylfaenwyd pan eſgymmunwyd y frenhines a'r deyrnas; ar ol hynny amryw eraill a ſylfaenwyd er niwaid anrhaethadwy i'r grefydd broteſtanaidd. Naw i gyd ymhob lle o golegau adeiladwyd yn y lleoedd canlynol, un yn *Douay* dinas yn *Fflanders*, gan frenhin *Spain*. Un yn *Rhufain* gan bab *Gregori*. Un yn *Valladolid* yn *Spain*, gan frenhin *Spain*. Un arall yn *Seville* gan yr un.—Un yn St. *Omers* gan yr un.—Un yn *Madrid* gan *Jeſuit*. Un yn *Lefain*, gan frenhin *Spain*. Un yn *Leige*, gan yr archeſgob yno. Ar olaf yng *Nghent* yn *Fflanders*, gan frenhin *Spain*. A phendefigion y deyrnas ag oedd o'r grefydd babaidd, oedd yn danfon eu plant drofodd i'r colegau hyn i'w dyſgu, ac nid oes neb a ŵyr pa ſwmmau mawrion o arian oeddid yn ei gaſglu yn *Lloegr* gan babiſtiaid at eu maintaino hwy yno. A rhifedi o yſgolheigion oeddid yn godi i fynu i'r pwrpas hyn allid gaſglu oddi yma; 'ſgrifenwr pabaidd hynod a ddywedodd nad oedd ond 30 o hen offeiriaid pabaidd yn *Lloegr* yn y flwyddyn 1575, ond i ddau o'r colegau hyn ddanfon trofodd mewn ychydig flynyddau 300; ac nid oes ammau na ddaeth at yr un nifer o'r rhai eraill ar ol y cyfattebolrwydd.

Eu. Pa beth ddaeth o'r holl weinidogion a daflwyd allan yr amſeroedd hyn?

Ap. Cannoedd o honynt, er mawr alar i eglwys Dduw, a ddifwyddwyd, a thruenus oedd yr effeithiau ganlynodd. Rhai o honynt aeth i aſtudio phy-

phyſygwriaeth ; eraill a gymmerodd ryw alwedigaethau bydol ; rhai aeth i *Scotland*, ac eraill tros y môr ; rhai aeth yn gapelwyr i deuluoedd pendefigion ; ond amrywiol ag oedd o berchen teuluoedd mawrion a aethant yn dlodion. Amryw o eglwyſydd yn awr a gauwyd i fynu, a'r bobl yn barod i godi gwrthryfel o blegid eu gweinidogion. 600 o ddynion ddaeth i eglwys yn *Llundain* i dderbyn y cymmun, a'r dryſau wedi eu cauad heb neb i weinidogaethu. O'r diwedd llef y bobl a gyrhaeddodd y llys ; y ſecretari a 'ſgrifenodd at yr archeſgob, i'r eglwys gael ei gweini, ac i ryddhau y carcharorion ; ond yr archeſgob oedd yn 'ſtyfnig, a gwell oedd ganddo fod y bobl heb bregeth na ſacrament nâ bod y gweinidogion heb y wiſg a'r cap.

Eu. Pa ddull yr oedd crefydd yn *Scotland* yn amſer yr holl gyfnewidiadau hyn ar grefydd yn *Lloegr?*

Ap. O ddautu yr ail flwyddyn o deyrnaſiad *Eliſabeth*, y torrodd allan ddiwygiad rhyfeddol yn *Scotland*, trwy bregethiad un Mr. *John Knox*, difinydd eon calonnog, nad oedd yn gochelyd un perygl, nac yn ofni wyneb dyn yn achos crefydd. Hwn oedd wedi bod yn bregethwr yn *Lloegr* yn amſer *Edward*, ac wedi myned troſodd i *Francfort* yn amſer *Mari*, ac yn ola yn un o weinidogion y gynnulleidfa *Saiſneg* yn *Geneſa*, o ba le daeth ef i *Edinburgh* yn y 54 o'i oed, ac a gyfaneddodd yn *Perth* ; ond hefyd oedd yn efangylwr bywiol tros yr holl deyrnas. Ei farn ef oedd am ddiwygiad, *Os byddai brenhinoedd a thywyſogion i wrthod diwygio crefydd, y gallai ſwyddogion îs, ynghyd â'r bobl, wedi cael eu cyfarwyddo a'u haddyſgu yn y gwirionedd gan eu pregethwyr yn gyfreithlon ddiwygio o fewn i'w terfynau eu hunain ; ac os bydd pawb, neu y rhan fwyaf wedi cael eu goleuo gan y gwirionedd, hwy allant wneud diwygiad cyhoedd.* Ac ar yr egwyddor hon darfu i ddiwygwyr *Scotland* yn oſyngedig i ymbil ar y frenhines weddw, gwraig *James* y pummed, yr hon oedd yn awr yn lle ei merch *Mari*

ag oedd yn *Ffrainge* yn golygu tros y deyrnas, ar iddynt gael rhydd-did i gaſglu ynghyd yn gyhoedd neu yn ddirgel i weddio, i ddarllain, ac i agor yr yſgrythurau, ac i weinidogaethu bedydd a ſwpper yr Arglwydd yn y tafodiaith cyffredin, a'r ola yn y ddau ryw ar ol ordinhad Criſt. Ac am i'r cais rheſymmol hwn i gael ei wrthod, rhai pendefigion a ffurfiaſant *aſſociation*, gan benderfynu anturio eu bywydau, a'u meddiannau yn yr achos; a hwy annogaſant gynnifer o giwradiaid plwyfau ag oedd o fewn i'w rhaglawiaeth hwy, ag oedd foddlon, i ddarllain y gweddiau a'r llithiau yn *Saiſneg*, ond i beidio eſponio yr yſgrythurau hyd oni welai y frenhines fod yn dda i roi iddynt rydd-did. Hyn a wnawd yn *Perth*, a'r wlad oddi amgylch heb ddim terfyſg; yr *aſſociation* a dannodd, a rhifedi mawr roiſant eu henwau i mewn, hyd yn oed yn *Edinburgh* prif ddinas *Scotland*. Ar hyn hwy a ddanfonaſant betiſiwn arall i oſod o flaen y frenhines weddw, am afreſymmoldeb ei chreulondeb hi yn erbyn y proteſtaniaid wrth yſtyried eu rhifedi; ond byddar oedd hi i bob cynghorion gweddaidd. Pan cyfarfu y parlament, yr *aſſociation* a breſentiodd i'r frenhines amryw articlau ynghylch rhydd-did cydwybod, i'w goſod o flaen y tŷ, y rhai a attaliodd hi, ac ni fynnai iddynt gael eu dadleu; ar ba achos y tynnwyd i fynu y terfyniad ſefydlog hyn, ac y dymunwyd iddo gael ei recordio, *Am na's gallent gael diwygiad yn gyttunol â gair Duw, oddi wrth y llywodraeth, ei fod yn gyfreithlon iddynt i ddilyn byſſorddiadau eu cydwybodau eu hunain. Na chai un ag a gydſyniai â hwy ym mhroffes y wir ffydd i fod yn ddaroſtyngedig i un goſpedigaeth cyfraith, neu redeg tan un fforffed trwy wneuthur felly. Os bydd un terfyſg godi o achos crefydd, ni ddylai y cyfrifiad o hono orwedd arnynt hwy, y rhai ſydd yn awr yn oſtyngedig yn ymbil am feddyginiaeth reolaidd; ac ym mhob peth arall y byddant yn ddeiliaid mwya ffyddlon.* Y frenhines weddw a fanegodd i lys *Ffrainge*, lle

yr

yr oedd *Mary* brenhines y *Scotiaid* a *Francis* ei gŵr yn awr yn aros, fel yr oedd pethau yn ſefyll; ac a dderbyniodd orchymyn yn ol i beidio diodde un grefydd arall ond y babaidd, gyd ag addewid o gynnorthwy helaeth o filwyr i'w chynnal hi. Ar hyn hi wyſiodd holl ſwyddogion *Perth*, a'r gweinidogion oedd am ddiwygio i ymddangos o'i blaen hi yn *Sterlin*, gyd a diben trwy arfaeth gadarn i'w halltudio hwy. Y gweinidogion a ymddangoſaſant i amddiffyn eu hachos, a chyd â hwy finteoedd mawrion o bobl arfogion wedi ymbarottoi i'w hamddiffyn, yn gyttunol ag arfer *Scotland*, yr hon ſydd yn caniattau i ddrwgweithredwyr i ddyfod i'w treial â'u holl gyfeillion a'u perthynaſau yn eu canlyn. Y frenhines weddw a ſynnodd wrth yr olwg, ac a ddymunodd ar *John Areskin* i berſwadio y dyrfa i droi yn ol, ac a roddodd ei gair na chai ddim ei vneud yn erbyn y gweinidogion: ond mor gynted ag ymadawſant yn ddiddig tu ag adre, hi a'u condemnodd hwy am beidio ymddangos. Ond pan daeth y newydd hyn i *Perth*, y bwrdeiſi wedi eu cenfogi gan rifedi mawr o'r pendefigion a'r arglwyddi cymdogaethol, a godaſant fyddin o ſaith mil o wŷr tan awdurdod iarll o *Glencarne*, er amddiffyniad eu gweinidogion yn erbyn y frenhines weddw, yr hon oedd yn dyfod â byddin o *Ffrangcod* a *Scotiaid* i'w gyrru hwy allan o'u gwlad; ond wedi cael gwybod am barottoad y bwrdeiſi, hi gydſyniodd â gwneud *treaty* neu gyfammod; ym mha un y cyttunwyd iddi hi gael ei derbyn gyd ag anrhydedd i'r ddinas, ac i gael ei diodde i lettya ynddi rai diwrnodau, trwy iddi addo peidio gwneud dim yn achos crefydd, ond gadael y cwbl i'r parlament; a'r byddinoedd o bob ochr i gael eu danfon ymaith: ond mor gynted ag y darfu i'r diwygwyr ollwng ymaith eu byddin, ac agor y pyrth i'r frenhines, hi dorrodd yr holl articlau, ac a oſododd i fynu y *maſs*, ac a adawodd gariſon o *Ffrangcod* yn y caſtell, gan fwriadu ei wneud ef yn lle arfau. Ond ar y torriad digydwybod hyn o'r

cyfammod, yn gyſtal ag ar gyhoeddiad y frenhines *nad oedd cadw addewidion â hereticiaid*, cynlleidfaoedd ſiroedd *Fyfe*, *Perth*, *Dundee*, *Angus*, *Mearn*, a *Montroſe* a godaſant fyddin fechan, ac ymrwymaſant tan ſel i gynnorthwyo y naill y llall i faintumio y dywygiad â'u bywydau ac â'u meddiannau. Mr. *Knox* oedd yn eu cefnogi hwynt a'i bregethau; a'r werinos wedi cael rhybudd a dynnaſant i lawr allorau a delwau, ac yſglyfaethaſant fonachlogydd, ac a daflaſant allan o'r eglwyſydd eu haddurnau coelgyfyddol. Yr hen frenhines a ddaeth yn eu herbyn hwynt â dwy fil o *Ffrangcod*, a chymmaint arall o *Scotiaid* tan daliad *Ffraingc*; ond am fod arni ofn anturio i frwydr, hi giliodd yn ol i *Dunbar*, a byddin y diwygwyr a wnaethant eu hunain yn arglwyddi o *Perth*, *Scone*, *Sterlin*, a *Lithgce*. O'r diwedd penderfynwyd ar gyngrair, ym mha un yr oedd i weinidogion y cynnulleidfaoedd i gael rhyddid i bregethu ym mhilpitau *Edinburgh* yn breſennol; ond hi ymhen ychydig wedi'n a dderbyniodd filwyr o *Ffraingc*, ac a ennillodd yn ol iddi ei hun *Leith*, ac a barodd ei chadarnhau a'i llanw o bob lluniaeth angenrheidiol; y diwygwyr a ddymunaſant arni i ddeſtrywio y gweithiau, gan haeru ei fod e'n dorriad o'r cyngrair; ond hi a orchymynodd iddynt trwy eu hufudd-dod i dywyſog i fod yn llonydd, ac i roi i lawr eu harfau; a chan *fyned â'i* byddin yn union i *Edinburgh*, hi wnaeth iddynt ymadael â'r ddinas, a chilio i *Sterlin*, i ba le canlynodd byddin y *Ffrangcod* hwynt, ac a'u gwaſgarodd hwynt i'r mynyddau. Yn y cyflwr yma, hwy a wnaethant gyhoeddiad i ddiddyfnu y frenhines weddw oddi wrth ei hawdurdod, gan fygwth ymddwyn fel at elynion at bawb ag ufuddhau i'w gorchymynion; ond am na's gallaſant ſefyll eu tir, hwy a daflaſant eu hunain i freichiau y frenhines *Eliſabeth*, yr hon oedd yn deimladwy o berygl y grefydd broteſtanaidd, ac o'i choron ei hun, os *Scotland* fyddai yn hollol babaidd tan lywodraeth brenhines o *Ffraingc*, yr hon oedd yn ymofyn hawl yng

nghoron *Lloegr* ; a hi aeth mewn cyngrair i gynnorthwyo'r proteſtaniaid yn eu crefydd a'u rhyddid gwladaidd ; a chyfammod a ſelwyd i'r perwyl hyn yn *Berwick*, *Chwefror* 27, 1560. Ymhlith articlau eraill o'r cyfammod hwn, cyttunwyd fod i'r frenhines ddanfon byddin o ŵyr i *Scotland*, ac iddynt aros yno hyd oni bai *Scotland* wedi ei hadferu i'w rhydd-did a'i rhagorfreintiau ; a'r *Ffrangcod* wedi ei gyrru allan o'r deyrnas. Ac yn ganlynol y frenhines a ddanfonodd fyddin o ſaith mil o ŵyr traed, a deuddeg cant o ŵyr meirch, y rhai gyſfylltodd â byddin y proteſtaniaid, yr hon oedd o'r un rhifedi. Y fyddin hon eilwaith a chwanegwyd â llu o ŵyr o gyffiniau'r gogledd, tan awdurdod y duwc o *Norfolk* ; yn ol pa beth y cymmeraſant ddinas *Leith*, a gorfu ar y frenhines weddw i gauad ei hunan i fynu yng nghaſtell *Edinburgh*, lle bu hi farw *Mehefin* y 10fed. Fe gynnygodd y *Ffrangcod* i roi *Calais* yn ol os galwe'r frenhines *Eliſabeth* yn ol ei byddin o *Scotland* ; ond hi ballodd. O'r diwedd y blinderau yn *Ffraingc* oedd yn gofyn eu holl fyddinoedd hwy adref, danfonwyd commiſſioners i *Scotland* i ymddiddan â gŵyr y frenhines ynghylch tynnu ymaith fydinoedd *Ffraingc* o'r deyrnas, ac i adferu'r *Scots* i'w llywodraeth barlamentaidd. Y cyfammod hyn a benderfynwyd yn nechrau *Awſt*, trwy ba un caniattawyd ebargofiad cyffredin o droſeddiadau ; byddinoedd y *Ffrangcod* a'r *Saeſon* i fyned ymaith ymhen dau ſis, a pharlament i gael ei alw gyd ag eitha' brys i ſettlo achoſion crefydd a'r deyrnas ; ond *Ffrancis* a *Mari* wrthododd ei ſicrhau ef. Ond cyn i'r parlament i gyfarfod *Ffrancis* fu farw, ac adawodd frenhines y *Scotiaid* yn weddw ieuangc. Y cyfammod diweddaf heb gael ei gadarnhau, nid oedd dim awdurdod uniongyrch gan y parlament oddi wrth y goron, ond hwy a ymgynnullaſant trwy rinwedd y cyfammod diweddar, ac a dderbyniaſant y petiſiwnau canlynol oddi wrth y pendefigion a'r mawrion ynghylch crefydd ; 1. Fod i athrawiaeth eglwys *Rufain* i gael ei diddyfnu trwy

act o barlament yn y pyngciau maent yn gyfeiliornus. 2. Fod diſgyblaeth y brif eglwys i gael ei hadferu. 3. Fod awdurdod ormeſol y pab i gael ei thaflu ymaith; yr hyn oll a fotwyd o'i ochr: a dymunaſant ar y gweinidogion i dynnu cyffes o ffydd, yr hyn a ffurfiaſant mewn 25 o articlau, yn gyttunol ag athrawiaethau *Calfin*, a'r diwygwyr tramor. Y gyffes hon a ddarllenwyd yn y parlament heb neb ond tri yn anghyttuno; ac nid oedd yr offeiriaid pabaidd yn dywedyd dim mewn amddiffyniad i'w crefydd. Ac fe dorrwyd i lawr awdurdod y pab trwy act o barlament arall, a'r goſp rowd am ddarllen y *maſs* am y troſedd cyntaf oedd colli meddiannau; am yr ail droſedd alltudio; ac am y trydydd marwolaeth. Wrth dorri i fynu y parlament, fe roddwyd commiſſiwn i Mr. *Knox*, *Willock*, *Spotiſwood*, a rhai difinyddion eraill i dynnu fynu ſcêm o ddiſgyblaeth i'r eglwys, yr hyn a wnaethant hwy yn agos iawn at drefn *Geneſa*, yn unig hwy gymmeraſant *ſuperintendents* yn lle eſgobion, a gwrthodaſant arddodiad dwylo wrth urddo gweinidogion, am fod y gwyrthiau hynny wedi darfod ag oeddent hwy yn ei ddeall fod yn cydgerdded â'r ſeremoni hynny. Hwy drefnaſant 10 neu 12 o *ſuperintendents* i blannu, ac i ſylfaenu eglwyſydd, ac i appwyntio gweinidogion yn y cyfryw ſiroedd ag fyddai i gael eu rhoddi tan eu gofal lle nid oedd un eiſiws. Etto, meddent, *nid* oes lle i'r gwŷr hyn i fyw fel eſgobion ſegur, ond bod yn rhaid iddynt i bregethu eu hunain ddwy neu dair gwaith yn yr wythnos, ac ymweled â'u hardaloedd 'pwyntiedig bob tri neu bedwar mis, i ymholi am fywyd ac ymddygiad y gweinidogion plwyfol, i ddiwygio gormeſau, neu eu dwyn hwynt o flaen cymmanfa o'r eglwys. Y *ſuperintendents* oedd i gael eu dewis gan weinidogion a henuriaid yr amryw ardaloedd; ac i gael eu taflu allan ganddynt hwy am gamymddygiad. Cymmanfaoedd yr eglwys oedd yn cael eu rhannu yn dri math, y gyntaf yn cynnwys ychydig weinidogion o'r un gym'dogaeth; yr ail, gweinidogion un neu ddwy o ſiroedd; yn

drydydd, gweididogion yr holl deyrnas : y gyntaf gyfenwid claſſiaidd, yr ail ardalaidd, a'r drydydd cymmanfa deyrnaſawl, ymha un yr oedd noddfa ddiweddaf pob llywodraeth eglwyſig yn aros. Pan goſodwyd y plan hyn o flaen y parlament, ſe gydſyniwyd ei adael ef i yſtyriaeth ymhellach, ac ni roddwyd iddo gadarnhad parlamentaidd, fel yr oedd y diwygwyr yn diſgwyl. Ond yn ol i'r parlament ſyſgu, amryw o arglwyddi a phendefigion pennaf y deyrnas a gyfarfuaſant ynghyd wrth arch Mr. *Knox*, ac a roiſant eu dwylo wrtho, gan fwriadu aros wrth y ddiſgyblaeth newydd hyd onis cadarnhaed, neu cyſnewidied hi gan y parlament. O hyn allan yr hen lywodraeth eglwyſig a ddiddyfnwyd, a'r eglwys a lywodraethwyd gan y tri math o gymmanfaoedd uchod, a *ſuperintendents*; er nad oedd un gyfraith parlament am hynny hyd ymhen chwech mlynedd wedi'n. Pan darfu i iarll *Murry*, yr hwn oedd yn llywodraethu'r deyrnas yn lle y brenhin *James* y 6ed ag oedd etto yn faban, i gaſglu parlament a chymmanfa yn *Edinburgh*, ymha un y torwyd awdurdod y pab i lawr drachefn, a phob act o barlament a wnawd o ochr y grefydd babaidd; a'r gyffes ffydd newydd yn awr a ſefydlwyd, a'r gweinidogion proteſtanaidd a'r rhei'ny o'u cymmundeb a gyhoeddwyd i fod yn unig wir eglwys ſanctaidd o fewn y deyrnas. Fe gyhoeddwyd fod holiad a derbyniad gweinidogion i fod yn unig tan lywodraeth a threfniad yr eglwys; a bod y brenhinoedd wrth gael eu coroni o hynny allan i gymmeryd llw o faintumio y grefydd broteſtanaidd. Ond y llaw ddiwedda ddodwyd wrth ddiſgyblaeth yn *Scotland* oedd yn y flwyddyn 1594. Amryw derfyſgiadau fu yn llywodraeth y deyrnas honno yn yr amſer yr oedd y brenhin *James* tan ei oed, yr hyn attaliodd lawn ſefydliad ar grefydd. Y gymmanfa gyffredin yn 1566, a dderbyniaſant ddiſgyblaeth *Geneſa*, ond ni's cadarnhaodd y parlament fôt y gymmanfa, nac yn drefnus daflu allan yr eſgobion, er fod pob achoſion eglwyſig yn cael eu terfynu gan y *preſbiteries*

a'r cymmanfaoedd cyffredin. Yn 1574 hwy fotaſ-ant i fod yr eſgobion yn unig yn weinidogion o un plwyf; yn 1577 hwy ordeinaſant fod i bob eſgob gael ei alw ar ei enw ei hun, a'r flwyddyn neſa hwy a fotaſant fod enw eſgob yn ormes: yn 1580 y gymmanfa gyhoeddus ag un llais a gyhoeddaſant fod eſgobion yn anyſgrythurol ac yn anghyfreithlon. Yn yr un flwyddyn y brenhin *James* a'i deulu ynghyd â'r holl deyrnas a roiſant eu dwylo wrth gyffes o ffydd, wedi 'chwanegu atti gyfammod ag alwent arno, *Solemn league and covenant*; yn rhwymo eu hunain i faintaino ac amddiffyn yr athrawiaeth broteſtanaidd a llywodraeth breſbiteraidd. Yn 1587 y brenhin ddaeth i lawn oedran, ac a gydſeiniodd ag act i gymmeryd tiroedd yr eſgobion ymaith, a'u 'chwanegu hwynt at y goron. Yn 1590 ordeiniwyd gan y gymmanfa gyffredin fod i bob rhai ag oedd yn dwyn ſwydd yn yr eglwys o hynny allan i ſubſcribo i lyfr diſgyblaeth; ac yn 1592 ordeiniwyd fod i bob preſentaſiwnau i ſywioliaethau gael ei gyfarwyddo at y *preſbitery* fo'n perthyn i'r ſywioliaeth honno; a llawn awdurdod ganddynt i wneud rhoddiad o honi, ac i drefnu pob matter ac achoſion eglwyſig o fewn i'w terfynau ar ol diſgyblaeth yr eglwys. Yn awr y cadarnhawyd pob act flaenllaw a wnaed yn ffafrol i ddiſgyblaeth yr eglwys, ac y cyhoeddwyd ei bod yn gyfreithlon i weinidogion i gynnal cymmanfaoedd cyffredin un waith yn y flwyddyn, neu ragor os bydd achos; a chommiſſioners y brenhin yn breſennol os bydd y brenhin yn chwennych. Cymmanfaoedd ardalaidd a ſynodawl ddwy waith yn y flwyddyn o fewn i bob ardal; a *phreſbiteries* a chyfarfodydd neilltuol wedi eu hapwyntio gan yr eglwys, a'r holl ddiſgyblaeth a llywodraeth o'r unrhyw. Mae gan y cymmanfaoedd ardalaidd awdurdod i wellhau pob peth eſgeuluſwyd neu wnaed yn feius yn y cymmanfaoedd neilltuol. Awdurdod y *preſbiteries* ddwedir fod yn gynnwyſedig i gadw yr eglwyſydd o fewn i'w terfynau mewn trefn dda; o ymofyn am, a gwneud eu gorau i

ddiwygio dynion drwg. Mae yn perthyn i'r henuriaeth i edrych ar fod gair Duw yn cael yn ddyledus ei bregethu, a'r ſacramentau yn ddyledus yn cael eu gweinidogaethu, a diſgyblaeth yn cael ei gynnal; maent i beri bod yr ordinhadau wneir gan y cymmanfaoedd ardalaidd a theyrnaſaidd i gael eu cyflawni, i wneuthur neu ddiddyfnu rheolau fo yn perthyn i drefn weddaidd yn yr eglwys, tra na chyfnewidiont un reol a wnair gan y cymmanfaoedd goruchel, ac i gyfrannu eu rheolau i'r gymmanfa ardalaidd; mae ganddynt awdurdod i eſgymmuno y cyndyn ar ol cwrs o gerydd. Am eglwyſydd neilltuol os byddant yn cael eu llywodraethu yn gyfreithlon gan weinidogion cymmwys ac eiſteddfod yr henuriaid, mae ganddynt awdurdod a llywodraeth yn eu cynlleidfaoedd eu hunain mewn achoſion eglwyſig. Yr act hon a gadarnhawyd yn y flwyddyn 1593, ac yn 1594, fel mae *preſbitery* yw ſefydliad cyfreithlon eglwys *Scotland* hyd heddyw.

Eu. Pa ſut yr ydoedd hi mewn gwledydd tramor yn y dyddiau terfyſglyd hyn? canys yr wyf yn deall i'r diwygiad fyned i *Switzerland*, *Savoy*, *Ffraingc*, *Germany*, *Poland*, *Hungary*, *Bohemia*, y *Netherlands*, a lleoedd eraill heblaw *Lloegr* a *Scotland*.

Ap. Erledigaethus iawn oedd hi a chyfyng ar y proteſtaniaid yn yr holl amſeroedd hyn mewn amryw wledydd tramor; am fod cymmaint o babiſtiaid yn gymmyſgedig a'r proteſtaniaid ymhob gwlad, ond yn benna am fod y brenhinoedd a thywyſogion gan amla yn bapiſtiaid trwy *Europ*; ond y lleoedd mwya erchyll y deliwyd â'r proteſtaniaid oedd *Ffraingc*, *Hungary* a *Bohemia*; canys o ddautu'r flwyddyn 1568, bu erledigaeth ofnadwy iawn yn *Ffraingc* a'r *Netherlands*. Brenhin *Ffraingc* a dorrodd y pryd hynny trwy ei *gyhoeddiad o arferiad rhydd o'r grefydd broteſtanaidd*, ac fe yrrodd weinidogion allan o'u gwlad, a llawer o waed a dywalltwyd yn eu rhyfeloedd crefyddol hwynt. Yn y *Netherlands* nid oedd y duwc *de Alva* ond chwythu allan waed a lladdfau, ac yn rhoi mintioedd i farwolaeth am grefydd. Hyn

a barodd i rifedi mawr i ffoi i *Loegr*, yr hyn a gynhyddodd rifedi eglwyſydd y *Dutch* yn *Norwich*, *Colcheſter*, *Sandwich*, *Canterbury*, *Maidſtone*, *Southampton*, *Llundain*, *Southwark*, a lleoedd eraill: a darfu i'r frenhines er annogaeth iddynt ganiattau rhydd-did i'w ffurf eu hunain o addoliad. Ac o ddautu yr amſer yma hefyd y caſglodd ſtorom danbaid iawn yn erbyn y diwygiad trwy holl wledydd proteſtanaidd, canys y rhan fwyaf o'r tywyſogion pabaidd a wnaethant gyngrair didor y naill â'r llall, i gynnyg diwreiddio'r proteſtaniaid allan o'r byd. Y rhai pennaf o'r cydfwriad hyn oedd y pab, yr ymerawdr, brenhin *Efraingc*, brenhin *Spain*, brenhin *Portugal*, y duwc o *Savoy*, a rhai tywyſogion eraill oedd îs. Eu cydfwriad hwy oedd, cynnyg trwy rym arfau i ddifreinio pob brenhin a thywyſog proteſtanaidd, ac i oſod brenhinoedd yn eu lle hwynt; ac i ddiſwyddo, gyrru allan o'u gwlad, a chondemno i farwolaeth bob ewyllyſwyr da a chynnorthwywr i offeiriaid *Luther* a *Chalfin*, tra fai y pab yn taranu allan ei eſgymmundodau yn erbyn brenhines *Lloegr*, eſgymmuno'r deyrnas, a rhyddhau eu deiliaid oddi wrth eu ufudd-dod. Ac i ddwyn y cydfwriad hyn i ben, rhyfel a ddechreuwyd yn *Ffraingc*, yn *Holand*, a mannau o *Germany*, gyd â chreulondeb anghydmarol yn erbyn y proteſtaniaid. Ond tan y fath amgylchiadau cyfyng a hyn, y tywyſogion proteſtanaidd yn *Germany* a aethant tan ammod â'u gilydd o amddiffyniad cyffredin, a gwahoddaſant frenhines *Lloegr* i'r cyngrair, yr hon am ryw reſymmau da a anfonodd at yr *Elector Palatine* i gael ei heſguſodi, ond ar yr un pryd a orchymynodd i'w *hembaſador* yn *Ffraingc* gynnyg ei chyfryngdod rhwng y brenhin a'i ddeiliaid proteſtanaidd, ond nid oedd y cydfwriad i'w dorri ar un ammodau; am hynny y frenhines er mwyn hunan amddiffyniad, ac i gadw'r ſtorom allan o'i theyrnaſoedd ei hun, a gynnorthwyodd y proteſtaniaid ag oedd mewn cyngrair, a gwŷr ac arian, fel y gwnaethai hi un waith o'r blaen.

DIWEDD.

Van Dorens
Boek 1805

John Dorey his Book